



Bodleian Libraries

UNIVERSITY OF OXFORD


This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

<http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks>



This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.



John Morgan,
ABERYSTWYTH.

John Morgan
Aberystwyth
Cardigan Shire
South Wales

Bt. Galloway, Sept. 1915.

1/5

92 e 149

CYFATEBIAETH CREFYDD,

Naturiol a Dadguddiedig,

I

GYFANSODDIAD A THREFN
NATUR.

GAN

JOSEPH BUTLER, D.C.L.,

ESGOB DURHAM.

GYDA

NODIADAU

WEDI EU DETHOL O CHALMERS, SYR W. HAMILTON, ARCHESGOB WHATELY
FITZGERALD, DR. ANGUS, &c.

GAN

Y PARCH. JOHN HUGHES,

EVERTON.

DINBYCH:

ARGRAFFWYD GAN THOMAS GEE.

—
MDCCCLIX.



BODLEIAN
6 9 1915
LIBRARY

BYWYD BUTLER.



NID oes un bywgraffiad cyflawn o Butler wedi ei ysgrifenu; ac ofer bellach ydyw dysgwyl y gwneir y diffyg hwn i fyny. Yr ydym yn gydnabyddus â phrif ffeithiau ac amgylchiadau ei fywyd; ond y mae ein gwybodaeth am y *dyn* yn yr amgylchiadau hyny yn dra phrin. Am ansawdd gyffredinol ei galon, gweithrediadau dirgelaf ei feddwl, y tentasiynau a orfuwyd ganddo, yr ammheuon yr aeth trwyddynt, nerth ei ffydd a'i gariad, nis gallwn ddywedyd nemawr. Ni wyddom ddim ond a ellir ei gasglu'oddi wrth ei *Bregethau* a'i *Gyfatebiaeth*; ac y mae yn rhaid addef, er fod ei holl ysgrifeniadau yn dangos ei fod, fel efrydydd ac awdwr, yn feddiannol ar ostyngeddwrwydd dwfn, ei fod yn ymwybodol o wendid a chyfyngder terfynau galluoedd dyn yn y fuchedd hon, ac mai cael allan y gwirionedd oedd gwrthddrych penaf ei holl ymchwiliadau, eto, fod nerth ei alluoedd meddyliol yn dyfod i'r golwg yn fwy ynddynt na theimladau, egwyddorion, ac ansawdd ei galon. Pe buasai genym ddarluniad cywir o'r dyn oddi mewn, mewn nifer o lythyrau cyfrinachol, neu ddyddlyfr wedi ei ysgrifenu ganddo, buasai yn rhodd amhrisiadwy. Ni buasai dim o barth i'r cyfryw ddyn yn fwy gwerthfawr na darluniad o deimladau dyfnaf a gweithrediadau mwyaf dirgel ei fynwes:—gwybod pa fodd yr oedd yn cymhwyso yr egwyddorion a eglura ac a amddiffyna yn ei ysgrifeniadau at ei achos personol ei hun; pa fodd yr oedd yr hwn a ymosodai mor lew a llwyddiannus ar anffyddiaeth yn y pwnc, yn cyfarfod â gwahanol ffurfiau anghrediniaeth yn ei galon ei hun. Yr ydym yn cael y bu am ugain mlynedd yn meddwl ac yn cyfansoddi y traethawd yr ydym yn awr yn ei gyflwyno i'n cydgenedl; ond, fel y dywed

yn ysgrifenydd, yr ydym yn gwbl anwybodus am effaith ei fyfyrddodau a'i ymchwiliadau ar ei enaid ei hun—am y modd y gwrthdaffai saethau gwenwynig ammheuaeth:—“Pe y gallem yn awr weled agwedd du fewnol ei feddwl, fel yr ydym, er anghraifft, yn gweled yr eiddo Johnson; pe y gallem ddilyn y cyssylltiad rhwng ei ddulliau o feddwl a'i deimladau duwiolfrydig, byddai yn gymmaint o drysor i'r byd yn mron a'r *Cyfatebiaeth* ei hunan.” Nid ychydig o ddyddordeb chwaith a fuasai rhyw gofnodau am ei arferion, fel dyn ac fel efrydydd, yn ei weinyddu: buasai yn dda gan bawb ag a astudiodd y *Cyfatebiaeth* wybod *pa fodd* y cyfansoddwyd y fath draethawd—trwy ba nifer o yrfaeodd y daeth hyd nes y cyrhaeddodd ymaddfedrwydd. Y mae, fel y dywedwyd, yn gynnyrch ei fyfyrddodau, ei ymchwiliadau, a'i sylwadaeth am dymmor mor faith ag ugain o flyneddoedd; a dywedir ei fod wedi astudio ac adolygu drosodd a throsodd bob brawddeg a phob ymadrodd yn y traethawd, a'i helaethu a'i ddiwygio, rhoddi ato a thynu oddi wrtho, fel y byddai iddo osod allan ei holl feddwl yn gyflawn, a dim yn chwaneg. Ac y mae yn hawdd gweled wrth ddarllen y gwaith yn fanwl, fod y gofal mwyaf wedi ei arfer, nid yn unig i farnu a phwyso y meddyliau, ond hefyd i osod y meddyliau allan, a'u gosod allan yn y modd cyflawnaf, mwyaf manwl, eglur, ac mewn mor lleied o eiriau ag oedd yn bosibl. Pe ceisiai un o'r ysgrifenydd mwyaf galluog wisgo meddyliau Butler yn ei iaith ei hun, a pheidio gadael un meddwl, na rhan o feddwl, allan, gwelid y chwyddai y traethawd i lawer mwy o faintioli. Felly, gan na wyddom ond ychydig am arferion a theimladau Butler fel dyn, Cristion, ac awdwr, ni a roddwn ger bron ein darllenwyr gymmaint o hanes amgylchiadau ei fywyd ag a allasom gasglu.

Joseph Butler a anwyd yn Wantage, yn swydd Berk, ar y 18fed o Fai, 1692. Ei dad, Thomas Butler, oedd fasnachwr parchus a chyfoethog yn y dref hono, ac a berthynai i'r Ymneillduwyr. Wrth weled yn ei fab ieuangaf, Joseph, arwyddion o alluoedd cryfion, a thuedd at ddysgeidiaeth, penderfynodd ei ddwyn i fyny i'r weinidogaeth yn mvsg y Presbyteriaid. Ar ol

myned trwy gwrs priodol o addysgiaeth yn Ysgol Ramadegol Wantage, yr hon oedd dan olygiaeth y Parch. Philip Barton, anfonwyd ef i athrofa ymneillduol, a gedwid yn y cyfamser yn Gloucester, ond a symmudwyd wedi hynny i Tewkesbury. Prif athraw y sefydliad hwn oedd Mr. Samuel Jones, yr hwn a ystyrir yn ŵr o alluoedd a dysgeidiaeth uchel. Yr oedd yn mysg ysgolorion y gŵr hwn amryw a droisant allan yn ddynion enwog—rhai yn yr Eglwys Sefydledig, ac ereill yn mysg Ymneillduwyr. Heb law Butler, gellir crybwyll enwau Jeremiah Jones, awdwr y gwaith rhagorol ar *Ganon* yr Ysgrythyrau; Dr. Lardner, awdwr y *Credibility of the Gospels*; Dr. Maddox, esgob Worcester; Samuel Chandler; a Secker, archesgob Caergaint. Pan yn Tewkesbury, gwnaeth Butler gynnydd mawr mewn gwybodaeth dduwinyddol ac uchaniafol (*metaphysical*), o'r hyn y rhoddes brawf nodedig yn ei lythyrau at Dr. Samuel Clarke. Yr oedd gwaith y diweddaf ar *Fod a Phriodoliaethau Duw* bron newydd ymddangos, ac ar y pryd yn ennill sylw cyffredinol. Teimlai Butler ammheuaeth o barth cywirdeb y chweched a'r seithfed o osodiadau Clarke; sef, y gosodiadau "ar Hollbresenoldeb" ac "Undod Duw;" ac arddangosodd y fath nerth a threiddgarwch meddwl, a'r fath foneddigeiddrwydd ysbryd, fel yr ennillodd ei lythyrau sylw ebrwydd oddi wrth y doethawr; ac y mae y dull yr atebai Clarke ei lythyrau, a'r ffaith ei fod wedi cyhoeddi yr ohebiaeth mewn argraffiadau dilynol o'r traethawd, yn dangos ei fod yn gweled gwerth yn awgrymiadau ei ohebydd ieuanc. "Cynnwysa y llythyrau," medd Syr James Mackintosh, "wrthddadleuon nas gallesid eu hateb, ac arddangosant y fath dreiddgarwch, na ragorwyd arno ganddo ef ei hun na chan neb arall." O ddeutu yr amser hwn, dechreuodd ammheuon gyfodi yn meddwl Butler o barth ei anghydfurfiaeth, a'r priodoldeb iddo gymmeryd ei ordeinio yn weinidog gyda'r Ymneillduwyr. Gwnaeth ymchwiliad pellach i egwyddorion Ymneillduaeth, yr hyn a ddybenodd yn ei ymuniad â'r Eglwys Sefydledig. Yr oedd y bwriad hwn, fel y gallesid dysgwyl, ar y cyntaf, yn groes i ddymuniad ei dad; ac i'r dyben o droi ei feddwl oddi wrth hyn, galwodd am

gynnorthwy rhai o weinidogion mwyaf enwog y Presbyteriaid i'w ddarbwylllo, a sefydlu ei ffydd yn egwyddorion eglwysig ei rieni; ond wrth weled ei fod wedi chwilio y mater yn bwyllus drosto ei hun, a bod ei benderfyniad wedi ei sefydlu, goddefodd iddo symmud i Rydychain, a derbyniwyd ef ar yr 17eg o Fawrth, 1714, yn aelod o goleg Oriel. Nid yw yn hysbys pa bryd na chan bwy y derbyniodd ei urddau; ond ymddengys y cymmerodd hyn le yn fuan ar ol iddo fyned i Rydychain. Ffurfiodd yn yr adeg hon gyfeillgarwch âg Edward Talbot, mab Dr. W. Talbot, esgob Durham. Yn 1718, trwy ddylanwad Mr. Talbot a Dr. Clarke, appwyntiwyd ef gan Syr Joseph Jekyl yn bregethwr yn nghapel y *Rolls*, Llundain. Nid oedd yn awr uwch law y 26ain mlwydd o'i oedran; a bu am dair blynedd ar ol hyn heb gymmeryd ei raddau yn y brifysgol. Parhaodd Butler mewn cyssylltiad â'r *Rolls* hyd 1726, pryd y cyhoeddodd, mewn cyfrol wythplyg, ei *Bymtheg Pregeth*. Yn y cyfamser, yr oedd meddwl ei gyfaill Secker wedi myned dan gyfnewidiad cyffelyb gyda golwg ar anghyddfurfiaeth; ac ar ei wely angeu, cyflwynodd eu cyfaill, Mr. Edward Talbot, y ddau i ffafr a noddaeth ei dad. Y canlyniad fu, i'r esgob roddi bywoliaeth Houghton i Butler, a bywoliaeth Houghton-le-Spring i Secker. Yn lled fuan, cafodd Butler fywoliaeth Stanhope, yn yr un esgobaeth, yn chwanegol at Houghton. Yr adeg yma o'i fywyd y dechreuodd astudio y *Cyfatebiaeth*. Tra yr arosodd mewn cyssylltiad â'r *Rolls Chapel*, rhanai ei amser rhwng ei ddyledswyddau yn y ddinas ac yn y wlad; ond ar ol rhoddi ei swydd yn y cyntaf i fyny, gwnaeth ei drigfa yn gwbl am saith mlynedd yn Stanhope, a chyflawnodd ei holl ddyledswyddau fel gweinidog plwyfol yno gyda ffyddlondeb a diwydrwydd diball. Yr oedd ei unigedd, pa fodd bynag, yn Stanhope, yn tueddu i wneyd argraff anffafriol arno, yn gymmaint a bod ei dymmer yn naturiol yn gogwyddo at fod yn drymaidd a phruddglwyfus. Dywedir y teimlai yn ddwys oddi wrth ei ysgariaeth oddi wrth ei brif gyfeillion, cymdeithas y rhai a lonai ei ysbryd yn fawr. Yr oedd Mr. Secker, gan hyny, oddi ar wybod nad oedd y fath unigedd yn fantais i'w gyfaill, yn

dra awyddus am iddo gael ei sefydlu mewn lle mwy bywiog, ac mewn cylch a fyddai yn fwy cydunol â'i dueddiadau. Yr oedd Secker, yn y cyfamser, wedi ei appwyntio yn gaplan i'r brenin; ac unwaith, mewn ymddyddan â'r frenines Caroline, cymmerodd achlysur i ddwyn enw Butler i'w sylw. Dywedodd y frenines ei bod yn meddwl ei fod wedi marw; ac heb gael ei llwyr foddloni gan gadarnhâd Secker i'r gwrthwyneb, ymofynodd ei hunan â'r archesgob Blackburn, yr hwn a'i hatebodd: "Nid yw Butler wedi marw, ond y mae wedi ei gladdu"—gan gyfeirio at ei unigedd a'i anghyhoeddusrwydd. Pan wnaed Mr. Charles Talbot yn arglwydd ganghellydd, enwodd Secker ei gyfaill fel un teilwng o'r anrhydedd o fod yn gaplan iddo. Anfonodd ei arglwyddiaeth am dano; ac ar unwaith â'r dyrchafiad hwn, cafodd y gradd o Ddoethawr yn y Gyfraith (LL.D.), yn Rhydychain. Gwnaeth y canghellydd ef hefyd yn brebendur Rochester; a chydsyniodd ar fod iddo drigo yn mhlwyf Stanhope am chwe mis yn y flwyddyn.

Ar ol ei adgyfodi megys o fedd anghyhoeddusrwydd, daeth ei enw a'i alluoedd i ennill sylw arbenig. Yn 1736, gwnaed ef yn gaplan (*clerk of the closet*) i'r frenines; a chan ei bod yn feddiannol ar duedd ymchwilgar, ac archwaeth at gwestiynau athronyddol, gofynai am bresennoldeb Butler am ddwy awr bob dydd. Yn yr un flwyddyn, cyflwynodd i'w mawrhydi gopi o'i draethawd ar *Gyfatebiaeth Crefydd*. Ar ei marwolaeth, cyflwynodd Caroline Butler i sylw a ffafr ei phriod, Sior II.: ac ni bu hyn yn ofer; o blegid yn 1738, dyrchafwyd ef i urddau uchaf yr Eglwys Sefydledig, trwy ei enwedigaeth i esgobaeth Bristol. Rhoddodd y brenin ddeoniaeth St. Paul, Llundain, iddo yn chwanelgol. Yn 1746, ar farwolaeth Dr. Egerton, esgob Hereford, gwnaed Butler yn *clerk of the closet* i'r brenin; ac yn 1750, symmudwyd ef i esgobaeth Durham. Testyn y cynghor cyntaf a draddododd i glerigwyr ei esgobaeth oedd, "Crefydd Allanol." Yr oedd adfeiliad crefydd yn y deyrnas yn peri pryder mawr i'w feddwl; ac i wrthweithio y duedd ddigrefydd a ffynai trwy y wlad yn gyffredinol, argymhellai, fel un moddion tuag at welliant, weddeidd-dra, trefn, a gofal gyda

ffurfiau a sefydliadau allanol crefydd, gan feddwl y byddai hyn yn wasanaethgar i ryw fesur i ddwyschau defosiwn, a chryfhau y teimlad o rwymedigaethau crefydd yn meddyliau dynion. Bu y sylwadau a wnaeth ar hyn, fodd bynag, yn achlysur iddo gael ei gamddarlunio: ymosodwyd arno gan amryw bersonau fel un yn llefaru yn rhy ffafriol am ddefodau paganaidd a Phabaidd; a chyhuddid ef o gefnogi achos ofergoeledd a ffurfioldeb. Ond nid oedd mwyafrif clerigwyr ei esgobaeth yn barnu fod y cyhuddiadau hyn yn gywir am dano. Yn lled fuan ar ol ei sefydlu yn esgobaeth Durham, dechreuodd ei iechyd lesgau. Tra yn ymostyngar iawn i ewyllys Duw yn ei gystudd, eto, dywedir ei fod yn dadgan ei ofid am ei fod yn debyg o ymadael â'r byd hwn mor fuan ar ol ei ddyrchafiad i sefyllfa y gallasai fod mor ddefnyddiol ynddi. Yn ei afiechyd, dygwyd ef i Bristol, i ddefnyddio dyfroedd y lle hwnw. Symmudodd wedi hyn i Bath, lle y bu farw ar yr 16eg o Fehefin, 1752. Claddwyd ef yn eglwys gadeiriol Bristol, lle y dodwyd maen marmor uwch ben ei fedd, ac arysgrifen coffadwriaethol am dano gan ei gaplan, Dr. Nathanael Forster. Yn 1834, cyfodwyd cofgolofn am dano, yn eglwys gadeiriol Caerodor, ac arni yr argraff a ganlyn gan Dr. Southey:—

“Er Coffadwriaeth

AM

JOSEPH BUTLER, D.C.L.

AM DDEUDDENG MLYNEDD, ESGOB YR ESGOBAETH HON,

AC WEDI HYN

ESGOB DURHAM,

Rhan farwol yr hwn a roddwyd i orwedd yn nghanell yr eglwys gadeiriol hon. Sefydlodd ereill seiliau hanesyddol a phrophwydol y grefydd Gristionogol, a'r dystiolaeth sicr hono o'i gwirionedd a ganfyddir yn ei chyfaddasrwydd perffaitli i galon dyn. Iddo ef y gadawyd y gwaith o osod allan ei chyfatebiaeth i gyfansoddiad a threfn natur; a chan ddodi i lawr ei seiliau cedyrn yn nyfnderoedd y ddadl fawr hono, i adeiladu arnynt brawf arall anmhosibl i'w ddadymchwelyd; ac fel hyn, gwnacth athroniaeth yn wasanaethgar i ffydd; a chanfyddodd, mewn pethau allanol a gweledig, gysgod a phrawf pethau sydd o'r tu mewn i'r llen. Ganwyd ef B. A. 1692. Bu farw 1752. 'Gall yr hwn sydd yn credu fod yr Ysgrythyrau wedi dyfod oddi wrtho Ef sydd yn Awdwr natur, yn naturiol ddysgwyl cyfarfod â'r un math o anhawsderau ynddynt ag a ganfyddir yn nghyfansoddiad natur.'—*Origen, Philocal.*, td. 23.

O barth i'w gymmeriad, ei ymddygiadau, a'i arferion, nid oes genym ond ychydig o gofnodau. Y mae traddodiad yn Stanhope am dano, yr arferai farchogaeth yn gyflym ar ferlyn du. Treuliai ei amser yn dra neillduedig; dangosai haelioni mawr i'r angenus, a chai ei folestu yn gymmaint gan gardotwyr, fel y dychwelai i'w dŷ cyn cwblhau ei adloniant, er mwyn ymwarded a llongyddwch. Dywed Miss Talbot am dano:—"Er pan ydwyf yn gallu cofio, adnabyddwn ef fel cyfaill tyner a serchus, fel cynghorwr ffyddlawm i mi pan oeddwn hyd yn oed yn blentyn, fel y cydymaith mwyaf hyfryd, ar gyfrif lledneisrwydd ei feddwl, ei foneddigeiddrwydd trwyadl, ei wybodaeth eang am y byd, a rhyw nodweddau arbenig ynddo na chyfarfyddir â hwynt yn neb arall. Ac yr oedd yr holl bethau hyn yn cyfarfod mewn dyn ag yr oedd purdeb ei ymddygiadau ac addurniant ei athrylith yn ei restru yn mysg y dosbarth uchaf o ddynion." "Yn ystod yr amser y bu yn esgobaeth Durham," medd Surtees, "yr oedd pob calon yn ei garu. Yn ei flynedd-oedd diweddaf, cadwodd yr un cymmeseidd a gwyllder diffuant, a'r addfwynder oedd yn gynhenid yn ei dymmer." "Yr oedd ganddo olwg ac ymddangosiad o'r math mwyaf parchedig," medd Hutchinson; "ei wyneb oedd yn welw a theneu; ond yr oedd rhyw dawelwch aruchel yn ei wedd a barai i bawb ei barchu, ac ydoedd yn arddangosiad o'r meddwl mwyaf cymmwynasgar a haelfrydig. Crogai ei wallt gwyn mewn modd prydfarth ar ei ysgwyddau; ac yr oedd ei holl ystum yn batriarchaidd."

Yr oedd o duedd naturiol, fel y dywedwyd, yn bruddaidd: yr oedd ganddo chwaeth gref at gerddoriaeth, yr hyn a barai iddo ddifyrwech mawr yn ei oriau mwyaf hamddenol. Ni siaradodd unwaith yn y senedd, er yr äi yno yn gysson. Ni theimlai nemawr o ddyddordeb mewn gwleidyddiaeth, yr hyn a barodd i Horace Walpole ddweyd am dano "ei fod wedi ei drosglwyddo i esgobaeth Durham mewn cwmwl o athroniaeth, ac wedi aros o'r golwg ynddo." Yr oedd yn ddyn mwy cydwybodol, a manwl yn ei ymddygiadau, nag o efengylaidd yn ei syniadau. Yr oedd ei holl arferion yn syml a chymmesur;

anghefnogai bob gwastraff, a threuliai y rhan fwyaf o'i gyflog mewn adeiladu ac adgyweirio eglwysdai ei esgobaeth, ac estyn pob cynnorthwy i achosion teilwng. Er na bu erioed yn briod, ac nad oedd ganddo ond ychydig o weinidogion, nid oedd ganddo o gyfoeth yn niwedd ei ddyddiau gymmaint a hanner ei gyflog am un flwyddyn.

Adroddir yr ymddyddan a ganlyn a gymmerodd le rhyngddo ef a'i gaplan yn ei ddyddiau olaf:—"Er fy mod," meddai yr esgob, "wedi ymdrechu fy ngoreu i ymgadw rhag pechod, ac i foddloni Duw, eto, oddi ar ymwybyddiaeth o wendidau parhaus, y mae arnaf gryn ofn marw." "Fy arglwydd," ebe'r caplan, "yr ydych wedi anghofio fod Iesu Grist yn Waredwr." "Gwir," ebe yntau, "ond pa fodd y gallaf wybod ei fod yn Waredwr i mi?" "Fy arglwydd, y mae yn ysgrifenedig, 'Pwy bynag a ddel, nis bwriaf ef allan ddim.'" "Gwir," medd yr esgob; ac yr wyf yn rhyfeddu fy mod, er wedi darllen yr Ysgrythyr yna fil o weithiau drosodd, erioed heb deimlo ei rhinwedd hyd y fynydd hon: ac yn awr, yr wyf yn marw yn ddedwydd."

Hynodid meddwl Butler gan dreiddgarwch ei welediad, a chan eangder ei amgyffrediad. Yr oedd ei allu i ganfod gwahaniaethau cywrain, ac i ddadgyfansoddi, fel ag i ddangos elfenau cyntaf unrhyw gyfundrefn, o'r radd uchaf (*analysis*). Ond yn gyssylltiedig â hyn, yr oedd ganddo allu arall mor, os nad mwy, gwerthfawr; sef y gallu i adeiladu, i gasglu yr elfenau cyntaf, i fesur eu cyfartaledd, ac i'w huno yn un cyfanwaith ymresymiadol (*synthesis*). Y mae yn bosibl fod y naill o'r galluoedd hyn yn meddiant dyn, heb fod y llall. Nid pob un a all dynu oriawr oddi wrth ei gilydd, a all hefyd roddi gwahanol ranau y peiriant yn eu lle priodol drachefn. Trwy y gallu dadgyfansoddol, canfyddai *wahaniaethau* pethau; a thrwy y gallu cyfansoddol, canfyddai *debygrwydd* neu *gyfatebiaeth* pethau. Yn ei *Bregethau ar y Natur Ddynol*, y mae yn edrych arni, yn gyntaf, fel *cyfundrefn* neu *gyfansoddiad*; yna, y mae yn ei dadgyfansoddi i'w hegwyddorion, ei theimladau, a'i nwydau, cyntaf. Ar ol ei dadgyfansoddi, er mwyn canfod y

gwahaniaethau sydd rhwng yr egwyddorion cyntaf hyn, edrycha arnynt yn eu hundeb â'u gilydd, olrheinia bob rhan i'w lle, rhydd iddi ei phwysigrwydd priodol, a dengys ddibyniad y naill ar y llall, a darostyngiad y cyfan i'r hyn—y mae yn cael allan yn y modd hwn—ydyw y gynneddf lywodraethol mewn dyn, sef ei GYDWYBOD. Y mae yn tynu peiriant y meddwl megys oddi wrth ei gilydd, i astudio ei elfenau cyntaf bob yn un ac un, er mwyn gallu rhoddi eu lle a'u pwysigrwydd i bob rhan; ac yna rhydd y cyfan yn nghyd drachefn, gyda'r dadganiad pwysig mai y GYDWYBOD sydd yn meddu hawl yn ol ei natur i lywodraethu yr holl deimladau ereill, heb gymmeryd ei llywodraethu gan un.

O barth i'r traethawd ar *Gyfatebiaeth Crefydd*, tra yr addefa pawb ei fod yn llyfr i bob oes, a bod yr egwyddorion a drinir ynddo gyda'r fath nerth a medrusrwydd yn egwyddorion mor fawrion a chyffredinol, fel y gellir eu defnyddio mewn rhyw ddull neu gilydd i gyfarfod pob ffurf ar anffyddiaeth; eto yr oedd yn oes Butler ei hun angen neillduol am y traethawd hwn. Dyma y traethawd mwyaf priodol a chyfaddas a allasai y meddwl doethaf ei gynllunio i ymosod ar ysbryd annuwiaidd, ysgafn, a gwatwarus yr oes hono. Yr oedd moesau y genedl yn y dyddiau hyny yn y cyflwr iselaf. Yr oedd boneddig a gwreng wedi cydsoddi i anghrefydd a llygredigaeth. Ni bu teimlad moesol cenedl a ymgyfenwai yn genedl Gristionogol un amser mewn unrhyw wlad yn is nag oedd yn Mhrydain yn nheyrnasiad Siarl yr Ail, ac yn yr oes ddilynol. Y penadur hwn oedd Ieroboam Prydain; fel y gwnaeth hwnw i Israel bechu, felly y gwasanaethodd Siarl, trwy ei wawd o grefydd, ac anmhuredd moesau ei lys, a'i drythyllwch diarebol ei hun, tu hwnt i bawb o'i flaen ac ar ei ol, i lanw y wlad a phob rhysedd ac annuwioledeb. Syrthiodd rhinwedd, sobrwydd, a gwedd-eidd-dra, yn esgymun-bethau yn ngolwg y mawrion; yr oedd crefydd efengylaidd yn beth dyeithr yn mron yn y deyrnas, a'i hymarferion purion yn cael, nid yn unig eu coledd gan ychydig nifer, ond yr oedd yr ychydig hyny a feddent ar gydwybod i Dduw, ac a geisient drefnu eu ffyrdd yn iawn, yn wrthddrychau

dirmyg o herwydd hyny. Cyflawnid yr ysgelerderau gwrthunaf heb wrido; yr oedd pechod yn yr oes hon wedi ei ysgaru oddi wrth ei gydymaith—cywilydd; ymffrostiai y bendefigaeth yn y gweithredoedd aflanaf, os byddai y cyflawniad o honynt yn gyssylltiedig â graddau o ddehurwydd mewn cynlluniau ystrywgar. Yr oedd y dichellion carwriaethol mwyaf gwarthus—ymddygiadau anhur nad all y dyhiryn bryntaf yn yr oes hon hoffi cyhoeddusrwydd iddynt—yn cael edrych arnynt y pryd hyny yn mysg anhebgorion gwir ŵr boneddig; a dyn dwl, diwerth i gymdeithas, is law y cyffredin mewn galluoedd ac yni cymmeriad, yr ystyrid yr hwn a ymgadwai yn ddifrycheulyd oddi wrth llygredigaeth ei oes; i.e., nid digon oedd ei warthnodi fel un diffygiol mewn ansoddau meddwl, heb ei gondemnio hefyd fel rhagrithiwr hunandybus. Gan mai dyna ansawdd moesau y wladwriaeth yn y cyfamser, y mae yn naturiol i ni gasglu pa beth oedd teimlad ac ymddygiad y deyrnas tuag at grefydd. Y mae gair Duw yn dangos yn eglur i ni fod perthynas annattodol rhwng annuwioldeb a llygredigaeth. Y mae y “puteiniwr” a’r “halogedig” bob amser yn gyssylltiedig â’u gilydd. Y mae diystyrwch o grefydd a dibrisdod o bethau mawrion, tragwyddol, yn rhagflaenu llwyr gaethiwed person unigol, a chasgliad o bersonau mewn cymdeithas, gan bechodau y cnawd. Pan ymedy ofn Duw o galon neu o wlad, y mae y ffeidd-derau mwyaf adgas yn barod i’w hanrheithio a’i darostwng. Ac y mae ymollwng i drachwantau ar y llaw arall yn gweithio yn ol i gyfnerthu annuwiaeth y galon. Y mae ymddyethrad oddi wrth fuchedd Dduw yn cymmeryd lle yn yr un personau ag y dywedir am danynt eu bod “wedi diddarbodi, ac ymroi i drythyllwch, gan wneuthur pob aflendid yn un chwant.” Felly, y mae aflendid ar unwaith yn rhiant ac yn blentyn anffyddiaeth. Yr oedd Siarl ei hun, ei llys, a chorff ei ddeiliaid yn brofion o hyn. Ymledodd yr haint o dŷ y brenin trwy yr holl wlad. Yr oedd y masweddwyr a gyrchent yn heidiau i’r llys, a fwytaent ar ei fwrdd, ac a wneithient iddo ef a’i ordderchadon er mwyn swyddau, wedi dysgu gwawdio Cristionogaeth a Phuritaniaeth yn well na dim oddi gerth

arddangos trwy eu bucheddau cywilyddus eu mawr angen am danynt; nid ystyrient y dadguddiad dwyfol, a'r pethau a fyddant ar ol hyn, yn werth i wŷr o'u bath fyned i'r drafferth o feddwl am danynt. Ymledodd dylanwad y llys, fel y dywed-asom, trwy yr holl genedl. Daeth y prifysgolion a'r colegau i deimlo oddi wrtho yn fuan; ac ni welwyd un cyfnod yn hanes Prydain pan oedd anffyddiaeth mor gyffredinol, ac yn rhodio ar hyd a lled y wlad gyda gosgedd mor feiddgar. Yr ydoedd y cyfryw ffurf ar anffyddiaeth ag a gydwedddai âg ysbryd oferwag, anystyriol, a difeddwl yr oes: ni thalai ddim gwarogaeth, nid yn unig i grefydd, ond hyd yn oed i reswm, athroniaeth, a gweddeidd-dra ymddygiadau. Yr oedd yn ddarlun o feddwl a chymmeriad Siarl ei hun.

Yr oedd crefydd efengylaidd yn y cyflwr iselaf yn mysg pob plaid o Gristionogion trwy y deyrnas. Yn lle "cynghor Duw," a gwirioneddau bywydol yr efengyl; y gwirioneddau ag y mae eu dal allan a rhoddi arbenigrwydd iddynt yn y weinidogaeth yn anhebgorol angenrheidiol, nid yn unig i gadw eneidiau rhag angeu tragwyddol, ond hefyd i ddiogelu moesau personau a gwledydd—yn lle y gwirioneddau mawrion sydd yn gwneyd yr efengyl "yn allu Duw er iachawdwriaeth," ac yn offerynoliaeth effeithiol, a'r unig un, i ddyrchafu moesau dynion—ni chlywid o bulpudau yr Eglwys Sefydledig yn y blyneddoedd hyn lemawr ddim ond gwersi manwl ac athronaidd ar foesau; a benthycid y cymhelliadau i iawn ymddygiadau tuag at Dduw a dynion oddi wrth "ddoethineb y byd hwn," oddi wrth gallineb bydol, ac ystyriaethau yn derbyn eu grym oddi wrth hunanles. Anfynych y teimlai y gwrandawyr nerth anghymharol cymhelliad mawr yr efengyl i sancteidrwydd buchedd. Nid oedd "cariad Crist," a gwerth y pryniad, yn cael eu dwyn ger eu bron gyda'r fath nerth a goleuni ag y pregethasid hwynt gan y Puritaniaid yn yr oes flaenorol. Y mae yn wir y traddodid pregethau dysgedig gan urddasolion yr Eglwys Sefydledig ar athrawiaethau yr efengyl; ond trinig hwynt fel pynciau dadleuol, a chedwid o'r neilldu eu perthynas â chyflyrau dynion i fesur mawr. Pan bregethid dyledswyddau a moesau Cristionogaeth, ysgerid hwynt

oddi wrth y gwirioneddau ydynt y prif gymhellion i'r ymarferiad o honynt; a phan ymdrinid â'r athrawiaethau drachefn, anghofid eu bod yn *aliu*; anfynych y dygid hwy i ymwneyd â'r galon a'r gydwybod. Nid oedd dynion grymusaf pulpudau y sefydliad gwladol yn yr oes hon wedi dysgu y gorchwyl anhawdd o bregethu ymarferiadau crefydd a moesoldeb yn eu cyssylltiad âg athrawiaethau sylfaenol yr efengyl, a phregethu yr athrawiaethau yn y nerth sydd ynddynt fel cymhellion i'r ymarferiadau hyny. Nid oedd agwedd pethau yn mysg yr Ymneillduwyr nemawr gwell. O ddeutu yr amser hwn y cyhoeddodd Doddridge ei *Free Thoughts on the most probable Means of reviving the Dissenting Interest, occasioned by the late Inquiry into the Causes of its Decay*. Yr oedd John Wesley a George Whitfield, Daniel Rowlands a Howell Harris, heb dderbyn yr "alwedigaeth nefol" eto; ac nid oedd un o honynt wedi cymmaint a meddwl unwaith fod yr Arglwydd ar fedr gwneuthur peth mor fawr trwy eu hofferynoliaeth hwy. Gan fod gwir grefydd mewn cyflwr mor isel, gweinidogaeth yr efengyl wedi peidio a bod yn allu, ac agwedd foesol pob dosbarth o'r genedl mor ddirywiedig nid ydym yn synu am fod Butler yn rhoddi darluniad mor bruddaidd o dueddiad anffyddol y wlad yn y cyfamser:— "Cymmerir yn ganiataol gan luaws o ddynion nad ydyw Cristionogaeth yn gymmaint a thestyn o ymchwiliad, ond fod yn ddigon amlwg weithian mai ffug ydyw; ac felly, ymddygant ati fel pe byddai hyn yn fater ag y mae pawb o synwyr a barn wedi cytuno arno, ac nad oes bellach ddim i'w wneyd ond codi Cristionogaeth i fyny fel prif destyn gwawd a dirmyg, yn fath o ad-daliad am iddi am gyhyd o amser sefyll yn ffordd pleserau y byd." Dywed Warburton hefyd am yr un cyfnod:—"Yr ydwyf wedi byw i weled yr argyfwng dinystriol hwnw, pan y mae crefydd wedi colli ei gafael ar feddyliau y bobl." Fel cynnyrch oddi ar ysbryd annuwiaidd yr oes, ac fel cynnorthwyon i'w gynnyddiant, ymddangosodd amryw weithiau anffyddol, y rhai ydynt yn hynod, hyd yn oed yn mysg ysgrifeniadau gwrthgredwyr, am eu beiddgarwch. Ymosodai awdwyr y llyfrau hyn ar Gristionogaeth o wahanol safleoedd. Cyfeiriai Wollaston

ei wrthddadleuon ef yn erbyn gwyrthiau yr Ysgrythyrau. Gwadau Tindal yr angenrheidrwydd am ddadguddiad. Dadleuau Collins yn erbyn ei phrawf oddi wrth brophwydoliaeth. Yn ddiattreg, daeth i'r maes lu ardderchog o amddiffynwyr i brofion ein crefydd, ac yn eu mysg rai o brif feddyliau yr oes; nid amgen, Chandler, Lardner, Sherlock, a Bentley. Cyhoeddwyd ugeiniau o gyfrolau ar y ddadl; ond rhaid rhoddi y flaenoriaeth i *Gyfatebiaeth Butler*: dyma y mwyaf treiddgar, dwfn-feddylgar, a llwyddiannus o honynt oll. Tra y mae yn cadw gwrthddadleuon anffyddwyr yn wastadol o flaen ei feddwl, nid ydyw yn ymostwng i ddadleu â hwynt. Yr oedd ei athrylith o nodwedd rhy uchel i wneuthur hyny. "Yn nesaf o ran grym i'r cerydd ymarferol a roddwyd gan adfywiad crefydd i ysbryd ansanctaid yr amseroedd hyn y saif y traethawd ar *Gyfatebiaeth Crefydd*." Cedyrn athrylith yr oes hon oedd Locke, Newton, a Butler. Gwnaeth y ddau gyntaf argraff iachusol ar feddyliau dynion: yn annibynol ar y darganfyddiadau a'r gwirioneddau yn y byd allanol ac yn myd y meddwl a ddygasant i sylw, yr oedd y ffaith eu bod yn feddylwyr mawr a dwfn, ynnddi ei hun, yn ddaioni dirfawr. Oes arwynebol oedd eu hoes; yr oedd y wlad yn dwyn delw ei phenadur mewn ysgafnder ac anfeddyl-dra. Yr oedd dwysder, difrifwch, ac ystyriaeth, wedi colli; a phawb, yn foneddig a gwreng, yn treulio eu hamser mewn oferedd a meddwdod meddwl; ac felly, yr oedd angen am ddynion tebyg i Locke a Newton i ymaffyd yn ngwar y genedlaeth hono, i'w dwyn ati ei hun, i'w hysgytio i ystyriaeth, ac i feithrin ynnddi arferion o feddwl yn ddwys a dwfn. Ond yr oedd angen neillduol arni am y fath ddyn a Butler, yr hwn nid oedd yn ol mewn athrylith i'r ddaau ereill: yr oedd ei eisieu ef i sobri meddwl gwagsaw y genedl; i "ddwyn crefydd o balas tywysog gwatwarus o flaen mainc barn sobr, ac i ddangos nad oedd Cristionogaeth yn anhaeddiannol o ymchwiliad difrifol."



Y CYFATEBIAETH.

ADDEFIR yn gyffredin fod y traethawd a gyflwynir yn bresennol i'n cenedl, mewn diwyg Gymreig, wedi gwneuthur mwy i gau safnau anffyddwyr nag un llyfr a gyhoeddwyd erioed mewn amddiffyniad i grefydd naturiol a dadguddiedig. Gellir edrych arno fel "tŵr arfau," yr hwn sydd yn gyflawn o bob math o arfogaeth i gedyrn Cristionogaeth. Y mae pob ymddiheurad o'i phlaid, a ysgrifenyddwyd o ddyddiau Butler hyd yr awr hon, yn ddyledus iddo am egwyddorion ac awgrymau, a dulliau o feddwl ac ymresymu; a thra yr oedd yn neillduol o gyfaddas i gyfarfod ffurfiau neillduol gwrthgreddaeth yn yr oes y cyfansoddwyd ef, y mae, ar gyfrif cyffredinolrwydd ac eangder ei olygiadau, a'i amddifadrwydd o wedd ddadleuol, yr un mor gyfaddas i gyfarfod pa ffurf bynag yr ymrithia ysbryd anffyddiaeth ynddo mewn unrhyw oes. Fel nad yw agweddau newyddion annwbiaeth yn ddim ond yr hen wrthddadleuon mewn ffurfiau newyddion; felly hefyd, y mae egwyddorion llydain, cyffredinol, a thragwyddol y *Cyfatebiaeth* yn gymhwysadwy at yr holl agweddau hyny. Dyn o feddwl cyffelyb i Butler, wedi yfed yn helaeth o'i ysbryd, ac astudio egwyddorion ei *Gyfatebiaeth* yn drwyadl, a fyddai yr un mor alluog i ddadymchwel anffyddiaeth yr oes hon ag ydoedd Butler ei hun i gyfarfod âg anffyddiaeth mwy garw, anianol, a chabledus ei ddyddiau ef. Gellir olrhain prif ddadleuon anffyddwyr pob oes i'w *rhagdybiar* hwy eu hunain am natur a gweithredoedd Duw, a'u hanghydweddiad a thystiolaeth y dadguddiad dwyfol am danynt. Tybiant hwy fod yn *rhaid* i Dduw feddwl a gweithredu fel a'r fel: troant i'r Beibl—y llyfr sydd yn profesu bod yn ddadguddiad o feddyliau a gweithredoedd y Goruchaf—a gwelant mai nid eu meddyliau hwy yw ei feddyliau ef, ac nad yw y rhagsyniadau a feddent hwy am yr hyn oedd yn *rhaid* i Dduw ei wneuthur, a pheidio ei

wneuthur, yn gysson â'r hyn a fynega ei air; ac am hyny, gwrthodant y diweddaf. Yn awr, y mae Butler, trwy ddangos anghymhwysder hollol y meddwl dynol i ffurfio rhagdybiau am natur a ffyrdd Duw—fod dyn yn greadur o amgyffrediad a gwybodaeth annhraethol rhy fach i eistedd mewn barn uwch ben goruchwyliaethau yr Anfeidrol, ac i ddywedyd y *dylai* y peth hwn fod fel hyn, ac y *rhaid* i'r peth acw fod fel arall—yn cloddio dan seiliau pob ffurf ar anffyddiaeth. Cyfeiria Butler y gwrthddadleuwr yn erbyn crefydd at gwrs natur, yr hwn y mae efe yn addef ddarfod iddo ddyfod oddi wrth Dduw; a dangosir iddo yma yr un anhawsderau ag sydd mewn crefydd; dywed wrtho fod yr un gwrthddadleuon yr un mor gymhwysadwy at natur, yr hon sydd yn ffaith weledig o flaen ei lygaid, a'i gweinyddiadau yn disgyn yn feunyddiol o fewn cylch ei sylwadaeth a'i brofiad; a chan fod natur, er yr holl anhawsderau hyn, yn *bod*, nad yw y rhagdybiau a feddai ef am yr hyn a *ddylasai* crefydd yn gyffredinol, a Christionogaeth yn neillduol, fod, yn un wrthddadl yn ei herbyn. A chan fod natur yn bod, er yr holl anhawsderau a'r anghyssonderau ymddangosiadol a welir yn ei chyfansoddiad; a chan nad ydynt hwy yn ddigonol i siglo ffydd y Deist yn nwyfol darddiad y greadigaeth, ni ddylai ei ragsyniadau o barth crefydd a Christionogaeth effeithio yn y mesur lleiaf arno i beri iddo ei hanghredu. Os ydyw am wrthod y dadguddiad dwyfol ar gyfrif ei anhawsderau, i fod yn gysson âg ef ei hun, dylai yr anffyddiwr wrthod y dwyfol mewn natur, am fod yr un anhawsderau ynddi hithau. Os nad yw yn foddllawn i hyn, dylai ddywedyd pa ham a pha fodd y mae yn gallu credu y dwyfol mewn natur, er gwaethaf yr holl anhawsderau, tra nas gall gydnabod y dwyfol mewn Cristionogaeth, gydag anhawsderau cyffelyb. Felly, i fod yn gysson âg ef ei hun, nid oes gan yr anffyddiwr yr ysgrifena Butler yn ei erbyn ond un o ddau gwrs i'w gymmeryd—cydnabod Awdwr natur yn Dduw y gras ac yn Awdwr Cristionogaeth; neu, ar ol ei gau allan o deml dadguddiad, ei gau allan hefyd o'i fyd ei hun.

Y mae yn amlwg mai nid amcan Butler oedd ysgrifenu yn erbyn Duw-wadwyr; ond yn erbyn dynion a gydnabyddent y

bod o Duw, ac a addefent yr egwyddorion a gesglir oddi wrth greadigaeth a rhagluniaeth. Dengys fod cyssondeb a chydwybod yn galw am i'r rhai a gredant grefydd natur gredu Cristionogaeth hefyd, ac nad oes yr un tir canol rhwng ymwrthodiad â phob crefydd a chyflawn dderbyniad o grefydd naturiol a dadguddiedig. Ië, y mae Butler yn myned yn mhellach na hyn, ac yn dangos, pe coleddai dyn syniadau y Duw-wadwr, nas gall gyrhaedd sierwydd felly nad oes byd ar ol hwn ac nad oes dedwyddwch a thrueni yn y byd hwnw. O herwydd, gan fod dynion yn bod unwaith, hyd yn oed ar egwyddorion atheistiaeth, gallant ddyfod i fod eilwaith; ac os ydynt yn druenus yma, gallant fod yn fwy truenus ar ol hyn. Nid yw parhâd tragwyddol yn fwy anghysson â'r dybiaeth atheistaidd nag ydyw dechreuad amserol. Felly, nid oes dim yn fwy afresymol nag i ddyn goledd syniadau y Duw-wadwr gan dybio y gall trwy hyny gyrhaedd sierwydd nad oes byd ar ol hwn.

Nid amcan y *Cyfatebiaeth* chwaith ydyw gwneyd i ffwrdd â'r anhawsderau sydd yn perthyn i natur a dadguddiad; ond profi y gallant fod yn wirionedd, ac yn gynnyrch gallu a doethineb dwyfol, er yr anhawsderau hyn; y mae natur yn bod, er nas gallwn esbonio pob peth anhawdd a berthyn iddi; felly, nid yw y ffaith fod Cristionogaeth yn gylchynedig gan anhawsderau yn un ddadl yn erbyn ei gwirionedd a'i dwyfoldeb. Yn hytrach na symmud ymaith yr anhawsderau, a'u cyfarfod bob yn un ac un, y mae Butler yn arddangos gostyngeddwydd dwfn ei galon, a'r ymwybodolrwydd gwastadol a gariai gydag ef o fychandra gwybodaeth y meddwl dynol, trwy rod-di arbenig-rwydd i'r syniad nad ydym ni, creaduriaid mynyd awr, yn gymhwys i eistedd mewn barn ar ffyrdd anolrheinadwy y Goruchaf; fod dadgan o barth yr hyn a ddylai Duw wneuthur yn berffeithrwydd rhyfyg mewn creadur; y dylai un, cyn y byddai yn gyfreithlawn iddo feddwl a llefaru fel hyn, fod wedi sylwi ar, ac efrydu i fanylrwydd, holl gynlluniau y llywodraeth ddwyfol; y dylai holl amgylchiadau y mynedol, y presennol, a'r dyfodol, am amser a thragwyddoldeb, ar wahân, ac yn eu holl gyssylltiadau â'u gilydd, fod yn berffaith adnabyddus iddo.

Yn gyssylltiedig â hyn, sylwa hefyd fod yn debygol y byddai gwybodaeth eangach yn fwy o niwed i ni nag a fyddai o lesâd; ac y dichon fod yr anhawsderau sydd yn ymgymhell i'n sylw mewn natur a gras yn rhan hanfodol o'n prawf, ein haddysg, a'n dysgyblaeth yn ein sefyllfa bresennol. Ond heb law cyfarfod â'r anhawsderau hyn yn y modd yma, y mae Butler yn myned gam yn mhellach, drwy sylwi, fel y crybwyllwyd o'r blaen, fod yr hyn a dd, wedir am Dduw yn ei air, yr hyn a bâr i'r anffyddiwr ymwrthod âg ef fel ei air, yn cael ei wneuthur ganddo ef yn ei weithredoedd, y rhai, er lyny, a addefir gan yr anffyddiwr fel ei weithredoedd ef. "Buasem ni," meddai Chalmers, "yn foddolawn i wneyd i ffordd â gwrthddadl ei wrthwynebydd ar sail ei anwybodaeth; ond y mae Butler yn myned yn mhellach, ac yn ei brofi yn euog o anghyssondeb."

Felly, ni a welwn mai prif amcan y *Cyfatebiaeth* ydyw, gwrthladd gwrthddadleuon yn erbyn crefydd ddadguddiedig, ac nid sefydlu profion penderfynol o'i phlaid; dangos nas gellir ei phrofi yn ffug, yn hytrach na dwyn yn mlaen brawf cyflawn o'i gwirionedd; fod Cristionogaeth yn cyfateb i gyfundrefn o bethau sydd yn cael ei chario yn mlaen yn y bydyssawd, a bod ymosodiadau arni hi ar unwaith yn ymosodiad ar naturiaeth ac ar ei Duw. Cyfeiria Butler yr anghredadyn at gyfundrefn eang o bethau, yn bod yn awr, yn yr hon y mae pob amrywiaeth o gymmeriadau, ymddygiadau, a chanlyniadau—cyfundrefn ag y mae ei dirgeledigaethau yn aneirif, ac yn beiddio pob ymchwiliad iddynt; eto, y mae egwyddorion mawrion yn ganfyddadwy ynddi, a bys Duw yn amlwg yn ei holl oruchwyliaethau. Yn awr, os gellir dangos fod cyfundrefn Cristionogaeth yn cynnwys egwyddorion, gweithredoedd, a chanlyniadau cyffelyb; nad yw ei dirgeledigaethau hi yn fwy anhawdd eu hesbonio nag eiddo natur; ei bod yn gofyn am ymddygiad cyfatebol oddi ar law dyn—yna, y mae y tebygolrwydd uchaf ei bod wedi deilliaw oddi wrth yr un awdwr. Gan fod y gwrthddadleuon yn erbyn Cristionogaeth yr un mor gymhwysadwy at gwrs y byd, sydd yn ffaith o fewn cyrhaedd ein sylwadaeth a'n profiad, ac yn dwyn arno brofion diymwad o

Greawdwr a Llywydd galluog a doeth—y mae hyn yn brawf nas gall y gwrthddadleuon hyny feddu unrhyw rym.

Pa beth ydyw gwasanaeth y ddadl oddi wrth gyfatebiaeth? Os mai dangos gwendid gwrthddadleuon yn erbyn unrhyw gyfundrefn, a chlirio y tir oddi wrthynt, ydyw ei *phrif* wasanaeth, fel yr addefa pawb, onid oes ynddi hefyd rym fel prawf pendant? Oni all, ar ol glanhau y tir oddi wrth wrthddadleuon amherthynasol, adeiladu prawf penderfynol arno? Ac a ydyw Butler yn ymgadw yn hollol, gyda'r ddadl oddi wrth gyfatebiaeth, at ei gwasanaeth mwyaf cyfyng? Y mae y cwestiynau hyn yn rhai tra chyffredin mewn cyssylltiad â'r egwyddor o gyfatebiaeth, a dull Butler o'i thrin. Cyn myned rhagom, fodd bynag, i wneuthur sylwadau arnynt, y mae yn angenrheidiol cymmeryd golwg ar gwestiwn arall; sef, pa beth yw cyfatebiaeth? Nid yw pob math o gyffelybrwydd (*resemblance*) yn gyfatebrwydd (*analogy*). Dichon y naill fod heb y llall; hyny yw, gall rhyw ddau wrthddrych penodol fod mewn lluaws o ansoddau yn debyg i'w gilydd, ac eto heb fod yn y tebygrwydd hwnw un sail deg i adeiladu ymresymiad arno: ac ar y llaw arall, gall rhyw ddau wrthddrych penodol fod heb ddim cyffelybrwydd ynddynt i'w gilydd, o ran ymddangosiad, ansoddau, ac amgylchiadau ereill, tra y mae gwir gyfatebolrwydd rhyngddynt, oddi wrth yr hwn y gellir ymresymu yn eithaf teg. Cyfatebrwydd ydyw cyffelybrwydd *gwirioneddol*. Tebygrwydd rhwng gwrthddrychau â'u gilydd oddi ar ymddangosiad, ffurf, a nodweddau ereill, ydyw sail cymhariaethau a ffugrau ymadrodd mewn areithyddiaeth; ond nid yw y math hwn o debygrwydd yn profi dim; ei unig wasanaeth ydyw, addurno y mater dan ymdriniaeth—ei wneyd yn fwy tarawgar ac effeithiol: boddhâ y dychymyg, yn hytrach nag yr argyhoedda y deall ac yr anercha y rheswm. Ond pan yr ydym yn dysgwyl gweled effeithiau neillduol yn cymmeryd lle, ar sail y ffaith fod rhyw achosion neillduol a barasant y cyffelyb effeithiau mewn amgylchiadau ereill o fewn cylch ein sylwad-aeth yn gweithredu, yr ydym yn ymresymu oddi wrth gyfatebiaeth. “Yr ydym yn ymresymu oddi wrth gyfatebiaeth,” medd Isaac Taylor, “pan yr ydym yn tybied fod y ser sefydlog, yr un

modd a'r haul, yn cael eu hamgylchynu gan blanedau, y rhai a oleuir ac a wresogir ganddynt. Tybir fod yr un doethineb dwyfol ag a wnaeth y trefniant hwn, mewn un anghraifft, wedi gwneuthur yr un peth mewn cyfundrefnau ereill. Pan welwn fod pob rhan o arwyneb y ddaiar, a phob dafn o ddwfr, yn llawn o fodau byw, yr ydym yn ymresymu oddi wrth gyfatebiaeth wrth dybied fod yr haelfrydedd dwyfol a gyflenwodd y bydyssawd â bywyd wedi gwneuthur yr un peth mewn parthau ereill o'i lywodraeth. Y mae grym y cyfryw ymresymiad oddi wrth gyfatebiaeth yn gynnwysedig mewn cyfres o osodiadau fel hyn:—Bod doethineb a daioni dwyfol yn arddangos eu hunain o'n hamgylch yn nghread graddau afrifed o fodau teimladol. Y mae y perffeithiau hyn yn y natur ddwyfol yn ddigyfnewid a chyffredinol. Y maent yn bresennol yn y naill gyfundrefn yn gystal ag yn y llall. Y mae, gan hyny, yn sicr eu bod yn cynrychu eu heffeithiau priodol yn mhob cyfundrefn yn gyffelyb, oddi eithr fod rhyw reswm neillduol i gyfyngu eu gweithrediadau." Cyfatebiaeth, felly, ydyw cyffelybrwydd achosion; nid cyffelybrwydd rhwng dau *wrthddrych*, ond cyffelybrwydd *perthynasau*. Dichon cyffelybrwydd cyffredin fod rhwng dau wrthddrych: y mae A yn gyffelyb i B mewn ymddangosiad neu ryw ansoddau neillduol; ond i roddi bod i ddwy berthynas, y mae yn rhaid, o leiaf, fod tri o wrthddrychau, ac, yn y nifer mwyaf o anghreiffiau, pedwar:—fel hyn, dichon A fod yn debyg i B, ond nid oes *cyfatebiaeth* rhwng A a B; eithr os oes yr un berthynas rhwng A a B ag sydd rhwng C a D, yna, y mae rhwng y ddwy berthynas wir gyfatebiaeth. Os ydyw y berthynas sydd rhwng A a B yn adnabyddus, a'r berthynas rhwng C a D yn llai adnabyddus, y mae y gyntaf yn fuddiol i esbonio yr olaf; a gellir ymresymu oddi wrth y naill at y llall.

Dylid cadw yn barhaus mewn cof, wrth drin y math hwn o ymresymiad, y gwahaniaethiad uchod, mai cyffelybrwydd perthynasau—nid pethau—ydyw cyfatebiaeth. Gall dau beth fod o ran eu natur a'u hansoddau yn hollol annhebyg, tra y maent yn berffaith gyfatebol y naill i'r llall. Nid oes dim tebygrwydd rhwng wy a hedyd ynddynt eu hunain; ond y mae y naill yn

dal perthynas gyffelyb â'r fam aderyn a'i chywion dyfodol ag sydd rhwng y llall â'r hen bren a'r planigyn ieuanc. Er nad oes yma gyffelybrwydd pethau, y mae yma gyfatebrwydd perthynasau.¹ Y mae yn gymhariaeth gyffredin cyffelybu rhyw wirionedd pwysig i sylfaen adeilad. Soniwn yn fynych am athrawiaethau *sylfaenol* yr efengyl; ac y mae yn yr ymadrodd hwn wir gyfatebiaeth, heb law cymhariaeth, am fod yma berthynas yn cael ei mynegu:—Y mae yr athrawiaethau a elwir yn sylfaenol yn sefyll yn yr un berthynas â chyfundrefn Cristionogaeth ag y mae y sylfaen â'r adeilad; y mae y naill a'r llall o'r un gwasanaeth; a chan fod yr olaf yn eithaf adnabyddus—yn berthynas rhwng gwrthddrychau gweledig—y mae yn fuddiol i arddangos y berthynas arall sydd yn fwy aneglur i ni, am fod y gwrthddrychau yn perthyn i fyd egwyddorion anweledig. Fel y mae yr adeilad yn gorphwys ar y sylfaen, felly y mae y gyfundrefn Gristionogol ar y gwirioneddau hyn;—os nad ydyw y sylfaen yn gadarn, y mae yn ofer gweithio yr adeilad arni; ac os nad yw egwyddorion sylfaenol Cristionogaeth yn osodiadau diammheuol, y mae yn beth cwbl difudd myned rhagom gyda'r pynciau sydd yn dibynu arnynt: os ysgoga y sylfaen, dymchwelir yr adeilad; ac felly, os profir geudeb gosodiadau cyntaf y gyfundrefn, fe syrth y gyfundrefn ei hun.

Y mae dau amryfusedd yn nglŷn âg ymresymu oddi wrth yr egwyddor o gyfatebiaeth, ag y mae yn anhawdd bod yn rhy wylriadwrus rhag syrthio iddynt; ac er fod yn anhawdd efelychu Butler yn ei nerth a'i fedrusrwydd digymhar yn trin yr egwyddor, eto, y mae ei ofal gwastadol rhag llunio cyfatebiaethau disail—rhag gadael i'w ddychymyg gael yr oruchafiaeth ar ei farn a'i reswm—yn gyfryw ag y dylai pob meddyliwr amcanu ei efelychu. Y ddau amryfusedd y cyfeiriwn atynt, ydynt, yn gyntaf, seilio cyfatebiaethau ar bethau, nid ar berthynasau; yn ail, eangu y gyfatebiaeth at fwy o bethau nag sydd yn briodol.² Y mae yn fwy tueddol syrthio i'r amryfusedd cyntaf pan y mae cyffelybrwydd yn y gwrthddrychau heb law

¹ *Whateley's Rhetoric* [*Encyclopædia Metropolitana*, td. 28].

² *Coplestone on Necessity*, td. 123.

cyfatebrwydd yn y berthynas. Y mae y dyfyniad canlynol o un o areithiau Burke yn dangos ei fod ef, er nas gallasai siarad yn mron ond mewn ffugrau, eto yn cadw o flaen ei feddwl y gwahaniaeth rhwng cyffelybiaethau addurniadol a barddonol a gwir gyfatebiaethau:—"Nid wyf o'r un farn a'r ymchwilwyr hyny sydd yn sicrhau fod gan deyrnasoedd yr un cyfnodau o faboed, cyflawn oed, a nychdod, ag sydd gan bersonau. Y mae cyffelybiaethau fel hyn yn wasanaethgar yn hytrach fel ffugrau i egluro neu i addurno, nag i fod yn gyfatebiaethau i resymu oddi wrthynt. Nid yw y gwrthddrychau y ceisir ffurfio cyfatebiaeth rhyngddynt yn perthyn i'r un dosbarth. Bodau anianol ydyw personau; nid hanfodau (*essences*) anianol, ond moesol, ydyw teyrnasoedd." Crybwylla Coplestone un anghraifft o'r amryfusedd hwn, a gondemnia Burke, wedi ei gymmeryd o ysgrifeniadau Toplady. Y mae y diweddaf, wrth lefaru yn erbyn ewyllys rydd, yn crybwyll yr adnod, "A chwithau megys meini bywiol ydych wedi eich adeiladu yn dŷ ysbrydol," ac ar bwys y gyffelybiaeth o *feini* yn ymorfoleddu ar ei wrthwynebwyr, gan ddyweyd, "Y mae hyn yn gwanu ewyllys rydd dan y bummed ais: o blegid, a ddichon meini naddu eu hunain, ac adeiladu eu hunain yn dŷ trefnus." Fe wnaed y cyffelyb gamgymeriadau luaws o weithiau wrth esbonio cyffelybiaethau, cysgodau, a dammegion y Beibl. Y mae cymhwysu y cyfatebiaeth hefyd at bethau ereill, a gwneyd y berthynas yn fwy eang nag y mae mewn gwirionedd, yn achosi lluwys o gamsyniadau. Pan nad yw y cyfatebiaeth ond dibwys ac arwynebol, ac yn enwedig pan nad oes un sail iddi y tu allan i ddychymyg y meddwl a'i ffurfiodd, ni ddylid ar un cyfrif ymresymu oddi wrthi; ond yr ydym yn agored i gyfeiliorni hyd yn oed gyda chyfatebiaethau gwirioneddol, trwy amlhau eu perthynasau, a rhoddi cymhwysiad rhy eang iddynt. Y mae cyfatebiaeth, er esampl, rhwng prif ddinas teyrnas à chalon anfail; ac am fod gwir gyfatebiaeth rhyngddynt mewn un neu ddau beth, neu yn hytrach, fod y brif ddinas i'r deyrnas yn debyg fel y mae y galon i'r corff, ymresymwyd fod maintioli cynnyddol y naill mor niweidiol i'r deyrnas ag ydyw y clefyd hwnw yn y llall i'r

corff anifeilaidd. Gall y darllenydd, wrth efrydu y traethawd canlynol, fod yn sicr na chyferfydd â'r cyfryw ddefnyddiad dychymyngol o gyfatebiaeth. Cymmerer yr anghraifft ganlynol o'r dull y mae Butler yn bwrw ymaith gyfatebiaethau disail :—
 “Y mae y sylwadau hyn, wrth eu cymmeryd gyda'u gilydd, yn ddigon i ddangos pa mor lleied sydd o sail i dybied fod angeu yn ddinystyr ar bersonau. Y mae, fodd bynag, un gyfatebiaeth ymddangosiadol a allai ein harwain i dybied ei fod felly, sef y tebygrwydd a dybir sydd rhwng darfyddiad llysiâu ag eiddo creaduriaid byw. Ac y mae y tebygrwydd hwn yn ddigon mawr i gynnysgaethu beirdd â chyfeiriadau at flodau y maes, pan yn arddangos eiddilwch ein bywyd presennol. Ond mewn rhesymiaeth (os ydyw yn ganiataol mewn barddoniaeth), y mae y gyfatebiaeth mor bell oddi wrth fod yn bwrpasol, fel nad oes un sail dros gymharu y naill â'r llall, o barth i'r cwestiwn presennol; o blegid y mae un o'r gwrthddrychau a gyferbynir yn hollol amddifad o'r peth sydd yn benaf ac uchaf yn y llall—sef y gallu i feddwl a gweithredu; a'r hyn ydyw yr unig beth ag yr ydym yn ymholi yn nghylch ei barhâd. Felly, nid yw darfyddiad llysiâu yn dwyn un cyfatebrwydd i ddinystyr bod byw.”¹

Y mae athronwyr ac ysgrifenyddwyr ar resymeg, yn ddieithriad, ni a dybiwn, yn barnu mai *prif* wasanaeth y ddadl oddi wrth gyfatebiaeth ydyw, gwrthladd gwrthddadleuon yn erbyn Cristionogaeth, ac nid adeiladu profion penderfynol o'r phlaid. Dadl nacael—nid cadarnhaol—ydyw. Y mae yn arbrofawl (*demonstrative*) yn unig yn y dadleuon a ddyry o blaid tebygolrwydd unrhyw beth. Nacael yn fwyaf cyffredin ydyw ffurf ei chasgliadau; dengys *nad* yw y peth hwn yn anghysson â pheth arall, *nad* ydyw y dybiaeth dan ymdriniaeth yn anghredadwy; a phan lefara yn gadarnhaol, nid yw yn deŷnyddio iaith prawfiadau mesuronol, y *rhaid* i'r peth hwn neu y peth acw fod fel a'r fel, ond y *gallant* fod, neu fod yn *debygol*; ac os ydyw y cyfatebiaeth yn un eang, a'i gangenau yn lluosog, ei fod yn *dra thebygol*—fod tebygolrwydd ag y gellid ei ystyried yn brawf moesol mai felly y mae. Er mai fel symmudydd gwrthddadl-

¹Gwel td. 24.

euon y mae Butler yn trin yr egwyddor o gyfatebiaeth, i'r dyben o ddangos nad yw crefydd yn anhaeddiannol o ymchwiliad mwyaf difrifol a diragfarn dynion; eto, y mae rhanau yn ei draethawd lle y mae yn priodoli iddi y gallu uwch o chwanegu at brofion penderfynol dadguddiad. Ac nis gallwn ammheu hyn. Y mae rhai cyfatebion, mae yn wir, nas gallant weinyddu dim uwch na'r dybiaeth wanaf; ond y mae cyfatebion ereill yn gweinyddu y math uchaf o sierwydd, oddi eithr sierwydd arbrosiad. Er anghraifft; y mae Butler yn y bennod gyntaf yn dwyn yn mlaen y ffaith fod rhai pryfed yn myned trwy gyfnewidiadau mawrion, o un sefyllfa i sefyllfa arall; yn awr, y mae yr *un* ffaith hon yn profi fod yn *bosibl*, ac nad yw yn gwbl annhebygol i ddyn fyned o un sefyllfa i sefyllfa arall, heb golli ei hunaniaeth; ond y mae yn amlwg nas gellir adeiladu *prawf pendant* o hanfodiad dyn mewn byd arall ar y ffaith grybwylledig. Nid yw hyn ond un amgylchiad; ac y mae y ddau fath o fodau mor annhebyg i'w gilydd, fel nas gellir rhesymu dim hyd sierwydd oddi wrth yrfaoedd hanfodiad y naill at eiddo y llall. Ond pe yr ymresymid oddi wrth ffaith arall, yr hon sydd yn ddeddf unffurf a chyffredinol, hyny yw, nad oes dim mewn natur yn cael ei ddifodi, y mae cyfatebiaeth yn ein gwarantu i gasglu, nid yn unig fod yn *bosibl*, ond fod, a dyweyd y lleiaf, yn dra thebygol, y goroesa yr enaid bob cyfnewidiad yr ä y corff drwyddo.

Ni chynnysgaethir dynion â sierwydd uwch na'r math hwn yn eu trafodaeth fydol. Ac yn y nifer mwyaf o'r amgylchiadau sydd yn eu cyfarfod, nid yw eu seiliau dros weithredu fel ar fel ond y graddau isaf o hono. Y mae y dyn yn cymmeryd y naill gwrs o flaen un arall sydd yn ymgynnyg iddo, nid am ei fod yn *sicr* mai y cyntaf ydyw y goreu a'r mwyaf manteisiol: pe dysgwyliai am brawf sicr o hyny cyn dechreu gweithredu, byddai heb weithredu o gwbl; ond y mae yn ei ddewis am fod yn *bosibl* iddo lwyddo; y mae hyd yn oed yn ei ddewis pan y mae cynnifer o debygoliaethau yn ei erbyn ag sydd o'i blaid. Y mae sierwydd mesuroniaeth, a sierwydd rhesymeg yn arbrosawl; hyny yw, y mae y casgliadau oddi wrth y gosodiadau yn ddiamheuol sicr. Ar ol i'r ysgolhaig fyned trwy yr ymres-

ymiad, y mae gwirionedd y casgliadau yn presennoli ei hun i'w feddwl mor amlwg a diammheuol a gwirebau hunan-brofedig. Y rheswm am hyn ydyw, nad oes dim yn y casgliadau nad yw yn y gosodiadau; y mae y cyntaf yn gynnwysedig yn rhinweddol (*virtually*) yn yr olaf. Ond y mae yn ofer dysgwyl y math hwn o sicrwydd mewn materion cyffredin. Ni chydweddaï â phrawf, a dysgyblaeth naturiol a moesol dyn. Bod llwyddiant dyn fel aelod o gymdeithas yn y byd hwn yn ammheus ac anhawdd, sydd yn gwneyd moddion llwyddiant yn ddysgyblaeth iachusol iddo. Pe buasai dwyfoldeb Cristionogaeth mor amlwg i bob meddwl a'r haul ganol dydd—pe buasai ei thystiolaethau mor gryfion, a'i hanhawsderau mor ddibwys, yr holl wrthddadleuon yn ei herbyn yn ymddangos i bawb ar yr olwg gyntaf yn berffaith wrthun, fel nas gallasai rhagfarn sefyll o'i blaen, y buasai anghrediniaeth yn cywilyddio, a phob meddwl megys yn cael ei orfodi i gydsynio â'i gwirionedd—yna ni buasai dim rhinwedd mewn ffydd, os haeddasai gael ei galw yn ffydd o gwbl—ni welsid neb yn mysg cofleidwyr Cristionogaeth a ryglyddasai ganmoliaeth yr Iesu wrth Thomas, “Bendigedig yw y rhai ni welsant, ac a gredasant.” Ni buasai tystiolaeth arbrofawl yn cydweddu â rhyddid creadur rhesymol; ni buasai mewn crefydd y fath faes i ymchwiliad y meddwl, na manteision cystal i feithrin rhinweddau uchaf y cymmeriad. Ni buasai yma le i ostyngaidrwydd mor ddwfn, i wylder mor ddwys, ni chawsai amynedd a gobaith eu perffaith waith; ni chawsai y Cristion y lles a'r ddysgyblaeth angenrheidiol hono a weinyddir iddo gan ofnau ac ammheuon, ac yn enwedig gan oruchafiaeth ffydd arnynt. Pe buasai profion Cristionogaeth y profion uchaf, a'i chyfundraeth yn rhydd oddi wrth anhawsderau a dirgeledigaethau, buasai y sicrwydd uchel hwn, yr hwn a ddymunir gan lawer, ac y gwrthddadleuir yn erbyn dadguddiad am ei fod yn amddifad o hono, yn peri pryder mewn meddyliau ystyriol; o blegid, pe felly, ni buasai y cyfatebrwydd ardderchog sydd yn awr rhwng gwaith llaw a geiriau genau Duw yn hanfodi, a thra yn meddu ar y math uchaf o sicrwydd, buasai yn amddifad o'r profion hyny (profion yn cyfodi oddi wrth

debygolrwydd) ag y mae dynion yn gyffredin yn y byd hwn yn arfer gweithredu yn ddarostyngedig iddynt. A phe buasai profion ein crefydd mor oleuedig, a chrefydd ei hun mor rydd oddi wrth anhawsderau, fel y buasai ei chredu yn beth mor hawdd a chredu unrhyw wirionedd hunan-brofedig, ac y buasai ei hanghredu yn mron yn anmhosibl, nid yn unig ni buasai ffydd o ran ei natur yn rhinwedd mor ardderchog, ond buasai yn ddirym mewn cymhariaeth fel egwyddor a chymhellydd gweithredoedd, a moddion adnewyddiad y galon.

Y mae Dr. Chalmers¹ yn tueddu i feddwl, nid yn unig mai *prif* wasanaeth y ddadl oddi wrth gyfatebiaeth i achos Cristionogaeth ydyw dadymchwel gwrthddadleuon, ond mai hyn ydyw ei *hunig* wasanaeth. Ymddengys i ni, modd bynag, fod hyn yn olwg rhy isel ar gyfatebiaeth. Y mae y cyfatebion cyfyngaf—cyfatebion wedi eu cymmeryd oddi wrth nifer bychan o ffeithiau—yn ddigonol i'r gwasanaeth hwn; ond y mae cyfatebion wedi eu sylfaenu ar ffeithiau lluosog, ac ar ddeddfau cyffredinol, yn feddiannol ar rym profion pendant; ac y mae Dr. Hampden yn ystyried ymresymiad oddi wrth gyfatebion o'r natur yma yr un peth ag *induction*; ac y mae yn amlwg mai hyn yw barn Butler ei hun. Ond, ni a adawn i Dr. Chalmers fynegu ei olygiad ar y cwestiwn mor agos ag y gallwn yn ei eiriau ei hun:—“Ateb gwrthddadleuon ydyw y gwasanaeth mawr ag y mae cyfatebiaeth wedi ei wneuthur i achos dadguddiad, a hyn ydyw yr unig wasanaeth yr ydym yn ei geisio ganddo....Y mae yn ymddangos i ni fod y rhai sydd yn dysgwyl oddi wrtho chwanegiad pendant at y ddadl Gristionogol yn rhoddi gormod o bwys ar nerth cyfatebiaeth....Yn ein dadleuon âg anffyddwyr, dylem yn ewyllysgar beidio ceisio chwanegu profion pendant o blaid crefydd o'r parth hwn. Pan yn dwyn yn mlaen ein rhesymau dros wirionedd a dwyfoldeb y Beibl, dylem lefaru am y dystiolaeth oddi wrth wyrthiau, oddi wrth brophwydoliaeth, oddi wrth foesoldeb yr Ysgrhythrau, a'r prawf oddi wrth y nodau hyny o ddiffuantrwydd a chyssegredigaeth ydynt yn lluosog ynddynt, a'r cyfaddasrwydd sydd yn eu cynnwysiad at angenion a gwendidau

¹ *Lectures on the Analogy.*

dynoliaeth syrthiedig; ond prin y dylem, mewn ffordd o adchwanegiad, ddwyn yn mlaen y prawf oddi wrth gyfatebiaeth." Er yr addefwn yn rhwydd gyda Dr. Chalmers mai prif wasanaeth cyfatebiaeth ydyw amddiffyn rhag y gelyn—nid ymosod arno; profi geudeb ei wrthddadleuon—nid profi yr hyn y gwrthddadleua yn ei erbyn; eto, y mae yn rhaid addef, dybygem, fod Butler, mewn rhai manau o'r traethawd, yn llwyddiannus i sefydlu profion cadarnhaol oddi wrth gyfatebiaeth. Cyfeiriwn y darllynydd at y drydedd bennod, *Rhan 1.*, lle y mae moesoldeb llywodraeth Duw ar y byd yn cael ei brofi yn eglur oddi wrth gyfatebiaeth. Y mae Isaac Taylor yn dyweyd fel y canlyn am hyn:—"Y mae y ddadl oddi wrth gyfatebiaeth yn *gref*, ond nid yn gwbl benderfynol, neu *arbrofawl*; o blegid, gan ein bod yn cario ein hymresymiad allan o gylch sydd yn adnabyddus i ni, i gylch sydd yn anadnabyddus, nis gallwn fod yn sicr nas dichon i ryw achos gwrthwynebus fod yn gweithredu yn y cylch anadnabyddus hwnw, o'r hwn ni chawn ddim arwyddion yn y cylch yr ydym ynddo. Eto, nid yw y ddadl oddi wrth gyfatebiaeth ond ychydig islaw prawf cadarnhaol, pan yr ydym yn ymresymu i fyny oddi wrth effeithiau at achosion; neu yn casglu fod yn rhaid i'r achosion fod yn gyffelyb pan y mae yr effeithiau felly. Pe y gwelem fod *rice* yn ffrwytho yn dda, pa le bynag y mae yr hinsawdd yn gynhes a'r tir yn llaith, gallem yn hyderus gasglu mai gwres a lleithder ydyw achosion cynnyrchiant y grawn hwnw. Ymddengys i mi fod Dugald Stewart yn cymmeryd golwg gywir a chymmedrol ar y cwestiwn hwn. Ar ol dadgan ei farn fod y Drd. Reid a Campbell wedi edrych yn rhy isel ar gyfatebiaeth fel cyfrwng prawf, chwanega, "Yr ydwyf yr un pryd yn addef fod gwahaniaeth hanfodol rhwng cymhwysiad nacaol a chymhwysiad cadarnhaol y math hwn o brawf. Pan ddefnyddir ef i ddadymchwel gwrthddadl, dichon yn fynych ddwyn yn mlaen ddadl anatebadwy. Pan ddefnyddir ef fel cyfrwng prawf, nis gall awdurdodi mwy na thybiaeth debygol. Mewn rhai anghreiffitiau, fodd bynag, dichon y tebygolrwydd a gynnyrchir gan gytuniad llüaws o gyfatebion godi mor uchel ag i ddylanwadu ar grediniaeth dyn, yn debyg fel y gwna sicrwydd moesol."

RHAGARWEINIAD.

Yr hyn sydd yn gwneyd gwahaniaeth hanfodol rhwng y dystiolaeth sydd yn cyfodi oddi wrth debygolrwydd a'r dystiolaeth oddi wrth brawf ydyw, fod y gyntaf yn cynnwys amrywiol raddau, o'r sicrwydd moesol uchaf hyd at y dybiaeth isaf. Nis gallwn yn wir ddywedyd fod unrhyw beth yn debygol i fod yn wirionedd am fod genym un dybiaeth wan o'i blaid; o blegid gan y gall fod tebygoliaethau ar y naill ochr a'r llall i gwestiwn, gall rhai fod yn ei erbyn; a phe na byddai un yn ei erbyn, eto, nid yw tybiaeth wan yn cynnyrchu y radd hono o argyhoeddiad ag sydd genym wrth ddyweyd fod peth yn debygol i fod yn wirionedd. Ond ymddengys, ar yr un pryd, fod y dybiaeth wanaf y mae yn bosibl meddwl am dani yn cyfranogi o natur tebygolrwydd, wrth ystyried fod y fath dybiaeth wan, wrth gael ei mynychu, yn dyfod hyd yn oed yn sicrwydd moesol. Fel hyn, y mae gweled trai a llanw y môr heddyw yn sail i fath o dybiaeth—y wanaf sydd yn bosibl fod, mae yn wir—y bydd i'r un peth ddygwydd eto yfory: ond y mae sylwi ar y dygwyddiad hwn am gynnifer o ddyddiau a misoedd ac oesoedd yn nghyd, ag y sylwyd arno gan ddynolryw, yn gweinyddu sicrwydd cyflawn i ni mai felly mewn gwirionedd y bydd.

Mae yr hyn sydd yn benaf yn cyfansoddi *tebygoliaeth* yn cael ei ddynodi yn y gair *tebyg*; *h. y.*, tebyg i ryw wirionedd¹ neu ddygwyddiad a gymmerodd le mewn gwirionedd; tebyg iddo ynddo ei hun, yn ei brawf, mewn nifer mwy neu lai o'i amgylchiadau. O blegid pan benderfynom fod peth yn debygol i fod yn wirionedd—pan dybiom fod rhyw ddygwyddiad wedi neu i gymmeryd lle—achosir hyn, trwy fod y meddwl yn gweled ynddo debygrwydd i ryw ddygwyddiad arall a welsom yn cymmeryd lle. Ac y mae y sylwadaeth yma, mewn llawws mawr o anghreiffiau beunyddiol, yn ffurfio tybiaeth wan, neu dybiaeth gryfach, neu argyhoeddiad cyflawn, fod y cyfryw ddygwyddiad wedi neu i ddyfod oddi amgylch; ac y mae yn dybiaeth wan, neu yn dybiaeth gryfach, neu yn argyhoeddiad cyflawn, yn ol fel y gwelir pa un ai weithiau, neu yn gyffredin, ynte bob amser—mor bell ag y mae ein sylwadaeth ni yn cyrhaedd—y mae y dygwyddiad

¹ Yn Lladin, *verisimile*; o *verus*=gwir, a *simile*=tebyg.

cyffelyb hwnw wedi cymmeryd lle, mewn amserau, lleoedd, neu ar achlysuron cyffelyb. Oddi yma y cyfyd y grediniaeth y bydd i'r plentyn, os caiff fyw am ugain mlynedd, gynnyddu i faintioli a grymusder gŵr; y gwasanaetha ymborth i gynnal ei fywyd, ac y byddai i eisieu ymborth am gynifer o ddyddiau fod yn sicr o ddinystrio y bywyd hwnw. Yr un modd, y mae graddau ein gobeithion a'n hofnau o barth i lwyddiant ein hymgeisiau; ein dysgwyliad y gweithreda ereill fel a'r fel yn y cyfryw amgylchiadau; a'n barn fod y cyfryw ymddygiadau yn cyfodi oddi ar y cyfryw egwyddorion;—y mae yr holl dybiaethau hyn yn cyfodi o'r ffaith ein bod wedi sylwi ar bethau cyffelyb i'r hyn yr ydym yn ei obeithio, ei ofni, ei ddysgwyl, neu ei farnu—wedi sylwi, meddaf, ar y cyffelyb, naill ai gyda golwg ar ereill, neu arnom ein hunain. Ac, yn ol hyn, fel yr oedd y tywysog hwnw a dreuliodd ei oes mewn hinsawdd gynhes yn casglu yn naturiol, oddi ar gyfatebiaeth, nad oedd y fath beth yn bod ag i ddwfr fyned yn galed, am na welodd ef ddwfr erioed ond yn hylifaidd: yr ydym ni, yn y gwrthwyneb, trwy gyfatebiaeth, yn casglu nad oes dim yn erbyn hyny, ond yn hytrach ei fod yn beth i'w dybied y gall y bydd rhew yn Mhrydain ar ryw ddiwrnod penodol yn Ionawr nesaf; a'i fod yn beth tebygol y bydd hyny ar ryw un o ddyddiau y mis, a bod math o sicrwydd¹—y cyfryw sicrwydd ag i adeiladu dysgwyliad arno—y gwelir rhew ryw adeg o'r gauaf.

Nid yw prawf oddi ar debygolrwydd, yn ei natur, yn rhoddi ond math amherffaith o wybodaeth, ac y mae i'w ystyried yn perthyn yn unig i fodau o alluoedd terfynol. O blegid nis gall dim ag a ddichon fod yn wrthddrych gwybodaeth, pa un bynag ai mynedol, presennol, neu ddyfodol, gael edrych arno yn *debygol* gan yr Hwn sydd â'i ddeall yn anfeidrol; o blegid edrycha Ef arno, o angenrheidrwydd, fel y mae ynddo ei hun, naill ai fel yn gwbl sicr, neu yn gwbl ansicr. Ond i ni, sydd â'n gwybodaeth yn amherffaith a therfynol, tebygoliaeth ydyw gwir arweinydd bywyd.

Oddi wrth y pethau hyn, y mae yn canlyn, pan y mae dyn yn ystyried materion anhawdd a dyrus—gwirioneddol neu ymddangosiadol felly—pan nas gellir cael prawf mwy boddhaol, os canlyniad ei ymchwiliad iddynt a fydd fod y dybiaeth wanaf yn ymddangos iddo o blaid un ochr, a dim o blaid yr ochr arall, neu fod tybiaeth gryfach—caniataer nad yw ond y radd leiaf yn gryfach—o'r naill ochr na'r llall, y mae hyn yn ei gynnorthwyo i benderfynu y cwestiwn, hyd yn oed mewn pynciau o efrydiaeth,

¹Sicrwydd moesol (*moral certainty*).

ac yn ei ddwyn, mewn materion ymarferol, dan rwymedigaeth mor bell ag y mae callineb a lles personol yn myned, i weithredu ar y dybiaeth neu y tebygolrwydd gwan; er, ar yr un pryd, fod y tebygolrwydd mor wan fel ag i adael ei feddwl mewn ammheuaeth mawr pa ochr i'r cwestiwn ydyw y gwirionedd. O blegid y mae yn ddiammheu fod callineb dyn yn ei wneyd mor rwymedig i wneuthur yr hyn a ymddengys iddo ar y cyfan, mor bell ag y gall farnu, yn oreu ar ei les, ag i wneuthur yr hyn y gwyr yn sicr ei fod felly. Ie, mewn achosion o bwys a chanlyniad mawr, y mae dynion doeth a chall yn barnu y dylent sylwi ar debygoliaethau a thybiaethau gwanach na'r rhai hyn, a rhai mor weiniaid na wnant chwaneg na dangos fod un ochr i'r cwestiwn mor debygol neu gredadwy a'r llall—ie, y cyfryw ag ni chyrrhaeddant mor bell a hyn. O blegid gellid crybwyll am anghreiffiau afrifed o barth i orchwylion cyffredin bywyd, pryd yr ystyrid y dyn hwnw yn anmhwylog, yr hwn ni weithredai, nid yn unig pan y byddai cymmaint o debygolrwydd yn ei erbyn ag o'i blaid, ond pan y byddai y tebygolrwydd yn gryfach yn ei erbyn.¹

Nid yw yn fy mwriad i chwilio yn mhellach i natur, sylfaen, a graddau yr ymresymiad oddi wrth debygoliaeth; neu pa beth a achosa fod *tebygrwydd* yn cynnyrchu tybiaeth wan, neu dybiaeth gryfach, neu argyhoeddiad cyflawn, y rhai y mae y meddwl dynol yn gyfaddas i'w derbyn oddi wrtho, a'r rhai y mae o angenrheidrwydd yn gynnyrchu yn mhob meddwl yn ddiwahan-iaeth. Nid wyf chwaith yn bwriadu ymdrin â'r cyfeiliornadau i ba rai y mae ymresymu oddi wrth gyfatebiaeth yn agored. Perthyna yr ymdriniadau hyn i resymeg; ac y maent yn rhan o bwnc nad yw hyd yma wedi ei ystyried yn drwyadl. Ni chymmeraf arnaf ddyweyd i ba raddau y gall y pethau a berthynant i'r dull hwn o ymresymu gael eu dwyn dan benau a rheolau cyffredinol, a'u ffurfio oll yn gyfundrefn. Ond er mor ychydig a ymdrinwyd yn y ffordd hon gan y rhai a ysgrifenasant ar alluoedd y meddwl a'u hymarferiad, nid yw hyn yn peri nas gallwn fod yn sicr (fel ag yr ydym) fod cyfatebiaeth yn meddu graddau amrywiol o bwysigrwydd tuag at benderfynu ein barn a'n hymarferiad: ac nid yw yn yr achosion hynny yn llai pwysig, am y gall dynion sydd wedi ymroddi i ddadleuaeth, neu sydd yn gofyn mwy o fanyldra gydag achosion nag y mae ein galluoedd yn alluog i'w ddwyn i faterion ymarferol, gael gafael ar achosion ereill yn y rhai nid yw yn hawdd penderfynu pa un a yw cyfatebiaeth o unrhyw bwys ai nid yw; neu anghreiffiau o

¹Gwel Rhan ii. pen vi.

gyfatebiadau ymddangosiadol, y rhai nid ydynt o unrhyw bwys. Y mae yn ddigon i'r amcan presennol ddyweyd fod y dull cyffredin hwn o ymresymu, fel y mae yn eglur, yn ddull naturiol, teg, a phenderfynol. O blegid nid oes neb a ammheua a gyfyd yr haul yfory, ac y bydd i'w weled yn grwn ac nid yn ysgwâr.

Oddi wrth ymresymiad trwy gyfatebiaeth, sylwa Origen "fod y neb sydd yn credu fod yr Ysgrythyr wedi deilliaw oddi wrtho ef, yr hwn ydyw Awdwr natur, i ddysgwyl canfod anhawsderau o'r un math ynddo ag a welir yn nhrefn natur." A'r un modd, gellir chwanegu, y gallai yr hwn sydd yn gwadu fod yr Ysgrythyr wedi dyfod oddi wrth Dduw, ar gyfrif yr anhawsderau sydd ynddo, wadu hefyd, o herwydd yr un rheswm, fod y byd wedi cael ei greu ganddo. Ar y llaw arall, os oes cyfatebiaeth neu gyffelybrwydd rhwng trefn pethau a goruchwyliaeth rhagluniaeth ag y mae dadguddiad yn eu dwyn i'n sylw, a'r drefn a'r oruchwyliaeth ag y mae profiad, sylwadaeth, a rheswm yn rhoddi hysbysrwydd i ni am danynt, y mae hyn yn cyfansoddi tybiaeth mai yr un yw awdwr ac achos y naill a'r llall; o'r hyn lleiaf, mor bell ag i ateb gwrthddadleuon yn erbyn tarddiad dwyfol y cyntaf—wedi eu cymmeryd o unrhyw beth sydd yn gyfatebol i'r hyn sydd yn y diweddaf, y rhai (cyfansoddiad a threfn natur) a addefir ydynt o darddiad dwyfol o blegid y mae awdwr natur yn cael ei dybied yma.

Y mae ffurfio ein syniadau am drefn a llywodraethiad y byd ar ymresymiad, heb un sylfaen i'r egwyddorion a gymmerir yn ganiataol, pa un bynag ai oddi wrth briodoliaethau Duw, neu ryw beth arall, yn adeiladu byd ar dybiaeth (*hypothesis*), fel y gwnaeth Descartes. Y mae ffurfio ein syniadau ar ymresymiad oddi wrth egwyddorion ydynt sicr, ond yn cael eu cymhwyso at achosion nad oes genym un sail i'w cymhwyso atynt (fel y rhai a ddeonglant gyfansoddiad y corff dynol, naturiaethau clefydau, a chyfferi meddygol, trwy gynnorthwy elfenau rhif a mesur, ond heb seiliau digonol) yn gyfeiliornad lled debyg i'r un cyntaf. O blegid nid yw yr hyn a gymmerir yn ganiataol i orphen yr ymresymiad yn ddim amgen na thybiaeth. Ond rhaid caniatáu ei fod yn ddull têt cyssylltu ymresymiad dansoddol â sylwadaeth ar ffeithiau, a rhesymu oddi wrth ffeithiau adnabyddus at ffeithiau ereill cyffelyb iddynt—oddi wrth y rhan hono o'r llywodraeth ddwyfol ar greaduriaid rhesymol sydd o fewn cylch ein sylwadaeth, at y llywodraeth fwy eang a chyffredinol sydd arnynt, yr hon a orwedda y tu allan i'r cylch hwnw; ac oddi wrth yr hyn sydd yn bresennol, i gasglu pa beth sydd yn debyg o fod mewn sefyllfa i ddyfod.

Felly, gan fod y dull hwn o ffurfio casgliadau a phenderfyniadau yn ddull ymarferol, ac yn ddull ag yr ydym yn rhwym o weithredu yn unol âg ef yn ngorchwylion cyffredin y bywyd hwn, os gweithredwn o gwbl; a chan fod y rhesymiaidau oddi wrtho yn cynnyrchu penderfyniadau, mewn amrywiol raddau, yn gyfatebol i radd a manylder yr holl gyfatebiaeth; gan fod genyf hefyd awdurdod mor uchel (Origen) dros ddwyn y dull yn mlaen at grefydd, a hyd yn oed crefydd ddadguddiedig, fy mwriad ydyw ei gymhwyso at y testyn yn gyffredinol—crefydd naturiol a dadguddiedig—gan ei gymmeryd yn bwnc profedig bod Awdwr deallgar yn bod i natur, a Llywodraethwr naturiol i'r byd. O blegid, fel nad oes un dybiaeth yn erbyn hyn yn flaenorol i'r prawf o hono, felly, cafodd ei arddangos yn fynych gyda phroffion ar broffion, oddi wrth yr ymresymiad trwy gyfatebiaeth ac ol-achosion (*final causes*); oddi wrth resymiaidau dansoddol; oddi wrth y traddodiadau a'r tystiolaethau hynaf, a chydsyniad cyffredin dynolryw: ac nid ymddengys, mor bell ag yr wyf yn gweled, y gwedir hyn gan y cyffredinolrwydd o'r rhai a broffesant eu bod yn anfoddlawn ar y profion dros wirionedd crefydd.

Fel y mae rhai dynion, yn lle talu sylw i drefn natur fel y mae, yn ffurfio eu syniadau am lywodraeth Duw ar dybiaeth—felly y mae ereill yn coledd dychymygion gwag ac ofer pa fodd y gallasai y byd gael ei wneuthur mewn rhyw ddull gwahanol i'r hyn ydyw; ac ar y dybiaeth y gallesid, am y tybiant y dylesid, trefnu a dwyn pethau yn mlaen yn ol cynllun gwell na'r cynllun presennol o gario y llywodraeth arnynt. Meddylier yn awr am ddyn o'r nodwedd meddwl hwn yn myned rhagddo gyda'i ddychymygion, hyd oni ffurfid yn ei feddwl ryw gyfundrefn neillduol yn ol pa un y llywodraethid natur, yr hon a ymddangosai iddo ef yn oreu—ni thybid fod un yn taflu sarhâd ar y deall dynol pe dywedai, hyd yn oed yn mlaen llaw, na fyddai y drefn neu y gyfundraeth a ffurfiasid gan y dyn dwfn-feddylgar hwn—er iddo fod y doethaf o feibion dynion—yr oreu, efallai, a allesid ei chael wedi y cwbl, a hyny yn ol ei syniadau ef ei hun am oreu: pa un ai y drefn hono a gyflwynai achlysuron a chymhelliadau er dwyn mwyaf o rinwedd i ymarferiad, neu yr hon a barai fwyaf o hapusrwydd, ynte yr hon a wnai y naill a'r llall a fyddai, yn ol ei farn ef, yr oreu. Pa fodd bynag, ni fyddai yn afreidiol i ni am unwaith ystyried pa faint a fyddai swm y gwelliadau a'r diwygiadau dychymyngol hyn ar drefn natur, neu pa mor bell y camarweinent ni. Ac ymddengys na fyddai diwedd arnynt hyd oni ddeuem at gasgliadau fel y rhai a ganlyn:—Y dylai pob creadur gael ei wneyd ar y cyntaf mor berffaith ac

mor ddedwydd ag y dichon iddynt fod ; na ddylid, wrth reswm, roddi un gwaith iddynt i'w gyflawnu a allai achosi unrhyw niwed neu berygl iddynt : meddyliai rhai dynion diog, efallai, na ddylid rhoddi iddynt waith yn y byd—neu, o leiaf, y dylid gofalu i bwrpas ar fod iddynt, pa un bynag ai o angenrheidrwydd ai peidio, wneuthur yr hyn a fyddai iawn ac yn fwyaf gwasanaethgar i hapusrwydd—yr hyn y tybid a fyddai yn hawdd i'w wneyd gan allu anfeidrol, naill ai trwy beidio eu cynnysgaethu âg egwyddorion a'u gwnaent yn agored i ymddwyn yn feius, neu trwy ddal yn wastadol ger eu bron, yn mhob gweithred, y cymhelliad cywir, a hyny mewn modd mor nerthol fel na byddai iddo byth fethu eu dwyn i weithredu yn unol âg ef : a bod hefyd i'r holl drefniant o lywodraeth trwy gampau gael ei thafu heibio fel peth cwbl afresymol—fel dull anhylaw, cwmpasog, o ddwyn pethau yn mlaen ; ac yn enwedig am ei fod yn wrthwyneb i un o'r amcanion uchaf y tybir fod creaduriaid wedi eu dwyn i fod erddynt, sef mwynhau hapusrwydd.

Yn awr, heb ystyried beth sydd i'w ddyweyd yn benodol am amrywiol ranau y cynllun ffol hwn, y mae yr hyn a awgrymwyd o'r blaen yn atebiad cyflawn, uniongyrchol, a chyffredinol iddo ; sef yw, y gallwn weled yn y dechreu nad ydym yn feddiannol ar alluoedd i ddwyn yn mlaen ddyfeisiau o'r natur yma. O blegid, er yr addefir ein bod, oddi wrth egwyddorion cyntaf ein natur, yn barnu yn anocheladwy fod rhyw amcanion ynddynt eu hunain i'w dewis o flaen ereill, ac mai yr amcanion a nodwyd yn awr—neu, os gellir eu golygu fel un, mai yr un hwnw ydyw y goreu ynddo ei hun ; ac o ganlyniad, y rhaid i ni benderfynu mai y prif amcan a fwriadwyd yn nhrefn natur a rhagluniaeth ydyw, cyrhaedd y mesur helaethaf o rinwedd a hapusrwydd y mae yn bosibl ei gyrhaedd ; eto, yr ydym yn mhell o fod yn alluog i farnu pa drefniant neillduol ar bethau a dueddai yn fwyaf i gefnogi rhinwedd ; neu pa foddion a fyddai yn hollol angenrheidiol er cynnyrchu mwyaf o hapusrwydd mewn cyfundrefn o'r fath eangder ag y byddai ein byd ni, ar wahân oddi wrth yr holl greadigaeth, a chymmeryd i mewn yr oll sydd wedi myned heibio ac i ddyfod. Yn wir, y rydym mor bell o fod yn alluog i farnu am hyn, fel nad ydym yn abl i farnu pa beth a all fod y moddion angenrheidiol er dyrchafu un dyn i'r perffeithrwydd a'r hapusrwydd uchaf ag y gall ei natur dderbyn. A hyd yn oed yn amgylchiadau bychain y bywyd hwn, yr ydym yn gweled nad yw dynion o addysg a magwraeth gwahanol yn alluog i farnu am ymddygiadau eu gilydd. Mae ein holl natur yn ein harwain i briodoli pob perffeithrwydd moesol i Dduw, ac i'w

ryddhau oddi wrth bob amherffeithrwydd. A bydd hyn am byth yn brawf ymarferol o'i gymeriad moesol i bawb a ystyriant beth yw prawf ymarferol; o blegid llais Duw yn llefaru ynom ydyw. Ac yr ydym yn casglu oddi wrth hyn, y rhaid mai rhinwedd ydyw hapusrwydd, ac mai drygioni ydyw trueni pob creadur; ac nas gall iawn drefn ac unionder lai na bod yn y diwedd yn fuddugoliaethus mewn byd o dan ei lywyddiad Ef. Ond nid ydym mewn un modd yn ddigon cymhwys i farnu o barth i'r moddion angenrheidiol er cyrhaedd yr amcan hwn.

Felly, yn lle difyru ein hunain â'r gwaith ofer a rhyfygus o ffurfio cynlluniau dychymyngol am lywodraethiad y byd, ni a gyfeiriwn ein meddyliau at drefn natur, fel y mae genym ni wybodaeth a phrofiad am dani, yn ei pherthynas â chreaduriaid rhesymol; ac y mae yn ddarostyngedig, yn y cysylltiad hwn, i ddeddfau cyffredinol, neu reolau o lywiadaeth, y rhai, yr un nodd a lluaus o ddeddfau defnydd difywyd, y gellir eu cael allan trwy brofiad. A chymharwn gyfansoddiad a threfn adnabyddus pethau â'r hyn a ystyrir yn gyfundrefn foesol natur—goruchwyliaethau addefedig rhagluniaeth, neu y llywodraeth hono ag yr ydym yn canfod ein hunain dani—â'r pethau hynny ag y mae crefydd yn ein dysgu i'w credu a'u dysgwyl; fel y gwelom a ydynt, ai nid ydynt, yn gyfatebol ac yn dwyn cyffelybrwydd i'w gilydd. Ac wrth wneyd cymhariaeth fel hyn, ceir gweled eu bod felly i raddau pell; y gellir olrhain y naill a'r llall at yr un deddfau cyffredinol, a'u dwyn dan yr un egwyddorion yn y llywodraeth ddwyfol.

Y mae y cyfatebiaeth a gynygir i ystyriaeth o gryn eangder, ac yn cynnwys amrywiol ranau; mewn rhai yn fwy, mewn ereill yn llai, manwl. Mewn rhai anghreiffitiau, gellir efallai, edrych arni yn brawf ymarferol; ond mewn ereill, nid ydyw felly: eto yn y rhai hyn, y mae yn gadarnhâd i'r hyn sydd wedi ei brofi eisoes mewn dulliau ereill. Dengys tu hwnt i ddadl nad yw crefydd naturiol a dadguddiedig, wrth gael ei golychu yn unig fel cyfundrefn, a chyn dwyn yn mlaen ei phroffion, yn destyn gwawd, oddi eithr fod trefn natur felly hefyd. A chynnysgaetha ni âg atebiad braidd i'r holl wrthddadleuon a ddygir yn erbyn crefydd naturiol a dadguddiedig; nid atebiad, efallai, o natur benderfynol, i'r gwrthddadleuon a ddygir yn erbyn ei phrawf, er ei fod yn cyrhaedd yn bell i'r cyfeiriad hwn. O blegid y mae yn eglur fod gwrthddadleuon i brawf, a gwrthddadleuon i'r hyn y ceisir ei brofi, yn ddau beth gwahanol.

Yn awr, y mae y llywodraeth ddwyfol ar y byd, a berthyna i'r syniad o grefydd, ac i Gristionogaeth yn arbenig, yn cynnwys

ynddi fod dynolryw wedi eu bwriadu i fyw mewn sefyllfa i ddyfod;¹ y conspir neu y gwobrwyir pob un yn y sefyllfa hono;² y conspir neu y gwobrwyir pob un am ei ymddygiad yn y byd hwn, yn ol y byddo yr ymddygiad, ai rhinweddol neu ddrygionus;³ fod ein bywyd presennol yn sefyllfa o brawf⁴ a dysgyblaeth⁵ gogyfer y sefyllfa ddyfodol—er fod dynion yn tybied fod ganddynt resymau, y rhai a seiliant ar eu syniadau ar angenrheidrwydd, yn erbyn trefniant moesol o'r dysgrifiad hwn;⁶ a pha wrthddadleuon bynag a ymddangosant yn erbyn doethineb a daioni y drefn hon fel y mae yn adnabyddus i ni ond i raddau mor amherffaith yn ein hystad bresennol;⁷ fod cyflwr pechadurus a dirywiedig y byd, ac anghywirdeb a thywyllwch syniadau dynolryw am eu sefyllfa a'u rhwymedigaethau, wedi rhoddi achlysur i drefn arall, yn chwanegol—trefn o bwysfawredd anhraethol—gael ei chynllunio;⁸ yr hon a brofwyd gan wyrthiau;⁹ ond ar yr un pryd, sydd yn cynnwys llawer o bethau yn ymddangos i ni yn ddyeithrol, ac yn gyfryw na fuasid yn eu dysgwyl;¹⁰ trefn sydd yn gyfundrefn o bethau;¹¹ ac a ddygir yn mlaen trwy gyfryngdod y Duw-ddyn, i'r dyben o adferu y byd;¹² eto, nid yw wedi ei dadguddio i holl ddynolryw, nac yn cael ei chadarnhau â'r profion cryfaf a ellid eu cael, i bawb ag y dadguddir hi iddynt, ond yn unig i'r nifer hwnw o ddynolryw, a chyda'r profion hyny ag y gwelodd doethineb Duw yn fwyaf priodol a gweddus.¹³

Amcan y traetha wd canlynol, felly, ydyw, dangos fod yr amrywiol ranau yn y drefn hon ag y gwrthddadleuir yn eu herbyn—ei chynllun, ei chyhoeddiad, a'r profion o'i gwirionedd—oll yn dwyn cyfatebolrwydd i'r pethau a ganfyddir ac a brofir yn nhrefn natur, neu oruchwyliaeth rhagluniaeth; nad yw y prif wrthddadleuon eu hunain a ddygir yn erbyn y cyntaf ond yr un rhai a'r gwrthddadleuon a ellir, gyda'r un priodoldeb, eu dwyn yn erbyn y diweddaf; ond yma, fel y mae yn eglur, yn amddifad o bob grym; a bod yr ymresymiad oddi wrth gyfatebiaeth yn y cyffredin yn anatebadwy, ac yn meddu, yn ddiammheuol, rym mawr yn mhlaid crefydd;¹⁴ er fod llawer o resymau ymddangosiadol yn ei erbyn, a bod sail deg a chyfiawn i wahaniaethu mewn barn o barth i'r radd benodol o bwys sydd i'w gyssylltu â'r dull hwn o vmresymu. Y mae v sylwadau uchod

¹ Rhan I. pen. i.
² ——— pen. ii.
³ ——— pen. iii.
⁴ ——— pen. iv.
⁵ ——— pen. v.

⁶ Rhan I. pen. vi.
⁷ ——— pen. vii.
⁸ ——— II. pen. ix.
⁹ ——— pen. ii.
¹⁰ ——— pen. iii.

¹¹ Rhan II. pen. iv.
¹² ——— pen. v.
¹³ ——— pen. vi, vii.
¹⁴ ——— pen. viii.

yn grynodeb o'r hyn yr ymdrinir arno yn y traethawd canlynol ;
a dechreuaf gyda'r athrawiaeth sydd yn sail ein holl obeithion
a'n hofnau, y rhai ydynt o unrhyw bwys; yr hon athrawiaeth
ydyw—*y sefyllfa ddyfodol.*

CYFATEBIAETH CREFYDD.

Rhan I.

AM GREFYDD NATURIOL.

PENNOD I.

AM SEFYLLFA DDYFODOL.¹

CYFODWYD anhawsderau dyeithrol gan rai o barth i hunaniaeth personol a gynnwysir yn y syniad o'n bodolaeth yn y presennol a'r dyfodol, neu yn y fynydd hon a'r fynydd nesaf; yr hyn y gall y darllenydd, os myn, weled ymdriniaeth arno yn fy nhraethawd ar y testyn. Ond, heb wneuthur un sylw o'r anhawsderau hyn

[¹. Er fod yr awdwr yn rhestru yr athrawiaeth am sefyllfa ddyfodol yn mysg gwirioneddau crefydd natur, eto y mae yn gwneuthur hynny ar sail y rhesymau a nodir yn niwedd y bennod hon—fod yr athrawiaeth yn *naturiol*, ac nid am ei fod yn barnu fod y gwirionedd yn cael ei brofi a'i "ddwyn i oleuni" gan natur. Er fod y dybiaeth fod sefyllfa ddyfodol yn naturiol, a'r gwrthwyneb yn ymddangos yn wrthun ac annaturiol—eto, os ymfynir am *brawf* digonol i ddarbwylllo y meddwl am ei bodolaeth, y mae yn rhaid i ni fyned at ddadguddiad yr efengyl. Yr un pryd, y mae y dysgwyliad am "fuchedd dragwyddol" wedi bod bob amser yn uchel yn mysg y cenedloedd sydd yn ddyeithr i ddadguddiad; a rhaid addef fod eu *dysgwyliadau*, eu gobeithion, a'u hofnau, yn gryfach na'r *proffon* oedd ganddynt. Tra yr oedd eu deall yn diffygio, a'u rhesymadau yn methu gweinyddu sicrwydd i'w meddyliau, yr oedd teimladau eu calon, eu gobeithion, a'u hofnau, yn glynu wrth y syniad am anfarwoldeb. At y *teimlad* sydd yn ymafyd yn dyn yn yr athrawiaeth hon—y teimlad sydd yn dwyshau yn y meddwl po fwyaf rhinweddol fyddo y dyn, ac sydd yn enwedigol yn cymmeryd gafael ddyfnach ynddo fel y mae yn heneiddio, ac yn nesau at ddiwedd ei oes, y cyfeiria Cephalus yn *Plato*. A dywed Rogers mai y teimlad hwn ydyw y prawf cryfaf o anfarwoldeb, ar wahân oddi wrth ddadguddiad. Y mae Douglas, o Cavers, [*Truths of Religion*, td. 22] yn priodoli y dysgwyliad am y bywyd dyfodol mewn rhan i draddodiad, ac mewn rhan i gyfaddasrwydd a pharodrwydd yr enaid i dderbyn y gwirionedd hwn. Felly hefyd Cicero. Sonia am "gydsyniad cyffredinol" (*omnium consensus*) a "lleferydd natur" (*natura vox*) arno, tra y dywed hefyd nas gall neb ond y duwiau roddi cyflawn ddadguddiad o'r gwirionedd ar y mater. "Y mae yn gwbl ansicr pa beth yw y gwirionedd," oddi eithr iddo gael ei hysbysu ganddynt hwy.]

² *On Personal Identity.*

yn bresennol, ni a ystyriwn pa beth y mae cyfatebiaeth natur, a'r gwahanol gyfnewidiadau a brofasom eisoes, a'r rhai y gwyddom y gallwn eto fyned trwyddynt heb ein difodi, yn ei awgrymu o barth i'r effaith a gaiff marwolaeth arnom—pa un a gaiff ryw effaith ai peidio, ac a ydyw yn beth tebygol oddi wrth gyfatebiaeth y bydd i ni oroesi y cyfnewidiad yn angeu, a bodoli mewn sefyllfa ddyfodol o fywyd a dirnadaeth.

I. Oddi wrth y ffaith ein bod wedi dyfod i'r byd hwn yn ystâd amherffaith a digymhorth babandod, ac wedi cynnyddu o'r ystâd hono i lawn oedran, yr ydym yn gweled ei bod yn ddeddf gyffredinol yn perthyn i ddynolryw, fod gwahaniaeth dirfawr rhwng graddau bywyd, dirnadaeth, galluoedd i weithredu, i fwynhau, ac i ddyoddef, yn yr un personau, ar un adeg o'u bodolaeth, a'r un pethau mewn adeg arall. A pherthyna yr un ddeddf i greaduriaid ereill, megys y gwahaniaeth sydd rhwng eu galluoedd ac ystâd eu bywyd yn adeg eu genedigaeth, ac mewn addfedrwydd oedran; y cyfnewidiad y mae y prfyn yn myned dano wrth fyned o un dull o fodolaeth i dduli arall, a'r eangiad dirfawr a wneir ar ei allu ymsymmudol trwy y cyfnewidiad hwnw; a gwaith yr aderyn a'r trychfilyn yn tori y plisgyn, a thrwy hyny yn dyfod i fyd newydd, yn llawn o ddarpariadau ar eu cyfer, ac yn cael eu hunain mewn dull gwahanol o fodolaeth a gweithrediad: y mae y rhai hyn yn esamplau o'r ddeddf gyffredinol hon mewn natur. Ac y mae holl ffurf-newidiadau rhyfedd ac amrywiol anifeiliaid i'w hystyried fel yn perthyn i'r un ddeddf. Ond y mae ein dulliau blaenorol ni o fod, yn y groth, ac mewn babandod, braidd mor wahanol i'n sefyllfa bresennol, pan mewn llawn oedran, ag y gallwn ddychymygu i ddwy sefyllfa fod. Nid yw, gan hyny, ond eithaf cydweddol â chyfatebiaeth natur i ni hanfodi ar ol hyn mewn sefyllfa mor wahanol i'r un bresennol ag ydyw hon i'r un flaenorol.

II. Ni a wyddom ein bod wedi ein cynnysgaethu â galluoedd i weithredu, i fwynhau dedwyddwch, a dyoddef trueni; o blegid yr ydym yn ymwybodol ein bod yn gweithredu, yn mwynhau pleser, ac yn dyoddef poen. Yn awr, y mae y ffaith ein bod yn feddiannol ar y galluoedd hyn cyn angeu yn sail i dybied y cadwn hwynt mewn meddiant yn ac wedi angeu; ac, yn wir, yn ffurfio tebygolrwydd digon cryf i weithredu arno, oddi eithr fod rhyw reswm pendant dros feddwl fod angeu yn ddinystyr ar y galluoedd hyny; o blegid yn mhob amgylchiad, y mae rhyw debygolrwydd y bydd i bob peth barhau yn mhob golygiad fel yr ydym yn eu gweled, neu yn gwybod eu bod, oddi eithr y pethau hyny yn y rhai y mae rhyw reswm dros feddwl y cyfnewidir

hwynt. Dyma y *math*¹ hwnw o dybiaeth neu debygolrwydd oddi wrth gyfatebiaeth a ddynodir yn y gair *parhâd*, yr hwn a ymddengys yr unig reswm naturiol dros gredu y parhâ cwrs y byd yfory fel y mae wedi parhau mor bell yn ol ag y gall ein sylwadaeth neu ein gwybodaeth hanesyddol ni ein harwain. Ac yn wir, ymddengys mai dyma ein hunig reswm dros gredu y bydd i unrhyw ddefnydd creedig sydd yn bod yn awr, fod hefyd am fynyd yn hwy. Fel hyn, pe byddai dynion yn sicr nad yw amgylchiad dyeithr marwolaeth yn ddinystyr ar alluoedd ein dirnadaeth a'n gweithrediad, ni byddai ganddynt ddychymyg am un gallu arall, anghyssylltiedig âg angeu, ag a ddinystriai y galluoedd hyn yn yr un adeg ag y byddai y creadur farw; a chan hyn, ni byddai un ammheuaeth y parhâent ar ol angeu—yr hyn a ddengys fod tebygolrwydd cryf dros barhâd ein galluoedd bywydol ar ol angeu, oddi eithr fod rhyw sail i feddwl fod angeu ei hun yn ddinystyr arnynt.² O blegid os ydyw yn beth sicr y goroesem farwolaeth pe byddai genym sicrwydd na fyddai marwolaeth yn ddinystyr arnom, mae yn rhaid ei fod yn bur debygol y bydd i ni ei oroesi, os nad oes sail i feddwl y bydd yn ddinystyr arnom.³

¹Yr ydwyf yn dyweyd *math* o dybiaeth neu debygolrwydd, o blegid nid wyf yn meddwl haeru fod yr un gradd o brawf y parhâ ein galluoedd bywiol wedi angeu, ag y parhâ ein sylwedd.

²Y mae yr ymadrodd *dinystyr galluoedd bywydol yn rhwym o fod yn amwys ac aneglur*. Gall ddynodi naill ai *dinystyr y bod bywiol, fel na byddai mwyach yn alluog i weithredu dim*; neu, *ddinystyr yr offerynnau hyn ag y dibyna ei fywyd, ei ganfyddiad, a'i weithrediadau presennol arnynt*. Arferir y frawddeg yma yn yr ystyr cyntaf. Pan ddefnyddir hi i ddynodi y meddwl olaf, chwanegir yr ansoddair *presennol*. Y mae colli llygad yn ddinystyr ar allu bywiol yn yr ystyr diweddfaf; ond nid oes genym un sail i feddwl fod dinystyr y galluoedd bywiol yn yr ystyr cyntaf yn beth posibl. Nid oes genym fwy o sail i feddwl fod creadur a gynnysgaethwyd â galluoedd bywiol byth yn eu colli, na bod cared byth yn eu cael.

[³Dywed Chalmers [*Lectures on Butler*] mai y bennod hon ydyw y leiaf boddhaol yn y traethawd: nid am fod y testyn allan o gyrhaedd cyfatebiaeth, ond am ei fod yn cael ei anharu yn gymmaint gan y damcaniaethau aneglur a fyfent yn Lloegr yn nechreu y canrif diweddfaf. Y mae Duke, yn ei *Systematic Analysis of the Analogy* yn trin ymresymiad y bennod hon gyda deheurwydd mawr, ac yn llwyddo i ddangos ei gwendid. Yr un pryd, y mae yn mhell o fod yn ddiwerth. "Y mae y rhanau cyntaf a'r ail o'r bennod hon," medd Angus, "yn dangos gwendid a nerth yr ymresymiad oddi wrth gyfatebiaeth." Y mae yn wan i gynnyrchu casgliadau pendant (*positive*):—y mae yn llwyddiannus i gynnyrchu casgliadau nacaol (*negative*). Nis gall brofi sicrwydd sefyllfa ddyfodol; ond dengys, fodd bynag, fod y gwrthddadleuon hyn i sefyllfa ddyfodol, y rhai a sylfaenir ar yr ofn a'r dybiaeth y gall angeu fod yn ddinystyr arnom, yn gwbl ofer a gweiniaid. Gyda golwg ar wendid yr ymresymiad oddi wrth gyfatebiaeth i gynnyrchu casgliadau pendant, yr ystyria Dr. Chalmers mai y bennod hon ydyw y leiaf boddhaol yn y traethawd. Ond wrth roddi yr ymresymiad oddi wrth gyfatebiaeth yn ei le priodol ei hun, a

Yn awr, er fy mod yn meddwl y cyfodai math o ammheuaeth cymmysglyd yn mynwesau dynion, cyn dyfod yn gydnabyddus â'r profion naturiol a moesol a ddygir yn mlaen yn gyffredin dros sefyllfa ddyfodol, o barth i'r cyfnewidiad yr awn drwyddo yn angeu; ac yr ofnid y byddai yr amgylchiad hwnw yn ddinystyr ar ein galluoedd bywydol; eto, hyd yn oed yn flaenorol i gydnabyddiaeth â'r profion hyn, nid oes, mor bell ag yr wyf fi yn gweled, yr un sail neu reswm pendant dros yr ammheuaeth a'r ofn yma. Os oes rhyw sail neu reswm, rhaid iddo gyfodi naill ai o *reswm y peth ei hun* (= *reason of the thing*), neu o *gyfatebiaeth natur*.

Ond nis gallwn ymresymu oddi wrth *reswm y peth*, fod angeu yn ddinystyr ar y gweithredydd bywydol; o blegid nis gwyddom ddim am angeu ynddo ei hun, pa beth ydyw: nis gwyddom ond am rai o'i effeithiau, megys llygriad y cnawd, ac ymddattodiad yr esgyrn; ac nid yw yr effeithiau hyn mewn un modd yn dangos fod y gweithredydd bywydol wedi ei ddinystrio. Ac heb law hyn, fel yr ydym yn dra anwybodus am yr hyn y mae ymarferiad ein galluoedd bywydol yn dibynu arno, felly hefyd yr ydym o barth i'r hyn y mae y galluoedd eu hunain yn dibynu arno—y galluoedd eu hunain, fel y maent i'w gwahaniaethu, nid yn unig oddi wrth eu hymarferiad gweithredol, ond hefyd oddi wrth y gallu presennol i'w hymarfer, ac fel yn wrthwyneb i'w difodiad; o blegid ymddengys oddi wrth gwsg, ac yn enwedig llewyg, fod y galluoedd hyn nid yn unig yn bod pan heb fod mewn ymarferiad, fel y mae y gallu goddefol o symmudiad mewn sylwedd difywyd, ond hefyd eu bod yn bod pan nad oes ar y pryd un gallu i'w hymarfer; neu y gellir rhoddi attalfa ar y gallu i'w hymarfer, yn gystal a'r ymarferiad ei hun, am y pryd presennol, ac eto fod y galluoedd eu hunain yn parhau, ac yn aros heb eu dinystrio. Gan na wyddom, felly, ar ba beth y mae bodolaeth ein galluoedd bywydol yn dibynu, dengys hyn yn mhellach nas gellir casglu un tebygolrwydd oddi wrth natur y peth ei hun y bydd angeu yn ddinystyr arnynt; o blegid gall eu bodolaeth ddibynu ar rywbeth na effeithir i'r graddau lleiaf arno gan angeu—ar rywbeth cwbl allan o gyrhaedd brenin y dychryniadau. Fel hyn, nid oes dim yn fwy sicr na bod *rheswm neu natur y peth ei hun* yn hollol ddystaw o barth i'r berthynas rhwng angeu a dinystyr y gweithredydd bywydol. Nis

chydnabod mai gwaith cyfatebiaeth ydyw, nid ymofyn am brofion, ond milwrio yn erbyn gwrthddadleuon—sefyll ar yr amddiffynol, nid ar yr ymosodol—y mae Chalmers yn addef nas gellir meddwl am ddim yn fwy effeithiol neu yn fwy prydferth nag egluriadau a chyfatebiadau y rhan hon o'r gwaith.]

gallwn chwaith ganfod dim trwy holl *gyfatebiaeth natur* i roddi i ni y dybiaeth wanaf fod anifeiliaid byth yn colli eu galluoedd bywydol—a llawer llai, pe y byddai llai na'r dybiaeth wanaf yn bosibl, eu bod yn eu colli trwy farw; o blegid yr ydym ni yn ddiffygiol o alluoedd i ddilyn un creadur y tu hwnt neu trwy angeu, fel ag i weled pa beth sydd yn dyfod o hono. Mae y dygwyddiad hwn yn eu symmud tu hwnt i'n canfyddiad. Y mae yn dinystrio y prawf *synwryddol* a feddem yn flaenorol i'w marwolaeth eu bod yn feddiannol ar alluoedd bywydol; ond nid ymddengys fel yn rhoddi y rheswm lleiaf dros gredu eu bod, trwy yr amgylchiad hwnw, yn cael eu hamddifadu o honynt. Ac y mae y ffaith ein bod yn gwybod eu bod yn feddiannol ar y galluoedd hyn, hyd at yr adeg ag y mae ein cynneddfau ni yn alluog i'w dilyn, ynddi ei hun yn debygolrwydd eu bod yn eu cadw mewn meddiant y tu hwnt i'r adeg hono. Ac y mae hyn yn cael ei gadarnhau trwy sylwi ar y cyfnewidiadau mawrion a rhyfeddol ag yr aethom drwyddynt—mor fawrion, fel na bydd ein bodolaeth mewn ystâd arall o fywyd, dirnadaeth, a gweithrediad, ond peth cwbl gydweiddol â threfn rhagluniaeth, yr hyn y gweithredwyd ei gyffelyb tuag atom ein hunain eisoes. Ni bydd ond peth yn cael ei effeithio yn hollol unol â chwrs natur, a'r hwn yr aethom ni trwy beth cyffelyb iddo yn barod.

Gan fy mod, fodd bynag, yn argyhoeddedig pa mor anhawdd ydyw dystewi y dychymyg i'r fath raddau ag y gellid clywed llais rheswm yn eglur ar y mater hwn; gan ein bod, o'n hieuencytyd, yn dueddol i goledd a meithrin y gallu twyllodrus hwn, sydd yn wastad yn ymwithio dros ei derfynau—y mae o ryw wasanaeth yn ddiau i'r gallu amgyffrediadol, ond er hyn y awdwr pob cyfeiliornad; gan ein bod, fel y mae yn eglur, yn colli ein hunain mewn syniadau anmhenodol ac anghywir am bethau, gan gymmeryd yn ganiataol ein bod yn gydnabyddus â phethau, â'r rhai yr ydym, mewn gwirionedd, yn gwbl anghyfarwydd: o herwydd hyn, byddai yn briodol ystyried y tybiaethau dychymygol y bydd angeu yn ddinystr arnom, y rhai sydd yn cyfodi oddi ar ragfarnau boreuol a pharhaus, a dangos pa mor ychydig o sylwedd sydd ynddynt; er, ar yr un pryd, nas gallwn ymryddhau yn gwbl oddi wrthynt. Ac,

I. Rhaid i'r dybiaeth fod marwolaeth yn ddinystr ar fodau bywydol orphwys ar y dyb eu bod yn sylweddau cyfansawdd, ac felly yn rhanadwy. Ond gan fod ymwybyddiaeth yn allu syml ac anrhanadwy, ymddengys fod yr hyn y mae ymwybyddiaeth yn trigo ynddo yn rhwym o fod felly hefyd. O blegid pe byddai symmudiad unrhyw ronyn o fater yn un—yn gwbl anrhanadwy—

fel ag y byddai tybied i un rhan o'r symmudiad fod, a rhan beidio a bod—hyny yw, i un rhan o'r mater symmud, a rhan arall fod yn llonydd—gynnwys gwrthddywediad; yna y byddai ei allu symmudol yn syml ac anrhanadwy; a byddai deiliad y gallu, sef y gronyn mater, yn anrhanadwy yr un modd: o blegid os gellid rhanu y gronyn yn ddau, gellid symmud un rhan, a gadael y llall yn llonydd, yr hyn sydd yn groes i'r dybiaeth. Ymresymwyd mewn dull cyffelyb;¹ ac, o ran dim a ymddengys i'r gwrthwyneb, yn eithaf teg:—gan fod yr ymwybyddiaeth sydd genym o'n bodolaeth ein hunain yn anrhanadwy, yn gyfryw ag y byddai yn wrthddywediad i ni feddwl fod un rhan o hono yma a'r rhan arall acw, y mae felly y gallu sydd genym i ymwybod yr un modd yn anrhanadwy; ac o ganlyniad, y mae yr hyn y trigfa y gallu ynddo, neu ddeiliad yr ymwybyddiaeth, neu y bod ymwybodol, yn anrhanadwy.² Yn awr, ar y dybiaeth mai bod syml fel hyn ydyw y peth y mae dyn yn ei olygu ac yn ei alw yn efe ei hun—yr hyn nid oes, a dyweyd y lleiaf, ddim mwy o anhawsder i feddwl am dano felly, na meddwl am dano fel yn gyfansawdd, ac o'r hyn y mae y prawf a grybwyllwyd—y mae yn canlyn, mai nid ein cyrff cyfluniedig ydym ni ein hunain, ac nad ydynt yn rhan o honom ein hunain, mwy na rhyw ddefnydd arall o'n hamgylch. Ac y mae mor hawdd dirnad pa fodd y gallai defnydd allanol gael ei wneyd, yn perthyn i ni yn yr un dull ag y mae ein cyrff yn bresennol, ag ydyw dirnad pa fodd y gallwn dderbyn argraffiadau oddi wrth ddefnydd, a meddu gallu i'w drin fel y mynom. Y mae mor hawdd meddwl y gallwn hanfodi heb gyrff, ag

¹ Gan Dr. Samuel Clarke.

² Trinwyd yr ymresymiad hwn gan Dr. Samuel Clarke, yn 1705; deng mlynedd ar ugain cyn i'r *Analogy* gael ei gyhoeddi. Gesyd yr ymresymiad i lawr yn yr un geiriau a Butler wedi hyny:—Fod ymwybyddiaeth yn anrhanadwy; felly, y mae yr enaid, deiliad yr ymwybyddiaeth, yn anrhanadwy: os ydyw yr enaid yn anrhanadwy, y mae hefyd yn anfarwol, ac anmhosibl i'w ddinystrio. Helaethwyd yr ymresymiad hwn hefyd gan Dr. Thomas Brown yn y 96ain o'i *Ddarlithiau*. Erbyn hyn, y mae athronwyr yn ymwrthod â'r ymresymiad, fel rhai ereill o ddamcaniaethau dyfnion a golygus Dr. Clarke. Awgryma Dugald Stewart ei bod yn profi gormod; sef nas gallasai yr enaid gael ei greu. Y mae yn amlwg hefyd, ar y dybiaeth hon, fod yr hyn sydd anrhanadwy yn anfarwol—fod elfenau cyntaf defnydd yn annistrywiadwy. Sylwa Mackintosh, fod ansoddau yn bod weithiau mewn defnydd cyfansawdd, y rhai nis gellir eu cael yn un o'r rhanau sydd yn ei gyfansoddi; gan hyny, y mae yn canlyn nad yw y ffaith fod ansawdd yn anrhanadwy yn un prawf fod y defnydd sydd yn feddiannol ar yr ansawdd hwnw yn anrhanadwy. Felly, os ydyw ymwybyddiaeth yn anrhanadwy, nid yw yn brawf fod deiliad yr ymwybyddiaeth felly. “Yr ydym yn gwybod mor ychydig am ansoddau cyntefig mater—am hanfod mater a meddwl—fel y mae pob ymresymiad a sylfaenir ar y cyfryw wybodaeth, nid yn unig yn anfodhaol, ond yn hynod agored i gael ei droi yn erbyn y gwirionedd ag yr ydym yn ceisio ei amddiffyn.”—*Angus' Edition of Butler.*]

ynddynt—y gallasai fod genym gyrff, yn llawn bywyd, ac yn meddu ar beiriannau a synwyrâu cwbl wahanol i'n rhai presennol; ac y gallwn eto fywioli yr un cyrff, neu rai newyddion, o gyfluniad cwbl wahanol—ag ydyw dirnad pa fodd y gallwn fywioli cyrff fel ein rhai presennol. Ac, yn ddiweddaf, ni byddai gan ymddattodiad yr amrywiol gyrff cyfluniedig yma, a thybied ein bod ein hunain wedi eu bywioli y naill ar ol y llall, ddim mwy o ddylanwad, am a wyddom, er dinystrio y bodau bywiol—ni ein hunain—neu ein hamddifadu o'n galluoedd i feddwl a gweithredu, nag a fyddai gan ddinystriad unrhyw ddefnydd allanol, oddi wrth yr hwn y gallwn dderbyn argraffiadau, a'r hwn y gallwn wneyd defnydd o hono yn achlysuron cyffredin ein bywyd.

II. Nis gellir, yn wir, oddi wrth natur y peth ei hun, brofi ymledd ac undod y bod bywydol trwy brawfiadau celfyddyd. Ond fel y mae y rhai hyn yn *cytuno* â'r dybiaeth am ei undod, felly y maent yn ein harwain i wneyd *casgliad* sicr, nad yw ein cyrff cyfluniedig, â'r rhai y canfyddwn wrthddrychau y synwyrâu ac y gweithredwn, yn rhan o honom ein hunain, ac am hyny yn dangos i ni nad oes genym un rheswm i gredu y bydd eu dinystr hwynt yn ddinystr arnom ein hunain, hyd yn oed heb i ni benderfynu pa un ai materol ynte anfaterol ydyw ein sylweddau bywydol. O blegid yr ydym yn gweled trwy brofiad y gall dynion golli eu haelodau, peiriannau eu synwyrâu, a hyd yn oed y rhan fwyaf o'r cyrff hyn, ac eto parhau i fod yr un bodau. A gall dynion olrhain eu bodolaeth eu hunain at amser pryd yr oedd maintioli eu cyrff yn hynod fach mewn cymhariaeth i'r hyn ydyw mewn llawn oedran; ac nis gallwn lai na meddwl y gallasant y pryd hyny golli cryn ran o'r corff bychan hwnw, ac aros, er hyny, yr un bodau bywydol—fel y gallant yn awr golli rhan fawr o'r corff presennol, ac aros felly. Ac y mae yn sicr fod corff pob anifail yn goddef treuliad parhaus, a chyfnewidiad, oddi wrth y rhwbiad dibaid sydd yn mhob rhan o hono. Yn awr, y mae ystyriaethau fel hyn yn ein dysgu i wahaniaethu rhwng y bodau bywydol—ni ein hunain—a'r mater, neu y defnydd, yr hwn sydd yn dwyn perthynas agos â ni; o blegid gall y diweddaf gael ei wahanu oddi wrthym, ac y mae mewn gwirionedd yn cyfnewid ac yn treulio yn feunyddiol, tra yr ydym yn gwbl sicr fod pob gweithredydd bywydol yn aros yn wastad yr un bod. Ac arweinia y sylw cyffredinol hwn ni yn mlaen at y sylwadau canlynol:—

Yn gyntaf, Nad oes genym un ffordd i benderfynu trwy brofiad beth yw maintioli y bod bywydol y mae dyn yn ei alw 'ei

hunan;’ ac eto, hyd oni cheir allan ei fod yn fwy mewn maint-
ioli na’r gronŷn lleiaf o fater, yr hwn nid oes un sail i feddwl y
dichon un gallu naturiol ei ddadgyssodi, nid oes un math o res-
wm i feddwl y bydd marwolaeth yn ddadgyssodiad arno—ar y bod
bywydol—hyd yn oed pe na byddai ynddo ei hun yn anwahanadwy.

Yn ail, Gan fod perthynas mor agos a chu rhyngom a’n cyrff,
ac wedi hyny y berthynas hono yn darfod rhyngom a rhanau o
honynt, a bod y bodau bywydol—sef ni ein hunain—yn parhau
trwy y cwbl heb eu dinystrio, er gwahanu rhanau o’r cyrff oddi
wrthym—ac o ganlyniad, y rhanau hyn heb fod yn rhan o hon-
om—y mae yn canlyn yn mhellach nad oes genym un sail i
feddwl mai rhyw gyfluniad arall—*cyfluniad mewnol* o fater, tyb-
ier—ydyw y bod bywydol, ni ein hunain; o blegid nis gall fod
genym un sail i feddwl hyn ond oddi wrth ein perthynas â mater
neu ddefnydd arall, a’n dyddordeb ynddo. Yr ydym wedi colli
yn barod, lawer gwaith drosodd, ran fawr, neu efallai yr oll, o’n
corff, yn unol â rhai o ddeddfau cyffredin natur; eto, yr ydym
yn aros yr un bodau bywydol: pan gollwn ran mor fawr o’r
corff, neu yr holl gorff, trwy ddeddf arall mewn natur, sef marw-
olaeth, pa ham nas gallwn hefyd aros yr un? Nid yw yr ystyr-
iaeth fod hyn yn cael ei wneyd yn y naill yn raddol, ac yn y
llall yn fwy ar unwaith, yn profi dim i’r gwrthwyneb. Yr ydym
wedi myned heb ein difodi trwy lawer o gyfnewidiadau pwysig
ar ein cyrff; a pha ham y tybiwn y bydd angeu mor ddinystriol
i ni? Nis gellir chwaith ddwyn gwrthddadl yn mlaen, nad yw
y mater sydd wedi ei wahanu oddi wrthym, neu ei gwbl golli,
yn rhan o’n corff gwreiddiol, ond yn unig yn fater damweiniol
ac achlysurol; o blegid gallwn golli aelodau cyfain, y rhai a
gynnwysant o angenrheidrwydd amryw o ranau y corff gwreidd-
iol; neu os na chaniateir hyn, nid oes genym un prawf fod un
o’r rhanau hyn yn cael ei ddadgyssodi gan angeu; er, a dyweyd
wrth fyned heibio, ein bod yn dwyn perthynas agos â’r mater
damweiniol hwnw, tra y parhao mewn undeb â’n corff gwreiddiol.

Ond, wedi y cwbl, pa beth ydyw y berthynas sydd rhwng dyn
a’r rhanau hyny o’i gorff, â’r rhai y mae yn dal y cyssylltiad
agosaf, yn rhagor na bod y gweithredydd bywydol a’r rhanau
hyny o’r corff yn effeithio y naill ar y llall? A gellir dyweyd
yr un peth—yr un peth o ran natur, er nad mewn graddau—
am bob defnydd allanol i ni sydd yn rhoddi meddylddrychau i
ni, a’r hwn y mae genym allu a dylanwad arno. Y mae y
sylwadau hyn yn symmud pob sail dros dybied fod distrywiad
unrhyw ddefnydd yn ddinystriol ar y gweithredydd bywiol, ar gyf-
rif y dyddordeb a fuasai yn ei deimlo unwaith yn y defnydd hwnw.

Yn drydydd, Os edrychwn ar ein corff yn fwy neillduol, fel wedi ei wneyd i fyny o beiriannau canfyddiad a symmudiad, arweinir ni i'r un casgliad. Fel hyn, y mae y prawfiadau golygol (*optical experiments*) cyffredin, a hyd yn oed y ffaith fod y golwg yn cael ei gynnorthwyo gan wydrau, yn dangos ein bod yn gwelwed â'n llygaid yn yr un ystyr ag y gwelwn â gwydrau.¹ Ac nid oes un rheswm i gredu ein bod yn gweled â hwynt mewn un dull arall—un dull a bâr i ni feddwl fod y llygad ei hun yn gweled. Yr un peth sydd i'w ddyweyd am y clyw. Ac y mae teimlo rhyw ddefnydd caled oddi draw gyda rhyw offeryn yn ein llaw, yn anghraifft o natur gyffelyb, gyda golwg ar y pwnc dan ein hystyriaeth. Y maent oll yn anghreiffitiau o ddefnydd neu fater allanol, neu y cyfryw sydd heb fod yn rhan o'n corff, yn cael ei ddefnyddio fel offeryn i ddarparu gwrthddrychau i'r gallu canfyddol, ac i'w trosglwyddo ato, mewn modd cyffelyb i'r hwn y mae peiriannau ein synwryaeth yn eu darparu a'u trosglwyddo. Y mae y naill a'r llall yn offerynau trwy y rhai yr ydym yn derbyn y cyfryw syniadau oddi wrth wrthddrychau allanol, fel y mae Awdwr natur wedi trefnu i'r gwrthddrychau allanol hyny i fod yn achlysuron i'w cynnyrchu ynom. Y mae gwydrau, fodd bynag, yn esamplau o hyn; sef, o ddefnydd nad yw yn un rhan o'n corff yn paratoi gwrthddrychau i'r gallu canfyddol, ac yn eu trosglwyddo ato, yn gyffelyb ag y gwna ein peiriannau corfforol. Ac os ydym yn gweled â'n llygaid yn yr un dull ag yr ydym â gwydrau, gellir yn briodol gasglu yr un peth oddi wrth gyfatebiaeth am ein holl synwryau ereill. Ni fwriedir cadarnhau trwy ddim a ddywedir yma, y gellir olrhain y synwyr o weled, neu un o'r synwryau ereill, trwy ei holl yrfaeodd hyd at y gallu bywydol sydd yn gweled; ond can belled ag y gellir ei olrhain trwy brawfiadau, ymddengys fod peiriannau ein synwryaeth yn darparu ac yn cludo gwrthddrychau, mewn trefn i gael ymwneyd â hwynt fel y mae defnydd allanol yn gwneyd, heb roddi un rhith o debygrwydd eu bod hwy eu hunain yn canfod, ond mai gweithredu yn unig fel offerynau y gallu bywydol y maent. A chadarnheir gan y ffaith fod dynion yn colli rhai o beiriannau eu synwryaeth, ac eto hwy eu hunain yn parhau yr un—y gallu bywydol yn aros heb un adfeiliad arno—nad yw y peiriannau hyny eu hunain yn amgen nag offerynau; nad ydynt eu hunain yn canfod, ac yn ymwneyd â, gwrthddrychau. Cadarnheir yr un peth hefyd gan

[¹ Y mae Plato (yn *Alcib. Prim.* 51), yr un fath a Butler, yn gwahaniaethu y dwylaw a'r llygaid oddi wrth y *dyn* sydd yn eu defnyddio. “Y meddwl sydd yn gweled: y mae pob peth arall yn fyddar a dall.” Diareb Roegaidd ydyw hon, yn cael ei dyfynu gan Hamilton.—*Reid*, td. 246.]

y prawf a geir oddi wrth freuddwydion: gwelwn trwyddynt hwy ein bod yn feddiannol yn bresennol ar allu dirgel—gallu na buasem yn dychymygu am dano oni buasai breuddwydion—trwy yr hwn y canfyddir gwrthddrychau allanol, mewn modd mor eglur a bywiog, heb gymhorth ein peiriannau allanol, fel gyda hwynt.

Y mae hefyd yr un fath gyda'r gallu sydd genym i ymsymmud trwy ewyllysiad: ar ol dinystrio aelod, y mae y gallu hwn yn aros yn ddileihâd; fel y byddai gan y bod bywydol a gollodd ei aelod allu i ymsymmud fel o'r blaen, pe bai ganddo aelod arall. Gall gerdded gyda choes bren, yr un modd ag y gall ddefnyddio pawl i estyn neu symmud rhywbeth rhy bell i'w fraich wneyd hyn; ac y mae yn gwneyd gyda'r naill fel gyda'r llall. Ac nid oes dim yn peri i ni feddwl fod ein haelodau wedi eu cynnysgaethu â gallu i symmud a rheoli eu hunain; er eu bod wedi eu cyfaddasu, fel amrywiol ranau peiriant, i fod yn offerynau symmudiad y naill i'r llall, a rhai rhanau o'r un aelod i fod yn offerynau symmudiad i ranau ereill.

Fel hyn, y mae dyn yn penderfynu yr edrycha ar ryw wrthddrych trwy fwyadur; neu y bydd iddo, am ei fod yn gloff, gerdded â ffon i ryw fan. Nid oes gan ei lygaid a'i draed fwy w wneyd yn y penderfyniadau hyn na'r mwyadur a'r ffon. Ac nid ymddengys un sail i feddwl fod ganddynt fwy o law mewn dwyn y penderfyniadau i ymarferiad—mai y llygaid sydd yn gweled, mai y traed sydd yn peri y symmudiad—nag sydd gan y mwyadur a'r ffon. Felly, nid yw peiriannau ein synwriaeth a'n haelodau ond offerynau, y rhai y mae y personau bywiol, ni ein hunain, yn eu defnyddio i weled ac ymsymmud; nid oes un tebygolrwydd eu bod yn ddim amgen na hyn; nac, o ganlyniad, fod un math arall o berthynas rhyngom a hwynt na'r hyn a all fod rhyngom ag unrhyw ddefnydd arall wedi ei ffurfio yn offerynau i weled ac ymsymmud trwy eu cynnorthwy (nid oes, meddaf, unrhyw *fath* arall o berthynas, er y gall wahaniaethu mewn gwahanol achosion mewn *gradd*); ac o ganlyniad, nid oes un tebygolrwydd y bydd gwahanu yr offerynau hyn oddi wrthym, neu eu dadgyssodi, yn ddinystyr ar y bod sydd yn gweled ac yn ymsymmud.

Gan ein bod yn gweled nad yw dadgyssodiad defnydd ag y buasai bodau bywiol yn teimlo y dyddordeb mwyaf ynddo yn ddinystyr arnynt hwy, ac nad yw distrywiad yr amrywiol beiriannau synwriaeth a symmudiad a berthyna iddynt yn ddinystyr arnynt hwy, dengys hyn yn eglur nad oes un sail i feddwl y bydd i ddadgyssodiad unrhyw ddefnydd arall, neu beiriannau ereill, fod yn ddinystyr ar y bodau bywydol, oddi wrth fod rhyng-

ddynt berthynas gyffelyb â hwynt. Ac nid oes genym un rheswm dros feddwl fod un math arall o berthynas rhyngom ag unrhyw beth a ddinystir gan angeu.

Ond, dywedir fod y sylwadau hyn yr un mor briodol i'w cymhwyso at anifeiliaid; ac ystyrir ei fod yn anhawsder anorfod eu bod hwy yn anfarwol, ac, o ganlyniad, yn alluog i fwynhau dedwyddwch tragwyddol.¹ Yn awr, y mae y dywediad hwn yn adgas ac yn wan; ond nid yw yr hyn a fwriedir ynddo yn un anhawsder mewn gwirionedd, wrth ei ystyried mewn dull naturiol neu foesol. O blegid—1. Tybier fod y syniad adgas a fwriedir yn y cyfryw ddywediad yn cael ei arwyddo mewn gwirionedd yn anfarwoldeb naturiol anifeiliaid; sef y rhaid iddynt ddyfod yn feddiannol ar gyrhaeddiadau mawrion, a dyfod yn weithredwyr rhesymol a moesol—ni byddai hyd yn oed hyn yna yn anhawsder, o blegid nis gwyddom pa alluoedd cuddiedig sydd ganddynt hwy. Bu unwaith, yn flaenorol i brofiad, gymmaint o sail i dybied na buasai dynion yn cyrhaedd y radd hono o ddealltwriaeth ag sydd ganddynt mewn llawn oedran, mwy nag anifeiliaid; o blegid gallwn olrhain ein bodolaeth ein hunain hyd at sefyllfa gyffelyb i'r eiddynt hwy. Ac yr ydym yn gweled ei bod yn ddeddf gyffredin mewn natur, fod creaduriaid a gynnysgaethwyd â galluoedd cymhwys i ymwneyd â rhinwedd a chrefydd wedi eu gosod mewn sefyllfa o fodolaeth yn yr hon y maent yn amddifad o fodd i ymarfer y galluoedd hyny, megys mewn babandod a mebyd; ac y mae rhan fawr o ddynolryw yn ymadael â'r byd presennol cyn dyfod i'w ymarfer yn y radd leiaf. Ond eto, yn 2il, Nid yw anfarwoldeb naturiol anifeiliaid yn arwyddo, yn y radd leiaf, eu bod yn feddiannol ar unrhyw

[¹ Pe buasai grym pendant (*positive*) yn yr ymresymiad oddi wrth gyfatebiaeth, buasai yn profi fod anifeiliaid yn gystal a dynion yn anfarwol. Y mae yr elfen fywiol yn parhau yn yr anifail ar ol colli un neu rai o'i aelodau. Gellid cario yr ymresymiad yn mlaen yn mhellach na'r byd anifeilaidd—hyd yn oed at y byd llysiuol. Y mae yr ymresymiad oddi wrth gyfatebiaeth yn gosod dynion, anifeiliaid, a llysiâu, ar yr un tir, o barth i'r posibilrwydd iddynt fod yn anfarwol, mor bell ag y mae a wnelo marwolaeth â'r elfen fywiol sydd ynddynt. Yr oll y mae cyfatebiaeth (gyda golwg ar yr amgylchiad o farw) yn ei ddangos ydyw, fod ein hanfarwoldeb yn *bosibl*: felly hefyd gydag anifeiliaid. Y mae yn rhaid ynofyn am brofion penderfynol mewn rhyw feusydd ereill; ac y mae y profion hyny yn sylfaenedig, nid ar yr hyn a fedda dynion ac anifeiliaid fel eu gilydd, ond ar y pethau sydd yn gwahaniaethu dynion oddi wrthynt, sef cydwybod a rheswm, y rhai ni feddiennir gan un creadur daiarol oddi eithr dyn. 1. Y mae ymresymiad Butler yn y bennod hon yn dangos fod anfarwoldeb yr enaid yn *bosibl*, ac nad yw mewn un modd yn *annhebygol*: a gellir cymhwyso hyn at anifeiliaid; ac, fel y sylwa Chalmers, at llysiâu, yn gystal a dynion. 2. Y mae y prawf oddi wrth reswm dyn, a'r prawf moesol oddi wrth ei gydwybod, yn dangos fod anfarwoldeb yr enaid nid yn unig yn *bosibl*, ond yn debygol i'r graddau uchaf.]

alluoedd o natur resymol a moesol. Ac y mae y bydysawd yn gofyn ar fod creaduriaid byw heb fod yn feddiannol ar alluoedd o'r dysgrifiad yma. Ac y mae pob anhawsderau o barth i'r modd yr ymddygir atynt wedi eu sylfaenu, fel y mae yn eglur, mor hollol ar ein hanwybodaeth, fel y mae yn beth rhyfedd y dygir hwy yn mlaen gan neb ond y rhai sydd yn ddigon gweiniaid i feddwl eu bod yn gydnabyddus â holl gyfundrefn natur. Nid oes felly ddim sylwedd yn yr wrthddadl yma, yr hon a ddygir yn mlaen mor fostfawr yn erbyn y nifer mwyaf o'r profion naturiol dros anfarwoldeb yr enaid—yn erbyn y nifer mwyaf a ddywedais; o blegid nis gellir ei chymhwyso i'r un graddau at y sylwadau canlynol, y rhai a berthynant yn fwy arbenig i ddynolryw:—

III. Fel nad yw ein galluoedd *presennol*—y rheswm, y cof, a'r serch—yn dibynu ar ein corff cyfansawdd, yn yr un dull ag y dibyna canfyddiad trwy beiriannau ein synwryaeth; felly, nid ymddengys eu bod yn dibynu arno mewn un dull ag a rydd sail i feddwl y bydd dadgyssodiad y corff hwn yn ddinystyr ar ein galluoedd adfyfyriol fel ar ein galluoedd synwryddol, neu sail i gasglu hyd yn oed y bydd yn attalfa ar y rhai blaenaf.

Y mae dynion yn bodoli yn bresennol mewn dwy ystâd o fywyd a dirnadaeth sydd yn dra gwahanol oddi wrth eu gilydd; a chan y naill a'r llall eu deddfau, eu mwynderau, a'u poenau priodol iddynt eu hunain. Pan y mae un o'r synwryau yn cael effeithio arno, neu ein blysiâu eu boddhau â'u gwrthddrychau, gellir dywedyd ein bod yn hanfodi neu yn byw mewn ystâd o deimladaeth. Pan na effeithir ar un o'n synwryau, ac na foddhëir ein blysiâu, a ninnau er hyn yn dirnad, yn rhesymu, ac yn gweithredu, gellir dywedyd ein bod yn hanfodi neu yn byw mewn ystâd o adfyfyriad. Yn awr, nid yw yn sicr fod dim a ddinystir gan angeu mewn un ffordd yn angenrheidiol i'r bod bywydol, yn yr ystâd hon o adfyfyriad, ar ol iddo gael meddyl-ddrychau. O blegid er fod ein peiriannau allanol yn angenrheidiol, oddi wrth ein cyfansoddiad a'n sefyllfa bresennol, er trosglwyddo syniadau i'n galluoedd adfyfyriol, fel y mae certwyni a throsolion a chlwydi mewn adeilyddiaeth, eto, ar ol i'r syniadau hyn gael eu dwyn i mewn, yr ydym yn alluog i adfyfyrio i'r graddau dwysaf, ac i fwynhau y pleser a theimlo y poen mwyaf trwy gyfrwng yr adfyfyriad hwnw, heb dderbyn un cymhorth oddi wrth ein synwryau; a dim oll, ar a wyddom, oddi wrth y corff hwnw a ddinystir gan angeu. Nid ymddengys, felly, fod perthynas y corff â'n bod adfyfyriol yn angenrheidiol yn y gradd lleiaf er gallu meddwl—er

mwynhâd a phoen meddyliol—nac, o ganlyniad, fod dadgysodiad y cyntaf trwy farwolaeth yn ddinystyr ar y galluoedd presennol hyny sydd yn ein galluogi i hanfodi yn yr ystâd hon o adfyfyriad. Yn mhellach: mae esamplau o glefydau marwol, y rhai nad ydynt yn effeithio dim ar ein galluoedd deallol presennol; ac y mae hyn yn sail i dybied na bydd i'r clefydau hyny ddinystrio y galluoedd hyn. Ymddengys yn wir, oddi wrth y sylwadau a wnaed yn barod, nad oes un sail i dybied, ar gyfrif yr effaith y maent yn ei gael ar eu gilydd, fod dadgysodiad y corff yn ddinystyr ar y gweithredydd bywydol. Ac oddi wrth yr un rheswm, ymddengys hefyd nad oes un sail i dybied, ar gyfrif yr effaith y maent yn ei gael ar eu gilydd, fod dadgysodiad y corff yn ddinystyr ar ein galluoedd adfyfyriol presennol; ond y mae anghreiffiau sydd yn dangos nad ydynt yn fynych yn effeithio ar eu gilydd yn rhoddi sail i dybied i'r gwrthwyneb. Y mae anghreiffiau o glefydau marwol yn peidio anmharu ein galluoedd adfyfyriol presennol, yn peri fod yn anhawdd i ni ddychymygu fod y cyfryw glefydau yn ddinystyr arnynt. Y mae llawer o bethau, yn ddiammheu, yn effeithio yn ddwys ar ein holl alluoedd bywydol, ac yn y diwedd yn attal eu gweithrediad;—marweidd-dra, er esampl, yr hwn sydd yn cynnyddu yn raddol nes diweddu mewn trymgwsg: a gallasem dybied oddi wrth ystyriaeth fel hyn y buasai hyd yn oed yn eu dinystrio, oni buasai i ni weled trwy brofiad fod y dull hwn o farnu yn ddull gwan a chyfeiliornus. Ond yn y clefydau a grybwyllwyd, nid oes cymmaint a hyn o debygolrwydd i'n harwain i gasglu yr un peth am y galluoedd adfyfyriol a feddwn yn bresennol; o blegid yn y clefydau hyn, y mae personau yn ynyl marw yn ymddangos fel pe byddent yn nghanol nerth bywyd. Amlygant ddirnadaeth, cof, a rheswm, heb eu niweidio; dangosant serchiadau cryfion, teimlad o gywilydd ac anrhydedd, a'r mwynhâd a'r poen meddyliol uchaf, hyd yr anadl olaf; ac y mae y pethau hyn yn sicr yn arddangos mwy o nerth bywyd nag y mae cryfder corfforol yn ei arddangos. Yn awr, pa sail sydd i dybied y bydd i'r clefyd hwnw, pan gynnydda hyd at farwolaeth y corff, ddinystrio y galluoedd hyny na anmharwyd ganddo yn y graddau lleiaf hyd yr adeg hono? Ac os nad yw farwolaeth trwy glefydau fel hyn yn ddinystyr ar ein galluoedd adfyfyriol presennol, prin y meddylir ei fod trwy un moddion arall.

Y mae yn eglur y gellir cario y sylw cyffredinol hwn yn mhellach. Ac ymddengys fod mor lleied o gyssylltiad rhwng galluoedd corfforol ein teimladaeth a'n galluoedd adfyfyriol, fel

nad oes un rheswm i gasglu fod angeu, sydd yn dinystrio y cyntaf, yn gwneyd cymmaint ag attal gweithrediad y diweddaf, neu yn ein lluddias i *barhau* mewn ystâd o adfyfyriad cyffelyb i'r hon yr ydym ynddi yn bresennol. O blegid nid yw attaliad ar weithrediadau y rheswm, y cof, a'r teimpladau, yn un rhan o'r drychfeddwl am farwolaeth, nac yn cael ei gynnwys yn ein syniad ni am dano. Ac y mae y profiad beunyddiol sydd genym fod y galluoedd hyn yn cael eu hymarfer, heb dderbyn un cynnorthwy, am ddim a wyddom ni, oddi wrth ein cyrff a ddinystir gan angeu, a'n bod yn gweled yn fynych eu bod yn gweithredu mor fywiog hyd yr anadl olaf—y mae y ffeithiau hyn, meddaf, yn rhoddi sail deg i feddwl y gall na bydd angeu yn gymmaint ag attaliad ar weithrediad y galluoedd hyn, ac ar y mwynderau a'r dyoddefiadau a gynnwysir yn eu gweithrediad; fel na bydd y bywyd, ar ol angeu, pa beth bynag a fydd ynddo yn chwanegol at ein bywyd presennol, yn fywyd newydd yn cael ei ddechreu, ond yn barhâd o'n bywyd presennol. Gall marwolaeth fod, mewn rhai golygiadau, yn debyg i'n genedigaeth; yr hyn nid yw yn attaliad ar weithrediadau y galluoedd oedd genym o'r blaen, neu yn gyfnewidiad trwyadl ar ein sefyllfa yn y groth, ond yn barhâd ar ein galluoedd a'n sefyllfa gyda rhyw gyfnewidiadau neillduol.

Ac am ddim a wyddom yn amgen am danom ein hunain, am ein bywyd presennol, ac am angeu, gall angeu, yn ol trefn pethau, ein dwyn yn ebrwydd i ystâd uwch ac eangach o fywyd, fel y dygir ni yn ein genedigaeth; yn yr hon y byddai ein galluoedd, a'n cylch o feddwl a gweithredu, yn llawer mwy nag ydynt yn bresennol. O blegid fel y mae y berthynas sydd rhyngom a'n synwyrâu allanol yn ein gwneyd yn gymhwys i hanfodi yn ein sefyllfa bresennol o deimpladaeth, felly, gall fod yr unig rwystr naturiol i ni hanfodi mewn sefyllfa uwch o adfyfyriaeth. Y gwir yw, nid yw rheswm yn dangos i ni yn mha ystâd y mae marwolaeth yn naturiol yn ein gadael ynddi. Ond pe byddem yn sicr y rhoddai attaliad ar ein holl alluoedd i feddwl a gweithredu; eto, y mae attaliad ar allu, a dinystr ar y gallu hwnw, yn effeithiau o natur mor wahanol—fel y mae yn eglur oddi wrth ystâd y galluoedd mewn cwsg neu lewyg—fel

[Y maetri o gwestiynau o barth y bywyd dyfodol yn cael eu hystyried yma:—A ydyw marwolaeth yn ddinystyr ar y gweithredydd bywiol? Os nad yw, a ydyw yn ddinystyr ar ei alluoedd *presennol* o adfyfyriad; fel y mae, yn ddiammheu, ar ei alluoedd presennol o deimpladaeth? Ac os nad yw, a ydyw yn attaliad ar weithrediadau y galluoedd adfyfyriol presennol? Yn awr, os nad oes sail i gredu y diweddaf, y mae llai, pe bai yn bosibl, i gredu yr ail, a llai fyth i gredu y cyntaf.]

nas gallwn mewn modd yn y byd ymresymu oddi wrth y naill at y llall, neu gasglu, gyda'r gradd lleiaf o debygolrwydd, fod yr un math o nerth ag sydd yn ddigon i roddi attaliad ar ein galluoedd, er wedi ei chwanegu i'r graddau a fyner, yn ddigonol er eu dinystrio.

Y mae y sylwadau hyn, wrth eu cymmeryd gyda'u gilydd, yn ddigon i ddangos pa mor lleied sydd o sail i dybied fod angeu yn ddinystyr ar bersonau. Y mae, fodd bynag, un gyfatebiaeth ymddangosiadol a allai ein harwain i dybied ei fod felly, sef y tebygrwydd a dybir sydd rhwng darfyddiad llysiau ag eiddo creaduriaid byw. Ac y mae y tebygrwydd hwn yn ddigon mawr i gynnysgaethu beirdd â chyfeiriadau at fiodau y maes, pan yn arddangos eiddilwch ein bywyd presennol. Ond mewn rhesymiaeth (os ydyw yn ganiataol mewn barddoniaeth), y mae y gyfatebiaeth mor bell oddi wrth fod yn bwrpasol, fel nad oes un sail dros gymharu y naill â'r llall, o barth i'r cwestiwn presennol; o blegid y mae un o'r gwrthdrysiau a gyferbynir yn hollol amddifad o'r peth sydd yn benaf ac uchaf yn y llall—sef y gallu i feddwl a gweithredu; a'r hyn ydyw yr unig beth ag yr ydym yn ymholi yn nghylch ei barhâd. Felly, nid yw darfyddiad llysiuyn yn dwyn un cyfatebrwydd i ddinystyr bod byw.

Ond, os gadawn heibio, fel yr awgrymwyd eisoes, yr arferiad o osod y dychymyg yn lle profiad, a chyfyngu ein hunain at yr hyn yr ydym yn ei wybod ac yn ei ddeall; os ymresymwn yn unig oddi wrth hynny, ac oddi wrth hynny hefyd ffurfio ein dysgwyliadau—ymddangosai ar y golwg cyntaf, fel nas gellir casglu un tebygolrwydd y bydd i fodau byw byth beidio a bod felly oddi wrth reswm y peth ei hun, felly nis gellir casglu yr un oddi wrth gyfatebiaeth natur; o blegid nis gallwn olrhain yr un bod byw tu hwnt i angeu. Ond gan ein bod yn ymwybodol ein bod wedi ein cynnysgaethu â galluoedd i feddwl a gweithredu, a'n bod yn bersonau byw, yr hyn yr ydym i bwysu arno ac i ddal gafael ynddo ydyw, y bydd i ni barhau i fod felly hyd oni ragwelwn ryw ddamwain neu ddygwyddiad a berygla y galluoedd hynny, neu a fydd yn debyg o roddi dinystr arnom: ac nid ymddengys mewn ur modd fod angeu yn ddygwyddiad o'r fath hynny.

Fel hyn, pan fyddwn wedi ymadael â'r byd hwn, gallwn fyned i blith golygfeydd newyddion, ac i ystâd newydd o fywyd a gweithrediad, mor naturiol ag y daethom i'r ystâd bresennol. A gall yr ystâd newydd hon yn naturiol fod yn un gymdeithasol; a'i manteision yn cael eu gweinyddu, yn ol rhyw ddeddfau sefydlo a chyffredinol o ddoethineb, i bob un yn gyfatebol i raddau

ei rinwedd. Ac er na byddai manteision y sefyllfa ddyfodol hono yn cael eu gweinyddu gan ewyllys y gymdeithas, fel y mae manteision yr un bresennol i ryw fesur, ond yn gwbl gan weithrediad mwy digyfrwng yr Hwn ag y mae holl drefn natur yn dibynu arno; eto, byddai y gweinyddiad o honynt mor naturiol ag ydyw y gweinyddiad yn y sefyllfa bresennol trwy offerynoliaeth dynion. Ac yn wir, er i ni gymmeryd y gair *naturiol* mewn rhyw ystyr anmhenderfynol, heb un deffiniad arno, fel y cymmerir ef yn gyffredin, eto byddai yn brawf o feddwl o'r math mwyaf cul i dybied nas gall un gyfundrefn fod yn naturiol ond yr un bresennol;¹ yn enwedig tra y mae y tebygolrwydd o sefyllfa ddyfodol, neu anfarwoldeb yr enaid, yn cael ei dderbyn ar dystiolaeth rheswm; o blegid y mae hyn yr un peth a gwadu ac addef ar yr un pryd fod ystâd o hanfodiad gwahanol i'r un bresennol yn ystâd naturiol. Ond y mae yr unig ystyr penodol sydd i'r gair *naturiol* wedi ei *osod allan a'i benderfynu*; o blegid y mae yr hyn sydd naturiol yn gofyn am, ac yn cymmeryd yn ganiataol fod, person deallgar i'w wneyd felly; *h. y.*, i'w wneyd felly yn barhäus, neu ar adegau penodedig—fel y mae yr hyn sydd oruchnaturiol neu wyrthiol yn gwneyd i effeithio y peth am unwaith. Ac oddi wrth hyn, y mae yn canlyn yr eangir syniadau dynion am yr hyn sydd naturiol, yn gyfatebol i'w gwybodaeth chwanegol hwy am weithredoedd Duw, a goruchwyliaethau ei ragluniaeth. Ac nid oes dim gwrthuni mewn tybied y gall fod bodau yn y bydyssawd, y rhai a feddant alluoedd, a gwybodaeth, a golygiadau mor eang, fel y mae holl drefn yr efengyl yn ymddangos iddynt yn naturiol; *h. y.*, yn gyfatebol i ymddygiadau Duw at ranau ereill ei lywodraeth—mor naturiol ag yr ymddengys cwrs gweledig a gwybyddus natur. O blegid prin yr ymddengys un ystyr arall yn bosibl i'w roddi i'r gair, ond yr ystyr a arferir yma—tebyg, sefydlog, unffurfiol.

Y mae y tebygolrwydd yma o sefyllfa ddyfodol, â'r hyn yr ym-drinwyd genym yn bresennol, pa mor lleied bynag y boddlonia ein cywreinrwydd, eto yn ateb holl amcanion crefydd, yn yr un dull ag yr atebasai prawf o natur uwch.² Ni byddai y prawf uchaf o sefyllfa ddyfodol yn brawf o grefydd. O blegid y mae yr ystyriaeth ein bod i fyw ar ol hyn bron mor hawdd i'w gymmodi âg annuwiaeth, a'r ystyriaeth ein bod yn byw yr awrthion; ac, am hyny, nid oes dim a all fod yn fwy gwrthun nag ymresymu oddi wrth greddo yr annuwriad nas gall sefyllfa ddyfodol fod. Ond

¹ Gwel Rhan II., pen. ii. iii.

² *Demonstrative proof*=arbrawf.

gan fod crefydd yn cynnwys y syniad am sefyllfa ddyfodol, y mae unrhyw sail i goledd tybiaeth yn erbyn bodolaeth y cyfryw sefyllfa yn milwrio yr un modd yn erbyn crefydd. Ac y mae y sylwadau blaenorol yn symmud ymaith pob tybiaeth, a phob sail i dybiaeth, o'r fath; ac yn profi, hyd y graddau pellaf o debygolrwydd, un o athrawiaethau sylfaenol crefydd—yr hon, pe rhoddid crediniaeth iddi, a agorai ac a ddarparai y meddwl i roddi sylw difrifol i brawf cyffredinol y cyfan.

PENNOD II.

AM LYWODRAETH DUW TRWY WOBWRWYON A CHOSPAU; A'R DIWEDDAF YN NEILLDUOL.¹

Yr hyn sydd yn gwneyd y cwestiwn, o barth i fywyd dyfodol mor bwysig i ni ydyw, ein cymhwysder i fwynhau dedwyddwch a dyoddef trueni. A'r hyn sydd yn gwneyd ein hystyriaeth o hono mor bwysig i ni ydyw, y dybiaeth fod ein dedwyddwch a'n trueni ar ol hyn yn dibynu ar ein gweithrediadau yn awr. Heb hyn, nis gallai cywreinrwydd lai na dwyn i'n sylw fater, yn yr hwn y teimlem ddyddordeb mawr; sef, marwolaeth pobl ereill, neu agosâd ein marwolaeth ein hun. Ond ni feddyliai dynion call ddim yn mhellach yn nghylch sefyllfa ddyfodol na'r hyn a gyfodai yn achlysurol fel hyn yn eu meddwl, pe y byddai yn beth sicr nad yw ein cyflwr yn y dyfodol yn ymddibynu dim ar ein hymddygiadau yn y presennol. Ond, yn y gwrthwyneb, os oes rhyw sail, naill ai oddi wrth gyfatebiaeth neu rywbeth arall, i feddwl fod y dyfodol yn dibynu ar y presennol, yna y mae y rheswm cryfaf dros arfer y dyfalwch a'r pryder mwyaf tuag at

[¹ "Er na ddylem ystyried fod y cyfatebiaethau a ddygir yn mlaen yn y bennod hon yn *rhesymau* o blaid sefyllfa ddyfodol o wobrwyon a chospau, eto y maent oll yn ddigonol i wrthdaro y gwrthddadleuon a ddygir yn erbyn ei hanfodiad. Dichon nad ydynt yn ddigon cedyrn i ffurfio prawf o blaid, ond torant ymaith yn effeithiol bob sail i wrthwynebiad." — *Chalmers' Lectures on Butler's Analogy*.

Dylid cadw mewn cof mai llefaru am lywodraeth Duw yn syml y mae Butler yn y bennod hon—nid am ei lywodraeth foesol. Llywodraeth *foesol* ydyw pwnc *ven. iii.* Y mater yn y bennod hon yw: "Y mae i weithredoedd eu canlyniadau, ac y mae y canlyniadau hyny yn cael eu rhagweled." Pwnc y drydedd bennod yw: "Y mae i weithredoedd *rhinweddol* ganlyniadau *hapus*, ac y mae y canlyniadau hyny yn cael eu rhagweled." Sylwa un o esbonwyr Butler fod genym yn y bennod hon atebion cyflawn i'r sawl sydd yn edrych ar grefydd yn unig fel pwnc (*theory*). Nid yw yn perthyn i ymchwiliadaeth yn gymmaint ag i'r cwestiynau ymarferol hyny ag y mae ein sefyllfa yn ein gorfodi i benderfynu yn y naill ffordd neu y llall arnynt.]

sicrhau dedwyddwch yn y sefyllfa i ddyfod, ac i ymddwyn yn y fath fodd ag i osgoi ei thrueni, yr hyn a dybir genym sydd wedi ei roddi yn ein cyrhaedd a'n gallu. A haeddai y cwestiwn, a oes sail i'r dybiaeth hon, yr ystyriaeth fwyaf difrifol, pe na bai un prawf cryfach o sefyllfa ddyfodol na'r tebygolrwydd cryf a ellir ei gael oddi wrth y sylwadau yn y bennod flaenorol.

Yn awr, y mae yr oll a fwynhawn, a rhan fawr o'r hyn a ddyoddefwn, yn ein sefyllfa bresennol, *wedi ei osod o fewn cylch ein gallu ein hunain*. O blegid canlyniadau ein gweithrediadau ydyw pleser a phoen; ac yr ydym wedi ein cynnysgaethu gan Awdwr ein natur â galluoedd i ragweled y canlyniadau hyn. Yr ydym yn gweled trwy brofiad nad yw yn gwneyd cymmaint a chadw a diogelu ein bywyd, ar wahân oddi wrth ein gofal a'n hymdrech ein hunain i feddiannu a defnyddio y gynnalïaeth a ordeiniodd efe i gadw ein bywydau, ac heb yr hwn yr ordeiniodd yr un modd na chaent eu cadw o gwbl. Ac yn gyffredin, yr ydym yn rhagweled nas gellir cyrhaedd na mwynhau y pethau ydynt yn wrthddrychau ein hamrywiol fflysiau, oddi eithr i ni ymroddi ac ymdrechu yn y dulliau hyn neu ddulliau ereill. Ond trwy yr ymdrech a'r ymroddiad yma, yr ydym yn cyrhaedd ac yn mwynhau y gwrthddrychau hyn yn y rhai y mae ein daioni naturiol yn gynnwysedig; neu trwy y moddion yma y mae Duw yn rhoddi i ni feddiant a mwynhâd o honynt. Nid wyf yn gwybod ein bod yn meddu un math neu radd o fwynhâd, ond trwy gyfrwng ein gweithrediadau. A thrwy fod yn synwryol a gofalus, gallwn, ar y cyfan, dreulio ein dyddiau mewn cryn esmwythyd a thawelwch; neu, i'r gwrthwyneb, gallwn, trwy fyrbwylldra, nwyd aflywodraethus, trwy fynu ein ffordd—neu, hyd yn oed trwy esgeulusdra, wneyd ein hunain mor druenus ag y mynom. Ac y mae llawer yn mynu gwneyd eu hunain yn berffaith druenus; sef, trwy wneyd yr hyn y maent yn gwybod yn mlaen llaw a'u harweiniant i drueni. Y maent yn dilyn y llwybrau hyn, pen draw pa rai—fel y maent yn gwybod trwy gael eu haddysgu, trwy esampl, a thrwy brofiad—fydd gwaradwydd, tlodi, afiechyd, a marwolaeth anamserol. Y mae pawb yn canfod mai hyn yw cwrs cyffredin pethau; er yr addefir nas gallwn ganfod trwy brofiad fod ein holl boenau i'w priodoli i'n ffolineb fel eu hachos.

Pa ham na ddyry Awdwr natur ryw syniadau neillduol i'w greaduriaid yn gyffredin a diwahaniaeth, heb un golwg ar eu hymddygiad; pa ham nad yw yn eu gwneyd yn hapus heb offerynoliaeth eu gweithrediadau eu hunain, ac yn eu rhwystro i dynu trueni arnynt eu hunain—ydynt gwestiynau na pherthynant i'n

pwnc presennol. Gallai fod rhyw amhosiblwydd yn natur pethau, nad ydym ni yn adnabyddus o hono;¹ neu, efallai y cynnyrchid ar y cyfan lai o hapusrwydd trwy y cyfryw drefniant na thrwy yr un presennol; neu, efallai mai nid rhyw dueddiad syml i gynnyrchu hapusrwydd ydyw y daioni dwyfol—ond tueddiad i wneyd y da, y ffyddlawn, a'r gonest, yn hapus. Efallai fod meddwl anfeidrol berffaith yn cael ei foddhau wrth ganfod ei greaduriaid yn ymddwyn yn gydweddol â'r natur a roddes iddynt; yn gydweddol â'r cyssylltiadau y gosododd hwy ynddynt tuag at eu gilydd, ac â'r berthynas sydd rhyngddynt ag ef ei hun—y berthynas hono âg ef, yr hon sydd yn angenrheidiol dros ystod eu parhâd mewn bodolaeth, yr hon yw y bwysicaf o bob perthynas: efallai, meddaf, fod meddwl anfeidrol berffaith yn cael ei foddloni yn yr ansawdd dduwiol hon mewn bodau moesol, ynddi ac o'i phlegid ei hun, yn gystal ag ar gyfrif fod hyn yn wasanaethgar er dwyn yn mlaen hapusrwydd ei greaduriaid. Neu, gallai fod yr oll o'r amcan, er mwyn yr hwn y gwnaeth Duw y byd, ac y mae yn y modd yma yn ei lywodraethu, yn gwbl tu hwnt i gyrhaeddiad ein galluoedd; gall fod ynddo rywbeth mor amhosibl i ni gael un dirnadaeth am dano ag ydyw i ddyn dall feddu dirnadaeth am liwiau.² Ond pa fodd bynag y mae gyda hyn, y mae yn beth cwbl sicr, ac yn ffrwyth profiad cyffredinol, fod trefn gyffredin y llywodraeth ddwyfol yn ein rhagrybuddio—yn ein cynnysgaethu â modd i ragweled, gydag eglurder mwy neu lai—os bydd i ni ymddwyn fel hyn, y derbyniwn y cyfryw fwynderau; os fel arall, y goddefwn y cyfryw

¹Rhan I., pen. vii.

[²“Y mae Butler yn y paragraph hwn yn rhoddi prawf o wir wyleidd-dra athronaidd. Nid yw yn cymmeryd arno amddiffyn goruchwyliaethau Duw; ond dwg yn mlaen gyfres o dybiaethau—y rhai, yn gyffelyb i gwestiynau Syr Isaac Newton, ydynt yn gyffesiadau o anwybodaeth, yn hytrach nag yn arddangos tuedd i hylldremu i ddirgelion sydd hyd yma yn anadnabyddus i ni. Ac nid yw amcan y traethawd hwn yn gofyn am unrhyw eglurhâd penodol ar y pethau fel y maent; o blegid nid â'r Atheist y mae a wnelo: ond cymmer yn ganiataol fod ei wrthwynebydd yn credu fod Duw yn bod, ac felly ei fod yn golygu fod trefn pethau fel y mae yn gydweddol â chynlluniau ei ddoethineb a pherffeithiau ei gymmeriad moesol. Yr hyn y cymmer arno ei hun i'w ddangos yw, fod y pethau y gwrthddadleuir yn eu herbyn mewn rhyw athrawiaeth benodol mewn duwinyddiaeth i'w hadnabod hefyd yn ngoruchwyliaethau presennol natur a rhagluniaeth.”—*Chalmers' Lectures.*]

Dywed Chalmers, yn y dyfyniad uchod, fod dull Butler o drin ei fater yn y bennod hon yn arddangos meddwl gwylaidd a gostyngedig. Y mae hefyd, fel y sylwa Dr. Angus, yn dangos gwir ddoethineb yn llawn cymmaint. Sylwa Leibnitz mai y gyfundrefn bresennol o lywodraethiad, yr hon sydd yn gwneyd ein hapusrwydd yn ddibynol ar ein hymddygiadau, ydyw yr oreu a'allesid ei llunio. Y mae yn amlwg hefyd fod y drefn hon yn hanfodol i sefyllfa dyn fel gweithredydd moesol a chyfrifol.]

ddyoddefiadau; ac yn ein cynnysgaethu â'r mwynderau, ac yn rhoddi profiad i ni o'r dyoddefiadau hyny, fel canlyniadau ein gweithredoedd ein hunain. "Ond y mae hyn oll i'w briodoli i gwrs cyffredin natur." Gwir. Dyma ydyw y peth yr wyf yn ei sylwi. Y mae i'w briodoli i gwrs cyffredin natur; hyny yw, nid i'r geiriau neu y syniadau *cwrs natur*, ond iddo Ef a'i sefydlodd ac a'i trefnodd; neu i gwrs o weithrediad a elwir, ar gyfrif ei unffurfiaeth a'i sefydlogrwydd, yn naturiol, a'r hwn sydd o angenrheidrwydd yn tybied bod yn gweithredu. O blegid pan wel dynion eu bod dan fath o orfodaeth i addef fod awdwr i natur, neu fod Duw yn llywodraethwr naturiol ar y byd, rhaid iddynt beidio gwadu hyn wed'yn, am fod ei lywodraeth yn unffurf; rhaid iddynt beidio gwadu ei fod yn llywodraethu, am ei fod yn gwneyd hyny yn wastadol; am fod effeithiau ei weithrediad yn rhai parhäus, pa un bynag a ydyw ei weithrediad felly ai peidio; er nad oes un rheswm dros feddwl nad yw: mewn gair, y mae pob dyn, yn mhob peth a wna, yn gweithredu yn naturiol ar y rhagfeddwl a'r dysgwyliad am ochel y drwg a chyrhaedd y da; ac os ydyw cwrs naturiol pethau yn ordeiniad Duw, a'n galluoedd naturiol ninnau i wybod a theimlo wedi eu rhoddi ganddo ef, yna y mae y canlyniadau drwg a da a ddilynant ein gweithredoedd yn ordeiniad o'i eiddo ef, ac y mae y rhagfeddwl a feddwn ninnau am y canlyniadau hyny yn rhybudd oddi wrtho ef pa fodd yr ydym i weithredu.

"Felly, a ydyw y pleser sydd yn naturiol yn dilyn bob tro y boddheir nwyd wedi ei fwriadu i'n dwyn i foddhau ein hunain yn mhob anghraifft gyffelyb, ac fel gwobr i ni am wneuthur felly?" Nag ydyw, mae yn ddiammheu. Ac ni ddylid dyweyd fod ein llygaid wedi eu bwriadu yn naturiol i edrych ar bob gwrthddrych a allant weled; gwrthddrychau sydd yn niweidiol i'r golwg, neu y rhai y dylem, ar gyfrifon ereill, droi ein llygaid oddi wrthynt. Eto, nid oes dim ammheuaeth na wnaed ein llygaid i weled â hwynt. Felly, nid oes chwaith un ammheuaeth nad yw y pleserau a'r poenau a berthynant i'r nwydau, ac a ragwelir, wedi eu bwriadu yn gyffredin i ddwyn dynolryw i weithredu mewn rhyw foddau neillduol.

Yn awr, oddi wrth y sylw cyffredinol hwn, sydd eglur i bob meddwl, fod Duw wedi ein galluogi i ddeall ei fod wedi trefnu i foddhâd a hyfrydwch fod yn ganlyniadau un math o'n gweithredoedd, a phoen ac anesmwythyd yn ganlyniadau math arall o'n gweithredoedd; a hefyd yn ganlyniadau seguryd yn gystal; a'n bod yn gweled fod y canlyniadau, am y rhai y rhybuddiwyd ni yn mlaen llaw, yn dilyn yn ddieithrad, gallwn wybod ein

bod yn bresennol mewn gwirionedd yn ddeiliaid ei lywodraeth, yn yr ystyr mwyaf cyfyng a phriodol—yn ddeiliaid ei lywodraeth yn y cyfryw ystyr a'i fod ef yn ein gwobrwyo a'n cospi am ein gweithredoedd. Gan ein bod yn cymmeryd yn ganiataol fod Awdwr yn bod i natur, y mae yr ystyriaeth ein bod o dan ei lywodraeth, sef o dani yn yr un ystyr ag yr ydym o dan lywodraeth swyddogion gwladol, yn fwy yn bwnc o brofiad nac yn gasgliad trwy resymiad; o blegid y drychfeddwl priodol am lywodraeth ydyw, fod pleser yn cael ei gyssylltu â rhai gweithredoedd, a phoen â gweithredoedd ereill, y rhai y gallwn eu gwneuthur, neu beidio eu gwneuthur; yn nghyd â rhoddi hysbysrwydd o hyn yn flaenorol, i'r rhai sydd yn perthyn i'r llywodraeth hono. Pa un a ydyw y pleser neu y poen sydd fel hyn yn dilyn ein hymddygiadau i'w esbonio trwy dybied fod Awdwr natur yn gweithredu arnom bob moment y teimlwn ef, neu ynte ei fod wedi llunio a dwyn yn mlaen i weithrediad ei ran ei hun yn llywodraethiad y byd ar unwaith—nid yw hyn, pa wedd bynag a gymmerir fel y mwyaf dewisol, yn gwneyd dim gwahaniaeth gyda golwg ar y mater dan ein sylw. Oblegid pe gallai llywodraethwyr gwladol osod eu cyfreithiau mewn grym, heb ymyrd o gwbl ar ol eu gwneuthur—heb un prawf nac ymchwiliad, na'r ffurfiau perthynol i'w gosodiad mewn grym; pe byddent yn alluog i beri i'w cyfreithiau weithredu o honynt eu hunain, neu i bob troseddwr i'w gosod mewn grym arno ei hunan—ni a fyddem yn yr un ystyr o dan eu llywodraeth y pryd hyny ag yr ydym yn awr; ond byddai felly mewn gradd llawer uwch a dull mwy perffaith. Nid oes dim yn fwy oferwag na gwawd rhai dynion, wrth weled fod poenau llai yn cael eu hystyried yn esamplau o gosp ddwyfol. Nid oes modd ateb neu ochel y syniad cyffredinol a fwriedir yma heb wadu pob olachosion. O blegid os addefir fod olachosion, rhaid addef hefyd fod y pleser a'r poen a grybwyllwyd yn bresennol yn esamplau o honynt. Ac os ydynt—os ydyw Duw yn cyssylltu hyfrydwch â rhai gweithredoedd, ac anesmwythyd â rhai ereill, gyda'r bwriad eglur o'n dwyn i weithredu fel ar fel—y mae felly, nid yn unig yn gweinyddu hapusrwydd a thrueni, ond hefyd yn gwobrwyo ac yn cospi gweithredoedd. Os ydyw, er anghraifft, y poen a deimlwn ar ol gwneyd yr hyn a duedda i andwyo ein cyrff—trwy fyned yn rhy agos at dân, neu trwy glwyfo ein hunain—yn cael ei appwyntio gan Awdwr natur i'r dyben o'n hattal rhag gwneyd yr hyn sydd yn beryglus i'n natur, y mae hyn yn anghraifft llawn mor eglur ei fod yn cospi ein gweithredoedd, ac am hyny yn brawf ein bod yn ddeiliaid o'i lywodraeth, a phe buasai iddo hysbysu trwy lef

o'r nef, y byddai iddo, os gweithredem felly, ein cospi mewn graddau cyfatebol i'n gweithredoedd.

Yr ydym, fel hyn, yn gweled mai y gwir syniad am Awdwr natur ydyw, y syniad am feistr neu lywodraethwr, yn flaenorol i ystyriaeth o'i briodoliaethau moesol. Y ffaith am danom ni, a'r hon a ganfyddwn trwy brofiad ydyw, ei fod yn dwyn yn mlaen ei lywodraeth arnom yn bresennol, trwy ein gwobrwyo a'n cospi am ein gweithredoedd, yn yr un ystyr ag y mae plant, gweision, a deiliaid, yn cael eu gwobrwyo a'u cospi gan y sawl sydd yn llywodraethu arnynt hwy.

Felly, y mae holl gyfatebiaeth natur—holl gwrs presennol pethau—yn arddangos yn gyflawn nad oes dim anghredadwy yn yr athrawiaeth hon mewn crefydd; sef, y gwobrwyir ac y cospir dynion gan Dduw am eu gweithredoedd yn y byd a ddaw:—dim yn angaredadwy, yr wyf yn ei feddwl, yn cyfodi o'r syniad am wobrwyo a chospi; o blegid y mae holl gwrs natur yn anghraifft yn y presennol fod Duw yn gweinyddu y llywodraeth hono arnom, yr hon a gynnwys wobrwyon a chospau.

Ond, gan mai cospedigaeth ddwyfol ydyw yr hyn y dadleuir yn ei herbyn yn benaf gan ddyinion, byddai yn briodol crybwyll rhai amgylchiadau yn nghwrs naturiol cospau yn bresennol, sydd yn dwyn cyfatebolrwydd i'r hyn a ddysgir gan grefydd o barth ystâd ddyfodol o gosp; ac yn wir, yn meddu cymmaint o gyfatebolrwydd, fel nas gallant lai na chynhyrfu yr ystyriaeth fwyaf difrifol o honi yn meddyliau y rhai a dalant sylw iddynt, am eu bod yn foddion i wneyd yr ystâd hono yn fwy tebygol a ehredadwy.

Crybwyllwyd bron yn awr, fod y cyfryw boen a thrueni yn dilyn yn naturiol y cyfryw weithredoedd a darddant oddi ar ffolineb ac esgeulusdra, yn gystal a gweithredoedd a ystyrir yn fwy penodol fel yn ddrygionus; a bod y canlyniadau hyn, pan ellir eu rhagweled, yn gospau priodol a naturiol, wedi eu cyssylltu â'r cyfryw weithredoedd. O blegid y mater a honwn yma ydyw, nid ein bod yn gweled llawer o drueni yn y byd, ond ein bod yn gweled llawer o drueni ag y mae dynion yn ei ddwyn arnynt eu hunain trwy eu hymddygiadau eu hunain, yr hyn y gallasant ei ragweled a'i osgoi. Yn awr, yr amgylchiadau perthynol i'r cospedigaethau naturiol yma, y rhai sydd yn haeddu ein sylw mewn modd arbenig, ydynt y cyfryw a'r rhai hyn:¹—Eu bod yn

[¹ Y mae yr adran hon ar gospau presennol a dyfodol, medd Chalmers, yn dwyn yr ymresymiad oddi wrth gyfatebiaeth yn ei nerth mwyaf ger ein bron. Y mae ei nerth fel arf amddiffynol yn ymddangos mewn goleu cryf; y mae yn tori i lawr, âg un ergyd, dorf o wrthddadleuon a ddygir yn mlaen yn barhaus gan wrthwynebwyr crefydd; ac y mae y gwasanaeth a wna trwy hyn yn fawr,

fynych yn dilyn gweithredoedd sydd yn dwyn llawer o fanteision ar y pryd, ac yn cynnyrchu llawer o bleser presennol: er anghraifft, y mae afiechyd ac angeu anamserol yn ganlyniadau anghymmedroldeb, er yn gyssylltiedig â'r afiaeth a'r difyrwch mwyaf: bod y cospau hyn yn fynych yn llawer mwy na'r manteision a'r pleserau a ddilynant y gweithredoedd: er y gallwn mewn dychymyg ffurfio trefn natur, yn yr hon y dilynai y cospau naturiol hyn yn ebrwydd neu yn fuan ar ol cyflawniad y weithred, yr ydym yn gweled, yn y gwrthwyneb, eu bod yn fynych yn ein byd ni yn cael eu haddoedi am amser maith, ac weithiau hyd yn oed wedi yr anghofier y gweithredoedd a fuont yn achos o honynt; fel nad yw oediad y gosp yn un math na gradd o sail i dybied yr attelir hi o gwbl: fod y cospau naturiol hyn, ar ol y fath oediad, yn dyfod yn fynych—nid yn raddol, ond ar unwaith, yn ddisymmwth, a chyda nerth mawr; y mae y trueni mwyaf, fodd bynag, yn dyfod yn fynych yn y modd yma: fel nad yw dynion yn meddu cyflawn sicrwydd y bydd i'r cyfryw drueni dyfodol ganlyn y cyfryw weithredoedd, felly, efallai, nad oes ganddynt, ond yn anfynych, tra yn gwneyd y gweithredoedd hyny, ddysgwylid cryf ac eglur y bydd iddo ganlyn: a dygwyrddda yn aml nad ydynt yn gweled yn amgen na bod afiechyd, troseddau, a chospau gwladol, yn ganlyniadau *tebygol* rhyw lwybr o anfoesoldeb—megys anghymmedroldeb, er esampl—pan y maent yn edrych arno yn beth *mwy* tebygol y bydd iddynt eu hosgoi: ond, er hyny, y mae pethau yn cymmeryd eu cwrs naturiol ac appwyntiedig, ac y mae trueni yn dilyn yn anocheladwy yn yr amser nodedig, mewn llawer iawn o'r anghreiffitiau hyn. Ac er fod adeg ieuenctid yn cael ei dwyn yn mlaen fel esgusawd dros fyrbwylldra a ffolineb, fel adeg sydd yn naturiol yn anwyliadwrus ac anmhrofiadol, eto, nid yw hyn yn lluddias i'r canlyniadau hyn ddilyn, a chael eu teimlo yn drwm trwy holl weddill yr oes. Y mae arferion a fagwyd yn more yr oes yn troi allan yn fynych yn ddinystyr hollol ar ddynion; ac y mae llwyddiant dynion yn y byd—nid yn unig eu llwyddiant yn yr ystyr cyffredin, gyda golwg ar gyfoeth a meddiannau, ond eu gwir hapusrwydd—yn dibynu mewn gradd helaeth, a gwahanol ffyrdd, ar y dull y treuliant dymmor eu hieuenctid; ac y mae

wrth gofio fod y gwrthddadleuon hyn, nid yn unig yn ymddangos yn deg a rhesymol, ond eu bod hefyd yn gosod eu hargraff niweidiol yn ddwfn ar feddyliau. oddi ar yr ymddangosiad o ryddfrydedd sydd ynddynt, a'u gwrthwynebiad i bob rheolaeth ormesol a mympwyol. Nid yw y ddadl hon, mae yn wir, yn gyfryw ag y gellir sylfaenu duwinyddiaeth naturiol neu y dadguddiad Cristionogol arni; ond gwna yn gydwastad â'r llawr luaws o'r amddiffynfeydd cadarnaf a gyfodir mewn gwrthwynebiad iddynt.]

canlyniadau eu gweithredoedd yn more eu hoes, ar y cyfan, yn gyfryw ag y maent yn esgeuluso eu hystyried, ac nis gellir, ond yn anfynych, ddyweyd eu bod yn eu credu yn briodol yn mlaen llaw. Y mae hefyd yn deilwng o sylw, fod cwrs naturiol pethau, mewn anghreiffiau afrifed, yn rhoddi cyfleusderau i ni i gyrhaedd rhyw fanteision i ni ein hunain, ar ryw adegau, nas gallwn eu cyrhaedd pan y mynom; na chwaith adfeddiannu y cyfleusderau, os darfu i ni eu hesgeuluso neu eu camarfer. Ac yn wir, y mae cwrs cyffredin natur yn anghraiff o hyn. Os ydyw dynion yn ystod eu hieuenctid yn anhawdd i'w trin, ac yn mynu eu ffordd, y maent yn rhwym o ddyoddef, mewn amser i ddyfod, oddi wrth amddifadrwydd o'r pethau hyny ag yr esgeulusasant eu cyrhaedd yn yr amser priodol i hyny. Os gedy yr amaethwr i'w amser hau fyned heibio heb wneyd hyny, y mae wedi colli yn anadferadwy yr holl flwyddyn. Yr un modd, er y gall dynion, ar ol byw mewn ffolineb ac afreoleidd-dra *hyd at ryw raddau penodol*, adferu eu hamgylchiadau, a gwella eu hiechyd a'u cymmeriad, i ryw fesur o leiaf, eto, mewn llawer o anghreiffiau, nid yw gwir ddiwygiad yn ddigon effeithiol er attal y trueni, y tlodi, yr afiechyd, a'r gwaradwydd cyssylltiedig â ffolineb ac afreoleidd-dra, *os bydd wedi myned tu hwnt i'r gradd hwnw*. Y mae rhyw derfyn penodol i ffolineb a chamymddygiad, yr hwn, os eir drosto, nid oes lle i edifeirwch yn nghwrs naturiol pethau. Y mae hefyd yn dra theilwng o'n hystyriaeth, fod esgeulusdra oddi ar anystyriaeth, diffyg sylw a gofal,¹ yn esgor yn fynych ar ganlyniadau llawn mor ofnadwy ag unrhyw gamymddygiad gweithredol oddi ar y nwyd mwyaf afreolaidd. Ac, yn ddiweddaf, gan fod llywodraeth wladol yn beth naturiol, y mae ei chospau felly hefyd; ac y mae rhai o'r cospau hyn yn farwol, fel y mae effeithiau bywyd o bleser anghyfreithlawn yn fynych. Felly, y mae llawer o gospau naturiol yn gospau diweddol² i'r rhai sydd yn

Rhan II., pen. vi.

¹Y mae yr ystyriaeth gyffredinol o sefyllfa ddyfodol o gospau yn perthyn, fel y mae yn amlwg, i grefydd naturiol. Ond os meddylir fod rhai o'r myfyrodau hyn yn dwyn perthynas yn fwy arbenig â'r athrawiaeth hon, fel y mae yn cael ei dysgu yn y Beibl, dymunir i'r darllenydd sylwi, fod ysgrifenwyr paganaidd—beirdd, ac awdwyr ar foesau—yn llefaru am gosp ddyfodol y drygionus, gyda golwg ar ei pharhad a'i graddau, mewn geiriau a dysgrifiadau tebyg i eiddo yr Ysgrythyr. Felly, y cyfan a ymddengys yn fater dadguddiad, gyda golwg ar yr athrawiaeth hon ydyw, mai yn niwedd y byd y gwneir y gwahan-iaeth mawr rhwng y cyfiawn a'r drygionus—y derbynia pawb *y pryd hyny* yn ol ei weithred. Casglodd rheswm mai da fydd i'r cyfiawn, ac mai gwae yr anwir, yn y diwedd; ond nis gellid penderfynu, oddi ar egwyddorion rheswm, yn amgen na bod dynion wedi cael eu happwyntio i fyned trwy sefyllfaeodd ereill o fywyd cyn i gyfiawnder dalu i bawb yn ol ei weithred. Y mae dadguddiad yn mynegu i ni mai y sefyllfa nesaf ar bethau, ar ol yr un bresennol,

myned danynt, wrth edrych arnynt yn unig yn eu cyssylltiad âg amser; ac yn ymddangos fel yn cael eu gweinyddu trwy appwyntiad naturiol, naill ai er mwyn symmud y troseddwr o bob cyfleusdra i fod yn ddrygionus mwy, neu fel esampl—er yn fynych yn aneffeithiol—i'r rhai a adewir ar ol.

Nid dygwyddiadol, neu bethau i'w cyfarfod yn awr ac eilwaith, yw y pethau hyn; ond cymmerant le o fewn cylch ein sylwadaeth feunyddiol; y maent yn dyfod oddi wrth ddeddfau cyffredinol—y rhai mwyaf cyffredinol—trwy ba rai y mae Duw yn llywodraethu y byd, yn nghwrs naturiol ei ragluniaeth. Ac y maent yn dwyn y fath gyfatebolrwydd i'r hyn a ddysgir i ni gan grefydd o barth cospedigaeth ddyfodol y drygionus, fel y gellid gosod allan y naill a'r llall yn yr un geiriau a dysgrifiadau. Yn y *Diarebion* (*pen. i.*), y mae doethineb yn cael ei dwyn yn mlaen, fel yn mynychu y lleoedd mwyaf cyhoeddus, ac yn cael ei gwrthod gan y rhai y mae yn cymhell ei hun arnynt fel arweinydd eu bywyd:—"Pa hyd," meddai, wrth lefaru wrth y rhai sydd yn myned heibio, "chwi ynfydion, y cerwch ynfydrwydd? a chwi watwarwyr, y bydd hoff genych watwar? ac y casâ ffyliaid wybodaeth? Dychwelwch wrth fy ngherydd: wele, mi a dywalltaf fy ysbryd i chwi, fy ngeiriau a hysbysaf i chwi." Ond wrth gael ei gwrthod:—"Yn gymmaint ag i mi eich gwahodd, ac i chwithau wrthod; i mi estyn fy llaw, a neb heb ystyried; ond diystyrasoch fy holl gynghor i, ac ni fynech ddim o'm cerydd: minnau hefyd a chwarddaf yn eich dialedd chwi; mi a wawdiaf pan syrthio arnoch yr hyn yr ydych yn ei ofni; pan ddél arnoch yr hyn yr ydych yn ei ofni megys distryw, ac y dël eich dialedd arnoch megys corwynt; a dyfod arnoch wasgfa a chaledi: yna y galwant arnaf, ond ni wrandawaf; yn fore y'm ceisiant, ond ni'm cânt." Mae yr adran hon, fel y mae yn eglur, o nodwedd farddonol, ac yn cynnwys amryw ffugrau uchel; ond y mae ei hystyr yn amlwg, a hawdd i'w adnabod. A gosodir allan yr hyn a fwriedir ynddi yn fwy amlwg a llythyrenol yn y geiriau canlynol:—"Canys cas fu ganddynt wybodaeth, ac ofn yr Arglwydd ni ddewisasant....Am hyny, hwy a gânt fwyta ffrwyth eu ffordd eu hunain, a'u llenwi â'u cynghorion eu hunain. Canys esmwythdra y rhai anghall a'u lladd; a llwyddiant y rhai ffol a'u dyfetha." Ac y mae yr holl ymadroddion hyn yn cynnwys dysgrifiad mor gywir a phriodol o ganlyniadau gweithsydd wedi ei hordeinio i ddwyn gweinyddiadau cyfiawnder i'w perffeithrwydd; na oedir mo hyny ddim yn hwy, ond y bydd i *ddirgelwch Duw*—y dirgelwch mawr o'i fod yn goddef i ddrygioni ac annhrefn flaguro—gael ei derfynu y pryd hyny. Cymmer ei "allu mawr, a theyrnasa," trwy dalu i bawb yn ol ei weithred.

redoedd dynion yn y byd presennol, ac o'r hyn y mae crefydd yn dangos sydd i'w ddysgwyl mewn byd arall, fel y mae yn anhawdd penderfynu pa un o'r ddau a olygir yn benaf ynddynt. Ac yn wir, ar ol i ni edrych yn ystyriol dros y profion pendant o sefyllfa ddyfodol o wobr a chosp, nid oes dim, feddyliwyf, a all roddi syniad mor glir a bywiog i'r meddwl am y diweddaf, a sylwi ar yr un peth yn nghwrs presennol natur—fel y mae y gwrthsafiadau, y cynghorion, a'r rhybuddion ag y mae dynion yn eu cyfarfod ar ffyrdd drygioni, ffolineb, ac afradlonrwydd, yn cael eu diystyru. Y mae eu natur eu hunain yn rhoddi rhybuddion iddynt: derbyniant hwy hefyd oddi wrth esamplau ereill; oddi wrth yr anghyfleusderau llai yr arweiniant eu hunain iddynt; ac oddi wrth addysgiadau dynion doeth a rhinweddol. Ar ol i'r rhai hyn gael eu dirmygu a'u gwawdio am amser maith—ar ol hir oediad canlyniadau mwyaf niweidiol eu ffolineb—o'r diwedd, y maent yn tori i mewn yn anwrthwynebol, fel gŵr arfog; y mae edifeirwch yn rhy ddiweddar i weinyddu un ymwarded, ac nis gall wneyd dim ond cynnyddu eu blinder a'u trueni; y mae adferiad yn anobeithiol; ac y mae tlodi ac afiechyd, cydwybod aflonydd ac ing calon, gwaradwydd a marwolaeth—oll yn ganlyniadau eu gweithredoedd eu hunain—yn eu gorchuddio, ac yn eu dwyn i sefyllfa nas gallant ddianc oddi wrthi, a chael ymwarded. Y mae sylwadaeth yn profi yn anwadwy mai dyma ydyw cwrs cyffredin a helynt presennol dynolryw ar y ddaiar.

Nid wyf yn meddwl hõni fod ein gwybodaeth bresennol am gwrs naturiol pethau yn ein hawdurdodi i ddyweyd fod dynion yn cael eu cospi bob amser yn gwbl gyfatebol i'w camymddygiad; ond y mae yn ddiammheu fod llawer o anghreiffiau am rai yn cael eu cospi am eu camymddygiadau yn yr amrywiol ddulliau a grybwyllwyd yn awr; yr hyn sydd yn ddigon i ddangos pa beth a ganiatâ, neu pa beth yw gofynion, deddfau llywodraeth Duw: ac os ystyrir yr anghreiffiau hyn yn drwyadl, y maent yn ddigonol i ateb pob gwrthddadl yn erbyn sefyllfa ddyfodol o gospau—pob gwrthddadl a gyfyd oddi ar y dychymyg fod eiddilwch ein natur, a'r ffaith yr ymosodir arnom gan demtasiynau oddi allan, bron yn diddymu euogrwydd gweithredoedd drygionus dynion; yn gystal a phob gwrthddadl oddi ar gamsyniadau am angenrheidrwydd, oddi ar dybiaeth nas gellir gwrthwynebu ewyllys Bod Anfeidrol, neu ei fod uwch law cael ei ddigio gan ei greaduriaid.¹

Nis gall adfyfyriadau o'r fath yma lai na brawychu dynion

¹Gwel pen. iv. a vi.

difrifol, pa mor rydd bynag y byddant oddi wrth benboethder—dynion yn feddiannol ar y graddau helaethaf o nerth meddwl; ond gweddu yw i bethau gael eu gosod allan a'u hystyried fel y maent mewn gwirionedd. Ac y mae yr oes bresennol yn cael ei nodweddu gan y fath ddideimladrwydd rhyfygus o barth i'r hyn a gymmer le yn llywodraeth Duw yn y dyfodol, nad yw yn gweddu i ddim ond atheistiaeth gyffredinol a phrawfedig, a'r hyn sydd yn peri y dylai dynion gael eu hadgofio—ac, os yw yn bosibl, eu dwyn i deimlo—nad oes ganddynt un sail i fod mor ddiogel, dideimlad, a rhyfygus, hyd yn oed ar yr egwyddorion mwyaf ammheus. O blegid oni ellir dyweyd am unrhyw berson, ar ei ddyfodiad i'r byd, y gall ymddwyn yn y fath fodd ag i beidio bod o un gwasanaeth iddo, oddi eithr trwy gael ei wneyd yn esampl o ganlyniadau ofnadwy drygioni a ffolineb; y gall, os ewyllysia, ddwyn arno ei hun gospau trymaf y gallu gwladol, neu fyrhau ei ddyddiau trwy ryw gwrs arall o afradlonedd ac annuwioldeb; neu ddwyn arno ei hun warthrudd ac afiechyd gwaeth nag angeu; fel y buasai yn well iddo, hyd yn oed gyda golwg ar y byd a'r bywyd presennol, pe nas ganesid ef? Ac a oes rhyw rith o reswm i ddynion dybied eu hunain yn ddiogel, a siarad fel pe byddent yn gwbl sicr, pa mor afreolaidd bynag y byddo eu hymddygiadau, nad oes dim yn gyfatebol i hyn gyda golwg ar fuddiannau mwy cyffredinol yn y dyfodol, yn rhagluniaeth a llywodraeth yr un Duw?

PENNOD III.

AM LYWODRAETH FOESOL DUW.¹

FEL y mae yr amrywiol ymddangosiadau o fwriad ac olachosion yn nghyfansoddiad natur yn profi ei bod yn waith meddwl

[¹ Y mae Butler, yn y bennod hon, yn ymdrin am nodwedd foesol y llywodraeth yr ydym dani—tra mai y drychfeddwl am lywodraeth yn unig, ar wahân oddi wrth ei natur, oedd y mater yn y bennod flaenorol. Y mae y ffaith fod hyfrydwch yn canlyn rhai gweithredoedd, a phoen rai ereill; fod hyn yn hysbys yn mlaen llaw, fel y gall y gweithredydd ragweled canlyniadau ei weithredoedd—eu rhagweled mor sicr ag y gwnaethai dan gyfraith wedi ei chyhoeddi:—y mae y ffeithiau hyn, ynddynt eu hunain, yn ffurfio llywodraeth; y maent yn cynnwys elfenau hanfodol llywodraeth. Ond y mae y syniad chwanegol, mai actau rhinweddol sydd yn cynnyrchu hyfrydwch, ac actau drygionus boen, yn ein cyfeirio at yr elfen foesol sydd yn gorwedd yn llywodraeth gyffredinol a naturiol Duw. A'r nodwedd yma yn y llywodraeth ydyw mater y bennod hon. Amcan mwyaf uniongyrchol y bennod, fodd bynag, ydyw dangos pa mor bell y gellir adnabod yr elfen foesol yma yn y llywodraeth, yn ei hystâd bres-

deallus, felly y mae yr olachosion neillduol o bleser a phoen, yn mysg ei greaduriaid, yn profi eu bod yn perthyn i'w lywodraeth, yr hon y gellir ei galw ei lywodraeth naturiol ar greaduriaid a gynnysgaethwyd â synwyr a rheswm. Mae hyn, fodd bynag, yn cynnwys mwy nag a ystyrir yn gyffredin pan soniwn am lywodraeth naturiol Duw ar y byd. Arwydda lywodraeth o'r un natur ag y mae meistr yn ei dal ar ei weision, neu lywodraethwr gwladol ar ei ddeiliaid. Y mae yr anghreiffiau diweddaf a enwyd o olachosion yn profi mor wirioneddol fod *Llywodraethwr* ar y byd, yn yr ystyr a grybwyllwyd yn awr, ac a eglurwyd yn y bennod o'r blaen, ag y mae anghreiffiau ereill o olachosion yn profi fod *Gwneuthurwr* deallus iddo.

Ond nid ymddengys, ar yr olwg gyntaf, fod hyn ynddo ei hun yn penderfynu dim yn sier o barth cymmeriad moesol Awdwr natur, yn ei berthynas fel llywodraethwr; nid yw yn sicrhau fod ei lywodraeth yn un foesol, neu yn profi ei fod yn farnwr cyfiawn ar y byd. Mae llywodraeth foesol yn gynnwysedig, nid yn unig mewn gwobrwyo a chospi dynion am eu gweithredoedd, o blegid gall y llywydd mwyaf gormesol wneuthur hyny, ond mewn gwobrwyo y cyfiawn, a chospi y drygionus—mewn talu i ddyinion yn ol eu gweithredoedd, fel y byddont ddrwg neu dda. A chynawysir perffeithrwydd llywodraeth foesol mewn rhoddi i bawb mewn cyfartaledd manwl i'w haeddiant neu eu drwghaeddiant.

Ymddengys fod rhai dynion yn meddwl mai unig gymmeriad Awdwr natur ydyw cymmeriad o haelfrydedd a daioni hollol, a dim yn chwaneg. Y mae hyn, wrth edrych arno fel egwyddor gweithrediad, a'i olygu yn anfeidrol mewn gradd, heb fod yn amgen na thueddiad i gynnyrchu yr hapusrwydd mwyaf i ddyinion, heb gymmeryd un sylw gwahanol o'u hymddygiadau nag a barai chwanegiad at yr hapusrwydd hwnw. Wrth i ni dybied hyn fel unig gymmeriad Duw, ni byddai gwirionedd a chyfiawnder ynddo yn ddim ond daioni a haelfrydedd yn cael eu harwain gan ddoethineb. Ond, mae yn ddiau na ddylid haeru peth fel hyn, onis gellir ei brofi; o blegid ni a ddylem lefaru gyda pharch gwyladwrus ar y fath destyn. A'r mater i chwilio iddo yma

ennol; fod yn ei dechreuad ryw ragarwyddion amlwg o'i pherffeithiad dyfodol. Dwg yn mlaen brofion fod y llywodraeth yn un foesol, oddi wrth ei hamgylchiadau presennol—y syniad greddfoll sydd ynom am uniondeb; canlyniadau sicr gofal doeth, a byrbwylldra anghall; y gosp sydd yn disgyn ar ddrygioni, fel y mae yn niweidiol i gymdeithas; yr hyfrydwch sydd yn nglyn â rhinwedd, a'r trueni sydd yn gyssylltiedig anocheladwy â drygioni, ynddynt eu hunain, ac ar wahân oddi wrth eu heffeithiau ar gymdeithas; a chymmeradwyaeth cyffredinol daioni, a'r anghymmeradwyaeth a deimla pob cydwybod o ddrygioni. Y mae yr ystyriaethau hyn yn ein cyfeirio at y llywodraeth dan ei chymmeriad moesol.]

ydyw, nid a ellir ei brofi, ai nis gellir; ond a ellir canfod, yn nghyfansoddiad a chwrs y byd, lywodraeth gyfiawn wedi ei sefydlu; yr hon a gynnwysa, o angenrheidrwydd, lywodraethwr cyfiawn.¹ Dichon fod creaduriaid yn rhyw barthau o'r greadigaeth, i'r rhai y mae Awdwr natur yn dadguddio ei hun dan y cymmeriad dymunol hwn—haelfrydedd anfeidrol yn unig; yr hwn, efallai, yw y cymeriad mwyaf hawddgar a dymunol: a diammheu ei fod y cymmeriad mwyaf hawddgar, wrth gymmeryd yn ganiataol nad yw, fel y dichon ei fod, yn anghydweddol â chyfiawnder: ond y mae yn ei amlygu ei hun i ni dan y cymmeriad o lywodraethwr cyfiawn. Gall fod yn unig ac yn hollol dda yn yr ystyr a nodwyd yn awr, a hyny yn gysson â'r cymmeriad hwn; ond y mae, fel y mae genym brofion yn nhrefn y byd, yn llywodraethwr ar weision, fel y mae yn ein gwobrwyo ac yn ein cospi am ein gweithredoedd. Ac yn llywodraeth y byd, gallai ei fod wedi rhoddi, yn chwanegol at reswm y peth ei hun, a thystiolaethau cydwybod, awgrymau eglur a phendant fod ei lywodraeth yn un gyfiawn neu foesol—awgrymau ydynt ddigon eglur i'r rhai sydd yn barnu fod natur y llywodraeth hono yn deilwng o'n hystyriaeth; ond nid ydynt felly i bob dyn diofal, sydd yn ystyried ond ychydig ar y mater.² Ond y mae i'w sylwi yn neillduol, y can-

[¹ Y mae gwylder parchus yr awdwr yn dyfod i'r golwg yma eto. Pan yn ymdrin am gymmeriad a llwybrau yr Anfeidrol, y mae ei feddwl yn llawn o barch a gofal; ymgeidw yn mhell oddi wrth bob chwilfrydedd, ac adnebydd y terfynau, y rhai ni ddylai amcanu fyned trostynt. Tra y mae meddyliau bychain yn berffaith ddibris pan yn sefyll uwch ben "ffyrdd anolrheinadwy" yr Iôn, y mae meddyliau mawr a sanctaidd yn cilio yn ol mewn gorchwyledd parchus, gan ryfeddu ac addoli. "Y mae ffyliaid yn rhuthro i'r fan ag y mae angelion yn arswydo sangu arno." Y mae yn amlwg nad yw Butler yn cytuno â'r syniad mai haelfrydedd (*benevolence*) ydyw unig berffeithrwydd y Bod Dwyfol, ac nad yw y perffeithiau ereill ond amrywiol ffurfiau arno. "Y mae y dyb hon," medd Dr. Chalmers, "wedi achosi lluaws o syniadau gweiniaid a chyfeiliornus yn ein duwinyddiaeth." Y mae yn eglur y rhaid iddi fod felly; o blegid y mae y wedd a gymmer yr ymchwiliwr ar gymmeriad Duw yn rhwym o ddylanwadu ar ei holl syniadau duwinyddol. Os edrychir arno yn unig fel Tad (heb feddu ar un perffeithder ond haelfrydedd), fel y gwneir gan ddsbarth o ysgrifenyddwr ein dyddiau ni, arweinir hyny, o'r diwedd, i wadu athrawiaeth yr Iawn, fel y mae y Beibl yn ei gosod allan. I ffurfio cyfundrefn dduwinyddol yn unol â'r gwirionedd, y mae yn rhaid ei dechreu gyda golygiadau cywir am gymmeriad Duw—edrych arno fel Llywodraethwr cyfiawn—fel Arglwydd ar ei weision, yn gystal ag fel Tad i'w blant.]

² Gellid dwyn y gwrthddadleuon yn erbyn crefydd, am nad yw ei phrawf yn gyffredinol, nac mor gryf ag y gallasai fod, yn erbyn crefydd naturiol, yn gystal a chrefydd ddadguddiedig. Ac felly, y mae yn perthyn i ni eu hystyried yn y rhan gyntaf o'r traethawd hwn, fel y rhan ddiweddaf. Ond gan mai yn erbyn crefydd ddadguddiedig y dygir hwynt yn benaf, yr wyf yn hytrach yn dewis sylwi arnynt yn yr ail ran. Ac y mae yr atebiad iddynt yn pen. vi., fel y maent yn cael eu dwyn yn erbyn Cristionogaeth, bron yr un mor gyfaddas iddynt fel y dygir hwynt yn erbyn crefydd natur. Rhag mynychu yr un peth, cyfeirir y darllenydd at y bennod hono.

iateir nad yw y llywodraeth ddwyfol ag yr ydym yn cael ein hunain dani yn y sefyllfa bresennol, wrth ei chymmeryd ar ei phen ei hun, yn dyfod i fyny at berffeithrwydd llywodraeth foesol. Ac eto, nid yw hyn yn peri nad yw, mewn gradd mwy neu lai, yn foesol. Ymddengys yn eglur fod llywodraeth gyfiawn yn cael ei dwyn yn mlaen i ryw fesur; ac i fesur mor fawr ag i beri i ni feddwl a dysgwyl y cwblheir hi, ac y dygir hi yn mlaen i'r gradd hwnw o berffeithrwydd ag a osodir allan yn y dadguddiad dwyfol; ond nid ymddengys y gradd hwnw o berffeithrwydd hyd oni welir mwy o'r gweinyddiad dwyfol nag a welir yn y fuchedd hon. Ac amcan y bennod hon ydyw, chwilio pa mor bell y mae yn bod fel hyn yn bresennol; pa mor bell, heb law y natur foesol a roddes Duw i ni, a'r syniad naturiol a feddwn am dano fel llywodraethwr cyfiawn yr holl greaduriaid a gynnysgaethwyd â'r natur hon¹—pa mor bell, heb law hyn, y gellir canfod egwyddorion ac elfenau llywodraeth foesol ar y byd, er, ac yn mysg, yr holl gymmysgedd a'r annhrefn a berthynant iddo yn bresennol.

Yn awr, gellid crybwyll yn y fan hon, yr hyn a ddygwyd yn mlaen yn fynych gyda grym mawr, fod, yn y cyffredin, lai o anesmwythyd, a mwy o foddhâd, yn ganlyniadau naturiol bywyd rhinweddol na bywyd drygionus, yn y sefyllfa bresennol—fel anghraifft o lywodraeth foesol mewn natur; yr hon sydd yn anghraifft wedi ei chasglu trwy brofiad a sylwadaeth ar ffeithiau presennol. Ond rhaid addef ei fod yn beth anhawdd pwyso mwynderau a blinderau gyda, ac yn erbyn, eu gilydd, fel ag i wneyd cyfrifiad lled gywir pa faint mwy o hapusrwydd sydd ar du rhinwedd. Ac nid yw yn anmhosibl fod, yn mysg yr annhrefn dirfawr sydd yn y byd, rai eithradau i ddedwyddwch rhinwedd, hyd yn oed gyda golwg ar y dynion hyny a arweiniasant fuchedd ddiargyhoedd o'u hieuenctyd, a mwy o eithradau gyda golwg ar y rhai a dreuliasant ran o'u hoes mewn drygioni, ac wedi hyny a adferwyd. O blegid, tybier am ddyn o'r dosbarth diweddaf—dyn â'i nwydau wedi eu hennynu; ei allu i'w lywodraethu ei hunan wedi ei anharu, trwy lochi drwg-arferion; a'i holl ddrygioni yn ymlynu wrtho fel rheibwyr gwancus, yn crefu am eu boddhâd arferol—pwy a all ddyweyd pa mor hir y byddai y cyfryw un cyn y gallai deimlo mwy o hyfrydwch yn rhesymoldeb a chanlyniadau daionus presennol rhinwedd, nag a deimlai o anhawsder a hunan-ymwadiad yn yr attalfeydd a roddai rhinwedd arno? Mae profiad hefyd yn dangos y gall dynion, i fesur mawr, ymddiosg oddi wrth eu syniad o gywilydd, fel y

¹Pen. vi.

gallont, trwy broffesu eu bod heb un egwyddor, ac addef fod ynddynt ddrygioni pendant, ymgynnal yn ngwynneb y gwarth sydd yn ganlyniad eu drygioni. Ond gan y siaredir mwy am ddrygau dyn, ac y teflir hwy yn fynychach i'w sylw, ar ol ei adferiad, teimlir y gwarth a'r cywilydd yn llawer mwy, wedi i'r teimlad naturiol o barth rhinwedd ac anrhydedd gael ei adferu. Dylid, yn ddiammheu, gyfrif achos anesmwythyd o'r fath yma i ddrygau blaenorol; eto, dywedir eu bod mewn rhan yn ganlyniadau diwygiad. Ar yr un pryd, yr wyf yn mhell oddi wrth edrych arno yn beth ammhëus a ydyw rhinwedd, ar y cyfan, yn ddedwyddach na drygioni, yn y fuchedd bresennol; ond pe bai yn beth ammheus, eto, gellir, tu hwnt i ddadl, ganfod dechreuad ac elfenau llywodraeth gyfiawn yn y byd, os chwiliwn yn ddyfal am danynt. Ac,

I. Yn mha ddull bynag y trinir y syniad am lywodraeth foesol Duw ar y byd, pe na buasai yn ymddangos ei fod mewn ystyr priodol yn llywodraethwr arnom; eto, gan ei fod yn fater a gadarnheir gan brofiad ei fod yn amlygu ei hun i ni dan y cymmeriad o lywodraethwr, yn yr ystyr a arddangoswyd,¹ y mae yn deilwng i'w ystyried, ai nid oes sail i feddwl ei fod yn llywodraethwr cyfiawn neu foesol. Gan ei bod yn ffaith fod Duw yn llywodraethu dynolryw trwy wobrau a chospau, y rhai a weinyddir yn ol rhyw reolau appwyntiedig, y mae yn sicr fod hyn yn gwestiwn teilwng o sylw, Pa beth sydd yn erbyn y meddwl y bydd iddo, yn y diwedd, eu gwobrwyo a'u cospi yn ol y rheol neillduol hon; sef, yn ol fel y mae eu gweithredoedd yn rhesymol neu yn afresymol, yn dda neu yn ddrwg; o blegid y mae gwneyd dyn yn ddedwydd neu yn druenus, yn ol y rheol hon, yn cytuno yn llawer gwell â'n syniadau naturiol—ein syniadau am gydweddiad pethau â'u gilydd—nag a fyddai gwneyd hyn yn ol rhyw reol arall a allem feddwl am dani; o blegid byddai gwobrwyo a chospi gweithredoedd yn ol rhyw reol arall yn llawer mwy anhawdd rhoddi cyfrif am dano gan feddwl wedi ei ffurfio fel yr eiddom ni? Felly, pa faint bynag o eglurder fyddo ar brofion crefydd, y mae y dysgwyliad a gynnyrcha ynom y bydd y cyfiawn, ar y cyfan, yn ddedwydd, a'r drygionus yn druenus, yn gyfryw nas gellir edrych arno yn afresymol: o blegid nid yw yn chwaneg na dysgwyliad y dygir yn mlaen y dull o lywodraethu sydd eisoes wedi ei ddechreu; ac y dygir ef yn mlaen wrth reol neillduol, yr hon sydd yn ymddangos yn anocheladwy i ni, ar yr olwg gyntaf, yn fwy naturiol nag un arall, sef y rheol o dalu i bob un yn ol ei weithredoedd.

¹Pen. ii.

II. Ni ddylid gadael heibio yr ystyriaeth fod esmwythyd, tawelwch meddwl, a manteision allanol, yn ganlyniadau naturiol iawn lywodraeth arnom ein hunain ac ar ein hamgylchiadau; a bod rhyfyg, esgeulusdra, a drygioni, yn esgor ar luaws o anfantasion a phoenau; a bod y pethau hyn yn cyflwyno i'n sylw esamplau o iawn gyfansoddiad natur; fel y mae ceryddu plant, er eu mwyn eu hunain, ac mewn ffordd o esampl, yn rhan o addysgiaeth briodol. Fel hyn, y mae fod Duw yn llywodraethu y byd yn ol deddfau sefydlog a chyffredinol—ei fod wedi ein cynnysgaethu â galluoedd i fyfyrion ar gyfansoddiad pethau, a rhagweled canlyniadau da a drwg ein hymddygiadau—yn dangos yn eglur fod rhyw fath o lywodraeth foesol; o blegid nis gall lai na chanlyn oddi wrth y cyfryw gyfansoddiad natur, y rhaid i gallineb a ffolineb, y rhai ydynt yn cyfranogi o natur rhinwedd a drygioni,¹ gael y naill ei wobrwyo a'r llall ei gopsi.

III. Oddi wrth gwrs naturiol pethau, y mae drygau, i raddau pell, yn cael eu cospï fel yn niweidiol i gymdeithas; ac heblaw y gosp a weinyddir yn weithredol ar y cyfrif hwn, y mae ofn ac arswyd y gosp yn meddiannu y dynion hynny ag y mae eu drygau wedi eu gosod yn agored iddi, pe deuid o hyd iddynt; ac y mae yr ofn a'r arswyd yma ynddo ei hun yn gosp drom yn fynych. Y mae yr ofn naturiol yma hefyd, yr hwn sydd yn attalfa rhag drygau, yn ddadganiad gan natur yn eu herbyn. Y mae yn llwyr angenrheidiol er hanfodiad cymdeithas, fod y drygau sydd o duedd ddinystriol iddi yn cael eu cospï *fel y maent felly*—y drygau o gelwydd, anghyfiawnder, creulonedd; ac y mae y gosp, felly, mor naturiol ag ydyw cymdeithas ei hun, ac yn anghraifft o fath o lywodraeth foesol, yn seiliedig ar egwyddorion naturiol, ac yn cymmeryd lle mewn gwirionedd. A chan mai gweinyddiad rhagluniaeth neu lywodraeth Duw ydyw cwrs naturiol pethau, er ei fod yn cael ei ddwyn yn mlaen trwy offeryniaeth dynion, y mae y sylw a wnaed yn awr yn cynnwys hyn—fod dynolryw yn cael eu hunain wedi eu gosod ganddo yn y fath amgylchiadau, fel y maent yn anocheladwy yn gyfrifol am eu hymddygiadau, ac yn fynych yn cael eu cospï, ac weithiau eu gwobrwyo, dan ei lywodraeth, ar gyfrif eu bod yn niweidiol neu yn hynod wasanaethgar i gymdeithas.

Pe y gwrthddadleuid fod gweithredoedd daionus a gwasanaethgar i gymdeithas yn cael eu cospï yn fynych—fel mewn erlidigaeth, ac achosion ereill—a bod gweithredoedd drygionus a niweidiol yn cael eu gwobrwyo yn fynych, gellid ateb, yn gyntaf, nad yw mewn un modd yn angenrheidiol; ac am hynny,

¹Gwel *The Dissertation on the Nature of Virtue.*

nad yw yn beth naturiol, yn yr un ystyr ag y mae cospi drygau yn angenrheidiol a naturiol;¹ ac yn y lle nesaf, nad yw gweithredoedd daionus byth yn cael eu cospi, fel y maent yn wasanaethgar i gymdeithas, na drygau yn cael eu gwobrwyo, fel y maent yn niweidiol iddi. Felly, y mae yn eithaf gwirionedd fod Awdwr natur wedi trefnu mor bendant i ddrygau, fel y maent yn niweidiol i gymdeithas, gael eu cospi, ac wedi gosod dynolryw dan angenrheidrwydd i'w cospi, a'i fod wedi trefnu i ddynion, a'u gosod dan angenrheidrwydd, i gynnal eu bywyd âg ymborth.

IV. Yn nghwrs naturiol pethau, y mae rhinwedd, *fel y cyfryw*, yn cael ei wobrwyo, a drygioni, *fel y cyfryw*, ei gospi; ac y mae hyn yn esampl, nid yn unig o lywodraeth, ond o lywodraeth foesol, wedi ei dechreu a'i sefydlu; un foesol yn ystyr cyfyngaf y gair, er nad i'r perffeithrwydd hwnw mewn gradd ag y mae crefydd yn ein hawdurdodi i'w ddysgwyl. Mewn trefn i ddeall hyn yn eglurach, rhaid gwahaniaethu rhwng gweithredoedd ynddynt eu hunain, a'r ansawdd a briodolir iddynt, a alwn ni yn ddrygionus neu yn ddaionus. Y mae boddhâd pob nwyd naturiol, ynddo ei hun, yn peri ymhyfrydiad; ac y mae cyrhaedd meddiannau, trwy ba ffordd bynag, yn gynnydd ar foddion neu ddefnyddiau ein mwynhâd a'n hyfrydwch. Felly, y mae y weithred trwy yr hon y boddheir unrhyw nwyd naturiol, neu y cyrhaeddir meddiannau, yn cynnyrchu hyfrydwch neu fantais, yn annibynol ar bob ystyriaeth o foesoldeb y cyfryw weithred. O ganlyniad, y mae y pleser neu y fantais, mewn achosion fel hyn, yn cael ei gyrhaedd gan y weithred ei hunan, ac nid gan ei moesoldeb—ei daioni neu ei drygedd; er iddi fod, efallai, yn rhinweddol neu yn ddrygionus. Am hyny, y mae dywedyd fod gweithred, neu gwrs o ymddygiadau, wedi dwyn pleser neu fantais, neu wedi achosi anghyfleusdra a phoen, yn wahanol i ddyweyd fod y cyfryw ganlyniad da neu ddrwg i'w briodoli i rinweddoldeb neu ddrygedd y weithred neu yr ymddygiadau. Yn y naill, y mae

[¹Cyn dyddiau Butler, honai Mandeville fod rhai drygau personol, megys rhysedd a gwagedd, yn lles i'r cyhoedd. Dywedwyd hefyd na chai celfyddyd gefnogaeth, na llafur ei wobrwyo, mewn rhai meusydd, heb ffyniant rhysedd a moethusrwydd. Gwrthwynebwyd y syniad hwn gan Warburton, Whately, &c. Ond, pe y caniateid ei fod yn wirionedd, nid effeithiai ddim ar ymresymiad Butler. [*Angus' Edition.*] Nid yw y drygau hyn yn cael eu gwobrwyo fel y maent yn niweidiol i gymdeithas, ond ar y dybiaeth eu bod yn llesol iddi. Pan gospir rhinwedd, gwneir hyny, nid *am* ei fod yn dda, ond *er* ei fod yn dda, ac oddi ar y dyb wyrog ei fod yn ddrwg a niweidiol. Haerai Mandeville fod moethusrwydd yn lles; ond meddyliai hyny, am y tybiai ei fod yn arwain i dlodi, a thlodi i foesoldeb. Pe bai hyn yn hollol gywir, y mae yn hawdd canfod y cadarnhâai eiriau Butler yn fwy na dim arall.]

y weithred, yn ysgaredig oddi wrth bob ystyriaeth o'i moesoldeb, wedi cynnyrchu ei heffaith; yn y llall, y mae y weithred, fel y mae yn foesol, wrth ei hystyried yn rhinweddol neu yn ddrygionus, wedi cynnyrchu yr effaith. Yn awr, y mae yn amlwg fod rhinwedd, fel y cyfryw, yn naturiol yn peri llawer o fanteision mawrion i'r rhinweddol; a drygioni, fel y cyfryw, yn naturiol yn achlysuru anghyfleusderau a thrueni i'r drygionus, mewn anghreiffiau lawer. Gellir crybwyll effeithiau uniongyrchol rhinwedd a drygioni ar y meddwl a'r dymmer fel anghreiffiau o hyn. Y mae drygioni, fel y cyfryw, yn cael ei ddilyn yn naturiol gan fath o anesmwythyd—ac, nid yn anfynych, gan gyffro ac ofn mawr. Y mae y blinder y mae dynion yn ei deimlo wrthynt eu hunain, mewn achosion llai pwysig, a'r poen meddwl—yr *och* cydwybod—a deimlant mewn achosion mwy pwysig, yn cyfodi oddi ar weithred a ystyrir ganddynt yn afresymol—gweithred heb fod yn iawn—gweithred sydd i radd mwy neu lai yn ddrwg; ac y mae yn eglur fod yr anesmwythyd hwn yn deimlad gwahanol i'r anesmwythder a gyfyd oddi ar y teimlad o golled neu niwed. Pa beth sydd yn fwy cyffredin na chlywed dynion yn cwyno o herwydd rhyw ddamwain, ac yn dyweyd nad oes arnynt eu hunain ddim bai o'r herwydd; neu, yn y gwrthwyneb, fod ganddynt y teimlad anesmwyth mai hwy eu hunain oedd yr achos o'r cwbl? Fel hyn hefyd y mae yr anesmwythder a'r ofn sydd yn fynych yn canlyn gwaith dyn yn gwneyd rhyw gam yn cyfodi oddi ar deimlad ei fod yn feius; pe amgen, ni byddai, mewn llawer o achosion, ddim sail i anesmwythyd, nac un rheswm i ofni cywilydd neu ad-daliad. Ar y llaw arall, tawelwch a thangnefedd tu mewnol ydynt hoff gymdeithion diniweidrwydd a rhinwedd; a gellir chwaneu hefyd, ymhyfrydiad, teimlad o foddhâd, a llawenydd calon, fel canlyniadau gwir arddangosiad o ddiolchgarwch, cyfeillgarwch, ac ewyllys da.

Dylem nodi yma yr ofnau a deimlir o barth cosp ddyfodol, a'r gobeithion tangnefeddus am fuchedd well yn mynwesau y rhai sydd yn credu mewn crefydd, neu yn meddwl o ddifrif am dani; o blegid y mae yr ofnau a'r gobeithion hyn yn anesmwythder ac yn foddhâd presennol i'r meddwl; ac nis gellir ymryddhau oddi wrthynt gan ran fawr o ddynolryw, hyd yn oed gan y rhai sydd wedi meddwl yn fwyaf trwyadl ar grefydd. Ac nis gall neb ddyweyd pa mor fawr ac effeithiol y gall yr anesmwythyd a'r boddhâd yma fod.

Gellid sylwi, yn y lle nesaf, fod tuedd yn mhob dyn da a gonest i ymgaredigo â dynion ereill felly, am eu bod yn gyfryw, ac i ymddwyn yn y gwrthwyneb tuag at y drygionus, fel y

cyfryw; ac y maent yn gwneyd felly i ryw raddau. Ac er nad yw y cyffredin o ddynion yn gofalu ond ychydig am foesoldeb eu gweithredoedd eu hunain—a galledid tybied y buasent yn sylwi llai ar foesoldeb gweithredoedd dynion ereill, pan nad oes a fynont â hwy—eto, meddylier fod rhywun yn adnabyddus iawn fel dyn rhinweddol, y mae hwnw yn sicr o gael ei ffafrio yn y naill ffordd neu y llall; a dangosir cymmwynasau iddo ar rai achlysuron, yn unig oddi ar ystyriaeth o'i gymmeriad: a gwneir hyn gan y cyffredin o ddynion, fel y byddant yn y cyfleusdra. Y mae anrhydedd a manteision cyhoeddus hefyd yn ganlyniadau naturiol—ac weithiau, o leiaf, yn ganlyniadau gweithredol—actau daionus, megys uniondeb arbenig, ffyddlondeb, haelfrydedd, a gwladgarwch, wrth gael eu hystyried, nid yn unig fel y maent yn fanteisiol, ond yn benaf fel y maent yn rhinweddol. Ac nid yn anfynech y mae marwolaeth ei hun—ac yn aml iawn, y mae gwarth ac anfanteision amgylchiadol—yn ganlyniadau cyhoeddus drygioni, fel drygioni. Er esampl, y mae y syniad sydd gan ddynion am ormes, anghyfiawnder, a thrais, yn chwanegol at y teimlad neu yr arswyd rhag y trueni cydfynedol â hwy, wedi bod yn offerynol i ddwyn oddi amgylch y chwyldroadau sydd yn creu cyfnodau newyddion yn hanes y byd. O blegid y mae yn amlwg fod dynion yn dial camwri, am fod hyny yn fai; ac yn ad-dalu, nid yn unig oddi ar y meddwl eu bod wedi derbyn niwed, ond wedi derbyn cam; a theimlant yr ysbryd hwn gyda golwg ar ereill, yn gystal a hwy eu hunain. Yn gyffelyb, mae y cyffredin yn barod ac ewyllysgar, i ryw fesur, i ad-dalu caredigrwydd—nid yn unig am fod y cymmwynaswr wedi bod yn achlysur o ddaioni iddynt hwy, ond oddi ar ystyriaeth fod y cyfryw gymmwynasau yn arddangos bwriad tyner a haelfrydedd ynddo. At y pethau hyn, gellir chwanegu dau neu dri o bethau, y rhai a ymddangosant yn ddibwys a gwag i lawer efallai; ond i mi, nid oes dim yn ymddangos felly, os ydyw y cymhorth lleiaf i benderfynu cwestiwn o'r fath bwysigrwydd; sef, a oes, ai nid oes, llywodraeth foesol, yn yr ystyr cyfyngaf felly, wedi ei sefydlu yn *wel-edig* mewn natur. Y pethau y cyfeiriwn atynt ydyw y rhai hyn. Mewn llywodraeth deuluaidd, y mae plant ac ereill yn cael eu ceryddu yn fynych am anwiredd, twyll, a chamymddygiadau, fel y cyfryw, ac yn cael eu gwobrwyo am y rhinweddau cyferbyniol; ac y mae hyn yn anghraifft o wirionedd, uniondeb, ac ymddygiadau priodol, fel y cyfryw, yn cael eu hargymhell a'u grymuso gan wobrwyon a chospau, i raddau mwy neu lai. Pe y meddylid nad yw llywodraeth wladol yn cymmeryd sylw o weithredoedd mewn un wedd, ond yn unig fel y maent yn niweidiol

i gymdeithas, ar wahân oddi wrth eu moesoldeb; eto, fel y mae y cyfryw weithredoedd yn ddrygionus, felly y mae y syniad sydd gan ddynion o'u hanfoesoldeb a'u drygioni yn cynnorthwyo, i raddau helaeth, mewn gwahanol ffyrdd, i ddwyn y troseddwr i afael cyfiawnder. Yn mhellach, y mae absenoldeb hollol o bob drygioni ac euogrwydd, yn yr ystyr moesol, pan y mae hyn yn ymddangos yn eglur, bron bob amser yn ennill rhyddhâd i'r carcharor oddi wrth y cospau sydd yn gyssylltiedig â throeddau gwladol; ac ar y llaw arall, y mae euogrwydd anwadadwy, yn yr ystyr moesol, yn attalfa sicr ar ffordd hyny.

Felly, heblaw effeithiau daionus rhinwedd, ac effeithiau niweidiol drygioni ar feddyliau dynion eu hunain, y mae trefn y byd, i ryw fesur, yn dibynu ar y cymmeradwyaeth neu yr anghymeradwyaeth o honynt, fel y cyfryw, mewn ereill. Y mae y syniad o wneuthur yn dda, a'r gwrthwyneb, llais cydwybod, yr hoffder at gymmeriadau da, a'r adgasedd at rai drwg, anrhydedd, cywilydd, digder, diolchgarwch—y mae y pethau hyn, wrth edrych arnynt ynddynt eu hunain, ac yn eu heffeithiau, yn cyflwyno anghreiffitia eglur a gwirioneddol o rinwedd, fel y cyfryw, yn cael ei ffafrio, ac o ddrygioni, fel y cyfryw, yn cael ei anghefnogi, i ryw fesur, yn nghwrs beunyddiol pethau, yn mhob lle, pob oes, a phob cyssylltiad. Y mae y ffaith fod Duw wedi ein cynnysgaethu â natur foesol yn brawf diymwad ein bod yn ddeiliaid ei lywodraeth foesol; ond y mae yr ystyriaeth ei fod wedi ein gosod mewn sefyllfa fanteisiol i'r natur hon weithredu, ac yn yr hon y mae yn anocheladwy yn gweithredu—hyny yw, yn arwain dynion i weithredu yn y fath fodd ag i wobrwyo rhinwedd, ac i anghymeradwyo a chospi drygioni—y mae hyn, meddaf, yn brawf chwanegol o'i lywodraeth foesol; o blegid y mae yn esampl neu anghraifft o honi. Y mae y cyntaf yn *brawf* y bydd iddo, yn y diwedd, mewn modd effeithiol, gefnogi ac amddiffyn rhinwedd; y mae yr ail yn *esampl* o'i waith yn ei gefnogi a'i amddiffyn yn bresennol i ryw raddau.

Os ymholir yn fwy pendant, beth yw yr achos fod rhinwedd, fel y cyfryw, yn cael ei wobrwyo, a drygioni, fel y cyfryw, ei gospi, ac nad yw y rheol hon byth yn cael ei gwrthdroi, canfyddir fod hyn yn cyfodi, mewn rhan, oddi ar y natur foesol a roddes y Creawdwr i ni; ac mewn rhan hefyd oddi wrth y ffaith ei fod, yn nghyd â'r natur hon, wedi ein cynnysgaethu â chymmaint o allu a dylanwad ar hapusrwydd a thrueni y naill y llall. O blegid, yn *gyntaf*, y mae yn sicr fod tangnefedd a hyfrydwch, i ryw raddau, ac mewn rhai amgylchiadau, yn ganlyniad ebrwydd ac angenrheidiol ymarferion da—yn effaith sydd yn

tarddu yn naturiol oddi wrth gyfansoddiad ein natur. Yr ydym wedi ein ffurfio yn y fath fodd fel y mae gwneuthur yn dda, fel y cyfryw, yn rhoddi boddhâd i ni, mewn rhai achosion o leiaf; ond nid yw ymddygiadau drygionus, fel y cyfryw, un amser yn gweinyddu hyny. Ac, *yn ail*, ar gyfrif ein natur foesol, a'r ffaith fod Duw wedi rhoddi i ni ryw ddylanwad ar hapusrwydd ac ar drueni y naill y llall, nis gall drygioni, fel y cyfryw, lai na bod dan waradwydd, yn enwedigol rhai esamplau o hono; a theimla dynion duedd i'w gosi fel peth adgas ynddo ei hun: ac nid bob amser y gall y drygodyn osgoi y teimlad o'r gwaradwydd hwnw, mwy nag y gall ddianc y gosi a weinyddir arno oddi ar y syniad ei fod yn ei haeddu. Ond nid oes dim fel hyn ar du drygioni; o blegid nid oes yn y meddwl dynol ddim yn gwrth-ddyweyd rhinwedd. Y mae rhinwedd yn gynnwysedig mewn cymmeradwyaeth o'r hyn sydd uniawn a rhesymol, am eu bod felly—ymlyniad wrth eirwiredd, cyfiawnder, a haelfrydedd, ynddynt eu hunain: ond nid oes y fath beth a chymmeradwyaeth naturiol cyffelyb o gelwydd, anghyfiawnder, a chreulondeb. Os dywedir y ceir esamplau o ddrygioni yn cael ei gymmeradwyo fel y cyfryw, ac er ei fwyn ei hun (er nad wyf fi yn meddwl y ceir anghraifft felly—ond a thybied fod), y mae yn beth cwbl wrthun ac annaturiol; yn gymmaint felly a'r gwyrddroad mwyaf ar ryw nwyd yn y natur. Wrth edrych, felly, ar y cyfryw anghreiffiau, naill ai fel rhai hollol ddychymybol, neu, pa fodd bynag, annaturiol, y mae yn canlyn, ar gyfrif nodweddu moesol ein natur a'n sefyllfa, gyda golwg ar y pethau a grybwyllwyd yn awr, nas gall dynion ddangos eu cymmeradwyaeth i ddrygioni, fel y cyfryw; ac ar y llaw arall, nas gallant lai na ffafrio rhinwedd mewn rhai amgylchiadau. Dylem sylwi, mai nid y mater dan sylw yn awr ydyw graddau cymmeradwyaeth y naill ac anghymmeradwyaeth y llall, ond y ffaith ei hun—eu bod felly i ryw raddau; er y rhaid, yr un pryd, addef fod effeithiau daionus y naill, a drygionus y llall, fel y cyfryw, yn fawrion mewn gradd. Ond y mae yn angenrheidiol fod rhyw wahaniaeth yn cael ei wneyd rhyngddynt: y mae yn ffaith fawr ag y mae profiad beunyddiol yn ei sicrhau, hyd yn oed yn yr annhrefn mwyaf ar helyntion y byd.

Yr ydym yn barod i addef fod hapusrwydd a thrueni yn cael eu gweinyddu yn ol rheolau ereill heb law haeddiant a drwg-haeddiant personol dynion. Gellir weithiau eu cyfranu yn unig mewn ffordd o ddysgyblaeth. Y mae yn bosibl fod y rhesymau goreu pa ham y mae y byd yn cael ei lywodraethu wrth ddeddfau cyffredinol, yr hyn a bâr fod y cyfryw weinyddiad blith-draphlith yn canlyn oddi ar fath o angenrheidrwydd; a

hefyd, pa ham y mae gan ddynion gymmaint o lywodraeth ar hapusrwydd ac anghysur eu gilydd. Ac y mae y pethau hyn, fel y maent yn y cyffredin yn gwasanaethu er gwobrwyo rhinwedd a chospi drygioni, fel y cyfryw, felly hefyd y maent yn fynych yn gwasanaethu, nid i wrthdroi y rheol hon, yr hyn sydd anmhosibl, ond i wneyd dynion yn llwyddiannus, er yn ddrygionus, ac yn adfydus, er yn gyfiawn; a'r hyn sydd waeth, i *wobrwyo rhai ymddygiadau*, er eu bod yn ddrygionus, a chospi ymddygiadau ereill, er eu bod yn rhinweddol. Ond nis gall hyn oll foddi llais natur yn nghwrs rhagluniaeth, yr hon sydd yn dadgan yn ddiamwys ei bod o du rhinwedd, ac yn wrthwyneb i ddrygioni. O blegid y mae y ffaith ein bod wedi ein ffurfio yn y fath fodd, fel y mae rhinwedd yn cael ei gefnogi, a drygioni ei anghymeradwyo a'i gospi yn naturiol genym, fel y maent yn gyfryw, yn brawf cynreddfol (*intuitive*) o fwriad natur iddi fod felly: pe amgen, byddai cyfansoddiad ein meddwl, o'r hwn y mae yn tarddu, yn wrthun. Ond nis gellir dyweyd,¹ am fod gweithredoedd rhinweddol weithiau yn cael eu cospi, a rhai drygionus eu gwobrwyo, fod natur wedi bwriadu hyny: o blegid, er fod yr annhrefn hwn yn cael ei achosi trwy nwyd naturiol; eto, *dichon hyn fod*, fel yn ddiau y mae, wedi ei achosi gan wyrdroad a llygriad y nwydau hyny a blanwyd ynom i ddybenion ereill. Ac yn wir, y mae yn hawdd i ni adnabod dybenion yr holl nwydau sydd yn nghyfansoddiad ein natur.

Y mae genym felly gyhoeddiad sydd, i fesur, mewn grym yn bresennol, oddi wrtho Eif, yr hwn sydd oruchaf mewn natur, ar ba du y mae efe yn sefyll—cyhoeddiad neu fynegiad oddi wrtho o blaid rhinwedd, ac yn erbyn drygioni. Mor bell, gan hyny, ag y mae dyn yn ffyddlawn i rinwedd, i wirionedd a chyfiawnder, i gariad a haelfrydedd, a'r hyn sydd iawn yn mhob amgylchiad a ddaw dan ei sylw, y mae mor bell a hyny ar du ac o blaid y

[¹ Y mae meddwl yr awdwr yn y fan hon yn debyg i hyn:—Y mae Duw wedi cynnysgaethu dynion a natur foesol, sydd yn peri iddynt gymmeradwyo yr hyn sydd dda, a chondemnio yr hyn sydd ddrwg, *fel y cyfryw*. Oddi ar ein bod yn feddiannol ar y natur hon, y mae ein hapusrwydd yn dibynu ar ein cyd-ddynion; y maent yn offerynol i gospi drygau eu gilydd, am fod y drygau hyny, nid yn unig fel troseddau yn erbyn cymdeithas, ond fel y maent ynddynt eu hunain, ar wahân oddi wrth eu tuedd a'u heffeithiau, yn syrthio dan gondemniad eu natur foesol, neu eu cydwybod. Ond nid oes dim yn perthyn i'n natur yn cymmeradwyo drygioni. Nis gall y gydwybod, fel rheol, restru twyll, anghyfiawnder, a chreulondeb, yn yr un dosbarth a'r ymddygiadau gwrthwyneb. Ac os gellir dwyn yn mlaen anghreiffiau o ddifaterwech y natur foesol, neu ei chymmeradwyaeth, i rai drygau, y mae y cyffredin o ddynion, ie, *parwb* yn mron, yn edrych ar hyny fel gwyrdroad gwrthun. Y mae eu hanamledd, a'r syndod a deimlir pan grybwyllir am danynt yn brawf mai oddi ar lygriad y natur foesol y maent wedi cyfodi.]

llywodraeth ddwyfol, ac yn gydweithredydd â hi; ac oddi ar hyn, y mae y cyfryw un yn naturiol yn ymdeimlo â boddhâd dirgelaid, a theimlad o ddiogelwch a gobaith diysgog am rywbeth mwy a phellach nag a wel yn bresennol. Ac—

V. Y mae y gobaith hwn yn cael ei gadarnhau gan dueddiadau angenrheidiol rhinwedd; y rhai, er nad yn bresennol yn eu llawn rym, ydynt er hynny yn hawdd i'w canfod mewn natur, ac felly yn rhoddi esampl o nodwedd foesol yn ei chyfansoddiad. Y mae yn natur pethau dueddiad mewn rhinwedd a drygioni i gynnyrchu yr effeithiau da a drwg a grybwyllwyd yn awr mewn graddau helaethach nag y maent yn eu cynnyrchu yn weithredol. Er esampl: gwobrwyd dynion rhinweddol, a chospid rhai drwg, fel y cyfryw, yn llawer mwy, oni bai yr osgoir cyfiawnder yn fynych—oni bai fod cymmeriadau yn anadnabyddus, a bod llawer o ddynion a gefnogent rinwedd, ac a gospent ddrygioni, yn cael eu lluddias i wneuthur hynny gan amgylchiadau damweiniol. Y mae y tueddiadau hyn sydd mewn rhinwedd a drygioni yn hawdd i'w hadnabod gyda golwg ar *bersonau*. Ond gellir ystyried yn fwy neillduol, fod y gallu hwnw sydd mewn *cymdeithas*, trwy fod dan arweiniad rhinwedd, yn cynnyddu yn naturiol, ac yn feddiannol ar duedd i ennill goruchafiaeth ar allu gwrthwynebus iddo, heb fod dan ei arweiniad; yr un modd ag y mae gallu, trwy fod o dan arweiniad rheswm, yn cynnyddu, ac yn meddu tuedd i orchfygu nerth anifeiliaid. Y mae llawer o anifeiliaid mor gryfion, a rhai yn gryfach na dynion; ac y mae yn bosibl fod swm holl nerth anifeiliaid yn gryfach nag eiddo dynolryw; ond y mae rheswm yn rhoddi i ni lywodraeth arnynt; a thrwy ei reswm y mae dyn yn llywodraethwr addefedig ar holl anifeiliaid y maes. Ac nid yw yr uchafiaeth hwn yn cael ei ystyried gan neb yn beth damweiniol, ond yn rhagorfraint ag y mae tuedd naturiol mewn rheswm i ennill meddiant o honi. Eto, gellir, efallai, gyfodi anhawsderau o barth i ystyr yn gystal a gwirionedd yr haerid fod rhinwedd yn feddiannol ar duedd gyffelyb.

I symmud yr anhawsderau hyn o'r ffordd, gadawer i ni edrych yn fanylach pa fodd y mae hyn yn sefyll gyda golwg ar reswm, yr hwn yr addefir yn rhwydd ei fod yn meddu ar y duedd fanteisiol yma. Tybier fod dau neu dri o ddynion o'r galluoedd uchaf yn cael ymosod arnynt mewn gwastattir agored diffaeth gan ddengwaith yr un nifer o wylltffilod ysglyfaethus: a fyddai eu rheswm a'u galluoedd meddyliol yn debyg o sicrhau yr oruchafiaeth iddynt yn yr ymladdfa anghyfartal? Na fyddai. Felly, nis gellir dysgwyl i allu, er yn unedig, a than arweiniad rheswm, fod yn drech na'r gallu gwrthwyneb, er nad yw ond anifeiliaid,

oddigerth fod rhyw gyfartaledd rhyngddynt a'u gilydd. Tybier yn mhellach fod creaduriaid rhesymol a direswm yn meddu yr un ffurf ac agwedd: cyn y byddai cyfleusderau i'r rhai cyntaf i adnabod a gwahaniaethu eu gilydd, i ymddidol oddi wrth eu gelynion, ac i ffurfio undeb yn eu mysg eu hunain, y mae yn debygol na byddent ddim uwch na'r creaduriaid direswm; er, wedi ymuno, y byddent yn annhraethol ragori arnynt: o blegid y mae y fath rym mewn undeb, fel y gallai deg o ddynion yn unedig wneuthur peth na byddai deng mil, yn meddu yr un cryfder a deall, ond yn gwbl ysgaredig oddi wrth eu gilydd, yn abl i'w gyflawnu. Mewn amgylchiad fel hyn, byddai nerth anifeilaidd yn ddigon yn drech na rheswm, o herwydd diffyg undeb yn mysg y creaduriaid rhesymol. Neu, meddylier fod nifer o ddynion yn glanio ar ynys, heb neb yn preswyllo o'i mewn ond gwylltflod: trwy drefniadau llywodraeth, dyfeisiau celfyddyd, a phrofiad rhai blyneddoedd, byddent yn alluog i ddarostwng y gwylltflod, ac i ddiogelu eu hunain rhagddynt: eto, gallai cydgyfarfyddiad dygwyddiadau roddi y fath fantais i'r creaduriaid direswm, fel ag i'w galluogi ar unwaith i orthrechu, a hyd yn oed i lwyr ddinystrio, yr holl fodau dynol. Felly, byddai ysbaid lled faith o amser a chyfleusderau priodol i reswm weithredu yn gwbl angenrheidiol i roddi iddo uchafiaeth ar y nerth anifeilaidd. Ac, yn mhellach, y mae llawer o anghreiffiau am anifeiliaid yn llwyddo mewn anturiaethau na buasent yn cynnyg eu gwneyd, oni buasai fod eu hamddifadrwydd o reswm yn eu gwneyd yn analluog i ragwelled peryglon y cyfryw anturiaethau; ac y mae esamplau o ddynion yn cael eu llesteirio gan eu synwyr a'u rheswm i ymgymmeryd â pheth ag y gallasent, fel y daethant wedi hyny i weled, lwyddo trwy fyrbwylldra ffodus. Ac mewn rhai amgylchiadau, y mae gan anwybodaeth a ffolineb, gwendid ac anghytundeb, eu manteision; fel nad ydyw creaduriaid rhesymol, o angenrheidrwydd, yn meddu uchafiaeth ar rai direswm; ond y mae yn bosibl, er, mae yn rhaid addef, ei fod yn dra annhebygol, y gall yr olaf feddu uchafiaeth mewn rhai bydoedd. A phe y byddai y cyntaf yn gwbl ysgaredig oddi wrth eu gilydd, oddi ar hunanles gau a chenfigen—pe dadunid hwy trwy fradwriaeth ac anghyfiawnder, tra y byddai yr olaf, oddi ar reddf eu natur, mewn perffaith undeb â'u gilydd, gwasanaethai hyn, i raddau helaeth, i ddwyn i mewn y cyfryw wrthdroad ar drefn pethau. O blegid nid ystyriai neb y fath gyfnewidiad yn amgen na gwrthdroad, yn gymmaint a bod tuedd yn natur rheswm i gyrhaedd uchafiaeth ar nerth anifeilaidd, er caniatâu fod yn bosibl iddo beidio cyrhaedd hyny yn weithredol, ac fod yn angenrheidiol

luaws o amgylchiadau gydgyfarfod i roddi yr oruchafiaeth iddo.

Yn awr, y mae gan rinwedd mewn cymdeithas duedd gyffelyb i ennill uchafiaeth a gallu chwanegol, pa un bynag a edrychir ar y gailu hwn fel moddion o ddiogelwch yn ngwyneb gallu gwrthwyneb, ynte fel moddion i gyrhaedd manteision ereill. Ac y mae yn feddiannol ar y duedd hon, trwy wneyd y daioni a'r lles cyhoeddus yn nod ac amcan i bob aelod yn y gymdeithas; trwy wneyd pob un yn ystyriol a diwyd, ac amaethu hunan lywodraethiad; trwy fod yn rhwymyn undeb yn y gymdeithas, ac felly chwanegu ei nerth; ac yn enwedigol, uno ei holl aelodau â'u gilydd trwy wirionedd ac uniondeb. O blegid gan mai y rhinweddau hyn ydyw rhwymau penaf undeb, nis gall haelfrydedd neu ysbryd cyhoeddus, gwladgarol, heb ei lywodraethu ganddynt hwy, wneuthur nemawr o les.

A thybier fod y byd anweledig, a goruchwyliaethau anweledig rhagluniaeth, i ryw fesur, yn gyfatebol i'r drefn weledig a gwybyddus; neu fod y ddwy gyda'u gilydd yn gwneyd un gyfundrefn unffurf—y ddwy ran, y weledig a'r anweledig, yn gyfatebol i'w gilydd—yna, y mae yn rhaid fod tuedd gyffelyb yn y gallu deilliedig trwy y greadigaeth o dan arweiniad rhinwedd i ennill uchafiaeth ar yr hyn nad yw dan ei arweiniad, fel y mae mewn rheswm yn y greadigaeth i orchfygu nerth anifeilaidd. Ond eto, mewn trefn i ffyniant rhinwedd yn weithredol, y mae yn angenrheidiol i gydgyfarfyddiadau cyffelyb gymmeryd lle ag sydd i ffyniant rheswm. Y mae yn rhaid i'r nerth sydd dan arweiniad rhinwedd, a'r nerth sydd heb fod felly, ddwyn rhyw gyfartaledd i'w gilydd: y mae yn rhaid fod ysbaid digonol o amser; o blegid nis gall ffyniant rhinwedd, mwy na'r eiddo rheswm, oddi ar natur y peth, lai na bod yn araf a graddol; y mae yn rhaid fod maes achlysuron a chyfleusderau priodol i'r rhinweddol i gydymgynghreirio yn erbyn nerth diddeddf ac anwir, ac i fedi ffrwyth eu llafur unedig. Yn awr, ni a allwn obeithio nad yw yr anghyfartaledd rhwng y da a'r drwg, hyd yn oed ar y ddaiar, mor fawr fel nad oes gan y da ddigon o allu naturiol i beri iddynt lwyddo i raddau helaeth, pe caniatâi amgylchiadau iddo fod yn un gallu anwahanedig. O blegid llwyddai llawer llai o nerth, dan reolaeth rhinwedd, yn erbyn llawer mwy o nerth heb fod dan ei reolaeth. Ond nis gall dynion da ar y ddaiar, ar lawer cyfrif, ymuno: yn un peth, am nas gallant ddyfod yn ddigon adnabyddus o gymmeriad eu gilydd. Ac y mae cwrs adnabyddus pethau ar y ddaiar, ein sefyllfa bresennol, yn enwedig byrddra ein hoes, yn attal oddi wrth rinwedd luaws o fanteision, ac yn lluddias i'w duedd

weithio ei ffordd yn y modd mwyaf llwyddiannus. Y mae y duedd naturiol, yr hon sydd wedi bod dan ein hystyriaeth, er ei bod yn duedd wirioneddol, yn cael ei *hattal* rhag cael ei dwyn i effeithiolrwydd yn y sefyllfa bresennol; ond gall yr attalfeydd hyn gael eu symmud mewn sefyllfa ddyfodol. Y mae rhinwedd yn filwriaethus yma, ac y mae lluaws o ddygwyddiadau anhapus yn peri ei fod yn cael ei orchfygu yn fynych; ond gall filwrio gyda mwy o lwyddiant yn y sefyllfa ar ol hon, a llwyr orchfygu a mwynhau ei wobwr ddyledus ynddi. Yma, y mae yn cael ei esgeuluso; weithiau y mae yn anadnabyddus; ac yn fynych, y mae yn cael ei ddirmygu a'i gaethiwo; ond dichon fod yn nhragwyddoldeb gyfnodau digon meithion a chyfleus ar bob cyfrif i roddi iddo gylch a manteision digonol i weithredu, ac i ddwyn oddi amgylch ei ganlyniadau naturiol. Os ydyw yr enaid, ar gyfrif ei natur, yn anfarwol, a'r sefyllfa hon yn ddechreuad un ddyfodol, fel y mae adeg mebyd i lawn oedran, gall dynion rhinweddol ymuno, nid yn unig yn mhlith eu gilydd, ond hefyd â dosbeirith ereill o greaduriaid rhinweddol yn yr ystâd ddyfodol hono. O blegid y mae rhinwedd yn rhwymyn ac yn egwyddor o undeb, i ryw raddau, yn mysg pawb sydd yn feddiannol arno, ac yn adnabyddus i'w gilydd, fel nas gall dyn da lai na dwyn ei hun i ffafr a than noddod pob bod rhinweddol, trwy yr holl fydyssawd, sydd yn adnabyddus o'i gymmeriad. A gellir chwanegu, pe bai y duedd hon sydd mewn rhinwedd yn dyfod i effeithiolrwydd yn mysg rhyw ddosbarth o greaduriaid mewn rhyw gyfnod pell, a hyny yn adnabyddus i unrhyw ddosbeirith o greaduriaid drygionus yn y greadigaeth, y byddai gan yr effeithiolrwydd yma mewn rhinwedd duedd, mewn ffordd o esampl, ac mewn ffyrdd ereill efallai, i wellhau y rhai hyny o honynt sydd yn alluog i gael eu hadferu i deimlo yn briodol gyda golwg ar rinwedd. Pe byddai ein syniadau am gynllun a threfn rhagluniaeth yn cael eu eangu yn gyfatebol i'r modd y mae darganfyddiadau diweddar wedi eangu ein golygiadau am y byd elfenol, nid ymddangosai sylwadau fel hyn mewn un modd yn wrthun ac annaturiol. Nid ydynt i'w cymmeryd, fodd bynag, fel dysgrifiad llythyrenol o drefn rhagluniaeth, yr hon nis gellir ei hadnabod ond trwy ddadguddiad; o blegid ni ddylid edrych ar dybiaethau fel yn wirionedd, am nad ydynt yn anghredadwy; ond crybwyllir hwynt i ddangos nad ydyw y ffaith ein bod yn gweled rhinwedd yn cael ei attal rhag cyrhaedd y cyfryw uchafiaeth, yn un wrthddadl yn erbyn y syniad fod ynddo duedd hanfodol i gyrhaedd hyny. Ac y mae y tybiaethau a grybwyllwyd yn awr yn dangos hyn yn eglur; o blegid dangosant fod yr attalfeydd hyn mor bell o fod yn angen-

rheidiol, fel y gallwn ni ein hunain yn hawdd ddirnad pa fodd y gellir eu symmud mewn sefyllfa ddyfodol, ac y bydd i rinwedd dderbyn y rhyddid mwyaf. Ac y mae yr holl dueddiadau manteisiol hyn a berthynant iddo i'w hystyried fel mynegiadau dwyfol o'i blaid. Y mae hyn, pa fodd bynag, yn olwg eang ar y mater; eto, y mae yn ddiammheuol, gan fod y byd elfenol yn ymddangos fel pe bai yn ddiderfyn, y rhaid fod *rhyw* drefn o ragluniaeth yn meddu eangder cyfatebol iddo.

Ond, dychwelwn at y ddaiar, ein preswylfod—ac ni a ganfyddwn y duedd hon mewn rhinwedd, trwy feddwl am anghraifft heb fod mor eang a phell—trwy dybied am deyrnas, neu gymdeithas o ddynion, yn berffaith rinweddol am lawer o oesoedd, i'r hon y rhoddid sefyllfa a fyddo yn fanteisiol i unbenaeth gyffredinol. Yn y fath lywodraeth, ni byddai dim tebyg i ymbleidiad; ond wrth reswm, rhoddid y llywodraeth, yn benaf, a hyny yn ewyllysgar, yn nwyllaw y dynion mwyaf galluog; a chyfranogent hwythau o honi yn eu mysg eu hunain heb ddim cenfigen. Byddai gan bob un ei ran ei hun, yr hon a fyddai y fwyaf cyfaddas i'w athrylith; a byddai ereill, amddifad o alluoedd neillduol, yn eithaf diogel; a theimlent eu hunain yn ddedwydd trwy fod o dan nawdd ac arweiniad rhai uwch law iddynt. Byddai penderfyniadau cyhoeddus yn ffrwyth doethineb unedig y wladwriaeth; a gweinyddid hwy yn ffyddlawn trwy nerth yr oll. Gwasanaethai rhai mewn ffordd uchel a neillduol, a phawb mewn rhyw ffordd, tuag at y llwyddiant cyffredinol, a mwynhaai pob un ffrwyth ei ddaioni ei hun. Ac fel y byddai anghyfiawnder, pa un bynag ai trwy drais neu dwyll, yn anhysbys iddynt yn eu plith eu hunain, felly hefyd y byddent yn gwbl ddiogel oddi wrtho yn eu cymmydogion. O blegid ni byddai ystryw, hunangais isel, ac ymgynghreiriad anghyfiawn, yn llawn o fradwriaeth ac ymbleidiad yn eu mysg eu hunain, yn amgen na gwendid a ffolineb plentynaidd yn erbyn doethineb, ysbryd cyhoeddus, ac undeb a ffyddlondeb trwyadl, ar yr ochr arall. Meddylier hefyd am y dylanwad cyffredinol a fyddai gan y cyfryw deyrnas ar yr holl ddaiar, yn enwedig mewn ffordd o esampl, a'r parch a delid iddi. Y mae yn amlwg y byddai uwch law pob un arall; ac yn raddol, deuai y byd dan ei llywodraeth—nid trwy allu anghyfiawn, ond, mewn rhan, trwy yr hyn a addefir yn oruchafiaeth deg; ac mewn rhan, trwy i deyrnasoedd ereill ymostwng yn wirfoddol iddi, a gofyn am ei hamddiffyniad, y naill ar ol y llall, mewn rhyw amgylchiadau o gyfyngder. Byddai ei phenadur yn deyrn cyffredinol mewn ystyr gwahanol i bawb a fu eto; a byddai yn bosibl cymhwyso yr ymadrodd dwyreiniol yn llythyrenol

ato—"y gwasanaethid ef gan yr holl bobloedd, cenedloedd, ac ieithoedd." Ac er, yn wir, fod ein hadnabyddiaeth o'r natur ddynol, a holl hanes dynolryw, yn dangos yr anmhosiblrydd, heb rhyw gyfryngiad gwyrthiol, i nifer o ddynion ar y ddaiar ymuno mewn un gymdeithas, yn ofn Duw, ac mewn ymarferiad cyffredinol o rinwedd, ac i'r cyfryw lywodraeth barhau felly am lawer o oesoedd:—eto, a thybied hyn, byddai yr effaith yn gwbl fel ag y dysgrifiwyd yn awr. Ac fel hyn, er esampl, byddai y gallu a'r llwyddiant rhyfeddol a addewir i'r genedl Iuddewig yn yr Ysgrythyrau, i fesur mawr, yn ganlyniad o'r hyn a ragfynegir am danynt—"dy bobl a fyddant gyfiawn oll: etifeddant y tir byth:"—pe deallem yr ymadrodd diweddfaf am barhâd maith yn unig fel parhâd digonol i roddi i bethau amser i weithio. Nis gall rhagfynegiadau fel hyn ddyfod o amgylch yn nghwrs presennol natur; ond tybier eu bod yn dyfod i ben, yna, rhaid y canlynai y llywodraeth a'r uchafiaeth a addewir yn naturiol i raddau mawr iawn.

Ystyrier yn bresennol gyfundrefn gyffredinol crefydd; fod llywodraeth y byd yn unffurf, yn un, ac yn foesol; y bydd i rinwedd a daioni gael yr oruchafiaeth yn y diwedd, a darostwng twyll a thrais; ac oddi wrth y sylwadau uchod, ymddengys fod Duw wedi ein cynnysgaethu â gallu i weled cyssylltiad neillduol rhwng gwahanol ranau y gyfundrefn hon, a thuedd tuag at ei pherffeithiad, yn codi oddi ar natur rhinwedd ei hun; yr hon duedd sydd i'w hystyried fel yn meddu nodwedd foesol yn nghyfansoddiad gwreiddiol pethau. Os meddylia rhywun mai peth o ychydig bwys yw hyn oll, dymunaf iddo ystyried pa beth a feddyliai efe pe buasai drygioni, yn ei natur ac o angenrheidrwydd, yn meddu y tueddiadau manteisiol hyn, neu pe buasai rhinwedd yn meddu tueddiadau hollol wrthwyneb.

Ond dichon y gwrthddadleuir, er yr holl dueddiadau naturiol a berthyn i rinwedd, y gallai pethau fyned rhagddynt trwy y bydyssawd, a myned rhagddynt mewn sefyllfa ddyfodol, yn yr un llwybr cymmysglyd ag y maent yn bresennol ar y ddaiar—rhinwedd weithiau yn fuddugol, weithiau yn orchfygedig—drygioni weithiau yn cael ei gospi, weithiau yn llwyddiannus. Yr atebiad i hyn ydyw, mai nid amcan y bennod hon, na'r traethawd hwn, ydyw profi yn briodol lywodraeth foesol berffaith Duw ar y byd, neu wirionedd crefydd; ond sylwi pa beth sydd yn nghyfansoddiad a threfn natur yn cadarnhau y prawf priodol o honi, a thybied ei fod yn adnabyddus; ac y gall grym y sylwadau blaenorol i'r perwyl hwn gael ei brofi yn eglur yn y dull yma. Y mae yn wir fod pleser a phoen, i raddau helaeth, yn cael eu

cyfranu yn ein mysg heb unrhyw sylw pendant ac eglur ar haeddiant neu ddrwghaeddiant cymmeriadau. A phe na bai dim arall ar y mater hwn yn ganfyddadwy yn nghyfansoddiad natur, ni byddai un sail oddi wrtho i obeithio neu i ofni gwobr neu gosp, yn ol haeddiant dynion, yn y byd a ddaw; yr hyn, fodd bynag, a arwydda, hyd yn oed pe byddai felly, na byddai yr un sail oddi wrth ymddangosiadau i feddwl y gorweddai y fantais ar du drygioni, yn hytrach na rhinwedd. Ac fel hyn, gorphwysai y prawf o sefyllfa ddyfodol o wobr a chosp ar y rhesymau cyffredin o'i blaid—y rhai ydynt, yn ol fy meddwl i, yn gwbl anatebadwy; ac a fyddent felly, pe na bai un cadarnhad chwanelgol iddynt oddi wrth y pethau a grybwyllwyd uchod. Ond y mae y pethau hyn yn gadarnhad pwysig iddynt. O blegid—

Yn gyntaf, Dangosant nad yw Awdwr natur yn teimlo yr un fath at rinwedd a drygioni. Y maent yn gyhoeddiad oddi wrtho ef—yn gyhoeddiad diamwys a phenderfynol—o blaid y naill, ac yn erbyn y llall; y fath gyhoeddiad, fel nad oes dim i'w roddi yn atebiad o blaid drygioni. A phe bai un yn gadael heibio brawf priodol crefydd, ac yn penderfynu oddi ar drefn natur pa un ai y cyfiawn ynte y drygionus ydyw y tebycaf o fod y dedwyddaf yn y sefyllfa ddyfodol, nid oes un ammheuaeth na phenderfynai mai y cyntaf. Y mae cwrs natur, felly, yn yr olwg arno a roddwyd yn awr, yn ein cynnysgaethu â phrawf gwirioneddol o blaid rhwymedigaethau crefydd.

Yn ail, Pan, yn unol â'r hyn a ddysgir i ni gan grefydd, y gwobrwyd Duw rinwedd ac y cospa ddrygioni, fel y cyfryw, yn y fath fodd ag y caiff pob un yn ol ei haeddiant, ni bydd y daledigaeth gyfiawn yma yn wahanol mewn *math*, ond yn wahanol yn unig mewn *gradd*, oddi wrth yr hyn sydd yn cymmeryd lle yn ei lywodraeth bresennol. Ni bydd yn amgen na'r *duedd* a welwn yn awr, wedi dyfod i *effeithiolrwydd*; neu *gyflawniad* y llywodraeth foesol hono, *egwyddorion* a *dechreuad* pa un sydd yn ganfyddadwy, fel y dangoswyd tu hwnt i ddadl, yn nghwrs presennol natur. Ac oddi wrth hyn y mae yn canlyn,

Yn drydydd, Mai fel y mae ein profiad, dan lywodraeth naturiol Duw, o'r mathau a'r graddau hyny o hapusrwydd a thrueni presennol, yn sail deg i obeithio am ac i ofni graddau uwch o'r naill a'r llall mewn sefyllfa ddyfodol, felly y mae y profiad a feddwn dan ei lywodraeth foesol, fod rhinwedd a drygioni, yn y dulliau crybwylledig, yn cael eu gwobrwyo a'u cospi yn weithredol yn awr, yn rhoddi sail i obeithio ac i ofni y *dichon* iddynt gael eu gwobrwyo a'u cospi mewn graddau helaethach ar ol hyn. Addefir yn wir nad yw hyn arno ei hunan yn sail ddigonol dros

feddwl y *cant* eu gwobrwyo a'u cospi yn weithredol, mewn graddau helaethach, yn hytrach na graddau llai. Ond eto,—

Yn ddiweddfaf, Y mae sail ddigonol i feddwl felly oddi wrth dueddiadau da a drwg rhinwedd a drygioni. O blegid y mae y tueddiadau hyn yn hanfodol ac yn seiliedig ar natur pethau; tra y mae yr attalfeydd sydd ar eu ffordd i ddyfod i effeithiolrwydd, mewn achlysuron afrifed, heb fod yn angenrheidiol, ond yn ddamweiniol ac amgylchiadol yn unig. Yn awr, y mae rheswm llawer cryfach dros feddwl yr erys y tueddiadau hyn, a gwobrwyon a chospau gweithredol rhinwedd a drygioni, y rhai a gyfodant yn uniongyrchol oddi ar natur pethau, yn y sefyllfa ddyfodol, nag yr erys yr attalfeydd damweiniol sydd ar eu ffordd. Ac os nad erys yr attalfeydd, nis gall y gwobrwyon a'r cospau lai na chael eu cario yn mlaen tuag at berffeithiad y llywodraeth foesol: hyny yw, daw tueddiadau rhinwedd a drygioni i nerth a gweithrediad effeithiol; ond pa bryd, pa le, a pha fodd, sydd gwestiynau nas gall dim ond dadguddiad eu hateb.

Ar y cyfan, y mae math o lywodraeth foesol yn cael ei harddangos yn llywodraeth naturiol Duw; y mae rhinwedd a drygioni yn cael eu gwobrwyo a'u cospi yn naturiol fel yn wasanaethgar a niweidiol i gymdeithas, a'u gwobrwyo a'u cospi yn uniongyrchol fel rhinwedd a drygioni. Felly, y mae y syniad am lywodraeth foesol yn syniad naturiol; o blegid y mae yn cael ei gynnyrchu yn ein meddwl gan gwrs natur; ac y mae gweinyddiad y llywodraeth hon wedi ei dechreu yn weithredol yn yr esamplau a grybwyllwyd yn awr. Ac y mae y pethau hyn i'w hystyried fel mynegiad o eiddo Awdwr natur o blaid rhinwedd, ac yn erbyn drygioni; cefnogant y dybiaeth y cant eu gwobrwyo a'u cospi ar ol hyn; a rhoddant sail i obeithio ac i ofni y gallant gael eu gwobrwyo a'u cospi mewn graddau helaethach nag y maent yn cael yn bresennol. Ac fel y mae hyn oll yn cael ei gadarnhau, felly y mae y ddadl o blaid crefydd, oddi wrth drefn natur, yn cael ei chario yn mlaen yn mhellach, trwy sylwi fod y tueddiadau naturiol tuag at berffeithiad y gyfundrefn foesol hon, ac, mewn achlysuron afrifed, nad yw yr attalfeydd ond damweiniol. Felly, y mae y drychfeddwl am lywodraeth foesol llawer mwy perffaith na'r hyn a welir yn bresennol yn ddrychfeddwl naturiol, ac nid yn un dychymybol; o blegid y mae yn cael ei awgrymu i'n meddyliau gan dueddiadau hanfodol rhinwedd a drygioni. A dylid edrych ar y tueddiadau hyn fel mynegiadau—fel addewidion a bygythion eglur oddi wrth Awdwr natur—o wobrwyon a chospau llawer mwy na dim sydd yn bresennol yn canlyn rhinwedd a drygioni. Ac yn wir, y mae pob

tuedd *naturiol* sydd i barhau, ond sydd yn cael ei rhwystro rhag cyrhaedd effeithiolrwydd yn unig gan achosion *damweiniol*, yn ffurfio tebygoliaeth y bydd i'r cyfryw duedd, rywbyrd neu gilydd, gyrhaedd effeithiolrwydd:—tebygoliaeth gyfatebol mewn gradd i feithder yr amser am yr hwn y parhâ y cyfryw duedd. Ac oddi wrth y pethau hyn gyda'u gilydd, y mae sail i gredu y caiff y gyfundrefn foesol ei dwyn yn mlaen yn mhellach rhyngddi a pherffeithrwydd ar ol hyn; i.e., y caiff ei llwyr berffeithio. Ond oddi wrth y pethau hyn, yn gyssylltiedig â'r natur foesol a roddes Duw i ni, wrth gael ei hystyried fel wedi ei rhoddi ganddo ef, y mae prawf ymarferol yn cyfodi y caiff ei pherffeithio—prawf oddi wrth ffaith, ac felly yn brawf ar wahân i'r hwn a gesglir oddi wrth y cyssylltiadau neu y perthynasau tragwyddol a digyfnewid, a'r cymhwysder a'r anghymhwysder sydd mewn gweithredoedd.



PENNOD IV.

AM SEFYLLFA PRAWF, FEL YN CYNNWYS PRAWF,
ANHAWSDEBAU, A PHERYGLON.¹

Y MAE athrawiaeth gyffredinol crefydd, fod ein bywyd presennol yn sefyllfa prawf erbyn bywyd arall, yn cynnwys amryw bethau

[¹Y mae y bennod hon, medd Dr. Chalmers, yn un o'r rhai mwyaf llwyddiannus yn yr holl draethawd. Y mae yn cyfarfod â'r wrthddadl hono yn erbyn crefydd, fod cynnifer o anhawsderau rhyngom a'r dedwyddwch hwnw a osodir o'n blaen ganddi. Cwynir fod ein daioni a'n dedwyddwch penaf mor anhawdd i'w gyrhaedd a'i ddiogelu; yn gymmaint a bod yr anhawsderau mor fawrion, fel y mae galluedd gweiniaid y ddynoliaeth i feddiannu y da ac i wrthsefyll y drwg yn pallu yn yr ymdrech. Dichon y gofynir gan lawer, Pa ham y mae cyrhaeddiad gwynfyd tragwyddol wedi ei gyssylltu â'r fath lafur sydd yn mron yn anhwsibl ei ymarfer? Ac oni buasai yn fwy cydweddol â chymmeriad Duw y Cariad, fod llai o attalfeydd ar ein llwybr tua'r bywyd? Siaredir am gopi o herwydd bai sydd yn naturiol i ni, fel pe bai yn gamwri perffaith; tra na wobrwyr ond yn unig am ufudd-dod sydd tu hwnt i allu natur ei roddi. Ond y mae Butler yn y bennod hon yn dwyn yn mlaen gyfatebion sydd, o leiaf, yn amddiffyn crefydd yn ngwyneb y gwrthddadleuon hyn. Os athrawiaeth crefydd ydyw, fod y ffordd i fywyd a dedwyddwch tragwyddol yn llwybr o lafur a hunan-ymwadiad, dangosir fod hyn yn berffaith gyfatebol i'r ffaith mai yr un ydyw y llwybr i gyrhaedd daioni a hapusrwydd tymmorol hefyd. Os ydyw dynion yn fforffetio eu daioni yn y byd hwn trwy anystyriaeth, diofalwch, a bywyd afreolaidd, nid oes dim yn erbyn meddwl y gallant wneyd y cyffelyb, trwy y cyffelyb arferion, gyda golwg ar eu llesion yn y byd a ddaw. A chyn y gallwn, ar sail y gwrthddadleuon uchod, anghredu tystiolaethau gair Duw am grefydd a'r byd arall, y mae yn rhaid i ni roddi i fyny ein crediniaeth yn llyw-

neillduol, gwahanol oddi wrth eu gilydd. Ond yr ystyr cyntaf a mwyaf cyffredin a berthyn iddi ydyw, fod ein cyflwr dyfodol yn dibynu yn awr, ac yn dibynu arnom ein hunain; fod genym gyfleusderau yn awr i ymarfer bywyd rhinweddol a drygionus, y rhai a wobrwyr ac a gospir gan Dduw yn y byd arall; yn nghyd â themtasiynau i'r naill, a chymhelliadau rhesymol i'r llall. Ac y mae hyn bron yr un peth a dyweyd ein bod yn ddeiliaid llywodraeth foesol Duw, ac i roddi cyfrif iddo Ef am ein hymddygiadau. O blegid y mae y drychfeddwl am roddi cyfrif, a barn gyfiawn gyffredinol, yn arwyddo fod rhyw fath o demtasiynau i'r hyn sydd ddrwg; pe amgen, ni byddai un posibilrwydd moesol i gyflawnu yr hyn sydd ddrwg, na sail dros farnu a gwneuthur gwahaniaeth. Ond y mae hyn o wahaniaeth—fod y gair *prawf* yn dynodi hudoliaethau i'r hyn sydd ddrwg, neu anhawsderau i ymlynu yn wastadol wrth yr hyn sydd dda, yn nghyd â'r perygl o aflwyddo trwy y cyfryw demtasiynau, yn fwy neillduol a phendant na'r geiriau *llywodraeth foesol*. Felly, y mae sefyllfa prawf, fel yn cynnwys ynddi yn benodol anhawsderau a pherygl, yn gofyn ystyriaeth ar ei phen ei hun.

Ac fel y mae llywodraeth foesol Duw yn arwyddo ein bod mewn sefyllfa prawf gyda golwg ar y byd arall, felly hefyd y mae ei lywodraeth naturiol arnom yn arwyddo ein bod mewn sefyllfa prawf, mewn modd cyffelyb, gyda golwg ar y byd hwn. Y mae llywodraeth naturiol, trwy wobrwyon a chospau, yn dynodi prawf naturiol, yn gystal ag y mae llywodraeth foesol yn dynodi prawf moesol. Wrth lywodraeth naturiol Duw y golygir yma, ei fod yn cyssylltu pleser â rhyw weithredoedd, a phoen âg ereill, ag y mae yn ein gallu i'w cyflawnu neu beidio eu cyflawnu; ac mewn rhoddi rhybudd i ni o'r cyfryw appwyntiad yn mlaen llaw. Y mae hyn, o angenrheidrwydd, yn dynodi ei fod wedi gwneyd i'n dedwyddwch a'n trueni ddibynu mewn rhan arnom ein hunain; ac mor bell ag y mae gan ddynion demtasiynau i ryw weithredoedd a allant fod yn achlysur o fwy o anghyfleusderau tymmorol nag o foddhâd iddynt, y maent mor bell a hyny mewn perygl gyda golwg ar eu budd tymmorol, a hyny oddi wrthynt eu hunain; neu, y maent mewn sefyllfa prawf gyda golwg arno. Yn awr, y mae dynion yn fynych yn beio ereill, ac hyd yn oed eu hunain, am eu camymddygiad yn eu hachosion tymmorol; ac yr ydym yn gweled fod llawer yn methu cyrhaedd yr hapusrwydd hwnw a allasent gael yn y bywyd presennol; ac

odraeth Duw ar natur a threfn rhagluniaeth. Y mae yr un gwrthddadleuon yn llawn mor briodol i'w cymhwyso at y trefniant ag y mae ein sylwadaeth a'n profiad parhâus yn ein dwyn i gyffyrddiad âg ef.]

y mae pawb felly, fe ddichon, i ryw raddau. Ond y mae llawer yn dwyn eu hunain i anghyfleusderau a thrueni dirfawr, nid oddi ar anallu i wybod a gweithredu yn well drostynt eu hunain, ond oddi ar eu bai a'u camymddygiad. Ac y mae y pethau hyn o angenrheidrwydd yn dynodi fod temtasiynau i, a pherygl o, aflwyddo, mewn graddau mwy neu lai, gyda golwg ar ein budd a'n hapusrwydd tymmorol. Siarada pawb hefyd, ar wahân oddi wrth ystyriaethau crefyddol, am y peryglon sydd yn cylchynu ieuencyd ar eu mynediad i'r byd, y rhai a gyfodant oddi ar achosion heblaw eu hanwybodaeth, a damweiniau anocheladwy. A chan fod rhyw weithredoedd drygionus, o leiaf, yn anffafriol i lesiant tymmorol dynion, mae yn rhaid fod temtasiynau i'r rhai hyn ar yr un pryd yn demtasiynau i fforffetio ein buddiannau presennol a dyfodol. Fel hyn, yr ydym yn ein sefyllfa naturiol neu dymmorol mewn prawf, anhawsder, a pherygl, sydd yn gyfatebol i'n prawf moesol neu grefyddol.

Y mae yn rhaid fod yr hyn sydd yn ffurfio ein prawf yn y ddwy berthynas yma, yn rhywbeth, naill ai yn ein hamgylchiadau allanol, neu yn ein natur. O blegid, ar un llaw, gall dynion gael eu bradychu i gamymddygiadau mewn ffordd ddisymmwth, neu eu gorchfygu ar ryw achlysuron neillduol, y rhai a fuasent heb hyny yn cadw eu cymmeriad rhinweddol; ac mewn achosion fel hyn, cyfrifai pawb wrth siarad am gamymddygiad y dynion hyn y peth i'r cyfryw amgylchiadau neillduol. Ac ar y llaw arall, y mae dynion sydd wedi meithrin arferion ffol a drygionus, neu sydd yn feddiannol ar ryw nwyd, i eithafion, yn chwilio am gyfleusderau, ac megys yn myned o'r ffordd i foddhau eu hunain a'u nwydau, ar draul eu synwyr a'u rhinwedd; maent yn cael eu harwain, nid gan demtasiynau allanol, ond yn hytrach gan y cyfryw arferion a nwydau. A'r cyfrif am yr achos diweddaf ydyw, nad ydyw nwydau neillduol yn ddim mwy cydfynedol â challineb, neu yr hunangariad rhesymol hwnw, amcan yr hwn ydyw ein llesiant tymmorol, nag ydynt âg egwyddor rhinwedd a chrefydd; ond, yn fynych, yn tynu yn y gwrthwyneb i'r naill yn gystal a'r llall: ac felly, y mae y cyfryw nwydau neillduol yn gymmaint o demtasiynau i ymddwyn yn anghall gyda golwg ar ein budd tymmorol ag i ymddwyn yn ddrygionus. Pan ddywedir, modd bynag, fod dynion yn cael eu camarwain gan amgylchiadau allanol o demtasiynau, nis gellir llai na meddwl fod rhywbeth o'u mewn hwy eu hunain yn gwneyd yr amgylchiadau yn demtasiynau, neu yn eu gwneyd hwy yn agored i argraffiadau oddi wrthynt; felly, pan y dywedwn eu bod hwy yn cael eu camarwain gan nwydau, y mae yn cael ei dybied bob amser fod ach-

lysuron, amgylchiadau, a gwrthddrychau yn cynhyrfu y nwydau hyn, ac yn rhoddi cyfleusdra i'w boddhau. Ac felly, y mae temtasiynau o fewn ac oddi allan, yn cydfyned, ac yn cynnwys y naill y llall. Yn awr, pan y mae amrywiol wrthddrychau allanol y blysiâu a'r nwydau yn bresennol i'r synwyrâu, ac yn cynnyg eu hunain i'r meddwl, ac felly yn cynnyrchu teimladau cydunol â'u natur, nid yn unig mewn amgylchiadau ag y gellir eu boddhau yn gysson â diniweidrwydd a challineb, ond hefyd mewn amgylchiadau nas gellir, ond y gellir eu boddhau mewn modd anghall a drygionus—y mae hyn yn eu gosod mewn perygl o ymwadu yn wirfoddol â'u daioni presennol yn gystal a'u daioni dyfodol; ac mor wirioneddol yn gwneyd hunan-ymwadiad yn angenrheidiol i sicrhau y naill fel y llall:—hyny yw, yr ydym mewn sefyllfa gyffelyb o brawf gyda golwg ar y ddau, trwy yr un nwydau, y rhai a gynhyrfir trwy yr un moddion. Felly, gan fod gan ddynion fuddiannau tymmorol yn dibynu arnynt eu hunain, a chan fod ymddygiadau doeth yn angenrheidiol i'w sicrhau, y mae nwydau wedi eu cynhyrfu yn anghymmedrol, pa un bynag ai trwy esampl, neu ryw amgylchiad allanol arall, tuag at y cyfryw wrthddrychau, ar y cyfryw adegau neu yn y cyfryw radd fel nas gellir eu boddhau yn gysson â challineb bydol, yn demtasiynau—ac yn fynych yn rhai peryglus a llwyddiannus—i ymwadu â daioni tymmorol mwy am un llai; i ymwadu â'r peth ydyw, ar y cyfan, ein llesiant tymmorol, er mwyn boddhad presennol. Y mae hyn yn ddysgrifiad o'n prawf yn ein cyflwr tymmorol. Rhodder yn awr y gair *dyfodol* yn lle *tymmorol*, a *rhinwedd* yn lle *callineb*, a bydd yn ddysgrifiad mor briodol o'n sefyllfa prawf yn ei berthynas grefyddol, gan mor gyfatebol ydynt i'w gilydd.

Os, oddi ar ystyriaeth o'r sefyllfa hon o brawf yn y ddau gysylltiad, yr awn yn mlaen i sylwi yn mhellach pa fodd y mae dynolryw yn ymddwyn ynddi, ni a gawn fod rhai yn meddu syniad mor brin am dani, fel nad ydynt yn edrych nemawr dros yr awr bresennol; y maent mor ymroddedig i fwynderau presennol, fel nad oes ganddynt mewn ystyr yr un syniad am ganlyniadau—dim pryder o barth i'w hesmwythyd a'u cyflwr dyfodol yn y byd hwn, mwy na'u dedwyddwch yn y byd arall. Y mae rhai yn ymddangos fel wedi eu dallu a'u twyllo gan nwydau anghymmedrol yn eu hachosion bydol yn gymmaint ag mewn crefydd. Y mae ereill, nid wedi eu dallu a'u twyllo, ond megys yn cael eu cario yn bendramwnwgl gan nwydau cyffelyb, yn groes i'w barn well, a'u penderfyniadau gweiniaid i ymddwyn yn well. Ac y mae dynion, nid ychydig, y rhai a addefant, heb wrido, mai deddf a rheol eu bywyd ydyw eu mympwy a'u pleser, ac nid eu

budd a'u lles; y rhai, mewn gwrthwynebiad i bob peth rhesymol, a änt yn mlaen mewn cwrs o afradlonedd pechadurus, gan ragweled—ond heb ddim ofn a dychryn cydwybod—y bydd i ddinystyr ganlyn o angenrheidrwydd; a rhai o honynt yn meddu rhyw syniad am, a rhagolygiad ar, ganlyniadau drygioni mewn sefyllfa ddyfodol. Ac i lefaru yn y modd mwyaf cymmedrol, y mae dynion, nid yn unig yn barhäus yn agored i fyned yn wirfoddol ar gyfeiliorn, ond yr ydym yn gweled eu bod yn fynych yn weithredol yn myned felly, gyda golwg ar eu buddiannau tymmorol, yn gystal a chyda golwg ar grefydd.

Fel hyn, y mae ein anhawsderau a'n peryglon, neu ein prawf, yn ein cysylltiad tymmorol a chrefyddol, fel y maent yn cyfodi oddi ar yr un achosion, ac yn meddu yr un effaith ar ymddygiad dynion, yn gyfatebol i'w gilydd, ac yn hollol o'r un natur.

Gellir chwanegu, mai fel y mae yr anhawsderau a'r peryglon o aflwyddo yn ein prawf crefyddol yn cael eu mwyhau yn fawr, ac, fel y gallai un feddwl, mewn ystyr, eu *gwneyd* a'u *ffurfio* gan gamymddygiadau ereill, gan gamaddysgiaeth mewn ystyr foesol—addysgiaeth sydd weithiau yn ddrygionus—gan esamplau niweidiol, gan yr ystrywiau sydd yn nglŷn â phob trafodaeth, ac, mewn llawer parth o'r byd, gan grefydd dwyllodrus a llygredig, sydd yn cefnogi dynion mewn drygioni—felly, yr un modd y mae yr anhawsderau i ymddwyn yn ddoeth gyda golwg ar ein buddiannau tymmorol, a'r perygl o gael ein llithio oddi wrthynt, yn cael eu mwyhau yn fawr gan addysg ffol; ac ar ol cyrhaedd llawn oed, gan afradlonedd a diofalwch ereill, y rhai y mae a wnelom â hwynt; a chan syniadau cyfeiliornus, wedi eu cymmeryd oddi wrth farn y lluaws, o barth hapusrwydd tymmorol a'r pethau y cynnwysir ef ynddynt. Ac y mae dynion, trwy eu diofalwch a'u hanwyliadwriaeth yn eu hachosion bydol, yn gystal a thrwy ymddygiadau drygionus, yn dwyn eu hunain i anhawsderau newyddion; a thrwy hunanfoddhâd, yn anghymhwyso eu hunain yn barhäus i fyned trwyddynt; ac y mae y naill afreoleidd-dra ar ol y llall yn dyrysu pethau yn y fath fodd, fel na wyddant pa beth y maent yn ei gylch, ac yn fynych yn gwneyd eu llwybr mor dywyll a dyrys, fel y mae yn anhawdd ei olrhain; yn anhawdd, hyd yn oed i benderfynu pa beth sydd ddoeth a rhinweddol ei wneyd. Fel hyn, er esampl, y mae camymddygiad mewn un adeg ar fywyd—ieuenctyd—yn mwyhau yr anhawsderau ar ffordd ymddwyn yn iawn mewn oedran addfed—yn ein gosod mewn sefyllfa o brawf mwy anfanteisiol yn ein cysylltiad neu gyflwr tymmorol.

Yr ydym ni yn rhan israddol o greadigaeth Duw. Y mae

ymddangosiadau naturiol ein bod mewn cyflwr o ddiraddiad. Ac y mae yn sicr ein bod mewn sefyllfa, yr hon *nid yw yn ymddangos* mewn un modd y fwyaf manteisiol a allem ddymuno, naill ai yn ein cyssylltiad naturiol neu foesol, er sicrhau ein buddiannau presennol neu ddyfodol. Eto, pa mor isel, ansicr, ac anfanteisiol bynag ydyw, nid yw yn rhoddi un sail deg i neb achwyn arni. O blegid fel y gall dynion drefnu eu hachosion bydol mewn modd doeth, a threulio eu dyddiau ar y ddaear mewn gradd o esmwythyd, a chyda boddlonrwydd iddynt eu hunain, trwy arfer gofal cymmesur, felly, yr un modd, gyda golwg ar grefydd, ni ofynir dim yn chwaneg nag y maent yn alluog i'w wneyd, a'r hyn a esgeulusir ganddynt oddi ar wir ddiolfalwch. A bod dynion yn cael eu rhwymo i wneuthur yr hyn a allant wneuthur, a dim mwy na hyny, yr ydym yn ystyried fod hyny yn beth teg a chyfiawn, a chaniatáu ei fod yn cael ei osod arnynt gan awdurdod priodol. Ac nid oes genym fwy o reswm i gwyno o'i herwydd gyda golwg ar Awdwr natur, nag sydd genym am ei fod heb roddi i ni fanteision ereill a berthynant i ddosbeirth ereill o greaduriaid.¹

Ond yr hyn y rhoddir pwys arno yma ydyw, fod y sefyllfa prawf yr ydym ynndi yn cael ei gwneyd yn debygol gan y ffaith ei bod oll yn unffurf â threfn gyffredinol rhagluniaeth tuag atom, yn mhob ystyriaeth arall sydd yn adnabyddus i ni. Yn wir, pe

[¹ Y mae Dr. Chalmers yn barnu fod Butler yn arddangos ei ddiffygion mewn duwinyddiaeth yn y paragraph hwn: "Nid yw yn cymmeryd sylw priodol o hollol anallu dyn i gyflawnu yr hyn sydd wirioneddol dda." Dywedir ein bod mor gyfaddas at bethau crefydd ag ydym at bethau y byd. Ni wneir un awgrym o barth eiddilwch a gwendid ysbrydol ein natur gyda phethau ysbrydol. Yr un pryd, er fod Butler yn cadw y ddau wirionedd mawr— anallu moesol ein natur, a dylanwadau cynnorthwyol yr Ysbryd— o'n golwg yn y fan hon, nid yw yn ymddangos fod yma ddim sydd yn anghydweddol â'r gwirioneddau hyn. Y mae y cyfatebiad yn rhedeg fel hyn:—Os ewyllysia dyn gyrhaedd llwyddiant yn y byd hwn, y mae yn bosibl iddo ei gael, trwy fanwl ddilyn y cyfarwyddiadau y mae profiad a challineb yn eu rhoddi iddo; a'r un modd, os ewyllysia sicrhau dedwyddwch yn y byd a ddaw, efe a'i caiff, ar y telerau a esyd crefydd o'i flaen. "Yr hwn sydd yn ceisio sydd yn cael," ydyw rheol llwyddiant y ddau fyd. Y mae ammodau llwyddiant daiarol yn gorwedd oll o fewn terfynau galluoedd cyffredin dynion; a'r un modd, y mae telerau dedwyddwch y sefyllfa ddyfodol. Y mae yr hyn sydd yn peri ei bod yn haws i ddyn lwyddo mewn ystyr bydol nag mewn ystyr ysbrydol, yn cyfodi, nid oddi ar elfenau cynhenid ac angenrheidiol ei natur, ond oddi ar ei bechod; nid oddi ar anghyfaddasder galluoedd, ond oddi ar anewyllysgarwch tueddfryd. Eto, er fod y cyfatebiad hwn yn cydreded i fesur, nis gallwn lai na theimlo fod yr awdwr wedi ei gario yma yn rhy bell. "Buasai yn dda pe na chynnygiasai Butler gario y cyfatebiaeth yn mhellach nag y mae yn briodol. Tra y mae ei syniadau cyffredinol ar athroniaeth crefydd yn iachus, nid oedd hyn yn ei ddiogelu rhag golygiadau arwynebol ar rai o'r athrawiaethau neillduol, mwy nag y gwnai athroniaeth eang a chynnwysfawr Bacon ei amddiffyn yntau yn ngwyneb y syniadau amrwd y syrthiodd iddynt gyda manylion gwyddoniaeth naturiol."]

buasai dynolryw, wrth eu hystyried yn eu cyflwr tymmorol, fel preswylwyr y byd hwn yn unig, yn cael eu hunain o ddechreu hyd ddiwedd eu bywyd mewn sefyllfa sefydlog o ddiogelwch a hapusrwydd, heb angen unrhyw ofal nac ystyriaeth o'r eiddynt eu hunain; neu, pe na buasent mewn un perygl o gael eu dwyn i anghyfleusderau a thrueni trwy ddiogelwch neu nwydau, trwy esampl niweidiol, malais ac anffyddlondeb ereill, neu ymddangosiad twyllodrus pethau—pe hyn fuasai ein cyflwr naturiol, yna, buasai yn ymddangos yn ddyethrol, ac yn rhywbeth yn erbyn gwirionedd crefydd, ei bod yn gosod allan ein buddiannau dyfodol a mwy cyffredinol fel heb fod yn sicr a diogel, ond yn dibynu arnom ein hunain, ac yn gofyn gofal a hunan-lywodraethiad er eu sicrhau. O blegid gellid dadleu—“Y mae yr hyn a ddywedwch chwi ydyw ein sefyllfa mewn un cyssylltiad yn dra anhebyg i'r hyn a gawn trwy brofiad ydyw ein sefyllfa mewn cyssylltiad arall. Y mae ein holl lesiant presennol wedi ei ddiogelu i ni heb angen am un gofal o'r eiddom; a pha ham nad ydyw ein llesiant dyfodol, os oes genym y cyfryw, felly hefyd?” Ond, i'r gwrthwyneb, gan fod ystyriaeth a rhagfeddwl, ymwadiad gwirfoddol â llawer o bethau a ddymunem, a chwrs o ymddygiad heb fod bob amser yn foddhaol genym, yn gwbl angenrheidiol mewn trefn i ymddwyn gyda gweddeidd-dra a challineb cyffredin, ac i fyned trwy y byd gyda gradd o foddhâd, a chael ein derbyn a'n cymmeradwyo yn weddol ynddo—gan mai fel hyn y mae yr achos yn sefyll, y mae pob tybiaeth yn erbyn y meddwl fod hunan-ymwadiad ac astudrwydd gofalus yn angenrheidiol er sicrhau ein buddiannau uchaf yn cael ei symmud. Oni buasai fod genym brofiad i'r gwrthwyneb, galledid, efallai, gydag ymddangosiad o degwch, ddadleu fod yn anmhosibl meddwl fod peryglon wedi cael eu cyssylltu â'n sefyllfa gan Fod anfeidrol, pan y mae pob peth sydd yn beryglus, yn ol ein dull ni o feddwl, ac a ddiwedda mewn dyrswch a thrueni, yn sicr eisoes yn ei ragwybodaeth Ef. Ac yn wir, gellir yn briodol feddwl fod y pa ham y mae perygl yn gyssylltiedig â sefyllfa y cyfryw greaduriaid breuol a ni yn anhawsder i roddi cyfrif am dano mewn pwnc; ac nis gall lai na bod felly, hyd oni ddeuwn i adnabod y cwbl, neu o leiaf lawer mwy, am dano. Eto, y mae cyfansoddiad natur fel y mae. Y mae ein hapusrwydd a'n thrueni wedi eu hymddiried i'n hymddygiadau, ac wedi eu gosod i ddibynu arnynt. Mewn llawer o amgylchiadau, y mae wedi ei osod arnom i weithredu, neu i ddyoddef, fel y dewiswn. Ac y mae amrywiol ofidiau bywyd, y rhai a ddwg dynion arnynt eu hunain trwy esgeulusdra a ffolineb, y rhai y gallasent eu hosgoi

trwy ofal priodol, yn esamplau o hyn; y rhai ydynt yn mlaen llaw mor ddamweiniol ac anmhenderfynol ag ydyw eu hymddygiad, ac yn cael eu penderfynu gan eu hymddygiad.

Mae y sylwadau hyn yn atebiad i'r gwrthddadleuon yn erbyn sefyllfa prawf, fel yn cynnwys temtasiynau a pherygl o aflwyddo gyda golwg ar ein llesiant cyffredinol, fel deiliaid llywodraeth foesol Duw; a dangosant, os ydym i gael ein hystyried yn y berthynas hon, ac fel yn meddu y cyfryw lesiant i ymgyrhaedd ato, fod cyfatebiaeth cyffredinol rhagluniaeth yn rhwym o'n harwain i ystyried ein hunain mewn perygl o aflwyddo, mewn gwahanol raddau, gyda golwg ar y llesiant hwn, trwy esgeuluso gweithredu ein rhan yn y berthynas hono. O blegid y mae genym fuddianau presennol, dan lywodraeth Duw, o'r hon y mae genym brofiad ar y ddaiar. Ac y mae y buddiannau hyn, nid yn cael eu dirgymhell arnom, na chwaith yn cael eu cynnyg i ni, a ninnau heb fod genym ddim ond eu derbyn; ond gosodir hwy ger ein bron i ymgyrhaedd atynt a'u hennill, a hyny yn y fath fodd, fel yr ydym mewn perygl o fethu, a thrwy demtasiynau i'w hesgeuluso, neu i ymddwyn yn groes iddynt; a heb astudrwydd, gofal, a hunan-ymwadiad, yr ydym yn sicr o fethu. Y mae, gan hyny, yn berffaith debygol mai hyn yw ein sefyllfa gyda golwg ar y daioni penaf hwnw a osoda crefydd ger ein bronau.

PENNOD V.

AM SEFYLLFA PRAWF, FEL WEDI EI BWRIADU ER DYSGYBLAETH A GWELLIANT MOESOL.

ODDI wrth yr ystyriaeth ein bod mewn sefyllfa prawf, o gymmaint anhawsder a pherygl, y mae y cwestiwn canlynol yn cyfodi yn naturiol—Pa fodd y daethom iddi? Ond y mae ymholiad cyffredinol fel hyn yn cael ei amgylchynu gan anhawsderau anorfod; o blegid, er y lleihëid rhai o honynt trwy sylwi fod pob drygioni yn wirfoddol, yr hyn a gynnwysir yn y syniad am ddrygioni, a bod canlyniadau gwir ddaionus yn dilyn llawer o amgylchiadau anhyfryd, eto, pan ystyriwn amgylchiadau ereill perthynol i'r ffeithiau hyn, a pha beth a fydd canlyniad angenrheidiol y cyntaf mewn sefyllfa i ddyfod, nid yw yn amgen na ffolineb a rhyfyg ceisio rhoddi esboniad ar yr oll o resymau y pwnc—yr oll o'r rhesymau pa ham y gosodwyd ni mewn sefyllfa, o'r hon, gan

fod ei hamgylchiadau yn gyfryw, y cyfoda cymmaint o ddrygioni a thrueni. Ai nid yw tu hwnt i'n galluoedd, nid yn unig i chwilio allan, ond hyd yn oed i ddeall yr holl esboniad ar hyn; neu, pe byddem yn alluog i'w ddeall, eto, pa un ai llesâd ynte niwed i ni a fyddai hyny, sydd yn amhosibl i'w benderfynu.¹ Ond, fel na ellir dangos fod ein sefyllfa bresennol mewn un modd yn anghysson â llywodraeth foesol berffaith Duw, felly, y mae crefydd yn dangos ein bod wedi ein gosod ynddi mewn trefn i gymhwyso ein hunain, trwy ymarfer daioni a duwioldeb, i sefyllfa arall sydd i'w dilyn. Ac y mae yr ystyriaeth yma, er nad yw ond atebiad mewn rhan—a thra diffygiol—i'r ymholiad dan sylw, eto yn atebiad mwy boddhaol i ymholiad arall annhraethol mwy pwysig ac ymarferol, sef yr ymholiad—Pa beth yw ein neges, ac amcan ein gosodiad yn y sefyllfa hon? Yr amcan eglur, felly, er mwyn yr hwn yr ydym wedi ein cyfleu mewn sefyllfa o gymmaint blinder, perygl, ac anhawsder, ydyw ein dysgyblaeth, a'n cynnydd mewn rhinwedd a daioni—y cymhwysder gofynol i sefyllfa ddyfodol o ddiogelwch a hapusrwydd.

Yn awr, y mae adeg ieuentid, fel y mae yn barotoad gogyfer âg oedran addfed yn y byd hwn, yn ymddangos yn eglur, ar yr olwg gyntaf, yn gyfatebol i'r byd hwn fel prawf gogyfer â byd arall:—y cyntaf, mewn ystyr dymmorol, yr un fath ag yw y diweddaf mewn ystyr crefyddol. Ac wrth wneyd rhai sylwadau arnynt yn gyffredin, ac ar bob un yn neillduol, ni a gawn olwg mwy clir ar eangder a nerth y cyfatebiaeth sydd rhyngddynt, a'r tebygolrwydd a gyfyd oddi wrth hyny, yn gystal ag oddi wrth natur y peth ei hun, fod y bywyd presennol wedi ei fwriadu i fod yn sefyllfa o ddysgyblaeth erbyn y bywyd dyfodol.

I. Y mae pob rhywogaeth o greaduriaid, fel yr ydym yn gweled, wedi eu bwriadu i fyw a bod, mewn rhyw ddull neill-

[¹Y mae priodoldeb y sylwadau hyn yn ymddangos, medd un ysgrifenydd, wrth eu cymharu â'r damcaniaethau oedd yn adnabyddus yn nyddiau Butler. Yr oedd Boyle newydd adgyfodi yr hen wrthddadleuon yn erbyn pob math o grefydd: tybiai fod y ffaith fod drwg yn hanfodi yn myned yn mhell i wrthbrofi crefydd, ac i gadarnhau yr hen wrthddadleuon a ddygid yn ei herbyn. Yr oedd Leibnitz hefyd yn adffurfio un o hen athrawiaethau y Stoiciaid, gan ddysgu nad oes modd i'r byd, yn ei wedd bresennol, fod yn well; ac nad yw drygioni ei hunan yn ddim angen na ffurf ar ddaioni, neu ei fod o leiaf yn angenrheidiol iddo. Dysgai Dr. King, archesgob Dublin, gyda mwy o ofal na'r awdwyr crybwyllledig, y rhaid fod drygioni yn gysson â chynmeriad Duw, yn unig am ei fod yn hanfodi; a'i fod, efallai, yn effaith angenrheidiol rhydd-weithrediad yr ewyllys. Cytunai Butler o barth i'r dadleuon hyn â Dr. Samuel Clarke; a chrynhoa ei syniadau yn yr adran uchod. Y mae pechod yn wirfoddol, ac yn cael ei oruchreoli i ddaioni; eto, y mae ei hanfodiad yn ddirgelwch nas gallwn ni ei amgyffred. Nid yw y Beibl yn dwyn y cwestiwn yn mlaen, nac yn ceisi ei esbonio, ond yn ei adael i'w ddadlenu yn y sefyllfa ddyfodol.]

duol; i'r hwn y mae natur, galluoedd, a thymmer, a chymhwys-derau pob rhywogaeth mor angenrheidiol a'u hamgylchiadau allanol. Y mae y ddau beth yn cael eu cynnwys yn y syniad am y cyfryw sefyllfa, neu dull neillduol o fyw; ac y maent yn rhanau elfenol o honi, neu yn angenrheidiol i'w gwneyd i fyny. Cyfnewidier galluoedd a nodwedd dyn i'r fath raddau ag y gellir meddwl iddynt gael eu cyfnewid, a byddai yn gwbl analluog i fyw yn yr un dull, ac i fwynhau yr un pleser a dynion yn gyffredin; byddai mor analluog a phe gosodid ef mewn byd lle ni chai gylch o weithrediad, nac un gwrthddrych i ateb i'w flysiau, ei nwydau, a'i serchiadau—a'i natur yn parhau heb ei chyfnewid. Y mae y naill beth wedi ei osod ar gyfer y llall, fel y dywed un hen ysgrifenydd.¹ Y mae ein natur ni yn cytuno â'n sefyllfa allanol; ac heb y cytundeb neu y cydweddiad hwn, ni buasai y fath beth yn bod a bywyd a hapusrwydd dynol; y rhai—ein bywyd a'n hapusrwydd—ydynt felly yn *gynnyrch* neu effaith yn dyfod oddi wrth ein natur a'n sefyllfa yn un â'u gilydd; gan feddwl, wrth fywyd dynol, nid *byw* yn yr ystyr llythyrenol, ond yr holl syniad eang a ddeallir yn gyffredin wrth y geiriau. Dengys hyn—heb i ni benderfynu pa beth a fydd gwasanaeth, a dedwyddwch, a pha beth a fydd dull neillduol y da o fyw yn y byd a ddaw—y rhaid fod rhyw alluoedd penodol, rhyw gymhwysder ac ansawdd angenrheidiol, heb y rhai y byddai dynion yn gwbl analluog i fod yn y sefyllfa, ac i fwynhau y dedwyddwch; a hyny mewn modd cyffelyb i'r ansoddau y rhaid i ddynion eu meddu cyn y gallant fod yn gymhwys i'w hystâd bresennol o hanfodiad. Yn awr,

II. Y mae cyfansoddiad dynion—ac yn wir yr holl greaduriaid ag y mae a wnelom â hwynt—yn gyfryw, fel y gellir eu cyfaddasu i sefyllfaoedd ag yr oeddynt yn gwbl anghymhwys iddynt unwaith. Gallwn ddychymygu am greaduriaid a fyddent yn analluog i dderbyn unrhyw eangiad ar eu galluoedd, neu yn anghyfaddas, yn naturiol, i gyrhaedd unrhyw ansawdd neu gymhwysder newydd; ond y mae galluoedd pob rhywogaeth sydd yn hysbys i ni wedi eu gwneyd yn y fath fodd ag y gellir eu heangu, a thrwy brofiad ac arferion eu cyfaddasu i ryw amcan neillduol. Yr ydym yn cael ein hunain yn arbenig wedi ein cynnysgaethu â galluoedd, nid yn unig i ddeall, a gwybod, a chael allan wirionedd, ond hefyd i gadw ein drychfeddyliau a'n gwybodaeth trwy gof. Yr ydym yn alluog, nid yn unig i weithredu, ac i deimlo gwahanol argraffiadau diflanedig, ond hefyd i ennill

¹ Eccles. xlii, 24, 25.

rhwyddineb newydd mewn unrhyw fath o weithred, a gwelliadau a chyfnewidiadau sefydlog yn ein tymmer a'n cymmeriad. Cyrhaeddir y ddau beth diweddf trwy nerth arferion :—gallu arferion ydyw eu gallu. Ond nid arferion ydyw dirnadaeth o ddrychfeddyliau, na gwybodaeth o unrhyw fath, er bod y diweddf yn gwbl angenrheidiol i'w ffurfio. Fodd bynag, y mae amgyffrediad, rheswm, cof—y galluoedd i ennill gwybodaeth—yn cael eu gwellhau yn fawr trwy arferiad. Pa un a yw y gair *arferiad* i'w gymhwyso at yr holl welliadau hyn, ac yn neillduol, pa mor bell y mae galluoedd y cof a'r arferion yn alluoedd o'r un natur—ydynt gwestiynau na sylwaf arnynt. Ond y mae fod dirnadaethau yn dyfod i'r meddwl yn rhwydd a naturiol, a hyny am y buont yno o'r blaen, yn ymddangos yn beth o'r un natur ag ydyw rhwyddineb a pharodrwydd mewn rhyw fath o waith, yn cyfodi oddi ar gynnefndra âg ef. Ac y mae deheurwydd mewn galw i gof ryw sylwadau ymarferol a fyddent o wasanaeth i'r dyn, yn cyfodi, mewn llawer o esamplau, oddi ar arferiad. Y mae arferion o ddirnadaeth, ac arferion o weithrediad. Mae ein gwaith gwastadol yn cywiro, heb ddim trafferth, argraffiadau y golwg am faintioli a phellder, fel ag i roddi y farn i benderfynu yn lle y synwrau, a hyny yn ddjarwybod i ni ein hunain, yn anghraifft o'r cyntaf. Ac ymddengys y gellid galw pob cymdeithasiad arall o feddyldrychau, heb fod yn naturiol gyssylltiedig, yn arferion goddefol, mor briodol a'r parodrwydd sydd ynom i ddeall ieithoedd trwy weled neu glywed geiriau. Ac y mae rhwyddineb mewn siarad neu ysgrifenu iaith, yn anghraifft o'r diweddf—sef arferion gweithredol. Gallwn, er mwyn eglurder, ystyried arferion fel yn perthyn i'r corff ac i'r meddwl; ac esbonir y rhai diweddf trwy y cyntaf. Yn y cyntaf y cynnwysir pob gweithgarwch corfforol, pob ystum gweddus neu anhardd, y rhai ydynt i'w priodoli i arfer, fel eu hachos; yn y diweddf, cymmerir i fewn arferion cyffredin bywyd ac ymddygiad, megys ufudd-dod ac ymostyngiad i awdurdod—arferion geirwir, uniawn, haelionus; ac astudrwydd, diwydrwydd, hunan-lywodraethiad, cenfigen, ymddial. Ac y mae arferion o'r math diweddf yn cael eu cenedlu trwy actau aml, yn gystal a'r cyntaf. Ac fel y mae arferion perthynol i'r corff yn cael eu cynnyrchu gan actau allanol, felly y mae arferion y meddwl trwy weithrediad egwyddorion tu mewnol; sef, trwy eu cario allan i weithrediad, neu trwy weithredu arnynt. Nis gall, chwaith, yr arferion hyny gael eu ffurfio trwy un cwrs allanol o weithrediad, ond mor bell ag y tardda y cwrs allanol o'r egwyddorion hyn; o blegid nid yw actau o ufudd-dod geirwiredd, uniondeb, a haelioni, yn ddim amgen na gweith-

rediad yr egwyddorion tu mewnol hyn. Yr un modd hefyd y mae arferion o astudrwydd, diwydrwydd, a hunanlywodraethiad, yn cael eu ffurfio trwy ymarferiad; a'r arferion o ymddial a llid, trwy eu hanwesu, naill ai mewn act allanol, neu mewn meddwl a bwriad, *h. y.*, act dufewnol; o blegid y mae y cyfryw fwriad yn weithred, yn act. Y mae penderfyniadau i ymddwyn yn rhinweddol hefyd yn actau, mewn ystyr priodol; ac y mae ymdrech ymddwyn y meddwl dan lywodraeth rhinwedd, neu gynnyrchu mewn ereill deimlad priodol at ddaioni, yn act rinweddol. Tuedda yr holl bethau hyn, felly, at ffurfio arferion daionus. Ond y mae myfyrio ar rinwedd fel pwnc, siarad yn dda arno, tynu darluniau prydferth o hono, mor bell oddi wrth arwain y dyn yn anffaeledig a sicr i arferion rhinweddol, fel y gall yn hytrach galedu y galon mewn llwybr ac arferion gwahanol, a gwneyd y meddwl yn raddol yn fwy annheimpladol—ffurfio ynddo arferiad o ddideimpladrwydd o barth i bob ystyriaeth foesol. O blegid y mae ein cyfansoddiad yn gyfryw fel y mae argraffiadau goddefol, trwy gael eu mynychu, o angenrheidrwydd, yn gwanhau. Y mae syniadau, trwy redeg yn fynych trwy y meddwl, yn cael eu teimlo yn llai; y mae cynnefino â pheryglon yn gwneyd dyn yn fwy rhyfygus, ac yn lleihau ei ofn; y mae cynnefino â thrallod, yn lleihau y teimlad o dosturi; ac â marwolaethau, yn gwneyd teimladau ofnus un o barth i'w farwolaeth ei hun yn llai dwys. Ac oddi wrth y ddau sylw yma gyda'u gilydd—fod arferion gweithredol yn cael eu ffurfio a'u cryfhau gan actau aml, ac arferion neu argraffiadau goddefol yn gwanhau trwy gael eu mynychu arnom, y mae yn canlyn, o angenrheidrwydd, y gall arferion gweithredol ymffurfio a chryfhau yn raddol, trwy weithredu ar ryw gymhellion a chynhyrifiadau neillduol, tra y mae y cymhellion a'r cynhyrifiadau eu hunain, yn ol graddau cyfartal, yn cael eu teimlo yn llai, ac yn colli eu nerth, fel y mae yr arferion gweithredol yn cryfhau. Ac y mae profiad yn cadarnhau hyn; o blegid y mae egwyddorion gweithredol, pan y maent yn llai bywiog yn y teimlad nag y buont, eto wedi eu cymhlethu yn fwy â'r dymmer a'r cymmeriad, ac yn cynnyddu mewn dylanwad ar ein hymddygiadau. Ceir anghreiffitiau o hyn yn y tri pheth a grybwyllwyd yn awr. Y mae y teimlad o berygl yn gynnyrch naturiol ofn goddefol a gofal gweithredol; ac wrth gynnefino â pherygl, y mae arferion o ofal yn cael eu ffurfio yn raddol, a hyny ar yr un pryd ag y mae y cyntaf yn raddol yn lleihau. Y mae gweled ereill mewn cyfyngder, yn cynnyrchu yn naturiol y teimlad goddefol o dosturi, a'r penderfyniad gweithredol i estyn cynnorthwy a gweinyddu ymwarded;

ond trwy dalu sylw i ddynion mewn cyfyngder, chwilio eu cwynion allan, a gweini ymwarded iddynt, nis gall y cymmwynaswr lai na dyfod yn raddol i *deimlo* llai oddi wrth yr esamplau o gyfyngder a thrueni â'r rhai y mae yn ymgydnabyddu; tra, ar yr un pryd, y mae haelfrydedd a charedigrwydd, nid fel nwyd neu deimlad, ond fel egwyddor ymarferol weithgar, yn cryfhau; a thra yn tosturio yn oddefol wrth yr adfydus yn llai, y mae yn myned yn fwy tueddol a pharod i weinyddu yn weithredol gyn-northwy iddo. Felly hefyd, pan y mae y marwolaethau beunyddiol o'n hamgylch yn peri argraffiadau goddefol llai dwysion ar ein meddwl o barth i'n marwolaeth ein hunain, y maent, er hyny, yn cryfhau ac yn dwyshau gofal dynion difrifol yn eu sylw ymarferol ar yr amgylchiad; yn ffurfio arferiad ynddynt o wneyd pob peth gyda golwg arno. Dengys hyn yn mhellach, er fod argraffiadau goddefol yn dwyn perthynas bell â ffurfiad arferion gweithredol, eto, nas gallant effeithio yn y modd yma ond yn unig trwy ein dwyn i weithredu; ac mai nid teimlo fel a'r fel, ond gweithredu, sydd yn ffurfio yr arferion hyny. Ar yr un pryd, dylid cadw mewn cof yn barhäus fod gwir ymdrech i wneyd a dwyshau argraffiadau daionus arnom ein hunain yn fath o act neu ymarferiad rhinweddol. Ac nis gwyddom pa mor bell y mae yn bosibl, yn ol natur pethau, i arferion gael eu ffurfio ynom ar unwaith. Ond nid y mater dan sylw ydyw, pa beth a *all* fod, ond pa beth *ydyw* ordeiniad natur mewn gwirionedd; yr hon, fel y mae yn amlwg, ydyw fod arferion gweithredol yn cael eu ffurfio trwy ymarferiad, ac nid ar unwaith. Gall fod eu cynnydd mor raddol fel ag i fod yn anmhosibl i'w ganfod; dichon ei bod yn anhawdd esbonio y gallu sydd yn ein gwneyd yn gyfaddas i ddysgu arferion—ei esbonio trwy ei wahanol ranau, a'i olrhain i'w elfenau, fel ag i allu ei wahaniaethu oddi wrth holl alluoedd ereill y meddwl; ac ymddengys fel pe byddai effeithiau gwahanol i'w priodoli iddo. Ond y mae yn eglur ei bod yn egwyddor gyffredin fod ein natur wedi ei ffurfio i ildio i ymarferiad, fel y dangoswyd, ac y mae yn fater a gadarnheir gan brofiad.

Fel hyn, trwy ymgydnabyddu âg unrhyw gwrs o weithrediad, yr ydym yn ennill parodrwydd a thueddiad at y cwrs hwnw, ac yn fynych yn teimlo pleser ynddo. Mae y tueddiadau gwrthwyneb iddo yn gwanhau, yr anhawsderau ynddo, y rhai gwirioneddol yn gystal a'r rhai tybiedig, yn lleihau; y mae y cymhelliadau iddo yn ymgynnyg yn naturiol i'n meddwl ar bob achlysur; ac y mae cipolwg arnynt yn ddigon er ein gyru yn mlaen mewn cwrs o weithrediad ag yr ydym wedi ymarfer âg ef. Ymddengys hefyd fod egwyddorion gweithredol yn cryfhau ynddynt eu hun-

ain trwy ymarferiad, yn gystal ag yn berthynasol gyda golwg ar egwyddorion gwrthwyneb, y rhai, trwy i ddyn eu cadw dan feistr-olaeth, ydynt yn aros felly yn naturiol. Fel hyn, gellir ffurfio cymmeriad newydd mewn llawer o bethau, ac amryw agweddau ar fywyd, y rhai ni roddir gan natur, ond y rhai y mae natur yn ein haddysgu i'w cyrhaedd.

III. Gallwn fod yn sicr na buasem wedi ein cynnysgaethu a galluoedd i wellhau ein hunain, trwy arferiad, i gyrhaedd gwybodaeth a ffurfio arferion, pe na buasent yn angenrheidiol, ac wedi eu bwriadu i wneuthur defnydd o honynt. Ac, felly, yr ydym yn eu gweled mor angenrheidiol wrth eu hystyried yn unig yn eu cyssylltiad â'r byd hwn.

Nid yw natur, mewn un modd, yn ein llawn gymhwyso, a llawer llai ar unwaith, tuag at ddyledswyddau a mwynderau llawn oed. Yn raddol y cyrhaeddir addfedrwydd mewn deall, a nerth corfforol; ac nid hyn yn unig, ond y maent mewn mesur mawr i'w priodoli i ymarferiad parhäus galluoedd ein corff a'n meddwl o'n babandod. Pe dychymygem am ddyn wedi dyfod i'r byd yn addfedrwydd y galluoedd hyn, y mae yn eglur y byddai mor anghymhwys i fwynhau bywyd dyn mewn llawn oed ag a fyddai hurtyn. Ymddyryasai mewn syndod, petrusder, ofn, a chywilydd; a byddai am amser maith cyn yr ymgydnabyddai ddigon âg ef ei hun, ac â'r gwrthdrysau o'i amgylch, i allu sefydlu ei feddwl ar ddim. Mae hefyd yn ammheus a fyddai y syniadau a dderbyn-iai, trwy weled a chlywed, o unrhyw gymhorth iddo i weithredu, cyn iddo feddu profiad. Ac ymddengys y byddai dynion yn hynod ystyfnig, ac anhawdd eu trin, ac yr ymddygent gyda'r fath danbeidrwydd ag a wna'i fywyd cymdeithasol yn anmhosibl i'w oddef, oni bai am y cymmesuredd a'r hunan-lywodraethiad—y parodrwydd sydd mewn dynion i ffrwyno eu hunain, a chelu eu meddyliau am bethau. Byddai amddifadrwydd o'r pethau hyn a ddysgir gan brofiad yn sicr o anghymhwyso dyn i fod yn ddeiliad cymdeithas, yn gymmaint ag a fyddai bod heb iaith. Yn y golygiadau hyn, a llawer mwy nag y gwyddom am danynt, y mae dynolryw yn cael eu gadael yn greaduriaid anorphen, trwm diffygiol, ac heb eu cyfaddasu i'r gorchwylion a'r ystâd hono mewn bywyd yn y byd hwn ag y bwriadwyd hwynt iddi, cyn y cyrhaeddant wybodaeth a phrofiad, ac y ffurfiant arferion iddynt eu hunain.

Fel y mae natur, felly, wedi ein cynnysgaethu â gallu i gyflenwi y diffygion hyn, trwy feddiant o wybodaeth, profiad, ac arferion; felly, yr un modd, yr ydym yn cael ein gosod mewn sefyllfa, yn adegau babandod, maboed, ac ieuentid, sydd yn

fanteisiol i gyrhaedd y cymhwysderau ag y bydd arnom eu heisieu mewn llawn oedran. Fel hyn y mae plant yn ymgynabyddu o'u mabandod yn feunyddiol â'r gwrthddrychau o'u hamgylch, ac â'r sefyllfaoedd y maent ynddynt. Y mae eu hisraddoliaeth yn y teulu yn addysgu hunan-lywodraethiad iddynt yn eu hymddygiadau oddi cartref, ac yn eu gwneyd yn ddeiliaid ufudd ac ymostyngol i'r llywodraeth wladol. Y mae yr hyn sydd yn dygwydd yn feunyddiol iddynt, ac o flaen eu llygaid, yn chwanegu eu profiad a'u gwyliadwriaeth yn erbyn brad a dichell, ac yn rhoddi iddynt luaws aneirif o reolau bychain i weithredu wrthynt, y rhai nis gellir eu hebgor, a'r rhai a ddysgir mor ddi-drafferth, ac eto mor berffaith, fel y maent, mae yn bosibl, yn cael eu camgymmeryd am reddfau, er mai effeithiau hir brofiad ac ymarferiad ydynt—yn gymmaint felly a iaith, neu wybodaeth o unrhyw swydd neu gelfyddyd. Fel hyn, y mae dechreu ein hoes wedi ei gyfaddasu i fod yn dymmor o addysg i ni yn y pethau angenrheidiol i'w gwybod a'u hymarfer mewn oedran addfetach; a chynnorthwyir ni yn y tymmor hwn gan esamplau, addysg, a gofal ereill: ond ar yr un pryd, y mae rhan fawr wedi ei adael i ni ein hunain i'w wneuthur. Eir trwy ran o'r ddysgyblaeth hon yn rhwydd a naturiol; ond y mae rhan arall o honi yn gofyn ymdrech a gofal, megys ymwadu â llawer o bethau dymunol, ac ymroddi i bethau na byddai genym un duedd atynt, oni bai eu bod yn fanteisiol ac angenrheidiol. O blegid byddai llawer o ddynion yn dra annigonol i'r llafur a'r diwydrwydd ag y mae eu sefyllfa a'u swydd yn ei ofyn oddi wrthynt, oni buasai eu bod wedi ymarfer a llafurio yn eu hieuentid. Ac fel y mae dynion yn ymddwyn yn y ddysgyblaeth gyffredin y mae pawb yn myned trwyddi, ac yn yr addysg neillduol sydd yn ofynol i alwedigaethau neillduol, felly y mae eu cymmeriad yn ymddangos, ac yn cael ei ffurfio; y maent yn canmawl eu hunain i raddau mwy neu lai; yn ennill gwahanol sefyllfaoedd mewn cymdeithas, ac yn meddu cymhwysder iddynt.

Y mae y rhan gyntaf o fywyd, felly, i'w ystyried yn gyfleusdra pwysig a roddir gan natur yn ein dwylaw; a'r hwn, wrth ei golli, a gollir yn anadferadwy. Ac y mae ein sefyllfa o ddysgyblaeth dros ystod ein bywyd ar y ddaiar erbyn byd arall yn drefniad o eiddo rhagluniaeth, yn gwbl o'r un natur ag ydyw ein dysgyblaeth mewn mebyd ac ieuentid erbyn llawn oedran. Y mae ein sefyllfaoedd yn y naill a'r llall yn dra thebyg i'w gilydd, ac yn perthyn i'r un ddeddf gyffredinol mewn natur.

A phe na byddem yn alluog i ddeall pa fodd y gallai ein bywyd presennol fod yn barotoad erb'n y bywyd nesaf, ni byddai

hyn yn un wrthddadl yn erbyn gwirionedd y ffaith. O blegid nid ydym yn deall pa fodd y mae cwsg ac ymborth yn gwasanaethu i gynnydd y corff, ac ni buasem byth yn meddwl y buasent yn gwneyd hyny, cyn i ni gael prawf. Ac nid yw plant byth yn meddwl, ar un llaw, fod y chwareuon yr ymbleserant gymmaint ynddynt mor wasanaethgar i'w hiechyd a'u tyfiant, nac, ar y llaw arall, am yr angenrheidrwydd o'u cadw o fewn terfynau yn eu chwareuon; ac nid ydynt, chwaith, yn alluog i weled buddioldeb llawer rhan o ddysgyblaeth, y rhai, er hyny, y dygir hwy trwyddynt, mewn trefn i'w cymhwysu i orchwylion oedran addfetach. Pe byddem, felly, yn analluog i gael allan yn mha bethau y gall y bywyd presennol ein cymhwysu i'r dyfodol, eto nid oes dim yn ymddangos yn fwy naturiol a rhesymol, oddi wrth gyfatebiaeth cyffredin natur, na'i fod yn gwneyd hyny mewn amryw olygiadau. A gellir, am ddim a welaf yn wahanol, fyntumio hyn gyda'r priodoldeb mwyaf, hyd yn oed pe peidiem a chymmeryd llywodraeth foesol Duw ar y byd dan ein hystyriaeth. Ond,

IV. Wrth gymmeryd ei lywodraeth foesol dan ystyriaeth, ac, o ganlyniad, fod rhinwedd a duwioldeb yn ansoddau angenrheidiol i'r sefyllfa ddyfodol, gallwn weled yn eglur yn mha bethau y mae y bywyd presennol yn barotoad iddi; o blegid yr ydym *mewn angen am welliant, ac yn gymhwys i welliant, mewn rhinwedd a duwioldeb, trwy ymarferiadau moesol a chrefyddol; ac y mae y bywyd presennol yn gyfaddas i fod yn sefyllfa o ddysgyblaeth er cyrhaedd y gwelliant hwnw*; yn yr un dull ag y mae babandod, mebyd, ac ieuenctid, yn barotoad angenrheidiol, ac yn sefyllfa naturiol o ddysgyblaeth erbyn llawn oedran.

Nid oes dim a'n tueddai i feddwl fod y sefyllfa ddyfodol yn sefyllfa o unigedd ac anweithgarwch; ond os cymmerwn gyfatebiaeth natur yn rheol i farnu, rhaid i ni dybied, yn ol y dysgrifiad ysgrythyrol o honi, y bydd yn gymdeithas. Ac nid oes dim yn afresymol yn y meddwl—er nad oes un gyfatebiaeth yn ei gadarnhau—y bydd y gymdeithas hon, fel y mae yr Ysgrythyrau yn ei gosod allan, yn wrthddrych llywodraeth mwy digyfrwng o eiddo Duw. Ac nid yw ein hanwybodaeth am orchwylion y gymdeithas ddedwydd hon—ac, o herwydd hyny, am yr achlysuron a fydd ynddi i weithrediad y rhinweddau o eirwiredd, uniondeb, a haelioni yn mysg ei haelodau tuag at eu gilydd—yn un prawf na bydd ynddi le ar achlysuron i'r rhinweddau hyny ddangos eu hunain; a llawer llai, pe y byddai yn bosibl, y mae ein hanwybodaeth yn un prawf na bydd ynddi un achlysur yn galw am yr ansawdd meddwl, neu y cymmeriad, sydd yn cael ei

ffurfio gan yr ymarferiad beunyddiol o'r rhinweddau hyny yn y sefyllfa bresennol ag sydd yn gynnyrch neu effaith yr ymarferiad hwnw. Rhaid addef hyn, o leiaf, y rhaid—gan fod y llywodraeth sydd ar y byd yn llywodraeth foesol—fod rhinwedd a duwioldeb, mewn rhyw fodd, yn ammod ein dedwyddwch, neu yn barotoad a chymhwysder iddo.

Yn awr, y mae yn hawdd gweled, oddi wrth y sylwadau blaenorol am y gallu naturiol sydd genym i ffurfio arferion, ein bod yn *alluog* i gyrhaedd gwelliant moesol trwy ddysgyblaeth. A pha mor fawr ydyw ein *hangen* am dano, ni raid ei brofi i neb sydd yn adnabyddus o ddrygioni mawr dynolryw, neu hyd yn oed o'r anmherffeithiau ag y mae y dynion goreu yn ymwybodol o honynt. Ond efallai nad yw pob un yn talu digon o sylw i'r ystyriaeth fod yr angenrheidrwydd i ddynion am ddysgyblaeth, er eu gwellhau mewn rhinwedd a duwioldeb, i'w olrhain yn mhellach nag at afreoleidd-dra y nwydau trwy eu hanwesu, a thrwy arferion drygionus. Y mae dynolryw, a phob creadur meidrol, efallai, yn flaenorol i ymarferiad â rhinwedd, mewn ystâd o ddiffyg, ac mewn perygl o wyro oddi wrth yr hyn sydd dda: y maent felly oddi ar gyfansoddiad eu natur; ac am hyny, y maent yn sefyll mewn angen am arferion rhinweddol er mwyn eu sicrhau rhag y perygl hwn. O blegid, heblaw yr egwyddor gyffredin o ddealltwriaeth moesol, y mae genym oddi mewn amrywiol deimladau tuag at wrthddrychau neillduol oddi allan. Y mae y teimladau hyn yn naturiol ac yn gyfreithlawn yn ddarostyngedig i lywodraeth yr egwyddor foesol, o barth i'r achlysuron ar y rhai y gellir eu boddhau, ac o barth i'r amserau, y graddau, a'r modd y maent i ymgyrhaedd am eu gwrthddrychau; ond nis gall yr egwyddor o rinwedd eu cynhyrfu, na lluddias iddynt gael eu cynhyrfu. I'r gwrthwyneb, y maent yn cael eu teimlo yn naturiol pan y mae eu gwrthddrychau ger bron y meddwl, nid yn unig cyn i'r dyn ystyried a ellir eu cyrhaedd mewn ffordd gyfreithlawn, ond ar ol iddo ddeall nas gellir. O blegid y mae gwrthddrychau naturiol y serchiadau yn parhau felly; y mae angenrheidiau, cysuron, a phleserau bywyd yn parhau yn ddymunol, er nas gellir eu cyrhaedd mewn ffordd ddiniwed a chyfreithlawn; i.e., er nas gellir eu cael mewn un ffordd. A phan nas gellir ennill gwrthddrychau unrhyw nwyd neu serch heb arfer moddion anghyfreithlawn, ond y gellir eu cyrhaedd trwyddynt, y mae yn ddiammheu fod y nwyd hono, er fod ei chynhyrriad a'i pharhâd yn y meddwl am gymmaint o amser yn ddiniwed, am ei bod yn naturiol ac angenrheidiol—eto, meddaf, y mae yn ddiammheu fod ynddi duedd i beri i

ddynion anturio ar y cyfryw foddion anghyfreithlawn; ac felly, rhaid ystyried ei bod yn eu gosod mewn gradd o berygl i'w defnyddio. Yn awr, pa beth ydyw y diogelydd neu y sicrhâd cyffredinol rhag y perygl hwn—rhag gwyro yn weithredol oddi wrth uniondeb? Fel y mae y perygl yn dyfod oddi fewn, oddi yno hefyd y rhaid i'r sicrhâd ddyfod; sef oddi wrth egwyddor ymarferol rhinwedd, neu rinwedd fel egwyddor weithgar.¹ Ac y mae cryfhau yr egwyddor hon fel egwyddor weithgar yn lleihau y perygl, neu yn nerthu y sicrhâd rhagddo. Ac y mae yr egwyddor foesol hon yn gyfryw ag y gellir ei gwellhau trwy ddysgyblaeth ac ymarferiad priodol, trwy alw i gof yr argraffiadau ymarferol a wnaed arnom gan esampl a phrofiad; ac, yn lle dilyn rhyw fympwyon a thueddiadau, trwy sylwi yn ddyfal ar uniondeb yr achos dan ein hystyriaeth, pa un bynag ai mwy ai llai pwysig a fyddo, ac arfer ein hunain i weithredu bob amser ar hyn—sef ar uniondeb y peth—fel, ynddo ei hunan, y cymhelliad naturiol a theg i weithredu yn ei ol, ac am y bydd gweithredu oddi ar y cymhelliad hwn, o angenrheidrwydd, y daioni mwyaf i ni ein hunain fel deiliaid y llywodraeth ddwyfol. *Fel hyn, bydd yr egwyddor o rinwedd, wedi ei gweithio allan i arferiad, o'r hyn yr ydym yn naturiol yn alluog, yn sicrhâd yn erbyn y perygl y mae creaduriaid terfynol yn agored iddo oddi wrth natur nwyd, neu dueddiad neillduol; a bydd y sicrhâd hwn yn gryf, i raddau mwy neu lai, yn gyfatebol i nerth yr egwyddor rinweddol.* Y mae y dull yma o benderfynu y pwnc yn tybied yr erys rhyw serchiadau neillduol yn y sefyllfa ddyfodol, yr hyn sydd yn anhawdd ei ammheu. Ac os byddant yn y sefyllfa hono, yr ydym yn gweled yn eglur y bydd arferion o hunan-lywodraethiad a

¹ Gallesid tybied y buasai teimlad o hunan-les yn attal creaduriaid mor effeithiol rhag gwneuthur drwg. Ond os wrth *deimlad o hunan-les (sense of interest)* y meddylir, darbwyllyad damcanol, neu wybodaeth o'r ffaith fod rhyw foddhâd neillduol yn sicr o beri iddynt fwy o anghyfleusderau a gofid ar y cyfan nag o foddlonrwydd, y mae yn groes i brofiad presennol i ni ddyweyd fod y teimlad hwn o hunan-les yn ddigonol i'w hattal rhag boddhaus eu hunain. Ac os wrth *deimlad o hunan-les* y meddylir, ein bod yn talu sylw ymarferol [sylw ymarferol i'w wahaniaethu oddi wrth ddarbwyllyad neu grediniaeth ddamcanol=*speculative conviction or belief*] i'r hyn a duedda ar y cyfan i gynnyrchu hapusrwydd, y mae hyn, nid yn unig yn gydredol âg egwyddor rhinwedd, neu uniondeb moesol, ond yn rhan o'r drychfeddwl ei hun. Ac y mae yn amlwg fod eisieu gwellhau a chynnyddu yr hunan-gariad rhesymol hwn mor wirioneddol ag un egwyddor yn ein natur. O blegid yr ydym yn ei gweled bob dydd yn cael ei gorchfygu, nid yn unig gan y nwydau mwyaf trystfawr, ond gan chwilgarwch, cywilydd, hoffder at efelychiad—gan rywbeth, hyd yn oed diogi; yn enwedig, os bydd y manteision at y rhai yr amcana hunan-gariad yn gorwedd yn y pell-der. Y mae dynion afradlawn yn camsynied yn fawr pan haerant eu bod yn cael eu llywodraethu yn hollol gan hunan-gariad a hunan-les. Ac ychydig iawn o achos sydd gan ysgrifenwyr ar foesau i ymwrthod â'r egwyddor hon.

rhinwedd yn angenrheidiol er eu rheoleiddiad. Ond, a gadael y dybiaeth neillduol yna, a llefaru yn fwy cyffredinol, y mae y pwnc yn dyfod mewn gwirionedd i'r un peth. O blegid y mae arferion rhinweddol, wedi eu ffurfio trwy ddysgyblaeth, yn welliant neu gynnydd mewn rhinwedd; a rhaid fod cynnydd mewn rhinwedd yn gynnydd mewn hapusrwydd, os ydyw llywodraeth Duw ar y byd yn llywodraeth foesol.

Oddi wrth y pethau hyn, gallwn sylwi (yr hyn a ddengys yn mhellach ein hangen naturiol a gwreiddiol am gael ein gwellhau trwy ddysgyblaeth) pa fodd y mae creaduriaid a wnaed yn uniawn yn syrthio, a pha fodd y mae y rhai sydd yn cadw eu huniondeb yn ymgyfodi trwy hynny i ystâd fwy diogel a sicr o rinwedd. Nid yw dywedyd fod y ffaith gyntaf yn cael rhoddi cyfrif am dani gan natur rhyddid y creadur, yn cynnwys dim yn chwanea na bod y posibilrwydd noeth i unrhyw ddygwyddiad gymmeryd lle yn esboniad ar y ffaith ei fod wedi cymmeryd lle yn weithredol. Ond gellir rhoddi cyfrif mwy boddlonol o'r ffaith, wrth ystyried natur nwydau neu dueddiadau neillduol. O blegid tybier am greaduriaid wedi eu bwriadu i'r cyfryw ystâd neillduol o fywyd, i'r hon y byddai y cyfryw nwydau a thueddiadau yn angenrheidiol; tybier eu bod wedi eu cynnysgaethu â'r cyfryw dueddiadau, yn nghyd âg egwyddor foesol, yn cynnwys ynddi deimlad ymarferol o barth rhinwedd, yn gystal a gwybodaeth am dano fel pwnc, a bod yr holl egwyddorion hyn, y rhai naturiol a moesol, yn y cyfartaledd perffeithiaf yn y meddwl—y cyfartaledd perffeithiaf er cyfateb i'r sefyllfa y bwriadwyd hwynt iddi; byddai y cyfryw greaduriaid wedi eu gwneyd yn uniawn, ac mor berffaith ag y gall y meidrol fod. Yn awr, rhaid fod y nwydau, ar gyfrif eu natur eu hunain, yn cael effeithio arnynt pan y mae eu gwrthdychau yn bresennol, er nas gallant gael eu boddhau o gwbl, neu trwy ganiatâd yr egwyddor foesol. Ond os gellir eu boddhau heb ei chaniatâd, neu trwy ei gwrthsefyll, yna rhaid ystyried fod ynddynt ryw duedd (o'r fath wanaf, efallai, ond er hynny rhyw duedd) i ddenu dynion i'r cyfryw foddhad gwaharddedig. Gall fod y duedd hon, mewn rhyw nwyd benodol, yn cael ei chryfhau gan amledd yr achlysuron sydd yn naturiol yn ei chynhyrfu, ragor yr achlysuron sydd yn cynhyrfu nwydau ereill. Y mae yr ymfoddhad lleiaf, hyd yn oed mewn meddwl, yn meithrin y tueddiad afreolaidd hwn; a gall ei feithrin mor bell, fel, pan ddaw rhyw gyfleusderau priodol, y mae yn esgor ar weithred; ac y mae y perygl o wyro oddi wrth uniondeb yn dybenu mewn gwyrriad gweithredol oddi wrtho, a'r perygl wnw yn cyfodi yn angenrheidiol oddi wrth natur nwyd ei hunan,

yr hwn, felly, nis galleid ei ragflaenu a'i luddias, er y galleid dianc rhagddo, a myned trwyddo heb dderbyn niwed. Y mae y peth yn lled debyg i lwybr cul wedi ei dori allan i ddyn, ar ba un y cedwid ef yn ddiysgog trwy ryw gymmaint o ofal; ond os na chymmerai y gofal angenrheidiol, gallai llawer o wrth-ddrychau ddwyn ei sylw arnynt, a'i arwain o hono. Yn awr, y mae yn anmhosiibl dyweyd i ba annhrefn y dygai hyd yn oed y troseddiad cyhoeddus cyntaf o ddeddfau uniondeb y cyfansoddiad moesol—pa faint a anmharai ar y trefniant, ac a newidiai ar y cyfartaledd, yn yr hyn y mae ei uniondeb yn gynnwysedig. Ond diammheu y gwnai mynychu hyny ffurfio arferion; ac felly dinystrid y cyfansoddiad, a deuai creaduriaid a wnaed yn uniawn yn llygredig yn eu cymmeriad sefydlog, yn gyfatebol i'w gwaith yn mynychu y cyflawniad o weithredoedd anfoesol. Ond i'r gwrthwyneb, gallasent wellhau a dyrchafu eu hunain i sefyllfa uwch a sicrach mewn rhinwedd, trwy ymddygiad gwahanol; sef, trwy ddyfal ddilyn yr egwyddor foesol—un rhan o'u natur—a thrwy hyny wrthsefyll y perygl a gyfodai oddi ar y nwydau—rhan arall o'u natur. O herwydd trwy gadw eu huniondeb fel hyn am beth amser, lleihâi eu perygl; o blegid trwy arfer cadw y nwydau mewn darostyngiad, y mae eu cadw felly yn dyfod yn barhäus yn fwy hawdd a naturiol; a thra y byddai y perygl yn lleihau, byddai y sicrhâd yn ei erbyn yn cynnyddu, yn gymmaint ag yr ennillai yr egwyddor foesol chwanegiad nerth trwy ymarferiad; ac y mae y ddau beth hyn yn gynnwysedig mewn arferion rhinweddol. Felly, ymddengys fod anwesu drygioni, nid yn unig yn ddrwg ynddo ei hun, ond ei fod hefyd yn llygru y cyfansoddiad a'r carictor mewn ystyr moesol. Ac y mae hunanlywodraethiad, nid yn unig yn dda ynddo ei hun, ond hefyd yn gwellhau y cyfansoddiad moesol; a gall ei wellhau i'r fath raddau, fel—er nas gellir tybio i'r nwydau fod yn hollol gydunol â'r egwyddor foesol, ac o ganlyniad rhaid addef na chyfyd y creaduriaid a ddysgrifiwyd uwch law y posiblwydd o wyro, eto—y gall eu perygl o wyro yn weithredol oddi wrth uniondeb ddi-flanu bron yn llwyr, ac y gallant hwythau gael eu llawn gadarnhau yn ngwyneb yr ychydig berygl sydd yn aros:—os priodol galw hwnw yn berygl, yn ngwyneb yr hwn y mae sicrhâd effeithiol a digonol yn bod. Ond, ar yr un pryd, dichon mai ar arferion rhinweddol wedi eu ffurfio mewn sefyllfa o ddysgyblaeth y mae parhâd eu perffeithrwydd uchaf yn dibynu, ac mai iddynt hwy y mae parhâd eu diogelwch a'u sicrhâd i'w briodoli. Yn awr, y mae yn eglur y gall creaduriaid difai, fel y daethant o dan law eu Creawdwr, fod mewn perygl o wyro oddi wrth uniondeb,

ac felly mewn angen am y sicrhâd a ddyry arferion rhinweddol, yn chwanegol at yr egwyddor foesol a roddwyd yn ein natur ganddo. Gellir ystyried achos eu perygl fel diffyg ynddynt, y moddion naturiol i gyflawnu yr hwn ydynt arferion rhinweddol. A chan eu bod yn naturiol yn alluog i gyrhaedd gwelliant trwy ddysgyblaeth, y mae yn beth cymhwys ac angenrheidiol eu bod yn cael eu gosod mewn amgylchiadau cyfaddas i fod yn sefyllfa o ddysgyblaeth iddynt er eu cynnydd mewn rhinwedd.¹

Ond gyda pha faint mwy o rym y mae y sylwadau hyn yn dwyn perthynas â rhai y mae eu natur wedi ymlygru a dirywio oddi wrth ei huniondeb cyntefig—y rhai y mae eu nwydau wedi ennill nerth gormodol trwy fynych halogi a difwyno y carictor a'r cyfansoddiad? Dichon fod creaduriaid uniawn mewn angen cynnydd a gwelliant; ond y mae creaduriaid llygredig mewn angen adnewyddiad. Y mae addysg a dysgyblaeth, o bob gradd o dnerwch a llymder, yn fuddiol iddynt hwy, ond yn anhebgorol angenrheidiol i'r rhai hyn. I greaduriaid dirywiedig, y mae dysgyblaeth o'r fath lymaf, yn y graddau uchaf, yn angenrheidiol, mewn trefn i olchi ymaith arferion drygionus, i adferu y gallu o hunan-lywodraethiad, i adgyweirio yr egwyddor foesol, a dyrchafu yr egwyddor i arferiad, i'r dyben o gyrhaedd ystâd sicr o ddedwyddwch a daioni.

Yn awr, y mae yn eithaf eglur i bob meddwl ystyriol fod y byd hwn yn *gyfaddas mewn modd arbenig* i fod yn ystâd o ddysgyblaeth i'r rhai a osodant eu hunain dani. O blegid y mae yr amrywiol demtasiynau o'n cwmpas—y profiad sydd genym o

[¹Y mae Dr. Chalmers yn gweled diffyg pwysig yn y sylwadau uchod, am nad ydynt yn ymddangos iddo yn gysson â rhai o athrawiaethau dadguddiad:—“Nid yw Butler yn rhoddi digon o bwys ar yr elfen foesol sydd yn gyssylltiedig â'r pechod cyntaf—y cwmp.” Trwy y camwedd cyntaf, nid yn unig dechreuodd dyn lithro ar lwybr gogwyddedig, ond gwneir trosglwyddiad disymmwrth i sefyllfa newydd o berthynas â Duw. Sylwa hefyd ar wendid cyfundrefn Gristionogol Butler, yn ei olygiadau ar adferiad dyn:—“I gyrhaedd sefyllfa adferedig, nid ymddengys ei fod yn edrych ar ddim mwy yn angenrheidiol nag ymdrech galed a pharhâus o du dyn i feithrin arferion newyddion, ac i ymryddhau oddi wrth arglwyddiaeth yr hen arferion. Y mae yn anghofio y rhaid dileu ymaith y teimlad o euogrwydd, gwneyd cymmod, ac mai yn yr hyder a'r gobaith am y cyfryw gymmod y gall dyn fyned yn mlaen eilwaith gyda pharodrwydd ac awyddfryd mewn ufudd-dod newydd.” Y mae yn rhaid addef nad yw Butler yn rhoddi lle dyladwy i'r pethau hyn; eto, nid ydym yn gweled y gommeddiad hwn yn gwanhau nac yn dirymu dim ar yr egwyddorion moesol mawr a ddwg ger ein bron yn yr adranau uchod. Nid yw deddf arferiad wedi cael ei diddymu yn nhrefniant gras, nac un o ddeddfau ereill y natur ddynol—ar ba rai y dibyna ymresymiad yr awdwr. Dylid cofio, hefyd, mai crefydd naturiol ydyw mater Butler yn y rhan hon o'r traethawd; ac na byddai gwirioneddau ac ymadroddion o'r Testament Newydd yn bur bwrpasol. Dylid cadw mewn cof nad yw yn amcanu egluro dirywiad y natur, a threfn ei hadferiad, yn eu holl eangder.]

dwyl drygioni, trwy gael ein harwain ar gyfeiliorn ein hunain lawer gwaith; drygioni dirfawr y byd, a'r annhrefn annhraethol sydd yn canlyn; ein cydnabyddiaeth â phoen a thristwch, naill ai oddi ar ein profiad ein hunain, neu oddi ar eu gweled mewn ereill: y mae y pethau hyn—er y gall rhai o honynt gynnyrchu effaith amhriodol ar ein meddwl, eto—wrth eu hystyried yn ddyladwy oll, yn meddu tuedd uniongyrchol i ddwyn ein meddwl i ansawdd gymmesur a rhesymol, i ansawdd meddwl gwrthwyneb i ysgafnder difeddwl, a hefyd i duedd ystyfnig a thanbaid i ddilyn cynhyrfaiau y fynydd, yr hyn sydd yn arbenig mewn meddyliau heb eu dysgyblu. Y mae y profiad ag y mae ein sefyllfa bresennol yn ei roddi o eiddilwch ein natur; o rysedd diderfyn nwydau anllwodraethus; o'r gallu sydd gan Fod Anfeidrol arnom, trwy y galluoedd a roddes i ni i ddyoddef trueni; mewn gair, y mae y profiad yr ydym yn ei gael yn ein bywyd yn y byd hwn, fod cyfansoddiad natur yn gyfryw, fel y mae yn bosibl ac yn beryglus i greaduriaid golli eu huniondeb a'u hapusrwydd, a myned yn ddygionus ac annedwydd:—y mae yn hyn duedd i roddi i ni syniad ymarferol am bethau, tra gwahanol i wybodaeth ddeallawl am danynt. A phwy a wŷr yn amgen nad yw diogelwch creaduriaid yn yr ystâd uchaf a mwyaf sefydlog o berffeithrwydd yn cyfodi, mewn rhan, oddi wrth y syniadau ymarferol a ffurfiwyd ac a sefydlwyd ynddynt mewn rhyw sefyllfa o brawf a dysgyblaeth?¹ A bydd treulio ein bywyd yn y byd hwn dan lywodraeth yr ystyriaeth a'r gofal sydd yn angenrheidiol er ei iawn dreulio yn debyg o adael argraffiadau annileadwy ar ein meddwl. Ond i lefaru yn fwy eglur: hudoliaethau i ddrygioni; anhawsderau yn ffordd cyflawniad ein dyledswydd; ein hannigonolrwydd i weithredu yr hyn sydd dda gyda chyssondeb heb raddau o ystyriaeth a gofal; a'r cyfleusderau sydd genym i ochel yr hyn sydd annymunol, neu i gyrhaedd yr hyn sydd ddymunol, trwy foddion anghyfreithlawn, pan nas gallwn wneyd hyny trwy foddion cyfreithlawn;—y pethau hyn sydd yn gwneyd

[¹Y mae y sylw hwn yn deilwng o'n hystyriaeth. Y mae cwmp yr angelion yn dangos i ni y gall temtasiynau i bechod gyfodi mewn sefyllfa sydd yn rhydd oddi wrth bechod, ac y dichon fod ar ddynion eisieu cymmeriad wedi ei ddysgyblu ar y ddaiar i'w gwrthsefyll. Gall pethau diniweid ddyfod yn demtasiynau i naturiaethau heb eu dysgyblu, tra na wnai naturiaethau wedi eu dysgyblu yn drwyadl deimlo dim oddi wrthynt. Y mae yn bwnc dadguddiad fod Duw wedi rhwymo ei hun a'i addewid i ddiogelu parhâd dedwyddwch y sefyllfa ddyfodol, a gallasai beri y sicrhâd a'r diogelwch hwnw trwy wneyd pechod yn beth amhosibl mewn ystyr anianyddol; ond ymddengys yn hytrach ei fod yn gweithredu yn gydweiddol â'r natur foesol a roddes i ni. Bydd y nef yn ddiogel i ni, am y bydd ein sancteiddrwydd wedi ei berffeithio trwy ddysgyblaeth.—*Angus' Edition.*]

y byd hwn yn gyfaddas, mewn modd arbenig, i fod yn ystâd o ddysgyblaeth i'r rhai a gadwant eu huniondeb, am eu bod yn gwneyd gwylidwriaeth, penderfyniad, a marweiddiad eu nwydau yn angenrheidiol mewn trefn i hyny. Ac y mae ymarfer y cyfryw wylidwriaeth, penderfyniad meddwl, a hunan-lywodraethiad, yn y cyflawniad o arferion rhinweddol, yn meddu tueddiad neillduol, oddi wrth gyfansoddiad ein natur, i beri fod gweithrediad yr egwyddor rinweddol yn fwy parhaus a dwys. Fel hyn, meddylier am ddydd yn gwybod ei fod mewn rhyw berygl penodol, am beth amser, i weithredu yn feius, ond eto yn penderfynu peidio gweithredu felly: y mae gofal a gwylidwriaeth parhaus i gadw ei benderfyniad yn ymarferiad *parhaus* o'r rhinwedd hwnw mewn *gradd uchel*, yr hwn ni buasai angenrhaid iddo fod ond gweithrediad *am dro*, ac un *gwan*, pe felly y buasai y temtasiwn. Y mae yn wir yn anmhrifodol dyweyd fod hunanymwadiad yn hanfodol i rinwedd a duwioldeb; ond byddai yn nes i'r gwirionedd, er nad y gwirionedd ei hun yn yr ystyr cyfyngaf, ddyweyd ei fod yn hanfodol i ddysgyblaeth a gwelliant moesol. O blegid, er y gall gweithredoedd sydd ynddynt eu hunain yn rhinweddol, y rhai nid oes dim anhawsder ynddynt, ond ydynt yn gwbl gydunol â'r tueddiadau, gael eu cyflawnu yn unig oddi ar y tueddiadau hyn, ac felly nas gallant gyfodi oddi ar yr egwyddor rinweddol, na bod, am hyny, yn weithredoedd rhinweddol o gwbl; eto, i'r gwrthwyneb, gallant gael eu cynnyrchu gan yr egwyddor hono; a phan y maent felly, y mae ynddynt duedd i ffurfio a sefydlu yr arferiad o ddaioni a rhinwedd. Ond, pan y mae ymarferiad yr egwyddor rinweddol yn fwy parhaus, yn cael ei mynychu yn amlach, ac yn fwy dwys, fel y rhaid iddi fod mewn amgylchiadau o berygl, temtasiwn, ac anhawsder, y mae y duedd hon yn cynnyddu yn gyfatebol, a'r rhinwedd yn dyfod yn arferiad mwy sefydlog yn y canlyniad.

Y mae yn ddiammheu fod hyn yn bod i raddau pell; ond pam mor bell, nid wyf yn gwybod. Nis gellir gwellhau ein galluoedd deallawl na'n nerth corfforol tu hwnt i ryw radd benodol; ac y mae yn amlwg y gellir eu gorweithio. Y mae yn bosibl y gall fod rhywbeth cyffelyb gyda'r cyfansoddiad moesol; ond prin y mae yn deilwng o ystyriaeth: ac yr ydwyf yn unig yn ei grybwyll rhag i rai edrych arno, nid fel eithriad i'r sylwadau blaenorol, fel efallai y mae, ond fel gwrthbrawf iddynt—yr hyn nid yw mewn un modd. A gall fod amryw eithriadau ereill; o blegid nis gellir dysgwyl i sylwadau fel hyn ddal gyda manylwch yn mhob achos. Y mae yn ddigon eu bod yn wirioneddau

cyffredinol. Ac y maent felly mor bell, fel y mae yn berffaith eglur *fod y byd hwn yn meddu cyfaddasder neillduol i fod yn ystâd o ddysgyblaeth i ni mewn rhinwedd a daioni*; yn yr un dull ag y mae rhai gwyddorau, trwy ennill a rhoddi ar waith holl sylw ac astudrwydd y dynion a ymroddant atynt, yn dra chyfaddas i ffurfio yn y meddwl arferion sylwgar ac astud.

Ond y mae y sefyllfa bresennol mor bell o droi allan yn ddysgyblaeth mewn rhinwedd i'r nifer mwyaf o ddynolryw, fel y maent i'r gwrthwyneb yn ei throi yn ddysgyblaeth i drygioni. A drygioni y byd sydd yn peri ei fod mewn llawer modd yn ystâd o ddysgyblaeth iachusol i'r da. Nis gellir, mae yn sicr, ddirnad yr oll o'r achos a'r amcan o herwydd pa rai y gosodwyd dynolryw yn y fath sefyllfa a'r un bresennol. Yr hyn sydd yn ymddangos yn nghanol y llygredigaeth cyffredinol ydyw, fod rhai dynion, trwy fod yn feddiannol ar amcan i ymwellhau ac ymadnewyddu, yn talu sylw i rinwedd a chrefydd, ac yn gogwyddo eu clust i wrandaw eu lleferydd; a bod y byd hwn, nid yn unig yn ddysgyblaeth mewn rhinwedd iddynt, ond yn ddysgyblaeth mewn modd ag sydd yn meddu cymhwysder neillduol i'w gynnyddu; a chymhwysder i'w gynnyddu a'i wellhau, mewn rhai golygiadau, hyd yn oed uwch law yr hyn a fyddai yn ofynol mewn cymdeithas berffaith rinweddol, neu mewn cymdeithas fyddo yn gyfartal mewn rhinwedd a hwy eu hunain. Ond nid yw yr ystyriaeth fod y nifer mwyaf yn myned trwy y byd heb ei gael yn ddysgyblaeth ddaionus iddynt hwy yn un prawf na fwrriadwyd ef i hyny. Y mae hyn yn cael ei arddangos gan gyfatebiaeth natur. O blegid, o'r lluaws hadau llysiau, a chyrff anifeiliaid, y rhai ydynt gyfaddas i gynnyddu i'w perffeithrwydd naturiol, nid ydym yn gweled fod, efallai, un o filiwn yn cyrhaedd yr ystâd hono. Y mae y nifer mwyaf o lawer yn gwywo ac yn darfod cyn ei chyrhaedd. Eto, nid oes neb sydd yn credu ol-achosion a wâd fod yr hadau a'r cyrff sydd yn cyrhaedd i'w haddfedrwydd a'u perffeithrwydd yn ateb yr amcan y bwriadwyd hwy iddo gan natur; a chan hyny, fod natur wedi eu bwriadu i'r fath berffeithrwydd. Ac nis gallaf lai na chwanegu (er nad yw yn ateb yr amcan presennol), fod yr *ymddangosiad* o'r fath *ddifrod* rhyfeddol mewn natur, gyda golwg ar yr hadau a'r cyrff hyn, yr hyn a effeithir gan achosion oddi allan iddynt, yn beth mor anhawdd rhoddi cyfrif am dano a dygwyddiad arall llawer mwy ofnadwy; sef, dinystr presennol a dyfodol cynnifer o greaduriaid cyfrifol trwy eu drygioni hwy eu hunain.

Yn erbyn yr holl syniadau uchod am ddysgyblaeth foesol, gallai un ddwyn yn mlaen wrthddadl arall; sef, mor bell ag y

mae ymddygiadau, sydd ynddynt eu hunain yn rhinweddol, yn cyfodi oddi ar obaith ac ofn, nad ydynt, mor bell a hyny, yn amgen na dysgyblaeth a chyfnerthiad ar hunan-gariad.¹ Ond y mae gwneyd yr hyn y mae Duw yn ei orchymyn, am ei fod yn ei orchymyn, yn ufudd-dod, er ei fod yn cyfodi oddi ar obaith neu ofn; a bydd i gwrs o'r cyfryw ufudd-dod ffurfio arferion o hono; ac y mae talu sylw gwastadol i eirwiredd, uniondeb, a haelfrydedd, yn gwneyd y rhinweddau neillduol hyn yn arferion, ac yn ddiammheu yn ffurfio arferion o hunanlywodraethiad, ac o ymwadiad â'n tueddiadau, pa bryd bynag y mae geirwiredd, uniondeb, neu haelfrydedd yn gofyn hyny. Ac nid oes un sail i'r gorfanyledd sydd yn peri i rai geisio hollti blewyn yn y mater hwn, i'r dyben o fychanu pob crefydd sydd yn tarddu o obaith neu ofn. O blegid y mae geirwiredd, uniondeb, haelfrydedd, talu sylw i awdurdod Duw ac i'n daioni penaf ein hunain, nid yn unig oll yn gydredol, ond pob un o honynt ynddo ei hun yn gymhellydd neu egwyddor gweithrediad cwbl gyfiawn a naturiol. A'r hwn sydd yn dechreu ar fywyd rhinweddol oddi ar un o honynt, ac yn parhau ynddo, fel y mae eisoes, i ryw raddau, yn feddiannol ar y cymmeriad sydd yn cyfateb i gyfansoddiad moesol natur, ac i'r berthynas sydd rhwng Duw a ni fel llywodraethwr moesol, felly, nis gall lai na chynnyddu fwy na mwy yn y cymmeriad hwnw; ac, o ganlyniad, nis gall lai na chyrhaedd yr hapusrwydd hwnw ag y mae y cyfansoddiad a'r berthynas yma yn angenrheidiol yn ei dybied yn gyssylltiedig â'r cymmeriad hwnw.

Y mae y sylwadau uchod o barth egwyddor weithredol rhinwedd ac ufudd-dod i orchymynion Duw yn abl i gael eu cymhwyso at ymostyngiad goddefol i'w ewyllys, yr hyn sydd yn rhan hanfodol arall o garictor uniawn, yn gyssylltiedig â'r un blaenorol, ac yn gyfryw fel y mae, i fesur mawr, yn ein gallu ein hunain i'w ffurfio. Gellid dychymygu nas gall dim ond blinderau roddi achlysur i, neu ofyn am y rhinwedd hwn; nad yw yn dwyn un berthynas âg ystâd o hapusrwydd perffaith, nac mewn un modd yn angenrheidiol i gymhwyso un iddi; ond nid yw profiad, fodd bynag, yn peri i ni feddwl fel hyn. Y mae llwyddiant ei hunan, tra y mae rhywbeth a dybir yn ddymunol heb fod yn eiddo i ni, yn cynnyrchu meddyliau afreolaidd ac anghymmedrol. Y mae dychymyg yn gymmaint achos o anfoddlonrwydd a dim yn ein hamgylchiadau allanol. Diammheu ei

[¹Daliai Hobbes mai "ofn a gobaith" ydynt y prif gymhellion i'r peth a eilw dynion yn rhinwedd. Yn ddiweddarach, cymmerodd Shaftesbury olwg gywirach—nad ydynt ond cymhellion hunanol i rinwedd; ar rai prydiau yn effeithiol i "adferu o ddrygioni, ac amddiffyn edifeirwch gwan." Cytuna Butler â'r golygiad hwn ar y cyfan.]

fod yn wir, na bydd dim lle i amynedd, pryd na bydd dim gofid mwyach. Ond dichon y bydd angen am dymmer ysbryd a ffurfi-iasid gan amynedd. O blegid, er nas gall hunan-gariad, wrth ei ystyried yn unig fel egwyddor weithredol yn ein dwyn i ddilyn ein daioni mwyaf, lai na bod yn gwbl gydredol â'r egwyddor o ufudd-dod i orchymynion Duw, os deallir ein daioni ein hunain yn iawn; gan y rhaid fod yr ufudd-dod hwn, a'r ymgais am ein daioni penaf ein hunain, yr un peth bob amser: eto, y mae yn ammheus a all hunan-gariad, wrth ei ystyried yn unig fel y dymuniad am ein daioni a'n hapusrwydd ein hunain, o herwydd yr hyn yw yn ei natur, fod bob amser yn gwbl gydredol âg ewyllys Duw, yn fwy nag y gall nwydau neu deimladau penodol fod—yn gydredol yn y fath fodd fel ag i beidio bod yn agored i gael ei gynhyrfu ar achlysuron, ac mewn mesur, pan y mae yn anmhosibl ei foddhau yn gysson â chyfansoddiad pethau, neu â'r ordeiniadau dwyfol. Fel hyn, gall *arferion* o ymostyngiad fod, ar y cyfrif hwn, yn angenrheidiol i bob creadur; arferion sydd yn dynodi yr hyn a ffurfir trwy ymarferiad. Y mae, fodd bynag, yn amlwg, yn y cyffredin, fod hunan-gariad a serchiadau neillduol, mewn bodau dynol, wrth eu hystyried fel teimladau goddefol, yn anffurfio ac yn dirdynu y meddwl, ac felly yn sefyll mewn angen am ddysgyblaeth. Yn awr, y mae gwrthwynebu y nwydau mewn cwrs o ymddygiadau rhinweddol, ac ufudd-dod i ewyllys Duw, yn tueddu i'w cymmedroli, ac yn tueddu hefyd i arfer y meddwl i fod yn dawel a boddlawm ar y mesur o hapusrwydd sydd wedi ei benodi i ni; sef, i hunan-gariad cymmesur. Ond y ddysgyblaeth briodol i ymostyngiad ydyw blinder ac adfyd. O blegid y mae iawn ymddygiad mewn adfyd—ei ystyried fel y mae crefydd yn ein dysgu, fel yn dyfod o law Duw; ei dderbyn fel yr hyn y mae efe yn ei drefnu neu yn ei oddef i gymmeryd lle yn y byd hwn, ac o dan ei lywodraeth—yn arfer y meddwl i ymostyngiad dyladwy; a'r cyfryw ymostyngiad, yn nghyd â'r egwyddor weithredol o ufudd-dod, sydd yn ffurfio ynom y dymmer a'r nodweddiad sydd yn cyfateb i'w benarglwyddiaeth, ac sydd yn hollol berthynol i'n bod ninnau fel creaduriaid dibynol. Nid dwyn y meddwl mewn darostyngiad i allu syml ydyw hyn; o blegid gall hwnw fod yn ddamweiniol, ansicr, a gormesol: ond ffurfio ynom ein hunain dymmer o ymostyngiad i awdurdod gyfiawn yr Hwn sydd yn hanfodol ac angenrheidiol yn Oruchaf ar bawb.¹

[¹Dywed Fitzgerald ar fater y paragraph hwn:—“Tra y mae undeb cyffredinol ein lles a'n buddioldeb ein hunain â rhinwedd yn ateb i ddyben moesol eglur, y mae daduniad achlysurol y cyssylltiad hwn, yn y fath fodd ag y mae rhin-

Ar y cyfan, y mae y cyfryw gymmeriad ac ansoddau yn angenrheidiol i fywyd yn y byd hwn, ar nad yw natur mewn un modd yn ein cynnysgaethu â hwynt, ond y rhai y mae wedi ymddiried eu ffurfiad, i fesur mawr, i ni ein hunain, wrth fyned o'r naill dymmor o fywyd i'r llall, o faboed i lawn oedran, a hyny hefyd trwy roddi galluoedd i ni, a'n gosod ar ddechreu bywyd mewn sefyllfa gyfaddas i'w cyrhaedd. Ac y mae hyn yn gyfatebiaeth i'n sefyllfa yn y byd hwn fel ystâd o ddysgyblaeth foesol erbyn byd arall. Y mae, felly, yn wrthddadl ofer yn erbyn yr ystyr-iaeth fod y bywyd presennol wedi ei amcanu yn ystâd o ddysgyblaeth, ddyweyd y galleid arbed yr holl flinder a'r perygl sydd yn anwahanol gyssylltiedig â'r ddysgyblaeth hono, trwy ein ffurfio ar unwaith yn gyfryw greaduriaid ag yr *oeddym i fod*; o blegid yr ydym yn deall trwy brofiad bod yr hyn *a fyddem* i fod yn effaith yr hyn *a wnaem*; ac mai trefn gyffredin natur ydyw, nid ein cadw rhag blinder a pherygl, ond ein galluogi a'n gosod dan angenrhaid i fyned trwyddynt.

Y llwybr naturiol i gyfarfod ein diffygion, ac i ddiogelu ein hunain rhag peryglon, ydyw trwy ein cyrhaeddiadau ein hunain, sef ein profiad a'n harferion; o blegid y mae yn beth mor naturiol i ni ymgais am feddiannu y cymhwysderau hyn ag am gyrhaedd y pethau allanol sydd arnom eu heisieu. Ymddengys mor eglur ei bod yn ddeddf gyffredinol mewn natur, y dylem, gyda golwg ar ein budd tymmorol, ffurfio a meithrin ynom ein hunain egwyddorion ymarferol, trwy astudrwydd, arferiad, a dysgyblaeth, a bod unrhyw beth pa bynag yn ddeddf naturiol. Ac y mae yn rhaid i ni ddewis un o ddau beth, naill ai gwellhau ein hunain a'n sefyllfa; neu, os esgeuluswn hyny, fyw mewn sefyllfa wallus a thruenus. Y mae, gan hyny, yn berffaith gredadwy, oddi wrth gyfatebiaeth natur, fod ein hachos yr un gyda golwg ar ddedwyddwch y sefyllfa ddyfodol, a'r ansoddau sydd yn angenrheidiol iddi.

Y mae trydydd peth yn cael ei gynnwys, mae yn debygol, yn y syniad fod y byd hwn yn ystâd o brawf; sef, ei fod yn faes i ddynion weithredu arno er mwyn dadblygiad o'u cymmeriad gyda golwg ar fyd dyfodol:—nid dadblygiad o'u cymmeriad, mae yn wir, i Fôd Hollwybodol, ond i'w lywodraeth, neu ran o honi. Dichon nad yw hyn ond canlyniad ein bod mewn sefyllfa prawf

wedd yn esgor ar anfanteision, yn ateb pwrpas moesol hefyd. Y mae rhinwedd yn cynnyrchu hapusrwydd: y mae Duw, gan hyny, ar du rhinwedd, ac y mae yn weddus a doeth i ninnau ymgais am fod yn rhinweddol. Ond nid yw rhinwedd yn gyssylltiedig *bob amser* â hapusrwydd; y mae Duw, felly, yn bwriadu i ni garu rhinwedd er ei fwyn ei hun. Y mae y gair "fy iau sydd esmwyth" yn dangos y gwirionedd cyntaf—"cyfoded ei groes, a dilyned fi," yr olaf.]

yn yr ystyriaethau ereill. Ar yr un pryd, nid yw yn anmhosibl fod gwaith dynion yn dangos ac yn egluro bwriadau ac egwyddorion eu calonau, a pha beth yw eu gwir gymmeriad, yn dal perthynas âg ystâd ddyfodol, mewn amrywiol ffyrdd nad ydym ni yn hysbys o honynt. Yn neillduol, gallai fod yn foddion (o blegid nid ymddengys fod Awdwr natur yn gwneyd dim heb foddion) iddynt gael eu trefnu a'u cyfleu yn unol â'u cymmeriadau, ac i roddi gwybodaeth i lywodraeth Duw, mewn ffordd o esampl, eu bod yn cael eu cyfleu felly. Ond, heb ymdrin â'r mater mewn modd tybiol, gellir yn unig grybwyll fod amlygiad o gymmeriadau dynion yn gwasanaethu yn fawr mewn amrywiol ffyrdd er dwyn yn mlaen ran helaeth o drefn gyffredin natur gyda dynolryw—y rhan hono o honi sydd dan ein hystyriaeth bresennol. Ni chwanegaf, ond yn unig fod prawf, yn y ddau ystyr yma, yn gystal ag yn yr ystyr a soniwyd yn y bennod flaenorol, yn cael ei gynnwys mewn llywodraeth foesol; o blegid trwy ymddygiadau dynion dani, nis gall eu cymmeriadau lai na chael eu hamlygu, ac os ymddygant yn rhinweddol, eu gwellhau.



PENNOD VI.

AM Y SYNIAD O ANGENRHEIDRWYDD, YN CAEL EI YSTYRIED
FEL YN DYLANWADU AR EIN HYMDDYGIAD.

YMDDENGYS oddi wrth y traethawd blaenorol fod sefyllfa dynolryw, wrth eu hystyried fel preswylwyr y byd hwn yn unig, a deiliaid y llywodraeth ddwyfol ag yr ydym yn cael ein hunain dani, yn cyfateb, i raddau mawr, i'n sefyllfa, fel rhai wedi eu bwrriadu i fyd arall, neu dan y llywodraeth bellaf a pherffeithiaf a ddadguddia crefydd i ni. Os haera rhywun, gan hyny, fel y rhaid i'r tyngedwr (*fatalist*) wneyd, fod y dyb am angenrheidrwydd cyffredinol¹ yn unol â'r cyntaf, y mae cwestiwn yn cyfodi

[¹Y mae y gair *necessity* (angenrheidrwydd) yn cael ei arfer, medd Isaac Taylor, mewn tri o ystyron gwahanol:—1. Dynoda y berthynas sydd rhwng *achos* ac *effaith*, neu bethau sydd yn wastadol yn gyssylltiedig â'u gilydd. Dynoda hefyd berthynas gosodiadau â chasgliad mewn rhesymeg. Dyma anghreiffitiau o'r cyfryw:—Y mae i'r byd, o angenrheidrwydd, ei Greawdwr. Y mae marwolaeth yn perthyn yn angenrheidiol i'n sefyllfa bresennol. Y mae onglau triongl, oddi ar angenrheidrwydd, yn gyfartal i ddwy ongl wastad. 2. Weithiau, y mae angenrheidrwydd yn dynodi yr hyn sydd wrthwyneb i ryddid—dirgymhelliad yn erbyn yr ewyllys. 3. Arwydda y gwrthwyneb i amheuaeth; gwybodaeth sicr, neu sicrwydd o barth y pethau a wyddir. Y mae

yn ebrwydd mewn ffordd o gyfatebiaeth, oni raid iddo hefyd addef ei fod yn unol, yn bosibl i'w gymmodi, â'r diweddfaf; sef, â chyfundrefn crefydd ei hun, ac â'r prawf o honi. Sylwer, gan hyny, mai y cwestiwn ger ein bron ydyw, nid a yw y syniad am dynged yn unol â chrefydd, ond ai nid yw, ar y dybiaeth ei fod yn unol â chyfansoddiad natur, yn unol â chrefydd hefyd?¹ Neu, pa rith o esgus sydd gan dyngedwr—nid ereill, ond tyngedwr—i gasglu oddi wrth ei dyb nas gall y fath beth fod a chrefydd? A chan, yr wyf yn ofni, y gwelir yn rhwydd y dyrswch a'r aneglurder a gyfyd yn anocheladwy oddi wrth ymresymu ar dybiaeth mor wrthun ag ydyw angenrheidrwydd cyffredinol, yr wyf yn gobeithio y bydd i hyny gael mor rwydd ei esgusodi.

Ond, gan y cymmerwyd yn ganiataol trwy yr holl ymdriniaeth,

Duw yn rhagweled ein gweithredoedd; gan hyny, y maent yn angenrheidiol. Fel hyny yr ymresyma Edwards. "Nid oes un math o angenrheidrwydd yn dinystrio cyfrifoldeb," medd un ysgrifenydd, "ond yr ail." Gall Duw ragweled holl weithredoedd dyn; a chan ei fod ef yn eu rhagweled yn sicr, y mae rhyw fath o angenrheidrwydd, neu sicrwydd, i'r gweithredoedd hyny gymmeryd lle; o blegid nid yw yn bosibl rhagweled pethau damweiniol gyda sicrwydd: os ydyw y rhagwybodaeth am danynt yn sicr, yna y maent hwythau yn angenrheidiol. Ond nid yw yr angenrheidrwydd hwn yn cyfyngu ar ryddid y creadur. Nid yw angenrheidrwydd yn yr ystyron cyntaf a thrydydd yn effeithio dim ar ryddid, ac felly, ddim ar gyfrifoldeb y creadur. Pe byddai yn gweithredu dan angenrheidrwydd yn yr ail ystyr—yn gweithredu oddi ar ddirgymhelliad, ac yn erbyn ei ewyllys—peidiai ei gyfrifoldeb. Y mae y cyfatebiaeth yr ymdrinir arno yn y traethawd hwn, sydd rhwng trefn bresennol bethau a'r drefn ddyfodol, yr hon y mae crefydd yn ein hawdurdodi i'w dysgwyl, yn peri i'r cwestiwn hwnw gyfodi yn naturiol:—Os ydyw y drychfeddwl am angenrheidrwydd yn unol â'r gyntaf, onid ydyw yn unol hefyd â'r ddiweddfaf? Ateb y cwestiwn hwn ydyw amcan y bennod hon. Ond y mae yn rhaid, yn gyntaf oll, ateb un wrthddadl—yr bon, pe byddai yn wirionedd, a ddymchwelai sylfeini yr holl draethawd. Y mae ymresymiad Butler yn gorphwys ar y dybiaeth fod gan natur ei Chreawdwr a'i Llywodraethwr deallus; ond y mae y tyngedwr yn dinystrio, neu yn amcanu dinystrio, y prawf o hyn, trwy haeru fod angenrheidrwydd ei hun yn ddigon i roddi cyfrif am ddechreuad a pharhad pob peth. Y mae yn rhaid, felly, ateb y cwestiwn hwn:—Ar y dybiaeth fod y syniad am angenrheidrwydd yn unol â threfn natur, a ydyw yn dinystrio y prawf fod i natur ei Chreawdwr a'i Llywodraethwr deallus? * * * * * Y mae yn amlwg, fel y sylwa Dr. Chalmers, fod Butler yn cilio yn ol mewn arswyd oddi wrth athrawiaeth angenrheidrwydd. Cyfodai hyny, mewn rhan fawr, oddi ar y ffaith fod pleidwyr yr athrawiaeth hon, yn ei ddyddiau ef, yn ei dwyn i amddiffyn anffyddiaeth, ac yn ei throi yn erbyn moesoldeb. Tybid fod angenrheidrwydd yn difodi y gwahaniaeth sydd rhwng rhinwedd a drygioni. Cyfeiriwn ein darllenwyr at *Chalmers' Lectures on Butler* am eglurhad cryno ac eglur ar hyn. Pe buasai Traethawd Jonathan Edwards ar yr *Ewyllys* wedi ymddangos gan mlynedd yn gynnarach, buasai yn hebgor llawer o ddadleuon ac amryfuseddau o barth rhyddid ac angenrheidrwydd. Dangosasai fod y syniad am angenrheidrwydd yn gwbl gydweiddiol âg egwyddorion crefydd a moesoldeb. Yr oedd Leibnitz hefyd, tra yn credu athrawiaeth angenrheidrwydd, yn sefyll yn ddiysgog at egwyddorion Cristionogaeth a moesoldeb.]

¹Y mae y cwestiwn cyntaf yn *absolute*=diammodol; yr ail yn *hypothetical*=tybiadol.

fel peth profedig, fod Awdwr deallus yn bod i natur, neu fod Llywodraethwr naturiol ar y byd; a chan y gellir dwyn yn mlaen wrthddadl yn erbyn y prawf o hyn, oddi wrth y syniad am angenrheidrwydd cyffredinol, fel y gellid tybied y dichon y cyfryw angenrheidrwydd roddi cyfrif am ddechreuad a chynnaliad pob peth; y mae yn ofynol rhoddi atebiad penodol i'r wrthddadl hon, neu ddangos nad yw tynged—a dybir yn gysson â'r hyn yr ydym yn brofi—yn dinystrio y prawf fod Awdwr a Llywodraethwr deallus i natur, cyn i ni fyned yn mlaen i ystyried a ydyw yn dinystrio y prawf fod Llywodraethwr moesol arni; neu ein bod ni mewn sefyllfa neu berthynas foesol a chrefyddol.

Yn awr, pan y dywedir gan y tyngedwr fod holl gyfansoddiad natur, gweithredoedd dynion, pob peth, a holl foddau ac amgylchiadau pob peth, yn angenrheidiol, ac nas gallasent mewn un modd fod yn amgen nag ydynt, dylid sylwi nad yw yr angenrheidrwydd hwn yn cau allan ystyriaeth, dewisiad, a gweithredu oddi ar egwyddorion penodol i ateb amcanion penodol; o blegid y mae hyn oll yn bwnc profiad diammheuol, yn cael ei addef gan bawb, ac yn beth y gall pob dyn bob amser fod yn ymwybodol o hono. Ac oddi yma y canlyn, nad yw angenrheidrwydd, yn unig ac o hono ei hun, yn rhoi un cyfrif am drefn natur, am y modd y daeth pethau *i fod*, a pha fodd y maent yn *parhau* fel y maent; ond yn unig yn gyfrif am yr *amgylchiad* hwn sydd yn perthyn i'w dechreuad a'u parhâd; sef, nas gallasent fod yn wahanol i'r hyn ydynt ac y maent wedi bod. Nid yw yr haerriad fod pob peth yn bod o angenrheidrwydd natur yn atebiad i'r cwestiwn, A ddaeth y byd i fodolaeth fel y mae, trwy i weithredydd deallus ei ffurfio fel hyn, ai ni ddaeth? ond i gwestiwn arall yn hollol, Pa un a ddaeth i fodolaeth fel y mae, yn y dull a alwn *yn angenrheidiol*; ynte, yn y dull hwnw a alwn *yn rhydd*? O blegid, tybier am dyngedwr yn dadleu â dyn arall sydd yn ymgadw at ei syniadau naturiol am bethau, ac yn credu ei fod ei hun yn rhydd-weithredydd—tybier am y ddau yn dadleu â'u gilydd, ac yn amddiffyn eu hopiniynau eu hunain: pe dygwyddent son am dŷ, cytunent iddo gael ei gyfodi gan adeiladydd; ni achosai y gwahaniaeth barn rhyngddynt am angenrheidrwydd a rhyddid un gwahaniaeth yn eu barn am hyn, ond yn unig am fater arall; sef, a adeiladodd y dyn y tŷ o angenrheidrwydd, ynte yn rhydd. Tybier, yna, eu bod yn myned rhagddynt i ymchwilio o barth i gyfansoddiad natur: mewn ffordd anghryno o siarad, dywedai un o honynt, y daeth i fod o angenrheidrwydd, a'r llall o ryddid; ond os buasai rhyw ystyr ganddynt i'w geiriau, gan y rhaid fod y diweddaf yn meddwl gweithredydd rhydd,

felly, rhaid cael y cyntaf i feddwl am weithredydd—pa un bynag ai un ynte chwaneg—yn gweithredu oddi ar angenrheidrwydd; o blegid nis gall syniadau damcanol wneyd dim. Yr ydym, yn wir, yn priodoli i Dduw fodolaeth angenrheidiol,¹ heb ei achosi gan neb. O blegid yr ydym yn canfod ynom ein hunain y drychfeddwl am anfeidroldeb—am annherfynoldeb a thragwyddoldeb—y rhai sydd yn anmhosibl, hyd yn oed mewn dychymyg, i'w symmud allan o fodolaeth. Ymddengys ein bod, megys ar un olwg, yn canfod y rhaid fod rhyw beth oddi allan i ni ein hunain yn ateb i'r drychfeddwl hwn, neu yn gynddelw o hono. Ac am hyny, yr ydym yn casglu fod—canys y mae y *dansoddol* (*abstract*) *hwn*, megys y mae pob un arall, yn arwyddo yr *ansoddol* (*concrete*)—ac nis gall lai na bod hanfod anfeidrol, annherfynol, a thragwyddol yn bod yn flaenorol i un bwriad iddo fod, ac yn annibynol arno. Ac oddi ar annigonedd iaith, arferwyd dull o lefaru i'r perwyl, mai angenrheidrwydd ydyw sylfaen a rheswm hanfodiad Duw. Eithr ni honir, ac nis gellir meddwl fod, *pob peth* yn bodoli fel y mae, oddi ar y math hwn o angenrheidrwydd—angenrheidrwydd sydd yn ei natur yn rhagflaenol i fwriad; nis gellir meddwl, meddaf, fod pob peth yn bodoli fel y mae oddi ar y math yma o angenrheidrwydd, a hyny ar lawer o gyfrifon; ac yn neillduol, am yr addefir fod bwriad, yn ngweithrediadau dynion, yn peri llawer o gyfnewidiadau mewn natur. Ac os gwada rhywun hyn, ni cheisiaf ymresymu âg ef.

Y mae yn canlyn, oddi wrth y pethau hyn, *yn gyntaf*, fod y tyngedwr, pan yn haeru fod pob peth yn bod o *angenrheidrwydd*, yn rhwym o feddwl eu bod yn hanfodi *trwy weithredydd yn gweithredu oddi ar angenrheidrwydd*: mae yn rhaid iddo, meddaf, feddwl fel hyn; o blegid yr wyf yn gwybod na ddewisai ei feddwl. Ac, *yn ail*, nad yw yr angenrheidrwydd, wrth yr hwn y tybir fod y cyfryw berson yn gweithredu, yn cau allan ddealltwriaeth a bwriad. Felly, pe byddai y syniadau am dynged yn cael eu derbyn, rhoddai yr un cyfrif am wneuthuriad y byd ag am wneuthuriad tŷ, a dim yn chwaneg. Y mae angenrheidrwydd yn

[¹Y mae eglurhad Syr W. Hamilton ar y gair *bodolaeth angenrheidiol* fel y canlyn:—“Nid oes ond dwy ffordd neu ddau fodd yn ol pa rai y gellir dyweyd fod unrhyw fod yn hanfodi—ei fod yr hyn ydyw: y mae yn hanfodi yn *ddamweiniol*, neu yn *angenrheidiol*. Pan y mae ei anhanfodiad yn bosibl, hyny yw, pan y gallwn ni dybied y posiblwydd iddo beidio bod, y mae y bod hwnw yn hanfodi yn *ddamweiniol*. Ond os oes rhyw fod ag y gellir profi y *rhaid* iddo hanfodi, anhanfodiad yr hwn sydd felly yn anmhosibl ac annichonadwy, y mae hwnw yn bod o *angenrheidrwydd*, neu, y mae angenrheidrwydd yn un o *fodau* (*modes*) ei hanfodiad. Ond nis gellir edrych ar angenrheidrwydd mewn un modd fel achos neu y rheswm am unrhyw hanfodiad. Y mae gwahaniaeth pwysig rhwng *achos* hanfodiad a *modd* hanfodiad.”]

gofyn am ac yn tybied gweithredydd angenrheidiol, yn gymmaint ag y mae rhyddid yn tybied ac yn gofyn am weithredydd rhydd i fod yn wneuthurwr y byd. Ac y mae yr ymddangosiadau o *fwriad* ac *ol-achosion* yn nghyfansoddiad natur mor wirioneddol yn profi fod y gweithredydd hwn yn *fwriadydd deallus*, neu ei fod yn gweithredu oddi ar ddewisiad, ar y cynllun o angenrheidrwydd—a thybied ei fod yn bosibl—ag ar y cynllun o ryddid.

Gan yr ymddengys, fel hyn, nad yw y syniad am angenrheidrwydd yn dinystrio y prawf fod Awdwr deallus i natur, a Llywodraethwr naturiol ar y byd, y cwestiwn presennol, yr hwn a awgrymir gan y cyfatebiaeth rhag-grybwylledig, ac a atebir ganddo, mi a dybiaf, ydyw hyn :—A ydyw y dyb am angenrheidrwydd, a thybied ei fod yn dyb posibl, ac yn gysson â chyfansoddiad y byd, ac â'r llywodraeth naturiol sydd yn cael ei chario arno—a ydyw y dyb hono yn dinystrio pob sail resymol dros gredu ein bod mewn ystâd o grefydd; neu a ydyw y dyb hono yn gysson â chrefydd, â'i chyfundrefn, ac â'i phrawf?

Tybier, ynte, fod tyngedwr yn addysgu un, o'i ieuencid i fyny, yn ei egwyddorion ei hun; fod y plentyn yn ymresymu arnynt, ac yn dyfod i benderfyniad, gan nas gall mewn un modd ymddwyn yn wahanol nag y mae, nad yw yn wrthddrych i'w feio na'i ganmawl, ac nas gall haeddu ei wobrwyo na'i gospi: meddylier ei fod wedi dadwreiddio hyd yn oed y syniadau am anghymmeradwyaeth a chanmoliaeth o'i feddwl trwy y gyfundrefn yma; ffurfio ei dymmer, ei gymmeriad, a'i ymddygiad yn ei hol; ac oddi wrthi hi, farnu am y driniaeth y mae i'w dysgwyl, dyweder, oddi wrth ddynion call, ar ei fynediad allan i'r byd, fel y mae y tyngedwr yn barnu oddi wrth y gyfundrefn hon, pa beth y mae i'w ddysgwyl oddi wrth Awdwr natur, a chyda golwg ar sefyllfa ddyfodol. Nis gallaf lai na gofyn yma, A feddyliai unrhyw ddyn o synwyr cyffredin yn briodol hyfforddi plentyn yn y tybiau hyn, a'i adael i'w cymhwyso at bethau ymarferol? Ac ychydig o reswm sydd gan y dyn nad yw yn ystyried mai plant ydym oll mewn ymchwiliadau o'r natur yma. Fodd bynag, diammheu y llawenychai y plentyn yn fawr wrth weled ei hun yn rhydd oddi wrth attalfeydd ofn a chywilydd, â'r rhai y mae ei gymdeithion wedi eu caethiwo, ac yr ymfalchiai lawer yn rhagoriaeth ei wybodaeth arnynt. Ond ni byddai balchder a hunandyb ond y lleiaf o'r effeithiau niweidiol a gynnyrchid o angenrheidrwydd gan yr egwyddorion hyn, wrth gael, fel yma, eu hymresymu allan, a gweithredu arnynt, dros ystod ei addysgiaeth. Rhaid naill ai caniatáu iddo fyned rhagddo, a bod yn bla ar bawb o'i

amgylch, ac yn bla dinystriol arno ei hun hefyd; neu, ynte, ei ddwyn yn barhäus dan gerydd a dysgyblaeth, er mwyn cyflenwi y diffyg o'r syniadau naturiol o anghymmeradwyaeth a chanmoliaeth y rhai a dybiasom oedd wedi eu dileu, ac argraffu ar ei feddwl syniad ymarferol o'r hyn yr ymresymodd ei hun allan o hono; sef, mewn gwirionedd, yn blentyn cyfrifol, ac i gael ei gospi am iddo wneuthur yr hyn a waherddid iddo. Nis gall, gan hyny, y cer-ydd a'r ddysgyblaeth a dderbynai yn nghwrs ei addysgiaeth lai na'i argyhoeddi, pe bai y gyfundrefn y cawsai ei addysgu ynddi heb fod yn gyfeiliornus, eto, ei fod ef wedi camresymu arni, ac wedi ei chamgymhwyso ryw fodd neu gilydd at ymarferiadau bywyd cyffredin; yr un modd ag y dylai yr hyn y mae y tynged-wr yn ei ganfod a'i brofi o drefn rhagluniaeth fel y mae yn bresennol, ei ddarbwylo fod ei gyfundrefn neu ei dyb yn cael ei chamgymhwyso pan yn cael ei chymhwyso at grefydd. Ond, a thybied fod tymmer y plentyn yn parhau i gyfateb i'w syniadau, a'i ddysgwyliad am y driniaeth y mae i'w chael yn y byd yn cael ei reoleiddio ganddynt, fel ag i feddwl na feiid ac na chospid ef gan un dyn call a rhesymol am ddim a wnai, am nas gall helpu hyny; ar y dybiaeth hon, y mae yn amlwg y byddai, ar ei fynediad allan i'r byd, yn anmhosibl i'w oddef gan gymdeithas; a gwnai y driniaeth a dderbynai oddi wrthi hithau felly iddo yntau, ac nis gallai ymattal rhag cyflawnu rhywbeth yn fuan a'i dygai i afael y gyfraith. Ac, fel hyn, yn y diwedd, argyhoeddid ef o'r rhwymedigaethau yr oedd danynt i'w addysgydd doeth. Neu, tybier fod y dyb hon am dynged yn cael ei chymhwyso mewn rhyw ffordd *arall* at bethau ymarferol, gwelid y byddai y cyfryw gymhwysiad yr un mor wrthun a chyfeiliornus mewn ystyr ymarferol: er esampl, os yw rhyw ddyn wedi ei dyngedu i fyw am ryw amser penodol, y bydd yn sicr o fyw am hyny, er iddo beidio cymmeryd un gofal am ei gynnaluaeth; neu, os ydyw wedi ei dyngedu i farw cyn ryw amser, nas gall un gofal ei rwystro; am hyny, fod pob gofal am gadw bywyd i'w esgeuluso—yr hyn yw y cyfeiliornad a ddygwyd i mewn gan yr hynafiaid. Ond yn awr, i'r gwrthwyneb, nis gellir tynu un o'r ffoleddau ymarferol hyn oddi wrth resymu ar y dybiaeth ein bod yn rhydd; ond y mae pob ymresymiad felly, gyda chyfeiriad at achosion cyffredin bywyd, yn cael ei gyfiawnhau gan brofiad. A chan hyny, pe yr addefid fod y syniad hwn am angenrheidrwydd yn wir fel pwnc, eto, gyda golwg ar ymarferiad, y mae fel pe byddai yn gyfeiliornus, mor bell ag y mae ein profiad yn cyrhaedd; hyny yw, dros yr oll o'r bywyd presennol. O blegid y mae cyfansoddiad y byd presennol, a'r sefyllfa yr ydym ynddi,

yn ymddangos fel pe byddem yn rhydd. A gellir, efallai, yn briodol wneyd y casgliad, gan fod holl gwrs gweithrediad—pob rhan o hono—petrusder, ystyriaeth, gogwyddiad y meddwl un ffordd, y penderfyniad, ac yn ddiweddaf, gwneyd fel yr ydym yn penderfynu; gan fod yr holl bethau hyn mewn gweithred yn myned yn mlaen fel pe byddem yn rhydd, yr ydym ni ein hunain, gan hyny, yn rhydd. Ond yr hyn yr ydym yma yn sefyll arno ydyw, ein bod, dan lywodraeth naturiol y byd, a ddygir yn mlaen yn bresennol, yn cael ymddwyn atom fel pe baem yn rhydd, a hyny yn flaenorol i bob ystyriaeth a ydym ai nid ydym felly. Felly, pe bai y syniad hwn am angenrheidrwydd yn cael ei dderbyn fel gwirionedd, eto, y cyfryw yw ein sefyllfa ni, a chwrs naturiol pethau, fel, pa bryd bynag y cymhwyswn y syniadau at fywyd ac ymarferiad, y mae y cymhwysiad hwn bob amser yn rhwym o'n camarwain yn ddirfawr gyda golwg ar ein lles presennol. A pha fodd, gan hyny, y gall dynion feddwl eu bod mor ddiogel, pan y gall yr un cymhwysiad o'r un syniad eu camarwain hefyd, mewn modd cyfatebol, gyda golwg ar achos a buddiannau dyfodol—rhai mwy cyffredinol a phwysig? O blegid, gan fod crefydd yn bwnc ymarferol, a bod cyfatebiaeth natur yn dangos i ni nad oes genym alluoedd cyfaddas i gymhwyso y dyb yma, pe bai yn wirionedd, at bynciau ymarferol, pa bryd bynag yr ydym yn ei dwyn i gyssylltiad â chrefydd, ac oddi wrth hyny yn casglu ein bod yn rhydd oddi wrth ei rhwymedigaethau, y mae yn ddigon eglur nas gellir dibynu a phwyso ar y casgliad hwn. Ar ol y cwbl, bydd genym ddigon o reswm dros feddwl, pa beth bynag a ymddengys yn wahanol, ein bod yn ein twyllo ein hunain, yn debyg i'r rhai a dybiant y gallant dynu casgliadau gwrthwyneb oddi wrth y drychfeddwl am anfeidroldeb.

Oddi wrth y pethau hyn yn nghyd, gwel y darllenydd ystyriol, os ydyw y prawf o grefydd, ar y dybiaeth o ryddid, yn brawf sicr a phenderfynol, ei fod yn parhau felly, ar y dybiaeth o angenrheidrwydd; o blegid nid yw y syniad am angenrheidrwydd yn briodol i'w gymhwyso at faterion ymarferol; neu, gyda golwg arnynt hwy, y mae fel pe bai heb fod yn wir. Ac nid yw hyn yn taflu un sarhâd ar reswm, ond yn unig ar yr hyn sydd afresymol. O blegid y mae cymmeryd arnom weithredu ar reswm, mewn gwrthwynebiad i egwyddorion ymarferol, y rhai y cawsom ein cynnysgaethu â hwynt gan Awdwr natur i weithredu wrthynt—a chymmeryd arnom gymhwyso ein rheswm at faterion, y rhai y mae ein golygiadau diffygiol, a hyd yn oed ein profiad, yn dangos i ni nas gellir dibynu arno gyda golwg arnynt—a'r

cyfryw, ar y goreu, y rhaid fod y mater o angenrheidrwydd—y mae hyn yn wagedd, hunandyb, ac afresymoldeb o'r mwyaf.

Ond nid hyn yw y cyfan. O blegid yr ydym yn cael ynom ein hunain ewylllys, ac yn ymwybodol ein bod yn feddiannol ar gymmeriad. Yn awr, os ydyw hyn ynom ni yn unol â thynged, y mae yn unol â hi yn Awdwr natur. Ac y mae llywodraeth naturiol ac ol-achosion yn arwyddo fod y Llywodraethwr a'r Bwriadydd yn feddiannol ar gymmeriad ac ewylllys¹—ewylllys o barth i'r creaduriaid y mae yn eu llywodraethu. Felly, gan fod Awdwr natur yn feddiannol ar ryw gymmeriad neu gilydd, er yr angenrheidrwydd sydd yn perthyn iddo, y mae yn eglur fod yr angenrheidrwydd hwn mor gydweddol â'r cymmeriad neillduol o ddaioni, gwirionedd, ac uniondeb ynddo—y perffeithiau sydd yn sylfaen crefydd—ag â rhyw gymmeriad arall; o blegid yr ydym yn gweled nad yw yr angenrheidrwydd hwn yn lluddias *dynion* i fod yn garedig, mwy nag i fod yn greulawn; yn ddiffuant, mwy nag yn anffyddlawn; yn gyfiawn, mwy nag yn anghyfiawn; neu, os boddona y tyngedwr yn well i ni ddyweyd, yr hyn a alwn ni yn anghyfiawn. O blegid dywedir fod yr hyn a fyddai ar y dybiaeth o ryddid yn gosp gyfiawn, yn dyfod, ar y dybiaeth o angenrheidrwydd, yn amlwg anghyfiawn;² am ei bod yn gosp yn cael ei gweinyddu am gyflawnu yr hyn nas gallasai dynion beidio ei gyflawnu. Fel pe na bai yr angenrheidrwydd, yr hwn a dybir sydd yn dileu anghyfiawnder y weithred o lofruddiaeth, er esampl, yn dileu hefyd anghyfiawnder y weithred o'i chospi. Ond gan nad pa mor ychydig i'r pwrpas ydyw yr wrthddadl hon ynddi ei hun, y mae yn ateb i bwrpas mawr sylwi oddi wrthi, pa fodd y mae y syniadau am uniondeb ac anghyfiawnder yn aros yn ddigyfnewid, hyd yn oed tra yr ydym ni yn gwneyd ein goreu i'w tybied wedi eu dileu; pa fodd y maent yn ymgymhell ger bron ein meddwl, hyd yn oed pan yr

¹Wrth *ewylllys* a *chymmeriad* y meddylir, yr hyn, wrth siarad am ddynion, a ddynodem, nid yn unig â'r geiriau hyn, ond hefyd â'r geiriau *tymmer*, *chwaeth*, *tueddiadau*, *egwyddorion ymarferol*: yr holl agwedd meddwl oddi ar ba un yr ydym yn gweithredu yn y naill ddull yn hytrach na'r llall.

[²Y mae y sylw hwn yn dangos gwrthuni ac anghyssondeb syniadau tyngedwyr; gwadant uniondeb cospedigaeth, ar y tir fod yr ymddygiad y cospir o'i blegid yn anocheladwy; ond anghofiant fod yr un angenrheidrwydd ag a dybiant hwy sydd yn cyfiawnhau y trosedd, ar unwaith yn cyfiawnhau y gosp hefyd. Y mae y sylw hwn o eiddo Butler yn dangos hefyd fod y syniad am gyfiawnder ac anghyfiawnder yn aros yn y meddwl, tra yr ydys hyd yn oed yn ffurfio tybiaethau i'w ddinystrio. Y mae y tyngedwr yn cyssylltu anghyfiawnder â'r gosp, tra yn diosg y trosedd oddi wrth ei anghyfiawnder. Ond y mae yn amlwg fod hyn yn anghyssondeb. Y mae ei galon yn dwyn tystiolaeth i foesoldeb gweithredoedd ar y pryd y mae ei feddwl yn coledd syniadau sydd o duedd i ddinystrio eu moesoldeb.]

ydym yn gwneyd tybiaethau a dueddant i'w dinystrio; o blegid nid oes, efallai, un dyn yn y byd na fyddai yn barod i wneyd yr wrthddadl hon ar y meddwl cyntaf.

Ond, er fod yn bur amlwg fod angenrheidrwydd cyffredinol, os yw yn gydweddol â dim, yn gydweddol â'r cymmeriad hwnw yn Awdwr natur sydd yn sail i grefydd; "Eto, onid yw yn amlwg yn dinystrio y prawf ei fod yn meddu y cymmeriad hwnw; ac, o ganlyniad, y prawf o grefydd hefyd?" Atebaf, nad yw mewn un modd. O blegid yr ydym yn gweled nad yw dedwyddwch a thrueni yn dyfod i ni trwy dynged, mewn unrhyw ffordd amgen nag fel canlyniadau ein hymddygiad.¹ Yr ydym yn canfod fod Duw yn cario yr un math o lywodraeth arnom ag y mae tad ar ei blant, a swyddwr gwladol ar ei ddeiliaid. Yn awr, pa beth bynag a ddaw o ymchwiliadau dansoddol i ryddid ac angenrheidrwydd, ymddengys yn eglur a diammheuol i ni fod yn rhaid mai gwirionedd a chyfiawnder ydyw rheol naturiol dygiad yn mlaen y llywodraeth hon i Fod sydd uwch law pob cydymgeisiau â'i greaduriaid a'i ddeiliaid.

Ond, er ein bod yn brofiadol o wirionedd y syniad am ryddid, eto, am y gellid ei orchuddio âg anhawsderau, y rhai a'n harweinient ni at yr ymchwiliadau mwyaf dyrus, a chan mai y dybiaeth am angenrheidrwydd ydyw y sail ar ba un y mae anffyddiaeth yn sefyll, byddai, efallai, yn fuddiol dwyn yn mlaen brawf mwy penodol dros rwymedigaethau crefydd, yr hwn y gellid dangos yn ddiammheuol nad yw yn cael ei ddinystrio gan y syniad hwn.

Nid yw y prawf oddi wrth ol-achosion fod Awdwr deallgar i natur, yn cael ei anmharu gan y syniad am angenrheidrwydd; a thybied fod angenrheidrwydd yn beth posibl ynddo ei hun, ac yn gysson â threfn pethau. Ac y mae yn bwnc o ffaith, annibynol ar yr ymchwiliad yma, neu unrhyw un arall, ei fod yn llywodraethu y byd trwy wobrau a chospau; a'i fod hefyd wedi rhoddi i ni allu moesol, trwy yr hwn yr ydym yn gwahaniaethu rhwng gweithredoedd a'u gilydd—yn cymmeradwyo rhai fel yn rhinweddol a theilwng, ac yn condemnio ereill fel yn ddrygionus ac annheilwng. Yn awr, y mae y ddirnadaeth foesol yma yn cynnwys neu yn tybied, yn y syniad o honi, reol gweithrediad, a hono yn rheol o natur tra arbenig; o blegid y mae yn cynnwys ynddi awdurdod, a hawl i reoli a chyfarwyddo—awdurdod yn y cyfryw fodd nas gallwn wyro oddi wrthi heb fod yn hunan-gondemnedig. A bod cyfarwyddiadau y gallu moesol yma, y rhai ydynt wrth naturiaeth yn rheol i ni, yn ddeddfau Duw

¹ Pen. ii.

hefyd, yn ddeddfau mewn ystyr sydd yn cynnwys cadarnhâd iddynt, a ellir ei brofi fel hyn. Y mae ymwybyddiaeth o reol gweithrediad, mewn creaduriaid sydd yn alluog i'w hystyried fel wedi ei rhoddi iddynt gan eu Creawdwr, nid yn unig yn cynyrchu teimlad o ddyledswydd, ond hefyd deimlad o ddiogelwch wrth ei dilyn, ac o berygl wrth wyro oddi wrthi. Y mae cyfarwyddyd Awdwr natur, i greaduriaid sydd yn alluog i edrych arno fel y cyfryw, yn ymddangos yn amlwg yn orchymyn oddi wrtho; ac y mae gorchymyn oddi wrtho ef yn cynnwys, o angenrheidrwydd, addewid am ufudd-dod, neu fygythiad am anufudd-dod. Ond y mae y teimlad neu y syniad am haeddiant da a drwg, yr hyn sydd yn gynnwysedig yn y ddirnadaeth foesol, yn gwneyd y cadarnhâd yn eglur, ac yn peri iddo ymddangos mor amlwg a phe buasai wedi ei osod allan mewn geiriau. O blegid, gan mai trefn ei llywodraeth ydyw gwobrwyo a chospi gweithredoedd, y mae y ffaith ei fod wedi cyssylltu â rhai gweithredoedd syniad anwahanedig o haeddiant, ac âg ereill syniad o ddrwg haeddiant, yn fath o hysbysrwydd amlwg ar bwy y gweinyddir y cospau, ac ar bwy y gwobrau. O blegid y mae yn rhaid ei fod wedi rhoddi i ni y ddirnadaeth hon am bethau, fel rhagsyniad am yr hyn sydd i gymmeryd lle yn y byd arall; sef, mewn ffordd o raghysbysiaeth pa beth yr ydym i'w ddysgwyl ar ddiwedd ein bywyd yn y byd hwn. Y mae genym, gan hyny, y seiliau amlycaf i feddwl y ceir gweled fod llywodraeth Duw, ar y cyfan, yn cyfateb i'r natur a roddes efe i ni, ac y bydd, yn niwedd a therfyniad pethau, i ddedwyddwch ddilyn rhinwedd, a thrueni ganlyn drygioni; y cymmer hyn le mewn gwirionedd, fel y mae Awdwr natur eisioes, mewn dull mor arbenig, wedi cyssylltu y syniadau am danynt yn ein meddyliau. Ac oddi wrth hyn, gellid casglu yn hawdd ein rhwymedigaethau i ymarfer âg addoliad crefyddol, wrth yn unig ei ystyried fel moddion i gadw ar ein meddyliau deimlad o'r llywodraeth yma y mae Duw yn ei dwyn yn mlaen arnom, a sicrhau ein hufudd-dod iddi; yr hyn, eto, nid yw ond golwg dra anmherffaith ar y ddyledswydd hono.

Yn awr, nis gall un wrthddadl oddi wrth angenrheidrwydd filwrio yn erbyn y prawf cyffredinol hwn o blaid crefydd—yr un yn erbyn y gosodiad yr ymresymwyd arno, ein bod yn feddiannol ar y cyfryw allu a dirnadaeth moesol; o blegid nid yw hyn yn amgen na phwnc o ffaith a phrofiad, fod dynolryw wedi eu ffurfio yn y modd yma: nac yr un yn erbyn y casgliad; o blegid y mae yn gasgliad uniongyrchol a hollol oddi wrth y ffaith hon. O blegid nid yw y casgliad y bydd i Dduw yn y diwedd wobrwyo y cyfiawn a chospi y drygionus, yn cael ei dynu yma

oddi wrth yr ystyriaeth ei fod yn ymddangos i ni yn briodol¹ iddo wneyd, neu y *dylai wneyd*; ond oddi wrth fod yn ymddangos ei fod wedi ein hysbysu y *gwna*. Ac y mae wedi hysbysu hyn i ni yn yr addewid a'r bygythiad ag y mae, fel y sylwyd, y drychfeddwl o orchymyn yn arwyddo, a'r syniad am haeddiant a drwghaeddiant a roddes efe i ni yn eu mynegu yn fwy eglur. Ac y mae ymresymu fel hyn oddi wrth ffaith yn cael ei gadarnhau, ac i raddau ei brofi yn gywir, gan ffeithiau ereill—gan dueddiadau naturiol rhinwedd a drygioni; a chan y ffaith fod Duw, yn nghwrs naturiol ei ragluniaeth, yn cospi gweithredoedd drygionus fel yn niweidiol i gymdeithas, ac yn cospi gweithredoedd drygionus hefyd, fel y cyfryw, yn yr ystyr cyfyngaf. Fel hyn, y mae y prawf cyffredinol o blaid crefydd yn wirionedd anatebadwy, hyd yn oed ar y dybiaeth afreolaidd yr ydym yn ymresymu arni.

Y mae yn ofynol i ni sylwi, yn mhellach, fod gan grefydd naturiol, heblaw hyn, brawf allanol, yr hwn nas gallai athrawiaeth angenrheidrwydd, pe bai yn wir, ei anmharu. O blegid, medd ylier fod dyn, trwy y sylwadau a'r ymresymiad uchod, neu rhyw rai ereill, yn cael ei argyhoeddi am wirionedd crefydd—bod Duw, yr hwn a wnaeth y byd, yr hwn sydd lywodraethwr moesol, a barnwr dynolryw, ac a dâl i bob un yn ol ei weithredoedd; tybier, meddaf, am un wedi ei argyhoeddi o hyn trwy reswm, ond ar yr un pryd yn gwbl anwybodus am yr hen amseroedd, neu am sefyllfa bresennol dynolryw, byddai yn naturiol i'r cyfryw un fod yn ymofyngar o barth i hanes y gyfundrefn hon o athrawiaeth—ar ba amser, ac yn mha ddull y daeth gyntaf i'r byd, ac a dderbyniwyd hi gan ran fawr o hono. A phe bai efe, wrth wneuthur ymchwiliad, yn cael allan mai rhyw berson mewn oes

¹Yr ydwyf, fodd bynag, yn mhell oddi wrth wadu fod ewyllys Duw yn cael ei phenderfynu gan yr hyn sydd briodol—gan iawnder a rheswm y peth, er fy mod yn dewis osgoi cwestiynau o'r fath nodwedd ddamcanol, a llefaru gyda gofal am danynt. Ond os ydyw yn ddealladwy dyweyd, ei *fod yn briodol a rhesymo*, i bob un i ystyried ei hapusrwydd ei hunan, yna, y mae priodoldeb neu gyhwysder gweithrediad, neu iawnder a rheswm y peth (*fitness of action, or the right and reason of the case*) yn ddull dealladwy o lefaru. Ac y mae yn ymddangos yn beth mor annichonadwy tybied fod Duw yn cymmeradwyo un cwrs o weithrediad, neu un dyben yn hytrach na'r llall—yr hyn beth y mae ei fod yn gweithredu oddi ar fwriad yn dangos ei fod yn ei wneuthur—heb dybied fod rhywbeth yn flaenorol yn yr amcan hwnw yn sail dros rodde y flaenoriaeth iddo, ag ydyw tybied ei fod yn dirnad fod rhyw osodiad dansoddol yn wir heb dybied fod rhywbeth yn flaenorol yn y gosodiad yn sail a rheswm i'r ddirnadaeth. Nid yw yn ymddangos, gan hyny, fod iawnder moesol yn ddim mwy perthynasol ganfyddiad nag ydyw gwirionedd dansoddol; neu nad ydyw yn ddim mwy amhriodol llefaru am gymhwysder ac iawnder gweithredoedd ac amcanion, fel yn gorwedd yn natur pethau, nag am wirionedd dansoddol fel wedi eu seilio felly [sef ar natur pethau].

ddiweddar, a'i cynnygiodd gyntaf fel casgliad oddi wrth reswm, a bod dynolryw cyn hyny yn gwbl anwybodus am dani; yn awr, er yr arosai y prawf trwy reswm yr un, eto, ni ddeuai un tebygolrwydd chwanegol o'i gwirionedd oddi wrth yr hanes am ei darganfyddiad. Ond yn lle bod fel hyn, i'r gwrthwyneb, deuai o hyd i bethau nas gallent lai na gwasanaethu er cadarnhau ei gwirionedd iddo:—*Yn gyntaf*, Fod rhanau o'r gyfundrefn hon, gyda mwy neu lai o chwanegiadau a newidiadau, wedi derbyn crediniaeth yn mhob oes a gwlad, am y rhai y mae genym raddau o wybodaeth o berthynas i'r mater hwn. *Yn ail*, Ei bod yn ffaith hanesyddol, mor bell ag y gallwn ni olrhain pethau, fod yr holl gyfundrefn yma—fod un Duw, Creawdwr a Llywodraethwr moesol y byd, a bod dynolryw mewn ystâd o grefydd—wedi ei derbyn yn yr oesoedd boreuaf. Ac, *yn drydydd*, Gan nad oes un crybwylliad neu awgrym mewn hanesiaeth mai ffrwyth ymresymiad oedd y gyfundrefn hon ar y cyntaf, felly y mae prawf hanesiol neu draddodiadol pendant, mor hen a hanesiaeth ei hun, ei bod wedi ei hysbysu yn gyntaf trwy ddadguddiad. Yn awr, rhaid addef fod cryn bwys yn y pethau hyn. Y mae y cyntaf o honynt—cydsyniad cyffredin—yn dangos fod y gyfundrefn hon yn gydunol â synwyr cyffredin dynolryw. Nis gall yr ail—sef fod crefydd yn cael ei chredu yn oesoedd boreuaf y byd, yn enwedig gan nad ymddengys fod unrhyw chwanegiadau ofer-goelus neu gau yn perthyn iddi y pryd hyny—lai na bod yn gadarnhad pellach o'i gwirionedd. O blegid y mae yn brawf o un o ddau beth—naill ai ei bod wedi dyfod i'r byd trwy ddadguddiad, neu ei bod yn naturiol, eglur, ac yn cymhell ei hun i'r meddwl. Y cyntaf o'r rhai hyn ydyw penderfyniad dynion dysgedig. A phwy bynag a ystyria pa mor anghyfaddas ac annhueddol i ymchwiliad ydyw dynion diddysg ac anniwylliedig, a deimla hyn yn gogwyddo ei feddwl i gredu mai y golygiad hwn ydyw y tebycaf i wirionedd. Ac fel y dangosir yn yr ail ran¹ o'r traethawd hwn—nad oes un rhith o sail yn erbyn dadguddiad yn nechreu y byd o'r fath a dybir y sydd yn erbyn dadguddiadau canlynol—nis gallai am-mheuwyr, yr wyf yn meddwl, roddi un cyfrif, a ymddangosai hyd yn oed iddo ef yn fwy tebygol, am yr honiadau a wneid yn yr oesoedd boreuaf i ddadguddiad, na thybied fod rhyw wir ddadguddiad gwreiddiol, o'r hwn y cawsant oll eu copio. A'r trydydd peth a grybwyllwyd eisoes—sef, bod prawf hanesyddol pendant mor hen a hanesiaeth fod cyfundrefn crefydd wedi ei haddysgu i ddynolryw trwy ddadguddiad—rhaid addef fod hyn yn brawf gwirioneddol, i ryw raddau, mai felly y dysgwyd hi.

¹ Pen. ii.

O blegid pa ham na dderbynir y traddodiad hynaf fel prawf chwanegol o ffaith, yn erbyn yr hon nid oes dadl ddigonol? Ac y mae y prawf hwn yn cael ei grybwyll yma, am fod grym ynddo i ddangos fod crefydd wedi dyfod i'r byd trwy ddadguddiad, yn flaenorol i bob ystyriaeth o awdurdod pendant unrhyw lyfr a dybir sydd yn cynnwys y dadguddiad hwnw; a hyd yn oed yn flaenorol i bob ymchwiliadau ac ystyriaeth, pa un a ydyw y dadguddiad ei hun wedi ei drosglwyddo i lawr yn ddilwgr, ynte a ydyw wedi ei gymmysgu a'i dywyllu â chwedlau. Fel hyn, y mae y cyfrif hanesiol sydd genym am darddiad crefydd, a chymmeryd i mewn yr holl amgylchiadau, yn gadarnhad sylweddol o'i gwirionedd, yr hwn ni effeithir arno yn y mesur lleiaf gan y dybiaeth am angenrheidrwydd. Ac y mae y prawf *allanol*, hyd yn oed o grefydd naturiol, heb fod mewn un modd yn fychan a dibwys.

Ond dylid sylwi yn ofalus, a chadw mewn cof ar ol pob prawf a ellir ei ddwyn yn mlaen o blaid rhinwedd a chrefydd, mai fel y gall rheswm ymchwilgar gael ei esgeuluso, ei gamarwain, a'i dwyllo, felly hefyd y gall ein dealltwriaeth moesol gael ei amharu a'i wŷrdroi, a'i gyfarwyddiadau fethu cael gwrandawriad anmhleidgar. Nid yw hyn, yn wir, yn profi dim yn erbyn cywiredd a gwerth ein galluoedd ymchwilgar, neu ein rhai ymarferol—yn erbyn y ffaith eu bod wedi eu bwriadu gan natur i'n haddysgu yn rheswm pethau, a'n cyfarwyddo pa fodd i ymddwyn, a pha beth yr ydym i'w ddysgwyl fel canlyniad ein hymddygiadau. Eto, y mae yr ystyriaeth ein bod yn agored i ddylanwad rhagfarn a gŵyrdroad, yn rhybudd o'r math mwyaf difrifol i ni i fod ar ein gocheliad, gyda golwg ar yr hyn sydd o'r fath ganlyniad ag ydyw ein penderfyniadau o barth i rinwedd a chrefydd; ac yn neillduol yn erbyn cymmeryd arferiad a ffasiwn, a syniadau gwag am anrhydedd, neu ddychymygion am esmwythyd a lles presennol, a mantais i ereill, a'r cyffelyb, fel yr unig reol foesol.

Mae y sylwadau blaenorol, wedi eu cymmeryd oddi wrth natur y peth ac oddi wrth hanes crefydd, yn gwneyd, wrth eu cymmeryd gyda'u gilydd, gwir brawf ymarferol o'i phlaid, rhy anhawdd i'w wrthateb; a'r cyfryw brawf, wrth ystyried pwysigrwydd anfeidrol y mater, ag a ystyrid yn ddigon cryf i reoli gweithredoedd dynion sydd yn gweithredu oddi ar ystyriaeth a phwyll, pe caniateid nad oes un prawf i'r gwrthwyneb. Ond efallai y dywedir, "Fod llawer o debygoliaethau yn bod, y rhai nis gellir yn wir eu gwrthbrofi, neu ddangos nad ydynt yn debygoliaethau o gwbl, ond eto y gellir eu gorbwyso trwy debygoliaethau cryfach ar yr ochr arall, a llawer mwy trwy brawf penodol. Ac nid oes

achos dadleu yn erbyn rhesymau neillduol a ddygir yn mlaen dros opiniwn, pan y gellir dangos yn eglur fod yr opiniwn e' hun yn anghywir, heb ymyrd dim â'r cyfryw resymau. Yn awr, y mae yn rhaid fod llywodraeth, trwy wobrwyo a chospau, ac yn enwedig trwy wobrwyo a chospi haeddiant a drwghaeddiant, fel y cyfryw, yn gorphwys ar y dybiaeth ein bod yn rhydd, ac nid yn rhwym. Ac y mae yn beth anghredadwy fod Awdwr natur yn ein llywodraethu ar dybiaeth, fel pe bai yn wir, yr hon y gŵyr ef nad yw felly;¹ ac am hyny, y mae yn afresymol meddwl y bydd iddo ef ein gwobrwyo a'n cospi am ein gweithredoedd mewn byd arall; yn enwedig, y gwna efe hyny ar bwys y syniad eu bod yn cynnwys haeddiant a drwghaeddiant." Yn awr, y mae y pwnc wedi dyfod yma i ryw bwynt. Ac y mae yr atebiad i hyn oll yn gyflawn, ac anmhosibl i'w osgoi; sef, fod holl gyfansoddiad a chwrs pethau—holl gyfatebiaeth rhaglun iaeth—yn dangos tu hwnt i ddadl fod y casgliad oddi wrth yr ymresymiad hwn yn anghywir, yn mha le bynag y llecha y twyll-resymiad. Y mae athrawiaeth rhyddid yn dangos yn amlwg yn mha le y mae y twyll-resymiad—sef yn y dybiaeth ein bod yn rhwym; pan, mewn gwirionedd, yr ydym yn rhydd. Ond, ar y dybiaeth o angenrheidrwydd, gorwedda y twyll yn y gwaith o gymmeryd yn ganiataol ei fod yn beth anghredadwy fod gweithredydd rhwym yn cael ei wobrwyo a'i gospi. Ond bod y casgliad, y naill ffordd neu y llall, yn anghywir, sydd yn berffaith sicr.² O blegid y mae yn ffaith fod Duw yn llywodraethu, hyd yn oed greaduriaid direswm, trwy y drefn o wobrwyo a chospau, yn nghwrs naturiol pethau. Ac y mae dynion yn cael eu gwobrwyo a'u cospi am eu gweithredoedd; eu cospi am weithredoedd niweidiol i gymdeithas, fel y cyfryw; eu cosp

[¹Y mae Hume yn myned mor bell ag i haeru, er fod dyn, mewn gwirionedd, yn weithredydd rhwym—ei holl amgylchiadau yn cael eu penderfynu gan ddeddfau sefydlog; eto, am fod hyn yn guddiedig oddi wrtho ef, ei fod yn gweithredu gyda'r darbwyllyd ei fod yn rhydd-weithredydd: ond byddai tybied hyn, fel yr awgryma Butler, yn ddianrhydedd ar y Goruchaf. Y mae Efe yn ein llywodraethu fel pe baem yn rhyddion—yn feddiannol ar wir a chyflawn ryddid i ddewis neu wrthod, i benderfynu y ffordd yma neu y ffordd arall; ac y mae y ffaith ei fod ef yn ein llywodraethu fel creaduriaid rhyddion yn brawf ein bod yn feddiannol ar ryddid. Y mae duwiol barch at gymmeriad "Duw y gwirionedd" yn ein gorfodi i wneuthur y casgliad.]

[²Sylwer ar y frawddeg hon:—"Ond bod y casgliad, y naill ffordd neu y llall, yn anghywir, sydd berffaith sicr." Gellid gosod dadl y tyngedwr i lawr mewn cyfresymiad, fel yn:—Nis gall gweithredwyr rhwym gael eu cospi gan Dduw: yr ydym ni yn weithredwyr rhwym; gan hyny, nis gallwn gael ein cospi gan Dduw. Yn awr, os ydym yn rhydd-weithredwyr, y mae y gosodiad lleiaf (yr ydym ni yn weithredwyr rhwym) yn gau; os ydym yn weithredwyr rhwym, yna y mae y gosodiad mwyaf (y cyntaf) yn gau; o blegid y mae yn ffaith ein bod yn cael ein cospi a'n gwobrwyo.]

am weithredoedd drygionus, fel y cyfryw, trwy offerynoliaeth naturiol y naill y llall, o dan weinyddiad presennol rhagluniaeth. Iē, hyd yn oed y teimlad o ddiolchgarwch, a'r nwyd o ymddial, a'r gwobrwyon a'r cospau sydd yn eu dilyn, y rhai ydynt i'w hystyried yn naturiol; *h. y.*, yn dyfod oddi wrth Awdwr natur—a'r gwobrwyon a'r cospau hyn yn naturiol gyssylltiedig â gweithredoedd o fwriad a haeddiant da, a bwriad a haeddiant drwg: y mae y gwobrwyon a'r cospau naturiol hyn, meddaf, yn dangos anghywirdeb y casgliad uchod yn gymmaint ag a wnaï trefn fwy cyflawn a manwl o wobrwyo a chospi gweithredoedd daionus a drygionus, fel y cyfryw. Felly, os ydyw yn beth anghredadwy fod gweithredwyr rhwym yn cael eu gwobrwyo a'u cospi, yna, nid yw dynion yn rhwym, ond yn rhydd; o blegid y mae yn ffaith eglur eu bod yn cael eu gwobrwyo a'u cospi. Ond os yn y gwrthwyneb—yr hyn yw y dybiaeth yr ydym yn ymresymu arni—y dadleuir fod dynion yn rhwym, yna, nid oes dim yn anghredadwy yn y dybiaeth bellach o fod gweithredwyr rhwym yn cael eu gwobrwyo a'u cospi; o blegid fel hyn yr ymddygir atom ni ein hunain.

Y mae yn canlyn, gan hyny, oddi wrth y cwbl, nad ydyw yr angenrheidrwydd a dybir yn bosibl, ac yn unol â threfn pethau, mewn un modd yn profi na wna Awdwr natur—nac yn dinystrio y prawf y gwna—yn niwedd y ffurf bresennol o'i lywodraeth, ei greaduriaid yn ddedwydd neu yn druenus, trwy ryw foddion, yn ol fel yr ymddygant yn dda neu ddrwg. Neu, ac adrodd y casgliad hwn mewn geiriau cyffelyb i deitl y bennod hon, y mae cyfatebiaeth natur yn dangos i ni fod y dyb am angenrheidrwydd, wrth ei hystyried yn ymarferol, yn anghywir. Ac os nad yw angenrheidrwydd, ar y dybiaeth rag-grybwylledig, yn dinystrio y prawf o blaid crefydd naturiol, y mae yn amlwg nad ydyw yn gwneuthur un cyfnewidiad yn mhrawf crefydd ddadguddiedig.

Oddi wrth y pethau hyn hefyd, gallwn ddysgu yn mha ystyr i ddeall yr haerid cyffredinol hwnw—fod y syniad am angenrheidrwydd yn rhwym o fod yn niweidiol ac andwyol i bob crefydd:—*yn gyntaf*, mewn ystyr ymarferol; fod dynion o duedd atheistaidd yn cymmeryd arnynt galonogi eu hunain mewn drygioni, ac yn cyfiawnhau i ereill eu difaterwch tuag at bob crefydd:—ac, *yn ail*, yn yr ystyr cyfyngaf; ei fod yn wrthddywediad i holl gyfansoddiad natur, ac i'r hyn y gallwn bob mynyd ei brofi ynom ein hunain, ac felly yn dadymchwel bob peth.¹

[¹Y mae yn amlwg fod angenrheidrwydd, mewn un ystyr—sef yn yr ystyr fod dynion yn gweithredu oddi ar ddirgymhelliad a gorfodaeth—yn anghymmodlawn & natur profiad, a chrefydd:—yn ngeiriau Butler, “y mae yn dadymchwel pob

Ond nid yw yr haerriad hwn mewn un modd i'w ddeall fel pe na bai angenrheidrwydd—pe tybid y gellid ei gymmodi â chyfansoddiad pethau, ac â'n profiad ni ein hunain—yn bosibl hefyd i'w gymmodi â chrefydd; o blegid ar y dybiaeth hon, y mae yn hawdd gweled ei fod fellv.

PENNOD VII.

AM LYWODRAETH DUW, YN CAEL EI HYSTYRIED FEL TREFN,
NEU GYFANSODDIAD, SYDD YN CAEL EI DIRNAD
YN ANMHERFFAITH.

Er nas gellir llai nag addef fod cyfatebiaeth natur yn gweini tebygolrwydd cryf o blaid crefydd yn gyffredinol, a'r amrywiol bethau neillduol a gynnwysir ynddi, wrth eu hystyried fel ffeithiau, a'i fod hefyd yn dangos nad yw y tebygolrwydd hwn yn cael ei ddinystrio gan unrhyw syniadau am angenrheidrwydd; ar yr un pryd, y mae yn bosibl i wrthddadleuon gael eu dwyn yn mlaen yn erbyn doethineb, uniondeb, a daioni y llywodraeth ddwyfol, a gynnwysir yn y drychfeddwl o grefydd, ac yn erbyn trefn gweinyddiad y llywodraeth hon; ac i'r gwrthddadleuon hyn, nis gall cyfatebiaeth roddi atebiad uniongyrchol.¹ O blegid nid yw tebygolrwydd, neu gwbl sicrwydd, unrhyw bwnc o ffaith, yn profi yn uniongyrchol ddim o barth ei ddoethineb neu ei ddaioni; ac nis gall cyfatebiaeth wneyd mwy, mewn ffordd

peth;" ond yn yr ystyr arall, sef fod gweithredoedd dynion yn cael eu rhagweled, ac felly, fel y profa Jonathan Edwards, yn angenrheidiol; neu yn yr ystyr fod gweithredoedd dynion yn gynnyrchion dylanwadau ac achosion, megys eu tueddiadau naturiol eu hunain, a'r tueddiadau grasol a blenir ynddynt gan ddylanwad dwyfol: nid yw yn anghydwedol â hwynt. "Y mae angenrheidrwydd, wrth ei iawn ddeall," medd Dr. Chalmers, "yn lle rhoddi attalfa ar alluoedd a bwriadau dyn, neu ddinystrio ei rydd-ewyllys, yn ei adael fel o'r blaen yn greadur prysur a thrafferthus."

[¹Os gwrthddadleuir yn erbyn y ffaith fod llywodraeth foisol yn bod, gellir ateb hynny trwy ddangos fod *dechreuad* y llywodraeth hono i'w gweled yn bresennol yn y byd o'n hamgylch. Gwneir hyn gan yr awdwr yn *pen. iii.* Ond y mae yn bosibl cyfodi gwrthddadleuon, nid yn unig yn erbyn y ffaith o'i bod, ond hefyd yn erbyn ei *nodwedd moesol perffaith*. A chaniatau fod llywodraeth foisol yn bod, gellir, wedi hynny, haeru nad yw yn llywodraeth ddoeth, cyfiawn, a da. Yn awr, dywed Butler nas gall cyfatebiaeth ddwyn atebion *uniongyrchol* i'r cyfryw wrthddadleuon. Ond gall ddwyn yn mlaen atebion *anuniongyrchol* iddynt. Un o'r rhai hyn ydyw ein dirnadaeth anmherffaith am gyfundrefn mor eang. Y mae dwy ddadl yn cael eu harfer dros hyn: cymmerir y naill oddi wrth y cyfatebiaeth cyffredinol sydd yn bod rhwng llywodraeth naturiol a llywodraeth foisol Duw: y llall oddi wrth gyfatebiaethau neillduol sydd yn bod rhyngddynt.]

uniongyrchol, na dangos fod unrhyw beth yn wir neu gredadwy, yn unig fel pwnc o ffaith. Ond eto, os ydyw cyfatebiaeth, oddi ar y dybiaeth am gyfansoddiad moesol mewn natur, a llywodraeth foesol ynddi, yn dangos y rhaid i'r llywodraeth hon fod yn gyfansoddiad neu drefn o lywodraeth, ac nid yn nifer o actau unigol anghyssylltiol o uniondeb a daioni yn cael eu gweinyddu; ac y rhaid iddi hefyd fod yn drefniant, yn cael ei deall mor anmherffaith, ac yn gyfryw o ran pethau ereill, ag i weini atebiad uniongyrchol, cyffredinol, i bob gwrthddadl yn erbyn ei huniondeb a'i daioni—yna, y mae cyfatebiaeth, mewn ffordd anuniongyrchol, o wasanaeth mawr tuag at ateb y gwrthddadleuon hyny, trwy awgrymu yr atebiad, a dangos ei fod yn atebiad credadwy.

Yn awr, gellid gweled, wrth wneyd ymchwiliad, mai fel hyn y mae yn bod. O blegid, *yn gyntaf*, ar y dybiaeth fod Duw yn cario yn mlaen lywodraeth foesol ar y byd, y mae cyfatebiaeth ei lywodraeth naturiol yn dangos y rhaid fod ei lywodraeth foesol yn gyfansoddiad uwch law ein dirnadaeth; ac y mae hyn yn cynnwys atebiad cyffredinol i bob gwrthddadl yn erbyn ei huniondeb a'i daioni. Ac, *yn ail*, dangosir yn mhellach, trwy sylwi yn fanylach ar ryw bethau neillduol a gynnwysir yn llywodraeth naturiol Duw—a thybied, trwy gyfatebiaeth, fod pethau cyffelyb yn perthyn i'w lywodraeth foesol—pa mor lleied o bwys sydd i'w roddi ar y gwrthddadleuon hyn.

I. Ar y dybiaeth fod Duw yn dwyn yn mlaen lywodraeth foesol ar y byd, y mae cyfatebiaeth ei lywodraeth naturiol yn dangos y rhaid i'w lywodraeth foesol fod yn drefniant tu hwnt i'n dirnadaeth; ac y mae hyn yn cynnwys atebiad cyffredinol i bob gwrthddadl yn erbyn ei huniondeb a'i daioni. Y mae yn berffaith amlwg, ac y mae cyfatebiaeth yn brawf o hyny, y rhaid, ar y dybiaeth o lywodraeth foesol, iddi fod yn drefniant neu gynllun; o blegid y mae y byd, a'r llywodraeth naturiol arno, yn ymddangos felly—sef yn gynllun, cyfundrefn, neu gyfansoddiad, rhanau pa un sydd yn cyfateb i'w gilydd, ac i'r cyfan, mor wirioneddol ag unrhyw waith o eiddo celfyddyd, neu unrhyw gynllun neillduol o gyfansoddiad gwladol, neu lywodraeth. Yn nghynllun mawr y byd naturiol, y mae personau yn sefyll mewn amrywiol berthynasau â phersonau ereill o'u rhywogaeth eu hunain. Ac yr ydym yn canfod fod rhywogaethau cyfain yn dwyn perthynas, mewn amrywiol dulliau, â rhywogaethau ereill ar y ddaiar. Ac nid ydym yn gwybod pa faint yn mhellach y gall y mathau hyn o berthynasau gyrhaedd. Ac fel nad oes un weithred neu ddygwyddiad naturiol, â pha un yr ydym yn gyd-

nabyddus, mor anghyssylltiol, ac yn gymmaint ar ei phen ei hun, fel nad yw yn meddu perthynas â rhyw weithredoedd neu ddygwyddiadau ereill, felly, mae yn bosibl fod rhwng pob un o honynt berthynas naturiol bell â gweithredoedd a dygwyddiadau ereill, oddi allan i gylch y byd hwn, pan nas gellid gweled fod un berthynas agos uniongyrchol rhyngddynt. Nid ymddengys, mae yn wir, fod dim yn ein hawdurdodi hyd yn oed i ddyfalu fod perthynas rhwng yr holl greaduriaid, gweithredoedd, a dygwyddiadau, trwy holl naturiaeth. Ond, fel y mae yn eglur fod gan bob dygwyddiad ganlyniadau dyfodol, na wyddys am danynt, felly, os olrheiniwn un o honynt mor belled ag y gallwn at yr hyn sydd yn gyssylltiedig âg ef, ni a ganfyddwn, pe na buasai y cyfryw ddygwyddiad yn gyssylltiedig â rhywbeth pellach mewn natur, anhysbys i ni, rhywbeth yn y mynedol a'r presennol, nas gallasai y dygwyddiad hwnw gymmeryd lle o gwbl. Nis gallwn chwaith roddi esboniad cyflawn ar ddim—rhoi cyfrif am ei holl achosion, amcanion, a'i amgylchiadau angenrheidiol, sef yr amgylchiadau hyny heb y rhai nis gallasai fod. Trwy y cyssylltiad rhyfedd hwn, y berthynas a'r cydrediad sydd rhyngddynt a'u gilydd, y mae pob peth yn nghwrs natur yn cael ei ddwyn oddi amgylch. A gwelir yn barhaus fod y pethau sydd yn ymddangos y mwyaf dibwys yn ammodau angenrheidiol i bethau ereill sydd o'r pwysigrwydd mwyaf; fel y gall unrhyw beth, am ddim a wyddom i'r gwrthwyneb, fod yn ammod angenrheidiol i beth arall. Felly, gan fod y byd naturiol, a'r llywodraeth naturiol arno, yn drefniant mor anamgyffredadwy fel nad yw y dyn hwnw yn gwybod, mewn gwirionedd, ddim, sydd heb ei argyhoeddi o'i anwybodaeth am dani; y mae hyn yn dangos yn eglur y gall y byd a'r llywodraeth foisol fod felly hefyd. Ac yn wir, y mae cyfansoddiad naturiol a moesol y byd mor gysyllteidig â'u gilydd, fel ag i wneyd yn nghyd ond un trefniant; ac y mae yn dra thebygol mai yn unig er mwyn, ac yn ddarostyngedig i'r diweddaf y mae y cyntaf yn cael ei ddwyn yn mlaen, fel y mae y byd llysieuol er mwyn y byd anifeilaidd, a chorff er mwyn y meddwl. Ond heb i ni ymholi pa mor bell y mae llywodraeth y byd naturiol yn ddarostyngedig i'r eiddo y byd moesol, yr hyn a fwriedir yma yn unig ydyw sylwi ar y tebygolrwydd cryf fod y naill yn gyfatebol i'r llall; ac am hyny, y gellid meddwl fod pob act o eiddo cyfiawnder a daioni dwyfol yn edrych y tu hwnt iddi ei hun, a'i gwrthddrych uniongyrchol; fod ganddi ryw gyfeiriad at ranau ereill o lywodraeth foisol Duw, ac at gynllun moesol cyffredinol; a bod pob amgylchiad perthynol i'w lywodraeth foisol yn cael ei ragdrefnu gyda

golwg ar y llywodraeth yn yr oll o honi. Er esampl: parhad rhagderfynedig yr amser, y graddau, a'r ffyrdd y mae rhinwedd i aros mewn sefyllfa o ymryson a dysgyblaeth, ac y mae drygioni yn cael ei oddef i fyned rhagddo; yr adegau appwyntiedig i weinyddu cyfiawnder; yr offerynau gosodedig i hyny; y mathau o wobrau a chospau; a'r dulliau y telir hwy; pob anghreifftau neillduol o gyfiawnder a daioni Duw, a'u holl amgylchiadau;—gall fod yr holl bethau hyn yn dwyn y fath berthynas â'u gilydd, fel ag i wneyd un cynllun neu drefniant cyfan, yn gyssylltiedig yn ei holl ranau; a hwn yn gynllun mor briodol felly ag ydyw y byd naturiol, ac yn gyffelyb yn ei natur iddo. Ac, a thybied mai fel hyn y mae yn bod, y mae yn bur amlwg nad ydym ni yn greaduriaid cymhwys i farnu y trefniant hwn, oddi wrth y rhanau bychain o hono sydd yn dyfod i'n golwg yn y bywyd hwn; ac am hyny, nis gall gwrthddadleuon yn erbyn un o'r rhanau hyn gael llawer o sylw oddi wrth ddynion synwryol.

Y mae ein hanwybodaeth, a'r casgliad uchod oddi wrtho, yn cael eu haddef yn gyffredinol ar achlysuron ereill; ac er nad ydynt yn cael eu gwadu braidd gan neb, eto y maent yn cael eu hanghofio gan bawb pan ä dynion i ddadleu yn erbyn crefydd. Ac nid yw yn beth hawdd, efallai, hyd yn oed i'r dynion mwyaf synwryol i gadw bob amser yn eu meddwl faint ein hanwybodaeth, a gwneyd caniatâd priodol o'r herwydd. Ac ar y cyfrifon hyn, ni byddai yn anfuiddiol myned rhagom ychydig yn mhellach, i'r dyben o ddangos yn fwy eglur pa mor deg a phriodol, fel atebiad i wrthddadleuon yn erbyn trefn rhagluniaeth, ydyw ein hanwybodaeth. Tybier, felly, fod rhywun yn haeru yn eofn fod y pethau y cwynir cymmaint o'u plegid, sef dechreuad a pharhad drygioni, yn gyfryw ag y gallesid yn hawdd eu lluddias, trwy fynych gyfryngiadau—cyfryngiadau yn cael eu gwneyd yn y fath fodd, fel ag i rwystro i bob niwed gyfodi oddi wrthynt; neu, pe bai hyny yn anmhosibl, fod *trefn* o lywodraeth ei hun yn anmherffeithrwydd; gan y gallasai mwy o ddaioni gael ei gynnyrchu, heb un drefn, neu gyfansoddiad, trwy actau unigol ac anghyssylltiol o gyfiawnder a daioni; o blegid na wnai y rhai hyny achlysuru afreoleidd-dra. Yn mhellach na hyn, y mae'n debyg na ddygir yn mlaen y gwrthddadleuon. Eto, y mae yr atebiad yn eglur:—pe byddai yr haeriadau hyn yn wir, eto byddai y sylwadau uchod o barth ein hanwybodaeth am drefniant y llywodraeth ddwyfol, a'r casgliad a dynir oddi wrth hyny, yn ddigon i amddiffyn crefydd yn ngwyneb pob gwrthddadl oddi wrth annhrefn yr ystâd bresennol. Pe bai yr haeriadau hyn yn wir, eto, byddai llywodraeth y byd yn uniawn a daionus er hyny; o blegid,

ar y mwyaf, ni ddangosent ddim mwy nag y gallasai fod yn llywodraeth well. Ond nid ydynt ond haeriadau disail; gan nad oes un dyn yn ddigon cydnabyddus â'r pethau a allent gymmeryd lle, i allu dwyn yn mlaen un prawf drostynt yn meddu y gradd lleiaf o debygolrwydd. O blegid pa mor bosibl bynag i gymmeryd lle yr ymddengys yr hyn a haerir uchod, eto, gellir dwyn lluwaws o anghreiffiau, mewn pethau agosach atom; o dybiau cwbl anmhosibl, ac yn cynnwys ynddynt y gwrthddywediadau amlycaf, y rhai nis gallai pob un eu gweled mewn un modd yn gyfryw; a'r rhai ni thybid felly, efallai, gan neb ar y golwg cyntaf. Oddi wrth y pethau hyn, y mae yn hawdd i ni weled yn eglur y modd y mae ein hanwybodaeth mewn gwirionedd yn atebiad boddhaol i bob gwrthddadl yn erbyn cyfiawnder a daioni rhagluniaeth. Pe bai un, wrth fyfyrion ar ryw un o oruchwyliaethau rhagluniaeth, yr hon oruchwyliaeth ni byddai yn dwyn cyssylltiad âg un arall, yn cyfodi gwrthddadl, sef ei fod yn gweled ynddi anmharch ar uniondeb, neu ddiffyg mewn daioni, nis gallai dim fod yn atebiad mwy anmhwyrpasol i'r cyfryw wrthddadl na dwyn yn mlaen ein hanwybodaeth mewn rhanau ereill o drefn rhagluniaeth, neu mewn pethau posibl, y rhai ni pherthynent yn y mesur lleiaf i'r hyn a fyddai yn destyn ei fyfyrdod. Ond pan na wyddom nas gall y rhanau y dadleuir yn eu herbyn fod yn gyssylltiedig â rhanau ereill anhysbys i ni, yna y mae ein hanwybodaeth yn atebiad boddhaol; o blegid gall fod rhyw berthynas anhysbys, neu anmhosiblwydd, na wyddom am dano, yn peri fod yr hyn y dadleuir yn ei erbyn yn uniawn a da; i.e., yn dda yn y graddau uchaf.

II. A pha mor lleied o bwys sydd i'w roddi ar y cyfryw wrthddadleuon, a ymddengys yn mhellach, trwy sylwi yn fwy manwl ar ryw bethau neillduol yn llywodraeth naturiol Duw, i'r rhai y gellir tybied, oddi wrth gyfatebiaeth, fod rhai cyffelyb iddynt yn ei lywodraeth foesol.

Yn gyntaf, Fel nad oes yn nghyfansoddiad y byd naturiol ddim dybenion yn cael eu cyrhaedd heb foddion, felly yr ydym yn cael fod moddion tra annymunol yn dwyn oddi amgylch yn fynych ddybenion sydd i'r fath raddau yn ddymunol, fel ag i orbwyso yn fawr annymunolder y moddion. Ac mewn achosion lle y mae y cyfryw foddion yn tueddu at y cyfryw ddybenion, nid heswm, ond profiad, sydd yn dangos i ni eu bod yn tueddu yn y cyfeiriad yma. Y mae profiad hefyd yn dangos fod llawer moddion yn wasanaethgar ac angenrheidiol i gyrhaedd dybenion y buasem yn meddwl yn flaenorol i brofiad y buasai y moddion hyn yn tueddu i'r gwrthwyneb. Yn awr, oddi wrth y sylwadau

hyn ar drefn y byd naturiol—a thybied hefyd fod cyfansoddiad y moesol yn gyfatebol—y mae tebygolrwydd cryf yn cyfodi, fod y ffaith ei fod wedi ei roddi yn ngallu dynion i wneyd eu gilydd yn druenus i'r graddau y mae, a gwneyd dynion yn agored i ddrygioni i'r un graddau ag yr ydym ni—ac, yn gyffredin, fod y pethau a ddadleuir yn erbyn cyfansoddiad moesol rhagluniaeth—ar y cyfan, yn wasanaethgar i rinwedd, ac yn cynnyrchu mwy o hapusrwydd nag o boen; hynny yw, dichon fod y pethau y dadleuir yn eu herbyn yn foddion i gynnyrchu, yn y diwedd, fesur helaethach o hapusrwydd. Gellir sylwi hefyd nad yw y ffaith ein bod ni heb weled y cyfryw duedd yn y moddion hyny, neu eu bod yn ymddangos i ni fel yn meddu tuedd wrthwyneb, yn un ddadl yn erbyn hyn. Fel hyn, gall y pethau a ystyriwn ni yn afreoleidd-derau beidio bod felly o gwbl, am y gallant fod yn foddion i gyrhaedd dybenion doeth a da. Ac fel y dywedwyd eisoes, gall mai hwy yw yr unig foddion trwy ba rai y gellir cyrhaedd y dybenion doeth a daionus hyn.

Ar ol gwneyd y sylwadau Llyn, y mae, efallai, yn briodol chwanegu—er mwyn rhagflaenu casgliad ffol a drygionus oddi wrth un o honynt—er fod cyfansoddiad ein natur, trwy yr hwn yr ydym yn alluog i gyflawnu drygioni ac i oddef trueni, yn gwasanaethu i berffeithrwydd a hapusrwydd y byd; ac er fod y goddefiad gweithredol o ddrygioni, efallai, yn fuddiol iddo (*h. y.*, buasai yn fwy niweidiol, nid fod dyn drygionus ei hunan yn ymgadw oddi wrth ei ddrygioni, ond fod arall wedi ei rwystro mewn modd gorfodol, na'i fod wedi ei oddef), ar yr un pryd, gallasai fod yn llawer gwell i'r byd pe buasai y drygioni hwn heb erioed ei wneuthur. Ie, y mae yn hawdd gweled y gall cyflawniad drygioni fod yn wasanaethgar i'r byd, ac eto y buasai yn annhraethol well i ddynion ymgadw oddi wrtho. O blegid, yn nghyfansoddiad doeth a da y byd naturiol, y mae clefydau yn dwyn eu meddyginiaeth eu hunain—mathau o afiechyd ag ydynt eu hunain yn feddyginiaeth. Buasai llawer un wedi marw oni buasai am y gymmalwst, neu glefyd; eto, meddylid y byddai yn ynfyd haeru fod afiechyd yn gyflwr gwell a pherffeithiach nag iechyd, er fod peth cyffelyb wedi ei ddywedyd gyda golwg ar y byd moesol. Ond,

Yn ail, Y mae llywodraeth naturiol y byd yn cael ei dwyn yn mlaen trwy ddeddfau cyffredinol. Dichon fod rhesymau doeth a da dros hyn—y rhesymau doethaf a goreu, am ddim a'r a wyddom ni i'r gwrthwyneb. Ac y mae cyfatebiaeth natur yn awgrymu fod y cyfryw resymau yn bod mewn gwirionedd. Dangosir hyn trwy ein bod yn gweled amcanion daionus yn cael eu

cyrhaedd, fel yn wir y mae yr holl ddaioni a fwynhawn yn cael ei gyrhaedd, trwy y moddion yma; sef, bod y deddfau yn ol parai y llywodraethir y byd yn ddeddfau cyffredinol. O blegid nid oes genym bron un math o fwyniant, ond yr hyn yr ydym ein hunain, yn y naill ffordd neu y llall, yn offerynol i'w gyrhaedd, trwy weithredu mewn ffordd a ragwelir genym fel yn debygol i'w feddiannu. Yn awr, nis gallai un feddu y rhagwellediad yma, mewn un modd, oni bai fod llywodraeth y byd yn cael ei dwyn yn mlaen trwy ddeddfau cyffredinol. Ac er y gallai, am ddim a wyddom i'r gwrthwyneb, fod pob achos unigol wedi cael rhagddarparu ar ei gyfer gan y rhai hyn, eto, gall y byddai rhagflaenu pob afreoleidd-derau, neu eu gwellhau pan ymddangosent, trwy y deddfau cyffredinol mwyaf doeth a da, yn anmhosibl yn ol natur pethau, fel yr ymddengys ei fod yn gwbl anmhosibl mewn llywodraeth wladol. Ond yr ydym yn barod i feddwl, er i drefn natur barhau yr un fath, ac i gwrs pethau fyned yn mlaen mewn pethau ereill fel y mae yn bresennol, eto, y gallasai fod cyfryngiadau neillduol i ragflaenu afreoleidd-derau, er nas gallesid eu rhwystro na'u gwellhau trwy ddeddfau cyffredinol. Ac yn wir, fe fyddai rheswm da i ddymuno—yr hyn sydd yn wahanol i ddyweyd fod genym hawl i ofyn hyny—am i bob afreoleidd-dra gael ei ragflaenu neu ei feddyginiaethu trwy gyfryngiadau presennol, pe na byddai gan y cyfryngiadau hyny un effaith heblaw hyn. Ond y mae yn amlwg y byddai iddynt ryw effeithiau annymunol, eglur ac uniongyrchol: megys, er esampl, cefnogent ddiogi ac esgeulusdra, a gwnaent reol naturiol ein bywyd yn rheol ammhëus, yr hon a gadarnheir trwy hyn—fod cwrs y byd yn cael ei ddwyn yn mlaen gan ddeddfau cyffredinol. Ac, yn mhellach, y mae yn sicr yr effeithient yn ddirfawr ar gyssylltiadau pell, trwy gyfrwng y berthynas ryfeddol a grybwyllwyd o'r blaen.¹ Fel hyn, nis gallwn gymmaint a dyfalu pa beth a fyddai holl ganlyniadau y cyfryngiadau a ddymunid. Dichon y dywedid y gellid attal unrhyw ganlyniad anhapus trwy gyfryngiadau pellach pan fyddai galwad am danynt: ond nid yw hyn eto yn amgen na siarad ar antur yn y tywyllwch. Ar y cyfan, gan hyny, yr ydym yn gweled fod rhesymau doeth pa ham y mae trefn y byd yn cael ei ddwyn yn mlaen trwy ddeddfau cyffredinol, ac amcanion daionus yn cael eu cyflawnu trwy y moddion yma: ac y mae, am ddim a wyddom, y rhesymau mwyaf doeth dros hyn, a'r amcanion goreu yn cael eu cyrhaedd yn ol y drefn bresennol. Nid oes genym sail i gredu y gellid gwellhau pob afreoleidd-derau wrth iddynt gyfodi, neu eu

¹ Tudal. 98, 99.

lluddias rhag cyfodi, trwy ddeddfau cyffredinol. Yr ydym yn gweled y cynnyrchai cyfryngiadau ddrwg, ac yr attalient ddaioni; ac nis gwyddom yn amgen na pharent fwy o ddrwg nag a ragflaenent, ac y rhwystrent fwy o ddaioni nag a gynnyrchent. Ac os ydyw yn bod fel hyn, yna y mae diffyg y cyfryngiadau hyn yn brawf ac yn arddangosiad o ddaioni, yn hytrach nag yn achos cwynfan a grwgnach. Y mae hyn yn ddealladwy, ac yn ddigon ar y mater; ac y mae myned yn mhellach y tu hwnt i gyrhaeddiad ein galluoedd.

Ond, gallai un ddywedyd, "fod, wedi y cwbl, y cyssylltiadau hyn, a'r pethau hyn a dybir sydd yn anmhosibl, yn bethau ag yr ydym yn anadnabyddus o honynt; ac y rhaid i ni farnu am grefydd, fel am bethau ereill, wrth yr hyn a wyddom, ac edrych ar y gweddill—y pethau yr ydym yn ddyeithr iddynt—megys dim; neu, fodd bynag, fod yr atebion a roddir yma i'r gwrthddadleuon yn erbyn crefydd yn gyfryw ag y gellir mor briodol eu defnyddio i wanhau y prawf o honi, gan fod eu nerth yn gorphwys yn gymmaint ar ein hanwybodaeth." Ond,

Yn gyntaf, Er fod anwybodaeth hollol ar unrhyw fater yn dinystrio, neu yn hytrach yn cau allan bob prawf o'i blaid, yn gystal a gwrthddadleuon yn ei erbyn, eto nid ydyw anwybodaeth mewn rhan yn gwneyd hyny. O blegid gallwn fod i unrhyw radd yn argyhoeddedig fod rhyw ddyn yn meddu y cyfryw gymmeriad, ac yn ganlynol y bydd iddo ymgais am y cyfryw amcanion, er ein bod yn gwbl anwybodus am y llwybr priodol i weithredu mewn trefn i gyrhaedd yr amcanion hyny yn fwyaf effeithiol: ac yn yr achos hwn, gellid ateb gwrthddadleuon yn erbyn ei ddull o weithredu fel un yn ymddangos yn ddull anfantaisiol i'w cyrhaedd, trwy ein hanwybodaeth, er na byddai y prawf fod y cyfryw amcanion yn cael eu bwriadu yn cael ei wanychu mewn un modd trwy hyny. Felly, prawf o gymmeriad moesol Duw ydyw y prawf o grefydd, ac felly y mae'n profi fod ei lywodraeth yn foesol, ac y bydd i bob un, ar y cyfan, dderbyn yn ol ei haeddiant—prawf mai hyn ydyw amcan bwriadol ei lywodraeth. Ond nid ydym ni yn abl i farnu pa un ydyw y llwybr priodol o weithredu mewn trefn i gyrhaedd yr amcan yn fwyaf effeithiol. Gan hyny, y mae ein hanwybodaeth yn atebiad i wrthddadleuon yn erbyn trefn rhagluniaeth yn goddef afreoleidd-derau, sydd, mewn ymddangosiad, yn wrthwyneb i'r amcan hwn. Yn awr, gan ei bod mor amlwg y gall ein hanwybodaeth fod yn atebiad boddhaol i wrthddadleuon yn erbyn peth, ac eto heb effeithio dim ar y prawf o'i blaid, y mae yn beth ffol haeru, onis gellir ei ddangos a'i brofi, fod ein hanwybodaeth yn gwanhau

y prawf o blaid crefydd, fel y mae yn gwanhau y gwrthddadleuon yn ei herbyn.

Yn ail, Tybier y gellid yn deg ddwyn yn mlaen bethau amhosibl anadnabyddus, a chyssylltiadau anadnabyddus, i wanychu y prawf dros grefydd, yn gystal ag i ateb gwrthddadleuon yn ei herbyn; ac y byddai, mewn canlyniad i hyn, y prawf drosti yn ammheus: ar yr un pryd, y mae yn wirionedd anwadadwy yr arosai rhwymedigaethau moesol yn sicr a diysgog, er na byddai yn sicr pa beth a fyddai ar y cyfan y canlyniadau o'u cadw neu o'u troseddu. O blegid y mae y rhwymedigaethau hyn yn cyfodi yn uniongyrchol ac angenrheidiol oddi ar farn ein meddyliau ein hunain—oddi eithr eu bod wedi'eu llygru—yr hon nis gallwn ei throseddu heb fod yn hunangondemnedig. Byddent hefyd yn sicr oddi ar yr ystyriaeth o fuddioldeb a lles. O blegid be bai yn ammheus pa beth fydd canlyniadau dyfodol rhinwedd a drygioni, y mae, ar yr un pryd, yn debygol y gall yr un canlyniadau fod iddynt ag a ddysgir i ni gan grefydd. Ac y mae y tebygolrwydd hwn yn fath o rwymedigaeth, yn ngolwg doethineb, i ymwrthod â phob drygioni, ac i fyw yn yr ymarferiad cydwybodol â'r hyn sydd dda. Ond,

Yn drydydd, Nis gellir gwneyd defnydd o'r atebion crybwylledig i'r gwrthddadleuon yn erbyn crefydd yr un modd i wanhau y prawf o'i phlaid. O blegid, ar y dybiaeth fod Duw yn dwyn yn mlaen lywodraeth foesol ar y byd, y mae cyfatebiaeth yn ein hawdurdodi i gasglu y rhaid fod y llywodraeth foesol hon yn gynllun neu gyfansoddiad uwch law ein hamgyffrediad. Ac y mae cyfatebiaethau dirif yn dangos i ni fod rhanau o'r cyfryw gyfansoddiad, yn rhinwedd eu perthynas â rhanau ereill, yn gwasanaethu i ddwyn yn mlaen amcanion, y rhai y buasem yn tybied nad oedd ynddynt un duedd i'w cyflawnu; i.e. amcanion ag y buasem, cyn cael prawf i'r gwrthwyneb, yn meddwl fod y cyfryw ranau yn hytrach yn meddu tuedd i'w lluddias. Am hyny, y mae yr holl gyfatebiaethau hyn yn dangos fod y llwybr yma o ddadleu yn erbyn crefydd yn dwyllodrus; o blegid y maent yn gwneyd yn debygol, os nad yn sicr, nad yw mewn un modd yn anghredadwy, pe y gallem amgyffred y cyfan, y gwelwm fod goddefiad o'r afreoleidd-derau y dadleuir yn eu herbyn yn gysson âg uniondeb a daicni, a hyd yn oed yn arwyddion o'honynt. Yn awr, nis gellir cymhwyso hyn at y prawf o grefydd fel at y gwrthddadleuon yn ei herbyn; ac am hyny, nis gall ddirymu y prawf hwnw fel y mae yn gwneyd â'r gwrthddadleuon hyn.

Yn ddiweddaf. Oddi wrth y sylw a wnaed yn awr, y mae yn

hawdd gweled am yr atebion a roddwyd uchod i'r gwrthddadl-euon yn erbyn Rhagluniaeth—er, mewn ffordd gyffredin o siarad, y gellir dyweyd eu bod wedi eu cymmeryd oddi wrth ein hanwybodaeth—eto, nad ydynt wedi eu cymmeryd yn unig o hyny, ond o rywbeth ag y mae cyfatebiaeth yn ddangos am dano. O blegid y mae cyfatebiaeth yn dangos yn sicr fod ein hanwybodaeth am bethau posibl natur a'u hamrywiol gyssylltiadau, yn ein gwneyd yn anghymhwys i farnu, ac yn ein harwain i gamgasgliadau, mewn achosion tebyg i'r un dan sylw, yn y rhai yr ydym yn cymmeryd arnom farnu a gwrthddadleu. Felly, nid tybiaethau yn unig am gyssylltiadau anadnabyddus ydyw yr hyn yr ymdrinwyd â hwynt yn flaenorol; ond y maent yn cael eu cymhell ar ein meddwl, ac ar sylw dynion difrifol, a'u gwneyd yn eithaf credadwy, gan gyfatebiaeth natur. Felly, wrth gymmeryd y pethau hyn i'n hystyriaeth, nid yw yr hyn a wnaethom yn amgen na barnu oddi wrth ein profiad, ac oddi wrth yr hyn a wyddom; ac nid ydym yn barnu felly os gadewir hwynt yn ddisylw.

SYLWADAU DIWEDDOL AR Y RHAN GYNTAF.

MAE sylwadau y bennod ddiweddaf yn ein harwain i ystyried sefyllfa bresennol bywyd dyn, yn yr hon yr ymdrafferthwn gymmaint, fel yn meddu rhyw gyfeiriad neu gilydd at gyfundrefn neu gynllun llawer mwy eang. A oes rhyw berthynas rhyngom â rhanau mwyaf pellenig y bydysawd diderfyn, sydd yn gwestiwn nas gallwn ei benderfynu. Ond y mae yn amlwg fod cwrs pethau, sydd o fewn ein sylwadaeth ni, yn dal cyssylltiad â rhywbeth y tu hwnt iddo,¹ yn yr amser a aeth heibio, y presennol, a'r dyfodol. Felly, yr ydym ni wedi ein gosod megys yn nghanol cynllun—nid un sefydlog, ond cynnyddol—ac yn mhob modd yn anamgyffredadwy; yn anamgyffredadwy yn gystal gyda golwg ar yr hyn a fu, y sydd yn awr, ac a fydd rhagllaw. Ac nis gall y cynllun hwn lai na chynnwys ynddo bethau mor ryfeddol, ac yn gymmaint y tu hwnt i'n hamgyffred,² a dim yn nghyfundraeth crefydd. O blegid, a ddywed rhyw un yn ei bwyll fod yn llai anhawdd dirnad pa fodd y daeth y byd i fodolaeth, ac y parhaodd fel y mae, heb awdwr a llywydd deallgar iddo, na chydag un?—neu, a chaniatau fod iddo lywodraethwr deallgar, fod rhyw reol arall o lywodraeth yn fwy naturiol, ac yn haws dirnad am dani, na'r rheol a alwn yn foisol? Yn wir,

¹Rhan II. pen. vi.

²Rhan II. pen. ii.

heb awdwr a llywodraethwr deallus i natur, nis gellir rhoddi un math o reswm pa fodd y daeth y bydysawd, neu yn neillduol y rhan o honi ag y perthynwn ni iddi, i fodolaeth, pa fodd y mae ei chwrs a'i threfn yn cael eu dwyn yn mlaen, nac ychwaith am ei hamcan a'i bwriad cyffredinol, heb fod iddi lywodraethwr moesol. Y mae fod awdwr deallus i natur, a llywodraethwr naturiol ar y byd, yn egwyddor ag yr adeiladasom arni fel un brofedig yn y traethawd blaenorol, ac ystyrir yn gyffredin ei bod yn egwyddor felly. Ac y mae y syniad am awdwr deallus i natur, wedi ei brofi felly trwy amcanion neillduol mewn natur, yn awgrymu ei fod yn feddiannol ar ewyllys a nodweddiad.¹ Yn awr, gan fod ein holl natur—y natur a roddes efe i ni—yn ein harwain i gasglu fod ei ewyllys a'i nodweddiad yn foesol, un-iawn, a daionus, nis gallwn felly, prin mewn dychymyg, feddwl y gall fod yn wahanol i hyny. Modd bynag, am fod ei ewyllys a'i nodweddiad fel y maent, efe a ffurfiodd y bydysawd fel y mae, ac y mae yn cario yn mlaen ei gwrs fel y gwna, yn hytrach nag mewn un dull arall; ac y mae wedi rhoddi rhan i ni, ac i bob creadur byw ynddo. Y mae creaduriaid direswm yn gweithio eu rhan, yn mwynhau y pleserau, ac yn dyoddef yr anghysuron a benodwyd iddynt, heb un adfyfyriad ac ystyriaeth. Ond gellid meddwl fod yn anmhosibl i greaduriaid a gynnysgaethwyd â rheswm lai na myfyrio ar, ac ystyried hyn oll ar brydiau;—ym-ofyn, os nad o ba le y daethom, eto, o leiaf, i ba le yr ydym yn myned; a myfyrio a meddwl pa beth, yn y diwedd, a fydd y canlyniad—beth fydd wedi ei gynnyrchu gan y drefn ddirgelaidd ag yr ydym yn cael ein hunain ynddi. O blegid y mae llawer o bethau yn dangos fod y casgliad y darfyddwn a bod yn angeu, yn gasgliad o'r math gwrthunaf. Y mae cyfatebiadau pendant yn dangos yn y modd egluraf nad oes dim yn ddyeithrol yn y meddwl y byddwn yn hanfodi mewn ystâd arall o fywyd. Ac y mae y ffaith ein bod yn bresennol yn fodau byw, yn cynnwys tebygolrwydd cryf y bydd i ni *barhau* felly; oddi eithr fod rhyw sail bendant (yr hyn nid oes mewn na rheswm na chyfatebiaeth) i feddwl y bydd marwolaeth yn ddinystr arnom. Pe byddai y dyb hon yn gorphwys ar sail, pa mor gadarn bynag, ni byddai yn sicr ond ychydig reswm, na dim, i ymhyfrydu yn y dybiaeth. Ond, yn wir, nis gall orphwys ar un sail amgen na rhyw ddychymyg fel hono, mai ni ein hunain ydyw ein cyrff—yr hyn sydd wrthwyneb i'n profiad. Y mae profiad hefyd yn dangos yn y modd egluraf y ffolineb sydd mewn casglu, oddi wrth fod y corff a'r elfen fywydol yn effeithio ar eu gilydd, fod dadgyssodiad y cyntaf yn ddinystr ar y diweddaf. Ac y mae

anghreiffiau hynod o'u bod yn peidio effeithio ar eu gilydd; yr hyn sydd yn ein harwain i gasgliad gwrthwyneb. Felly, y dybiaeth fwyaf resymol i weithredu arni ydyw, y *parhá* ein natur fywiol i fod ar ol angeu. Ac y mae yn annhraethol afresymol ffurfio ein dull o fyw, a gweithredu ar unrhyw dybiaeth arall. Yn awr, y mae y dysgwyliad am anfarwoldeb, er yn fwy neu yn llai sicr, yn agor golygfa ddiderfyn ger bron ein gobeithion a'n hofnau; o herwydd yr ydym yn gweled cyfansoddiad natur yn gyfryw fel y mae yn gwneyd trueni yn bosibl, yn gystal ag y mae yn cynnyrchu hapusrwydd; ac yr ydym yn ymwybodol ein bod yn cyfranogi o'r naill a'r llall i ryw fesur; ac o herwydd nas gallwn lai na gwybod pa raddau uwch o'r naill a'r llall yr ydym yn alluog i'w profi. Ac nid oes un sail yn erbyn meddwl yn mhellach, fod ein llesâd dyfodol yn dibynu ar ein hymddygiadau presennol; o blegid yr ydym yn gweled fod ein llesâd a'n budd presennol yn dibynu felly; ac nad yw yr hapusrwydd a'r trueni sydd yn angenrheidiol gyssylltiedig â'n gweithredoedd, bob amser yn canlyn, hyd oni bydd y gweithredoedd wedi eu hen gyflawnu, â'r rhai y mae y trueni a'r hapusrwydd yn gyssylltiedig. Felly, pe gadewid ni mewn tywyllwch gan ymchwiliadau athronaidd o bARTH y cwestiwn, a ydyw yn debygol fod Awdwr natur, wrth roddi hapusrwydd a thrueni i'w greaduriaid, yn sylwi ar eu hymddygiadau ai peidio, eto, gan y gwelwn trwy brofiad ei fod yn sylwi felly, y mae yr holl wybodaeth a roddes i ni am bethau yn ein harwain yn uniongyrchol, ac heb unrhyw ymchwiliad llafurus, i feddwl y gall, ac yn wir y rhaid, mai â gweithredoedd daionus yn benaf y mae wedi cyssylltu hapusrwydd, ac â gweithredoedd drwg, drueni; neu y gwobrwy, ar y cyfan, y rhai sydd yn gwneyd yn dda, ac y cospa y rhai a weithredant ddrygioni. I gadarnhau hyn oddi wrth gyfansoddiad y byd, fe sylwyd fod rhyw fath o lywodraeth foesol yn gynnwysedig yn llywodraeth naturiol Duw ag yr ydym dani; fod gweithredoedd da a rhai drwg yn bresennol yn cael eu gwobrwyo a'u cospi, yn naturiol, nid yn unig fel y maent yn llesol neu yn niweidiol i gymdeithas, ond hefyd fel y maent yn rhinweddol neu yn ddrygionus; a bod, yn natur y peth, duedd at eu gwobrwyo a'u cospi, mewn gradd berffeithiach nag y maent yn bresennol. Ac er fod y gradd perffeithiach yma o gyfiawnder taledigol yn cael ei luddias am amser rhag cymmeryd lle, y mae hyn yn bod oddi wrth y rhwystrau ag y mae sefyllfa y byd hwn ysywaeth yn eu tafu ar ei ffordd, y rhai felly nid ydynt yn eu natur ond yn unig dros amser. Yn awr, fel y mae y pethau hyn, yn nhrefn naturiol rhagluniaeth, yn amlwg ar du rhinwedd, felly nid oes dim i'w roddi yn eu herbyn

ar du drygioni. Felly, y mae cynllun moesol o lywodraeth yn eglur wedi ei sefydlu, ac i ryw raddau yn cael ei ddwyn i weithrediad; ac y mae hyn, yn nghyd â thueddiadau hanfodol drwg a da, yn codi yn naturiol ddysgwyliaid ynom y bydd iddi gael ei dwyn yn mlaen yn mhellach tuag at berffeithrwydd mewn sefyllfa ddyfodol, ac y derbynia pawb yno yn ol ei weithredoedd. Ac os ydyw yn bod fel hyn, yna y mae wedi ei sefydlu fod ein budd dyfodol a chyffredinol, dan lywodraeth foesol Duw, yn dibynu ar ein hymddygiadau, er yr holl anhawsder a achlysurâ hyn ar ffordd ei sicrhau, a'r perygl o'i golli—yr un modd ag y mae ein budd tymmorol, dan ei lywodraeth naturiol, wedi ei appwyntio i orphwys ar ein hymddygiad, er yr anhawsder a'r perygl cyffelyb a berthyn iddo. O blegid yr ydym, oddi ar ein cyfansoddiad ein hunain, a chyfansoddiad y byd yr ydym yn byw ynddo, wedi cael ymddiried i ni am danom ein hunain, ein hymddygiadau, a'n buddiannau. Ac oddi wrth yr un cyfansoddiad natur, fel yr ydym yn dal cyssylltiad â'n cyd-ddynion, yr ydym yn cael ein cylchynu gan demtasiynau i fod yn anffyddlaw'n yn yr ymddiried hwn, i fforffetio y budd, i esgeuluso ein rhwymedigaethau, a dwyn ein hunain i drueni a dinystr. Oddi wrth y temtasiynau hyn y cyfyd yr anhawsderau i ymddwyn yn y fath fodd fel ag i ddiogelu ein lles tymmorol, a'r perygl o ymddwyn fel ag i aflwyddo ynddo. Nid oes gan hynny ddim yn anghredadwy mewn tybied y gall fod anhawsder a pherygl cyffelyb gyda golwg ar y daioni mwyaf a esyd crefydd ger ein bron. Diammheu fod yr holl reswm pa ham y gosodwyd ni yn y fath sefyllfa tu hwnt i'n dirnadaeth. Ond rhoddir cyfrif am hynny mewn rhan gan yr hyn a ddadguddia crefydd; sef, y rhaid fod nodwedd rhinwedd a duwiolder yn gymhwysder angenrheidiol erbyn ystâd ddyfodol o ddiogelwch a dedwyddwch dan lywodraeth foesol Duw: yn debyg fel y mae rhyw gymhwysder neu gilydd yn angenrheidiol gogyfer a phob sefyllfa mewn bywyd dan ei lywodraeth naturiol; a bod y sefyllfa bresennol wedi ei bwriadu yn ysgol o ddysgyblaeth er meithrin ynom ein hunain y cymmeriad hwnw. Yn awr, y mae y bwriad hwn o eiddo natur yn ymddangos yn dra chredadwy, trwy sylwi fod yn amlwg ein bod wedi ein ffurfio ar gyfer pob math o welliant; ei fod yn ordeiniad cyffredinol mewn rhagluniaeth ein bod i feithrin egwyddorion ymarferol, a ffurfio ynom ein hunain arferion gweithredol, mewn trefn i ymgymhwyso i'r hyn yr oeddym o'r blaen yn hollu. anghymhwys iddo; fod amser maboed ac ieuenetid yn neillduol wedi ei benodi yn ddysgyblaeth erbyn cyflawn oed; a bod y byd presennol wedi ei gyfaddasu yn arbenig yn sefyllfa o ddysg-

yblaeth foesol. A chan fod gwrthddadleuon yn cael eu dwyn yn mlaen yn erbyn y drychfeddwl am lywodraeth foesol a sefyllfa prawf oddi wrth y dybiaeth am angenrheidrwydd, fe ddangoswyd fod Duw wedi rhoddi i ni dystiolaeth profiad, yr hon a ddengys fod pob gwrthddadl yn erbyn crefydd ar y tir yma, sef angenrheidrwydd, yn wâg a dirym. Y mae hefyd yn ei lywodraeth naturiol wedi darpar atebion i'n holl wrthddadleuon yn erbyn uniondeb a daioni ei lywodraeth foesol—gwrthddadleuon a gyfodant oddi ar ein syniadau cyfyng am ei lywodraeth; ac yn gyffredin y mae wedi egluro i ni y ddiweddaf trwy y gyntaf.

Dylai y pethau hyn, y rhai ydynt yn ffeithiau, ar bob cyfrif ddeffro dynolryw i ystyried o ddifrif eu sefyllfa a'u dyledswyddau. Y mae yn beth gwrthun i ddynion dybied eu hunain yn ddiogel ar lwybr drygionus, neu hyd yn oed yn yr anystyriaeth pechadurus ag y mae y nifer mwyaf o honynt ynddo. Ac y mae y profion cedyrn o wirionedd crefydd—y profion oddi wrth brofiad a ffeithiau a ystyriwyd genym—yn llawn ddigon, wrth adael rheswm i farnu, i'w dwyn i ymarfer rhinwedd a duwioldeb—i'w hymarfer dan yr argyhoeddiad difrifol fod llywodraeth gyfiawn wedi ei sefydlu, ac y bydd barn gyfiawn yn ganlyniad iddi, er i'r argyhoeddiad hwnw fod yn gyssylltiedig â gradd o ammheuaeth. Ac yn enwedig felly pan ystyriwn pa mor ammheus ydyw a ellir ennill dim trwy ddrygioni, a pha mor fach ac ansicr ydyw ei fwynderau a'i fuddiannau ar y goreu, a pha mor ebrwydd y rhaid eu gadael ar yr hwyaf. O blegid yn ymgynghoriad â barn rheswm o barth yr hyn yr ydym i'w gyrhaedd, a'r hyn i'w ochel—gan fod temtasiynau i unrhyw beth oddi wrth nwyd yn unig i'w gadael allan o'r cwestiwn—felly, y mae yr hudoliaethau i ddrygioni, oddi ar ddysgwyliaid pwylllog am bleser a budd, mor fach, ansicr, a byr, mor ddisylwedd a gwagsaw, fel nad ydynt yn ngolwg rheswm bron o ddim pwys ynddynt eu hunain; ac wrth eu cymharu â phwysigrwydd crefydd, y maent yn diflanu yn hollol. Y mae yn wir y gellir dwyn yn mlaen nwyd, nid fel rheswm, eto fel esgusawd am ddilyn llwybrau drygionus. Ond ymddengys pa mor wag fel esgus ydyw, trwy sylwi ein bod wedi ein gosod mewn sefyllfa ag yr ydym ynddi yn anocheladwy wedi cynnefino â'r gorchwyl o lywodraethu ein nwydau, trwy fod dan angenrhaid i'w llywodraethu, a gosod ein hunain o dan rywmau cyffelyb, a chymmaint, oddi ar ystyriaethau tymmorol a bydol ag y mae rhinwedd a chrefydd yn ofyn oddi wrthym yn nhrefn gyffredin pethau. Felly, y mae y ddadl o nwyd aflywodraethus, ar du drygioni, yn un o'r dadleuon gwaelaf; o blegid nid yw yn rheswm, nac yn amgen na'r esgusawd gwaelaf. Ond y cymhellion

priodol i grefydd ydynt y profion priodol o'i phlaid, oddi wrth ein natur foesol, oddi wrth ragargoelion cydwybod, a'r syniad naturiol sydd genym am Dduw fel llywodraethwr a barnwr moesol—natur, cydwybod, a syniad wedi eu rhoddi i ni ganddo ef; ac oddi wrth y cadarnhad sydd i fynegiadau rheswm, trwy fod *bywyd ac anfarwoldeb wedi eu dwyn i oleuni trwy yr efengyl, a digofaint Duw wedi ei ddadguddio o'r nef yn erbyn pob annuwioldeb ac anghyfiawnder dynion.*¹

[¹Y mae y sylwadau diweddfaf yn y bennod hon yn dra phwysig, fel y maent yn amddiffyniad i holl ymresymiad yr awdwr. Dangosant pa fodd y mae ein hanwybodaeth yn gwneyd i ffordd a'r gwrthddadleuon yn erbyn rhyw athrawiaeth, tra nad ydynt yn tynu dim oddi wrth nerth y prawf o'i phlaid. Y mae grym yr ymresymiad yn y fan hon yn gorwedd yn y gwahaniaeth sydd rhwng ein gwybodaeth am ewyllys Duw, a'n gwybodaeth am ei ffyrdd. Y mae genym brofion pendant beth yw ei gymmeriad moesol: gwyddom ei fod ef yn ewyllysio i'w greaduriaid fod yn sanctaidd a dedwydd; ond gallwn fod yn y tywyllwch o barth i'r ffyrdd a'r moddion mwyaf effeithiol i gyrhaedd yr amcanion hyn. Gallwn wybod y diwedd, ond bod yn gwbl anwybodus am y llwybrau i arwain tua'r diwedd hwnw. "Byddai i anwybodaeth *hollol*," medd Chalmers, "osod y gwrthddadleuon a'r prawf fel eu gilydd tu hwnt i'n cyrhaeddiadau; ond nid yw anwybodaeth *mewn rhan* yn gwneuthur hyny." Gellir adnabod doethineb Duw yn yr olion a ganfyddwn o hono—yn ngwneuthuriad y llygad, er esampl: eto, ar ol gwybod hyn, gall ein barn fetu o barth gwasanaethgarwch pethau sydd yn gorwedd yn mhell tu hwnt i gylch ein sylwadaeth. Gallwn ddarllen ar lyfr y gydwybod fod y Creawdwr yn farnwr a llywodraethwr cyfiawn; ac eto fod yn gwbl analluog i benderfynu o barth i duedd ac effeithiau y mesurau a gymmera yn ngweinyddiad ei lywodraeth. * * * * * "Yr adnabyddiaeth o'n hanwybodaeth ydyw, nid yn unig yr un wybodaeth oruchaf, ond yr un wybodaeth wirioneddol; a'i ffirwyth cyntaf ydyw gostyngeddwrwydd. Nid ydyw anwybodaeth syml byth yn ymfrostgar; ac y mae gwybodaeth o'r radd uchaf yn wir ostyngedig. * * * * * Y mae dau fath o anwybodaeth:—yr ydym yn athronyddu er mwyn osgoi anwybodaeth; a pherffeithiad ein hathroniaeth ydyw anwybodaeth. Yr ydym yn cychwyn o'r naill, ac yn gor-phwys yn y llall."—*Syr W. Hamilton.*]





Rhan III.

AM GREFYDD DDADGUDDIEDIG.

PENNOD I.

AM BWYSIGRWYDD CRISTIONOGAETH.¹

Y MAE rhai dynion, oddi ar y dybmeth fod goleuni natur yn ddigonol, yn profesu gwrthod pob dadguddiad, fel peth, sydd, o

[¹Y mae ymchwiliad i *bwysigrwydd* Cristionogaeth, yn ddiau, yn rhagarweiniad tra phriodol i draethawd ar y *proffion* o honi. Y mae dau ddosbarth o bobl yn gofyn am hyn. Y mae rhai yn ei gwrthod yn addefedig; y mae ereill yn ei hesgeuluso, heb fyned i'r drafferth o chwilio i'w phroffion. Yr achos o'r gwrthodiad a'r esgeulusiad ydyw eu bod yn cymmeryd yn ganiataol fod goleuni natur yn ddigonol; ac yn erbyn y ddau ddosbarth, dangosir fod annigonolrwydd goleuni natur wedi cael ei brofi gan sefyllfa foesol y byd paganaidd, cyn ac wedi gwawriad dadguddiad yr efengyl—gan yr ammheuon a deimlid gan y paganiaid mwyaf meddylgar o barth i'r cwestiynau mwyaf pwysig—gan ddiolfalwch aneallus ac anwybodaeth dygn y lluaws o ddynolryw, yr hyn a bâr iddynt esgeuluso sylwi ar y gwersi a rydd natur iddynt; a chan yr ymdeimlad yn mynwesau y dosbeirth uchaf o ddynion o angen help ac addysg oruchnaturiol. O barth i werth crefydd naturiol, gallwn sylwi [*Leland on the Advantage and Necessity of a Christian Revelation*] fod yr hen athronwyr yn dra chyfeiliornus yn eu syniadau am y tri cwestiwn mawr—beth, a pha fath yw Duw; beth ydyw rheol dyledswydd; a pha beth fydd ar ol hyn. Yr oedd eu syniadau am Dduw yn wrthddywediadol i'w gilydd, ac yn fynych yn wrthun ac afresymol. Yr oedd eu cyfundraethau moesol yn gwbl ddiffygiol; a'r gobraith am fuchedd dragwyddol yn obaith gwan, ansicr, a thywyll. Cyfodai eu camsyniadau mewn rhan oddi ar athroniaeth—“philosophi a gwâg dwyll,” ac mewn rhan oddi ar annuwiaeth calon ac ymddygiadau. “Y mae crefydd naturiol yn rhwym o fod yn ddiffygiol ac amherffaith yn ei gwersi a'i chymhellion. Nid yw ei *gwersi* yn mynegu i ni ond ychydig am Dduw ac am ein dyledswyddau; ac y mae yn gwbl ddystaw am awdwr ein hiachawdwriaeth.” Y mae ei chasgliadau oll wedi eu sylfaenu naill ai ar ymresymiad manylaidd, neu ar brofiad a sylwadaeth maith. Y mae y cyntaf yn rhy fanwl a dwfn i'r cyffredin o ddynion eu dirnad; ac o barth i'r ail, y mae dynion wedi ymarfer â throseddau ei deddfau cyn erioed eu dysgu. Y mae *cymhellion* crefydd naturiol oll yn weiniaid. Y mae y rhai sicraf o honynt wedi eu casglu oddi wrth helyntion y fuchedd hon. Y mae cymhellion y fuchedd dragwyddol yn ansicr. Gellir cymmeryd golwg arall ar annigonedd goleuni natur. Tybier fod addysgiath crefydd natur ar y pethau y llafari am danynt, yn berffaith. Dyweder ei bod yn llafari wrthym am Dduw, am ein dyledswydd, ac am y dyfodol, gydag iaith eglur a diamwys. Pe byddai felly, galledd ddyweyd, “Po llewyrchaf y goleuni, tywyllaf y cysgodion.” Y mae gwybodaeth eglur am ein dyledswydd yn dwyn yr euogrwydd i wrthgyferbyniad mwy pruddaidd âg ef. Y mae sicrwydd am y sefyllfa ddyfodol—am y dedwyddwch sydd yn bosibl i ddyn ei feddu, yn peri i'n hanghymhwysder i'r dedwyddwch hwnw ymddangos yn fwy ofnadwy. Llestairwyd aml un o'r

ran y syniad o hono, yn anghredadwy, ac o angenrheidrwydd yn ffug. Ac y mae yn gwbl sicr na roddasid un dadguddiad pe buasai goleuni natur yn ddigonol yn y cyfryw fodd ag i wneyd dadguddiad yn afreidiol. Ond nis gall un dyn difrifol a diragfarn, yr hwn a ystyria ansawdd crefydd yn y byd pagan-aidd cyn bod dadguddiad, a'i sefyllfa bresennol yn y lleoedd hyny na fwynhasant ddim o'i goleuni, feddwl felly, yn bendifaddeu os ystyriai y petrusder a'r ammheuaeth a lechent yn meddyliau rhai o'r dynion mwyaf o barth i'r materion mwyaf pwysig, yn gystal ag anystyriaeth ac anwybodaeth naturiol dynolryw yn gyffredinol. Y mae yn anmhosibl dyweyd pwy a allasai ymresymu allan yr holl gyfundraeth—a elwir yn grefydd naturiol—yn ei symledd pur, yn rhydd oddi wrth bob ofer-goel; ond nid oes, yn sicr, un sail i feddwl y buasai y cyffredin yn gallu; a phe y gallasent, nid yw mewn un modd yn debygol y gwnaethent. Ond, a chaniatau y gallasent, buasent mewn angen am ryw rybuddiad yn wastadol i'w hadgofio o hyny, a'i gymhell arnynt. Ac, yn mhellach, pe buasent mor dueddol i roddi sylw i grefydd ag ydyw y dosbarth goreu o ddynion, eto, hyd yn oed ar y dybiaeth yma, buasai amrywiol achlysuron yn galw am addysgiad a chynnorthwy goruchnaturiol, trwy y rhai y derbynid y manteision mwyaf; ac felly, y mae dywedyd fod dadguddiad yn beth diangenrhaid a diles yn siarad hollol ofer. Ni byddai yn fwy gorwag dywedyd fod dynolryw yn mwynhau cymmaint o esmwythyd yn yr ystâd bresennol, a bywyd mor berffaith hapus, fel y byddai yn wrthddywediad meddwl y gellid gwellhau ein sefyllfa mewn rhyw fodd.

Y mae dynion ereill, nid i'w rhestru gyda'r rhai hyn, y rhai sydd yn esgeuluso dadguddiad trwy edrych arno fel o ychydig bwys, os cedwir yn ddyfal at grefydd naturiol. Gan dalu ond ychydig sylw i'r profion o blaid y gyntaf, neu i'r gwrthddadleuon yn ei herbyn—ac ar y dybiaeth ei bod yn wir, dywedant, “Ei hunig amcan a raid fod, sefydlu crediniaeth am gyfundrefn foesol natur, a chymhell ymarferiad duwiolder naturiol a rhinwedd. Cefnogwyd y grediniaeth a'r ymarferiad o'r pethau hyn, efallai, gan gyhoeddiad cyntaf Cristionogaeth; ond nid yw o

hen athronwyr yn eu hymchwiliadau gan yr argyhoeddiad a deimlent o hyn. Cilient mewn arswyd oddi wrth y casgliadau a ymgymhellent i'w meddyliau. Y mae dadguddiad yr efengyl wedi *cadarnhau* ac *egluro* crefydd naturiol. Ond, pe nas gwnaethai fwy na hyn, ni buasai yn “newyddion da o lawenydd mawr” i ddynion. Heb law hysbysu cymmeriad Duw, y mae wedi mynegu y drefn i gydffurfio dynion â'r cymmeriad hwn. Heb law dyweyd wrth y dyn ei ddyledswydd, cynnorthwya ef i'w chyflawnu; ac heb law hysbysu a dwyn i oleuni y fuchedd dragwyddol, y mae yn rhoddi i ddynion fywyd *tragwyddol* o ras a dedwyddwch.]

bwys pa un a ydynt yn cael eu credu a'u hymarfer oddi ar brofion a chymhellion natur, ynte oddi ar yr eiddo dadguddiad." Y mae y ffordd hon o ystyried dadguddiad, er nad yr un a'r gyntaf, eto yn ymylu arni. Gwna ystyriaeth o honi ddangos yn mhellach wendid a ffolineb y dyb flaenorol, a gwirionedd y sylwadau a wnaed yn awr yn atebiad iddi. Ac nis gall ymchwiliad i bwysigrwydd Cristionogaeth fod yn rhagarweiniad anmhriodol i draethawd ar ei gwirionedd.

Yn awr, os rhoddes Duw ddadguddiad i ddynolryw, ac os gorchymynodd y pethau hyny a orchymynir yn y grefydd Gristionogol, y mae yn eglur, ar y golwg cyntaf, nad yw yn fater dibwys pa un a ufuddhäwn, ynte a anufuddhäwn i'r gorchymynion hyny, oddi eithr ein bod yn gwbl sicr ein bod yn deall yr holl resymau am danynt, a bod yr holl resymau hyny yn awr wedi peidio gyda golwg ar holl ddynolryw, a ninnau yn eu mysg. Ac y mae yn hollol anmhosibl i ni fod yn sicr o hyn; o blegid nid yw ein hanwybodaeth o'r rhesymau hyn yn profi dim yn y mater, gan fod holl gyfatebiaeth natur yn dangos, yr hyn sydd ynddo ei hun yn eglur, y gall fod rhesymau dirif am bethau, o'r rhai yr ydym ni yn anwybodus.

Ond ymddengys pwysigrwydd Cristionogaeth yn fwy eglur wrth i ni ei hystyfied, *yn gyntaf*, fel adgyhoeddiad a sefydliad allanol o grefydd naturiol, cyfaddas i amgylchiadau presennol dynolryw, ac wedi ei bwriadu i gefnogi duwioldeb a rhinwedd naturiol; ac, *yn ail*, fel yn cynnwys hanes cyfundrefn o wirioneddau nas galleid, trwy reswm, eu cael allan, mewn canlyniad i'r rhai y mae amryw orchymynion neillduol yn cael eu cymhell arnom. O blegid, er fod crefydd naturiol yn sylfaen i, ac yn rhan arbenig o Gristionogaeth, nid ydyw mewn un modd yr oll o honi.

I. Y mae Cristionogaeth yn adgyhoeddiad o grefydd naturiol. Mae yn addysgu dynolryw yn nghyfundrefn foesol y byd;—ei fod yn waith Bod anfeidrol berffaith, ac yn cael ei lywodraethu ganddo; mai rhinwedd ydyw ei ddeddf; ac y bydd iddo yn y diwedd farnu dynolryw mewn cyfiawnder; a thalu i bawb yn ol eu gweithredoedd mewn ystâd ddyfodol. Ac y mae yn addysgu crefydd naturiol yn ei symledd cyntefig, yr hyn sydd wasanaeth pwysig o'i heiddo—yn ei haddysgu yn rhydd oddi wrth yr offergoelion â pha rai y llygrwyd hi yn drwyadl, ac y collwyd hi, mewn ystyr, dan gruglwyth o honynt.

Y mae dadguddiad, yn mhellach, yn gyhoeddiad awdurdodol o grefydd naturiol, ac felly yn cynnwys prawf oddi ar dystiolaeth o blaid ei gwirionedd. Mae yn wir mai i brofi goruchwyliaeth

benodol mewn rhagluniaeth, sef prynedigaeth y byd trwy Grist, y bwriadwyd gwyrthiau a phrophwydoliaethau yr Ysgrythyr; ond nid yw hyn yn peri nad ydynt hefyd yn profi llywodraeth gyffredinol Duw ar y byd fel ein llywydd a'n barnwr moesol. Ac y maent yn profi hyn yn eglur; o blegid y mae y cymmeriad hwn o eiddo Awdwr natur yn angenrheidiol gyssylltiedig â, ac yn gynnwysedig yn y drefn neillduol hono. Y mae hefyd yn cael ei haddysgu bob amser gan y personau hyn y weithredent y gwyrthiau, ac a draddodent y prophwydoliaethau. Ac fel hyn y mae crefydd naturiol yn cael ei phrofi yn gystal gan y dadguddiad ysgrythyrol, a phe na buasai amcan y dadguddiad yn ddim chwaneg na'i phrofi hi.

Ond, dichon y gwrthddadleuir, pa mor bell y gall gwyrthiau brofi crefydd naturiol; ac wrth ystyried y cwestiwn fel mater o ymchwiliad, gellir dwyn yn mlaen wrthddadleuon lled olygus yn erbyn y prawf hwn o honi; ond wrth ei ystyried fel pwnc ymarferol, nis gall fod un wrthddadl yn erbyn y prawf yma. O blegid meddylier am ryw berson yn dysgu crefydd naturiol i genedl wedi byw mewn anghof neu anwybodaeth hollol am dani, ac yn cyhoeddi ei fod wedi ei anfon oddi wrth Dduw i'w dysgu—tybier ei fod, i brofi ei awdurdodiad, yn rhagfynegu dygwyddiadau dyfodol, y rhai nis gallasai callineb dynol gymmaint a dyfalu am danynt—meddylier ei fod yn agor y môr â'i air, yn porthi tyrfaoedd â bara o'r nef, yn iachau pob math o glefydon, ac yn cyfodi y meirw, ie, ei hunan yn adgyfodi. Oni roddai hyn dystiolaeth chwanegol i'w addysgiaeth, y tu hwnt i un dystiolaeth a allai dyn cyffredin gael; ac oni byddai yn gyhoeddiad awdurdodol—yn brawf newydd o ddeddf natur? Hi a fyddai yn dystiolaeth ymarferol o'r fath gadarnaf, efallai, ag a ellid roddi i ddynolryw. Felly, y mae cyfraith Moses ac efengyl Crist yn gyhoeddiadau awdurdodol o grefydd natur: rhoddant brawf o ragluniaeth gyffredinol Duw fel llywodraethwr moesol y byd, yn gystal ag o'i oruchwyliaethau neillduol tuag at greaduriaid pechadurus, fel y maent wedi eu dadguddio yn y ddeddf a'r efengyl. Ac fel mai hwynt-hwy ydynt yr unig brawf o'r diweddf, felly y maent yn brawf chwanegol o'r cyntaf.

Er mwyn dangos hyn yn mhellach, gadawer i ni dybied am ddyn o'r galluoedd cryfaf a choethaf, heb erioed glywed am ddadguddiad, ond ar y cyfan yn argyhoeddedig, er holl annhrefn y byd, ei fod o dan gyfarwyddyd a llywodraeth foesol Bod anfeidrol berffaith; ond eto yn barod i betruso ac ammheu, a ydyw yn myned y tu hwnt i gyrhaedd ei alluoedd—tybier ei fod trwy yr ammheuaeth yma mewn perygl o gael ei orchfygu gan esampl

drygionus pawb o'i amgylch, y rhai na feddent un syniad ymarferol am y pethau hyn. Dichon y byddai ei sefyllfa ef yr un mor fanteisiol gyda golwg ar grefydd, ag y gosododd natur neb ynnddi. Yn awr, pa faint o gadarnhad i'r cyfryw un a fyddai canfod ar unwaith fod y gyfundrefn foesol hon wedi ei dadguddio i ddynolryw, yn enw y Bod anfeidrol hwnw ag y credodd ynddo, oddi ar egwyddorion rheswm; a bod cyhoeddwy'r dadguddiad wedi profi eu hawdurdodiad oddi wrtho, trwy ddangos ei fod wedi ymddiried iddynt y gallu o attal a chyfnewid deddfau cyffredinol natur!

Rhaid sylwi hefyd—o blegid y mae yn fater o'r pwysigrwydd mwyaf—fod bywyd ac anfarwoldeb wedi eu dwyn i oleuni trwy yr efengyl mewn modd rhyfeddol. Y mae yr athrawiaethau mawrion o sefyllfa ddyfodol, y perygl o fyw yn bechadurus, ac effeithiolrwydd edifeirwch, nid yn unig yn cael eu cadarnhau, ond hefyd eu dysgu, yn enwedig yr olaf, yn nhrefn yr efengyl gyda'r fath oleuni nad yw goleuni natur ond tywyllwch, mewn cymhariaeth iddo.

Drachefn: fel y gwasanaethodd Cristionogaeth i'r amcanion hyn, pan gyhoeddwyd hi gyntaf, trwy y cyhoeddiad gwyrthiol ei hunan; felly, bwriadwyd hi i wasanaethu yr un amcanion mewn oesau dyfodol, trwy sefydliad eglwys weledig—cymdeithas oedd wedi ei gwahaniaethu oddi wrth gymdeithasau cyffredin, ac oddi wrth y gweddill o'r byd, trwy ordinhadau crefyddol priodol iddi ei hun—trwy drefn sefydledig o addysgiaeth, a ffurf benodedig o grefydd allanol. Rhoddwyd gallu gwyrthiol i gyhoeddwy'r bor-euaf Cristionogaeth, mewn trefn i'w dwyn i'r byd; a sefydlwyd eglwys weledig, mewn trefn i'w pharhau a'i chario yn mlaen trwy yr holl oesau. Pe na buasai Moses a'r prophwydi, Crist a'i apostolion, ond yn unig wedi dysgu, a thrwy wyrthiau wedi profi gwirionedd crefydd i'w cydoeswyr, ni buasai buddioldeb eu haddysgiadau yn cyrhaedd ond at ran fechan o ddynolryw. Rhaid y buasai Cristionogaeth, mewn rhan fawr, yn suddo i ebargofiant mewn ychydig o oesoedd. Ymddengys mai attal hyn oedd un achos pa ham y sefydlwyd eglwys weledig—i fod fel dinas ar fryn, yn gofarwydd parhaus i'r byd o'i ddyledswydd tuag at ei Wneuthurwr; i alw ar ddynion yn wastadol, trwy esampl ac athrawiaeth, i dalu sylw iddi; a thrwy fod ffurf crefydd bob amser o flaen eu llygaid, i'w hadgofio o'r sylwedd ei hun—i fod yn drysorfa ymadroddion Duw—i ddal goleuni dadguddiad yn gynnorthwyol i oleuni natur, a'i wasgaru trwy bob cenedlaeth hyd ddiwedd amser—goleuni dadguddiad, yn cael ei ystyried yma yn unig fel y mae wedi ei fwriadu i gefnogi

crefydd naturiol. Ac i'r graddau y mae Cristionogaeth yn cael ei phroffesu a'i haddysgu yn y byd, y mae crefydd naturiol yn cael ei gosod mewn dull eglur a manteisiol ger bron dynolryw, a'i dwyn drachefn a thrachefn i'w meddyliau fel pwnc o anhraethol bwys. Y mae gan eglwys weledig hefyd duedd bellach i gefnogi crefydd naturiol, gan ei bod yn ddull appwyntiedig o addysgiaeth, wedi ei bwriadu ar y cyntaf yn fantais fwy arbenig i'r rhai a gyddfurfient â hi. Canys un o amcanion ei sefydliad oedd, fel—trwy annogaeth a rhybudd, yn gystal ag addysgu neu athrawiaeth, trwy ddysgyblaeth reolaidd a chyffredinol, ac ymarferiadau cyhoeddus crefydd—y byddai i “gorff Crist,” yn iaith yr Ysgrhythyr, “gael ei adeiladu,” sef ei addysgu mewn duwioldeb a rhinwedd erbyn sefyllfa uwch a rhagorach. Gan fod y sefydliad hwn, felly, yn ymddangos yn fuddiol—yn tueddu yn natur y peth i ateb, ac i ryw raddau yn weithredol yn ateb, yr amcanion hyny, yr ydym i ddeall fod y syniad ei hun yn awgrymu hanfodiad rhyw osodiadau neu ordinhadau pendant; o blegid trwyddynt hwy yr ymddengys hanfodiad yr eglwys. Cymmerwch ymaith bob peth fel hyn, ac yna yr ydych yn colli y syniad ei hun. Ac felly, os ydyw y pethau a grybwyllwyd yn awr yn fanteision, y mae y rhesymau dros, a phwysigrwydd gosodiadau neu ordinhadau pendant yn ymddangos yn eithaf eglur; o blegid hebddynt hwy, nis gallesid sicrhau y manteision hyn i'r byd. Ac nid yw ond gwagedd ceisio gwybod y rhesymau pa ham y penodwyd ar y cyfryw osodiadau, yn hytrach na rhyw rai ereill.

Mae rhai personau yn dra hwyrfyrdig i ddeall am y buddioldeb a ddeillia oddi wrth y cynnorthwy goruchnaturiol sydd mewn Cristionogaeth i grefydd naturiol; ac eto y mae yn beth hollol eglur. O blegid a ddywed neb, mewn difrifwch, fod y lluaws gynt, yn y byd paganaidd, mewn sefyllfa mor fanteisiol, gyda golwg ar grefydd naturiol, ag ydynt gyda ni yn bresennol—ei bcd wedi ei chyfleu ger eu bronau, a'i hargymhell arnynt, mewn modd mor eglur, ac yn tueddu yn gymmaint i ddylarwadu ar eu bywyd?

Nis gall y gwrthddadleuon yn erbyn y pethau hyn, oddi wrth lygriad Cristionogaeth, ac oddi ar y dybiaeth na chafodd ond ychydig effaith ddaionus, pa mor ddiniwed bynag y gellir eu dwyn yn mlaen, gael eu hystyried yn benderfynol ar unrhyw egwyddorion, ond y cyfryw ag a arweiniant i atheistiaeth trwyadl; o blegid y mae yr eglurhad o ddeddf naturiaeth gan reswm, yr hon, fel yr ymddengys oddi wrth holl egwyddorion y gred am fod Duw, a raid fod oddi wrtho Ef, wedi ei wneyd yn aneffeith-

iol, a'i lygru yn yr un dull. Yr wyf yn meddwl y gellir yn briodol ddywedyd nad yw effeithiau daionus Cristionogaeth wedi bod yn ychydig; ac nad yw y drwg-effeithiau a gyfrifir iddi, mewn un modd yn effeithiau iddi hi. Efallai hefyd fod y pethau eu hunain wedi cael eu mwyhau: ac os amgen, nid oedd Cristionogaeth yn fynych ond ffugesgus; a buasai yr un drygau, gan mwyaf, yn cael eu cyflawnu ar ryw ffugesgus arall. Ond pa mor fawrion bynag y mae y llygriadau o honi wedi bod, eto nis gellir eu dwyn yn mlaen fel rhesymau yn ei herbyn oddi ar egwyddorion Duwfodaeth; o blegid nis gall neb fyned gam yn mlaen wrth ymresymu ar grefydd naturiol, mwy nag ar Gristionogaeth, heb osod hyn i lawr fel un o'r egwyddorion cyntaf—nad ydyw goruchwyliaethau rhagluniaeth i gael eu barnu wrth eu llygriadau, ond yn hytrach wrth eu tueddiadau cynhenid—nid wrth yr hyn y maent yn effeithio yn weithredol, ond wrth yr hyn a effeithient pe gwnai dynolryw eu rhan, sef y rhan hono y mae hi yn gyfiawn yn ei gosod arnynt. Iaith y naill fel y llall ydyw—“Yr hwn sydd anghyfiawn, bydded anghyfiawn eto; a'r hwn sydd sanctaidd, bydded sanctaidd eto;” *Dad.* xxii. 11. Nid yw goleuni rheswm, mwy na goleuni dadguddiad, yn gorfodi dynion i ymostwng i'w awdurdod:—y mae y naill a'r llall yn eu rhybuddio am yr hyn a ddylent wneyd a gochelyd, ac o ganlyniadau y ddau; ar ol hyn yn eu gadael at eu llawn ryddid i weithredu fel yr ewyllysiant, hyd yr adeg benodedig i'w galw i gyfrif. Y mae profiad parhaus yn dangos mai hyn yna ydyw rheol gyffredin Duw o lywodraethu.

Ond i ddychwelyd. Gan fod Cristionogaeth yn gyhoeddiad o ddeddf natur, ac yn gyhoeddiad awdurdodol o honi, gyda goleuni newydd, ac amgylchiadau ereill tra manteisiol, wedi eu cyfaddasu at angenion dynolryw, y mae yr ystyriaethau hyn yn dangos y mawr bwys sydd yn perthyn iddi. A gellir sylwi yn mhellach, fel y mae natur y peth yn gofyn, felly y mae pob Cristion yn cael ei gymhell i wneyd a allo, trwy ei broffes o Gristionogaeth, tuag at ei chadw yn y byd, a'i gwneyd yn gyfryw gyhoeddiad o, ac adgyfnerthiad i grefydd naturiol. O blegid dylai pob Cristion, yn ol ei radd a'i dalentau, ymdrechu i hyrwyddo a lledaenu achos yr efengyl—trwy ymuno oll mewn proffes gyhoeddus ac ymarferiad allanol o Gristionogaeth: rhai o honynt trwy athrawiaethu, a thrwy arolygu y cyfundeb crefyddol hwn, eglwys Dduw. Yn awr, arddengys hyn yn mhellach bwysigrwydd Cristionogaeth; ac yn arbenig ei phwysigrwydd mewn ystyr ymarferol, neu y rhwymedigaethau uchel yr ydym danynt i'w chymmeryd dan ein hystyriaeth mwyaf difrifol;

a rhaid mai y perygl yma ydyw, nid yn unig i ymddwyn yn ddirmygus tuag ati—am yr hyn nid wyf yn ymdrin yn bresennol—ond bod yn ddiystyr o honi, a'i hesgeuluso. O blegid y mae hyn yn esgeulusdod o wneyd y peth a orchymynir yn bendant arnom, tuag at barhau y buddiannau hyny i'r byd, a'u trosglwyddo i lawr i'r amserau dyfodol. Ac y mae hyn oll yn bod, hyd yn oed pe yr unig beth o werth mewn Cristionogaeth a fyddai ei gwasanaethgarwch i grefydd naturiol. Ond,

II. Y mae Cristionogaeth i'w hystyried mewn golygiad pellach, fel yn cynnwys hanes goruchwyliaeth nas gellir ei chael allan trwy reswm, mewn canlyniad i ba un y mae amryw ddyledswyddau neillduol yn cael eu hargymhell arnom. Nid yn unig y mae Cristionogaeth yn sefydliad allanol o grefydd naturiol, ac yn gyhoeddiad newydd o ragluniaeth gyffredinol Duw, fel llywodraethwr a barnydd cyfiawn; ond y mae yn cynnwys hefyd dadguddiad o oruchwyliaeth neillduol yn ei lywodraeth, yn cael ei dwyn yn mlaen gan ei Fab a'i Ysbryd, er adferiad ac iachawdwriaeth dynolryw, y rhai a ddarlunir yn yr Ysgrythyrau mewn cyflwr dirywiedig. Ac mewn canlyniad i'r dadguddiad hwn, gorchymynir *ein bedyddio*, nid yn unig *yn enw y Tad*, ond hefyd *yn enw y Mab a'r Ysbryd Glân*; ac y mae rhwymedigaethau ereill, anadnabyddus o'r blaen, tuag at y Mab a'r Ysbryd Glân wedi eu dadguddio. Yn awr, ymddengys pwysigrwydd y dyledswyddau hyn wrth i ni sylwi, eu bod yn cyfodi, nid yn unig oddi ar orchymyn pendant, ond hefyd oddi ar y swyddau a berthynant i'r Personau Dwyfol hyny yn y drefn efengylaidd, neu oddi ar y berthynas y maent ynddi tuag atom ni. Trwy reswm y mae perthynas Duw Dad â ni wedi ei dadguddio; ac oddi yma y cyfyd ein rhwymedigaeth tuag ato Ef. Yn yr Ysgrythyrau yr amlygir y cyssylltiadau sydd rhwng y Mab a'r Ysbryd Glân: ac oddi yma y cyfyd y rhwymedigaethau yr ydym danynt iddynt hwy. Ar ol addef y gwirionedd yn y tri golygiad yma, sef mai Duw ydyw llywodraethwr y byd, ar dystiolaeth rheswm—mai Crist ydyw y Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, a'r Ysbryd Glân ein harweinydd a'n sancteiddydd, ar dystiolaeth dadguddiad—ar ol, meddaf, addef gwirionedd y pwnc yn mhob un o'r golygiadau hyn, nid yw mwyach yn gwestiwn paham y gorchymynir *ein bedyddio* yn enw y Mab a'r Ysbryd Glân, rhagor na pha ham y bedyddir ni yn enw y Tad. Ymddengys y dylid sylwi yn helaethach ar y mater hwn.¹

[¹Y mae gwahaniaeth rhwng addysgiadau moesol a gwrthddrychau neu ffeithiau crefydd naturiol. Nid ydyw crefydd naturiol yn dyweyd dim wrthym am iachawdwr a sancteiddydd; ond pan unwaith y dadguddir iachawdwr a sancteiddydd, y mae crefydd natur yn dangos i ni pa fodd y dylem deimlo ac

Cadwer mewn cof, gan hyny, fod crefydd yn dyfod dan yr ystyriaeth ddyblyg o fewnol ac allanol; o blegid y mae y ddiweddfaf yn rhan mor wirioneddol o honi—o wir grefydd—ag ydyw y gyntaf. Yn awr, pan ystyrir crefydd dan y syniad cyntaf, fel egwyddor fewnol, i'w gosod ar waith mewn rhyw ymarferion penodol o eiddo y meddwl a'r galon, gellir dyweyd fod hanfod crefydd naturiol yn gynnwysedig mewn duwiol barch i *Dduw Dad*; a hanfod crefydd ddadguddiedig, fel yn anwahanol oddi wrth y naturiol, yn gynnwysedig mewn duwiol barch i'r *Mab* a'r *Ysbryd Glân*. Ac y mae y rhwymedigaeth yr ydym dani i roddi y parch hwn i bob un o'r Personau Dwyfol, yn cyfodi oddi ar y perthynasau sydd rhwng pob un o honynt â ni. Nid yw y modd yr amlygir y perthynasau hyn—pa un bynag ai trwy ddadguddiad, ynte trwy reswm—yn peri un cyfnewidiad yn y mater; o blegid y mae y dyledswyddau yn tarddu o'r perthynasau eu hunain, ac nid o'r dull yr hysbyswyd hwynt i ni. Y mae gan y Mab a'r Ysbryd eu swyddau priodol eu hunain yn yr orchwyliaeth fawr hon yn y llywodraeth ddwyfol—sef yn mhryn-edigaeth y byd—y naill fel Cyfryngwr, a'r llall fel Sancteiddydd. Onid yw, gan hyny, y ddyledswydd o dalu parch i'r Mab a'r Ysbryd yn cyfodi mor uniongyrchol, a gadael i reswm farnu, oddi ar natur y swyddau a'r perthynasau hyn, ag y mae yr ewyllys da a'r cymmwynasgarwch sydd ynddyledus oddi wrthym i'n cydgredduriaid yn cyfodi oddi wrth y perthynasau cyffredin sydd rhyngom â hwy? Ond gofynir, "Pa rai ydyw y dyledswyddau sydd yn ddyledus i'r Mab a'r Ysbryd Glân,¹ y rhai sydd yn tarddu, nid yn unig oddi wrth orchymynion yr Ysgrythyr, ond oddi wrth natur y perthynasau dadguddiedig rhyngddynt â ni?" Yr wyf yn ateb—y dyledswyddau crefyddol o barch, anrhydedd, cariad, ymddiried, diolchgarwch, ofn, gobaith. Yn mha ddull allanol y mae yr addoliad tufewnol hwn i'w ddangos, sydd bwnc o ddad-

ymddwyn tuag ato. Y mae cariad at, ac ufudd-dod i'r Drindod, yn ddyledswyddau moesol, ac yn cyfodi oddi ar y berthynas sydd rhyngom â hwynt; ond am y ffyrdd i ddangos y cariad a'r ufudd-dod—y mae hyn, fel y sylwa Butler, yn cael ei hysbysu gan ddadguddiad.

[¹ Y mae y ddyledswydd o gyflwyno addoliad i'r Mab neu i'r Ysbryd Glân yr un mor foesol a'r ddyledswydd o feithrin cariad at ein cyd-ddynion; o blegid y mae y ddwy ddyledswydd yn cyfodi, yn annibynol ar bob gorchymyn allanol, oddi ar ein perthynas a'r naill a'r llall, yn ebrwydd ar ol hysbysu y perthynasau hyny i ni. Yr ydym yn rhwymedig o gyflwyno parch, cariad, ac addoliad i Dduw, ar wahan oddi wrth bob gorchymyn i hyny, ar gyfrif ein perthynas ag ef fel ein Gwneuthurwr, ein Prynwr, a'n Sancteiddydd: ac yr ydym yn rhwym o ddangos cariad at ein cyd-ddynion, nid yn unig, nac yn benaf, am fod hyny yn cael ei orchymyn i ni, ond am ein bod yn sefyll yn y berthynas o frodyr iddynt. Y mae y gorchymyn yn y naill a'r llall yn cyfodi oddi ar y berthynas:—y diweddfaf ydyw yr achos o'r cyntaf.]

guddiad pur; fel, efallai, y dichon y dull allanol y mae Duw Dad i'w addoli fod yn fwy felly nag yr ydym yn barod i feddwl; ond nid yw yr addoliad—yr addoliad mewnol ei hun i'r Mab a'r Ysbryd Glân, yn mhellach yn fater o orchymyn dadguddiedig nag y mae y perthynasau rhyngddynt â ni yn fater o ddadguddiad; o blegid ar ol gwybod y perthynasau, y rhwymedigaethau i'r cyfryw addoliad mewnol ydynt rwymedigaethau rheswm, yn cyfodi o'r perthynasau hyny eu hunain. Mewn gair, y mae hanes yr efengyl yn dangos i ni resymau y rhwymedigaethau hyn mor uniongyrchol ag y dangosa pa beth yw ystyr y geiriau Mab ac Ysbryd Glân.

Os ydyw y cyfrif hwn o'r grefydd Gristionogol yn deg, y mae yn eglur fod y dynion hyny a siaradant yn ysgafn a diystyr am dani, fel crefydd yn meddu ond ychydig bwys a gwerth, os cedwir at grefydd naturiol, yn anghofio fod Cristionogaeth, hyd yn oed yr hyn a elwir felly yn arbenig, fel yn wahaniaethol oddi wrth grefydd naturiol, eto yn meddu ar radd bwysig o natur foesol. O blegid wedi yr hysbysir swydd ein Harglwydd, a'r berthynas rhyngddo â ni, mae yn amlwg fod ein rhwymedigaethau crefyddol tuag ato ef o natur foesol, yr un modd ag y mae cariad tuag at ddynolryw; o blegid y mae y rhwymedigaeth hon yn cyfodi, yn flaenorol i orchymyn allanol, oddi ar y swydd a'r berthynas eu hunain. Ymddengys y personau hyny fel yn anghofio pa beth y mae dadguddiad i'w ystyried yn ein hysbysu o hono—rhywbeth newydd yn sefyllfa dynolryw, ac yn llywodraeth y byd—rhyw berthynasau ag yr ydym ynddynt na buasem yn gwybod am danynt hebddi. A chan fod y perthynasau hyn yn rhai gwirioneddol (er nas gallasem yn flaenorol i ddadguddiad fod dan un rwymedigaeth oddi wrthynt, eto ar ol eu dadguddio), nid yw yn bosibl lai na meddwl y bydd esgeuluso ymddwyn yn gyfatebol iddynt yn sicr o ddwyn yr un canlyniadau dan lywodraeth Duw ag a wnai esgeuluso ymddwyn yn gyfatebol i unrhyw berthynasau ereill a amlygwyd i ni trwy reswm. A bydd anwybodaeth, pa un bynag ai anwybodaeth anocheladwy, ynte gwirfoddol, yr un mor ddiesgus—heb fod na mwy na llai—yn y naill achos ag yn y llall, a chaniatau fod yr anwybodaeth yr un mor anocheladwy, neu yr un mor wirfoddol yn y naill a'r llall.

Os ydyw Crist, gan hyny, yn Gyfryngwr rhwng Duw a dynion; *h. y.*, os ydyw Cristionogaeth yn wirionedd; os Efe yw ein Harglwydd, ein Hachubwr, a'n Duw, nis gall neb ddywedyd pa beth fydd canlyniad, nid yn unig diystyrwch ystyfnig, ond diystyrwch diofal tuag ato yn y perthynasau uchel hyny. Ië,

nis gall neb ddyweyd beth a ganlyn y cyfryw ddiystyrwch, hyd yn oed ar lwybr canlyniad naturiol.¹ O blegid fel y mae canlyniadau naturiol drygioni yn y bywyd hwn i'w hystyried yn ddi-ammheuol fel cosp farnol oddi wrth Dduw; felly, yr un modd, am ddim a wyddom, y dichon cospau barnol yr ystâd ddyfodol fod yn ganlyniadau naturiol drygioni;² yn ganlyniadau i waith dynion yn troseddu neu ddiystyru y perthynasau yn y rhai y gosododd Duw hwynt yma, ac a hysbysodd iddynt.

Drachefn. Os ydyw dynion yn llygredig yn eu cymmeriad moesol, ac felly yn anghymhwys i'r ystâd yr aeth Crist ymaith i'w pharotol i'w ddysgyblion; ac os ydyw cynnorthwy Ysbryd Duw yn angenrheidiol i adnewyddu eu natur, yn y mesur sydd yn ofynol mewn trefn i fod yn gymhwys i'r sefyllfa hono, yr hyn oll sydd yn gynnwysedig yn yr ymadrodd eglur, penodol, er mewn iaith ffugrol, "Oddi eithr geni dyn o ddwfr ac o'r Ysbryd, ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Dduw (*Ioan* iii. 5):—a thybied hyn, a ddichon un dyn difrifol feddwl ei fod yn beth dibwys, a ydyw, ai nid ydyw yn gwneyd defnydd o'r moddion a orchymynir yn bendant gan Dduw er caffael y cynnorthwy dwyfol hwn? Yn enwedigol gan fod holl gyfatebiaeth natur yn dangos nad ydym i ddysgwyl buddiannau, oddigerth i ni wneyd defnydd o'r moddion appwyntiedig er eu cyrhaedd a'u mwynhau. Yn awr, nid yw rheswm yn dangos dim pa foddion neillduol ac uniongyrchol y dylid eu defnyddio er cyrhaedd buddiannau tymmorol nac ysbrydol. Mae yn rhaid, gan hyny, i ni ddysgu hyn, naill ai oddi wrth brofiad, neu oddi wrth ddadguddiad. Ond am brofiad, nid all profiad ein cyfarwyddo ar yr achos hwn.

Y mae yn amlwg mai y casgliad oddi wrth yr oll a ddywedwyd ydyw—gan fod Cristionogaeth yn cael ei thybied yn wir neu gredadwy, y mae yn anmharch annhraethadwy, ac yn wir yn fyrbwylldra o'r math mwyaf rhyfygus, ymddwyn ati fel at fater dibwys. Nis gellir byth edrych arni yn deg fel peth o ganlyniad bychan, hyd oni ellir tybied yn bendant ei bod yn ffug. Ac nis gwn am un rwymedigaeth uwch a phwysicach nag ymchwilio yn y modd mwyaf difrifol i'r prawf o honi, ar y dybiaeth o'i thebygolrwydd, a'i chofleidio ar y dybiaeth o'i gwirionedd.

Dichon fod yn briodol chwanegu y ddau gasgliad canlynol, i'r dyben o egluro y sylwadau blaenorol, ac attal pob camsyniad arnynt:—

Yn gyntaf, Gallwn ganfod yn eglur yn mha le y gorwedd y gwahaniaeth rhwng yr hyn sydd bendant a'r hyn sydd foesol mewn crefydd. *Gorchymynion* moesol ydynt orchymynion ag

¹Pen. i.²Pen. v.

yr ydym yn gweled y rhesymau drostynt:—y *gorchymynion* pendant ydynt orchymynion, y rhai nid ydym yn gweled y rhesymau drostynt.¹ Y mae *dyledswyddau* moesol yn cyfodi o natur y peth ei hun, yn flaenorol i orchymyn allanol: ond nid yw *dyledswyddau* pendant yn cyfodi o natur y peth, ond o orchymyn allanol; ac ni byddent mewn un modd yn ddyledswyddau, oni bai am y cyfryw orchymyn a dderbyniwyd ganddo Ef, ein Creawdwr a'n Llywodraethwr. Ond o barth i'r dull y mae natur y peth, neu y ffaith o'r berthynas, yn cael ei gwneyd yn hysbys i ni, nid yw hyn yn dynodi unrhyw ddyledswydd, yn bendant neu yn foesol. Y mae ein bod yn cael ein bedyddio yn enw y Tad yn gymmaint yn ddyledswydd bendant a'n bod yn cael ein bedyddio yn enw y Mab; o blegid y mae y naill a'r llall yn cyfodi fel eu gilydd oddi ar orchymyn dadguddiedig; er bod ein perthynas â Duw Dad yn cael ei hamlygu i ni trwy reswm, y mae ein perthynas â Christ yn cael ei hamlygu gan ddadguddiad yn

¹Dyma y gwahaniaeth rhwng gorchymynion moesol a phendant, fel y cyfryw. Ond eto, gan fod y diweddaf yn meddu rhywfaint o nodwedd moesol, gallwn weled y rheswm drostynt wrth eu hystyried yn y golygiad yma. Y mae gorchymynion moesol a phendant mewn rhyw bethau yn gyffelyb, ac mewn pethau ereill yn wahanol i'w gilydd. Mor bell ag y maent yn gyffelyb, yr ydym yn canfod y rhesymau dros y naill a'r llall; mor bell ag y maent yn wahanol, yr ydym yn canfod y rheswm dros y cyntaf, ond nid dros yr olaf.

[Mae Jeremy Taylor yn rhoddi y darnodiad hwn o orchymynion pendant a moesol:—“Y mae priodoldeb gorchymynion moesol yn gorwedd mewn rheswm naturiol; tra y mae y rhesymau dros orchymynion pendant yn amgylchiadol, teuluaid, neu wladol.” Y mae y rheswm dros y cyntaf yn dragwyddol—y rheswm am yr ail yn amserol. Mae dyledswyddau moesol yn rhagori ar ddyledswyddau pendant: y mae addysg Mab Duw wedi dyrchafu y naill uwch law y lleill—“Trugaredd yr wyf yn ei ewyllysio, ac nid aberth.” Yr hyn a roddai werth yn ngolwg Duw yn ngwaith dynion yn cydffurfio â'r gosodiadau pendant, oedd eu hufudd-dod i'w orchymynion moesol; ac yn nifyg ufudd-dod i'r gorchymynion hyn, yr oedd eu cyssondeb a'u manylrwydd yn eu cyflawniad o'r lleill yn fwy anghymeradwy yn ei olwg na phe buasent yn eu llwyr esgeuluso. Y mae dyledswyddau moesol yn fwy rhagorol na rhai pendant; o blegid, 1. Y maent yn flaenorol iddynt mewn amser. 2. Y mae eu rheswm hwy yn gorwedd yn mherthynasau tragwyddol pethau, tra y mae rhesymau y lleill yn amgylchiadol. O herwydd hyny, 3. Y mae gorchymynion moesol yr hyn ydynt o angenrheidrwydd: nis gallwn feddwl am y posibilrwydd iddynt fod yn wahanol. Ond y mae gorchymynion pendant yn gorphwys ar ewyllys Duw: gallasant beidio a bod: nid ydynt oll o rwymedigaeth dragwyddol. 4. Moddion ydynt y dyledswyddau neu y sefydliadau pendant: y dyledswyddau moesol ydynt yr amcan; a chymmeradwya yr Arglwydd ein cydffurfiad â'r naill, mor bell ag yr arweinia hyny i ufudd-dod i'r lleill. Dylid, yr un pryd, cofio fod dyledswydd bendant yn dyfod yn ddyledswydd foesol pan y mae Duw yn ei gorchymyn. Y mae addoli Duw yn ddyledswydd foesol: ond am ffurfiau addoliad—aberthu, er anghraifft—nid yw ond dyledswydd bendant: ond gan fod Duw wedi sefydlu aberthu fel un o ffurfiau addoliad, y mae yn ymgyfodi ar unwaith i feddu yr un rwymedigaeth a phe buasai yn ddyledswydd foesol wreiddiol.]

unig. Ar y llaw arall, ac addef trefn yr efengyl, y mae diolchgarwch yn dyfod mor uniongyrchol yn ddyledus i Grist, oddi ar ei fod yn weinidog gwirfoddol yr oruchwyliaeth hon, ag y mae yn ddyledus i'r Tad, oddi ar ei fod yn ffynnonell pob daioni; er mai trwy ddadguddiad yn unig yr hysbysir y cyntaf i ni, a'r ail trwy reswm. Oddi wrth hyn gallwn weled—ac er mwyn eglurder, y mae yn deilwng crybwyll—fod sefydliadau pendant yn syrthio dan ystyriaeth ddyblyg. Y maent naill ai yn osodiadau wedi eu sefydlu ar grefydd naturiol, megys bedydd yn enw y Tad—er fod gan hyn hefyd gyfeiriad neillduol at drefn yr efengyl, o blegid y mae yn enw Duw, fel Tad ein Harglwydd Iesu Grist—neu y maent yn osodiadau allanol, yn gorphwys ar grefydd ddadguddiedig, megys bedydd yn enw y Mab a'r Ysbryd Glân.

Yn ail, Oddi wrth y gwahaniaeth rhwng yr hyn sydd foesol a'r hyn sydd bendant mewn crefydd, yr ymddengys sail y flaenoriaeth neu y rhagoriaeth arbenig a roddir i'r cyntaf, ac a ddysgir yn yr Ysgrythyrau sydd ddyledus iddo.

Y mae rheswm gosodiadau pendant yn gyffredin yn dra eglur, er nad allwn weled y rheswm pa ham y penodwyd ar y cyfryw osodiadau neillduol yn hytrach nag ereill. Pwy bynag, gan hyny, yn lle cecru yn nghylch geiriau, a ystyrio y peth ei hun, a wel yn eglur fod gosodiadau pendant yn gyffredinol, fel yn wahaniaethol oddi wrth ryw rai neillduol, yn cyfrangi o natur gorchymynion moesol, o blegid fod y rhesymau o honynt yn ymddangos. Er anghraifft, y mae addoliad *allanol* i Dduw yn ddyledswydd foesol, er nad oes un dull neillduol o honi felly. Dylid gofalu, felly, pan wneir cymhariaeth rhwng dyledswyddau pendant a moesol, na byddo iddynt gael eu cyferbynu yn mhellach nag fel y maent yn wahanol: yn ddim pellach nag fel y mae y blaenaf yn bendant, neu yn cyfodi oddi ar orchymyn allanol yn unig, yr hwn y mae ei resymau yn anhysbys i ni; ac fel y mae y diweddaf yn foesol, neu yn cyfodi oddi ar reswm eglur y peth, yn annibynol ar y cyfryw orchymyn allanol. Os na sylwir ar hyn, ni a awn i ddyrswch diddiwedd.

Yn awr, ar ol crybwyll y gosodiadau hyn, tybier am ddau orchymyn wedi eu rhoddi gan yr un awdurdod:—fod, mewn rhai achlysuron, yn anmhosibl ufuddhau i'r ddau:—fod y cyntaf yn foesol, yn gyfryw fel y mae y rhesymau yn hysbys i ni, a bod y rhesymau hyny yn dal yn yr achlysur neillduol ger ein bron; ond bod yr olaf yn bendant; *h. y.*, yn orchymyn nad ydym yn gweled y rhesymau am dano. Y mae yn ddiddadl mai ein dyledswydd ydyw ufuddhau i'r cyntaf; yn gymmaint a bod rheswm eglur dros y flaenoriaeth yma, a dim yn erbyn. Yn mhellach,

gosodiadau pendant—yr holl rai y mae Cristionogaeth yn orchymyn—ydynt foddion i ateb amcan moesol; a rhaid addef fod yr amcan yn fwy rhagorol na'r moddion. Ac nid yw cadw y gosodiadau hyn mewn un modd yn ufudd-dod crefyddol, nac o unrhyw werth, ond can belled ag y mae yn tarddu oddi ar egwyddor foesol. Ymddengys fod hyn yn llwybr hollol resymiadol o osod y mater i lawr, a'i benderfynu; ond dichon y gwelir nad yw mor hawdd ei gymhwyso at ymarferiad ag y gellid meddwl ar y golwg cyntaf.

Ac am hyny, yr wyf—mewn dull mwy ymarferol, er yn llai manwl, a chymmeryd y geiriau *deddf foesol* a *gosodiadau pendant* yn yr ystyr poblogaidd a chyffredin—yn chwanegu, fod yr holl ddeddf foesol yn gymmaint yn bwnc o orchymyn dadguddiedig ag ydyw gosodiadau pendant; o blegid y mae yr Ysgrythyrau yn gorchymyn pob rhinwedd moesol. Yn yr ystyr yma, felly, y mae y náill a'r llall yn gydwastad. Ond heb law hyny, y mae y ddeddf foesol yn ysgrifenedig ar ein calonau—wedi ei chymhlethu â'n natur. Ac y mae hyn yn awgrym eglur oddi wrth ei Hawdwr, pa un sydd i roddi lle, pan y byddant yn dyfod ar draws eu gilydd.

Ond nid oes llawn cymmaint o angenrheidrwydd am benderfynu y cwestiwn hwn ag y meddylia rhai. Ac nid rheswm ydyw yr unig gynnorthwy sydd genym i'w benderfynu. O blegid, *yn gyntaf*, Er fod dynolryw yn mhob oes yn dra thueddol i osod eu crefydd mewn rhyw ordinhadau pendant, mewn ffordd o gyfwerth am ufudd-dod i orchymynion moesol; eto, heb i ni wneuthur un gwahaniaeth rhyngddynt, ac felly heb benderfynu pa un sydd i gael y flaenoriaeth, y mae natur y peth yn dangos yn ddiammheuol fod pob syniadau o'r fath yn hollol ddinystriol i wir grefydd; fel y maent, hefyd, yn wrthwyneb i holl dôn gyffredinol yr Ysgrythyrau, ac i ymadroddion penodol ynddynt, nas gall dim ein gwneyd yn gymmeradwy gan Dduw heb rinwedd moesol. *Yn ail*, Pan gydgyrbwyllir dyledswyddau pendant a moesol, y mae yr Ysgrythyrau bob amser yn rhoddi pwys ar yr olaf, ond byth ar y cyntaf; ac er nad yw hyn yn caniatau esgeuluso y cyntaf pan nad ydynt yn croesi y diweddaf, eto, y mae yn awgrym eglur, pan y maent yn croesi eu gilydd, mai y diweddaf sydd i dderbyn y flaenoriaeth. A thrachefn: gan fod dynolryw yn dueddol i osod pwys eu crefydd ar rywbeth, yn hytrach na rhinwedd, rhag na byddai rheswm y peth ei hun, a thôn gyffredinol Cristionogaeth, fel yr ymddangosant yn yr awgrym crybwylledig, yn aneffeithiol, yn erbyn y ffoledd yma, y mae Iesu Grist ei hunan, oddi wrth yr hwn y mae gosodiadau

pendant yn derbyn eu grym, wedi cymmeryd achlysur i wneyd cymhariaeth rhyngddynt hwy a gorchymynion moesol, pan rwgnachodd y Phariseaid am ei fod yn "bwyta gyda phublicanod a phechaduriaid," a phan geryddasant ei ddysgyblion ef am "dynu twys ar y Sabbath." Yn y gymhariaeth hon, penderfynodd yn benodol pa un sydd i gael y flaenoriaeth, pan y maent yn dyfod ar draws eu gilydd. A thrwy draddodi ei benderfyniad awdurdodol mewn dull diarebol, gwnaeth ef yn benderfyniad cyffredinol—"Trugaredd yr wyf yn ei ewyllysio, ac nid aberth;" *Mat. ix. 13*; a *xii. 7*. Nid wyf yn rhoddi pwys ar y gair *diarebol*, er fy mod yn barnu fod y dull o lefaru i'w ystyried felly. Ond y mae yn ddiddadl fod y dull o lefaru mewn modd arbenig yn gwneyd y penderfyniad yn gyffredinol. O blegid pe dywedasid yn unig, yn yr amgylchiad olaf, fod Duw yn ewyllysio trugaredd yn hytrach na chadwraeth fanwl y Sabbath, buasem felly yn gallu rhesymu gyda'r tegwch mwyaf, ei fod yr un modd yn ewyllysio trugaredd o flaen y cyflawniad o osodiadau a defodau ereill, ac yn gyffredinol yn rhoddi y flaenoriaeth i ddyledswyddau moesol ar rai pendant. Fel hyn, buasai y penderfyniad yn gyffredinol, eto nid yn cael ei eirio, ond ei gasglu felly. Ond fel y mae yr ymadrodd yn yr Efengylau, y mae yn llawer cryfach; o blegid y mae yr ystyr, a geiriau atebiad ein Harglwydd, mor briodol i'w cymhwyso at unrhyw esampl arall o gymhariaeth rhwng dyledswyddau pendant a moesol, ag at yr esampl hon. Ac os ydyw trugaredd i'w ddewis o flaen gosodiadau pendant, nis gellir meddwl y dylai cyfiawnder roddi lle iddynt. Y mae hefyd yn deilwng o sylw, fel y mae y geiriau yn ddyfyniad o'r Hen Destament, eu bod yn y ddau le crybwylledig yn cael eu dwyn yn mlaen gyda'r hysbysiad nad oedd y Phariseaid yn deall eu harwyddocâd. Y mae hyn yn beth tra nodedig; o blegid, gan nas gall y dyn mwyaf anwybodus lai na deall ystyr llythyrenol yr adran yn y prophwyd Hosea (*pen. vi*); a chan na buasai deall yr ystyr llythyrenol yn eu hattal i "farnu yn erbyn y rhai diniweid" (*Mat. xii. 7*), nis gellir ammheu mai yr hyn a fwriadai ein Harglwydd yn yr ymadrodd oedd, nad oedd y Phariseaid wedi dysgu oddi wrtho, fel y gallasent, yn mha beth y mae ysbryd *cyffredinol* crefydd yn gynnwysedig—ei fod yn gynnwysedig mewn duwioldeb a rhinwedd, ac nid mewn ffurfiau a defodau. Y mae, fodd bynag, yn eithaf sicr y gallwn ddysgu hyn oddi wrth ei gymhwysiad ef o'r ymadroddion yn yr efengyl.

Ond gan ei bod yn un o wendidau arbenig y natur ddynol, pan wneir cymhariaeth rhwng dau beth, ac y gwelir fod chwaneg o bwysigrwydd yn y naill nag yn y llall, i ystyried y lleiaf

pwysig o'r ddau fel heb feddu dim pwys;¹ y mae yn dra angenrheidiol i ni gadw mewn cof ei fod yn beth rhyfygus iawn ynom i ddiystyru unrhyw osodiad o appwyntiad dwyfol; fod ein rhwymedigaeth i ufuddhau i holl orchymynion Duw yn ddiammodol ac anhebgorol; a bod gorchymynion heb fod ond rhai pendant, os addefir eu bod oddi wrtho Ef, yn ein gosod dan rwymedigaeth foesol i ufuddhau iddynt—yr hon rwymedigaeth sydd yn foesol yn yr ystyr mwyaf cyfyng a phriodol.

At y pethau hyn, nis gallaf lai na chwanegu fod yr hyn a fynegwyd yn awr am Gristionogaeth yn arddangos i ni, ac yn argymhell arnom, y ddyledswydd o chwilio yr Ysgrythyrau, mewn trefn i ddeall pa beth yw cyfundrefn dadguddiad mewn gwirionedd, yn lle penderfynu yn mlaen llaw, oddi wrth reswm, pa beth a raid i'r gyfundrefn fod.² Ac yn wir, os ceir yn y dadguddiad ryw ranau, y rhai y mae eu hystyr ymddangosiadol yn groes i grefydd naturiol,³ gallwn, yn y modd sicraf, gasglu mai nid y gwir ystyr ydyw yr ystyr ymddangosiadol hwnw. Ond nid yw yn ddadl yn erbyn eglurhad o'r Ysgrythyr, fod y cyfryw eglurhad yn cynnwys athrawiaeth nas gall goleuni natur ei darganfod,⁴ neu orchymyn nad yw deddf natur yn ei rwymo arnom.

[¹“ Y mae esgeulusdra o ordinhadau crefydd, o ddwyfol appwyntiad,” medd yr esgob Horsley, “ yn arwydd sicr o ddifaterwch pechadurus o barth i'n dyledswyddau *uchaf*, trwy ba rai yr hona dynion eu bod yn gwneyd math o iawn am eu hesgeulusdra. Gwelir yn rhy fynych mai hyn yw dechreuad buchedd afreolaidd; a chan mwyaf, dybena yn yr annuwiaeth a'r afradlonedd mwyaf eithafol.”]

² Pen. iii.

[³Y mae yn wir y dylid esbonio y Beibl fel ag i beri iddo gydweddu â phob gwirionedd adnabyddus. Yr un pryd, nid yw yn briodol rhoddi duwinyddiaeth natur yn safon i farnu duwinyddiaeth y dadguddiad dwyfol wrthi. Wrth roddi gwyddiant yn “*uchaf*,” yn lle “*gair Duw*,” y mae llawer yn arwain eu hunain i wadu a gwrthod dysgeidiaeth yr Ysgrythyrau. Er fod gwaith llaw Duw, ac ymadroddion ei enau, yn sicr o fod yn gysson â'u gilydd, eto, ni ddylid gosod duwinyddiaeth natur, a darganfyddiadau gwyddiant, yn safon i farnu tystiolaethau y *gair*, hyd oni fyddo gan ddynion wybodaeth berffaith a thrwyadl am y pethau hyny. Y mae gwybodaeth amherffaith creadur meidrol am ffyrdd Duw yn rheol anniogel i farnu mynegiadau ei air. Y mae y gwirionedd cyferbyniol i'r eiddo Butler, yn y frawddeg y cyfeiriwn ati, yn llawn mor bwysig i ddal arno yn ein dyddiau ni:—“Os canfyddir ffeithiau mewn natur, y rhai sydd yn ymddangos yn groes i grefydd ddadguddiedig, gallwn fod yn sicr fod lleferydd natur heb eu deall genym.” Y mae yn wir fod cynnydd gwybodaeth wyddiannol wedi cywiro lluaws o gam-esboniadau a roddid ar ranau o'r Beibl: ond y cywirydd goreu ar ystyron ymddangosiadol rhanau o'r Beibl ydyw rhanau ereill o hono. Yr esboniwr goreu ar yr Ysgrythyr ydyw yr Ysgrythyr ei hun.]

⁴ Pen. vii.

PENNOD II.

AM Y DYBIAETH YN ERBYN DADGUDDIAD, FEL YN CAEL EI
YSTYRIED YN WYRTHIOL.

WEDI dangos pwysigrwydd y dadguddiad Cristionogol, a'n rhwymedigaethau i dalu sylw difrifol iddo, ar y dybiaeth ei fod yn wirioneddol, y peth nesaf mewn trefn ydyw ystyried y seiliau a dybir sydd yn erbyn dadguddiad yn gyffredinol: a hyn fydd testyn y bennod hon, yn nghyd â'r gwrthddadleuon yn erbyn y dadguddiad Cristionogol yn arbenig, yr hyn a gaiff ymdriniaeth yn y pennodau canlynol.¹ O herwydd ymddengys mai y llwybr mwyaf naturiol ydyw symmud y rhagfarnau yn erbyn Cristionogaeth, cyn myned yn mlaen i ystyried y profion pendant o'i phlaid, a'r gwrthddadleuon yn erbyn y profion hyny.

Ymddengys ei bod yn dyb gyffredin fod rhyw ddadl neillduol yn nghyfatebiaeth natur yn erbyn y gyfundrefn Cristionogol—o leiaf yn erbyn gwyrthiau; fel ag y mae prawf cryfach yn angenrheidiol i brofi eu gwirionedd, nag a fyddai yn ofynol i'n hargyhoeddi o wirionedd dygwyddiadau neu ffeithiau ereill. Er nas gall ystyriaeth o'r ddadl dybiedig hon lai nag ymddangos yn ddibwys i lawer; eto, gan fod hyny yn perthyn i destyn y bennod hon, gall fod yn adeiladol i barotoi y meddwl, a symmud rhai rhagfarnau, pa mor ddiangenrhaid bynag y bydd yr ystyriaeth ynddi ei hun.

I. Nid wyf yn canfod un rhith o ddadl, oddi wrth gyfatebiaeth natur, yn erbyn cyfundrefn Cristionogaeth—fod Duw wedi creu ac yn llywodraethu y byd trwy Iesu Grist, ac y bydd iddo eto farnu y byd mewn cyfiawnder trwyddo ef; a bod dynion da o dan ddylanwadau dirgelaid ei Ysbryd. A ydyw, ai nid ydyw y pethau hyn i'w galw yn wyrthiol,² sydd, efallai, yn gwestiwn yn nghylch geiriau yn unig; o leiaf, nid yw ond cwestiwn o ychydig bwys yn y mater hwn. Os oes rhyw sail i ddadleu yn

¹ Pen. iii, iv, v, vi.

² Y mae yn amlwg fod yr awdwr yn ystyried dadguddiad yn wyrth; *h. y.*, y mae yn gyfryw nas gellir ei chael allan trwy reswm, ac y mae i ryw raddau yn annhebyg i gwrs naturiaeth. Sonia hefyd am brawf gwyrthiol o blaid dadguddiad sydd ei hunan yn wyrth; ond y mae y dadguddiad ynddo ei hun yn wyrth ar wahan oddi wrth brawf gwyrthiol o'i blaid. Felly, y mae gwadu y gwyrthiau yn arwain i wadiad o bosiblwynd dadguddiad, fel y dengys Rogers yn ei *Eclipse of Faith*, ac yn arwain, medd Paley, hyd yn oed i wadiad o fod Duw.]

erbyn cyfundrefn Cristionogaeth, rhaid i hynny fod, naill ai am nad yw yn bosibl ei chael allan trwy reswm neu brofiad, neu am ei bod yn annhebyg i gwrs presennol natur. Ond nid oes mewn cyfatebiaeth un ddadl yn erbyn gwirionedd y gyfundrefn hon, ar y naill na'r llall o'r cyfrifon hyn.

Yn gyntaf, Nid oes un ddadl, oddi wrth gyfatebiaeth, yn erbyn ei gwirionedd, ar gyfrif fod yn anmhosibl ei chael allan trwy reswm neu brofiad. O blegid tybier am ddyn na chlywodd erioed am ddadguddiad—yr hwn a feddai ddealltwriaeth cryf, ac a fyddai yn gydnabyddus âg athroniaeth a chrefydd naturiol—nis gallai y cyfryw un lai na theimlo nad yw yn hysbys ond â rhan fechan o gyfundrefn naturiol a moesol y greadigaeth. Nis gallai lai na theimlo y rhaid fod pethau afrifed yn y goruchwyliaethau rhagluniaethol a aethant heibio, yn y llywodraeth a ddygir yn mlaen yn anweledig yn bresennol, ac yn yr hyn sydd i ddyfod, am y rhai y mae ef yn gwbl anwybodus,¹ a'r rhai nis gellid eu gwybod ond trwy ddadguddiad yn unig. Pa un bynag a ydyw cyfundrefn y greadigaeth yn yr ystyr cyfyngaf yn anfeidrol, ai nid yw, y mae yn ddiammheu ei bod yn fawr tu hwnt i bob dychymyg. Ac nid yw y rhan o honi sydd yn agored ger ein bron ni ond pwynt bychan, mewn cymhariaeth i holl gynllun rhagluniaeth, yr hwn sydd yn ymledu trwy holl dragwyddoldeb; mewn cymhariaeth i'r hyn sydd yn myned yn mlaen yn bresennol yn mharthau pellenig y greadigaeth ddiderfyn; i.e. mewn cymhariaeth i holl gynllun y byd hwn. Ac felly, nid ydyw y ffaith fod pethau yn gorwedd tu hwnt i derfyn ein galluoedd yn un math o dybiaeth yn erbyn eu gwirionedd; o blegid y mae yn eglur fod pethau afrifed yn nghyfansoddiad a llywodraeth y greadigaeth, y rhai sydd felly. *Yn ail*, Nid oes un dybiaeth oddi wrth gyfatebiaeth yn erbyn athrawiaeth gyffredinol yr Ysgrythyrau, a grybwyllwyd yn awr, ar gyfrif ei bod yn annhebyg i gwrs adnabyddus natur. O blegid nid oes un sail i feddwl, oddi wrth gyfatebiaeth, fod *holl* gwrs natur, neu y llywodraeth ddwyfol, sydd yn naturiol yn anhysbys i ni, a *phob peth* ynddi, yn debyg i unrhyw beth yn y rhan sydd yn hysbys; ac am hynny, nid yw yn wrthddadl neillduol yn erbyn rhywbeth yn y cyntaf, ei fod yn annhebyg i rywbeth yn y diweddaf. Ac yn nghyfansoddiad naturiol y byd, yn gystal ag yn y moesol, yr ydym yn gweled pethau, sydd i fesur mawr yn annhebyg i'w gilydd; a chan hynny, ni ddylem ryfeddu at y cyfryw annhebygrwydd rhwng pethau gweledig a phethau anweledig. Ar yr un pryd,

¹ Pen. vii.

nid yw cyfundrefn Cristionogaeth mewn un modd yn gwbl an-nhebyg i gyfundrefn natur, fel yr ymddengys yn y rhanau canlynol o'r traethawd hwn:—

Y mae y syniad am wyrth, yn cael ei hystyried fel prawf o anfoniad dwyfol, wedi ei osod i lawr gyda manylwch mawr gan dduwinyddion; ac ymddengys ei fod yn cael ei ddeall yn lled drwyadl gan bawb ystyriol. Y mae hefyd wyrthiau anweledig yn bod;—nis gellir, er esampl, dwyn yn mlaen ymgnawdoliad Crist, gan ei fod yn beth dirgelaid, fel prawf o'r cyfryw awdurdodiad: y mae yn ofynol i wyrthiau anweledig gael eu profi trwy rai gweledig. Y mae dadguddiad ei hun hefyd yn wyrthiol, a gwyrthiau ydynt y prawf o hono; ac edrychwn yn awr ar y ddadl a dybir sydd yn erbyn y rhai hyn. Yr hyn a fu yn bresennol dan sylw genym ydyw, pa un a ddewiswn alw pob peth yn ngoruchwyliaethau rhagluniaeth—nas gellir eu cael allan heb ddadguddiad, ac nad ydynt gyffelyb i gwrs adnabyddus pethau—yn wyrthiol; a pha un a ydyw y gyfundrefn Gristionogol i'w galw felly, ai nid yw; y mae y sylwadau blaenorol yn dangos yn sicr nad oes un ddadl yn ei herbyn oddi wrth gyfatebiaeth natur.

II. Nid oes un ddadl oddi wrth gyfatebiaeth yn erbyn rhai gweithrediadau, y rhai a ddynodem yn awr fel yn wyrthiol; yn enwedigol, nid oes un ddadl yn erbyn credu y rhoddwyd dadguddiad yn nechreu y byd—dim yn erbyn credu hyny ag a dybir sydd yn cael ei gynnwys neu ei fynegu yn y gair *gwyrthiol*.¹ O blegid y mae gwyrth, yn ol y syniad am dani, yn cyfeirio at gwrs o eiddo natur; ac yn arwyddo rhywbeth gwahanol oddi wrtho, fel y cyfryw. Yn awr, nid oedd un cwrs natur ar y pryd yr ydym yn son am dano; neu, os oedd, nid ydym yn hysbys pa beth oedd y cwrs hwnw ar boblogiad cyntaf y bydoedd. Felly, y mae y cwestiwn, a oedd dynolryw wedi derbyn dadguddiad y pryd hyny, i'w ystyried, nid fel cwestiwn yn nghylch gwyrth, ond fel cwestiwn cyffredin o ffaith. Ac y mae genym yr un rheswm dros dderbyn yr hyn a hysbysa traddodiad ar y cwestiwn hwn, ac ar bethau cyffredin o'r un cyfnod:—megys, er esampl, pa ran o'r ddaiar a boblogwyd gyntaf.

Neu fel hyn: Pan osodwyd dynolryw gyntaf yn y sefyllfa hon, arferwyd gallu hollol wahanol oddi wrth gwrs presennol

[¹Nis gellir dwyn yn mlaen un ddadl oddi wrth gwrs naturiaeth yn erbyn dadguddiad fel gwyrth yn nechreu y byd; o blegid yn yr amser hwnw, nid oedd cwrs a threfn natur wedi ei sefydlu, ac felly, nis gallasai un wyrth fod, gan fod y gair "gwyrth" yn dynodi ymadawiad oddi wrth, neu droseddiad ar gwrs cyffredin natur. Nis gall y cyfryw ddadl gyfodi chwaith *ar ol* sefydlu trefn natur; o blegid nis gwyddom am un achos cyffredol—byd arall, er anghraifft—i ymresymu oddi wrtho.]

natur. Yn awr, a beidiodd y gallu hwn—gallu sydd yn hollol wahanol oddi wrth gwrs presennol natur—o blegid nis gallwn yn briodol gymhwyso y gair *gwyrthiol* ato—a beidiodd y gallu hwn yn ebrwydd ar ol creu dyn, ynte a aeth efe rhagddo, a gweithredu yn mhellach, trwy ei gynnysgaethu â dadguddiad, sydd gwestiwn o'r un natur a'r cwestiwn, a weithredodd gallu cyffredin yn y cyfryw radd a dull neillduol, ynte na wnaeth.

Neu, tybier fod y gallu a weithredwyd yn nghreadigaeth y byd yn cael ei ystyried yn wyrthiol, neu yn hytrach yn cael ei alw felly, ni bydd y cwestiwn yn wahanol; o blegid y mae yn rhaid addef fod y cyfryw allu wedi ei ddefnyddio. O blegid a thybied yr addefir fod ein Iachawdwr wedi treulio rhai blyneddoedd mewn gwneuthur gwyrthiau, nid yw y cwestiwn, pa un a weithredodd efe y gallu gwyrthiol hwn mewn graddau mwy, neu raddau llai—mewn mwy neu lai o amgylchiadau—yn y dull hwn neu y dull arall—ond o ychydig bwys.

Mae yn amlwg, gan hyny, nas dichon fod un ddadl neillduol, oddi wrth gyfatebiaeth natur, yn erbyn meddwl fod dadguddiad wedi ei roddi i ddyn yn y dechreuad.¹

Gallwn chwanegu, nad ymddengys yr awgrym lleiaf mewn hanesiaeth neu draddodiad, fod crefydd wedi ei chael allan trwy reswm ar y cyntaf; ond y mae yr oll o hanesiaeth a thraddodiad yn ein hawdurdodi i feddwl ei bod wedi dyfod i'r byd trwy ddadguddiad. Y mae ystâd crefydd yn yr oesoedd boreuaf ag y mae genym gyfrif am danynt o blaid y golygiad mai yn y llwybr yma y daeth i blith dynion. Ac y mae yr ystyriaethau hyn, wrth eu cymmeryd gyda'u gilydd—heb gymmeryd i'r cwestiwn awdurdod benodol yr Ysgrythyrau—yn ffurfio prawf lled bwysig, fod dadguddiad wedi ei roddi yn nechreu y byd. Yn awr, fel y mae hyn yn gadarnhad ar grefydd naturiol, ac felly yn cael ei grybwyll yn y rhan gyntaf o'r traethawd hwn,² felly hefyd y mae yn tueddu i symmud unrhyw ragfarnau yn erbyn dadguddiad dilynol.

III. Ond gellid eto ddadleu fod rhyw sail neillduol, oddi wrth gyfatebiaeth, yn erbyn gwyrthiau; yn enwedigol yn erbyn dadguddiad, ar ol sefydlu ac yn ystod parhad trefn natur.

Yn awr, gyda golwg ar y ddadl dybiedig hon, gallwn sylwi yn gyffredinol:—cyn y gallwn gael un sail i gyfodi yr hyn y gellir yn briodol ei alw yn *ymresymiad* oddi wrth gyfatebiaeth, o blaid

[¹“Y mae yr ystyriaeth nas gallasai dyn ei greu ei hun, yn cael ei dwyn yn mlaen yn fynych fel prawf o weithrediad y Creawdwr Dwyfol; ac nas gallasai dynion yn y dechreuad wareiddio eu hunain, sydd brawf o'r un natur, a'r un mor rymus o weithrediad Dysgawdwr Dwyfol.”—*Whately on the Origin of Civilization.*]

² Rhan I. pen. vi.

neu yn erbyn dadguddiad, yn cael ei ystyried fel yn wyrthiol, y mae yn rhaid i ni fod yn gydnabyddus âg amgylchiad arall cyffelyb neu gyfredol. Ond nid ydyw hanes rhyw fyd arall, yn ymddangosiadol mewn amgylchiadau cyffelyb i'r eiddom ni, yn amgen nag amgylchiad cyffelyb neu gyfredol; a chan hyny, nis dichon llai na hyn fod yn gyfryw. Eto, pe gallem gael prawf tebygol o blaid neu yn erbyn dadguddiad—trwy dderbyn hysbysrwydd fod gan y cyfryw fyd ddadguddiad, neu ei fod hebdo—nis gallai y cyfryw brawf, wedi ei gymmeryd yn unig oddi wrth un anghraifft, lai na bod yn dra ansicr a gwan. Ond i sylwi yn fwy neillduol:—*Yn gyntaf*, y mae tybiaeth gref yn bod yn erbyn gwirioneddau damcanol cyffredin, ac yn erbyn y ffeithiau mwyaf cynnefin, yn flaenorol i'r prawf o honynt; yr hon, er hyny, a orchfygir braidd trwy unrhyw brawf. Y mae tybiaeth gref yn erbyn hanes Cæsar, neu ryw ddyn arall.¹ O blegid meddylier am nifer o ffeithiau cyffredin, mewn rhyw amgylchiadau neillduol, o'r rhai ni byddai gan ddyn un prawf yn dygwydd dyfod i'w feddwl; efe a gasglai yn y fan, heb un petrusder, eu bod oll yn anghywir. A'r cyffelyb a ellir ei ddyweyd am un ffaith gyffredin. Oddi wrth hyn, fe ymddengys mai y cwestiwn o bwys, gyda golwg ar y pwnc dan sylw, ydyw yn nghylchgraddau y dybiaeth yn erbyn gwyrthiau: nid pa un a oes tybiaeth yn eu herbryn o gwbl. O blegid os oes tybiaeth o filiwn i un yn erbyn y ffeithiau mwyaf cyffredin, pa beth fydd nerth chwangel tybiaeth wanaidd, er iddi fod â rhyw neillduolrwydd ynddi? Diammheu ei bod yn rhy ddibwys i sylwi arni. Yr unig ymholiad pwysig ydyw, a oes y cyfryw dybiaeth yn erbyn gwyrthiau fel ag i'w gwneyd mewn un modd yn anghredadwy? *Yn ail*, Os gadawn allan yr ystyriaeth o grefydd, yr ydym yn y fath dywyllwch hollol am yr achosion, achlysuron, rhesymau, neu

[¹Dadleuir yn gyffredin yn bresennol yn erbyn cywirdeb y paragraph uchod. Y mae annhebygoliaethau, cyn i'r ffaith gymmeryd lle, yn wahanol i'r annhebygoliaethau ar ol iddi gymmeryd lle. Y mae y rhai diweddaf bob amser yn rheswm dros ammheu; ond nid yw y rhai cyntaf yn rhwym o fod felly. Y mae gwyrth o natur annhebygoliaeth ar ol i'r ffaith gymmeryd lle: y mae ynddi ei hun yn annhebygol, ac yn gofyn am brofion penderfynol drosti, a fyddont yn gyfatebol i, ac yn gorbwyso yr annhebygolrwydd sydd yn ei natur hi ei hun. Er fod yr wrthddadl hon i ymresymiad Butler yn ymddangos, ar y golwg cyntaf, fel yn gwanhau ei ddadl dros debygolrwydd gwyrthiau, eto y mae yn cadarnhau y prawf o blaid Cristionogaeth yn gyffredinol. Y mae yr annhebygoliaethau yr ymddangosai y Messiah yn yr amser, y lle, a chyd â'r amgylchiadau a fynegasid yn y prophwydi, yn filiwn i un, oddi eithr fod y cyfan yn cael ei wneuthur yn ol rhagderfynedig gynghor Duw. Ond ar ol unwaith weled hyny wedi cymmeryd lle—"y gair wedi ei wneuthur yn gnawd," trwy gyfryngiad Dwyfol—yna, y mae ei wyrthiau rhyfeddol yn dyfod yn debygol, yn hytrach nag yn annhebygol. Gwyrthiau oedd yn gweddu i berson oedd ei hunan yr uchaf o wyrthiau Duw.]

amgylchiadau, ar y rhai y mae cwrs presennol natur yn dibynnu, fel nad ymddengys un annhebygolrwydd dros neu yn erbyn tybied fod pump neu chwe mil o flyneddoedd wedi rhoddi lle i achosion, achlysuron, rhesymau, neu amgylchiadau, o'r rhai y gallasai cyfryngiadau gwyrthiol gyfodi. Ac oddi wrth hyn, yn gyssylltiedig â'r sylwadau blaenorol, y mae yn canlyn, y rhaid fod tybiaeth annhraethol gryfach yn erbyn y ffaith gyffredin *benodol* a grybwyllwyd yn awr, nag yn erbyn gwyrthiau *yn gyffredinol*, yn flaenorol i brawf o'r naill a'r llall. Ond, yn *drydydd*, Cymmerer crefydd, neu gyfundrefn foesol y byd, i ystyriaeth, ac yna gwelir rhesymau neillduol ac eglur o blaid gwyrthiau—i gynnysgaethu dynolryw âg addysg yn chwanelgol at yr eiddo natur, ac i gadarnhau ei wirionedd. Ac y mae hyn yn rhoddi tebygolrwydd cryf i'r dybiaeth y gallai fod yn rhan o gynllun gwreiddiol pethau, fod cyfryngiadau gwyrthiol i gymmeryd lle. Yna, *yn olaf*, Ni ddylid cymharu gwyrthiau â dygwyddiadau naturiol cyffredin; neu â dygwyddiadau, y rhai, er yn anghyffredin, sydd yn gyffelyb i'r hyn a brofwn yn feunyddiol; ond âg ymddangosiadau anghyffredinol natur. Ac yna, bydd y gymhariaeth rhwng y dybiaeth yn erbyn gwyrthiau, a'r dybiaeth yn erbyn ymddangosiadau anghyffredin, megys cometau, a'r cyfryw alluoedd mewn natur a dymgyrchiad a thrydaniaeth, y rhai sydd mor wahanol i briodoleddau cyrff ereill heb eu cynnysgaethu â'r galluoedd hyn. A chyn y gallo neb benderfynu a oes rhyw dybiaeth neillduol yn erbyn gwyrthiau, mwy nag yn erbyn pethau anghyffredin ereill, rhaid iddo ystyried beth, wrth glywed gyntaf, a fyddai y rhagfarnau a'r tybiau yn erbyn yr ymddangosiadau a'r galluoedd a nodwyd ddiweddaf, yn meddwl y dyn na byddai yn adnabyddus ond o gwrs natur yn ddyddiol, misol, a blyneddol, yn y blaned hon, ac o'r elfenau a'r galluoedd cyffredin a welwn yn feunyddiol.

Yr wyf yn casglu, gan hyny, nad oes, yn ddiddadl, un dybiaeth fel hyn yn erbyn gwyrthiau, fel ag i'w gwneyd mewn un modd yn anghredadwy; ond i'r gwrthwyneb, fod y ffaith ein bod yn alluog i ganfod rhesymau drostynt, yn gadarnhad i'w hanes, yn yr amgylchiadau ag y mae y rhesymau hyny yn dal: ac nad yw mewn un modd yn sier fod un sail i dybied oddi wrth gyfatebiaeth, hyd yn oed i'r graddau lleiaf, nad oedd gwyrthiau, mwy na rhyw ymddangosiadau rhyfeddol ereill; er nad yw yn werth y drafferth i ddyrysu y darllenydd âg ymchwiliadau i natur ddansoddol tystiolaeth, i'r dyben i benderfynu cwestiwn, sydd, fel y gwelwn,¹ heb y cyfryw ymchwiliadau, yn meddu ond ychydig o bwys.

¹Gwel Rhan II. pen. ii.

PENNOD III.¹

AM EIN ANGHYMHWYSDER I FARNU AM YR HYN A ELLID DDYSGWYL MEWN DADGUDDIAD; A'R TEBYGOLRWYDD A GYFYD ODDI WRTH GYFATEBIAETH Y CYNNWYSA, O ANGENRHEIDRWYDD, BETHAU YN YMDDANGOS YN AGORED I WRTHDDADLEUON.

HEBLAW y gwrthddadleuon yn erbyn y prawf o blaid Cristionogaeth, y mae amryw yn cael eu dwyn yn mlaen yn erbyn ei chyfundrefn; yn erbyn yr holl ddull y gosodwyd hi, ac y gadawyd hi yn y byd; yn gystal ag yn erbyn amryw bethau neillduol yn yr Ysgrythyr; gwrthddadleuon wedi eu cymmeryd oddi wrth ddiffygion dadguddiad; oddi wrth bethau ynddo sydd yn ymddangos i ddynion yn *ffolineb* (1 Cor. i. 28); oddi wrth yr ystyriaeth ei fod yn cynnwys testynau tramgwydd, y rhai a arweiniasant, ac a ragwelwyd a fuasant yn arwain i benboethder ac ofergoeledd, ac a drowyd yn wasanaethgar i fwriadau gorthrymus a drygionus; oddi wrth y ffaith nad yw yn gyffredinol; ac, yr hyn sydd beth o'r un natur, oddi wrth yr ystyriaeth fod ei phrawf heb fod mor gryf a boddlonol ag y gallasai fod; o blegid y mae yr ystyriaeth hon yn cael ei throi rai prydiau yn ddadl benderfynol yn erbyn ei gwirionedd.² Byddai yn orchwyl blinderus, ac yn wir, anmhosibl cyfrif yr amryw neill-

[¹Ar ol dangos pwysigrwydd Cristionogaeth, a symmud o'r ffordd yr wrthddadl yn erbyn dadguddiad yn gyffredinol, fel gwyrth, y mae yr awdwr yn myned rhagddo i ystyried y gwrthddadleuon i'r dadguddiad Cristionogol yn neillduol, fel i'w gwahaniaethu oddi wrth wrthddadleuon yn erbyn y prawf drosti—yn erbyn y modd y gadawyd hi yn y byd—yn erbyn ei diffygion—ffolineb ei hathrawiaeth (1 Cor. i. 24)—ei diffyg o gyffredinolrwydd—y diffyg a'r gwendid a dybir sydd yn ei phrawf, &c. Yn y bennod hon, rhoddir yr atebiad cyffredinol i'r cyfryw wrthddadleuon; sef, fod gwrthddadleuon yn erbyn trefniant Cristionogaeth, ar wahan oddi wrth wrthddadleuon yn erbyn ei phroffion, yn gwbl ddibwys, o herwydd ein bod yn anghymhwys i farnu ar gymhwysder cyfundrefn dadguddiad. Y mae yr anghymhwysder hwn sydd ynom i farnu o barth iddi yn ymddangos oddi wrth y rhesymau canlynol oddi wrth gyfatebiaeth:—Fel yr ydym yn anghymhwys, yn flaenorol i brofiad, i farnu pa beth a ddylai cyfundrefn natur fod, yr hon gyfundrefn sydd yn cynnwys lluaws o bethau na fuasem yn dysgwyl am danynt, ac sydd yn agored i luaws o wrthddadleuon ymddangosiadol; felly hefyd y mae yn debygol ein bod yn farnwyr anghymhwys ar gyfundrefn dadguddiad, yr hon, yr un modd, a gynnwys luaws o bethau gwahanol oddi wrth a fuasem yn ddysgwyl, ac agored i amryw wrthddadleuon a ymddangasant yn deg a phriodol.]

²Gwel pen. vi.

duolion a gynnwysir dan y gwrthddadleuon y cyfeiriwyd atynt yn awr, gan eu bod mor amrywiol—yn ol gwahanol ddychymygiion dynion. Y mae rhai dynion yn ei ystyried yn wrthddadl gref yn erbyn awdurdod yr Ysgrythyrau, eu bod heb eu cyfansoddi wrth reolau celfyddyd—wedi cytuno arnynt gan feirniaid fel cynnorthwyon i ysgrifenu yn drefnus a chywir. Ac y mae yn anhawdd adrodd gyda pha faint o wawd y trinig rhai o ranau prophwydol yr Ysgrythyrau; a hyny mewn rhan o herwydd byrbwylldra esbonwyr;¹ ond hefyd, i fesur mawr, ar gyfrif yr arddull arwyddluniol a ffugrol sydd yn perthyn iddynt. Caiff rhai pethau o'r natur yma ystyriaeth benodol genym yn y pennodau canlynol. Ond fy amcan yn bresennol ydyw sylwi, mewn modd cyffredinol, gyda golwg ar y dull yma o ymresymu, ei fod, ar y dybiaeth fod dadguddiad, yn dra thebygol yn mlaen llaw ein bod i raddau helaeth yn anghymhwys i farnu am dano; ac y cynnwysai lawer o bethau a ymddangosent i ni yn agored i wrthddadleuon pwysig, os byddai i ni farnu am dano mewn rhyw fodd amgen na thrwy gyfatebiaeth natur. Ac felly, er fod gwrthddadleuon yn erbyn y prawf o Gristionogaeth yn deilwng o'r ystyriaeth mwyaf difrifol, eto, y mae gwrthddadleuon yn erbyn Cristionogaeth ei hun, i fesur mawr, yn wag a disylwedd—bron yr holl wrthddadleuon yn ei herbyn, oddi eithr y rhai a ddygir yn mlaen yn erbyn y profion neillduol o'i tharddiad dwyfol. Yr wyf yn siarad gyda gofal, rhag y tybir fy mod yn bychanu rheswm—yr unig allu sydd genym i farnu yn nghylch unrhyw beth, hyd yn oed dadguddiad ei hun—neu y tybir fy mod yn haeru nas gellir profi dadguddiad tybiedig yn anghywir, oddi wrth nodweddau mewnol. O blegid gallai gynnwys syniadau anfoesol, a rhai croes i'w gilydd; a phrofid ef yn anghywir gan y naill neu y llall o'r rhai hyn. Ni chymmeraf arnaf chwaith haeru nas gellir gwneuthur rhyw ddadguddiad tybiedig yn anghredadwy gan bethau ereill. Ar yr un pryd, barnwyf fod y sylw uchod yn wirionedd diammheuol—fod gwrthddadleuon yn erbyn Cristionogaeth, fel yn wahaniaethol oddi wrth wrthddadleuon yn erbyn ei phrawf, yn wag a dibwys. A dangos hyn ydyw amcan y bennod hon. A chyda golwg ar y cyfan, nis gallaf lai na dymuno ar fod i'r profion gael sylwi arnynt, yn hytrach na chyn-dyn-ddadleu yn erbyn yr haeriadau, ar gyfrif rhyw gasgliadau anghymmeradwy, gwirioneddol neu dybiedig, a ellir dynu oddi wrthynt. O blegid rhaid, wedi y cwbl, derbyn yr hyn sydd wir; er y dangosai i ni fyrder ein galluoedd, ac nad ydym mewn

[¹Cymmerai Voltaire arno gredu fod Ezeiel wedi bwyta y rhôl mewn gwirionedd; tra y mae y prophwyd yn cadarnhau mai gweledigaeth ydoedd.]

un modd yn abl i farnu am lawer o bethau, yr hyn yr ydym ni yn dueddol i dybied ein bod. Ni bydd hyn yn un wrthddadl yn meddwl dynion rhesymol; o leiaf, wrth ail feddwl, ni bydd yn un wrthddadl gyda'r cyfryw yn erbyn tegwch y sylwadau canlynol.

Fel y mae Duw yn llywodraethu y byd, ac yn addysgu ei greaduriaid yn ol rhyw ddeddfau neu reolau, yn nghwrs adnabyddus natur—adnabyddus trwy reswm a phrofiad—felly y mae yr Ysgrythyrau yn hysbysu am gyfundrefn o eiddo rhagluniaeth ddwyfol yn chwanegol at hyn. Mynega fod Duw, trwy ddadguddiad, wedi addysgu dynion mewn pethau o barth i'w lywodraeth nas gallasant eu gwybod mewn un ffordd arall; a dwyn ar gof iddynt bethau ereill a allasant eu gwybod hebddi; a chadarnhau gwirionedd y cyfan trwy wyrthiau. Yn awr, os ydyw yr oruchwyliaeth naturiol a'r un ddadguddiedig wedi dyfod oddi wrth Dduw; os ydynt yn cydreddeg â'u gilydd, a chyd â'u gilydd yn gwneyd i fyny un gyfundrefn o ragluniaeth, y mae ein bod yn farnwyr annigonol ar un yn ei wneyd yn dra thebyg ein bod yn annigonol i farnu y llall hefyd. Gan, ar ol cael profiad, fod cyfansoddiad a chwrs naturiaeth yn ymddangos yn dra gwahanol oddi wrth yr hyn y dysgwyliesid, yn flaenorol i brofiad, iddo fod; y mae hyn yn mlaen llaw yn ei wneyd yn debygol y gwel dynion yr oruchwyliaeth ddadguddiedig hefyd, os barnant am dani fel y gwnant am gyfansoddiad natur, yn dra gwahanol i ddysgwyliaid blaenorol, ac yn agored i wrthddadleuon mawrion—o leiaf yn ymddangosiadol felly—i wrthddadleuon yn erbyn y gyfundrefn ei hunan, ac yn erbyn graddau a dulliau y cyfryngiadau gwyrthiol, trwy ba rai y cadarnhawyd ac y dygwyd hi yn mlaen. Fel hyn, tybier am dywysog yn llywodraethu ei diriogaethau, yn y modd doethaf, trwy ddeddfau cyffredin, a'i fod ar ryw achlysuron pwysig yn attal y deddfau hyn, ac yn llywodraethu, mewn amryw amgylchiadau, mewn dull gwahanol—pe bai un o'r deiliaid heb fod yn alluog i farnu yn mlaen llaw wrth ba reolau cyffredin y dylid cario y llywodraeth yn mlaen, nis gellid dysgwyl i hwnw fod yn gymhwys i farnu ar ba adegau, neu yn mha ddull, neu i ba raddau y dylai fod attaliad ar, neu wyriad oddi wrth y deddfau cyffredin. Os na byddai yn alluog i farnu ar ddoethineb y gweinyddiad cyffredin, nid oes un sail i feddwl y byddai yn alluog i farnu doethineb y gweinyddiad anghyffredin. Os meddyliai fod ganddo wrthddadleuon yn erbyn y cyntaf, y mae yn dra thebyg y meddyliai hefyd fod ganddo wrthddadleuon yn erbyn yr olaf. Ac fel hyn: fel yr ydym yn llithro i ffoleddau a chamsyniadau, pa bryd bynag y ceisiom,

yn amgen nag oddi ar brofiad a chyfatebiaeth, farnu am gyfansoddiad a chwrs natur—mae yn amlwg y gallwn dybied yn mlaen llaw y llithrem i lawn cymmaint o gamgymeriadau wrth geisio, yn yr un modd, farnu am ddadguddiad. Ac nid oes genym fwy o sail i ddysgwyl yr ymddengys y diweddaf i ni yn glir oddi wrth wrthddadleuon, mwy na'r cyntaf.

Y mae y sylwadau hyn, a berthynant i'r oll o Gristionogaeth, yn briodol i'w cymhwyso at ysbrydoliaeth yn arbenig. Fel nas gallwn farnu yn mlaen llaw wrth ba ddeddfau neu reolau, i ba raddau, neu trwy ba foddion, y dysgwylid i Dduw ein haddysgu, felly, ar y dybiaeth ei fod yn ein cynnysgaethu â goleuni ac addysg trwy ddadguddiad, yn chwanegol at yr hyn a roddes trwy reswm a phrofiad, nid ydym yn abl i farnu trwy ba ddulliau ac i ba fesur y dysgwylid i'r goleuni a'r addysg uwchnaturiol yma gael eu gweinyddu i ni. Nid ydym yn gwybod yn mlaen llaw pa radd neu pa fath o addysg naturiol a ddysgwylid i Dduw ei roddi i ddynion, pob un trwy ei reswm a'i brofiad ei hun; neu i ba raddau y galluogai ac y tueddai efe hwynt i'w gyfranu y naill i'r llall; na chwaith a fyddai y prawf neu y dystiolaeth o'i blaidd yn benderfynol, yn debygol, ynte yn amheus; neu a roddid ef gydag eglurder ac argyhoeddiad cyffelyb i bawb. Ac nis gallwn ddyfalu ar un sail sefydlog pa un a roddid gwybodaeth naturiol, neu hyd yn oed y rheswm—y gallu sydd yn ein cymhwyso i'w gyrhaedd—ar unwaith i ni, ynte yn raddol. A'r un modd, yr ydym yn gwbl anwybodus pa radd o wybodaeth newydd y gellid dysgwyl i Dduw ei roddi i ddynolryw trwy ddadguddiad, ar y dybiaeth ei fod yn ein cynnysgaethu â dadguddiad; neu pa mor bell, nac yn mha lwybr, y cyfryngai yn wyrthiol i gymhwyso y rhai y rhoddai y dadguddiad iddynt gyntaf i'r gorchwyl o gyfranu y wybodaeth a weinyddid trwyddo, ac i sicrhau iddynt wneyd hyny i'w hoes eu hunain, a'i drosglwyddo i'w hiliogaeth. Yr ydym yr un mor anwybodus, pa un a fyddai y dystiolaeth yn benderfynol a sicr, yn dra thebygol, ynte yn amheus;¹ neu a dderbyniai pawb a gaffai ryw radd o addysg oddi wrthi, a rhyw radd o brawf o'i gwirionedd, yr un mesur a'u gilydd; neu a ddadguddid y gyfundrefn ar unwaith, ynte yn raddol. Ië, nid ydym mewn un modd yn alluog i farnu pa un a ddysgwylid i'r dadguddiad gael ei roddi mewn ysgrifen, ynte cael ei drosglwyddo trwy draddodiad, ac felly iddo gael ei lygru o angenrheidrwydd, nes o'r diwedd suddo yn llwyr o'n golwg dan y traddodiad hwnw.

Onid dichon y dywedir, "na buasai dadguddiad, mewn rhai

¹Pen. vi.

o'r amgylchiadau rhagddywededig (er esampl—un heb ei roddi mewn ysgrifen, ac felly yn cael ei sicrhau rhag y perygl o gael ei lygru) yn ateb ei amcan?" Pa amcan? Ni buasai yn ateb yr holl amcanion ag y mae yn awr wedi ateb, ac i'r un graddau; ond buasai yn ateb rhai ereill, neu yr un rhai mewn graddau gwahanol. A pha rai o'r rhai hyn oedd amcanion Duw, ac a syrthient i mewn oreu â'i lywodraeth gyffredinol—nis gallwn ni benderfynu yn mlaen llaw.

Yn awr, gan ein bod wedi dangos nad oes genym egwyddorion oddi ar reswm i farnu arnynt yn mlaen llaw, pa fodd y dysgwylid i ddadguddiad gael ei adael, neu pa beth oedd fwyaf cyfaddas i'r cynllun dwyfol o lywodraeth yn y golygiadau rhagddywededig, y mae yn rhaid ei fod yn beth gwag a disynwyr dadleu ar ol hyny yn erbyn un o honynt—yn erbyn iddo gael ei adael yn y modd yma, yn hytrach na rhyw fodd arall; o blegid ni byddai hyn yn amgen na gwrthddadleu yn erbyn pethau ar gyfrif eu bod yn wahanol i ddysgwyliadau y rhai a ddangoswyd nad oeddynt yn seiliedig ar reswm. Fel hyn, yr ydym yn gweled mai yr unig gwestiwn o barth gwirionedd Cristionogaeth ydyw—pa un a ydyw yn ddadguddiad gwirioneddol: nid a ydyw yn cael ei ddilyn â phob amgylchiad ag y buasem ni yn ddysgwyl:—ac o barth awdurdod yr Ysgrythyrau, pa un a ydyw yr hyn a hona ei fod: nid a ydyw y cyfryw lyfr, ac wedi ei gyhoeddi yn y cyfryw fodd, ag y mae dynion gweiniaid yn dueddol i dybied y dylai llyfr yn cynnwys dadguddiad dwyfol fod. Ac felly, nis gallai aneglurder neu anghyssondeb ymddangosiadol mewn arddull neu ymadrodd, gwahanol ddarlleniadau, dadleuon boreol am awdwyr rhanau neillduol, na dim arall o'r un natur—ie, pe byddent yn llawer mwy nag ydynt, nis gallent ddadymchwel awdurdod yr Ysgrythyrau; oddi eithr ddarfod i'r prophwydi, yr apostolion, neu ein Harglwydd, addaw fod i'r llyfr a gynnwysai y dadguddiad dwyfol fod yn ddiogel rhag y pethau hyn. Nis gall chwaith unrhyw wrthddadleuon ddadymchwel y cyfryw ddadguddiad ag y proffesa y Cristionogol fod, gan nad oes un wrthddadl yn erbyn ei foesoldeb¹—ond y cyfryw wrthddadleuon ag a allant ddangos nad oes un prawf o'i blaid oddi wrth wyrthiau wedi eu gweithredu ar y cyntaf er ei gadarnhau; dim tebyg i gyfryngiad gwyrthiol yn ei lwyddiant yn y byd; nac un prawf oddi wrth brophwydoliaeth—oddi wrth ddygwyddiadau wedi eu rhagfynegu, y rhai nis gallasai craffder dynol eu rhagweled. Os gellir dangos nad ydyw y prawf a ddygir yn mlaen dros yr holl bethau hyn yn un prawf o gwbl, yna y mae dad-

¹ Rhan II. pen. iii.

guddiad wedi ei dadymchwelyd. Ond pe caniateid fod y prawf o blaid un, neu y cyfan o honynt, yn is a gwanach nag y caniateir; eto, tra yr erys rhyw brawf o'u plaid, saif dadguddiad ar yr un tir ag y mae yn bresennol gyda golwg ar holl amcanior bywyd ac ymarferiad, a dylai gael dylanwad cyffelyb ar ein hymddygiad.

Oddi wrth y sylwadau blaenorol, y mae hefyd yn canlyn, yr hyn a ymddengys yn deilwng o sylw gan y rhai a chwiliant i mewn yn drwyadl i ddadguddiad, fod llawer dull o ymresymu, y rhai, er eu bod yn deg gyda golwg ar ysgrifeniadau ereill, nid ydynt yn briodol i'w cymhwyso at yr Ysgrythyrau—o leiaf at eu rhanau prophwydol. Nis gallwn ymresymu, er anghraifft, nas gall hyn fod yr ystyr a fwriedir mewn rhyw ran benodol o'r Ysgrythyr, o blegid pe hyny a fuasai, y buasai yn cael ei eirio yn fwy eglur, neu ei osod allan trwy arwyddlun neu ffugr mwy priodol; eto, gallwn yn deg ymresymu fel hyn gyda golwg ar lyfrau cyffredin. Ac y mae y rheswm am y gwahaniaeth hwn yn amlwg; sef nad ydym yn ddigonol i farnu am yr Ysgrythyrau fel am lyfrau cyffredin, pa mor eglur y dysgwylid y dylasai y gwir feddwl gael ei osod allan, neu pa mor briodol y dylasai y ffugr fod ynddynt. Yr unig gwestiwn ydyw, a oes rhyw debygolrwydd mai hyn ydyw yr ystyr? Nid yw yn gwestiwn priodol gyda'r Beibl, pa faint mwy eglur a chywir y gallesid ei eirio a'i osod allan.

“Eithr onid ydyw yn beth eglur ynddo ei hunan fod annhebygoliaethau mewnol o bob math yn gwanhau tebygoliaeth allanol?” Gwir. Ond i ba amcan ymarferol y gellir dwyn hyn yn mlaen yma, pan y profwyd o'r blaen¹ fod annhebygoliaethau mewnol, gwirioneddol, sydd yn dyfod i fath o sicrwydd, eto yn cael eu gorchfygu gan y dystiolaeth fwyaf gyffredin; a phan ddangoswyd yn awr nas gwyddom prin beth ydyw annhebygoliaethau gyda'r mater sydd dan ein sylw, fel yr ymddengys yn mhellach oddi wrth yr hyn a ganlyn:—

O blegid er fod yn eglur oddi wrth y sylwadau blaenorol nad ydym mewn un modd yn abl i farnu pa beth y dysgwylid i addysgiaeth uwchnaturiol fod; ac er ei fod yn hunanbrofedig, y rhaid fod gwrthddadleuon oddi ar farn anaddfed yn ddibwys; eto, byddai yn briodol myned un cam yn mhellach, a sylwi, os bydd dynion yn ddiystyr o'r pethau hyn, ac yn cymmeryd arnynt farnu am yr Ysgrythyrau wrth ddysgwyliadau a ffurfiwyd yn flaenorol, y mae cyfatebiaeth natur yn dangos yn mlaen llaw fod yn dra thebygol y dychymygasant fod ganddynt wrthddadleuon

¹Rhan II. pen. ii.

cryfion yn ei herbyn, pa mor anwrthwynebadwy bynag y byddo; o blegid yn flaenorol i brofiad, felly y meddylient fod ganddynt ddadleuon yn erbyn amgylchiadau, graddau, a dull yr addysg a weinyddir gan gwrs cyffredinol natur. Pe buasai yr addysg a roddir gan y Creawdwr i greaduriaid direswm trwy reddfau a thueddiadau, ac i ddynion trwy y pethau hyn yn nghyd â'u rheswm, yn fater o debygolrwydd, ac nid o sylwadaeth sicr, buasid yn ei wrthod fel yn anghredadwy, mewn llawer anghraifft o hono, yn unig ar gyfrif y moddion y gweinyddir yr addysg trwyddynt, yr anghyfartaledd ymddangosiadol, ei derfynau, ei ammodau angenrheidiol, a'r amgylchiadau perthynol iddo. Er esampl, oni feddylid ei fod yn beth tra annhebygol fod dynion yn llawer mwy galluog i ddarganfod, hyd yn oed i sicrwydd, ddeddfau cyffredinol mater, a maint, llwybrau, a chylchdroadau y cyrff nefol, nag i gael allan yr achlysuron o glefydon, a'r feddyginiaeth iddynt, a llawer o bethau ereill ag y mae y bywyd dynol yn dwyn perthynas agosach â hwynt nag â seryddiaeth? Mor afreolaidd fel un o lwybrau addysg ydyw *dyfais*, trwy yr hon y mae natur yn ein dysgu yn y gwyddorion, ac mewn amryw bethau ag y mae amgylchiadau y byd i fesur mawr yn dibynu arnynt—mor afreolaidd ac anhawdd rhoddi rheswm am dano, fod dyn trwy y gallu hwn yn cael ei wneyd yn gyfarwydd â rhywbeth ar unwaith—ar darawiad—pan, efallai, ei fod er ys blyneddoedd yn ymchwilio, a hyny yn ofer, i rywbeth arall. Yr un modd y mae yr anmherffeithiau a berthynant i'r unig lwybr trwy yr hwn y mae natur yn ein galluogi i gyfranu ein meddyliau i'n gilydd yn afrifed. Y mae iaith yn ei natur, yn annigonol, amwys, yn agored i gamddefnyddiad dirfawr hyd yn oed oddi wrth a thrwy esgeulusdra, ac mor agored i hyny trwy amcan, fel y gall pob dyn dwyllo a bradychu trwyddi. Ac, i grybwyll ond un anghraifft yn chwaneg: tybiasid yn anmhosibl fod creaduriaid direswm yn ymddwyn ar lawer achos gyda llawer mwy o gallineb a rhagofal na dynion yn yr un amgylchiadau. Eto, y mae yn ddiammheuol eu bod yn gweithredu felly:—a ydynt yn gwneyd hyny o honynt eu hunain, sydd, mae yn wir, yn gwestiwn arall. Oddi wrth y pethau hyn, ymddengys yn mlaen llaw yn dra thebygol, ar y dybiaeth y rhoddai Duw rhyw addysg chwanegol trwy ddadguddiad, y rhoddid yr addysg hono dan amgylchiadau, mewn dulliau a graddau ag y byddem ni yn dueddol i ddychymygu fod genym wrthddadleuon cryfion yn eu herbyn. Ac nid yw y gwrthddadleuon yn erbyn yr Ysgrythyrau, a Christionogaeth yn gyffredinol, yn fwy nag a ymddangosent yn mlaen llaw, oddi wrth gyfatebiaeth natur, yn eu herbyn.

Wrth gymhwyso y sylwadau cyffredinol hyn at wrthddadl neillduol, canfyddir yn fwy eglur pa fodd y gellir eu cymhwyso at wrthddadleuon ereill o'r un natur; ac yn wir at bron bob gwrthddadl yn erbyn Cristionogaeth, fel i'w gwahaniaethu oddi wrth wrthddadleuon yn erbyn y profion o'i phlaid. Ymddengys oddi wrth yr Ysgrythyrau nad oedd yn beth anghyffredin yn yr oes apostolaidd, i ddynion, ar eu dychweliad at Gristionogaeth, gael eu cynnysgaethu â doniau gwyrthiol. Yr oedd rhai o'r dynion hyn yn arfer y doniau hyn mewn dull hynod afreolaidd;¹ a gwneir hyn yn wrthddadl yn erbyn eu hystyried yn wyrthiol. Yn awr, y mae y sylwadau blaenorol yn symmud yr wrthddadl yma yn hollol, pa mor deg bynag yr ymddengys ar y cyntaf. O blegid meddylier am un wedi ei gynnysgaethu âg un o'r doniau hyn—dawn tafodau, er esampl: yr ydym i dybied fod ganddo yr un llywodraeth ar y ddawn wyrthiol hon ag a fyddai ganddo arni pe buasai yn effaith arferiad, neu astudiaeth, fel y mae yn gyffredin; neu yr un llywodraeth arni ag ar unrhyw ddawn naturiol arall. Felly, fe'i defnyddiai hi yn yr un dull ag y defnyddiai rhyw ddawn arall; naill ai yn rheolaidd, ac ar achlysuron priodol yn unig; neu yn afreolaidd, ac ar achlysuron amhriodol—yn ol y syniad a feddai am weddusrwydd, a'i ddoethineb. Yn mha le, gan hyny, y mae yr wrthddadl? Wel, os rhoddwyd y gallu gwyrthiol i'r byd, i'ledaenu Cristionogaeth a chadarnhau ei gwirionedd, mae yn ymddangos y gallasem ddysgwyl mai dynion o ansawdd arall a ddewisasid i'w feddu; neu fod i'r rhai a'i derbyniasant gael, ar yr un pryd, eu cynnysgaethu â doethineb; neu fod iddynt yn wastadol gael eu cadw o fewn terfynau priodol, a'u hiawn-gyfeirio yn yr arferiad o honi; hyny yw, fod Duw yn cyfryngu yn wyrthiol mewn dull gwahanol neu raddau uwch. Ond oddi wrth y sylwadau a wnaed o'r blaen, mae yn ddiddadl nad ydym ni yn alluog i farnu am y graddau a'r dulliau y dysgwyliesid iddo gyfryngu yn wyrthiol, ar y dybiaeth ei fod yn gwneyd mewn rhyw radd a dull. Ac, yn nghwrs naturiol rhagluniaeth, nid yw cof, hyawdl-edd, neu wybodaeth anghyffredin, a thalentau ereill, yn cael eu rhoddi yn unig bob amser i ddynion call a gweddaidd—dynion y dysgwylid iddynt wneyd y defnydd goreu o honynt. Ac nid yw yr addysg a'r annogaethau a roddir i ni tuag at drefnu ein bywyd, yn enwedig yn nhymmor ein haddysgiaeth, yn cael eu cyfranu yn gyffredin yn y dull mwyaf cyfaddas i'w gwneyd yn dderbyniol, ond yn fynych dan amgylchiadau a dueddant i

[¹ Cyfeiria yr awdwr yma at eglwys Corinth; aelodau yr hon a geryddir gan Paul am eu camddefnyddiad o'r doniau ysbrydol; 1 Cor. xii, 1.—11,

greu rhagfarn ynom yn erbyn y cyfryw addysg ac annogaethau.

Gellid chwanegu, fod llawer o debygrwydd rhwng goleuni natur a dadguddiad ar amryw gyfrifon ereill. Y mae Cristionogaeth ymarferol—y ffydd a'r ymarweddiad sydd yn gwneyd dyn yn Gristion—yn beth eglur iawn; ac felly y mae rheolau cyffredin ymddygiad, gyda golwg ar amgylchiadau cyffredin bywyd. Y mae gwybodaeth fanylach o'r pethau hyny, yr hyn a eilw yr apostol "myned rhagom at berffeithrwydd" (*Heb.* vi. 1),¹ ac o ranau prophwydol y dadguddiad, fel llawer o ranau gwybodaeth naturiol a gwladyddol, yn gofyn ystyriaeth fanwl a gofalus. Y mae y rhwystrau hefyd ar ffordd gwybodaeth naturiol a goruchnaturiol, yn gyffelyb i'w gilydd. Ac fel yr addefir nad yw holl gyfundrefn dadguddiad yn cael ei deall hyd yma, felly, os deallir hi rywbyrd cyn "amseroedd adferiad pob peth" (*Act.* iii. 21), ac heb gyfryngiadau gwyrthiol, y mae yn rhaid y cyrhaeddir hyny yr un ffordd a gwybodaeth naturiol—trwy barhâd a chynnydd dysgeidiaeth a rhyddid, a thrwy i bersonau neillduol ymroddi i sylwi ar, cymharu, ac ymchwilio i bethau a esgeulusir gan y cyffredin o'r byd. Dyma y ffordd y dygir oddi amgylch bob gwelliadau, trwy i ddynion meddylgar ddilyn ac olrhain rhyw awgrymau aneglur, wedi eu gollwng megys yn ddygwyddiadol gan natur, y rhai sydd yn ymgymhell, rywfodd, ar antur i'n meddyliau. Ac nid yw mewn un modd yn anghredadwy fod llyfr sydd wedi bod mor hir yn meddiant dynolryw yn cynnwys llawer o wirioneddau sydd heb eu darganfod eto. O blegid yr oedd yr un ymddangosiadau, yr un galluoedd i ymchwilio, trwy y rhai y gwnaed y darganfyddiadau mawrion mewn gwybodaeth naturiol yn yr oes hon a'r ddiweddaf, yr un modd yn meddiant dynolryw am amryw filoedd o flyneddoedd cynt. A dichon y bwriedir i ddygwyddiadau, fel y cymmerant le, agor a chadarnhau meddwl llawer rhan o'r Ysgrythyrau.

Dichon y gwrthddadleuir, fod y cyfatebiaeth yma yn pallu mewn golygiad pwysig, am nad yw gwybodaeth naturiol yn meddu nemawr, os dim pwys. Ond yr wyf fi wedi bod yn llefaru am yr addysg gyffredinol ag y mae natur yn ei roddi, neu yn peidio ei roddi. Ac heb law hyny, y mae rhai rhanau o

[¹*Heb.* vi. 1. Gair, medd un ysgrifenydd, sydd yn ddysgrifiad cywir o'r unig ddadblygiad (*development*) a adwaenir gan Brotestaniaeth. Gall fod yn y Beibl ranau, y rhai y mae eu llawn ystyr heb ei gael allan eto, a'r rhai sydd yn cael eu cadw, fel y dywed Boyle, "i ddarostwng rhyw gyfeiliornad dyfodol, neu i ddadrys rhyw ammheuon sydd eto heb eu ffurfio;" neu, fel y buasai Butler yn dywedyd, i wobrwyo ymchwiliad mwy dyfal. Ond nid ydym i edrych am un dadguddiad newydd.]

wybodaeth naturiol, yn ystyr cyffredin a chyfyngaf y gair, yn hynod bwysig gyda golwg ar esmwythyd a chyfleusdra bywyd. Ond tybier fod y cyfatebiaeth yn pallu (yr hyn ni wna) yn y golygiad yma, eto gellir ei chyfanu oddi wrth holl gyfansoddiad a threfn natur, yr hon a ddengys nad yw Duw yn cyfranu ei roddion yn ol ein syniadau ni am y fantais a'r canlyniad a fyddent i ni. Ac y mae hyn, yn nghyd â'i ddull yn cyfranu gwybodaeth, yn gwneyd i fyny gyfatebiaeth gyflawn i'r pwrpas sydd o'n blaen.

Ond dichon y dygir yn mlaen wrthddadl bellach a mwy cyffredinol—"Fod yr Ysgrythyr yn darlunio y byd mewn ystâd ddirywiedig, a Christionogaeth fel trefn i'w adferu, i gynorthwyo yn y pethau y mae natur yn ddiffygiol—yn neillduol i gyflenwi diffygion goleuni natur. A ydyw, gan hyny, yn debygol y gadawsid i gynnifer o oesau fyned heibio cyn i drefn o'r fath werth a phwysigrwydd gael ei hamlygu i ddynion; ac iddi gael ei hamlygu, pan wnaed hyny, i nifer mor fach o honynt? A ydyw yn bosibl fod yr adgyflenwad mor ddiffygiol—fod yr un aneglurder a thywyllwch arno, ei fod yn agored i'r un llygriadau a gwrthddadleuon, a goleuni natur ei hun?"¹ Heb benderfynu pa mor bell y mae yn bod fel hyn, yr wyf yn ateb, nad yw mewn un modd yn anghredadwy y gallai fod felly, os ydyw goleuni natur a dadguddiad wedi tarddu o'r un ffynnonell. Y mae dynion yn naturiol yn agored i glefydon, i ba rai y mae Duw, yn ei ragluniaeth ddaionus, wedi darparu meddyginiaeth naturiol.² Ond y mae llawer meddyginiaeth mewn natur wedi bod yn anadnabyddus i ddynolryw am oesoedd; ac nid ydynt eto yn adnabyddus ond i ychydig; ac y mae yn debyg fod llawer o rai gwerthfawr heb fod yn hysbys eto i neb. Y mae cryn dywyllwch ac anhawsder wedi, ac yn bod am eu natur, a'r dull o'u defnyddio. Y mae amgylchiadau yn ymddangos yn fynych yn eu gwneyd yn anmhriodol pan y maent yn hollol angenrheidiol. Ac mewn canlyniad i lafur ac efrydiaeth caled, a llawer cynnyg aneffeithiol, y dygwyd hwy i fod mor ddefnyddiol ag y maent—ar ol llawer o ddirmygu a gwrthod ar y rhai mwyaf buddiol sydd genym—ac ar ol dadleuon ac ammheuon a ymddangosent yn ddiddiwedd. Dichon hefyd i'r meddyginiaethau goreu, pan ddefnyddir hwy gan law anfedrus, ac yn enwedig gan law dwyllodrus, gynnyrchu clefydon newyddion; a chyda y defnydd goreu o honynt, y mae y llwyddiant yn ammheus yn fynych. Mewn llawer o amgylchiadau, nid ydynt mewn un modd yn effeithiol—a phan y maent, y mae y cyfnewidiad yn araf iawn—ac y

¹Pen. vi.²Pen. v.

mae y defnydd o honynt, a'r rheol a ddylid gadw wrth eu cymmeryd, mor annymunol yn fynych, fel na fyn rhai ymostwng iddynt; a boddlonant eu hunain â'r esgus, nad yw yn sicr, pe cymmerent hwy, y byddent yn llwyddiannus. Ac y mae llawer yn dyoddef dan afiechyd ag y gwyddant am feddyginiaeth iddo, ond nid ydynt bob amser mor hapus a bod yn y cyfleusdra i'w chael. Mewn gair, nid yw y meddyginiaethau a ddarparodd natur i glefydon, yn sicr, perffaith, na chyffredinol. Ac yn wir y mae yr un egwyddorion o resymu ag a'n harweinient i gasglu y rhaid iddynt fod felly, yn rhwym o'n harwain hefyd i gasglu nas gallai fod achlysur yn galw am danynt—nas gallai fod clefydon o gwbl. Felly, y mae y profiad sydd genym fod clefydon yn dangos fod yn debygol yn mlaen llaw, ar y dybiaeth fod natur wedi darparu meddyginiaethau iddynt, na byddant (fel y gwelwn oddi wrth brofiad nad ydynt) yn sicr, na pherffaith, na chyffredinol; o blegid dengys fod yr egwyddorion oddi ar ba rai y dysgwyllem y gwrthwyneb yn dwyllodrus.

Yn awr, pa beth ydyw y casgliad teg oddi wrth yr holl bethau hyn? Nid nad ydyw rheswm yn abl i farnu ar yr hyn a gynnygir i ni fel yn dyfod oddi wrth ddwyfol ddadguddiad; o blegid meddwl felly a fyddai casglu ein bod yn analluog i farnu am ddim, am ein bod yn analluog i farnu am bob peth. Gall, a dylai rheswm farnu, nid yn unig ar ystyr, ond hefyd ar foesoldeb a phrawf dadguddiad. *Yn gyntaf*, Gwaith rheswm yw barnu ar foesoldeb yr Ysgrythyr; *h. y.*, nid pa un a ydyw yn cynnwys pethau gwahanol i'r hyn a ddysgwylasem oddi wrth Fod doeth, cyfiawn, a da; o blegid y mae gwrthddadleuon oddi wrth hyn wedi cael eu symmud uchod; ond a ydyw yn cynnwys pethau sydd yn amlwg wrthwyneb i ddoethineb, uniondeb, neu ddaioni—i'r hyn a ddysgir gan oleuni natur am Dduw. Ac nis gwn am ddim o'r natur yma yn cael ei ddwyn yn mlaen fel gwrthddadl yn erbyn yr Ysgrythyrau, oddi eithr y cyfryw wrthddadleuon ag a ffurfir ar dybiaethau, a brofent yr un mor sicr fod cyfansoddiad natur yn wrthwyneb i ddoethineb, uniondeb, neu ddaioni—yr hyn yn sicr nid yw. Yn wir, y mae rhai gorchymynion neillduol yn yr Ysgrythyrau wedi eu rhoddi i beresonau neillduol, yn gofyn gweithredoedd a fuasent yn anfoesol a drygionus, oni buasai am y cyfryw orchymynion.¹ Ond y mae

[¹Yr oedd diwreiddiad y Canaaneaid yn esampl o'r cyfryw. "Yr ydym yn barnu fod Butler yn dra llwyddiannus yn ei amddiffyniad o foesoldeb yr Ysgrythyrau, pan y mae yn ymosod ar y dadleuon a gyfodwyd yn ei erbyn ar sail cymmeradwyaeth ymddangosiadol i weithredoedd drygionus—megys dwyn allan yr Aiphtiaid trwy orchymyn Duw, a diwreiddiad y Canaaneaid. Oni buasai am y gorchymyn dwyfol, buasai y gweithredoedd hyn yn droseddau

yn hawdd gweled fod yr holl rai hyn o'r fath natur fel y mae y gorchymyn yn newid holl natur yr amgylchiad a'r weithred; yr hyn sydd yn peri nad yw hyn yn anghyfiawn neu anfoesol, ag ydoedd, yn flaenorol i'r gorchymyn, felly mewn gwirionedd; a gall yn rhesymol fod felly, gan nad oes un o'r gorchymynion hyn yn groes i ddeddfau annewidiol moesoldeb. Pe gorchymynasid meithrin y gwyniau o fradwriaeth, anniolchgarwch, a chreulondeb, a gweithredu oddi arnynt, ni newidiai y gorchymyn natur y peth, neu y weithred, yn un o'r anghreiffiau hyn. Ond y mae yn gwbl wahanol mewn gorchymynion a ofynant y weithred allanol yn unig. Er esampl, dwyn ymaith feddiannau neu einioes rhyw un. O blegid nid oes gan ddynion hawl mewn na bywyd na meddiannau, ond yr hawl a gyfyd oddi ar roddiad Duw. Pan y mae y rhoddiad hwn yn cael ei alw yn ol, y mae eu holl hawl ynddynt yn peidio: a phan y mae yr wrthlwad yma yn cael ei gwneyd yn hysbys, fel y mae yn sicr y gellir gwneyd, yna, nid yw yn annheg eu hamddifadu o'r naill neu y llall. Ac er y gwnai cwrs o weithredoedd allanol, y rhai heb orchymyn a fyddent ddrygionus, o angenrheidrwydd arferiad ddrygionus; eto, nid oes mewn ychydig o orchymynion yn awr ac eilwaith ddim o'r cyfryw duedd. Tybiais fod yn briodol dywedyd cymmaint a hyn am yr ychydig orchymynion Ysgrythyrol sydd yn gofyn, nid gweithredoedd drygionus, ond gweithredoedd a fuasant yn ddrygionus oni buasai am y cyfryw orchymynion; o herwydd eu bod yn cael eu dwyn yn mlaen, weithiau, fel yn anfoesol, a bod pwys mawr yn cael ei roddi ar wrthddadleuon wedi eu casglu oddi wrthynt. Ond nid ymddengys i mi un anhawsder yn nglyn â'r gorchymynion hyn, ond yr hyn a gyfyd oddi ar eu bod yn dramgwyddiadau—oddi ar eu bod yn agored i gael eu llygru a'u gwyrdroi gan ddynion o fwriadau drygionus, i wasanaethu yr amcanion mwyaf arswydol; ac, efallai, i gamarwain y gwan a'r ffol. Ac nid yw gwrthddadleuon oddi wrth hyn yn wrthddadleuon yn erbyn dadguddiad, ond yn erbyn yr holl syniad am grefydd fel prawf a threial, ac yn erbyn cyfansoddiad cyffredinol natur. *Yn ail*, Y mae rheswm yn alluog i farnu ar brofion dadguddiad, ac y mae yn rhaid iddo wneyd, ac ar y gwrthddadleuon a ddygir yn mlaen yn erbyn y profion hyn; yr hyn gaiff fod yn destyn y bennod ganlynol:¹—

ond gyda'r gorchymyn hwnw, nid ydynt i'w golygu yn fwy felly nag yr edrychid ar ddirwyon neu ddienyddiad yn cael ei weinyddu gan lys barn fel esamplau o ladrad neu lofruddiaeth. Nid oedd yr Israeliaid yn yr anghreiffiau hyn yn ddim amgen na gweinyddwyr dedfryd."—*Chalmers' Lectures*. I wneyd y cyfryw bethau eto yn ganmoladwy, y mae yn rhaid eu gwneyd dan yr un awdurdod. Am eglurhad ar hyn, gwel *Graves on the Pentateuch*.

¹ Pen. vii.

Ond y casgliad oddi wrth y sylwadau blaenorol ydyw, mai y cwestiwn ar ba un y dibyna gwirionedd Cristionogaeth ydyw, nid pa wrthddadleuon sydd yn erbyn ei chyfundrefn—o blegid nid oes un yn erbyn ei moesoldeb—ond *pa wrthddadleuon sydd yn erbyn ei phrawf?* neu, *pa brofion sydd yn aros o'i phlaid, ar ol caniatâu yr hyn oedd ddyledus i'r gwrthddadleuon yn erbyn y profion hyny?* O blegid fe ddangoswyd fod y *gwrthddadleuon yn erbyn Cristionogaeth ei hun, fel yn wahaniaethol oddi wrth y gwrthddadleuon yn erbyn ei phrawf, yn ysgeifn a dibwys.* O blegid y mae yn amlwg mai ychydig iawn o bwys, os dim, sydd i'w roddi ar ddull o resymu a gwrthddadleu, yr hwn ddull, ar ol ei gymhwysu at gyfansoddiad cyffredinol natur, a ddangosir gan brofiad yn ddull anghywir; a'r cyfryw, fel yr ymddengys i mi, ydyw y dull o wrthddadleu yr ymdrinwyd âg ef trwy y bennod hon. Y mae yn gorphwys ar dybiaethau a'n harweiniant i feddwl na weithredai Awdwr natur fel y gwelwn ei fod yn gweithredu; neu y gweithredai mewn rhyw achosion penodol yn wrthwyneb i'r modd y gwelwn y mae yn gweithredu yn yr achosion hyny. Ond ymddengys afresymoldeb y dull yma o wrthddadleu eto yn fwy amlwg oddi wrth yr ystyriaeth fod y prif bethau y dadleuir fel hyn yn eu herbyn yn cael eu cyfiawnhau, fel y gwelir yn mhellach,¹ trwy gyfatebion eglur, pendant, a chyflawn yn nhrefn natur.

Ond dylid cofio, er fod gwrthddadleuon o'r natur yma yn erbyn dadguddiad yn dra dibwys a gweiniaid, eto, pan y mae dadguddiad tybiedig yn fwy cysson âg ef ei hun, ac yn meddu tuedd fwy cyffredinol ac unfurf i gefnogi rhinwedd, nag a allesid, wrth gymmeryd yr holl amgylchiadau dan ystyriaeth, ddysgwyl oddi wrth frwdfrydedd a syniadau gwleidyddol; y mae hyn yn ffurfio tebygolrwydd nad yw yn deilliaw oddi wrthynt, ac felly o'i wirionedd: o blegid yr ydym yn ddigonol i farnu pa beth a allesid ddysgwyl oddi wrth frwdfrydedd neu benboethni, a syniadau gwleidyddol.²

¹ Rhan II. Pen iv, v, vi.

² Cynnwysa y frawddeg ddiweddar awgrym pwysig yn nglyn â'r prawf mewnol o wirionedd yr Ysgrythyr. Yr hyn a ddadguddir gan ddoethineb perffaith, nis gall dyn ei ragweled; ond yr hyn a ddadguddir gan ffugiaeth a phenboethni, y mae dyn yn alluog i farnu am dano. Felly, er nad ydym yn ddigonol i farnu pa beth a ddylai yr Ysgrythyrau ei ddysgu, yr ydym yn alluog i farnu y llall; sef, ai yr hyn a ddadguddir yn yr Ysgrythyrau a fuasem yn ei ddysgwyl oddi wrth dwyllwyr a phenboethiaid.]

PENNOD IV.¹

AM GRISTIONOGAETH YN CAEL EI HYSTYRIED FEL CYNLLUN
NEU GYFANSODDIAD YN CAEL EI DEALL YN
ANMHERFFAITH.

DANGOSWYD yn barod, yn y bennod flaenorol, fod cyfatebiaeth natur yn ei wneyd yn dra thebyg yn mlaen llaw, a thybied fod dadguddiad i gael ei roddi, y rhaid iddo gynnwys llawer o bethau pur wahanol i'r hyn a ddysgwylasem, a'r cyfryw ag a ymddangosent yn agored i wrthddadleuon pwysig; a bod y sylw yma, i fesur mawr, yn dirymu y gwrthddadleuon hyn, neu yn hytrach yn eu cau allan. Ond dichon y dywedir fod hyn yn atebiad pur anghyflawn i'r cyfryw wrthddadleuon, neu yn ddull tra anffoddfaol o'u symmud o'r neilldu; am nad ydyw yn dangos y dichon i'r pethau y gwrthddadleuir iddynt, fod yn ddoeth, uniawn, a daionus; a llawer llai eu bod felly mewn gwirionedd. Y mae yn briodol, felly, dangos hyn yn eglur, trwy gymhwyso at y gwrthddadleuon hyn yn erbyn doethineb, uniondeb, a daioni Cristionogaeth, yr atebiad a roddwyd o'r blaen² i wrthddadleuon cyffelyb yn erbyn trefn natur, cyn i ni ystyried y cyfatebion neillduol sydd yn y ddiweddaf i'r pethau y dadleuir yn eu herbyn yn y gyntaf. Yn awr, yr hyn sydd yn atebiad digonol i ddadleuon yn erbyn doethineb, uniondeb, a daioni trefn natur, ydyw y ffaith ei bod yn gyfansoddiad neu gyfundrefn a ddeallir yn anmherffaith; yn drefniant yn mha un y defnyddir moddion i ateb dybenion, a'r hon a ddygir yn mlaen trwy ddeddfau cyffredinol. O blegid y mae wedi ei brofi, oddi wrth y pethau hyn, nid yn unig ei fod yn bosibl, ond hefyd yn debyg y gall y pethau

[¹Dangosodd yr awdwr yn y bennod flaenorol nad ydym yn feddiannol ar allu i farnu ar gyfundraeth dadguddiad; ac felly symmudwyd y gwrthddadleuon yn erbyn y gyfundrefn Gristionogol o'r ffordd. Ond y mae yn bosibl cyfodi dadleuon, nid yn unig yn erbyn y ffaith o fod cyfundrefn Gristionogol, ond hefyd yn erbyn ei *pherffeithrwydd*—yn erbyn ei doethineb, ei huniondeb, a'i daioni. Atebir y rhai hyn yn y rhan gyntaf o'r bennod hon—yr un fath ag yr atebir (yn Rhan I. pen. vii) y gwrthddadleuon cyffelyb yn erbyn nodwedd moesol llywodraeth Duw. Y mae yr atebiad yma yn cynnwys dadl driphlyg oddi wrth gyfatebiaeth: (a) Fod Cristionogaeth, yr un modd a llywodraeth naturiol Duw, yn drefniant a ddeallir yn dra anmherffaith. (b) Ei bod yn defnyddio moddion i gyrhaedd amcanion. (c) Ei bod yn cael ei dwyn yn mlaen yn ol deddfau cyffredinol.]

²Rhan I. pen. vii.

hyny y dadleuir yn eu herbyn fod yn gydweddol a doethineb, uniondeb, a daioni—ie, y gallant fod yn esamplau neu yn amlygiadau o honynt; a hyd yn oed y dichon fod cyfansoddiad a llywodraeth natur yn berffaith yn y graddau uchaf. Os ydyw Cristionogaeth, gan hyny, yn gyfundrefn, ac yn gyfundrefn o'r un natur, y mae yn amlwg y gellir dwyn yn mlaen atebion cyffelyb i'r gwrthddadleuon cyffelyb a ddygir yn ei herbyn. Ac,

I. Y mae Cristionogaeth yn drefniant uwch law ein dirnad-aeth. Y mae llywodraeth foesol Duw yn cael ei gweinyddu trwy ddwyn yn mlaen bethau yn raddol yn y fath fodd yn nghwrs ei ragluniaeth ag y caiff pob un yn y diwedd daledigaeth gyfatebol i'w haeddiant; ac nid twyll na thrais, ond gwirionedd ac iawnder a orfyddant yn y diwedd. Y mae Cristionogaeth yn gyfundrefn neillduol dan y cynllun cyffredinol hwn o eiddo rhagluniaeth, ac yn rhan o hono, yn gwasanaethu i'w berffeithiad gyda golwg ar ddynolryw. Cynnwysa hefyd amryw ranau a threfn neu oruchwyliaeth ddirgelaid, yr hon a ddygwyd yn mlaen o amser y cwmp, ac sydd yn bresennol yn cael ei chario yn mlaen, i'r dyben o adferu y byd truenus, gan berson dwyfol, yr Arglwydd Iesu Grist, "yr hwn sydd i gasglu yn nghyd yn un blant Duw hefyd y rhai a wasgaresid" (*Ioan xi. 52*); a sefydlu breniniaeth dragwyddol, "yn yr hon y mae cyfiawnder yn cartrefu;" *2 Pedr iii. 13*. Ac i'r dyben o ddwyn hyn i ben, ar ol amrywiol amlygiadau perthynol i'r drefn hon, trwy olyniad llawer oes; o blegid "gan chwilio pa bryd, neu pa ryw amser, yr oedd Ysbryd Crist, yr hwn oedd yn y prophwydi, yn ei hysbysu, pan oedd efe yn rhagdystiolaethu dyoddefaint Crist, a'r gogoniant ar ol hyny. I'r rhai y dadguddiwyd, nad iddynt hwy eu hunain, ond i ni, yr oeddynt yn gweini yn y pethau a fynegwyd yn awr i chwi, gan y rhai a efengylasant i chwi trwy yr Ysbryd Glân, yr hwn a ddanfonwyd o'r nef; ar yr hyn bethau y mae yr angelion yn chwennyachu edrych;" *1 Pedr i. 11, 12*. Ar ol amryw oruchwyliaethau, y rhai a edrychent yn mlaen at, ac a barotöent y ffordd i'r iachawdwriaeth yma, "yn nghyflawnder yr amser," pan feddyliodd doethineb anfeidrol yn briodol, Efe, "yr hwn, ac efe yn ffurf Duw, ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuch a Duw; eithr efe a'i dibrisiodd ei hun, gan gymmeryd arno agwedd gwas, ac a wnaed mewn cyffelybiaeth dynion: a'i gael mewn dull fel dyn, efe a'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau y groes. O herwydd pa ham, Duw a'i tra-dyrchafodd yntau, ac a roddes iddo enw yr hwn sydd goruwch pob enw; fel yn enw Iesu y plygai pob glin, o'r nefolion, a'r daiarolion, a

than-ddaiarolion bethau; ac y cyffesai pob tafod *fod* Iesu Grist yn Arglwydd, er gogoniant Duw Dad;" *Phil.* ii. 6—12. Rhanau o'r drefn hon hefyd ydyw cenadwriaeth wyrthiol yr Ysbryd Glân, a'i gynnorthwyon cyffredin i ddynion da;¹ y llywodraeth anweledig a weinydda Crist yn bresennol ar ei eglwys; yr hyn y cyfeiria ato yn y geiriau, "Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfanau: a phe amgen, mi a ddywedaswn i chwi. Yr wyf fi yn myned i barotoi lle i chwi" (*Ioan* xiv. 2); a'i ymddangosiad dyfodol i farnu y byd mewn cyfiawnder, ac adsefydlu yn berffaith deyrnas Dduw. "Canys y Tad nid yw yn barnu neb: eithr efe a roddes bob barn i'r Mab: fel yr anrhydeddai pawb y Mab, fel y maent yn anrhydeddu y Tad. Yr hwn nid yw yn anrhydeddu y Mab, nid yw yn anrhydeddu y Tad yr hwn a'i hanfonodd ef;" *Ioan* v. 22, 23. "A'r Iesu a ddaeth, ac a lefarodd wrthynt, gan ddywedyd, Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaiar;" *Mat.* xxviii. 18. "Yna y bydd y diwedd, wedi y rhoddo efe y deyrnas i Dduw a'r Tad: wedi iddo ddileu pob pendefigaeth, a phob awdurdod a nerth. Canys rhaid iddo deyrnasu hyd oni osodo ei holl elynion dan ei draed. Canys efe a ddarostyngodd bob peth dan ei draed ef. Eithr pan yw yn dywedyd fod pob peth wedi eu darostwng, amlgwg yw mai oddi eithr yr hwn a ddarostyngodd bob peth iddo. A phan ddarostynger pob peth iddo, yna y Mab ei hun hefyd a ddarostyngir i'r hwn a ddarostyngodd bob peth iddo ef, fel y byddo Duw oll yn oll;" *1 Cor.* xv. 24, 25, 27, 28. Yn awr, ni raid dyweyd ond ychydig i ddangos mai yn amherffaith iawn y mae y gyfundrefn hon yn cael ei deall genym. Dywed yr Ysgrythyr yn benodol mai felly y mae. Ac yn wir, nis gallwn ddarllen rhan am "ddirgelwch duwioldeb," na bydd yn ein harwain at ryw beth a amlyga ein hanwybodaeth ni ynddo; fel y mae pob peth mewn natur yn dangos i ni ein hanwybod-

[¹ Y mae y geiriau hyn, mewn un ystyr, yn cynnwys gwirionedd pwysig—i'r da y mae yr Ysbryd yn cael ei roddi: i'r rhai sydd yn gwerthfawrogi ei ddylanwadau a'i oleuni yn fwyaf y rhoddir mwyaf o honynt. Rhydd Mab Duw arbenigrwydd i'r egwyddor bwysig hon yn y llywodraeth foesol:—"Yr hwn y mae ganddo y rhoddir iddo; a'r hwn nid oes ganddo...y dygir oddi arno." Mewn ystyr arall, fodd bynag, y mae y dull hwn o drin y gwirionedd yn hanerog; o leiaf, y mae rhai yn gweled yn y geiriau radd o'r un peth ag a ganfyddir yn fynych yn y traethawd—diffyg yn syniadau efengylaidd yr awdwr. "Dymunwn," medd Dr. Chalmers, "eich gosod ar eich gwyliadwriaeth wrth gyfarfod â'r cyfryw ymadroddion a 'bod yr Ysbryd Glân yn cael ei roddi i ddynion da,' yn erbyn y dychymyg fod y cynnorthwy goruchnaturol hwn yn cael ei roddi yn unig i'r dyben o helpu yn mlaen y rhai hyny, trwy eu hegnion eu hunain, a'u helpiasant eu hunain. Dymunwn i chwi ddeall mai cyfryngiad yr Ysbryd ydyw dechreuad tröedigaeth, ac mai hyn sydd yn dwyn y gwaith yn mlaen. Nid yn unig y mae yn cael ei roddi mewn mesurau helaethach i ddynion da, ond efe sydd yn gwneyd dynion yn dda."]

aeth yn nghyfansoddiad natur. A phwy bynag a ystyria y rhan hono o'r gyfundrefn Gristionogol sydd wedi ei dadguddio yn yr Ysgrythyrau, a wel gymmaint yn fwy heb ei ddadguddio, ag a'i darbwylla ein bod, gyda golwg ar farnu a gwrthddadleu, yn gwybod mor ychydig o honi ag o gyfansoddiad natur. Y mae ein hanwybodaeth, gan hynny, yn gystal atebiad i'r gwrthddadleuon yn erbyn perffeithrwydd y naill ag yn erbyn perffeithrwydd y llall.¹

II. Y mae yn amlwg hefyd fod yn y gyfundrefn Gristionogol, yn gystal ag yn nghwrs naturiol pethau, foddion yn cael eu defnyddio i gyrhaedd amcanion. Ac y mae sylwi ar hyn yn ein cynnysgaethu â'r un atebiad i ddadleuon yn erbyn perffeithrwydd Cristionogaeth ag i ddadleuon cyffelyb yn erbyn cyfansoddiad natur. Dengys y gall y pethau y dadleuir yn eu herbyn, pa mor *ffol* (1 *Cor.* i.) bynag yr ymddangosant i ddynion, fod y moddion goreu i gyrhaedd yr amcanion goreu. Ac nid yw y ffaith eu bod yn ymddangos yn *ffolineb* yn dyweyd dim yn erbyn hyn, mewn trefniant sydd yn gymmaint uwch law ein dirnadaeth.

III. Y mae y ffaith fod y trefniant Cristionogol wedi cael ei ddwyn yn mlaen yn ol deddfau cyffredinol, yr un modd a chwrs natur, yn gofyn, efallai, eglurhad mwy pendant. Ystyrier, gan hynny, ar ba dir y dywedir fod holl gwrs cyffredin natur yn cael ei gario yn mlaen yn ol deddfau cyffredinol rhagderfynedig. Yr ydym yn wir yn gwybod am amryw o ddeddfau cyffredinol defnydd; ac y mae rhan fawr o ymddygiad naturiol creaduriaid byw yn dyfod yn ddarostyngedig i ddeddfau cyffredinol. Ond nid ydym, mewn ystyr, yn gwybod dim wrth ba ddeddfau y mae ystormydd a thymestloedd, daiargrynfäau, newyn, a haint, yn dyfod yn gyfryngau dinystr i ddynion. A'r deddfau, yn ol pa rai y mae dynion a anwyd ar y cyfryw adeg, neu yn y cyfryw le, yn feddiannol ar y cyfryw alluoedd, tymmerau, ac athrylith; y deddfau yn ol y rhai y mae syniadau yn dyfod i'w meddyliau, mewn llawer o achlysuron, ac wrth y rhai y mae pethau afrifed yn dygwydd, o'r pwys a'r dylanwad mwyaf ar amgylchiadau a chyflwr y byd—y mae y deddfau hyn mor hollol anhysbys i ni, fel yr ydym yn galw y dygwyddiadau sydd yn dyfod oddi amgylch drwyddynt yn ddygwyddiadau damweiniol; er fod pob dyn ystyriol yn gwybod nas gall y fath beth fod mewn gwirionedd a damwain; ac yn casglu fod y pethau sydd yn ymddangos fel hyn yn effaith deddfau cyffredinol, ac yn abl i'w darostwng danynt. Nis gallwn, felly, olrhain cwrs naturiol

¹Rhan I. Pen. vii.

pethau at ddeddfau cyffredinol, ond am ychydig iawn o bellder, ac mewn ychydig o gyssylltiadau. Ac oddi wrth gyfatebiaeth yn unig yr ydym yn casglu fod y cyfan o hono yn bosibl i'w ddwyn danynt; yn unig oddi wrth ein bod yn gweled fod rhan o hono yn bod felly. Oddi ar ein bod yn gweled fod cwrs natur, mewn rhai pethau, ac mor bell, yn myned yn mlaen yn ol deddfau cyffredinol, yr ydym yn casglu hyn am y cwbl. Ac os ydyw hyn yn sail deg i'r cyfryw gasgliad, y mae yn sail deg hefyd, os nad i gasglu, eto i dybied, i edrych arno yn debygol—yr hyn sydd ddigonol i ateb gwrthddadleuon—fod cyfryngiadau gwyrthiol Duw bob amser, mewn modd cyffelyb, yn cyfodi oddi ar ddeddfau *cyffredinol* doethineb. Fel hyn: fod gallu gwyrthiol i gael ei weithredu ar y cyfryw adegau ac achlysuron, yn y cyfryw ddulliau a graddau, a chyda golwg ar y cyfryw bersonau yn fwy nac ereill; fod helyntion y byd, y rhai a adawyd i fyned yn ol eu cwrs naturiol mor bell, i gael, ar y cyfryw gyfnod, gyfeiriad newydd wedi ei roddi iddynt gan gyfryngiadau gwyrthiol; a bod y cyfryngiadau hyn i fod yn hollol yn y cyfryw raddau a golygiadau yn unig;—dichon hyn oll fod yn ol deddfau cyffredinol. Y mae yn wir fod y deddfau hyn yn ddyeithr i ni; ond nid yn fwy ddyeithr na'r deddfau yn ol y rhai y mae rhai yn meirw mor fuan ag y genir hwynt, ac ereill yn byw i wth o oedran; y naill ddyn yn gymmaint uwch law y llall mewn galluoedd meddyliol; a llawer o bethau ereill, y rhai, fel y sylwyd o'r blaen, nas gallwn eu trefnu dan unrhyw ddeddfau neu reolau o gwbl; er, ar yr un pryd, y cymmerir yn ganiataol eu bod yr un mor ddarostyngedig i ddeddfau cyffredinol a dysgyrchiad. Yn awr, os ydyw goruchwyliaethau dadguddiedig rhagluniaeth, a chyfryngiadau gwyrthiol, yn ol deddfau cyffredinol, yn gystal a llywodraeth gyffredin Duw yn nghwrs natur yr hon a wneir yn hysbys gan reswm a phrofiad, nid oes dim mwy o sail i ddysgwyl y darperir ar gyfer pob angenrhaid, fel y cyfyd, gan y deddfau cyffredinol neu y cyfryngiadau gwyrthiol hyn, nag y darperir ar gyfer pob angenrhaid mewn natur gan ei deddfau cyffredinol hi; eto, dichon fod rhesymau doeth a da dros fod cyfryngiadau gwyrthiol yn cymmeryd lle yn ol deddfau cyffredinol, ac na byddo i'r deddfau hyn gael eu troseddu, neu wro oddi wrthynt, gan wyrthiau ereill.

Y mae yr ymddangosiad o ddiffygion ac afreoleidd-derau mewn natur, felly, i'w briodoli, ar y cyfan, i'r ffaith ei bod yn drefniant heb ei amlygu ond mewn rhan, ac o'r cyfryw nodwedd neillduol mewn golygiadau ereill. Yn awr, nid ymddengys mwy o reswm dros fod cwrs natur yn gyfansoddiad felly, na bod Crist-

ionogaeth felly hefyd. Ac y mae fod y cyntaf yn gyfryw drefniant yn ei gwneyd yn debygol fod y ddiweddaf, ar y dybiaeth o'i gwirionedd, yn gyfryw hefyd. A chan fod yn eglur fod Cristionogaeth yn gynllun wedi ei ddadguddio yn unig mewn rhan, ac yn gynllun yn yr hwn y defnyddir moddion i gyrhaedd amcanion, yn gyffelyb i gwrs natur; y mae y tebygolrwydd ei fod wedi cael ei ddwyn yn mlaen yn ol deddfau cyffredinol, yr un modd a chwrs natur, wedi ei ddangos yn eglur. Ac oddi wrth yr holl ystyriaethau hyn, y mae yn debygol yn mlaen llaw, y gall fod, ac yn debygol y bydd, ymddangosiad cyffelyb o ddiffygion ac anhrefn mewn Cristionogaeth ag mewn natur—y bydd Cristionogaeth yn agored i wrthddadleuon cyffelyb a chwrs natur. Ac y mae y gwrthddadleuon hyn yn cael eu hateb gan y sylwadau a wnaed ar Gristionogaeth; fel y mae gwrthddadleuon cyffelyb yn erbyn cwrs natur vn cael eu hateb gan sylwadau cyffelyb am gwrs natur.¹

Gan fod y gwrthddadleuon yn erbyn Cristionogaeth, fel pwnc o ffaith, wedi cael eu symmud o'r ffordd, mewn dull cyffredinol yn y bennod flaenorol, a'r cyfryw wrthddadleuon, fel y dygir hwy yn mlaen yn erbyn doethineb a daioni y gyfundrefn Gristionogol, wedi eu hateb yn y bennod hon, y peth nesaf sydd genym i'w wneyd, yn ol y cynllun a ragnodasom, ydyw dangos fod y prif wrthddadleuon yn erbyn Cristionogaeth, wrth edrych arnynt ar wahân, yn bosibl i'w hateb trwy gyfatebion pendant a chyflawn mewn natur. A chan y dygir un o honynt yn erbyn holl gyfundrefn Cristionogaeth, fel y cyfryw, yr wyf yn tueddu i sylwi arni yma, yn hytrach na rhoddi pennod neillduol at hyny. Yr hyn a wrthddadleuir yn erbyn cyfundrefn yr efengyl ydyw: "Yr ymddengys ei bod yn rhoddi ar ddeall fod Duw wedi ei ddwyn dan yr angenrheidrwydd o ddefnyddio cyfres faith o foddion dyrys a dirgelaidd, mewn trefn i gwblhau ei am-

[¹ Y mae ein hawdwr, wrth fyned rhagddo, yn ymdrin, nid yn unig â diffyniadau crefydd ddadguddiedig, ond â'i hathrawiaethau arbenig. Am ei ddeheurwydd yn ei ymdriniaeth â'r rhan yma o'i destyn, gwna Dr. Chalmers y sylwadau canlynol:—"Pan y mae yn rhoddi ei ddysgrifiadau o ffurf yr oruchwyliaeth yr ydym dani, y mae yn ymddangos i mi fel pe na bai yn barod a chymhwys i egluro athrawiaethau ein ffydd yn yr holl ddyfnder a'r neillduolrwydd ag y maent yn cael eu trin yn y Testament Newydd. Y mae y dyn hwnw yn gwneyd gwasanaeth mawr, yr hwn, trwy ad-gadarnhau rhagfuriau Sion, a'i gwna yn fwy diogel yn ngwyneb ymosodiadau y gelyn oddi allan; ond dywedwn fod y dyn hwnw yn gwneyd gwasanaeth mwy, yr hwn a all ddadlenu i'n cyfeillion a'r dysgyblion ogoniant y deml oddi mewn. Dywedir am Butler ei fod yn ymddangos wedi ei gymhwyso yn fwy i'r cyntaf nag i'r olaf. Ymddiriedwn yn fwy iddo ar y cwestiwn—O ba le y daeth y llythyr? nag, Beth v mae y llythyr yn ddyweyd?"]

canion—adferiad ac iachawdwriaeth y byd—yr un modd ag y mae dynion, oddi ar ddiffyg gwybodaeth neu allu, heb fod yn abl i gyrhaedd eu hamcanion yn uniongyrchol—yn cael eu gorfodi i fyned trwy lwybrau cwmpasog, ac arfer llawer dyfais lled chwith i ddyfod hyd atynt.” Yn awr, y mae pob peth o fewn cylch ein sylwadaeth yn dangos ffoledd hyn, wrth ei ystyried fel gwrthddadl yn erbyn gwirionedd Cristionogaeth. O blegid, yn ol ein dull ni o feddwl am dano, y mae Duw yn defnyddio amrywiaeth mawr o foddion—moddion a ystyriwn ni yn flinderus—yn nghwrs naturiol rhagluniaeth, er mwyn cwblhad ei amcanion. Yn wir, y mae yn sicr fod pethau yn y mater hwn tu hwnt i'n dirnadaeth; ond y mae y dirgelwch mor fawr mewn natur ag mewn Cristionogaeth. Yr ydym ni yn gwybod pa bethau y cyfeiriwn atynt fel prif amcanion, a pha gwrs a gymmerwn, yn unig fel moddion, i hyrwyddo yr amcanion hyny. Ond yr ydym yn dra anwybodus pa mor bell y mae Awdwr natur yn ystyried pethau yn y wedd o foddion a dybenion, yn y fath fodd ag y gellid dyweyd, dyben yn unig yw hyn, a moddion yn unig yw y llall, yn ei olwg ef. Ac a oes dim gwrthuni yn ein dull o feddwl o barth i'r mater hwn, a dim yn anghysson, yn cyfodi oddi ar ein gwybodaeth amherffaith am bethau, sydd anhosibl ei ddyweyd. Y mae, fodd bynag, gymmaint a hyn yn amlwg, fod yr holl fyd naturiol, a'r llywodraeth arno, yn drefniant neu gyfundrefn—nid un sefydlog, ond cynnyddol; trefniant yn yr hwn y mae gweithrediad amrywiol foddion yn cymmeryd amser maith cyn y gellir cyrhaedd y dybenion y cyfeiriant atynt. Y mae cyfnewidiadau tymmorau, addfediad ffrwythau, a hyd yn oed hanes blodeuyn, yn esamplau o hyn—felly hefyd y mae y bywyd dynol. Y mae sylweddau tyfol, a chyrrff anifeilaidd, er efallai wedi eu ffurfio ar unwaith, eto, yn cynnyddu yn raddol i ystâd o addfedrwydd. A'r un modd y mae bodau rhesymol yn cael eu cyfarwyddo yn naturiol i ffurfio bob un ei arferion a'i gymmeriad ei hun, trwy raddol ennill gwybodaeth a phrofiad, a thrwy gyfres faith o weithredoedd. Y mae ein hanfodiad, nid yn unig yn olynol—y naill ystâd yn dilyn y llall—fel y rhaid iddo fod; ond y mae un ystâd o'n bywyd a'n bod wedi ei bwrriadu gan Dduw i fod yn barotoad i un arall; a hono drachefn yn foddion i gyrhaedd un arall ar ei hol—mabandod i faboed, maboed i ieuencyd, a ieuencyd i ganol oed. Y mae dynion yn ddiamynedd, ac am ddwyn pethau yn mlaen yn frysiog; ond y mae Awdwr natur yn ymddangos yn bwyllus trwy ei holl weithrediadau, yn cyrhaedd ei amcanion naturiol trwy raddau olynol ac araf. Ac y mae cynllun pethau wedi ei osod i lawr yn

mlaen llaw, yr hwn, ar gyfrif ei natur, sydd yn gofyn amryw fathau o foddion, yn gystal a meithder amser, mewn trefn i ddwyn oddi amgylch ei amrywiol ranau. Fel hyn, y mae Duw, yn nghwrs beunyddiol ei ragluniaeth, yn gweithredu yr un modd ag mewn Cristionogaeth; yn gwneyd un peth yn wasan-aethgar i beth arall; a hyny drachefn i rywbeth pellach; ac felly yn mlaen trwy gyfres olynol o foddion, yr hon sydd yn ymestyn ol a blaen, tu hwnt i derfynau eithaf ein canfyddiad.¹ Ac o'r dull hwn o weithredu, y mae pob peth a welwn yn nghwrs natur yn anghraifft mor briodol ag unrhyw ran o'r oruchwyliaeth Gristionogol.²

PENNOD V.

AM GYFUNDREFN NEILLDUOL CRISTIONOGAETH; APPWYNTIAD CYFRYNGWR,³ A PHRYNEDIGAETH Y BYD TRWYDDO EF.

NID oes dim, feddyliwyf, mewn Cristionogaeth, ag y dadleuwyd mwy yn ei erbyn na chyfryngdod Crist, yn y naill neu y llall o'r

[¹Y mae ymresymiad y bennod hon yn taffu goleuni ar y dull priodol o fyfyrion ar gymmeriad a llywodraeth Duw. Y mae ein hathronwyr, medd un ysgrifenydd, yn gwneyd camsyniadau tra pheryglus wrth farnu am drefniadau Duw oddi wrth syniadau a ffurfiasant yn flaenorol am gymhwysder, a phriodoldeb, ac uniondeb pethau. Dywedant nas gall Duw weithredu yn y ffordd yma neu y ffordd arall, am y byddai hyny yn groes i'w gyfiawnder neu ei ddoethineb. Ond wrth wneyd yr haeriadau hyn, dangosant eu bod yn anghyfarwydd â rheolau sylfaenol eu hathroniaeth eu hunain. Buasai gwir athroniaeth yn dysgu y gwrthwyneb iddynt—yn gwneyd iddynt ddechreu trwy sylwi ar drefn bresennol y byd—sylwi pa fodd y gwnaeth Duw ni, pa beth yw y natur a roddes Efe i ni, ac yn mha amgylchiadau y gosodwyd ni ganddo; ac yna, oddi ar yr hyn a wnaeth, ffurfio barn pa beth y mae doethineb a daioni perffaith yn debyg o wneuthur eto. Nid yw rhagsyniadau—syniadau blaenorol i brofiad—yn gweddu i ysbryd athroniaeth Bacon, nac i ostyngeddwydd y Cristion.]

[²Y mae yr arwirebau canlynol, o eiddo tri gŵr tra gwahanol i'w gilydd, yn werth eu dyfynu mewn cyssylltiad â mater y bennod hon:—"Naill ai nid oes dim yn ddirgelaidd, neu y mae pob peth felly."—*Dr. Thomas Brown*. "Cam olaf rheswm ydyw gwybod fod anfeidroldeb o bethau uwch law rheswm."—*Pascal*. "O ranau tywyll dadguddiad, y mae dau fath; y mae un math o honynt ag y gellir eu dwyn i oleuni trwy ymarferiad dyfal o'n galluedd; y mae y llall yn trigo bob amser o fewn cysgodau gorsedd Duw—y lle y byddai yn rhyfyg ymwithio iddo."—*Warburton*.

[³Un o'r prif wrthddadleuon yn erbyn Cristionogaeth ydyw y ffolineb a dybir sydd yn perthyn i athrawiaeth cyfryngdod Crist, a phrynedigaeth y byd trwyddo ef. Amcan y bennod hon ydyw symmud yr wrthddadl hon o'r ffordd.]

pethau a berthyn iddo. Eto, ymddengys, wrth roddi ystyriaeth drwyadl i'r mater, nad oes dim yn haeddu hyny yn llai. O blegid,

I. Y mae holl gyfatebiaeth natur yn symmud pob tybiaeth yn erbyn y syniad cyffredinol am "Gyfryngwr rhwng Duw a dynion:" 1 *Tim.* ii. 5. O blegid, yr ydym yn gweled fod pob creadur byw yn dyfod i'r byd â'u bywyd mewn mabandod, ac yn cael ei gynnal trwy offerynoliaeth ereill. Felly, y mae y llywodraeth weledig a weinydda Duw ar y byd yn cael ei dwyn yn mlaen trwy offerynoliaeth a chyfryngiad ereill. A pha mor bell y mae ei lywodraeth anweledig felly, y mae yn anmhosibl penderfynu mewn un modd trwy reswm. Ac y mae y dybiaeth fod rhan o honi felly yn ymddangos, a dyweyd y lleiaf, yn llawn mor gredadwy a'r gwrthwyneb. Nid oes, felly, un math o wrthddadl, oddi wrth oleuni natur, yn erbyn y syniad cyffredinol am Gyfryngwr rhwng Duw a dynion, yn cael ei ystyried fel athrawiaeth mewn Cristionogaeth, neu fel ordeiniad yn yr oruchwyliaeth hon; o blegid y mae yn amlwg oddi wrth brofiad fod Duw yn appwyntio cyfryngwyr yn offerynau o ddaioni a drygioni i ni; yn offerynau ei gyfiawnder a'i drugaredd. A'r wrthddadl y cyfeirir ati yma a ddygir yn mlaen, nid yn erbyn cyfryngdod yn yr ystyr uchel, ragorol, a neillduol ag y mae Crist yn gyfryngwr, ond yn erbyn yr holl ddrychfeddwl am gyfryngwr o gwbl.

II. Gan y rhaid i ni dybied fod y byd o dan lywodraeth foisol Duw, neu mewn ystâd o grefydd, cyn y gallwn ymdrin am yr athrawiaeth ddadguddiedig o barth ei adferiad trwy Iesu Grist, ni a ystyriwn hyny, felly, yn benodol yma. Yn awr, y mae llywodraeth foisol Duw yn dangos mai canlyniad drygioni a fydd trueni mewn rhyw ystâd ddyfodol, yn cael ei weinyddu gan gyfiawn farn Duw. Yr effeithir y cyfryw gosp gan ei ordeiniad ef, a gynnwysir, o angenrheidrwydd, yn y syniad am ei lywodraeth foisol. Ond gan nad ydym i feddwl ein bod yn gyfarwydd â'r holl amcanion neu y rhesymau am ba rai y mae yn beth gweddus gweinyddu cosp ddyfodol, neu pa ham y mae Duw wedi appwyntio i'r cyfryw drueni ddilyn drygioni; a chan ein bod yn gwbl anwybodus o barth i'r modd y bydd iddo ddilyn, trwy ba achlysuron uniongyrchol, neu trwy gyfrwng pa foddion; nid oes dim yn afresymol yn y dyb y gall dilyn yn debyg fel y mae trueni yn dilyn rhyw ymddygiadau penodol yn awr; megys flodi, afiechyd, gwaradwydd, marwolaeth anamserol trwy glefydau, a marwolaeth trwy weinyddiad y gallu gwladol. Nid oes dim yn wrthun mewn meddwl y gall cosp ddyfodol ddilyn drygioni wrth gwrs, neu o herwydd math o angenrheidrwydd—

mewn ffordd o ganlyniad naturiol oddi wrth gyfansoddiad gwreiddiol y byd; oddi wrth y natur a roddes Duw i ni, a'r sefyllfa y gosododd ni ynnddi; neu yn gyffelyb i ddyn yn gwammalu yn rhyfygus ar ddibyn, ac mewn ffordd o ganlyniad naturiol yn syrthio yn bendramwnwgl; mewn ffordd o ganlyniad naturiol, yn tori ei aelodau; ac mewn ffordd o ganlyniad naturiol, oddi wrth hyn, yn ddisymmwrth yn marw.

Dichon y cymmer rhai dynion da dramgwydd wrth glywed hyn yn cael siarad am dano fel peth posibl a thybiadwy, y gall cosp ddyfodol y drygionus gael ei gweinyddu yn ffordd canlyniad naturiol, fel pe bai hyn yr un peth a chymmeryd gweinyddiad cyfiawnder o law Duw, a'i roddi i natur. Ond dylent gofio, pan y mae pethau yn dygwydd yn ol cwrs natur, nad yw hyn yn rhwystro iddynt fod ei waith ef, yr hwn yw Duw natur; a bod yr Ysgrythyrau yn priodoli y cospau hyny i gyfiawnder dwyfol; y rhai, fel y mae yn eithaf amlwg, ydynt naturiol, ac y rhaid eu galw felly, pan wahaniaethir hwynt oddi wrth y cyfryw ag ydynt wyrthiol. Ond, wedi y cwbl, yr ydym yn arfer y dybiaeth yma, neu yn hytrach y dull hwn o siarad, yn unig mewn ffordd o eglurhâd ar y mater ger bron; o blegid gan y rhaid addef fod cosp ddyfodol y drygionus yn cyfodi, nid oddi ar appwyntiad mympwyol, ond oddi ar reswm, uniondeb, a chyfiawnder, y mae yn dyfod, am ddim a welaf, i'r un peth, pa un a feddylir ei bod yn cael ei gweinyddu mewn modd cyffelyb i weinyddiad cospau tymmorol drygioni ac ynfydrwydd, ynte mewn rhyw ffordd arall. Ac y mae yn ganiataol, yn yr achos presennol, gwneyd y dybiaeth yma, yr hon nid yw mewn un modd yn anghredadwy—y gall cosp ddyfodol ddilyn drygioni fel ei ganlyniad naturiol, neu yn unol â rhyw ddeddfau cyffredinol o lywodraeth sydd eisoes wedi eu sefydlu yn y byd.

III. Ar y dybiaeth hon, neu hyd yn oed hebddi, gallwn sylwi ar amryw bethau yn ateb i'r dyben presennol yn nhrefn natur, neu ordeiniadau rhagluniaeth; y darpariadau sydd yn cael eu gwneyd, fel na byddo i holl ganlyniadau naturiol drygionus gweithredoedd dynion bob amser ddilyn yn weithredol; neu fod y cyfryw ganlyniadau drygionus ag a ddilynent yn anocheladwy, yn ol cwrs sefydledig pethau, os heb eu hattal, yn cael eu hattal i ryw raddau. Yr ydym yn dueddol mewn rhyfyg ac anystyr-iaeth i ddychymygu y gallasai y byd gael ei ffurfio yn y fath fodd fel na buasai y fath beth a thrueni ynnddo. I'r gwrthwyneb, yr ydym yn gweled fod Awdwr natur yn ei oddef. Ond er hyny, y mae wedi darparu cynnorthwyon, ac mewn llawer o amgylchiadau, berffaith feddyginiaeth iddo, ar ol rhai dyoddefiadau

ac anhawsderau; cynnorthwy a meddyginiaeth hyd yn oed i'r drwg sydd yn ffrwyth ein camymddygiad ein hunain; a'r hwn, yn nghwrs natur, a fuasai yn parhau mewn bod, ac yn dybenu yn ein dinystr, oni buasai am y cyfryw feddyginiaeth. Ac y mae hyn yn esampl o doster ac o dynerwch yn nghyfansoddiad natur. Fel hyn, gallai yr holl ganlyniadau niweidiol a grybwyllwyd yn awr oddi wrth waith dyn yn rhyfygu ar ryw ddibyn gael eu rhagflaenu; a phe nas gellid eu rhagflaenu oll, eto gellid rhagflaenu rhai, trwy gyfryngiad priodol, os na wrthodid ef, trwy i ddyn arall ddyfod i gynnorthwyo y dyn fyddai mewn perygl, ac iddo yntau dderbyn y cymhorth, yn ol fel y byddai yr achos yn gofyn. Gall dynion wneuthur llawer eu hunain tuag at ragflaenu canlyniadau niweidiol eu ffolineb; a gellir gwneyd mwy ganddynt pan yn cael eu cynnorthwyo gan ereill; yr hyn y mae natur yn ofyn, ac yn ein cymhell i'w wneyd. Dyma gyfansoddiad cyffredinol y byd. Yn awr, tybier ei fod wedi ei gyfansoddi a'i ffurfio yn y fath fodd, fel, ar ol i'r cyfryw weithredoedd gael eu cyflawnu ag a ragwelid a achosai yn naturiol drueni i'r gweithredydd, na fuasai gan ddyn ddim gallu i attal a rhagflaenu y trueni sydd yn ganlyniad naturiol, mewn un anghraifft, mwy nag sydd ganddo i wneyd hyn yn y cwbl; nid oes neb a all ddywedyd na buasai trefn fwy llym fel hon, er hyn, yn wirioneddol dda. Ond gan fod, i'r gwrthwyneb, ryw ddarpariadau mewn natur, fel y gellir, i raddau helaeth, attal canlyniadau naturiol ein ffolineb, y mae hyn yn drugaredd neu dosturi yn nhrefn y byd—yn dosturi fel ag i'w wahaniaethu oddi wrth ddaioni yn gyffredinol. A chan fod holl gwrs adnabyddus pethau yn llawn o esamplau o'r cyfryw dosturi, byddai yn beth unol â chyfatebiaeth natur dysgwyl a gobeithio, er mor andwyol ydyw canlyniadau naturiol drygioni, ac felly oddi wrth ddeddfau cyffredinol llywodraeth Duw ar y byd, eto y gellid gwneyd rhyw ddarpariaeth—efallai fod un wedi ei gwneyd ar y cyntaf—er mwyn rhagflaenu y canlyniadau andwyol hyn, a'u hattal i gymmeryd lle yn weithredol; o leiaf, i gymmeryd lle yn gyffredinol, ac yn mhob achos.

Yr wyf yn teimlo y rhyfedda llawer wrth weled hyn yn cael llefaru am dano fel pe byddai yn ammheus. Y mae y cyffredin o ddynolryw mor amddifad o syniad dwys a phriodol am bethau ag a allesid dysgwyl oddi wrth eu hystâd bresennol o ddrygioni, trueni, a thywyllwch, fel nad oes ganddynt bron un syniad na meddwl am y mater; a gall fod rhai dynion difrifol wedi siarad yn fyrbwyll am dano. Ond edrychwn ar yr hyn sydd, oddi wrth gyfansoddiad natur, yn ganlyniadau angenrheidiol

ymddygiad afreolaidd—yn ganlyniadau y cyfryw ffolineb, ystyfnigrwydd, ac esgeulusdra, na elwir genym ond prin yn ddrygionus. Yn awr, y mae yn naturiol dysgwyl y bydd canlyniadau niweidiol afreoleidd-dra yn fwy, yn ol y mae yr afreoleidd-dra felly. Ac nid oes dim cymhariaeth rhwng yr afreoleidd-derau hyn â drygau mwy, neu amharch penrhydd ac anystyriol tuag at grefydd, os oes rhyw wirionedd a phwysigrwydd yn bod mewn crefydd. O blegid ystyriwch pa mor bwysig i greaduriaid—bodau moesol—ydyw dwyn i mewn yn rhyfygus y dyrswch a'r trueni hwnw i lywodraeth Duw ag y mae dynolryw wedi ei ddwyn yn weithredol; difrio Pen Arglwydd pawb; diystyru ei awdurdod; bod yn niweidiol i'r graddau y maent i'w cydcreaduriaid—creaduriaid—Duw. Sylwer, hefyd, mai effeithiau drygioni yn fynych yn y byd hwn ydynt drueni eithafol, dinystr andwyol, a hyd yn oed angyf; ac wrth gasglu yr holl bethau hyn at eu gilydd, ymddengys—fel nas gall neb ddyweyd i baraddau y gall canlyniadau anattaliedig drygioni fod yn andwyol a dinystriol, yn ol rheol gyffredin y llywodraeth ddwyfol; felly, nid yw yn beth y gellir bod yn sicr o barth iddo, pa mor bell y gallai y canlyniadau hyn gael eu rhagflaenu, yn gysson â rheol dragwyddol uniondeb, neu â'r hyn sydd yn gyfansoddiad moesol natur. Byddai, pa fodd bynag, sail dda i obeithio nad oedd y llywodraeth gyffredinol mor fanwl a llym fel ag i gau allan faddeuant ac arbediad, a rhagflaeniad ar y canlyniadau cospawl. Eto,

IV. Nid oes un tebygolrwydd y gallai dim o fewn ein cyrhaedd ni, ynddo ei hunan, eu rhagflaenu a'u hattal—rhagflaenu iddynt gael eu gweinyddu. Ond y mae yn naturiol meddwl y byddai yn amhosibl edrych ar y gwrthwyneb fel peth sicr. O blegid nid ydym yn gyfarwydd â holl amgylchiadau y peth: nid ydym yn hysbys o'r holl resymau sydd yn gwneyd cosp ddyfodol yn beth gweddus i gael eu gweinyddu; ac am hynny, nis gallwn wybod a wnai unrhyw beth a allwn ni gwblhau y cyfryw gyfnewidiad ag a barai i'w hattaliad fod yn weddus: ni wyddom pa beth ydyw holl ganlyniadau naturiol neu appwyntiedig drygioni, nac yn mha ddull y deuent oddi amgylch, os heb eu rhagflaenu; ac felly, nis gallwn ddyweyd pa un a allem wneyd rhywbeth ag a fyddai yn ddigonol i'w lluddias. Gan fod ein hanwybodaeth, felly, mor ddiammheuol, gadawer i ni fwrw golwg ar gyfatebiaeth natur, neu ragluniaeth. O blegid er y dichon nad yw hyn ond sail wan i gyfodi dadl benderfynol arni yn y mater hwn, eto y mae yn ddigonol i ateb haeriad, heb un prawf drosto, a ddygir yn mlaen fel gwrthddadl yn erbyn athrawiaeth, prawf yr hon ydyw dadguddiad, ac nid rheswm. Ystyrier, felly, fod dynion

yn dinystrio eu sefyllfaoedd trwy afradlonedd; yn dwyn arnynt eu hunain glefydau trwy ormodedd ac anghymmedroldeb; yn myned yn agored i gospau y gyfraith wladol; ac yn sicr y mae llywodraeth wladol yn beth naturiol. A wna gofid am yr hyn a fu, ac ymddwyn yn iawn yn y dyfodol, ynddo ei hunan, ragflaenu canlyniadau naturiol y ffoleddau hyn? I'r gwrthwyneb, y mae gallu naturiol dynion i gynnorthwyo eu hunain yn cael ei leihau yn fynych; neu, os nad ydyw, gorfodir hwy i fod yn rhwymedig am gynnorthwy ereill, ar lawer cyfrif ac mewn gwahanol ffyrdd, yr hwn gynnorthwy ni fuasent mewn angen am dano oni buasai eu camymddygiad; ond sydd, yn y sefyllfa anfanteisiol y dygasant eu hunain iddi, yn hollol angenrheidiol i'w hadferiad hwy a'u hamgylchiadau. Yn awr, gan mai dyma ein sefyllfa, fel preswylwyr y byd hwn, ac fel yn meddu buddiannau tymmoroi ynddo, fel deiliaid llywodraeth naturiol Duw, yn yr hon hefyd y mae amryw o elfenau moesol, pa ham nad ydyw yn debygol fod ein hachos yn gyffelyb yn ein perthynas fwyaf pwysig, fel deiliaid ei lywodraeth foesol berffaith, ac fel yn meddu buddiannau ac achosion dyfodol, a rhai mwy cyffredinol? Os ydym wedi camymddwyn yn y berthynas uchaf yma, a gwneyd ein hunain yn agored i'r gosp ddyfodol sydd yn gyssylltiedig drygioni, y mae yn dra eglur na ddichon ymddygiad da am yr amser i ddyfod fod ond yn gwbl annigonol—nid yn ofer, ond yn annigonol, ei hunan, i attal y gosp hono, neu i'n gosg yn y sefyllfa y buasem ynddi pe wedi cadw ein diniweidrwyd.

Ac, er y dylem ymresymu gyda pharch dyladwy wrth ymda i am y goruchwylliaethau dwyfol, eto, gellir chwanegu ei fod yn gwbl groes i'n holl syniadau am lywodraeth, yn gystal ag i gyfansoddiad natur, dybied y byddai i iawn ymddygiad rhag llaw, bob amser, ragflaenu holl ganlyniadau cospawl y drygau a gyflawnwyd.¹ Ac nid oes genym ddim tuag at benderfynu i ba raddau ac yn mha amgylchiadau y rhagflaenai diwygiad y gosp hon, ac i ni dybied y gwnai mewn rhai. Ac er yr haerir gan rai, mewn gwrthwynebiad i Gristionogaeth, fod edifeirwch ei hun yn ddigonol i ragflaenu ac attal y drygau y mae dynolryw yn agored iddynt, ac adferu yr hyn a gollasant; eto, trwy fod

[¹Gallid dyweyd na fyddai hyn yn briodol mewn llywodraethau daiarol, o blegid, yn un peth, gallent gael eu twyllo gan honiadau ac ymddangosiad gau o edifeirwch. Ond, a chaniatau y gallai llywodraethwyr gwladol wahaniaethu i sicrwydd wir edifeirwch oddi wrth y gau, byddai y drefn hono yr un mor anghyfleus i'r cyffredin. Cefnogai ddynion i gyflawnu troseddau, yn y gobaith o allu eu cyflawnu yn ddigosp; o blegid meddyliai pob troseddwr na byddai ganddo ddim i'w wneuthur mewn trefn i osgoi y gosp ddyledus am ei drosedd, ond yn unig edifarhau, yr hyn a fyddai yn ddigon i foddioni y gyfraith; ac ymwneieithuai iddo ei hun fod gwneyd hyn o fewn ei allu.]

y syniad am yr angenrheidrwydd am aberthau dyhuddol yn cael ei goledd gan y byd paganaidd yn gyffredinol, y mae y dyb fod edifeirwch ei hunan yn ddigonol fel dyhuddiant yn ymddangos yn wrthdarawiadol i syniad a theimlad cyffredinol dynolryw.

Ar y cyfan, felly, pe buasai deddfau cyffredinol llywodraeth Duw yn cael eu goddef i gymmeryd eu cwrs, heb un cyfryngiad o'n plaid, buasai y gospedigaeth ddyfodol, am ddim a wyddom i'r gwrthwyneb, yn canlyn yn anocheladwy er pob peth a all-
 asem ni wneyd i'w hattal. Yn awr,

V. Yn y tywyllwch hwn, y mae dadguddiad yn dyfod i mewn, ac yn cadarnhau pob ofn petrusgar a allai ymgymhell i galon dyn o barth i ganlyniad diattal drygioni yn y dyfodol: y mae yn tybied fod y byd mewn ystâd ddirywiedig (yr hon dybiaeth ydyw sail y drefn Gristionogol, a'r hon os nad yn brofadwy trwy reswm, eto sydd heb fod yn wrthwyneb iddo), ac yn ein dysgu fod rheolau y llywodraeth foesol yn gyfryw fel nas gellir maddeu yn uniongyrchol ar sail edifeirwch, neu trwy ei effeithiolrwydd yn unig: ond, ar yr un pryd, y mae yn dysgu yr hyn a allasai natur yn rhesymol obeithio; sef, nad oedd llywodraeth foesol y greadigaeth mor llym a manwl fel ag i gau allan bob cyfryngiad er troi heibio ganlyniadau dinystriol drygioni; yr hon, felly, trwy y moddion yma, sydd yn caniatu ac yn godde-
 maddeuant. Y mae dadguddiad yn ein dysgu fod deddfau an-
 adnabyddus llywodraeth foesol gyffredinol Duw, yn gystal a'r deddfau neillduol trwy y rhai y mae yn ein llywodraethu yn bresennol, yn meddu llawer o dosturi ynddynt—yn dosturiol a thyner, fel y maent yn dda, yn ol y syniad mwy cyffredinol am ddaioni; a'i fod yn drugarog wedi darparu fod i gyfryngiad gael ei wneyd i ragflaenu dinystr dynolryw, pa beth bynag a fuasai y dinystr hwnw pe heb ei ragflaenu. “Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei uniganedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol;” *Ioan* iii. 16. “Pwy bynag a gredo ynddo ef”—nid mewn ystyr ddeallol, ddamcanol, mae yn sicr, ond mewn ystyr ymarferol: rhoddes ei Fab yn yr un llwybr o ddaioni i'r byd ag y mae yn rhoddi i bersonau neillduol gynnorthwy eu cydgreaduriaid pan y byddai distryw ac aflwyddiant tymmorol yn sicr o fod yn ganlyniad eu ffolineb pe heb y cynnorthwy hwnw;—yn yr un llwybr o ddaioni, meddaf, er mewn gradd anfeidrol uwch. A charodd Mab Duw nynt, a rhoddes ei hun drosom ni, gyda chariad ag y mae ef ei hun yn ei gyffelybu i gariad cyfeillgarwch dynol; er y rhaid i bob cymhariaeth syrthio yn anfeidrol fyr o'r hyn a fwriedir ei ddangos ynddynt. Cyf-

ryngodd yn y fath fodd ag oedd yn angenrheidiol a digonol i attal gweinyddiad cyfiawnder ar bechaduriaid; yr hwn, heb hyny, a fuasai yn ol ei appwyntiad ef yn cael ei weinyddu arnynt; neu yn y fath fodd ag i attal y gosp hono rhag dilyn yn weithredol; yr hon, yn ol deddfau cyffredinol y llywodraeth ddwyfol, a fuasai, o angenrheidrwydd, yn dilyn pechodau dynion, oni buasai am y cyfryw gyfryngiad.

Pe y tybid, ar yr olwg gyntaf, fod unrhyw betn a ddywedwyd yn awr yn anghydweddol â daioni dwyfol, wrth ail feddwl symmudid y dybiaeth yn hollol—diflanai pob ymddangosiad o anghydweddiad. O blegid pe y tybiem fod cyfansoddiad pethau yn gyfryw fel y buasai yr holl greadigaeth yn syrthio i ddinystri oni buasai am ryw foddion a ordeiniodd Duw i attal y dinystri hwnw; ni byddai hyd yn oed y dybiaeth hon yn anghydweddol yn y gradd lleiaf â'r daioni mwyaf perffaith. Ond efallai y meddylir fod y dull hwn o drin y pwnc dan sylw yn tybied fod sefyllfa dynolryw yn un hynod ddyeithrol. Felly yn ddiammheuol y mae. Ond nid Cristionogaeth a'u dododd yn y sefyllfa hon. Pwy bynag a ystyria drueni amrywiol a drygioni anfad y byd; fod yn y goreu lawer o feiau ag y cwynant o'u herwydd, ac y ceisiant eu diwygio; ond fod y cyffredinolrwydd yn cynnyddu mewn annuwoldeb a llygredigaeth gyda'u hoedran; fod ysgrifenwyr paganaidd ar foeseq yn ystyried y sefyllfa bresennol yn sefyllfa o gosp; a bod y ddaiar, ein trigfa, yn ymddangos yn adfail—yn garnedd:—pwy bynag, meddaf, a ystyria y pethau hyn a phethau ereill, a feddylia nad oes ganddo ond rhesymau gweiniaid i ddadleu yn erbyn yr hyn a fynega yr Ysgrythyr fod dynolryw mewn ystâd o ddirywiad, yn erbyn hyn, fel ffaith, pa mor anhawdd bynag y meddylia y gellir rhoddi cyfrif neu hyd yn oed ffurfio syniad eglur am ei hachlysuron a'i hamgylchiadau. Ond y mae fod trosedd ein rhieni cyntaf yn achlysur i ni gael ein gosod mewn sefyllfa fwy anfanteisiol, yn beth cwbl gyfatebol i'r hyn a welwn yn nghwrs beunyddiol rhagluniaeth—fel y dangoswyd fod adferiad y byd trwy Iesu Grist.

VI. Y mae y dull neillduol ag y cyfryngodd Iesu Grist yn mhrynedigaeth y byd, neu ei swydd fel Cyfryngwr, yn yr ystyr mwyaf arbenig, *rhong Duw a dynion*, yn cael ei gosod allan fel hyn yn yr Ysgrythyrau. “Efe yw goleuni y byd” (*Ioan viii. 12*)—dadguddia ewyllys Duw yn yr ystyr mwyaf neillduol. Y mae yn aberth dyhuddol: *Rhuf. iii. 25*; *v. 11*; *1 Cor. v. 7*; *Eph. v. 2*; *1 Ioan ii. 2*; *Mat. xxvi. 28*. Oen Duw: *Ioan i. 29, 36*; a thrwy lyfr y Dadguddiad: ac fel yr offrymodd ei hun

yn wirfoddol, y mae yn cael ei alw yn Archoffeiriad (trwy yr Epistol at yr Hebreaid). Y mae yn cael ei ddysgrifio yn mlaen llaw yn yr Hen Destament, yr hyn a ymddengys yn meddu pwys arbenig, dan yr un cymmeriad o archoffeiriad, ac aberth dyhuddol: *Esay* liii; *Dan.* ix. 24; *Salm* cx. 4. A chan y dadleuir na wneir hyn ond yn unig mewn ffordd o gyfeiriad at ebyrth y ddeddf Foeseinaidd, mae yr apostol i'r gwrthwyneb yn cadarnhau mai "cysgod daionus bethau i ddyfod" oedd y gyfraith, "ac nid gwir ddelw y pethau" (*Heb.* x. 1); a bod yr offeiriad a offryment roddion yn ol y gyfraith, yn gwasanaethu i esampl a chysgod y pethau nefol; megys y rhybuddiwyd Moses gan Dduw, pan oedd efe ar fedr gorphen y babell. "Canys, Gwel," medd efe, "ar wneuthur o honot bob peth yn ol y portreid a ddangoswyd i ti yn y mynydd" (*Heb.* viii. 4, 5): hyny yw, yr oedd yr offeiriadaeth Lefiticaidd yn gysgod o offeiriadaeth Crist; yn gyffelyb fel yr oedd y tabernacl a wnaed gan Moses yn gydffurf â'r hyn a ddangoswyd iddo yn y mynydd. Offeiriadaeth Crist, a'r tabernacl yn y mynydd, oeddynt y rhai gwreiddiol:—o'r cyntaf, yr oedd offeiriadaeth Lefi yn gysgod; ac o'r diweddaf, yr oedd y tabernacl a wnaed gan Moses yn gopi neu yn arlun. Y mae yn amlwg, felly, mai athrawiaeth yr epistol ydyw, mai rhyw arddangosiadau o aberth mawr a digonol Iesu Grist oedd aberthau y gyfraith:—hwy oedd yn cyfeirio ato ef, ac nid ef atynt hwy. Nis gall dim fod yn fwy penderfynol na'r ymadroddion canlynol:—"Canys anmhosibl yw i waed teirw a geifr dynu ymaith bechodau. O herwydd pa ham y mae efe, wrth ddyfod i'r byd, yn dywedyd, Aberth ac offrwm nis mynaist, eithr corff a gymhwysaist i mi. Yna y dywedais, Wele fi yn dyfod (y mae yn ysgrifenedig yn nechreu y llyfr am danaf) i wneuthur dy ewyllys di, O Dduw. Trwy yr hwn ewyllys yr ydym ni wedi ein sancteiddio, trwy offrymiad corff Iesu Grist unwaith;" *Heb.* x. 4, 5, 7, 9, 10. Ac i chwanegu un gair eto o'r un ystyr,—“Felly Crist hefyd, wedi ei offrymu unwaith i ddwyn ymaith bechodau llawer, a ymddengys yr ail waith, heb bechod;" hyny yw, heb ddwyn pechod, fel yn ei ymddangosiad cyntaf, trwy fod yn aberth drosto; heb fod ein hanwireddau ni wedi eu doddi arno; heb fod mwyach yn bechaberth:—"a ymddengys yr ail waith heb bechod, i'r rhai sydd yn ei ddysgwyl, er iachawdwriaeth;" *Heb.* ix. 28. Ac nid yw yr ysgrifenydd sanctaidd yn cyfyngu eu hunain at y dull hwn o lefaru am iawn Crist, ond dangosant fod rhyw effeithiolrwydd yn yr hyn a wnaeth ac a ddyoddefodd, yn chwanegol at, a thu hwnt i addysg, esampl, a llywodraeth:—"Hyn ni ddywedodd efe o

hono ei hun : eithr, ac efe yn archoffeiriad y flwyddyn hono, efe a brophwydodd y byddai yr Iesu farw dros y genedl" (yr Iuddewon); "Ac nid dros y genedl yn unig, eithr fel [trwy effeithiolrwydd ei angeu] y casglai efe yn nghyd yn un blant Duw hefyd, y rhai a wasgaresid;" *Ioan xi. 51, 52.* "O blegid Crist hefyd unwaith a ddyoddefodd dros bechodau, y Cyfiawn dros yr anghyfiawn (fel y dygai ni at Dduw) wedi ei farwolaethu yn y cnawd, eithr ei fywhau yn yr Ysbryd;" 1 *Pedr iii. 18.* "Megys na ddaeth Mab y dyn i'w wasanaethu, ond i wasanaethu, ac i roddi ei einioes yn bridwerth dros lawer;" *Mat. xx. 28; Marc x. 45; 1 Tim. ii. 6.* "Eithr bu gau brophwydi hefyd yn mhlith y bobl, megys ag y bydd gau athrawon yn eich plith chwithau; y rhai yn ddirgel a ddygant i mewn heresiau dinystriol, a chan wadu'r Arglwydd, yr hwn a'u prynodd hwynt, ydynt yn tynu arnynt eu hunain ddinystyr buan;" 2 *Pedr ii. 1; Dad. xiv. 4; 1 Cor. vi. 20.* "Crist a'n llwyr brynodd oddi wrth felldith y ddeddf, gan ei wneuthur ei hun yn felldith drosom: canys y mae yn ysgrifenedig, Melldigedig yw pob un sydd yn nghrog ar bren;" *Gal. iii. 13; Dad. v. 9; 1 Pedr i. 19.* "Am hyny efe a ddichon hefyd yn gwbl iachau y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw, gan ei fod ef yn byw bob amser i eiriol drostynt hwy;" *Heb. vii. 25; 1 Ioan ii. 1, 2.* "Canys gweddus oedd iddo ef, o herwydd yr hwn y mae pob peth, a thrwy yr hwn y mae pob peth, wedi iddo ddwyn meibion lawer i ogoniant, berffeithio Tywysog eu hiachawdwriaeth hwy trwy ddyoddefiadau;" *Heb. ii. 10; v. 9.* "Sef, bod Duw yn Nghrist yn cymmodi y byd âg ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau; ac wedi gosod ynom ni air y cymmod;" 2 *Cor. v. 19; Rhuf. v. 10; Eph. ii. 16.* Ac yn olaf, "O blegid hyny, gan fod y plant yn gyfranogion o gig a gwaed, yntau hefyd yr un modd a fu gyfranog o'r un pethau; fel trwy farwolaeth y dinystriai efe yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo, hyny yw, diafol;" *Heb. ii. 14.* Gan fod Crist, fel hyn, wedi darostwng ei hun, a bod "yn ufudd hyd angeu, ie, angeu y groes, Duw a'i tra dyrchafodd yntau, ac a roddes iddo enw, yr hwn sydd goruwch pob enw;" rhoddes bob peth yn ei law ef; rhoddes bob barn iddo, "fel yr anrhydeddo pawb y Mab, fel y maent yn anrhydeddu y Tad;" *Phil. ii. 8, 9; Ioan iii. 25; v. 22, 23.* O blegid, "Teilwng yw yr Oen, yr hwn a laddwyd, i dderbyn gallu, a chyfoeth, a doethineb, a chadernid, ac anrhydedd, a gogoniant, a bendith. A phob creadur a'r sydd yn y nef, ac ar y ddaiar, a than y ddaiar, a'r pethau sydd yn y môr, ac oll a'r sydd ynddynt, a glywais i yn dywedyd, I'r hwn

sydd yn eistedd ar yr orseddfainc, ac i'r Oen, y byddo y fendith, a'r anrhydedd, a'r gogoniant, a'r gallu, yn oes oesoedd;" *Dad.* v. 12, 13.

Ymddengys fod y rhanau hyn o'r Ysgrythyr yn cynnwys ac yn arddangos rhanau mwyaf arbenig swydd Crist, fel Cyfryngwr rhwng Duw a dynion—mor bell ag y mae natur ei swydd wedi ei ddadguddio; ac ymdrinir â hi yn gyffredin gan dduwinyddion dan dri o benau:—

Yn gyntaf, Yr oedd, mewn modd uwch law pawb, y Prophwyd—"y prophwyd oedd ar ddyfod i'r byd" (*Ioan* vi. 14)—i hysbysu yr ewyllys ddwyfol. Cyhoeddodd o newydd ddeddf natur, yr hon oedd wedi ei llygru gan ddynion; a'r hon yr oedd y wybodaeth o honi wedi colli i raddau helaeth yn eu plith. Dysgodd ddynolryw, yn awdurdodol, "i fyw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awr hon," mewn dysgwyliad am ymddangosiad y Duw mawr. Cadarnhaodd wirionedd cyfundrefn foesol natur, a rhoddes i ni brawf chwanegol o honi, sef prawf trwy dystiolaeth.¹ Dadguddiodd yn eglur y dull y dylai Duw gael ei addoli, effeithiolrwydd edifeirwch, a gwobrau a chospau yr ystâd ddyfodol. Fel hyn, yr oedd yn brophwyd mewn ystyr wahanol i bawb ereill. Heb law hyn hefyd, rhoddodd i ni esampl berffaith, "fel y canlynem ei ol."

Yn ail, Y mae ganddo deyrnas—"yr hon nid yw o'r byd hwn." Sylfaenodd eglwys, i fod yn mhlith dynion yn goffadwriaeth gwastadol o grefydd, ac yn gymhellydd iddi; ac addawodd fod gyda hi bob amser hyd ddiwedd y byd. Y mae yn gweinyddu llywodraeth anweledig ei hunan arni drwy ei Ysbryd, ar y rhan o honi sydd yn filwriaethus ar y ddaiar—gweinydda lywodraeth yn ffurf dysgyblaeth, "I berffeithio y saint, i waith y weinidogaeth, i adeilad corff Crist: hyd oni ymgyfarfyddom oll yn undeb ffydd, a gwybodaeth Mab Duw, yn ŵr perffaith, at fesur oedran cyflawnder Crist;" *Eph.* iv. 12, 13. Ac y mae pawb trwy y byd sydd yn byw mewn ufudd-dod i'w gyfreithiau, yn aelodau o honi. I'r rhai hyn, y mae "wedi myned i barotoi lle iddynt; ac efe a ddaw drachefn, i'w cymmeryd hwy ato ei hun, fel lle y mae efe, y byddant hwythau hefyd; ac y teyrnant gydag ef yn oes oesoedd" (*Ioan* xiv. 2, 3; *Dad.* iii. 21; xi. 15); ac hefyd, "gan roddi dial i'r sawl nid adwaenant Dduw, ac nid ydynt yn ufuddhau i efengyl ein Harglwydd Iesu Grist;" *2 Thes.* i. 8.

Yn erbyn y rhanau hyn o swydd Iesu Grist, ni welaf un wrthdadaid, ond yn unig yr hyn a atebwyd yn nechreu y bennod hon.

¹ Rhan I. Pen. ii.

Yn olaf, Offrymodd Crist ei hun yn aberth dyhuddol, a gwnaeth iawn am bechodau y byd; yr hyn a grybwyllir ddiweddaf, gyda golwg ar yr hyn a wrthddadleuir yn ei erbyn. Yr ydoedd aberthau dyhuddol yn cael eu gorchymyn ar yr Iuddewon; ac yr oeddynt mewn arferiad yn mhlith y nifer fwyaf o genedloedd ereill, oddi ar draddodiad, yr hwn a ddechreuodd, y mae yn debygol, mewn dadguddiad. Ac yr oeddynt yn cael eu mynychu yn barhäus, yn achlysurol, ac ar amserau appwyntiedig; ac yn gwneyd i fyny ran fawr o grefydd allanol dynolryw. "Eithr yr awr hon unwaith yn niwedd y byd yr ymddangosodd Crist, i ddileu pechod trwy ei aberthu ei hun;" *Heb. ix. 26.* Ac yr oedd yr aberth hwn yn y radd uchaf yn effeithiol er ennill maddeuant pechodau, yr hyn a dybiai y paganiaid am eu hebyrth hwy, a'r hyn a wnai yr ebyrth Iuddewig, i ryw raddau, a chyda golwg ar ryw bersonau.

Pa fodd yr oedd yn feddiannol ar y rhinwedd hwn, y mae llawer o dduwinyddion wedi ceisio egluro; ond nid wyf fi yn gweled fod yr Ysgrythyrau wedi ei egluro. Ymddengys ein bod mewn cryn dywyllwch am y modd y meddyliai yr hynafiaid y gwneid iawn; *h. y.*, yr ennillid maddeuant trwy aberth. Ac os ydyw yr Ysgrythyrau wedi gadael y cwestiwn am iawn Crist mewn dirgelwch, fel y mae yn ddiâu eu bod, rhaid fod pob tybiaeth yn ei gylch o leiaf yn ansicr, os nad yn hollol wrthun. Ac nid oes gan neb reswm dros achwyn na fyddai ganddo chwaneg o wybodaeth, oddi eithr iddo allu dangos fod ganddo hawl i chwaneg.

Ceisiodd rhai esbonio effeithiolrwydd gwaith a dyoddefaint Crist tu hwnt i'r hyn y mae yr Ysgrythyr yn ei awdurdodi; mae ereill yn tueddu, efallai am nas gallant ei egluro, i gymmeryd yr effeithiolrwydd ymaith, a chyfyngu ei swydd fel Achubwr y byd i'w athrawiaeth, ei esampl, a'i lywodraeth; tra y mae yr efengyl yn dysgu, nid yn unig ei fod wedi athrawiaethu effeithiolrwydd edifeirwch, ond wedi gwneyd edifeirwch yn effeithiol, trwy yr hyn a wnaeth ac a ddyoddefodd drosom; nid yn unig ei fod wedi dadguddio i bechaduriaid fod yn bosibl eu hachub, a pha fodd y gallant gyrhaedd hyny, ond hefyd ei fod wedi gwneyd eu hachubiaeth yn bosibl trwy yr hyn a wnaeth ac a ddyoddefodd drostynt. A'n doethineb ni ydyw derbyn y rhodd yn ddiolchgar, trwy gyflawnu y telerau ar ba rai y mae yn cael ei chynnyg, o'n tu ni, heb ddadleu yn nghylch y modd y pwrceaswyd hi o'i du ef.¹ O blegid,

[¹ Y mae Dr. Chalmers ac ereill yn ystyried fod Butler yn y sylwadau uchod yn arddangos cryn anaddefdrwydd yn ei olygiadau gyda golwg ar aberth Crist.

VII. Gan na wyddom trwy ba foddion y byddai i gosp mewn sefyllfa ddyfodol ganlyn drygioni yn hon, nac yn mha ddull y buasai yn cael ei gweinyddu oni buasai iddi gael ei rhagflaenu, na chwaith yr holl resymau a wnaent ei gweinyddiad yn angenrheidiol, na natur benodol y sefyllfa o ddedwyddwch y mae Crist wedi myned i'w pharotoi i'w ddysgyblion; a chan ein bod yn anwybodus i ba raddau yr effeithiai yr hyn a allem ni wneyd, o hono ei hunan, i ragflaenu y gosp yr oeddym yn agored iddi, ac adferu y dedwyddwch a gollasom, y mae, gan hyny, yn amlwg nad ydym yn abl i farnu pa un a oedd cyfryngwr yn angenrheidiol i gyrhaedd yr amcanion hyny, ai nad oedd. Ac o herwydd yr un rhesymau, ar y dybiaeth fod cyfryngwr yn angenrheidiol, nid ydym chwaith yn alluog i farnu, yn flaenorol i ddadguddiad, am holl natur ei swydd, neu ei gwahanol ranau; am yr hyn oedd yn weddus ei ymddiried iddo, mewn trefn i gwblhau amcanion rhagluniaeth ddwyfol yn y drefn. Ac felly, y mae yn eglur fod dadleu yn erbyn buddioldeb rhyw bethau y dadguddir eu bod wedi eu gwneyd neu eu dyoddef ganddo ef, am ein bod heb wybod pa fodd y tueddent at yr amcanion hyny, yn beth cwbl wrthun a ffol. Ac eto, ni chyfarfyddwn â dim yn fwy cyffredin na hyn. Ond os addefir yn mlaen llaw nad ydym yn alluog i farnu ar y mater, y mae yn amlwg nas gellir, gydag un gradd o briodoldeb, ddwyn yn mlaen un wrthddadl yn erbyn un ran o swydd gyfryngol Iesu Grist, fel y mae yn cael ei dadguddio yn y Beibl, hyd oni ellir dangos yn bendant nad ydyw yn angenrheidiol i amcanion ei gyfryngdod; neu ei bod ynddi ei hun yn afresymol.

“Cyfynga ei hun i ymadroddion amhenodol, gyda'r bwriad o osgoi ystyr arbenig marwolaeth Crist fel aberth dros bechodau. Y mae yn wir ei fod yn derbyn geiriau y Beibl ar y mater fel gwirionedd; ond yr ydym yn tybied ein bod yn gweled ynddo duedd i lithro heibio i feddwl eglur y geiriau hyny.” Y mae y dadguddiad dwyfol yn ein hysbysu, nid yn unig fod marwolaeth Crist yn ddigonol reswm dros waith Duw yn trugarhau wrth ddyn; ond y mae yn hysbysu chwaneg. Gan mai amcan yr efengyl ydyw rhoddi i ddynion olygiadau cywir am lywodraeth foisol Duw, ac effeithio yn sancteiddiol ar eu calonau, y mae yn dadlenu digon ar *resymau* goruchwyliaethau Duw er diogelu a sicrhau yr amcanion hyny. Y mae Duw yn Farnwr ac yn Llywodraethwr dynolryw, yn gystal ag yn Dad iddynt; ac felly, y mae ganddo swydd i'w gweinyddu, yn unol â'r berthynas gyntaf, yn gystal a chymmeriad personol. Y mae yn drugarog, ac yn gyfiawn hefyd. Y mae y naill nodwedd a'r llall yn ei gymmeriad—sancteiddrwydd a chariad, cyfiawnder a thrugaredd—yn rhwym o fod yn unol â'u gilydd yn ei holl oruchwyliaethau; ac i sicrhau y cydgoriad hwn yn achubiaeth dynion, yr oedd, nid yn unig yn “weddus,” ond, mwy na hyny, “yn rhaid i Grist ddyoddef” a marw, fel y byddai Duw yn gyfiawn ac yn cyfiawnhau. Felly, nid yn unig y mae y Beibl yn dangos i ni fod angeu Crist yn *reswm* digonol am achubiaeth pechadur, ond hefyd *pa fodd y mae yn rheswm digonol.*]

Ac y mae un wrthddadl yn cael ei gwneyd, sydd yn ymddangos yn debyg i wrthddadl benderfynol a phwysig: hyny yw, fod yr athrawiaeth am osodiad Crist i ddyoddef dros bechodau y byd yn dangos fod Duw fel yn ddifater pa un ai y diniwed ai yr euog a gospai. Yn awr, oddi wrth y sylwadau blaenorol, gallwn weled gwagder yr wrthddadl hon a'r cyffelyb; a'u bod yr un mor wrthdarawiadol (er fod yn sicr nad yw y rhai sydd yn eu gwneyd yn gweled y canlyniadau) i holl drefn natur, a chwrs beunyddiol rhagluniaeth yn llywodraethiad y byd, ag ydynt i Cristionogaeth. O blegid y mae y byd yn gyfansoddiad neu gyfundrefn, â pherthynas rhwng yr holl ranau â'u gilydd; ac y mae cynllun yn cael ei ddwyn yn mlaen yn barhaus, a elwir yn "gwrs natur;" ac yn ei ddygiad yn mlaen, y mae Duw wedi ein cyfleu ni i fod yn wasanaethgar. Ac yn nghwrs beunyddiol rhagluniaeth, pan drefnir fod pobl ddiniwed yn dyoddef am feiau yr euog, y mae hyn yn agored i'r unrhyw wrthddadl a'r anghraifft sydd yn awr dan ystyriaeth. Nid yw pwysigrwydd anfeidrol fwy yr appwyntiad hwn mewn Cristionogaeth, ag y dadleuir yn ei erbyn, yn lluddias iddo fod—fel yn ddi-ammheu y mae—yn appwyntiad o'r un natur a'r rhai y ceir esamplau beunyddiol o honynt yn nhrefn natur. Ië, pe byddai rhyw rym yn yr wrthddadl, byddai yn gryfach, mewn un ystyr, yn erbyn rhagluniaeth naturiol nag yn erbyn Cristionogaeth; o blegid, o dan y cyntaf, yr ydym mewn llawer o achosion yn cael ein gorchymyn, a hyd yn oed ein gosod dan angenrheidrwydd, pa un ai o fodd neu o anfodd, i ddyoddef am feiau ereill; tra yr oedd dyoddefiadau Crist yn wirfoddol. Y mae yn wir fod y ffaith fod y byd dan lywodraeth gyfiawn Duw yn profi y derbyn pawb yn y diwedd, ar y cyfan, yn ol ei haeddiant personol; ac athrawiaeth gyffredinol yr holl Ysgrythyr ydyw, mai hyn a fydd perffeithiad a chwblhad y llywodraeth ddwyfol. Ond, yn ystod ei dygiad yn mlaen—ac, am ddim a wyddom, hyd yn oed mewn trefn i berffeithiad y llywodraeth foesol—dichon fod cospau meichniawl yn weddus, ac yn gwbl angenrheidiol. Y mae dynion, trwy eu ffolineb, yn dwyn eu hunain i gyfyngderau mawrion—i sefyllfaoedd a fyddent yn andwyol iddynt oni bai am gynorthwy ereill. Y mae Duw yn gorchymyn, trwy ddeddf natur, i ni weinyddu iddynt y cynnorthwy hwn; a hyny mewn llawer o amgylchiadau nas gallwn ei weinyddu heb lawer o drafferth, llafur, a phoen i ni ein hunain. Ac yr ydym yn gweled mewn pa gynnifer o ffyrdd y mae dyoddefiadau y naill ddyn yn gwasanaethu i esmwythyd y llall, a pha fodd y mae hyn yn cymmeryd lle oddi ar gwrs natur â'r hwn yr ydym yn gydnabyddus; ac

wrth gynnefino â hyn, nid yw dynion yn edrych arno yn beth dyeithrol. Felly, y rheswm pa ham y mae dynion yn rhoddi pwys ar wrthddadleuon fel yr un a nodwyd yn erbyn iawn ac aberth Crist ydyw, naill ai am nad ydynt yn ystyried ordeiniadau sefydlog ac unffurf Duw fel ei ordeiniadau o gwbl, neu eu bod yn anghofio fod cosp feichniawl yn ordeiniad mewn rhagluniaeth ag y mae profiad beunyddiol yn dwyn tystiolaeth iddi; ac yna, oddi ar eu bod yn anghyfarwydd â deddfau mwy cyffredinol natur, neu y llywodraeth ddwyfol ar y byd, ac heb weled pa fodd y gallai dyoddefiadau Crist effeithio er ei brynedigaeth oddi eithr trwy ewyllys fympwyol a thra-awdurdodol, casglant nas gallai ei ddyoddefiadau effeithio hynny mewn un ffordd arall. Ac eto, y mae yr hyn a ddygwyd yn mlaen yn fynych i gyfiawnhau yr athrawiaeth hon, oddi ar yr hyn a ymddengys fel tuedd naturiol yr athrawiaeth, sef ei thuedd i amddiffyn awdurdod deddf Duw, ac attal ei greaduriaid rhag pechod, eto heb ei ateb; a diammheu ei fod yn anmhosibl i'w ateb; er fy mod, ar yr un pryd, yn mhell o feddwl fod hyn yn ddigon o eglurhad ar yr athrawiaeth. Ond, heb gymmeryd hyn dan ystyriaeth, y mae yn eithaf eglur, oddi wrth y sylwadau blaenorol, nad yn erbyn Cristionogaeth, ond yn erbyn holl drefn a chwrs natur y mae yr wrthddadl hon yn milwrio. A phe yr ystyrir hi fel gwrthddadl yn erbyn Cristionogaeth, neu, wrth edrych arni fel y mae, yn wrthddadl yn erbyn trefn natur, nid yw yn dyfod yn y diwedd yn ddim mwy na hyn: nas gall ordeiniad dwyfol fod yn angenrheidiol, neu yn fuddiol, am nad yw y gwrthddadleuwr yn ei weled felly; er y rhaid iddo addef fod natur y peth yn ei wneyd yn annigonol i farnu pa un a ydyw felly ai peidio, neu weled ei fod yn angenrheidiol, er iddo fod felly.

Yn wir, y mae yn gofyn cryn amynedd i wrandaw ar bobl yn ymresymu yn y dull yma, gan ddwyn yn mlaen fel gwrthddadl yn erbyn gwirionedd rhyw bethau neillduol mewn dadguddiad, nad ydynt hwy yn gweled yr angenrheidrwydd am danynt, neu y buddioldeb o honynt. O blegid, er ei fod yn ymddygiad canmoladwy a rhinweddol ymofyn, gyda pharch dyladwy, o barth i amcanion a rhesymau goruchwyliaethau Duw; eto, pan y mae y rhesymau hynny yn guddiedig, y mae ymresymu oddi ar ein hanwybodaeth fod yn annichon i'r cyfryw oruchwyliaethau fod o Dduw, yn annhraethol ffol a gwrthun. Y mae y rhyfyg sydd mewn gwrthddadleuon o'r fath yma yn cael ei golli bron yn eu gwrthuni a'u ffoledd. Ac y mae eu gwrthuni yn fwy fyth, pan y maent yn cael eu dwyn yn mlaen, fel y maent yn gyffredin, yn erbyn pethau mewn Cristionogaeth sydd yn gyfatebol i oruchwyl-

iaethau naturiol mewn rhagluniaeth, y rhai ydynt yn ffeithiau ein profiad. Cadwer at reswm beth bynag; ac os gellir dangos fod unrhyw ran o'r hanes ysgrythyrol am brynedigaeth y byd trwy Grist yn wirioneddol groes iddo, yn enw Duw, rhodder yr Ysgrythyr i fyny; ond na fydded i greaduriaid bychain fel nyni fyned yn mlaen i wrthddadleu yn erbyn cyfundrefn anfeidrol, nad ydym yn gweled buddioldeb yn, neu yr angenrheidrwydd am, ei holl ranau, a galw hyn yn ymresymu; a rhanau—yr hyn sydd yn mhellach yn gwneyd y gwrthuni yn llawer mwy—nad ydynt yn dwyn perthynas ymarferol â ni, fel rhanau ereill. O blegid y mae yn werth crybwyll,

Yn olaf, Y dylai, nid yn unig natur y peth, ond holl gyfatebiaeth natur, ein dysgu i beidio dysgwyl cael hysbysiad cyffelyb am ymddygiad Duw ag am ein dyledswydd ein hunain. Y mae Duw yn ein dysgu trwy brofiad (o blegid nid rheswm, ond profiad, sydd yn ein dysgu) pa ganlyniadau da neu ddrwg a ddilyna ein dull o ymddwyn; a thrwy hyn y cyfarwydda ni pa fodd i ymddwyn. Ond er ein bod yn meddu gwybodaeth ddigonol gogyfer âg amgylchiadau cyffredin bywyd, eto, nid ydym yn gwybod ond rhan annhraethol fach am ragluniaeth naturiol. A'r un modd y mae gyda dadguddiad dwyfol. Ac o barth yr athrawiaeth am gyfryngwr rhwng Duw a dynion, yn erbyn yr hon y dadleuir fod rhyw bethau ynddi heb eu deall, perthyna yn unig i'r hyn a wnaed o ochr Duw yn yr appwyntiad, ac o ochr y Cyfryngwr yn y cwblhad o honi. O blegid y mae yr hyn a ofynir oddi wrthym ni, mewn canlyniad i'r drefn raslawn hon, yn fater arall, nas gall neb achwyn o herwydd diffyg gwybodaeth arno. Y mae cyfansoddiad y byd, a llywodraeth naturiol Duw arno, oll yn ddirgelwch, yn gystal a'r drefn Gristionogol. Eto, y mae, dan y gyntaf, wedi rhoddi i ddynion bob peth perthynol i fywyd; ac o dan y ddiweddaf, pob peth a berthyn i dduwioldeb. A gellir chwanegu, nad yw ddim yn anhawdd rhoddi cyfrif am dano mewn un o ddyledswyddau cyffredin Cristionogaeth; a phe buasai felly, mae yn ddiâu fod gorchymyn dwyfol yn ddigon er ein gosod dan y rhwymedigaethau cryfaf i ufuddod. Ond y ffaith ydyw, fod rhesymau yr holl ddyledswyddau efengylaidd yn eglur. Y mae yn eglur fod sefydliadau pendant yn angenrheidiol i gynnal a hyrwyddo crefydd yn mysg dynolryw. A'n dyledswydd tuag at Grist, y parch tumewnol a'r addoliad allanol iddo; y mae y rhan hon o grefydd yr efengyl yn cyfodi, fel y mae yn amlwg, oddi ar yr hyn a wnaeth ac a ddyoddefodd, ei awdurdod a'i arglwyddiaeth, a'r berthynas ddadguddiedig sydd rhyngddo a ni.

PENNOD VI.

AM Y DIFFYG O GYFFREDINOLRWYDD MEWN DADGUDDIAD;
A'R DIFFYG A DYBIR SYDD YN Y PRAWF O'I BLAID.¹

MEDDYLIWYD gan rai dynion, os ydyw y prawf o blaid dadguddiad yn ymddangos yn ammheus, fod hyn ynddo ei hun yn troi yn rheswm yn ei erbyn; am nas gellir tybied, pe byddai yn wir, y buasai wedi ei adael i orphwys ar brawf ammheus. A rhoddir pwys mawr ar yr wrthddadl a gyfodir yn erbyn dadguddiad, oddi ar y ffaith nad yw yn gyffredinol.

Yn awr, gellir dangos gwendid y syniadau hyn, trwy sylwi ar y tybiaethau y maent wedi eu seilio arnynt; y rhai, mewn gwirionedd, nid ydynt amgen na'r rhai canlynol:— Nas gellir meddwl y cyfranai Duw unrhyw ffafr i ni, oddi eithr yn y graddau a farnom ni yn fwyaf er ein mantais; a hefyd, nas gellid meddwl y cyfranai ffafr i un, heb ei chyfranu i bawb: tybiaethau a welwn yn cael eu gwrthddywedyd, nid gan ychydig esamplau yn llywodraeth naturiol Duw ar y byd, ond gan holl gyfatebiaeth natur.

Dylai y personau a siaradant am brawf crefydd fel yn ammheus, ac am yr ammheuaeth tybiedig hwn fel dadl bendant yn ei herbyn, ystyried mewn gwirionedd pa beth ydyw y prawf hwnw y gweithredant arno gyda golwg ar eu buddiannau tymmorol. O blegid y mae, nid yn unig yn dra anhawdd, ond mewn llawer o esamplau yn gwbl anmhosibl, pwysu a barnu pleser a phoen, boddhad ac anesmwythyd, fel ag i allu dyweyd ar ba ochr y mae y mantoliad. Y mae anhawsderau ac anmhosiblwydd cyffelyb i wneyd caniatâd dyladwy am newidiad tymmer a chwaeth, afiechyd, a'r cyffelyb; y rhai y mae y naill neu y llall o honynt yn gwneyd dynion yn analluog i fwynhau, ar ol iddynt gael yr hyn a ddymunent yn awyddus. Y mae y damweiniau hyny hefyd yn afrifed, heb law marwolaeth anamserol, y rhai a allant siomi a diddymu y cynlluniau mwyaf

[¹Y mae yr awdwr yn y bennod hon yn myned rhagddo i symmud gwrthddadleuon yn erbyn Cristionogaeth; a chymmer sylw o ddwy o honynt:—(a.) Y diffyg a dybir sydd yn y prawf o blaid dadguddiad: y mae y gwrthddadleuon yn troi yr ansicrwydd tybiedig sydd yn y prawf yn ddadl benodol yn erbyn dadguddiad ei hun, ar y dybiaeth na adewid dadguddiad gwirioneddol i bwysu ar brawf ammheus. (b.) Y diffyg o gyffredinolrwydd yn ngoleuni dadguddiad; ond gellid dwyn y gwrthddadleuon hyn yn mlaen yn erbyn crefydd natur gyda llawn cymmaint o briodoldeb ag yn erbyn crefydd dadguddiad.]

trefnus; a gwelir fod gwrthddadleuon cryfion yn eu herbyn, y rhai nis gellir eu symmud neu eu hateb, ond er hyny a orbwysir gan resymau o'r ochr arall; fel ag y mae yr anhawsderau a'r peryglon sydd yn nglŷn â chyflawniad yr amcan yn cael eu hystyried yn ddibwys, ar gyfrif y fantais fwy a ddeuai o lwyddo ynddo, er nad oes, efallai, ond ychydig debygolrwydd o lwyddiant. *Yn ddiweddaf*, Y mae pawb yn ymwybodol ein bod yn agored, os heb fod ar ein gwyliadwriaeth, i gael ein twylllo gan anwiredd a thwyll ereill, a chan wag-ymiddangosiadau; a rhaid fod y perygl yn llawer mwy, os bydd tuedd gref o'n mewn, oddi ar ryw nwyd wedi ei choledd, i ffafrio y twyll. O hyn y cyfyd yr ansicrwydd a'r ammheuaeth yn y prawf yn mha bethau y mae ein buddiannau tymmorol yn gynnwysedig; pa rai ydyw y moddion mwyaf tebygol i'w sicrhau; ac a fydd y moddion hyny yn y diwedd yn llwyddiannus. Ac y mae yr anghreiffitiau yn afrifed yn nghwrs beunyddiol ein bywyd, yn y rhai y meddylia pawb fod yn rhesymol ymdrafferthu gyda phethau, er fod y tebygolrwydd yn ymiddangos yn groes i lwyddiant; a gwneyd y cyfryw ddarpariaeth iddynt eu hunain, ag a dybir ganddynt yn angenrheidiol, er fod y tebygolrwydd egluraf yn anffafriol iddynt allu gwneyd hyny. Gan hyny, dylai y rhai a feddyliant fod rhyw bwys yn yr wrthddadl vn erbyn dadguddiad, oddi ar nad yw ei oleuni yn gyffredinol, sylwi fod Awdwr natur yn rhoddi i rai yr hyn nid yw i ereill, er eu bod yn sefyll mewn cyffelyb angen am dano. Yn wir, y mae yn cyfranu ei holl roddion, gyda'r amrywiaeth mwyaf, yn mysg creaduriaid o'r un rhywogaeth, iechyd a chryfder, callineb a gwybodaeth, moddion gwelliant, cyfoeth, a phob mantais allanol. Ac fel na chanfyddir yr un dau o ddynion yn hollol o'r un ffurf a gwynebpryd, felly, yn ol pob tebyg, nid oes yr un dau yn hollol yr un fath mewn cyfansoddiad, tymmer, a sefyllfa, gyda golwg ar ffafrau a drygau bywyd. Eto, er y gwahaniaeth a'r afreoleidd-dra ymiddangosiadol yma, y mae Duw yn gweinyddu llywodraeth naturiol ar y byd; ac y mae y fath beth a threfniad doeth ac annoeth o fywyd, gyda golwg ar ein iechyd a'n hamgylchiadau, o dan ei lywodraeth naturiol.

Fel nad yw y dadguddiad Iuddewig na Christionogol wedi bod yn gyffredinol, ac fel y maent wedi eu rhoddi i ranau mwy neu lai o'r byd ar wahanol amserau, felly, hefyd, ar wahanol amserau, yr oedd gan y naill ddadguddiad a'r llall raddau gwahanol o brawf o'u plaid. Yr oedd gan yr Iuddewon oeddynt yn byw yn amser y prophwydi, sef o ddyddiau Moses hyd ar ol y caethiwed, brawf uwch o wirionedd eu crefydd na'r rhai oedd-

ynt yn byw yn y cyfnod rhwng y caethiwed ag ymddangosiad Crist; ac yr oedd gan y Cristionogion cyntaf brawf uwch o'r gwyrthiau a wnaed er cadarnhau Cristionogaeth na'r hyn sydd genym ni yn bresennol.¹ Yr oedd ganddynt hwy hefyd brawf tybiadol cryf o'r gwirionedd—prawf llawer cryfach mewn ffordd o ymresymiad nag y meddylia llawer, o'r hwn nad oes ond ychydig yn awr yn aros: meddwl yr wyf am y prawf tybiadol o'r gwirionedd, oddi wrth y dylanwad a feddai ar ymarweddiad y nifer mwyaf o'i phroffeswyr. A dichon y cawn ni, neu oesoedd dyfodol, brawf o'i phlaid nas gallasent hwy ei gael, oddi wrth gyssondeb yr hanes prophwydol â sefyllfa y byd a Christionogaeth. Ac yn mhellach: pe meddyllem nad yw y prawf sydd gan rai o blaid crefydd ond ychydig mwy na gweled y gall fod yn wir, ond eu bod yn aros mewn ammheuaeth ac ansicrwydd o barth ei phrawf a'i natur, ac mewn dyrswch yn nghylch rheol bywyd: bod ereill yn feddiannol ar lawn argyhoeddiad o wirionedd crefydd, ym nghyd â gwybodaeth eglur am eu dyledswydd; a bod ereill yn meddu goleuni crefyddol mewn graddau cydrhwng y rhai a nodwyd;—pe y tybiem na fwriadwyd i ddadguddiad fod ar hyn o bryd yn amgen na rhyw oleuni gwanaid, yn nghanol byd wedi ei orchuddio gan anwybodaeth a thywyllwch; fod rhai pelydrau o'r goleuni hwn yn cyrhaedd i barthau pell, a hynny yn y fath fodd fel na ddeallai y rhai a'u mwynhaent o ba le y daeth yn wreiddiol: fod rhai, mewn sefyllfa agosach ato, yn ei gael wedi ei dywyllu a'i attal mewn amrywiol ffyrdd: a bod ereill wedi eu cyfleu o fewn cyrhaedd ei ddylanwad cliriach, ac yn cael eu bywiogi, eu lloni, a'u cyfarwyddo ganddo, i raddau llawer helaethach; ond eto, nad yw hyd yn oed i'r rhai hyn yn ddim mwy na "chanwyll yn llewyrchu mewn lle tywyll;" byddai hyn oll yn berffaith gydunol â threfn rhagluniaeth yn nghyfraniad ei bendithion cyffredin. Pe byddai y ffaith mewn gwirionedd fel hyn; fod rhai heb dderbyn dim goleuni oddi wrth yr Ysgrythyrau, fel llawer o oesoedd a gwledydd yn y byd paganaidd; fod ereill, er eu bod trwyddo wedi cael rhyw adgadarnhad o grefydd naturiol ar eu meddyliau, eto, heb erioed dderbyn y dadguddiad ysgrythyrol yn ei burdeb, gyda'r profion dilys o'i blaid; a gall fod yr hen Bersiaid, a'r Mahometiaid yn anghreiffitiau o bobl mewn sefyllfa fel hyn; fod ereill, er yn feddiannol ar yr

[¹Yr oedd y profion o blaid Cristionogaeth oddi wrth wyrthiau a bywydau ei phroffeswyr yn gryfach i'r Cristionogion cyntefig nag ydynt i ni: ar y llaw arall, y mae y prawf oddi wrth gyflawniad y prophwydoliaethau yn gryfach i ni nag oedd iddynt hwy.]

Ysgrythyrau, eto wedi eu cael gyda chwanegiadau ffugiol at athrawiaeth a phroffion Cristionogaeth—yr athrawiaeth wedi ei llygru, a'r profion wedi eu cymhlethu â gwyrthiau gau yn y fath fodd fel ag i adael y meddwl yn yr ammheuaeth a'r ansicrwydd mwyaf am y cyfan: ac yn ddiweddf, fod ereill wedi cael Cristionogaeth yn ei symledd pur, a chyda'r profion priodol, fel y derbyniwyd hi gan drigolion y gwledydd sydd yn mwynhau rhyddid gwladol a chrefyddol; ond, er hyny, fod y rhai hyn wedi eu gadael mewn anwybodaeth dygn mewn llawer golygiad, ac heb feddu digon o oleuni i foddhau eu cywreinrwydd, ond yn unig i reoleiddio eu buchedd, i ddysgu eu dyledswydd, a'u cefnogi yn y cyflawniad o honi. Pe y tybiem, meddaf, fod hyn yn gyfrif cyffredinol cywir am raddau y goleuni a'r profion crefyddol a roddwyd i ddynolryw, ni byddai dim yn yr holl anwybodaeth, ammheuaeth, ac ansicrwydd, yn yr holl amrywiaeth hwn yn mysg dynion, yn yr anfanteision a dybid sydd ar ffordd rhai yn hytrach nag ereill, o barth crefydd, nas gellid cael cyfatebiaethau eglur iddynt yn ngoruchwyliaeth naturiol rhagluniaeth yn bresennol, ac ystyried ein hunain yn unig yn ein perthynas dymmorol.

Nid oes dim yn wrthdarawiadol yn hyn oll, nac yn taffu un sarhad ar weinyddiad moesol rhagluniaeth, os cadwn dan ein hystyriaeth yr ymddygir mewn uniondeb at bawb; yn lle anghofio hyn, neu ei esbonio i ffordd ar ol ei addef mewn geiriau. Diflanai pob cysgod o anghyfiawnder, a phob ymddangosiad annymunol mewn rhagluniaeth, pe yr ystyriem y gwneir pob caniatâd tosturiol, ac na ofynir mwy oddi wrth neb na'r hyn a allesid yn gyfiawn ddysgwyl ganddo oddi wrth yr amgylchiadau y gosodwyd ef ynddynt, ac nid oddi wrth yr hyn a allesid ddysgwyl pe buasai wedi ei osod mewn amgylchiadau ereill; neu, yn ngeiriau yr Ysgrythyr, "yn ol yr hyn sydd gan un, y mae yn gymmeradwy, nid yn ol yr hyn nid oes ganddo;" 2 Cor. viii. 12. Nid yw hyn, pa fodd bynag, yn cynnwys fod sefyllfa pawb yn y byd hwn yr un mor fanteisiol a'u gilydd gyda golwg ar y dyfodol. Ac nid yw y ffaith fod rhagluniaeth yn gosod rhai mewn mwy o dywyllwch gyda golwg ar grefydd, yn ddim mwy o reswm pa ham na ddylent ymdrechu i ddyfod allan o'r tywyllwch hwnw, ac i gael pob cynnorthwy oddi wrth ereill i hyny, na pha ham na ddylai dynion anwybodus a hwyrdrwm mewn gwybodaethau ereill ymdrechu i ddysgu a chwmeryd eu cyfarwyddo.

Nid yw yn afresymol tybied mai yr un egwyddor ddoeth a da, pa beth bynag oedd, yr hon a dueddodd Awdwr natur i ffurfio

gwahanol fathau o greaduriaid, a'i tueddodd hefyd i osod creaduriaid o'r un rhywogaeth mewn sefyllfaoedd gwahanol; ac mai yr un egwyddor ag a barodd iddo ffurfio creaduriaid o gynneddfau moesol gwahanol, a'i tueddodd hefyd i osod creaduriaid o gynneddfau moesol cyffelyb mewn amgylchiadau gwahanol gyda golwg ar grefydd, a hyd yn oed yr un creaduriaid mewn gwahanol adegau ar eu hanfodiad. A'r rheswm am hyn, y mae yn debygol, ydyw y rheswm pa ham y mae trefn pethau yn gyfryw fel y mae creaduriaid sydd yn feddiannol ar natur foesol, am adeg faith o'u bodolaeth, heb fod yn ddeiliaid moesoldeb a chrefydd; ond yn tyfu i fyny i fod felly, ac i fod felly yn fwy yn barhäus o dymmor mebyd hyd ganol oed.

Pa beth yn bendant yw y rheswm am y pethau hyn, y mae yn rhaid i ni fod mewn tywyllwch am dano, pe na bai dim ond byrdra ein gwybodaeth am ein hachos ein hunain. Dichon ein hystâd bresennol fod yn ganlyniad o rywbeth a aeth heibio, am yr hyn yr ydym yn gwbl anwybodus; fel y mae ganddi gyfeiriad at rywbeth i ddyfod, am yr hyn nis gwyddom fwy nag sydd yn angenrheidiol er ymarferiad. Y mae cyfundrefn neu gyfansoddiad, yn y syniad am dano, yn cynnwys amrywiaeth; ac un mor gymhlethedig a'r byd hwn, amrywiaeth mawr iawn. Felly, pe buasai dadguddiad yn gyffredinol, eto, o herwydd fod galluoedd dynion, hyd eu heinioes, eu haddysgiaeth, ac amgylchiadau ereill eu tymmer a'u cyfansoddiad corfforol, mor wahanol, byddai eu sefyllfaoedd crefyddol yn dra gwahanol, ac anfantais rhai, mewn cymhariaeth i ereill, yn gymmaint felly, mae yn bosibl, ag ydyw yn bresennol. A rhaid i ni feddwl mai y gwir achos, beth bynag yw, pa ham y gosodwyd dynolryw, neu ran o honynt, yn yr ystâd hon o anwybodaeth, ydyw y gwir achos o'u hanwybodaeth pellach yn y ffaith nad ydym yn gwybod y rhesymau pa ham y gosodwyd hwy yn yr ystâd yma. Ond y mae yr ystyriaethau canlynol yn haeddu sylw difrifol y dynion hyn y feddyliant fod amgylchiadau dynolryw, neu yr eiddynt eu hunain, yn y golygiadau crybwylledig, yn seiliau i achwyn o'u plegid.

Yn gyntaf, Gall y ffaith fod prawf crefydd heb ymddangos yn eglur, ffurfio un ran neillduol o sefyllfa prawf rhai dynion yn yr ystyr grefyddol; gan ei bod yn rhoddi cyfleusdra i ymarferiad rhinweddol neu esgeulusiad pechadurus o'u galluoedd, mewn ymchwilio neu beidio ymchwilio i'r prawf hwnw. Nid ymddengys fod un rheswm pa ham nas gallwn fod mewn sefyllfa o brawf moesol gyda golwg ar ymarferiad ein deall gyda chrefydd, fel ag yr ydym gyda golwg ar ein hymddygiad mewn amgylchiadan cyffredin. Y mae y cyntaf yn gorwedd o fewn ter-

fynau ein gallu a'n dewisiad, yn gystal a'r diweddaf. A barnwyf ei fod yn osodiad diammheuol y gwnai yr un cymmeriad, yr un egwyddor fewnol, yr hon, ar ol i'r dyn gael ei argyhoeddi o wirionedd crefydd, a barai iddo ufuddhau i'w gorchymynion, ei arwain, pe na bai yn argyhoeddedig, i chwilio i mewn iddi, pan gynnygid ei hathrawiaeth a'i phroffion i'w sylw; ac, yn yr amgylchiad diweddaf, y byddai ei ymchwiliad yn cael ei ddwyn yn mlaen, gydag annhueddrwydd, difrifwch, a gofal cyfatebol i'r hyn ydyw ei ufudd-dod yn y cyntaf. Ac fel y mae anystyriaeth, esgeulusdra, a diffyg gofal difrifol gyda phwnc o'r fath natur a phwysigrwydd, yn flaenorol i argyhoeddiad llwyr o'i wirionedd, mor wirioneddol anfoesol a llygredig ag ydyw esgeuluso ymarferion crefyddol ar ol y cyfryw argyhoeddiad; felly, y mae gofal gweithgar o barth iddi, ac ystyriaeth deg a diduedd o'i phroffion yn flaenorol i argyhoeddiad, yn tarddu oddi ar ansawdd foesol uniawn, yn gystal ag ymarferion crefyddol ar ol argyhoeddiad. Fel hyn, fod crefydd yn fater ymresymiad, ac nid yn ymgymhell i'r meddwl yn annibynol ar ymdrech; nad yw argyhoeddiad o'i gwirionedd yn cael ei orfodi ar bawb, ond yn cael ei gasglu gan rai gyda sylw manwl ar osodiadau; y mae hyn yn ffurfio sefyllfa prawf gyda golwg ar grefydd, ac yn rhoddi mantais a chyfleusdra i ymddygiadau da a drwg, yn gymmaint ag y mae un peth yn wneyd. Ac y mae eu dull o drin y pwnc hwn, pan yn cael ei osod o'u blaen, yn dangos beth sydd yn eu calonau, ac yn ffrwyth oddi arno.

Yn ail, Y mae yn llawn mor amlwg, er na thelir cymmaint o sylw iddo; os, wrth gymmeryd crefydd dan ystyriaeth, yr ymddengys y prawf o'i phlaid i ryw bersonau yn ammheus yn y graddau eithaf, eto, fod hyd yn oed y prawf ammheus yma yn eu gosod mewn sefyllfa o brawf mewn ystyr foesol a chrefyddol. O blegid, tybier am ddyn mewn ammheuaeth, ai ni ddarfu i ryw un penodol ddangos iddo y ffafr fwyaf, neu ai ni fu ei holl les tymmorol yn dibynu arno; nis gallai neb, a feddai ryw gymmaint o deimlad o ddiolchgarwch a challineb, ystyried ei hun yn yr un sefyllfa gyda golwg ar y cyfryw un a phe na buasai ganddo y cyfryw ammheuaeth. Yn wir, y mae mor briodol dyweyd fod sicrwydd ac ammheuaeth yr un peth, ag ydyw dyweyd y gadawai y sefyllfaoedd crybwylledig y dyn mor hollol at ei ryddid gyda golwg ar ddiolchgarwch a challineb, ag a fyddai pe bai yn sicr na dderbyniodd un ffafr oddi wrth y cyfryw berson, neu na fu mewn un modd yn dibynu arno. Ac fel hyn, pe bai y prawf o blaid crefydd yn nghyrhaedd rhai dynion heb fod yn amgen na'u bod mewn sefyllfa i weled y gallai crefydd a Christionogaeth

fod yn wir, dylai hyn, wrth bob rheswm, gynnyrchu ynddynt ryw ddysgwyliaid o'r posiblwrwydd o'u gwirionedd. Ac y mae hyd yn oed hyn yn rhoddi mantais i amaethu ystyriaeth ac ymbwylliaid crefyddol, penderfyniad moesol, a hunanlywodraethiad; o blegid y mae y syniad y gall crefydd fod yn wir yn gosod dynion dan rhwymedigaeth mor wirioneddol a llwyr argyhoeddiad o'i gwirionedd. Y mae yn rhoddi achlysur a chymhelliadau i ystyried yn mhellach ar y mater pwysig; i gadw yn wastadol ar eu meddwl y syniad y gallant fod dan lywodraeth foesol; pryder dwys a difrifol yn nghylch crefydd, pa un bynag ai naturiol ynte dadguddiedig. Dylai y cyfryw syniad gyfeirio llygaid meddyliau dynion at bob goleuni newydd a all ddyfod o bob parth, a'u tueddu i ymgadw yn y cyfamser rhag pob anfoesau, ac i fyw yn yr ymarferiad cydwytodol o bob rhinwedd cyffredin. Y maent yn arbenig yn rhwymedig i gadw yn mhell oddi wrth bob halogrwydd ac ysgafnder ansanctaid; o blegid y mae natur yr amgylchiad y maent ynddo yn gwahardd hyn; ac i ymdrin gyda'r parch uchaf â thestyn ag y mae eu holl dynged a'u buddiannau yn dibynu arno. Yr ymddygiad, a chadw y dymmer yma, ydyw prif orchwyl, dyledswydd, a doethineb y dynion hyny a achwynant yn erbyn ammheuaeth profion crefydd; ac y mae hyn yn gynnyrch, ac yn meddu tuedd i amaethu ynddynt y cymmeriad hwnw, yr hwn y mae yr ymarferiad o holl ddyledswyddau crefydd, oddi ar lwyr argyhoeddiad o'i gwirionedd, yn ffrwyth oddi arno, ac yn meddu tuedd i'w amaethu mewn ereill—ereill, meddaf, i'r rhai y rhoddodd Duw y cyfryw argyhoeddiad. Ië, wrth ystyried dirfawr bwysigrwydd crefydd, y ddadguddiedig yn gystal a'r naturiol, meddyliwyf y gellir dyweyd, y dichon i bwy bynag a ystyria y pwnc yn drwyadl weled nad oes yn agos gymmaint o wahaniaeth ag a dybir yn gyffredin rhwng yr hyn a ddylai yn rhesymol fod yn rheol bywyd i'r personau hyny ydynt yn llawn argyhoeddedig o'i gwirionedd, ac i'r rhai nad oes ganddynt ond rhyw syniad difrifol, er yn amhenderfynol, y gall fod yn wir. Bydd eu gobeithion, eu hofnau, a'u rhwymedigaethau yn wahanol mewn graddau; ond fel mai yr un yw mater eu gobeithion a'u hofnau, felly, nid yw mater a thestyn eu rhwymedigaethau, yr hyn y dylent ei wneyd a'i ochel, yn annhebyg.

Y mae yn deilwng o sylw yn mhellach, y gall rhai dynion, o herwydd rhagoriaeth eu galluoedd neu fanteision dylanwad, beri annhraethol mwy o ddrwg neu o dda, trwy roddeisampl o ysgafnder anystyriol, a diystyrwch addefedig tuag at grefydd; neu, i'r gwrthwyneb, o syniad difrifol, er efallai ammheus, o'i

gwirionedd, a pharch diledryw tuag ati o dan yr ammheuaeth hwn; nag y gallant wneyd trwy ymddwyn yn dda neu yn ddrwg yn yr holl achosion cyffredin yn mysg dynion. Ac yn ganlynol, y maent i'r graddau uchaf yn gyfrifol am ymddygiad y gallant yn hawdd ragweled fod y cyfryw bwysigrwydd ynddo, ag sydd yn eglur yn cynnwys da a drwg moesol, hyd yn oed er addef fod y profion o blaid crefydd mor amhenderfynol ag y mynir eu bod.

Sail y sylwadau hyn, a'r hyn sydd yn eu gwneyd yn wir a phriodol ydyw, fod ammheu peth yn cynnwys o angenrheidrwydd ryw radd o brawf o blaid yr hyn a ammheuir. O blegid ni ammheuai un dyn wirionedd rhyw nifer o ffeithiau mewn rhyw amgylchiadau neillduol, y rhai a ddeuent yn ddamweiniol i'w feddwl, ac o blaid y rhai ni byddai ganddo un prawf. Ac er, mewn amgylchiad ag y mae yr un faint o debygolrwydd o blaid ac yn erbyn peth, ac yn yr hwn y byddem o angenrheidrwydd mewn ammheuaeth, y dywedem, mewn dull cyffredin o siarad, na fyddai genym un prawf ar y naill ochr na'r llall; eto, y mae yr amgylchiad hwn yn gwneyd y peth yn gyfartal â phob amgylchiad arall, pan y mae y fath brawf ar y ddwy ochr i'r cwestiwn¹ ag sydd yn gadael y meddwl yn amhenderfynol o barth i'r gwirionedd. Yn yr holl amgylchiadau hyn, nid oes dim mwy o sicrwydd ar y naill ochr na'r llall; ond y mae (yr hyn sydd yn gyfartal i) llawer mwy o blaid y naill neu y llall, nag o blaid gwirionedd rhyw nifer o ffeithiau a ddeuent yn ddamweiniol i'r meddwl. Ac fel hyn, yn yr holl amgylchiadau yma, y mae ammheuaeth yn rhagdybied graddau is o brawf, yn gymmaint ag y mae crediniaeth yn rhagdybied graddau uwch, a sicrwydd raddau uwch drachefn. Gall unrhyw un a dâl ychydig sylw i natur tystiolaeth yn hawdd gario y sylw yma yn mhellach, a gweled fod rhwng bod heb un prawf oll, a'r radd hono o brawf a rydd sail i ammheuaeth, gynnifer o raddau cydrhyngol ag sydd rhwng y radd hono sydd yn sail ammheuaeth a chadarnhad cyflawn. Ac er nas gallwn wahaniaethu y graddau hyn o brawf gydag un math o fanylrwydd, eto, yn ol fel y maent yn cael eu dirnad genym, dylent ddylanwadu ar ein hymarferiad. O blegid y mae yn amherffeithrwydd mor wirioneddol yn y cymmeriad moesol, bod heb gael ein llywodraethu mewn ymarferiad gan radd is o brawf, pan ganfyddir hi, ag ydyw yn y deall, i fod heb ei chanfod. Ac fel yn mhob pwnc sydd yn ennill ystyriaeth dynion, y maent yn canfod y graddau isaf o brawf, yn gystal a'r uchaf, yn gyfatebol i nerth eu deall; felly mewn achosion ymarferol, y maent yn cael dylanwadu arnynt mewn ymarferiad, gan y

¹Gwel Rhagarweiniad.

graddau isaf fel yr uchaf, yn gyfatebol i'w huniondeb a'u gonestrwydd. Ac fel, yn gyfatebol i ddiffygion yn y deall, y mae dynion yn annigona i ganfod graddau is o brawf, ac mewn perygl i edrych yn esgeulus dros brawf pan heb fod yn hynod amlwg, ac yn hawdd i'w twyllo yn y cyfryw amgylchiadau; felly, yn gyfatebol i lygredigaeth y galon, ymfoddlonant i beidio talu un sylw mewn ymarferiad i brawf a addefir yn wirioneddol, os heb fod yn orchfygol. Oddi wrth y pethau hyn, y mae yn canlyn fod ammheu o barth crefydd yn tybied y fath radd o brawf o'i phlaid, yn gyssylltiedig â'r ystyriaeth o'i phwysigrwydd, fel y mae yn ddiammheuol yn gosod dynion dan y rhwymedigaethau a grybwyllwyd i amaethu y pryder a'r ystyriaeth dyladwy iddi yn eu holl ymddygiadau.

Yn drydydd, Nid yw yr anhawsderau sydd yn perthyn i brawf crefydd, ag y cwyna rhai o'u plegid, yn fwy o reswm i gwyno nag ydyw yr amgylchiadau allanol o demtasiwn ag y mae ereill wedi eu gosod ynddynt; neu, anhawsderau yn yr ymarferiad o honi, ar ol llawn argyhoeddiad o'i gwirionedd. Y mae temtasiynau yn gwneyd ein sefyllfa yn ddysgyblaeth well na phe buasai yn wahanol, gan eu bod yn rhoddi achlysur i ymarferiad mwy dyfal yr egwyddor rinweddol sydd yn ei chadarnhau a'i sefydlu, yn fwy nag y gallai ymarferiad hawddach a llai dyfal. Yn awr, y mae anhawsderau deallawl, yn yr ystyr yma, o'r un natur a themtasiynau allanol. O blegid y mae y ffaith nad yw y prawf dros grefydd yn ymddangos yn eglur yn demtasiwn i rai dynion i'w gwrthod, heb un ystyriaeth o honi; ac am hyny, yn gofyn y fath ymarferiad dyfal o'r egwyddor rinweddol er ystyried y prawf yn ddifrifol, na byddai achos am dano oni bai y cyfryw demtasiwn. Ac y mae yr ansicrwydd a dybir yn ei phrawf yn rhoddi achlysur i feddwl annheg esbonio i ffwrdd a chuddio yn ddichellgar oddi wrtho ei hun y prawf a allai ganfod; ac i ddynion gefnogi eu hunain mewn drygioni oddi ar obaith dianc yn ddigosp, er eu bod yn gweled o leiaf gymmaint a hyn, fod eu gobeithion yn ansicr; fel mai y demtasiwn gyffredin i lawer o weithredoedd drygionus, y rhai a ddybenant mewn gwarth a dinystr tymmorol, ydyw y sail i obeithio dianc ac osgoi y gosp; neu, mewn geiriau ereill, ansicrwydd y prawf yn flaenorol i gyflawniad y weithred y dybena mewn gwarth a dinystr. I'r gwrthwyneb, y mae yr ansicrwydd a dybir sydd yn mhrawf crefydd yn galw am weithrediad mwy gofalus a dyfal o'r egwyddor rinweddol, trwy roddi eu hunain i fyny yn deg i ddylanwad priodol unrhyw brawf gwirioneddol, er iddo fod yn ammheus; a thrwy ymarferiad

cydwybodol o bob rhinwedd, er dan fesur o ansicrwydd, pa un a ydyw llywodraeth y byd yn bosibl o fod yn gyfryw ag y gallai drygioni ddianc yn ddigosp. Ac yn gyffredin, nis gall temtasiwn—gan feddwl wrth y gair yr hudoliaethau lleiaf i ddrwg, a'r anhawsderau lleiaf yn y cyflawniad o'n dyledswydd, yn gystal a'r rhai mwyaf—temtasiwn, meddaf, fel y cyfryw, ac o bob math a gradd, fel y mae yn galw am ymadferthoedd rhinweddol, yn chwanel at yr hyn a fuasai yn eisieu pe hebddi, lai na bod yn ddysgyblaeth chwanel i rinwedd, yn gystal ag yn brawf arno yn ystyron ereill y gair. Felly, yr un rheswm sydd i'w roddi pa ham y mae prawf crefydd wedi ei adael yn y cyfryw fodd ag i ofyn oddi wrth rai ymarferiad dyfal, gofalus, ac efallai blinderus, o'u deall o barth iddi, ag sydd fod ereill wedi eu cyfleu yn y cyfryw amgylchiadau fel y mae ymarfer ei dyledswyddau cyffredin, ar ol iddynt gael eu llwyr argyhoeddi o'i gwirionedd, yn gofyn sylw, pryder, ac ymdrech blinderus; neu, pa ham y mae ansicrwydd ymddangosiadol yn cael ei ganiatau i fod yn achlysur temtasiwn i rai, fel ag y mae anhawsderau allanol a hudoliaethau yn cael eu goddef i fod yn destyn temtasiwn i ereill. A'r un cyfrif sydd i'w roddi pa ham y mae rhai yn cael ymosod arnynt gan demtasiynau o'r ddau fath a nodwyd, ag sydd i'w roddi pa ham y blinwyd ereill â'r diweddfaf mewn graddau mor fawrion fel ag yr oedd yn enwedig gyda'r Cristionogion cyntaf.¹

Ac nid yw yn afresymol meddwl mai yr anhawsderau deallawl sydd yn gyssylltiedig â phrawf crefydd a ddichon fod y rhan fwyaf o brawf rhai dynion. O blegid fel mai prif demtasiynau y rhan fwyaf o'r byd ydynt y cymhellyddion cyffredin i anghyfiawnder neu bleserau diattal ac afreolus, neu i fyw mewn esgeulusdra o grefydd oddi ar yr ansawdd hwnw ar y meddwl sydd yn gwneyd llawer o ddynion yn annheimladol i bob peth pell, neu bob peth nad yw yn dyfod o fewn cylch y synwyrâu; felly y mae dynion ereill heb y duedd arwynebol yma—dynion o deimlad a syniad mawy dwfn o barth yr hyn sydd anweledig a dyfodol; y rhai, nid yn unig ydynt yn gweled, ond ydynt yn feddiannol ar deimlad ymarferol, y daw y dyfodol yn bresennol, ac nad yw gwrthddrychau yn llai sylweddol am nad ydynt yn wrthddrychau y synwyrâu; a'r rhai, oddi ar eu cyfansoddiad naturiol a'u tymmer, a'u sefyllfa allanol, ydynt heb lawer o demtasiynau i ymddwyn yn afreolus, ac o anhaws-

[¹Gan fod temtasiwn, o ba natur bynag, gan ei bod yn tynu allan ymadferthoedd rhinweddol dyn, yn wasanaethgar i'w ddysgyblaeth foesol, yr un rheswm sydd i'w roddi dros fod y diffyg yn *mhroffion* crefydd yn demtasiwn ddallawl neu feddyliol i rai, a bod anhawsderau yn *ymarferion* crefydd yn demtasiwn ymarferol i ereill.]

derau i ymddwyn yn briodol gyda phethau cyffredin bywyd. Yn awr, pan y mae dynion fel hyn yn meddu argyhoeddiad dwfn o wirionedd crefydd, heb ddim ammheuon, y mae ymarfer crefydd yn rhywbeth anocheladwy iddynt, oddi eithr iddynt wneyd cam gwastadol â'u meddyliau eu hunain; a phrin y mae crefydd yn fwy o ddysgyblaeth iddynt nag i greaduriaid mewn ystâd o berffeithrwydd. Eto, dichon fod y personau hyn yn sefyll mewn angen am ddysgyblaeth ac ymarferiad moesol mewn gradd uwch nag a gaent yn y cyfryw ymarferiad hawdd a didrafferth o grefydd. Neu, gallai fod yn ofynol, ar gyfrif rhyw resymau anadnabyddus i ni, iddynt roddi rhyw arddangosiad pellach o'u cymmeriad moesol i greadigaeth Duw, nag a fyddai y cyfryw ymarferiad o honi. Fel hyn, yn yr amrywiol sefyllfaoedd crefyddol ag y mae dynion wedi eu gosod ynddynt, yr hyn sydd yn ffurfio y prawf yn benaf i rai personau ydyw yr anhawsderau ag y mae profion crefydd yn gorwedd ynddynt, a'u treial hwy mewn modd arbenig ydyw, pa fodd yr ymddygiant yn, a chyda golwg ar yr anhawsderau hyny. Gallwn sylwi ar amgylchiadau yn sefyllfa dynion yn eu perthynas â'r byd hwn, yn dwyn graddau helaeth o gyfatebolrwydd i'r sefyllfa hon mewn crefydd. Yr ydym yn gweled fod rhai dynion wedi eu gosod yn y fath sefyllfa yn y byd, fel mai yr anhawsder penaf gyda golwg ar ymddygiad ydyw, nid gwneyd yr hyn sydd ddoeth pan y mae hyny yn hysbys—o blegid y mae hyn, mewn llawys mawr o amgylchiadau, mor hawdd a'r gwrthwyneb; ond i rai, y prif orchwyl ydyw gosod eu hunain ar wyliadwriaeth yn erbyn dichellion a thwyll, a gau ymddangosiadau o reswm a challineb. I ddynion mewn rhai sefyllfaoedd, y prif ymarferiad gyda golwg ar ymddygiad ydyw, sylwadaeth fanwl mewn trefn i ddyfod i wybod pa beth sydd briodol—pa beth mewn gwirionedd ydyw yr hyn sydd resymol a doeth gydag unrhyw beth sydd ger eu bron.

Ond fel yr ydwyf hyd yma wedi llefaru ar y dybiaeth nad yw yr anfoddlonrwydd y mae dynion yn ei deimlo gyda golwg ar brofion crefydd i'w briodoli i'w hesgeulusdra neu eu rhagfarnau, y mae yn angenrheidiol chwanegu, ar y llaw arall—yr hyn sydd yn ymddangos yn dra rhesymol—y gellir priodoli y cyfryw anfoddlonrwydd i'r pethau hyn, ac i ddiffygion y dynion eu hunain. O blegid,

Os oes rhai personau heb ymosod o ddifrif i ymchwilio i bethau crefydd—os oes rhai yn coledd rhyw ddirgel ddymuniad am iddi beidio bod yn wirionedd, ac yn llai sylwgar i brofion nag i anhawsderau, ac yn fwy i wrthddadleuon nag i'r hyn a

ddywedir mewn atebiad iddynt, nis gellir meddwl eu bod ar y ffordd debycaf i ganfod y profion o blaid crefydd, er iddynt fod yn hollol wir, ac yn bosibl i'w cadarnhau yn y modd cyflawnaf. Os oes rhywrai yn arfer ystyried y mater hwn mewn ffordd o ddigrifwch a gwawd; os sylwant yn fwy ar ffurfiau, ac arddangosiadau, ac ymadroddion, heb fod yn ddigonol i osod allan y meddwl, nag ar y pethau a fwriedir ddangos trwyddynt (o blegid nis gall arwyddion fod yn fynych ond yn annigonol i arddangos yr hyn a arwyddoed); neu os gwthiant gyfeiliornadau dynol i le y gwirionedd dwyfol; pa ham nas gall y pethau hyn, neu rai o honynt, attal dynion rhag gweled y prawf hwnw a ganfyddir yn eglur gan ereill; fel y mae meddwl o duedd cyffelyb, gyda golwg ar bynciau o wybodaeth ac ymarferion cyffredin, yn lluddias dynion, fel y gwelwn trwy brofiad, i gyrhaedd y wybodaeth gywir hono mewn pynciau cyffredin, yr hon y mae meddyliau mwy teg a sylwgar yn ei chyrrhaedd? Ac y mae yr effaith yn gyffelyb, pa un bynag a ydynt yn esgeuluso ystyried yn ddifrifol brofion crefydd oddi ar ddiotalwch yn unig, ynte oddi ar ddrygau mwy anfad; neu, pa un bynag a ydyw i'w briodoli i hyn—fod dulliau ffugrol neu gyffelybiaethol o lefaru, yn gystal a chyfeiliornadau, yn rhoddi achlysur gwawd, yr hyn ni wnai y pethau a fwriedir ddangos, a'r gwirionedd ei hun. Gall dynion faethu ynddynt eu hunain duedd gellweirus ac ysmala mor bell ag i golli pob syniad am iawn-ymddygiad a challineb mewn achosion bydol, a hyd yn oed, fel yr ymddengys, i anmharu eu rheswm. Ac yn gyffredin, y mae ysgafnder, diotalwch, nwyd, a rhagfarn, yn weithredol yn ein rhwystro i dderbyn addysgiadau uniawn am bethau cyffredin; a *gallant*, mewn cyffelyb fodd, wneyd yr un peth gyda golwg ar bethau moesol a chrefyddol—gallant rwystro i brawf o honynt gael ei osod ger ein bron, ac i ninnau ei weled pan osodir ef. Y mae yr Ysgrythyrau¹ yn mynegu *na fydd i bob un ddeall*. Ac

¹Dan. xii. 10. Gwel hefyd *Esay* xxix. 13, 14; *Mat.* vi. 23; xi. 25; xiii. 11, 12; *Ioan* iii. 19; v. 44; *1 Cor.* ii. 14; *2 Cor.* iv. 4; *2 Tim.* iii. 13; a'r annogaeth serchog ac awduddodol hono, yr hon a gyhoeddir mor fynych—"Yr hwn sydd ganddo glustiau i wrandaw, gwrandawed." Gwelodd Grotius y gwirionedd a ddangosir yn y geiriau hyn a'r cyffelyb mor eglur, fel y gwnaeth y sylw, "fod prawf Cristionogaeth yn llai nag y buasai, oni bai am yr amcan hwn: *Ut ita sermo Evangelii tanquam lapis esset Lydius ad quem ingenia sanabilia explorarentur*—Fel y gallai yr efengyl fod yn faen prawf i chwilio allan onestrwydd a chywirdeb tueddiadau dynion." [Y mae yr holl baragraph fel y canlyn:—"Os oes rhywun heb ei foddioni yn y dadleuon a ddygwyd hyd yma o blaid gwirionedd y grefydd Gristionogol, ond sydd yn dymuno rhai mwy cedyrn, dylai wybod fod gwahanol bethau yn gofyn am fathau gwahanol o brawf—un math mewn mesuroniaeth, arall yn mhriodoleddau cyrff materawl, arall mewn materion amheus, ac arall mewn materion o ffaith; ac yr ydym i ymdawelu

nid yw yn gwneyd un gwahaniaeth trwy ba oruchwyliaeth y mae hyn yn cael ei effeithio—pa un a roddwyd y profion o blaid Cristionogaeth, ar y cyntaf yn fwriadol, yn y fath fodd ag y byddai i'r sawl a ddymument osgoi rhwymedigaethau moesol fethu eu gweled; neu a ydyw yn cael ei effeithio trwy ryw foddion arall.

Yn mhellach, Y mae prawf cyffredinol crefydd naturiol a Christionogaeth yn gorwedd yn nghyrhaedd dynion cyffredin, hyd yn oed y rhai sydd am y rhan fwyaf o'u hoes, o'u hieuencytyd hyd hen ddyddiau, yn brysur yn ennill iddynt eu hunain a'u teuluoedd gysuron, ac efallai angenrheidiau bywyd. Y mae dynion cyffredin, os ydynt yn gymmaint o ddifrif yn nghylch crefydd ag ydynt yn nghylch eu hamgylchiadau tymmorol, mewn ystâd ddigon manteisiol i gael eu hargyhoeddi trwy brofion gwirioneddol, fod Duw yn bod, yr hwn sydd yn llywodraethu y byd; ac y maent yn ymwybodol o'u bod yn greaduriaid moesol a chyfrifol. A chan fod Cristionogaeth yn cyduno yn hollol â'r syniad naturiol hwn a feddant am bethau, y maent yn alluog, nid yn unig o gael eu darbwyllo, ond o gael eu dwyn i weled, fod prawf fod gwyrthiau wedi eu gwneuthur er cadarnhad iddi, a lluaws o brophwydoliaethau wedi cael eu cyflawnu. Ond er fod y prawf hwn yn wirioneddol a phenderfynol, eto, y mae yn agored i wrthddadleuon; a gellir ei ddilyn hyd at anhawsderau, y rhai, fodd bynag, y mae dynion ydynt alluog, nid yn unig i siarad am danynt, ond i'w canfod yn wirioneddol, ond yn alluog hefyd i weled drwyddynt—hyny yw, nid i'w symmud a'u hateb, fel ag i foddhau eu cywreinrwydd, o blegid nid ydym yn alluog i gael y cyfryw wybodaeth o ddim mewn natur—ond yn alluog i weled nad ydyw y prawf yn cael ei golli yn yr anhawsderau, neu ei ddinystrio gan y gwrthddadleuon hyn. Ond eto, y mae ymchwiliad trwyadl i grefydd gyda golwg ar y gwrthddadleuon hyn—yr hyn nis gall fod yn orchwyl i bob dyn—yn waith mawr iawn, ac oddi ar ei natur yn gofyn cryn wybodaeth, yn gystal ag amser ac astudrwydd, i weled pa beth a ddaw o'r prawf wrth bwysu y naill beth gyda'r llall, a pha beth, ar y cyfan, ydyw ei swm a'i bwysau. Yn awr, os, ar ol cymmeryd i fyny y gwrthddadleuon hyn, a chymmeryd yn pan y mae y tystiolaethau drostynt yn rhydd oddi wrth ddrwgdybiaeth. Os na chaniateir hyn, nid yn unig y mae buddioldeb hanesiaeth yn colli, ond yr holl serch naturiol sydd rhwng rhieni a phlant, o blegid nis gellir adnabod hyn mewn un ffordd arall. Ac ewyllys Duw ydyw, i'r pethau hyny ag y mynai i ni eu credu beidio bod mor eglur a'r hyn a ganfyddir gan ein synwyrâu, neu trwy arbrofiad, fel y gallai ffydd gael ei chymmeradwyo fel ufudd-dod. Rhydd Duw brawf mor bell fel ag i fod yn ddigonol i ennill crediniaeth dyn sydd heb fod yn ystyfnig yn erbyn prawf.”]

ganiataol fod rhyw bwys ynddynt ar dystiolaeth y rhai y cawsant hwy ganddynt, a thrwy eu trin yn fynych ddyfod i weled, neu i ddychymygu eu bod yn gweled, rhyw bwys a nerth ynddynt, y peidiant ag ymbarotoi i'r cyfryw ymchwiliad gyda gradd briodol o wybodaeth, neu roddi i'r pwnc yr amser a'r astudrwydd sydd yn ddyledus iddo—yn y sefyllfa hon, rhaid yr arosant mewn ammheuaeth, anwybodaeth, neu gyfeiliornad; yr un modd ag y mae yn rhaid iddynt fod, gyda golwg ar wybodaethau cyffredin, ac amgylchiadau bywyd, os esgeulusant y moddion angenrheidiol i ddyfod yn hyddysg ynddynt.

Ond efallai y dadleuir, pe bai tywysog neu feistr cyffredin yn anfon cyfarwyddiadau i'w was, y gofalai am eu bod bob amser yn dwyn arwyddion sicr yn dangos oddi wrth pwy y daethant, ac y byddai eu hystyr yn hollol ddealladwy; fel na byddai un ammheuaeth yn bosibl o barth i'w hawdurdod neu eu meddwl. Yn awr, yr atebiad priodol i bob math o wrthddadleuon fel hyn ydyw, pa le bynag y llecha eu twyll a'u gwendid, fod yn sicr nas gallwn ymresymu fel hyn gyda golwg ar Lywydd y byd, ac nad ydyw chwaith yn ein cynnysgaethu â'r cyfryw wybodaeth gyda'n helyntion tymmorol, fel y mae profiad a sylwadaeth yn dangos yn helaeth i ni. Y mae, fodd bynag, atebiad cyflawn i'r wrthddadl hon oddi wrth natur crefydd ei hun. O blegid y rheswm pa ham y rhoddai tywysog ei gyfarwyddiadau mewn modd eglur ydyw, ei fod yn dymuno ar fod i'r cyfryw weithred allanol gael ei chyflawnu, heb fod a wnelai â'r cymhelliad neu yr egwyddor oddi ar ba un y caffai ei chyflawnu; nid oes a fynd ond yn unig â'r hyn a wneir—dim, a siarad yn briodol, â'r dull o'i chyflawnu. Ond gan fod moesoldeb a chrefydd yn gynnwysedig yn y cyflawniad ei hunan, ni ddylid cyffelybu y ddau amgylchiad â'u gilydd. Eithr os tybir fod y tywysog yn sylwi yn unig ar y cyflawniad—yn unig yn dymuno rhoddi mewn ymarferiad, neu mewn rhyw ystyr roddi prawf ar ddeall neu ffyddlondeb ei was—ni roddai ei archebion a'i gyfarwyddiadau bob amser mor eglur. Byddai yn briodol chwanegu fod ewyllys Duw, o barth i foesoldeb a chrefydd, naill ai yn gyflwyr ac annibynol, neu yn ammodol yn unig. Os ydyw yn hollol a diammodol neu annibynol, nis gall fod ond fel hyn yn unig—y dylem ymddwyn yn rhinweddol yn y cyfryw amgylchiadau penodol; nid y dylem gael ein dwyn i ymddwyn felly trwy ei fod yn newid ein hamgylchiadau. Ac os yw ewyllys Duw fel hyn yn gyflwyr a diammodol, yna y mae o fewn ein gallu, yn yr ystyr cyfyngaf ac uchaf, i wneuthur neu i wrthsefyll ei ewyllys—yr hon sydd yn ystyriaeth o'r fath bwysicaf. Neu,

gellir ystyried ei ewyllys fel yn ammodol yn unig—os bydd i ni ymddwyn fel a'r fel, y cawn ein gwobrwyo; os fel arall, ein cospi; ac o'r ewyllys ammodol hon o eiddo Awdwr natur, y mae ei holl gyfansoddiad yn rhoddi anghreiffiau a phrcfion eglur a diammheuol.

Ar y cyfan, y mae ein bod mewn ystâd o grefydd yn cynnwys, o angenrheidrwydd, ein bod mewn sefyllfa o brawf; ac os addefir ein bod yn y sefyllfa hon, nid ymddengys fod un anhawsder penodol ar ffordd tybied fod ein prawf fel ag y mae yn yr ystyriaethau hyny ag y dadleuir uchod yn eu herbryn. Nid ymddengys un esgus oddi wrth *natur y peth* dros ddyweyd nas gall y prawf fod yn gyfiawn yn ddim ond hyn—pa un a ymddyga dynion yn gydwedol â'r cyfryw wybodaeth nad oes un ammheuaeth yn perthyn iddi; fel nad oes un perygl o fethu ac aflwyddo, ond naill ai oddi ar eu gwaith yn gwrthod talu sylw i'r hyn a wyddant, neu oddi ar nwydau cryfion yn eu hyrddio i weithredu yn wrthwyneb i'w gwybodaeth. O blegid gan fod anwybodaeth ac ammheuaeth yn rhoddi achlysur i brawf yn mhob ystyr, mor wirioneddol ag argyhoeddiad neu sicrwydd, a chan fod y ddau gyntaf i edrych arnynt yn gyffelyb ag ar anhawsderau mewn ymarferiad, gall sefyllfa prawf foesol dynion hefyd fod yn gynnwysedig yn hyn—pa un a gymmerant ofal dyladwy i'w hyfforddi eu hunain trwy ystyriaeth deg; ac wedi hyny, pa un a weithredant fel y mae yr achos yn gofyn, ar y dystiolaeth sydd ganddynt, pa mor ammheus bynag. Ac yr ydym yn gweled trwy brofiad mai hyn yn fynych ydyw ein prawf mewn golygiad tymmorol. O blegid nid ydyw y wybodaeth a fydd arnom eisieu gyda golwg ar ein buddiannau tymmorol yn cael ei rhoddi i ni bob amser heb unrhyw drafferth a gofal o'r eiddom ein hunain. Ac yr ydym i raddau pell yn agored i hunandwyll oddi ar ragfarnau mewnol dirgelaidd, a hefyd i dwyll oddi wrth ereill; ac fel ag i farnu yn iawn pa beth yw y llwybr doeth o weithredu, y mae yn gofyn llawer o ystyriaeth anhawdd. Ac ar ol i ni farnu oreu y gallwn, y mae y prawf y rhaid i ni weithredu arno, os gweithredwn o gwbl, yn aros yn ansicr i raddau helaeth. Ac y mae cyfansoddiad a threfn y byd mewn gwirionedd y fath, fel y mae diffyg o ystyriaeth amhleidiol o barth i'r hyn sydd genym i'w wneuthur, ac anturio ar lwybrau afreolaidd am fod yn ammheus pa beth fydd y canlyniadau, yn fynych yn naturiol, hyny yw, yn rhagluniaethol, mor ddinystriol ag ydyw camymddygiad yn cael ei achlysuro gan anystyriaeth diofal o'r hyn a wyddom yn sicr, neu esgeulusdra o hono oddi ar nwyd afreolus ac aflywodraethus

Dichon fod lluwau o'r sylwadau a wnaed yn awr yn ymddangos yn ddyeithrol, ac efallai yn annealladwy, i lawer o ddynion da. Ond os yw y personau er mwyn y rhai y gwnaed y sylwadau yn meddwl felly—y rhai sydd yn gwrthddadleu, fel yr ymdrinwyd uchod, ac yn bwrw ymaith oddi wrthynt bob ymbwylliad uwch ben crefydd oddi ar y ffugesgus o ddiffyg prawf digonol o'i phlaid—dymunaf iddynt ystyried eto pa un a ydyw eu gwaith yn meddwl felly i'w briodoli i ryw beth annealladwy yn y sylwadau hyn, ynte i'r ffaith eu bod hwy eu hunain yn amddifaid o'r cyfryw syniad crefyddol a phryder difrifol o barth i grefydd ag y mae hyd yn oed eu sefyllfa o ammheuaeth yn rhesymol yn gofyn am dano? Dylai gael ei argymhell ar ystyriaeth y rhai hyn, fod ein natur a'n sefyllfa o angenrheidrwydd yn ein rhwymo yn helyntion beunyddiol ein bywyd i weithredu ar brofion llawer is na'r rhai a elwir yn gyffredin yn "debygol"—i fod yn wylidwrus, nid yn unig yn erbyn yr hyn a wyddom a ddygwydd, ond hefyd yn erbyn yr hyn a ddichon ddygwydd—ac i weithredu gyda phethau pan y mae y tebygolrwydd yn gryf yn erbyn ein llwyddiant, os gellir meddwl, er hynny, fod yn bosibl llwyddo gyda hwynt.

PENNOD VII.

AM Y PRAWF NEILLDUOL O BLAID CRISTIONOGAETH.¹

GAN fod y tybiau yn erbyn dadguddiad, a'r gwrthddadleuon yn erbyn cyfundrefn Cristionogaeth yn gyffredinol, a phethau neillduol a berthyn iddi, wedi eu symmud o'r ffordd, y mae yn angenrheidiol sylwi eto pa brawf penderfynol sydd genym o'i

[Ar ol ystyried y gwrthddadleuon yn erbyn dadguddiad yn gyffredinol, a'r dadguddiad Cristionogol yn neillduol, a yr awdwr yn mlaen yn y bennod hon i ddymchwelyd y gwrthddadleuon yn erbyn y *profion* o honi. Yn y pennodau blaenorol, rhyddhâ Gristionogaeth yn ei gwirioneddau oddi wrth bob dadleuon disail yn ei herbyn; ac yma gwna yr un peth â'i phroffion. Dosbartha y mater yn ddwy adran:—(a) Y profion uniongyrchol o blaid Cristionogaeth oddi wrth wyrthiau a chyflawniad prophwydoliaethau, yn nghyd â'r gwrthddadleuon yn erbyn y profion hyn. (b) Y ddadl gyffredinol o blaid Cristionogaeth, yn cynnwys y profion uniongyrchol a chyfochrog—y math hwnw o broffion â'r rhai y penderfynir y nifer mwyaf o gwestiynau anhawdd mewn pethau cyffredin. Yr awdwyr y cyfeiria Butler yn fynych at eu hysgrifeniadau yn y bennod hon oeddynt, Wollaston, Tindal, a Collins, y rhai a ymosodasant ar Gristionogaeth o safleoedd gwahanol. Ysgrifennodd y cyntaf yn erbyn y gwyrthiau, yr ail yn erbyn yr angenrheidrwydd am ddadguddiad, a'r trdydd yn erbyn y prawf oddi wrth brophwydoliaeth.]

gwirionedd—yn benaf, mewn trefn i weled pa beth a ddywed cyfatebiaeth natur o barth i'r prawf hwnw, a'r gwrthddadleuon yn ei erbyn—neu i weled pa beth ydyw y rheol naturiol ac addefedig i farnu a gweithredu yn ein materion tymmorol, mewn amgylchiadau ag y mae genym ynddynt yr un math o brawf, a'r un math o wrthddadleuon yn ei erbyn, ag sydd genym yn y pwnc dan ein sylw.

Yn awr, ymddengys fod yn mhroffion Cristionogaeth amrywiol bethau o gryn bwysigrwydd, heb fod i'w rhestru o dan y penau o wyrthiau, na chyflawniad prophwydoliaethau, yn ystyr cyffredin y geiriau. Ond y ddau hyn ydyw ei phroffion uniongyrchol a sylfaenol; a pha mor bwysig bynag ydyw y lleill, eto ni ddylid eu dwyn yn mlaen ar wahân oddi wrth ei phroffion mwyaf uniongyrchol, ond bob amser yn gyssylltiedig â hwy. Fel hyn, y mae profion Cristionogaeth yn gyfres faith—yn ymestyn o ddechreuad y byd hyd yr amser presennol, ac yn cynnwys amrywiaeth mawr o bethau; yn cymmeryd i mewn y profion uniongyrchol a'r rhai cyfochrol, ac oll yn nghyd yn ffurfio un ymresymiad:—gellir cyffelybu yr argyhoeddiad sydd yn cyfodi oddi ar y math yma o brawf i'r hyn a elwir *yr effaith* mewn adeiladyddiaeth neu weithiau ereill celfyddyd—cynnyrch oddi wrth nifer mawr o bethau wedi eu trefnu mewn modd penodol, a'u cymmeryd ar un olwg. Mi a wna, gan hynny, yn gyntaf, rai sylwadau ar y gwyrthiau, a'r pethau a ymddangosant yn gyflawniadau prophwydoliaeth; gan ystyried pa beth a ddywed cyfatebiaeth mewn atebiad i'r gwrthddadleuon a ddygir yn erbyn y prawf hwn. Ac yn ail, ceisiaf sylwi ar yr ymresymiad cyffredinol a grybwyllwyd yn awr, yn cynnwys y profion uniongyrchol a chyfochrol, yn cael eu hystyried fel yn ffurfio un ymresymiad; a hyn yw y math o brawf trwy yr hwn yr ydym yn penderfynu y rhan fwyaf o gwestiynau anhawdd mewn pethau cyffredin—yn enwedig cwestiynau yn dwyn perthynas âg ymddygiad.

Yn gyntaf, Gwnaf rai sylwadau ar y prawf uniongyrchol o blaid Cristionogaeth oddi ar wyrthiau a phrophwydoliaeth, ac ar y gwrthddadleuon a ddygir yn ei erbyn.

I. Yn awr, ymddengys fod y sylwadau canlynol o barth y prawf hanesyddol o wyrthiau wedi eu gwneyd er cadarnhad Cristionogaeth, yn meddu cryn bwys.

1. Y mae yr Hen Destament yn rhoddi i ni yr un dystiolaeth hanesyddol am wyrthiau Moses a'r prophwydi ag am hanes gwladol cyffredin Moses a breninoedd Israel; neu hanes amgylchiadau y genedl Iuddewig. Ac y mae yr Efengylau a'r

Actau yn rhoddi i ni yr un dystiolaeth hanesyddol am wyrthiau Crist a'r apostolion, ag am y pethau cyffredin a gofnodir ynddynt.¹ Nis gallasai hyn gael ei ddyweyd am awdwyr y llyfrau hyn, pe buasent, fel llawer o haneswyr ereill, yn ymddangos fel wedi gwneyd dull difyrus o ysgrifenu yn amcan; er iddynt gymmysgu gwyrthiau â'u hanes, mewn amgylchiadau priodol. Gallasai y rhai hyn roddi mwy o fywyd mewn adroddiad annyddorol, difyru y darlennydd, a sicrhau ei astudrwydd. A rhoddid yn naturiol yr un cyfrif am danynt ag am adroddiadau a dysgrifiadau y cyfryw awdwyr: yr un cyfrif am danynt ag sydd i'w roddi am waith y beirdd yn gwneyd defnydd o ryfeddodau a phethau aruthrol yn eu caneuon. Ond y mae ffeithiau yr Ysgrythyrau, y rhai gwyrthiol a naturiol fel eu gilydd, yn cael eu hadrodd mewn dull cyffredin a diaddurn; ac y mae y naill fel y llall yn ymddangos, yn mhob ystyr, yn sefyll ar yr un tir o ran prawf hanesyddol. Hefyd, y mae rhai rhanau o'r Ysgrythyr yn cynnwys hanes gwyrthiau ydynt yn ddigonol i brofi gwirionedd Cristionogaeth, yn cael eu dyfynu fel rhanau dilys, o'r oes yn yr hon y dywedir y cawsant eu hysgrifenu i lawr, hyd yr amser presennol; ac nid oes rhanau ereill o honynt, o ddim pwys yn y cwestiwn presennol, yn cael peidio eu dyfynu yn y fath fodd ag i ffurfio un math o brawf nad ydynt yn ddilys. Ac fel y mae hanesiaeth gyffredin, pan yn cael ei galw mewn unrhyw esampl i gwestiwn, yn cael yn fynych ei chadarnhau i raddau helaeth gan ddygwyddiadau cyfoesol neu ddilynol mwy hysbys ac addefedig; ac fel y mae yr hanes ysgrythyrol gyffredin, fel hanesion ereill, yn cael ei chadarnhau fel hyn, felly hefyd y mae ei hanes gwyrthiol, nid yn unig mewn anghreiffitiau neillduol, ond yn gyffredinol. O blegid y mae sefydliad y grefydd Iuddewig a Christionogol, y rhai oeddynt ddygwyddiadau cyfoesol â'r gwyrthiau a ddywedir a weithredwyd er eu cadarnhad—mae y dygwyddiadau hyn yn gyfryw ag y buasem yn eu dysgwyl ar y dybiaeth fod y cyfryw wyrthiau wedi eu gweithredu yn wirioneddol er cadarnhau eu gwirionedd. Y mae

[¹ Y mae Bolingbroke yn gwneuthur sylw cyffelyb am wyrthiau yr Ysgrythyrau:—"Nid yw gwyrthiau y Beibl, fel yr eiddo Livy (hanesydd Lladinaidd), yn rhanau ysgaredig, y rhai sydd heb effeithio dim ar unoliaeth yr hanesiaeth gwladol; ond y maent yn dwyn cyssylltiad agos â'r holl helyntion gwladol, ac yn ffurfio rhan hanfodol ac anysgaradwy. Y mae yr holl hanesiaeth yn seiliedig arnynt: nid yw yn cynnwys ond ychydig heb law hyn; a phe na buasai yn hanesiaeth o'r gwyrthiau, ni buasai yn hanes o ddim." Y mae Isaac Taylor, yn ei *Restoration of Belief*, wedi cymhwyso y drychfeddwl hwn at y Testament Newydd, ac yn enwedigol at yr epistolau. Dengys fod y gwyrthiau wedi eu cydweu yn y fath fodd ag athrawiaethau yr efengyl, ac athrawiaeth yr apostolion, fel nas gellir eu gwadu heb ar unwaith wadu yr holl gyfundrefn Gristionogol.]

y gwyrthiau yn gyfrif boddhaol am y dygwyddiadau hyn, ac nis gellir rhoddi un cyfrif boddhaol arall, nac un cyfrif o gwbl, ond rhyw ddychymyg disail. Gellir chwanegu mai y cyfrif mwyaf eglur, hawdd, ac uniongyrchol am yr hanes hwn, pa fodd y daeth i gael ei ysgrifenu a'i dderbyn gan y byd fel hanes gwir, ydyw, ei *fod felly*; ac nis gall un cyfrif hawdd, naturiol, am dano gael ei roddi ond hwn. Yn awr, er y gall cyfrif heb fod yn eglur, ond yn anuniongyrchol, ac yn ymddangos yn annaturiol ac anhawdd, fod yn fynych y gwir esboniad ar beth; eto, nis gellir ei dderbyn am ei fod yn cael ei roddi a'i sicrhau. Nid yw rhyw ddyfaliad, tybiaeth, a phosiblwydd, pan yn cael eu dwyn yn erbyn tystiolaeth hanesyddol, yn profi dim, ond yn unig nad yw prawf hanesyddol yn arbrefawl (*demonstrative*).

Yn awr, y casgliad teg oddi wrth hyn oll ydyw, fod yr hanes ysgrythyrol i gael ei dderbyn fel hanes dilys a chywir, hyd oni ddygir yn mlaen rywbeth pendant fyddo yn ddigonol i'w wan-hau a'i ddirymu. Nis gall neb ei wrthod fel yn anawdurdod-edig, hyd oni phrofer ei fod felly; hyd yn oed pe bai y prawf a grybwyllwyd o blaid ei wirionedd yn ammheus. Gellir gwrthwynebu y prawf â phrawf hanesyddol ar yr ochr arall, a thybied fod un yn bod; neu âg anghredadwyaeth yn y pethau a fynegir, neu anghyssondeb yn ngwedd gyffredinol yr hanes, yr hyn a brofai yr hanes yn anghywir. Ond gan yr ymddengys yr hanes, ar yr olwg gyntaf, wrth gymmeryd golwg gyffredinol arno, yn gywir, nis gellir penderfynu ei fod yn ffugiol heb ryw brawf ei fod felly. A thuedda y sylwadau canlynol, y rhai ydynt i raddau yn gydfynedol â'r sylwadau uchod, i gadarnhau y prawf hanesyddol o blaid Cristionogaeth.

2. Y mae epistolau Paul, oddi ar natur ysgrifwaith llythyrawl, a hefyd oddi ar fod amryw o honŷnt wedi eu hysgrifenu, nid at bersonau neillduol, ond at eglwysi, yn cario ynddynt brofion amgenach o'u dilysrwydd na'r profion a all fod mewn adroddiad hanesyddol wedi ei adael i'r byd yn gyffredinol. Nid yw y prawf hwn yn gyssylltiedig â'r profion sydd ganddynt yn gyffredin â rhanau ereill o lyfrau y Testament Newydd, yn gadael cymmaint ag unrhyw esgus neillduol dros wadu eu dilysrwydd, wrth ei ystyried fel pwnc cyffredin o ffaith, neu o feirniadaeth: yr ydwyf yn dyweyd, esgus *neillduol* dros ei *wadu*; o blegid gall rhyw ffaith unigol, o'r fath natur a'r fath henafiaeth, gael ei gwrthwynebu gan *ammheuon cyffredinol*, oddi ar natur amgylchiadau a thystiolaeth ddynol. Gellir hefyd grybwyll tystiolaeth eglur a phendant o blaid dilysrwydd yr epistol y cyfeirir yn benaf yma ato, yr epistol cyntaf at y Corinthiaid, oddi wrth y dull y

mae yn cael ei ddyfynu gan Clemens Romanus, mewn llythyr o'i eiddo ef at yr eglwys hono.¹ Yn awr, y mae yr epistolau hyn yn feddiannol ar brawf o blaid Cristionogaeth, ar wahân oddi wrth brofion ereill, yr hyn, mi a dybiwyf, sydd yn fater o bwys; a hefyd yn brawf o natur arbenig iddo ei hun. O blegid,

Y mae yr awdwr yn mynegu ynddynt ei fod wedi derbyn yr efengyl yn gyffredinol, a sefydliad sacrament Swper yr Arglwydd yn neillduol; nid oddi wrth y lleill o'r apostolion, neu mewn undeb â hwynt, ond ei hunan, oddi wrth Grist ei hun, yr hwn y dywed, yn unol â'r hanes yn yr Actau, ddarvoud iddo ei weled ar ol ei esgyniad.² Fel hyn, y mae tystiolaeth Paul i gael ei hystyried fel ar wahân oddi wrth, ac yn annibynol ar, dystiolaeth yr apostolion ereill.

Mynega yn mhellach, ei fod wedi ei gynnysgaethu â gallu i wneuthur gwyrthiau fel peth oedd yn berffaith wybyddus i'r rhai yr ysgrifena atynt; llefara am amrywiaeth mawr o doniau gwyrthiol, fel yn bod y pryd hyny yn yr eglwysi yr ysgrifena atynt, y rhai a geryddai am eu hannhrefn, a'r rhai yr oedd ynddynt wrthwynebwr iddo ef yn bersonol; crybwylla am y doniau hyn yn ddygwyddiadol, ac yn y dull mwyaf esmwyth, heb un ymdrech; mewn ffordd o ymliwiad â'r rhai a'u meddiannent am eu defnyddiad annheilwng o honynt, ac mewn ffordd o'u darostwng mewn cymhariaeth i rinweddau moesol: mewn gair, llefara wrth yr eglwysi hyn am y doniau gwyrthiol yn y dull y llefarai y naill wrth y llall am beth ag a fyddai mor gynnefin a hysbys iddynt ill dau ag un peth yn y byd.³ Ac y mae yn sicr fod hyn, fel y sylwodd amryw, yn ffaith o gryn bwys.

3. Y mae yn ffaith hanesyddol addefedig fod Cristionogaeth wedi cynnyg ei hunan i'r byd, ac yn hawlio derbyniad ganddo, ar yr ymholiad—neu, fel y dywedai anghredwyr, ar y ffugesgus—fod gwyrthiau wedi eu gwneuthur yn gyhoeddus er cadarnhad o'i gwirionedd yn y cyfryw oes; a'i bod wedi cael ei derbyn gan niferi mawrion yn yr oes hono, ac ar y grediniaeth broffesedig o wirionedd y gwyrthiau hyn. Ac ymddengys fod Cristionogaeth, yn cynnwys goruchwyliaeth yr Hen Destament, yn cael ei gwahaniaethu gan hyn oddi wrth bob crefyddau ereill. Meddyliwyf nas gellir cadarnhau hyn o barth un grefydd arall. Nid ym-

¹ *Clem. Rom.* llyth. i. pen. 47. [“Cymmerwch epistol yr apostol bendigedig Paul yn eich dwylaw. Pa beth a ysgrifennodd efe atoch pan bregethodd efe yr efengyl gyntaf yn eich mysg? Cyngorodd chwi trwy yr Ysbryd o berthynas iddo ef ei hun, a Cephas, ac Apollos; o blegid eich bod hyd yn oed y pryd hyny wedi dechreu myned yn bleidiau yn eich mysg eich hunain.”]

² *Gal.* i.; *1 Cor.* xi. 23, &c.; *1 Cor.* xv. 8.

³ *Rhuf.* xv. 19; *1 Cor.* xii. 8, 9, 10—28; xiii. 1, 2, 8; pen. xiv. drwyddi; *2 Cor.* xii. 12, 13; *Gal.* iii. 2, 5.

ddengys fod Mahometiaeth wedi ei derbyn ar y cyntaf yn y byd ar sail gwyrthiau tybiedig;¹ *h. y.*, gwyrthiau cyhoeddus, o blegid gan fod dadguddiad ei hunan yn wyrthiol, y mae yn rhaid fod pob ymhoniad i hyny yn cynnwys rhyw ymhoniad i wyrthiau. Ac y mae yn ffaith wybyddus ei bod yn ebrwydd, ar ei chychwyniad cyntaf, wedi ei lledaenu trwy foddion ereill. Ac fel nad yw sefydliadau neillduol, mewn paganiaeth neu Babyddiaeth, y rhai y dywedir eu bod wedi cael eu cadarnhau gan wyrthiau, ar ol i'r sefydliadau hyny ennill grym, yn anghreiffiau cyfredol; felly, pe bai ganddynt yr hyn a ellid ei alw yn brawf hanesyddol, fod rhai o honynt wedi cael eu dwyn i mewn gan orchymyn a dybid yn ddwyfol, yr hwn y credid ei fod wedi ei sicrhau gan wyrthiau, ni byddai y rhai hyn mewn un modd yn gyfatebol i'r mater dan sylw. O blegid gellir yn hawdd roddi cyfrif am bethau unigol fel hyn, ar ol i bleidiau gael eu ffurfio, a'r gallu yn eu dwylaw; y blaenoriaid mewn parch gan y lluaws; materion gwleidiadol yn cael eu cymhlethu â phethau crefyddol. Ond yn flaenorol i ddim o'r natur yma, y mae fod ychydig bersonau, a'r rhai hyny o'r radd iselaf, ar unwaith yn dychwelyd niferi mawrion at grefydd newydd, ac yn llwyddo i gael derbyniad iddi oddi ar y prawf neillduol o wyrthiau—y mae hyn yn beth gwahanol hollol. Ac yr wyf yn meddwl yr addefir gan unrhyw wrthwynebydd teg fod y ffaith a grybwyllwyd yn awr, a chymmeryd dan ystyriaeth ei holl amgylchiadau, yn perthyn yn unig ac arbenig i'r grefydd Gristionogol.² Pa fodd bynag, addefir y ffaith ei hunan, fod

¹Gwel y *Coran*, pen. xiii, xvii.

[²“Dywed yr anghredwyr, Oddi eithr i arwydd gael ei rhoddi iddo gan yr Arglwydd, ni chredwn ni iddo: nid wyt ond pregethwr yn unig.” * * * * *
“Nid oedd dim yn ein hattal rhag dy gynnysgaethu â gallu i wneuthur gwyrthiau wrth dy a:fon allan, oddi eithr fod y cenedloedd blaenorol wedi edrych ar wyrthiau fel ffug.” Dywed Gibbon nad oedd Mahomet yn hawlio nac yn dihawlio ei feddiant o allu gwyrthiol. Pan wesgid arno i roddi y prawf hwn o'i awdurdodiad, mewn atebiad, ymfrostiai ei fod wedi derbyn gweledigaethau; appelliai at y profion tu mewnol o wirionedd a dwyfoldeb ei athrawiaeth; a dygai ragluniaeth Duw fel amddiffyniad yn ngwyneb y gwrthddadleuon a ddygid yn erbyn ei grefydd, am ei bod heb gael ei phrofi gan wyrthiau; gommeddai rhagluniaeth roddi yr arwyddion a'r rhyfeddodau hyn i gydfyned â'i grefydd, am y gwnaent hwy haeddiant a gwertu fydd yn llai, ac y gwnaent euogrwydd anghrediniaeth yn fwy. Y mae y rhanau sydd yn y *Coran* yn gwadu ei wyrthiau yn eglur a phendant; ac y mae y rhanau sydd yn hòni fod Mahomet yn feddiannol ar allu gwyrthiol, neu yn hytrach ei fod wedi gwneuthur gwyrthiau i brofi ei grefydd, yn amwys, ac felly yn annigonol. Er y gall fod yn y *Coran* rai ymadroddion sydd yn rhoddi ar ddeall y mynai Mahomet i'w ddilynwyr gredu ei fod ef yn feddiannol ar allu gwyrthiol; eto, y mae yn amlwg nad yw yn hòni mewn un man ei fod wedi rhoddi y gallu hwnw ar waith. Honiad mawr Mahomet ydoedd:—“Y mae y *Coran* yn wyrth ynddo ei hun.” A'r rheswm ei fod ef yn peidio eu gwneuthur oedd (medd ei ganlynwyr), fod y gwyrthiau a wnaed gan ereill, y prophwydi, Crist a'i apostolion, yn aneffeithiol i argyhoeddi dynion.]

Cristionogaeth wedi cael proffesu ei derbyn yn y byd ar sail y gwyrthiau, yn ebrwydd yn yr oes y dywedir y cyflawnwyd y gwyrthiau ynddi; neu mai hyn yw y peth a honid gan y dychwelledigion cyntaf ati fel eu rheswm dros ei derbyn. Yn awr, y mae yn sicr nad yw yn bosibl tybied fod y fath niferi o ddynion, yn rhanau mwyaf pellenig y byd, wedi ymadael â chrefydd eu gwlad yn yr hon yr addysgwyd hwy; didoli eu hunain oddi wrth eu cyfeillion, yn enwedig yn eu gwleddoedd, eu harddangosiadau, a'u gwyliau, y rhai a feddant ddylanwad mawr ar y bobl gyffredin, ac yn eu natur yn tueddu yn fwy i'w difyru na dim o'r fath yn ein mysg ni; a chofleidio crefydd nas gallasai lai na'u gosod yn agored i lawer o anghyfleusderau, a'u dwyn i ymwadu â'r byd hyd yn oed yn flaenorol i un gwrthwynebiad ffurfiol iddynt oddi wrth yr ymherodraeth: nis gellir tybied fod y fath niferi wedi gwneyd cyfnewidiad mor fawr, ac, i ddyweyd y lleiaf, mor anfanteisiol, yn eu holl ddull o fyw, oddi eithr eu bod yn wirioneddol argyhoeddedig o wirionedd y gwyrthiau hyny, crediniaeth o'r rhai a barai iddynt wneyd y fath gyfnewidiad. Ac addefir yn rhwydd, dybygaf, fod y cyffredinolrwydd o'r dychweledigion cyntaf at Gristionogaeth o angenrheidrwydd wedi eu credu; eu bod, trwy ddyfod yn Gristionogion, yn dadgan i'r byd ddarfod eu boddloni am wirionedd y gwyrthiau hyny; felly yr oedd y dadganiad hwn i'w gredu. Ac y mae y dystiolaeth hon o'r eiddynt hwy yn dystiolaeth o'r un natur am y gwyrthiau a phe buasent wedi eu rhoddi mewn ysgrifen, a'r ysgrifeniadau wedi dyfod i lawr hyd atom ni. Ac y mae yn brawf gwirioneddol, o blegid y mae a fyno â ffeithiau yr oedd ganddynt hwy allu a chyfleusdra priodol i wneyd eu hunain yn berffaith hysbys o honynt. Y mae hefyd yn wahaniaethol oddi wrth brawf hanesyddol uniongyrchol, er ei fod yr un math o brawf: a chaniateid ei fod yn wahaniaethol yn mhob amgylchiad. O blegid pe bai ffaith yn cael ei hadrodd yn eglur gan un neu chwaneg o hen haneswyr, ac yn cael ei hammheu mewn oesoedd diweddarach; fod y ffaith hon yn cael ei haddef fel wedi ei chredu gan laweroedd yn yr oes y dywed yr hanesydd y cyflawnwyd hi, a ganiateid fel prawf chwanegol o'r cyfryw ffaith—prawf fyddai yn gwbl ar wahân oddi wrth dystiolaeth bendant yr hanesydd. Y mae hygoledd dynolryw yn cael ei addef: a dylid hefyd addef drwgdybiau ac ammheuon ofnus dynolryw; a'u hanmharodrwydd hyd yn oed i gredu, a llawer mwy i ymarfer, y pethau a filwriant yn erbyn eu buddiannau. A rhaid yn enwedigol gadw mewn cof fod addysg, a rhagfarn, ac awdurdod, yn wrthwynebus i Gristionogaeth, yn yr oes yr ydwyf yn

llefaru am dani. Felly, y mae tröedigaeth ebrwydd y fath niferi yn ffurfio tebygolrwydd cryf fod rhywbeth uwch law y dynol yn y peth hyn: yr wyf yn arfer y gair "tebygolrwydd," am na ddygir hyn yn mlaen fel prawf digonol ynddo ei hunan. Ac ni ddylid edrych ar un o'r pethau a ddygir ger bron yn y bennod hon fel prawf digonol: ond eto, y maent oll gyda'u gilydd yn ffurfio un o'r profion cryfaf.

Yn awr, gan fod profion hanesyddol helaeth, uniongyrchol ac amgylchiadol, fod gwyrthiau wedi eu gwneuthur er cadarnhad Cristionogaeth, wedi eu casglu gan rai a ysgrifenasant ar y testyn, y mae yn syrthio ar anghredwyr i ddangos pa ham na ddylai y profion hyn gael eu derbyn a'u credu. Y mae yn ymddangos i mi fod y ffordd hon o siarad yn eithaf teg, ac yn unol â llwybr amddiffynwyr crefydd. Eto, mewn pwnc o'r fath annhraethol bwysfawredd, yr ymofyniad priodol ydyw, nid ar bwy y mae yn syrthio, yn ol rheolau rhesymiad, i amddiffyn neu wrthsefyll gwrthddadleuon; ond, pa un a oes rhyw wrthddadleuon yn erbyn y profion hyn yn ddigonol i ddinystrio y grediniaeth yr ymddangosant fel yn ei haeddu. Y mae anghredwyr yn cymmeryd arnynt y gorchwyl o ddangos fod rhai felly yn bod.

1. Dadleuant fod dynion penboeth, a niferi mawr o honynt, mewn gwahanol wledydd ac oesoedd, yn dwyn eu hunain i'r un anfanteision ac anhawsderau a'r Cristionogion cyntaf, ac yn barod i aberthu eu bywydau dros y ffoleddau mwyaf gwagsaw y gellir dychymygu am danynt. Ond nid yw yn ymddangos yn eglur i ba bwrpas y mae yr wrthddadl hon yn cael ei dwyn yn mlaen. O blegid rhaid i bawb, yn mhob amgylchiad, mae yn sicr, wahaniaethu rhwng opiniynau a ffeithiau. Ac er nad yw tystiolaeth yn un prawf o opiniynau brwdfrydig, neu o unrhyw opiniwn; eto, addefir yn gyffredin ei bod yn mhob amgylchiad yn brawf o ffeithiau. A gwaith dyn yn rhoddi ei fywyd i lawr er cadarnhad o ffeithiau, ydyw y prawf cryfaf ei fod ef yn eu credu. Ac os oedd yr apostolion a'u cydoeswyr yn credu y ffeithiau, y rhai, er eu cadarnhau, y rhoddasant eu hunain i fyny i ddyoddefiadau a marwolaeth; y mae eu crediniaeth, neu yn hytrach eu gwybodaeth, o angenrheidrwydd, yn brawf o'r ffeithiau hyny: o blegid yr oeddynt y cyfryw ag a ddaethant dan sylwadaeth eu synwyr. Ac er nad yw o gymmaint, eto, y mae o lawer o bwys fod merthyron yr oes nesaf, er nad oeddynt yn llygad-dystion o'r ffeithiau hyny, fel yr oedd yr apostolion a'u cydoeswyr, eto yn feddiannol ar lawn gyfleusdra i ffurfio sicrwydd am eu gwirionedd, ac wedi rhoddi prawf cyflawn o'u crediniaeth yn eu gwirionedd.

Ond, dywedir fod penboethni yn gwanhau llawer ar y prawf a ddyry tystiolaeth, hyd yn oed am ffeithiau, mewn materion perthynol i grefydd; meddylia rhai ei fod yn ei ddinystrio yn hollol. Ac yn wir, y mae nerth brwdfrydedd, ac afiechyd hefyd, y rhai sydd yn gweithredu mewn modd cyffelyb, yn fawr dros ben mewn amgylchiadau neillduol. Ond os oes niferi mawr o ddynion, heb ymddangos yn wan nac yn esgeulus, yn honi eu bod wedi gweled a chlywed y cyfryw bethau yn eglur, ac yn cael edrych arnynt yn ddynion o ddifrif, y mae y fath dystiolaeth yn brawf o'r fath uchaf dros unrhyw bwnc o ffaith. Eto, dichon y gallai gael ei gorchfygu, pa mor gadarn bynag, gan anhygrededd yn y pethau a adroddir, neu gan dystiolaeth wrthwynebus. Ac mewn amgylchiad pan dybid ei bod wedi cael ei gorchfygu felly, byddai yn briodol ystyried pa mor bell y gellid rhoddi cyfrif am y cyfryw brawf trwy frwdfrydedd; o blegid ymddengys fel pe na bai un cyfrif arall yn bosibl i'w roddi am dano. Ond hyd oni ddangosir fod y cyfryw anhygrededd, neu dystiolaeth wrthwynebus yn bod, nis gellir yn sicr ddysgwyl cyfrif mor annaturiol, mor anuniongyrchol, am y cyfryw dystiolaeth, ag ydyw brwdfrydedd; cyfrif mor ddyeithr fel nas gall y cyffredin o ddynion yn iawn ddeall pa beth a feddylir wrtho: nis gellir, meddaf, ddysgwyl y derbyniwn esboniad fel hyn ar y cyfryw brawf, pan y mae y prawf uniongyrchol a naturiol yma, fod dynion wedi gweled a chlywed peth heb fod yn anghredadwy, yr hyn a gadarnhaent gyda'r diffuantrwydd a'r sicrwydd mwyaf. A chaniatau, felly, nad ydyw brwdfrydedd yn esboniad gwrthun, ond posibl, ar y cyfryw dystiolaeth, y mae yn amlwg fod y crybwylliad am dano yn gorphwys ar y dybiaeth flaenorol fod y pethau a gadarnheir felly yn anhygoel; a chan hyny, nid rhaid i ni ei ystyried hyd oni ddangosir eu bod felly. Llawer llai y rhaid ei ystyried ar ol i'r gwrthwyneb gael ei brofi. A meddylwyf ei fod wedi ei brofi i foddlonrwydd nad oes dim anhygrededd mewn dadguddiad yn gyffredinol, nac yn y Cristionogol yn neillduol. Ond gan y meddylir fod crefydd yn dra agored i frwdfrydedd (*penboethni*), y mae yn briodol crybwyll fod rhagfarnau afrifed—ffug, teimlad, tymmer, awydd am sicrhau sylw, ymgais i beri syndod, ysbryd plaid, arferiad, cystadleuon bychain, hoffder ac anhoffder anhawdd rhoddi cyfrif am danynt;—y mae y pethau hyn a'u cyffelyb yn dylanwadu llawer ar ddynion mewn materion cyffredin. Ac fel y mae y rhagfarnau hyn yn guddiedig yn fynych rhag, ac yn peidio dyfod dan ystyriaeth y dynion a ddylanwadir ganddynt, y maent i'w hystyried fel dylanwadau cyffelyb yn eu natur i benboethni. Eto, y mae tystiolaeth

ddynol ar bethau cyffredin yn cael ei chredu yn naturiol er yr holl bethau hyn.

Dywedir yn mhellach, a chaniatau y gellid profi nas gallasai yr apostolion a'r Cristionogion cyntaf, ar rai cyfrifon, gael eu twyllo eu hunain, ac, ar gyfrifon ereill, nas gellir meddwl eu bod hwy yn fwriadol yn twyllo y byd; eto, nad yw yn canlyn fod eu tystiolaeth gyffredinol i'w chredu, er ei bod wedi ei throsglwyddo yn wirioneddol atom ni; am y gallasent er hyny mewn rhan, mewn ystyriaethau ac ar gyfrifon ereill, gael eu twyllo eu hunain, ac mewn rhan hefyd yn fwriadol dwyllo ereill; yr hyn, fe chwanegir, sydd yn beth tra thebygol, oddi ar y cymmysgedd hwnw o wir benboethni, a dyhirwch, a dichell, sydd yn nodweddu cymmeriadau tebyg iddynt. Yr wyf yn addef nad yw y ffaith a gynnwysir yn y sylw hwn ar ddynion yn bosibl i'w gwadu; a bod y cyffelyb yn cael ei dybied yn fynych yn yr Ysgrythyrau, ac yn cael ei gondemnio yn y modd llymaf a mwyaf diarbed. Ond gallesid dysgwyl y buasai dynion sydd yn alluog i gymhwyso y sylw hwn, fel y gwnaed yn yr wrthddadl, yn cyfarfod hefyd â'r cyfryw gymmeriad mewn amgylchiadau heb fod a fynont â chrefydd. Y mae y ffaith yn eglur fod dynolryw yn gynhenid wedi eu cynnysgaethu â rheswm, neu allu i wahaniaethu rhwng gwirionedd a chelwydd; ac y maent yr un mor gynhenid wedi eu cynnysgaethu â geirwiredd, neu ofal am y gwirionedd yn yr hyn a ddywedant: ond oddi ar amryw achlysuron, y maent yn agored i gael eu twyllo a'u harwain ar gyfeiliorn eu hunain, ac yn alluog o fwriadu twyllo ereill, i bob gwahanol raddau. Yn gymmaint a'n bod oll yn agored i gael ein camarwain gan ragfarnau, felly hefyd nid yw yn beth anghyffredin i ddynion, y rhai, oddi ar eu parch i wirionedd, na luniant gelwydd yn hollol heb un sail, i'w ledaenu mewn rhyw amgylchiadau, ar ol iddo unwaith gael ei lunio a'i hysbysu. Ac y mae ereill, er na *ledaenent* gelwydd, eto, gwnant yr hyn sydd yn radd is o gelwydd, sef gadael iddo gael ei fynegu heb ei wrthddyweyd. Ond, er gwaethaf yr holl bethau hyn, y mae tystiolaeth dynion yn aros yn barhaus yn sail cydsyniad, a'r cydsyniad hwn yn parhau yn egwyddor naturiol ag y gweithredir oddi arni.

Dadleuir yn mhellach, mai y *ffaith* yw, pa fodd bynag y mae wedi dygwydd, fod dynolryw, mewn gwahanol oesoedd, wedi cael eu twyllo yn rhyfeddol gan honiadau i wyrthiau.¹ Ond nis

[¹Y mae *arian drwg neu ffugiedig* yn tybied fod y fath beth yn y byd ag *arian da*; ac ni chymmerai *neb* arno fod yn rhinweddol yn allanol, oddi eithr fod *rhai* yn bod yn wirioneddol felly. Yr un fath, y mae gwyrthiau gau yn tybied fod gwir wyrthiau yn bod; ac y mae y ffug wyrthiau sydd wedi eu

gellir caniatâu eu bod wedi cael eu twyllo yn fynychach, neu eu bod yn fwy agored i gael eu twyllo gan yr honiadau hyn na chan ryw honiadau ereill.

Dywedir eto, fod graddau helaeth o brawf hanesyddol o blaid gwyrthiau, y rhai a addefir gan bawb eu bod yn ffugiol. Ond tybier fod hyd yn oed prawf hanesyddol *cyffelyb* o blaid y rhai hyn i'r hyn sydd o blaid y rhai a ddygir yn mlaen o blaid Cristionogaeth—yr hyn ni chaniateir fod—ond tybier hyny; ni chanylnai oddi wrth hyn nad yw prawf y rhai diweddaf i'w gredu. Ac nid oes un dyn ar y ddaiar a ymresymai fel hyn mewn achosion cyffredin. O blegid i ba beth y deuai y fath gasgliad ond i hyn—bod prawf sydd yn cael ei ddinystrio gan brawf gwrthwynebol, neu ei orbwyso ganddo, yn diddymu gwirionedd prawf arall, yr hwn sydd heb gael ei ddinystrio na'i orbwyso. Mae ymresymu fel hyn—bod (pe byddai hyny) prawf oddi ar dystiolaeth o blaid gwyrthiau a addefir yn ffugiol, fel o blaid y rhai a ddygir er cadarnhau Cristionogaeth; felly, nad ydyw i'w gredu yn y diweddaf mwy na'r cyntaf;—y mae ymresymu fel hyn yr un peth a dywedyd, pe bai dau ddyn o gymmeriad cyffelyb i'w gilydd yn rhoddi tystiolaeth mewn achos gwahanol, heb fod dim cyssylltiad rhyngddynt, ac i un o honynt gael ei brofi yn euog o anudoniaeth, fod hyn yn dinystrio tystiolaeth y llall.

Felly, y mae y sylw fod dynion mor agored i gael eu twyllo, oddi ar benboethni mewn crefydd, a phethau cyfatebol i benboethni mewn achosion cyffredin, ac yn y naill a'r llall oddi wrth esgeulusdra a diofalwch; a'u bod yn alluog o geisio yn ddichellgar dwyllo ereill:—y mae hyn yn wir yn gwanyehu y prawf oddi ar dystiolaeth yn mhob amgylchiad, ond nid yw yn ei ddinystrio mewn un amgylchiad. Ac ymddengys y pethau hyn i wahanol bersonau yn gwanhau prawf oddi ar dystiolaeth mewn graddau gwahanol; mewn graddau cyfatebol i'r sylwadaeth a wnaethant, neu y syniadau a ffurfiasant o barth gwendid, esgeulusdra, a thwyll dynolryw; neu o barth nerth penboethni a rhagfarnau. Ond ymddengys i mi na wyr dynion pa beth y maent yn ei siarad, os haerant fod y pethau hyn yn dinystrio y prawf oddi ar dystiolaeth, yr hwn sydd genym o blaid gwirionedd Cristionogaeth. Nis gall dim ddinystrio y prawf oddi ar dystiolaeth mewn un amgylchiad, ond prawf neu debygolrwydd nad yw dynion yn alluog i farnu ar y ffeithiau y dygant dystiolaeth iddynt; neu eu bod yn cael eu dylanwadu gan ryw gymhellion annheilwng wrth ei rhoddi. Hyd oni wneir hyn hargymhell ar y byd, yn lle rhoddi rhesymau i ni i wrthod pob gwyrthiau yn cyffredinol, yn brawf cryf fod rhai yn wyrthiau gwirioneddol.—*Douglas on Miracles.*]

allan, y mae deddfau *naturiol* gweithrediadau dynol yn gofyn am i dystiolaeth gael ei derbyn. Nid ydyw yn ddigon i ddymchwel prawf hanesyddol pendant, i ddyweyd yn ddiotal fod cynnifer o egwyddorion yn bod, oddi ar y rhai y mae dynion yn agored i gael eu twyllo eu hunain, ac yn dueddol i dwyllo ereill, yn enwedigol mewn pethau crefyddol, ac yn gymmaint felly fel na wŷr dyn pa beth i'w gredu. Ac y mae yn rhyfedd nad ystyriai dynion fod hyd yn oed y dull yma o siarad yn tybied nad ydynt yn teimlo yn sicr fod y prawf heb ddim ynddo, am yr hwn y siaradant fel hyn; neu, os ydynt yn gwneyd y sylw yma, ei fod, ar y cyfryw fater, yn sylw o gryn bwys.¹

Ac yn erbyn yr holl wrthddadleuon hyn, gellir dwyn yn mlaen bwysigrwydd Cristionogaeth, fel yr hyn a gaffai ystyriaeth ddyfal gan y dychweledigion cyntaf, fel ag i'w gwneyd yn llai agored i gael eu twyllo oddi ar ddiotalwch, nag a fuasent gyda phethau cyffredin; a'r un modd, y rhwymedigaethau cryfiog i eirwiredd ag y gosodwyd hwy danynt gan eu crefydd. Felly, y casgliad mwyaf naturiol ydyw, nas gallasent gael eu twyllo eu hunain, a hefyd na buasent yn twyllo ereill. Ac y mae y casgliad hwn, yn y radd yma, yn arbenig yn perthyn i'r dystiolaeth sydd wedi bod dan ein sylw.

Mewn ymresymiad, nid yw haeriadau yn ddim ynddynt eu hunain; ac y mae yn perthyn iddynt ryw ymddangosiad o hyfdra nad ydyw bob amser yn bur ddymunol; eto, y maent yn angenrheidiol, ac yn gofyn eu hadrodd drachefn a thrachefn, mewn trefn i gyssylltu sylwadau, ac i osod yn eglur ger bron y darlennydd pa beth a gynnygir ei brofi, a pha beth a adewir fel wedi ei brofi. Yn awr, y casgliad oddi wrth y sylwadau blaenorol yn ddiamheu yw hyn—bod yn rhaid i anghredwyr addef fod prawf allanol Cristionogaeth—y prawf o wyrthiau wedi eu cyflawnu i'w chadarnhau—yn meddu pwysigrwydd gwirioneddol, er nas gallant addef ei fod yn ddigonol i'w darbwylllo am wiredd y gwyrthiau hyny. A chan y rhaid iddynt yn ol pob rheswm addef hyn, y mae yn ymddangos i mi y gwnânt, wrth ei ystyried, ei addef—y rhai hyny o honynt a wyddant rywbeth am y pwnc—yr un fath ag y mae dynion, ar lawer achlysur, yn addef eu bod yn gweled prawf cadarn oddi ar dystiolaeth o blaid gwirionedd pethau ag y maent er hyny yn methu cael eu hargyhoeddi o'u gwirionedd; megys amgylchiadau pan y mae iddynt dystiolaethau gwrthwynebol, neu pan y tybiant fod yr hyn a gadarnheir ynddo ei hun yn anghredadwy. Ond nid oes un dystiolaeth yn wrthwyneb i'r hyn a fu dan ein hystyriaeth ni; ac y mae wedi

¹Gwel y bennod flaenorol.

ei brofi yn eglur nad oes dim yn anghredadwy mewn Cristionogaeth yn gyffredinol, nac mewn un rhan o honi.

II. O barth i'r prawf o Gristionogaeth oddi wrth brophwydoliaeth, ni wnaaf ond ychydig o sylwadau cyffredinol, y rhai a awgrymir gan gyfatebiaeth natur; hyny ydyw, gan y rheolau naturiol, y rhai y bernir pethau cyffredin wrthynt.

1. Nid yw aneglurder un rhan o brophwydoliaeth mewn un gradd yn gwanhau y prawf o ragwelediad, yr hwn a ddangosir yn nghyflawniad y rhanau ereill a ddeallir. O blegid y mae hyn yn gwbl yr un peth a phe buasai y rhanau ni ddeallir wedi colli, neu heb eu hysgrifenu o gwbl, neu wedi eu hysgrifenu mewn iaith annealladwy. Pa un bynag a ydyw y sylw hwn yn cael ei ystyried ai peidio, y mae mor amlwg fel nad oes prin eisieu ei eglurhau. Fodd bynag, meddylier am ysgrifen, mewn rhan mewn gwagnodau, ac mewn rhan mewn geiriau cyfain dealladwy, a bod yn y rhan ddealladwy grybwylliad am amryw ffeithiau gwybyddus; ni ddeuai y dychymyg byth i feddwl un dyn, y gallasai, pe buasai yn deall y cyfan, weled nad oedd y ffeithiau hyny yn adnabyddus i'r ysgrifenydd. Yn yr esampl hon, a'r hyn a fwriedir ei ddangos trwyddi, mae yn wir y gallai diffyg o ddeall yr oll—yr oll, tybier, o frawddeg neu adran—fod weithiau yn achlysur i beri ammheuaeth a fyddai un yn deall ystyr y cyfryw ran: ond y mae hyn yn dyfod dan ystyriaeth arall.

O herwydd yr un rheswm, er i ddyn fod yn analluog—naill ai trwy ddiffyg gwybodaeth, neu ddiffyg cyfleusderau—hyd yn oed i farnu pa un a ydyw prophwydoliaethau neillduol wedi eu llwyr gyflawnu; eto, gallai weled eu bod wedi eu cyflawnu i'r fath raddau fel ag i gyrhaedd sicrwydd, ar seiliau rhesymol, fod rhagwelediad goruchnaturiol yn amlwg yn y cyfryw prophwydoliaethau, a bod y cyfryw ddygwyddiadau yn cael eu bwriadu ynddynt.¹ O herwydd yr un rheswm hefyd, ni byddai y mwyaf dysgedig—er mai trwy ddiffygion hanesiaeth a gwahanol adroddiadau haneswyr, y dygwyddai hyn—yn alluog i wneyd allan i foddlonrwydd fod y cyfryw ranau o hanesiaeth brophwydol wedi cael eu cyflawnu yn fanwl a thrwyadl; eto, gallai ganfod prawf pur gryf o ragwelediad, oddi wrth y cyflawniad *cyffredinol* o honynt, yr hyn a allai wneyd allan; cymmaint prawf o ragwelediad, efallai, ag a fwriadai rhoddwr prophwydoliaeth ei weinyddu trwyddynt.

2. Y mae y ffaith fod cyfres faith o brophwydoliaethau yn

[¹Nid yw y ffaith ein bod yn analluog i wybod a barnu o barth i *lwyr* gyflawniad prophwydoliaeth neillduol yn gwanhau dim ar y prawf o ragwelediad, sydd yn cyfodi oddi ar gyflawniad *cyffredinol* prophwydoliaeth.]

bosibl i'w cymhwyso at ryw ddygwyddiadau neillduol, ei hunan yn brawf fod hyny yn cael ei fwriadu ynddynt; fel y dengys y rheolau, wrth ba rai yr ydym yn naturiol yn barnu ac yn penderfynu mewn achosion cyffredin. Yr ydwyf yn gwneyd y sylw hwn mewn atebiad i'r wrthddadl gyffredin yn erbyn cymhwysiad y prophwydoliaethau; sef, nad yw yn ymddangos, wrth ystyried pob un ar ei phen ei hun, eu bod yn cyfeirio at y dygwyddiadau neillduol hyny, at y rhai y cymhwysir hwynt gan Gristionogion; ac felly, y mae i'w dybied, os oeddynt yn meddu rhyw ystyr, eu bod wedi eu bwriadu am ddygwyddiadau ereill anhysbys i ni, ac nid mewn un modd am y dygwyddiadau hyn.¹

Yn awr, y mae dau fath o ysgrifeniadau yn dwyn llawer o gyffelybrwydd i brophwydoliaeth gyda golwg ar y mater ger ein bron—y chwedlonawl (*mythological*), a'r dychanus (*satirical*), lle y mae y dychan, neu y gwawd, i ryw fesur, yn guddiedig. A gallai dyn fod yn sicr ei fod yn deall yr hyn a fwriadai awdwr mewn aralleg neu ddammeg, yn cael ei hadrodd heb un cymhwysiad neu eglurhad, yn unig oddi ar weled fod y cyfryw gymhwysiad yn naturiol iddi. A gallai fod yn gwbl sicr fod y cyfryw bersonau a dygwyddiadau yn cael eu bwriadu mewn ysgrif dychanus, yn unig am ei bod yn bosibl i'w chymhwyso atynt. Ac, yn unol â'r sylw diweddaf, byddai i raddau helaeth yn fodd-lawm ar ei esboniad arni, er na byddai yn ddigon hysbys o'r dygwyddiadau, neu o hanes y cyfryw bersonau, i ddeall hanner y dychangerdd. A'r un modd, os oes cyfres faith o brophwydoliaethau yn bosibl i'w cymhwyso at sefyllfa bresennol yr eglwys, ac at sefyllfaoedd gwladol teyrnasoedd y ddaiar, yn mhen miloedd o flyneddoedd ar ol eu mynegu, a chyfres faith o brophwydoliaethau wedi eu mynegu cyn ymddangosiad Crist yn briodol am dano—y mae y ffaith hon ynnddi ei hun yn brawf fod y prophwydoliaethau wedi eu bwriadu am dano ef, ac am y cyfryw ddygwyddiadau, yn ol fel y mae gwedd gyffredinol prophwydoliaeth a nifer ac amrywiaeth prophwydoliaethau neillduol yn bosibl i'w cymhwyso atynt. Ac er, ar sail pob ystyriaeth deg, fod cyflawniad—neu yn hytrach yr hyn a ymddengys yn gyflawniad prophwydoliaethau—i gael ei ystyried fel hyn yn foddion i benderfynu eu hystyr, eto, y mae yn beth i sylwi arno yn mhellach, fod yr Iuddewon yn cymhwyso y prophwydoliaethau

[¹Y mae prophwydoliaeth yn ei holl gangenau wedi cael sylw helaethach ar ol dyddiau Butler, na chyn hyny; ac er, fel y dywed Dr. Angus, fod yr egwyddorion a esyd ef i lawr yn eithaf cywir, ac yn angenrheidiol i egluro rhyw ragfynegiadau tywyll, eto, y mae y nifer mwyaf o brophwydoliaethau y Beibl yn ddigon eglur, fel ag y gall pawb weled ynddynt brawf o'u tarddiad dwyfol.]

at Grist cyn ei ddyfodiad, yn debyg fel y mae Cristionogion yn gwneyd yn bresennol;¹ a bod y Cristionogion cyntaf yn esbonio y prophwydoliaethau o barth sefyllfa yr eglwys a'r byd yn yr oesoedd diweddaf yn yr ystyr ag y mae hanesiaeth wedi ei wirio a'i gadarnhau. Ac oddi wrth y pethau hyn, gwelir,

3. Pe gellid dangos hyd at radd uchel o debygolrwydd fod y prophwydi yn meddwl am ryw ddygwyddiadau ereill, mewn rhyw ragfynegiadau neillduol, ac nid am y dygwyddiadau hyny a haera Cristionogion sydd yn gyflawniadau o'r rhagfynegiadau hyny; neu fod rhyw ragfynegiadau pendant yn gyfryw ag y gellir eu cymhwyso at ddygwyddiadau gwahanol oddi wrth y rhai y mae Cristionogaeth yn eu cymhwyso—ni wnai hyn ddinystrio nerth y prawf oddi wrth brophwydoliaeth, hyd yn oed gyda golwg ar yr anghreiffitiau hyny eu hunain. O blegid sylwer yn fanwl pa fodd y mae hyn yn sefyll. Pe gwyddai un mai y cyfryw berson ydyw unig awdwr rhyw lyfr, a phe bai yn sicr ei fod yn gwybod y cwbl a fwriadai yr awdwr ynddo, byddai, o ganlyniad, yn sicr ei fod yn deall holl feddwl y llyfr; o blegid nid yw meddwl llyfr yn ddim amgen na meddwl yr awdwr. Ond os gwyddai un fod rhyw berson wedi casglu llyfr allan o gofnodau a dderbyniasai gan arall—o wybodaeth llawer uwch a helaethach ar y mater na'i wybodaeth ef, ac yn enwedigol os byddai yn llyfr llawn o bethau dyrus ac anhawdd—ni chanlynai mewn un modd fod un yn deall holl feddwl y llyfr oddi ar ei fod yn deall meddwl y casglydd yn drwyadl; o blegid gallai fod y cofnodau gwreiddiol—*h. y.*, eu hawdwr—yn meddu meddwl pellach, yn ymestyn tu hwnt i ganfyddiad y casglydd. Felly, y mae dyweyd nas gall yr Ysgrythyrau, a'r pethau a gynnwysir ynddynt, feddu un ystyr pellach nag oedd gan y rhai a'u llefarodd neu a'u hysgrifenodd gyntaf, yr un peth a dyweyd mai y personau hyny oeddynt awdwyr gwreiddiol a phriodol y llyfrau hyny; yr hyn drachefn sydd yn gyfystyr ag a fyddai dyweyd nad ydynt ysbrydoledig—yr hyn sydd wrthun, tra y mae awdurdod y llyfrau hyn dan ein hystyriaethau a'n hymchwiliad; hyny yw, hyd oni phenderfynir nad ydynt yn feddiannol o gwbl ar awdurdod ddwyfol. A hyd oni phenderfynir hyn, mae yn rhaid tybied, nid yn wir fod ganddynt—o blegid y mae hyn yn cymmeryd yn ganiataol eu bod yn ysbrydoledig—ond y gall fod ganddynt ryw feddwl pellach nag a welai neu a ddeallai eu casglwyr. Ac ar y dybiaeth hon, y mae hefyd yn beth i'w

[¹Dengys Lyall [*Propædia Prophetica*] fod y prophwydoliaethau a gynnwysir yn y Testament Newydd at yr Iachawdwr, yn cael eu deall am dano Ef gan yr Iuddewon dan yr Hen Destament.]

dybied y gall y meddwl pellach hwn gael ei gyflawnu. Yn awr, y mae dygwyddiadau yn cyfateb i brophwydoliaethau, yn cael eu hesbonio mewn ystyr wahanol oddi wrth yr ystyr y tybir fod y prophwydi yn cael eu deall—y mae hyn yn ffurfio prawf fod yr ystyr gwahanol yma yn cael ei fwriadu ar y cyntaf; o blegid nid oes un sail i dybied mai yr ystyr a roddent hwy iddynt ydyw eu holl ystyr. Ac y mae wedi ei ddangos o'r blaen, y rhaid caniatáu fod y pethau a ymddengys fel cyflawniadau prophwydoliaethau yn eglurhadau ar eu hystyr. Felly, y cwestiwn ydyw, a oes cyfres o brophwydoliaethau wedi eu cyflawnu yn ystyr naturiol a phriodol, hyny yw yn ngwir ystyr, geiriau y prophwydoliaethau hyny. O blegid y mae y cyfryw gyflawniad yn brawf o ragwelediad uwch nag eiddo dyn, pa un bynag a dybir, ai ni thybir, fod y prophwydi yn eu deall mewn ystyr gwahanol.

Gwelir, oddi wrth hyn, pa mor anmhwyrpasol ydyw gwaith rhai dynion yn ceisio profi fod y prophwydoliaethau yn bosibl i'w cymhwyso at ddygwyddiadau yn yr oes yr ysgrifenydd hwynt, neu mewn oesoedd blaenorol. Yn wir, buasai profi hyn, yn flaenorol i un ymddangosiad o gyflawniad pellach o honynt, yn ateb rhyw bwrpas; o blegid gallasai ragflaenu y dysgwyliad am unrhyw gyflawniad pellach. Pe gallasai Porphyry ddangos fod rhai rhanau arbenig o lyfr Daniel—y seithfed adnod o'r seithfed bennod, er esampl—yr hon a esboniai y Cristionogion am yr oesoedd diweddar, yn bosibl i'w cymhwyso at ddygwyddiadau a gymmerasant le cyn, neu o ddeutu, oes Antiochus Epiphanes—buasai hyn yn eu hattal rhag dysgwyl unrhyw gyflawniad pellach o honi. Ac oddi eithr fod y pryd hyny, fel y meddylwyf y rhaid fod, brofion allanol o barth y llyfr hwnw, mwy nag sydd wedi eu trosglwyddo i lawr hyd atom ni, gallasai darganfyddiad felly fod yn faen tramgwydd yn ffordd Cristionogaeth ei hun, wrth ystyried yr awdurdod a gyssylltai ein lachawdwr (*Mat. xxiv. 15*) â llyfr Daniel, a chymmaint y mae cyfundrefn gyffredinol Cristionogaeth yn rhagdybied ei wirionedd. Ond pe buasai y cyfryw ddarganfyddiad wedi ei wneyd, nid edrychaisid arno ond o ychydig bwys gan ddynion synwrol. Yn awr, os ydyw y rhan a benodwyd ac a gymmerir yn ganiataol fel yn briodol am ddygwyddiadau yn flaenorol i amser Porphyry, maent felly yn ymddangos hefyd am ddygwyddiadau a ganlynasant adfeiliad yr ymherodraeth Rufeinig. Yr wyf yn crybwyll hyn, nid mewn un modd gan fwriadu awgrymu fod dosbarthiad yr ymherodraeth hon yn ddeg o ranau, ynddo ei hunan o un pwys er gwirio y prophwydoliaethau; ond yn unig fel anghraifft

o'r peth sydd dan ein hystyriaeth. Felly, pwnc ein hymchwiliad ydyw, fel y gosodwyd ef i lawr o'r blaen—sef, pa un a ydyw y prophwydoliaethau yn gyfryw ag y gellir eu cymhwyso at Grist ac at sefyllfa bresennol y byd a'r eglwys—a ydynt yn briodol yn dangos i raddau fod rhagwelediad yn bod; nid pa un a ydynt yn alluog o unrhyw gymhwysiad arall, er nad wyf fi yn gwybod am un sail i ddywedyd fod eu gwedd gyffredinol yn briodol am ddim arall.

Yr wyf yn barnu fod y sylwadau hyn yn eithaf teg, a'r prawf y cyfeirir ato ynddynt yn wirioneddol; ar yr un pryd, gall fod llawer yn anfoddlawn i dderbyn y cyfryw wybodaeth amherffaith oddi wrth yr Ysgrythyrau. Nid oes gan rai chwaith ddigon o ddiffuantrwydd ac ymlyniad wrth y gwirionedd, i dalu sylw i brawf, sydd yn cadw y meddwl mewn petrusder, ac efallai, mewn dyrswch, ac o natur wahanol i'r hyn a ddysgwyl-ient. Ac y mae yn gofyn gradd o gymmesuredd ac uniondeb mwy nag sydd gan bob un, i beri i ddyn ddyweyd, nid wrth y byd, ond wrtho ei hun, fod rhywbeth gwirioneddol debyg i bwysigrwydd mawr yn y pwnc hwn, er nad yw yn alluog i'w foddioni ei hun yn drwyadl yn ei gylch; ond ar yr un pryd, y caiff ei ddylanwad priodol arno, yn ol fel yr ymddengys yn wir a phwysig. Y mae yn llawer hawddach, a mwy cydunol â diofalwch, rhyfyg, a byrbwylldra y lluaws, i benderfynu ar unwaith nad oes dim gwirionedd na phwysigrwydd ynddo. Nid wyf yn crybwyll y rhagfarnau a gyfyd oddi ar ddiystyrwch a gwawd hollol, â'r rhai y trinir y prawf yma yn y byd. O blegid pa beth a ellir ddyweyd wrth ddynion sydd yn ddigon gwan eu deall i feddwl fod hyn yn ddim yn ei erbyn; neu, os nad ydynt yn meddwl felly, ydynt eto yn ddigon gwan yn nhymmer eu hysbryd i gael eu dylanwadu, ac effeithio arnynt, gan y cyfryw ragfarnau, ar y cyfryw fater?

Ceisiaf yn awr, yn yr ail le, sylwi ar y ddadl gyffredinol o blaid Cristionogaeth, yr hon a gynnwys y profion uniongyrchol ac amgylchiadol, fel yn gwneyd i fyny un ddadl. Byddai gosod i lawr, a gwneyd ymchwiliad i'r ddadl hon yn gyflawn, yn waith llawer mwy nag a oddefai y traethawd hwn; ac nid yw cym-maint a chrynodeb o honi i'w ddysgwyl oddi wrthym. Eto, y mae y mater presennol yn gofyn rhyw ystyriaeth genym. O blegid hon ydyw y math hwnw o brawf ag y penderfynir y rhan fwyaf o gwestiynau anhawdd mewn ymarferion cyffredin wrthi—prawf yn cyfodi oddi ar amryw o gydgyfarfyddiadau, yn cynnal ac yn cadarnhau eu gilydd, ac yn y modd yma yn profi, gyda mwy neu lai o sicrwydd, y mater dan ystyriaeth. Yr wyf yn

dewis y ddadl hon hefyd, *yn gyntaf*, am yr ymddengys i mi yn beth o'r pwys mwyaf, ond heb ei ystyried yn ddyladwy gan bawb, fod y prawf o blaid dadguddiad yn gynnwysedig, nid yn unig mewn pethau amlwg ac uniongyrchol, ond hefyd mewn amrywiaeth mawr o bethau amgylchiadol; ac er fod pob un o'r profion uniongyrchol ac amgylchiadol i'w ystyried ar wahan, eto y maent wedi hyny i gael eu cyssylltu yn nghyd; yn gymmaint a bod gwir nerth y prawf yn gynnwysedig yn y casgliad neu y canlyniad oddi wrth yr amrywiol bethau hyny, yn cael edrych arnynt yn eu hundeb a'u perthynas â'u gilydd; ac, *yn yr ail le*, am yr ymddengys i mi y rhaid i'r ffeithiau a osodir i lawr yma, yrhai a addefir gan anghredwyr, gael eu haddef hefyd ganddynt fel yn cynnwys gyda'u gilydd radd bwysig iawn o brawf, os gellir eu dwyn i ystyried yr amrywiol bethau hyn yn fanwl ar wahan, ac yna eu hystyried gyda'u gilydd, yn lle meddwl am danynt yn arwynebol a diofal, fel yr arferir gwneyd; o blegid y mae arfer meddwl felly am danynt yn rhwystr i weled eu pwys yn gystal ag i deimlo eu dylanwad ar yr ymarweddiad.

Y peth a haerir, gwirionedd yr hwn yr ydym am ymchwilio iddo, ydyw hyn—fod Duw, er mwyn addysgu ein barn a threfnu ein hymarweddiad, heblaw rhoddi rheswm a theimladau, wedi rhoddi i ni, trwy ddadguddiad allanol, hysbysiad am dano ei hun a'i lywodraeth foisol ar y byd, yn cynnwys sefyllfa ddyfodol o wobrau a chospau; neu ei fod wedi dadguddio cyfundrefn crefydd naturiol; o blegid gall crefydd naturiol gael ei dadguddio yn allanol gan Dduw, fel y gall yr anwybodus gael ei addysgu ynddi gan ddynolryw—fod Duw, meddaf, wedi rhoddi i ni brawf oddi ar ddadguddiad, yn gystal a phrawf rheswm, i'n cadarnhau am y gyfundrefn foisol; yn nghyd â hysbysiad am drefniant neillduol yn ei ragluniaeth nas gallasai rheswm mewn un modd ei chwilio allan; a sefydliad neillduol o grefydd wedi ei seilio arni, tuag at ddwyn yn mlaen adferiad dynolryw o'u cyflwr truenus presennol, a'u dyrchafu i'r perffeithrwydd a'r dedwyddwch priodol i'w natur.

Gellir ystyried y dadguddiad hwn, pa un bynag ai gwirioneddol ynte tybiedig ydyw, fel yn gwbl hanesyddol. O blegid nid yw prophwydoliaeth yn ddim amgen na hanes dygwyddiadau cyn iddynt gymmeryd lle; pynciau o ffaith hefyd ydyw athrawiaethau; ac y mae gorchymynion yn perthyn i'r un dosbarthiad. A gellir dyweyd mai amcan cyffredinol yr Ysgrythyr, sydd yn cynnwys y dadguddiad hwn, a ystyrir fel hyn yn hanesyddol, ydyw, rhoddi hysbysiad i ni am y byd fel byd Duw; ac yn hyn y mae yn gwahaniaethu yn hanfodol oddi wrth bob llyfrau ereill,

mor bell ag y gwelais i, oddi eithr y rhai a gopiwyd o hono ef. Dechreua gyda hysbysiad am waith Duw yn creu y byd, mewn trefn i sicrhau a gwahaniaethu oddi wrth bawb ereill pwy ydyw gwrthddrych ein haddoliad, trwy yr hyn a wnaeth; mewn trefn i hysbysu pwy yw efe, o barth rhagluniaeth, gorchymynion, addewidion, a bygythion, yr hwn y mae yr holl lyfr sanctaidd yn ymdrin—Gwneuthurwr a Meddiannydd y byd, ein Creawdwr ninnau—Duw natur; mewn trefn hefyd i'w wahaniaethu ef oddi wrth eilunod y Cenedloedd, y rhai ydynt naill ai yn fodau dychymygod—*h. y.*, heb fod yn fodau o gwbl—neu yn rhan o'r greadigaeth, hanes pa un a roddir yma. Ac y mae Ioan, fel y mae yn debygol, â'i lygaid ar adroddiad Moses am y greadigaeth, yn dechreu ei efengyl gyda hanes cynhanfodiad ein Iachawdwr, a bod "pob peth wedi eu gwneuthur trwyddo ef; ac hebddo ef ni wnaethpwyd dim a'r a wnaethpwyd" (*Ioan* i. 3.); yn unol âg athrawiaeth Paul, fod Duw "wedi creu pob peth trwy Iesu Grist" (*Eph.* iii. 9). Y mae yr Ysgrythyr, wrth gymmeryd ei holl ranau yn nghyd, fel yn proffesu cynwys math o grynoded o hanes y byd, yn y golygiad a grybwyllwyd yn awr—yn cynnwys hanes cyffredinol o sefyllfa crefydd a'i phroffeswyr, yn ystod parhad yr enciliad hwnw oddi wrth Dduw, a'r ystâd o ddrygioni ag y mae yn mhob lle yn tybied fod y byd yn gorwedd ynddi. Ac y mae yr hysbysiad yma am sefyllfa crefydd yn dwyn gydag ef hysbysiad byr am sefyllfa wladol pethau, fel y mae crefydd yn cael effeithio arni ganddi. Y mae dadguddiad, yn wir, yn ystyried amgylchiadau cyffredin y byd, a'r hyn sydd yn myned yn mlaen ynddo, yn unig fel maes llawn terfysg ac annhrefn; ac nis gellir dysgwyl iddi ymdrafferthu yn nghylch Rhufain, Babilon, Groeg, neu rywle neillduol, a rhagfynegu yr amser pryd y byddai y naill neu y llall o honynt yn uchder ei thrawslywodraeth, a rhwysg mwyaf ei hafradlonedd—nis gellir meddwl, meddaf, am i ddadguddiad roddi un hanes am yr olygfa ddirrefn hon er ei mwyn ei hun. Ond ymddengys ei bod yn rhoddi rhyw drem gyffredinol ar hanes prif lywodraethau y byd, fel yr effeithiwyd neu yr effeithir ar sefyllfa gyffredinol crefydd ganddynt, oddi ar amser y canrifoedd cyntaf, ac yn ystod holl barhad y byd yn ei wedd bresennol, hyd rhyw gyfnod dyfodol y lleferir am dano yn eglur yn yr Hen Destament a'r Newydd mewn amrywiol dulliau ac ymadroddion:—"Yr hwn sydd raid i'r nef ei dderbyn, hyd amseroedd adferiad pob peth, y rhai a ddywedodd Duw trwy enau ei holl sanctaidd brophwydi erioed;" *Act.* iii. 21. "Ond yn nyddiau llef y seithfed angel, pan ddechreuo efe udganu, gorphenir dirgelwch Duw, fel y mynegodd

efe i'w wasanaethwyr y prophwydi;" *Dad.* x. 7. "Ac yn nyddiau y breninoedd hyn, y cyfyd Duw y nefoedd freniniaeth, yr hon ni ddistrywir byth : a'r freniniaeth ni adewir i bobl ereill; ond hi a faluria, ac a dreulia yr holl freniniaethau hyn, a hi a saif yn dragywydd;" *Dan.* vii. 22. "Ac ni bydd nos yno; ac nid rhaid iddynt wrth ganwyll, na goleuni haul; o blegid y mae yr Arglwydd Dduw yn goleuo iddynt: a hwy a deyrnasant yn oes oesoedd;" *Dad.* xxii. 5. "A'r freniniaeth a'r llywodraeth, a mawredd y freniniaeth dan yr holl nefoedd, a roddir i bobl saint y Goruchaf, yr hwn y mae ei freniniaeth yn freniniaeth dragwyddol, a phob llywodraeth a wasanaethant ac a ufuddhant iddo;" *Dan.* vii. 27.

Ar bwys y golygiad cyffredinol hwn ar yr Ysgrythyrau, nis gallwn lai na sylwi ar feithder yr amser y mae yr holl hysbysiad yn gymmeryd i fyny, chwe mil o flyneddoedd o'r hwn sydd bron wedi myned heibio; ac hefyd ar yr amrywiaeth mawr o bethau y traetha am danynt—hanes naturiol a moesol y byd, yn cynnwys yr amser y crewyd ef, a'r oll yn cael ei gynnwys yn y llyfr cyntaf, yr hwn a ysgrifenydd mewn oes anwybodus ac anniwyllyedig; ac mewn llyfrau dilynol, yr amrywiol hanesion cyffredin a phrophwydol, a threfn neillduol Cristionogaeth. Yn awr, y mae yr holl bethau hyn yn nghyd yn rhoddi y fantais helaethaf i feirniadaeth; ac i wrthbrofi yr hyn a ellir ei wrthbrofi, naill ai oddi ar reswm, neu hanesiaeth cyffredin, neu oddi ar anghyssondeb yn ei wahanol ranau. Ac y mae yn ystyriaeth deilwng o sylw hefyd, fod rhai yn dychymygu fod ammhëusrwydd tybiedig y prawf o blaid dadguddiad yn cynnwys dadl benderfynol nad yw yn wir; yn lle hyny, yr wyf yn tybied ei fod, i'r gwrthwyneb, yn cynnwys prawf penderfynol o'i fod yn wir. O blegid pe gellid dwyn dan archwiliad y byd unrhyw adroddiad neu hanes cyffredin o'r fath henafiaeth, eangder, ac amrywiaeth (o blegid yn y pethau hyn y mae grym y sylw yr ydwyf yn awr yn ei wneyd), nas gellid mewn oes ddiwylliedig a rhydd ei wrthbrofi i foddlonrwydd dynion synwryol, meddylid y byddai hyn yn fath o brawf o'i wirionedd. Ac yn wir, byddai yn brawf o hono, yn gyfatebol i'r tebygolrwydd y gallesid, pe buasai yn anghywir, ei ddangos a'i brofi felly; a phrin y ceisir dangos hyn, oddi eithr ar egwyddorion ac mewn ffyrdd o ymresymu, y rhai y dangoswyd eu gwendid o'r blaen.¹ Ac nid ymddengys mewn un modd fod neb sydd yn credu crefydd naturiol yn barnu fod Cristionogaeth wedi cael ei gwrthbrofi yn y dull crybwylliedig. Ond i fyned yn mlaen,

¹Pennod ii. a iii, &c.

Yn chwanegol at drefn foesol y byd, y mae yr Hen Destament yn cynnwys cyfrif amseryddol am ei ddechreuad, ac oddi yno linach ddidor dynolryw am amryw oesoedd cyn dechreuad hanesiaeth gyffredin; ac yn cael ei gario yn mlaen am rhwng tair a phedair mil o flyneddoedd. Cynnwysa hysbysiad am gyfammod a wnaeth Duw â chenedl neillduol, fel y byddai yn bobl iddo, ac y byddai yntau yn Dduw iddi hithau mewn modd neillduol; am ei gyfryngiadau gwyrthiol iddi; rhoddiad yr addewid iddi, ac wedi hyny, y meddiant o'r wlad, a'i sicrhau o'r llwyddiant gwladol mwyaf ynddi, os byddai iddi hi ymlynu wrtho ef, a gwrthod yr eilunod yr oedd y gweddill o'r byd yn eu haddoli; a bygwth y genedl â barnedigaethau na bu eu bath o'r blaen, os anufuddhâi iddo, a syrthio i'r eilunaddoliaeth cyffredinol; fel ag y byddai yr un genedl hon yn destyn sylw a rhyfeddod yr holl fyd. Dywed yn bendant y byddai i'r "Arglwydd ei gwasgaru yn mhlith yr holl bobloedd, o'r naill gwr i'r ddaiar hyd y cwr arall i'r ddaiar;" ond eto "pan ddychwelent at yr Arglwydd eu Duw, y cymmerai drugaredd arnynt, ac y casglai hwynt o fysg yr holl bobloedd y gwasgarodd hwynt yn eu plith;" yr "achubid Israel yn yr Arglwydd âg iachawdwriaeth dragwyddol, ac na chywilyddid hwynt byth bythoedd." Ac fel y mae rhai o'r addewidion hyn yn ammōdol, y mae ereill mor ddiammadol ag y gellir eu mynegu; y deuai yr amser i ben pan y byddai "yr holl bobl yn gyfiawn, ac yr etifeddent y tir byth;" ac "er iddo wneuthur pen am yr holl genedloedd lle y gwasgarwyd hwynt, eto na wnai ben am danynt hwy;" y "dychwelai gaethiwed ei bobl Israel, a'u planu yn eu tir; ac na ddiwreiddiai hwynt mwyach o'r tir a roddes iddynt," ac "na pheidiai had Israel a bod yn genedl ger ei fron yn dragywydd:" *Deut.* xxviii. 64; xxx. 2, 3; *Esay* xlv. 17; lx. 21; *Ier.* xxx. 11; lxvi. 28; *Amos* ix. 15; *Ier.* xxxi. 36. Rhagfynega y cyfodai Duw iddynt ryw berson neillduol, yn yr hwn y cyflawnid ei holl addewidion—y Messiah, yr hwn a fyddai, mewn ystyr uchel ac arbenig, yn dywysog ac yn Iachawdwr eneiniedig iddynt. Rhagfynegwyd hyn yn y cyfryw fodd ag a gynnyrchodd ddysgwyliad cyffredinol am ymddangosiad y fath berson yn y genedl, fel yr ymddengys yn amlwg yn y Testament Newydd, a'r hyn sydd yn ffaith addefedig—dysgwyliad am ei ddyfodiad ar y cyfryw amser penodol, cyn i neb ymddangos i hōni ei fod y person hwnw, a phan nad oedd un sail am y cyfryw ddysgwyliad ond oddi wrth brophwydoliaeth; yr hwn ddysgwyliad, gan hyny, y rhaid, yn ol pob rheswm, ei ddeall yn eglurhad ar y cyfryw brophwydoliaethau, pe bai unrhyw ammheuaeth o barth i'w hystyr. Rhag-

fynega yn mnellach y gwrthodid y person hwn gan y genedl yr addawyd ef er ys cymmaint o amser iddi, er iddo fod hefyd yn ddymuniant ganddi: *Esay* viii. 14, 15; xlix. 5; liii; *Mal.* i. 10, 11; iii. A rhagddyweda yn bendant y byddai yn Iachawdwr y Cenedloedd, a hyd yn oed y byddai cyflawniad y cynllun a gynnwysir yn y llyfr hwn, oedd y pryd hyny wedi ei ddechreu, ac yn cael ei gario yn mlaen, yn beth mor fawr, fel, mewn cymhariaeth iddo, na byddai adferiad yr Iuddewon eu hunain ond peth bychan. “Ac efe a ddywedodd, Gwael yw dy fod yn was i mi, i gyfodi llwythau Iacob, ac i adferu rhai cadwedig Israel: mi a’th roddaf yn oleuni i’r Cenedloedd, fel y byddech yn iachawdwriaeth i mi hyd eithaf y ddaiar.” “A bydd yn y dyddiau diweddaf, fod mynydd tŷ yr Arglwydd wedi ei barotoi yn mhen y mynyddoedd, ac yn ddirchafedig goruwch y bryniau; a’r holl genedloedd a ddylifant ato. Canys y gyfraith a ä allan o Sion, a gair yr Arglwydd o Ierusalem. Ac efe a farna rhwng y cenedloedd. A’r Arglwydd yn unig a ddyrchefir yn y dydd hwnw. A’r eilunod a fwrw efe ymaith yn hollol:” *Esay* xlix. 6; ii. 2, 3, 4, 17, 18; xi; lvi; *Mal.* i., &c. Hysbysa yr Ysgrythyr yn mhellach, fod, yn yr amser yr oedd y Messiah yn cael ei ddysgwyl, person wedi ymddangos yn y genedl hon yn hõni mai efe oedd y Messiah hwnw—y person y cyfeiriai yr holl brophwydoliaethau ato, yn yr hwn y cyfarfyddent oll fel yn eu canolbwynt; ei fod wedi treulio rhai blyneddoedd gan wneuthur gwyrthiau, a chynnysgaethu ei ddysgyblion agosaf a’i ganlynwyr â gallu i gyflawnu yr un gorchwyl, fel tystiolaeth o blaid gwirionedd y grefydd ag yr awdurdododd hwynt i’w chyhoeddi; eu bod, wedi eu gwisgo â’r awdurdod a’r gallu hwn, wedi gwneyd niferi mawr o ddychweledigion mewn parthau pellenig, a sefydlu ei grefydd yn y byd; hyd oesoedd diweddaf yr hwn y proffesa yr Ysgrythyr roddi hanes prophwydol o ystad y grefydd hon yn mysg dynion.

Tybier yn awr am ddydd hollol anwybodus am hanesyddiaeth yn cael ei hysbysu am hyn oll allan o’r Ysgrythyr. Neu, tybier fod yr Ysgrythyr yn cael ei roddi yn nwyllaw y cyfryw un, a’i fod yn sylwi ar y pethau hyn ynddo heb wybod yn amgen nag y gallai yr oll, hyd yn oed ei hanesiaeth wladol, yn gystal a’r rhanau ereill o hono, fod, o’r dechreu i’r diwedd, yn ffugwaith hollol; a’i fod yn gofyn, Pa wirionedd sydd ynddo, a pha un ai gwir ai gau ydyw y dadguddiad a hysbysir ynddo? Ac yn lle derbyn atebiad pendant ac uniongyrchol, meddylier fod y ffeithiau addefedig canlynol yn cael eu mynegu ar unwaith wrtho; ac yna, ei fod yn eu huno oll, ac yn edrych âg un golwg arnynt.

Dyweder wrtho yn gyntaf i ba raddau y mae sefydliad crefydd naturiol, y grediniaeth fod un Duw i'w addoli, mai rhinwedd yw ei ddeddf, ac y gwobrwyir ac y cospir dynion yn y sefyllfa ddyfodol yn ol fel yr ufuddhant neu yr anufuddhant iddi yn bresennol; i ba gynnifer o raddau, meddaf, y mae y broffes o, a sefydliad crefydd naturiol a'r gyfundrefn foesol yma yn y byd yn ddyledus i'r dadguddiad, pa un bynag ai gwir ddadguddiad ynte un ffugiol, a gynnwysir yn y llyfr hwn—sefydliad y gyfundrefn foesol hon, hyd yn oed yn y gwledydd hyny nad ydynt yn addef awdurdod priodol yr Ysgrythyrau. Dyweder wrtho hefyd pa nifer o genedloedd sydd yn addef eu priodol awdurdod. Yna, cymmered i'w ystyriaeth bwysigrwydd crefydd i ddynolryw. Ac ar bwys y pethau hyn, yr wyf yn meddwl y gallai ffurfio y casgliad, mai llwyddiant a derbyniad y dadguddiad hwn—a dybid felly—yn y byd, a'r amgylchiadau a'r effeithiau perthynol iddo, yn cael eu hystyried gyda'u gilydd fel un dygwyddiad, ydyw y dygwyddiad mwyaf hynod a phwysig yn hanes dynolryw. Bod llyfr o'r natur yma, ac yn cael ei argymhell fel hyn i'n hystyriaeth, yn galw, megys â llais o'r nef, am i'w hawliau gael eu chwilio a'u hystyried yn y modd mwyaf difrifol; a'i fod, cyn gwneyd y cyfryw archwiliad, yn drosedd yn erbyn duwiolfrydedd naturiol i'w drin yn ysgafn a gwatwarus. Ond y mae i'w gadw mewn cof mai i ba raddau bynag y mae sefydliad crefydd naturiol yn y byd yn ddyledus i'r dadguddiad Ysgrythyrol, nad ydyw hyn yn dinystrio y profion sydd i'w cael allan trwy reswm, o blaid crefydd, yn ddim mwy nag y mae y profion o *Elfenau Euclid* yn cael eu dinystrio trwy fod dyn yn gwybod na buasai byth yn gweled gwirionedd yr amrywiol osodiadau yn y llyfr hwnw, ac na buasai y gosodiadau hyny yn dyfod byth i'w feddwl, oni buasai i Euclid ei hun eu hamlygu.

Yn y lle nesaf, hysbyser y cyfryw un ag y siaradwn am dano o henafiaeth addefedig y rhanau cyntaf o'r Ysgrythyr, ac nad ydyw ei amscryddiaeth, yr adroddiad a rydd am yr amser y poblogwyd y ddaiar gyntaf, mewn un modd yn cael ei wrthddywedyd, ond yn hytrach ei wir gadarnhau gan hanes naturiol a gwladol y byd, wedi ei gasglu o haneswyr cyffredin, oddi wrth sefyllfa y ddaiar, ac oddi wrth y dyfeisiau diweddar yn y gwyddorion a'r celfyddydau; a chan fod yn yr Ysgrythyr edaf ddidor o hanesiaeth cyffredin a gwladol—o'r cread hyd y caethiwed—cyfnod rhwng tair a phedair mil o flyneddoedd; dyweder wrtho yn y lle nesaf am yr hanes hwn, fel nad yw yn cael ei wrthbrofi, ond ei gadarnhau gan hanesiaeth cyffredin, yn gymmaint ag y gellir dysgwyl yn rhesymol, ar y dybiaeth o'i wir-

ionedd, felly nid oes dim yn yr hell hanes ei hunan i beri i un ammheu gyda dim priodoldeb nad yw yn rhoddi hysbysiad cywir a ffyddlawn am achyddiaeth dynion, ac amgylchiadau ereill. Yr wyf yn cyfeirio yma yn unig at yr hanesiaeth ysgrythyrol cyffredin, fel i'w wahaniaethu oddi wrth yr adroddiadau gwyrthiol a phrophwydol. Yn yr hanes ysgrythyrol, fel yn mhob hanesion ereill, y mae dygwyddiadau dilynol yn cyfodi oddi ar ddygwyddiadau blaenorol. Ni chrybwyllir am ddim wedi ei gyflawnu mewn un oes nad yw yn gydffurf âg arferion yr oes hono; na dim yn hanes oes ddilynol ag y dichon un ddywedyd nas gallasai fod yn wir, oddi wrth hanes yr oes flaenorol. Nid oes dim yn y cymmeriadau hyn ag y gallai un feddwl mai rhai ffugiedig ydynt, ond pob peth ynddynt ac o'u cwmpas yn brofion eu bod yn wirioneddol. Gellir chwanegu hefyd, nad yw llinachau, a hanes noeth am hyd oes rhyw bersonau neillduol, yn ymddangos yn debyg i ffugiaeth; yn hytrach, y mae ynddynt debygolrwydd cryf i wirionedd: a gellid meddwl fod pob hanesiaeth ddiaddurn, heb fod ynddi ddim i synu y darlennydd, yn meddu rhyw radd o debygolrwydd o fod yn wir. Ac y mae yn amlwg fod yr hanesiaeth deuluaidd a gwladol yn eithaf credadwy. Dichon fod dygwyddiadau yn cael eu hadrodd yn yr Ysgrythyr, y rhai, wrth eu cymmeryd yn unig yn y dull noeth yr adroddir hwy, sydd yn ymddangos yn ddyeithrol, yn enwedig i ddynion o arferion, tymmerau, a dygiad i fyny, gwahanol; ond y mae hefyd ddygwyddiadau sydd yn wirioneddau diammheuol, yn mywydau llawer o ddynion, y rhai, yn yr un amgylchiadau, a ymddangosent yn llawn mor ddyeithrol. Gall fod y rhai a gopiasant yr hanesion wedi gwneyd camgymeriadau, neu fod camgymeriadau ereill ymddangosiadol neu wirioneddol, heb fod yn hawdd rhoddi cyfrif am danynt; ond y mae yn sicr nad oes mwy o bethau fel hyn yn yr Ysgrythyrau nag a allesid ddysgwyl mewn llyfrau o'r fath henafiaeth; na dim sydd mewn un modd yn ddigonol i dafu ammheuaeth o barth i'w hanesiaeth gyffredin. Yn awr, y mae y ffaith fod hanes sydd yn hōni ei bod yn dechreu er amser y cread, ac yn ymestyn yn un gyfres ddidor trwy gymmaint o amser a chymmaint o amrywiaeth o ddygwyddiadau, yn meddu y fath wedd o ymddangosiad o wirionedd yn ei holl gyfansoddiad, yn ddiammheu yn amgylchiad nodedig o'i blaid. Ac fel y mae hyn oll yn gyfryw ag y gellir ei gymhwyso at hanes cyffredin y Testament Newydd, felly, y mae tystiolaeth bellach o'r blaid, ac un dra phwysig, yn cael ei rhoddi gan haneswyr cyffredin—llawer o'r rhai oeddynt yn ysgrifenu am yr un amserau, a thrwy hyn yn

cadarnhau gwirionedd yr arferion a'r dygwyddiadau y coffeir yn anfwriadol yn gystal ag yn fwriadol am danynt ynddo. Ac y mae y dystiolaeth yma i wirionedd hanesiaeth gyffredin yr Ysgrythyrau yn dwyn hefyd rhyw dystiolaeth i'w hanes gwyrthiol, yn enwedig felly am fod y gwyrthiol wedi ei chymhlethu â'r gyffredin, fel ag y maent yn tybied ac yn cynnwys eu gilydd, ac yn nghyd yn ffurfio un adroddiad.

Yna, sylwer yn fwy neillduol wrth y dyn yr ydym yn tybied am dano, ei bod yn ffaith addefedig, yr hyn yn wir a gynnwysir yn y sylwadau blaenorol, bod y cyfryw genedl a'r Iuddewon, o'r henafiaeth pellaf, wedi bod, llywodraeth a threfn yr hon a seiliwyd ar y gyfraith y dywedir yn yr Ysgrythyr iddi gael ei rhoddi gan Moses mewn dull goruchel, megys o'r nef; mai crefydd naturiol, eto gyda defodau chwanegol, heb fod yn wrthwyneb iddi, oedd ei chrefydd sefydledig, yr hyn nis gellir ei ddyweyd am y cenedloedd cymmydogaethol; a bod ei hanfodiad fel cenedl yn dibynu ar ei haddefiad o un Duw, sef y Creawdwr. O blegid tybier fod y genedl, yn y caethiwed Babilonaidd, wedi ymgymmeryd â chrefydd ei gorchfygwyr; ni buasai wedi hyny un rhwymyn o undeb yn bod i'w chadw yn genedl ar wahan oddi wrth genedloedd ereill. A thra yr oedd yn ddarostyngedig i'w breninoedd ei hun, yn ei gwlad ei hunan, buasai llwyr wrthgiliad oddi wrth Dduw yn ddadgyfansoddiad ar ei llywodraeth. Addefai ac addolai Greawdwr nefoedd a daiar, fel yr oedd yn genedl, pan oedd y gweddill o'r byd wedi suddo mewn eilunaddoliaeth, yn y fath fodd ag i'w gwneyd yn bobl briodol a neillduedig Duw. Ac ymddengys fod sefydliad a chadwraeth arbenig crefydd naturiol yn eu mysg yn dwyn tystiolaeth chwanegol o blaid y profion am wyrthiau Moses a'r prophwydi, am fod y gwyrthiau hyny yn esboniad cyflawn a boddlonol o hyn, yr hyn sydd yn gofyn esboniad arno; ac yn gyfryw nas gellir rhoddi un esboniad arall arno.

Yn mhellach, hysbyser y dyn hwn—yr hwn a dybir sydd yn gwbl anwybodus o hanesyddiaeth—fod person yn hōni mai efe oedd y Messiah, o darddiad Iuddewig, wedi cyfodi yn yr amser yr oedd y genedl, oddi wrth y prophwydoliaethau crybwylledig, yn dysgwyl am y Messiah; ei fod wedi ei wrthod—fel yr ymddengys y rhagfynegwyd y byddai—gan gorff y genedl trwy gyfarwyddyd ei blaenoriaid; yn ystod ychydig flyneddoedd, ei fod wedi cael ei dderbyn fel y Messiah addawedig gan niferi mawr yn mhlith y Cenedloedd, yn unol â phrophwydoliaethau yr Ysgrythyr, eto, nid ar sail prophwydoliaeth, ond ar yr eiddo gwyrthiau, am y rhai y mae genym brofion hanesyddol cedyrn

(wrth y rhai nid wyf yn meddwl yn awr ddim mwy nag y rhaid i anghredwyr addef; o blegid gadawer fod twyll a ffoleddau yn gwanhau, eto y mae yn afresymol dywedyd eu bod yn dinystrio ein prawf o wyrthiau wedi eu gwneuthur er cadarnhau Cristionogaeth): fod y grefydd hon, trwy ganmawl ei hunan wrth reswm dynion, a chario ei phrawf ynddi ei hun, wedi llwyddo yn raddol, ac ymgynnal am gan mlynedd a mwy; nid yn unig heb dderbyn un cynnorthwy gan allu gwladol, ond o dan, ac er gwaethaf, y rhwystrau mwyaf, a'r erlidiau chwerwaf oddi wrtho; ac wedi hyny wedi dyfod yn grefydd y byd: yn y cyfamser, fod y genedl a'r llywodraeth Iuddewig wedi eu dinystrio mewn modd hynod, a'r bobl wedi eu caethiwo a'u gwasgaru trwy wledydd pellenig; yn yr ystad yma o wasgariad, y maent bellach er ys mwy na phymtheg cant o flyneddoedd; a'u bod yn aros yn bobl luosog—yn un yn eu mysg eu hunain—ac yn wahanedig oddi wrth genedloedd ereill, fel yr oeddynt yn nyddiau Moses, ac yn cael edrych arnynt mewn modd nas gall neb ei fynegu yn gystal ag yn y geiriau prophwydol a lefarwyd gynnifer o oesau cyn iddo ddyfod i ben,—“A byddi yn syndod, yn ddiareb, ac yn watwargerdd yn mhlith yr holl bobloedd, y rhai yr arwain yr Arglwydd di atynt;” *Deut.* xxviii. 37.

Gallai rhai feddwl fod yr hyn a ymddengys yn wyrth barhaus, yn y ffaith fod yr Iuddewon yn parhau yn bobl wahanedig yn eu gwasgariad, a'r cadarnhad a rydd hyn, mewn ymddangosiad, fodd bynag, i wirionedd dadguddiad, yn cael ei ateb gan hyn;—fod eu crefydd yn gwahardd iddynt briodi â phersonau o genedloedd ereill, ac yn gorchymyn iddynt lawer o bethau neillduol mewn bwydydd, trwy yr hyn y lluddir hwynt i ymgorffori â'r bobl y trigant yn eu gwlad. Ond nid wyf yn gweled hyn yn gyfrif boddlonol am yr hyn y ceisir rhoddi cyfrif am dano. Ond am ba beth yr hōna roddi cyfrif? Ai y cyfatebiad rhwng y dygwyddiad hwn a'r prophwydoliaethau; ynte cydsafiad y naill a'r llall â goruchwyliaeth faith mewn rhagluniaeth, o nodwedd arbenig, tuag at y bobl hyny gynt? Nag e. Y dygwyddiad ei hunan yn unig a geisir ei esbonio yn y dull yma, yr hyn, ynddo ei hun, ar wahan oddi wrth y cyfryw gyfatebiad a chydsafiad, na buasai, efallai, yn ymddangos yn wyrthiol; ond gall y cyfatebiad a'r cydsafiad fod felly, er i'r dygwyddiad ei hun beidio a bod. Fel hyn, y mae cydrediad genedigaeth yr Iachawdwr yn Bethlehem â'r prophwydoliaethau a'r cydgyfarfyddiadau a aethant o'r blaen, yn wyrthiol tu hwnt i ammheuaeth, os cydnabyddir y prophwydoliaethau, y cydgyfarfyddiadau ereill, a'r dygwyddiad ei hun; er bod y dygwyddiad ei hun, a'i

enedigaeth yn y lle hwnw, yn ymddangos fel wedi ei ddwyn o amgylch mewn ffordd naturiol—o'r hyn, fodd bynag, nis gall neb fod yn sicr.

Ac fel yr ymddengys fod llawer o'r dygwyddiadau hyn wedi gwirio rhai o'r prophwydoliaethau eisioes, felly, gellir eu hys-tyried yn mhellach fel yn cyfeirio tuag at eu llwyr gyflawniad—fel yn rhoddi sail i gredu y cyflawnir yr oll o honynt ryw amser neu gilydd. Fel hyn,—bod yr Iuddewon wedi cael eu cadw mor rhyfeddol yn eu gwasgariad maith, yr hyn yn wir sydd yn gyflawniad uniongyrchol o rai prophwydoliaethau, ond a grybwyllir yn awr yn unig fel y mae yn cyfeirio yn mlaen at ryw- beth eto i ddyfod—bod crefydd naturiol wedi dyfod allan o Iudea, ac ymlodaenu yn y graddau ag y gwnaeth dros y byd oedd o'r blaen wedi suddo mewn eilunaddoliaeth; yr hyn, yn nghyd â phethau ereill, a hynododd y lle hwnw, fel y mae ei drigolion yn hynod—bod y cyfnewidiad mawr yma ar grefydd dros y byd wedi ei ddwyn oddi amgylch trwy gyffesu mai yr Iesu oedd y Messia addawedig :—y mae pethau o'r natur yma yn cyfeirio meddyliau dynion difrifol yn naturiol at gyflawniad llwyr y prophwydoliaethau yn nghylch adferiad cyflawn y genedl—yn nghylch sefydliad y deyrnas dragwyddol yn eu mysg, teyrnas y Messia, a chyflwr dyfodol y byd dan ei lywodraeth sanctaidd. Nid ystyrid, mi dybiaf, y cyfryw ddygwyddiadau, wrth eu cyferbynu â'r prophwydoliaethau hyn, yn ddibwys yn y ddadl, gan un dyn ar yr hysbysiad cyntaf a gai o honynt. Cytunant â'r prophwydoliaethau am bethau sydd eto i ddyfod, rhoddant dystiolaeth chwanegol o'u plaid, ac ymddangosant fel yn cyfeirio at eu llwyr gyflawniad.

Ac yn wir, y mae yn angenrheidiol wrth raddau helaeth o wybodaeth, pwyll, ac ystyriaeth, i fod yn gymhwys i farnu yn drwyadl am y prawf o blaid Cristionogaeth, oddi wrth y rhan hono o'r prophwydoliaethau sydd yn perthyn i sefyllfa teyrnas- oedd y byd, a chyflwr yr eglwys, o sefydliad Cristionogaeth hyd yr amser presennol. Ond, wrth gymmeryd golwg gyffred- inol arno, y mae yn ymddangos yn dra phwysig. Ac y mae dynion a wnaethant ymchwiliad trwyadl i'r prawf hwn—ac yr oedd rhai o honynt yn ddynion o'r dymmer fwyaf pwylllog, y galluoedd eangaf, yn dra phell oddi wrth gael eu cyfrif yn agored i ragfarnau—yr oeddynt yn hōni yn gryf ei fod yn gwbl ben- derfynol ac anwrthwynebol.

Meddylier yn awr am ddyn cwbl anwybodus o hanesyddiaeth yn galw i gof y rhanau a ddyfynwyd uchod o'r Ysgrythyr, heb wybod nad ffugwaith diweddar oedd y cwbl; yna, yn cael ei

hysbysu am y ffeithiau cyfatebol a grybwyllwyd yn awr; a'i fod yn edrych arnynt yn eu cyssylltiad â'u gilydd; fod derbyniad a sefydliad crefydd naturiol yn y byd, i raddau mawr, yn ddyledus i'r llyfr hwn, a'r dadguddiadau a gynnwysa; yr addefir ei fod yn llyfr o'r henafiaeth mwyaf; fod ei amseryddiaeth a'i hanesiaeth cyffredin yn gwbl gredadwy; fod yr hen genedl hon, yr Iuddewon, am y rhai yr ymdrina yn benaf, wedi bod yn bobl Dduw mewn ystyr arbenig; fod un wedi cyfodi, gan hōni mai efe oedd y Messia, ar yr adeg yr oedd dysgwyliad oddi wrth y prophwydoliaethau am y Messia; ei fod wedi ei wrthod gan y genedl hon, ond ei dderbyn gan y Cenedloedd, nid ar sail prawf prophwydoliaeth, ond ar sail prawf gwyrthiau; fod y grefydd a addysgai wedi ymgynnal dan yr anhawsderau mwyaf, wedi ennill tir, nes o'r diwedd ddyfod yn grefydd y byd; ac yn y cyfamser, fod y wladwriaeth Iuddewig wedi ei llwyr ddinystrio, a'r genedl wedi ei gwasgaru dros wyneb y ddaiar; ac eto, er hyny, eu bod wedi parhau yn bobl luosog, a gwahanedig am gynifer o ganrifoedd hyd y dydd heddyw, yr hyn, nid yn unig a ymddengys yn gyflawniad cywir o lawer o brophwydoliaethau, ond hefyd sydd yn ei gwneyd yn eithaf posibl, fel yr ymddengys yn amlwg, i'r addewidion a wnaethpwyd iddynt fel cenedl gael eu cyflawnu eto. Ac yn chwanegol at y gwirioneddau addefedig hyn, ystyried y person yr ydym yn tybied fod y sylwadau yn cael eu gwneyd wrtho, fel y mae sefyllfa y byd, a chyflwr yr Eglwys Gristionogol, wedi, ac yn cyfateb i, brophwydoliaeth. Tybier, meddaf, fod y ffeithiau hyn yn cael eu dal gyferbyn a'r ymadroddion ysgrythyrol a ddyfynwyd, ac yn cael eu cymharu yn ofalus â hwynt, y mae yn rhaid yr ymddangosent yn eu cyssylltiad â'u gilydd yn dra phwysig i ddyn ystyriol; ac yn wir yn llawer mwy pwysig i ddyn ar ei gydnabyddiaeth cyntaf, nag y gallwn ni sydd wedi cynnefino â hwynt ddychymygu, heb roddi sylw ac astudrwydd neillduol i'r perwyl hwnw.

Y mae yn angenrheidiol i'r holl bethau hyn, a'r amryw neillduolion o barth iddynt, gael eu hystyried a'u chwilio, bob un ar wahan, ac yn y modd mwyaf trwyadl, fel y galler barnu yn briodol beth yw pwys pob un o honynt, a thynu y casgliadau a ganlynant oddi wrth eu nerth unedig.¹ Ond nid amcanwyd

[¹ Gellir symio i fyny sylwadau Butler ar brofion uniongyrchol a chyfochrog Cristionogaeth fel y canlyn:—

1. Dylid rhoddi ystyriaeth i bob prawf ar ei ben ei hun, a thynu y casgliad oddi wrth eu grym wedi eu huno yn nghyd.
2. Wrth edrych ar yr oll brofion yn gasgledig, y mae yn rhaid hyd yn oed anghredwyr addef fod rhywbeth uwch law dynol yn yr hyn a brofant.
3. Dylid sylwi ar y gradd uchel o brawf a gyfyd oddi ar edrych ar y profion

gwneyd hyny yma. Nid aethom yn mhellach na dangos fod yr olwg gyffredinol amherffaith a roddais arnynt, y prawf hanesyddol addefedig o blaid gwyrthiau, a'r amrywiol ddygwyddiadau a ymddangosant yn gyflawniad ar brophwydoliaeth, a'r amrywiol bethau cyfochrog, heb fod yn disgyn dan y penau o wyrthiau na phrophwydoliaeth—fod yr holl bethau hyn yn nghyd, y rhai, am eu bod yn ffeithiau y mae yn rhaid i anghredwyr eu haddef—yn ffurfio prawf gwirioneddol fod rhywbeth mwy na dynol yn y peth—prawf llawer pwysicach nag y gall dynion diofal, heb fod yn feddiannol ar ddim ond golygiadau amherffaith ac arwynebol am dano, byth ei ddychymygu; a phrawf sydd yn ddigonol i weithredu oddi arno. A rhaid, mi feddyliwn, i anghredwyr addef y pethau hyn. O blegid er y dichon iddynt ddyweyd nad ydyw y prawf hanesyddol o blaid gwyrthiau, a wnaed er cadarnhau Cristionogaeth, yn ddigonol i'w hargyhoeddi fod y cyfryw wyrthiau wedi eu gwneuthur mewn gwirionedd, nis gallant wadu fod y cyfryw brawf hanesyddol, gan ei fod yn ffaith. Gallant ddywedyd mai damwain yn unig ydyw cydrediad y prophwydoliaethau â'r dygwyddiadau; ond y mae llawer o anghreiffiau nas gellir gwadu bod y cyfryw gydrediad yn amlwg ynddynt. Gallant ddywedyd gyda golwg ar bethau cyfochrog, fel y rhai a nodwyd, y gall pobl ddychymygu weled ystyr mewn dygwyddiadau damweiniol, heb ynddynt un ystyr, ac y gwnant allan gydgylfarfyddiadau fil i ffafrio eu ffoleddau. Gall dynion, mi a addefaf, siarad fel hyn; ond nis gall un dyn difrifol feddwl fod y pethau hyn yn gwbl ddibwys, os ystyria bwysigrwydd pethau cyfochrog ac amgylchiadol yn y dystiolaeth oddi ar debygolrwydd, fel y mae yn wahaniaethol mewn natur oddi wrth y dystiolaeth oddi ar brawf penderfynol. Y mae yn wir fod yn ofynol cael y farn gywiraf er penderfynu gyda manylrwydd pa beth ydyw nerth prawf amgylchiadol; ond y mae yn fynych yn llawn mor argyhoeddiadol a phrawf eglur ac uniongyrchol.

Wrth ystyried yr olwg gyffredinol yma ar brawf Cristionogaeth fel yn ffurfio un ddadl, gall hefyd wasanaethu fel annogaeth i ddynion difrifol i gadw mewn cof ac ystyriaeth bob peth a feddyliant o unrhyw wir bwys yn y ddadl, ac yn enwedigol, yr mewn undeb â'u gilydd; o blegid y maent, nid yn unig yn cryfhau, ond yn lluosogi y prawf (*=they not only increase it, but multiply it*).

4. Y mae camsyniad ar du gwrthod Cristionogaeth yn llawer mwy peryglus nag ar y tu arall; ac y mae yn deg dewis y llwybr diogelaf.

5. Y mae gwirionedd Cristionogaeth yn dibynu ar yr holl brofion wrth eu cymmeryd gyda'u gilydd. Y mae Cristionogaeth yn wir, oddi eithr y gellir yn rhesymol ystyried fod yr holl gyfres o ffeithiau, a phob ffaith neillduol, yn gwbl ddygwyddiadol.]

hyn a ymddengys yn gyflawniad o brophwydoliaeth; a gwelant—wrth farnu yn ol y rheolau naturiol wrth ba rai y bernir prawf oddi ar debygolrwydd mewn achosion cyffredin—eu bod yn ffurfio gradd llawer uwch o brawf, wrth gael eu golygu gyda'u gilydd, nag a allesid tybied wrth eu hystyried ar wahan, ar wahanol amserau. O blegid y mae profion oddi ar debygolrwydd, wrth gael eu casglu at eu gilydd, nid yn unig yn chwanegu y prawf, ond yn ei luosogi.¹ Ac ni cheisiwn ber swadio neb i beidio sylwi ar, ac ystyried, yr hyn a feddyliai ar yr ochr wrthwynebol. Ond eto, dylid cofio, nid i'r dyben o ddylanwadu ar ei farn, ond ar ei ymarferiad, y gall camsyniad ar un llaw fod yn llawer mwy peryglus yn ei ganlyniadau na chamsyniad ar y llall. A pha gwrs ydyw y mwyaf diogel, a pha un yw y mwyaf peryglus, sydd ystyriaeth a deimlir yn dra phwysig, pan fyddwn yn ymbwyllo, nid uwch ben dygwyddiadau, ond uwch ben ein ymddygiad mewn achosion tymmorol. Mae cael ein dylanwadu yn ein barn gan yr ystyriaeth yma—credu neu anghredu ar ei phwys—yn gymmaint esampl o ragfarn a dim. Ac fel rhagfarnau ereill, gweithreda yn wahanol mewn gwahanol bersonau; o blegid y mae rhai yn dueddol i gredu yr hyn a obeithiant; ereill, yr hyn a ofnant. Ac y mae yn beth amlwg afresymol appelio at nwydau dynion i'r dyben o ennill eu cydsyniad. Ond mewn ymbwylliad yn nghylch ymddygiad, nid oes dim mwy rhesymol i'w gymmeryd dan ystyriaeth na'r pwysigrwydd sydd ynddo. O blegid meddylier ei fod yn

[¹“Y mae yn ymddangos i mi yn anmhosibl mewn un ystyr (*morally impossible*) fod cynnifer o fathau gwahanol o brofion, a'r cwbl mor gryfion, yn rhoddi eu cyd-gynnorthwy, ac yn uno eu cyd-nerth, i sefydlu a chadarnhau twyll.”—*Wilberforce's Practical View*. “Pe gallasai dyfais ddynol, neu ddygwyddiad, roddi i Gristionogaeth rhyw un o'i thystiolaethau, nis gellir credu na dychymygu i'r holl dystiolaethau gael eu huno â'u gilydd gan un o'r cyfryw achosion. Pe gallasai ystryw llwyddiannus gynllunio a dwyn oddi amgylch ei gwyrthiau cyhoeddus, neu bethau tebyg iddynt, byddai ystryw a dyfais pellach, ac adnoddau newyddion yn angenrheidiol i gyfaddasu ei phrophwydoliaethau at yr un amcan. Yn mhellach, yr oedd yn rhaid, nid yn unig wrth fedrusrwydd gwahanol, ond wrth gymmeriad hollol wrthwyneb, i lunio ac i ledaenu ei moesau ardderchog. Yr oedd y ffaith o'i lledaeniad hefyd yn ngwyneb gwrthwynebiad galluoedd y byd yn tybied fod y rhai a wnaethant hyn yn feddiannol ar yni a chymhwysderau gweithgar ereill na pherthynent i'r gwaith blaenorol. Yn ddiweddf, y mae y dysgrifiad o fywyd a chymmeriad ei Sylfaenydd yn waith o'r fath wreiddioldeb a doethineb, nas gallasai fod yn gynnyrch dim ond gallu a gwybodaeth berffaith. Sefyllfa y prawf o blaid Cristionogaeth yw hyn:—y mae tystiolaeth ddiamwys i wyrthiau Cristionogaeth: y mae ganddi hefyd brawf oddi ar brophwydoliaeth; y mae amlygiadau eglur ereill o darddiad dwyfol ynddi hi ei hun. Ac nis gallasai dim ond gwirionedd gynnyrchu yr holl dystiolaethau hyn; ac nis gall dim yn awr ond gwirionedd Cristionogaeth roddi cyfrif am eu hanfodiad.”—*Davison on Prophecy*.]

ammheus pa beth a fyddai canlyniad gweithredu yn y dull yma neu ddull gwrthwyneb; eto, rhaid yr ystyrid hyn—na byddai ond ychydig, os dim, canlyniad drwg wrth gymmeryd y dull hwn, ac y byddai y canlyniad mwyaf anhapus yn nglyn â'r llall—rhaid yr ymddangosai hyn i feddwl diragfarn yn beth o'r pwys mwyaf tuag at benderfynu pa fodd i weithredu. Ond y mae gwirionedd ein crefydd, yr un modd a gwirionedd pethau cyffredin, i gael barnu am dano gan yr holl brofion yn unedig. Ac oddi eithr y gellir meddwl fod yr holl bethau a ddygwyd yn mlaen yn y ddadl, ac a ellir eu dwyn, wedi cymmeryd lle trwy ddamwain (o blegid yma y gorwedd nerth y ddadl dros Gristionogaeth); yna, y mae y gwirionedd wedi ei brofi: fel mewn rhyw achos cyffredin, pe bai lluaws o ddygwyddiadau addefedig yn cael eu dwyn yn mlaen fel prawf o rhyw ddygwyddiad arall fyddai mewn dadl; profid gwirionedd y dygwyddiad mewn dadl, nid yn unig os byddai rhyw un o'r dygwyddiadau addefedig o hono ei hun yn ei gadarnhau yn eglur; ond, er na byddai un o honynt o hono ei hun yn gwneyd hyny, os nad ellid tybied y buasai yr oll o'r dygwyddiadau addefedig, wrth eu cymmeryd gyda'u gilydd, wedi cymmeryd lle, oddi eithr i'r dygwyddiad ammheus fod yn wirionedd.

Y mae yn amlwg pa faint o fantais y mae natur y prawf hwn yn ei roddi i'r dynion hyny sydd yn ymosod ar Gristionogaeth, yn enwedig mewn ymddyddanion. O blegid y mae yn hawdd dangos, mewn dull byr a bywiog, fod y peth yma a'r peth arall yn agored i wrthddadleuon—nad ydyw y naill beth a'r llall ond dibwys ynddynt eu hunain; ond y mae yn anhosibl dangos yn yr un dull nerth a chadernid unedig yr holl ddadl wrth edrych arni yn ei chyfanrwydd.

Ond, yn ddiweddaf, fel y dangoswyd nad oes un rheswm yn erbyn dadguddiad fel yn wyrthiol; fod trefn gyffredinol Cristionogaeth, a'i rhanau arbenig, yn gydunol â chyfansoddiad pethau, a'r cyfan yn berffaith gredadwy; felly, y mae y sylwadau a wnaed yn awr ar y prawf penderfynol o'i phlaid yn dangos fod y prawf hwn yn gyfryw o ran ei natur nas gellir ei ddinystrio, er iddo gael ei leihau.

PENNOD VIII.

AM Y GWRTHDDADLEUON A ELLID EU CYFODI YN ERBYN
YMBRESYMU ODDI WRTH GYFATEBIAETH NATUR AT
GREFYDD.

Pe yr ystyriai pob un gyda'r dyfalwch a'r gwyliadwriaeth dyladwy pa beth y maent yn ei farnu, ni byddai cymmaint o angenrheidrwydd am y bennod hon. Ond gan nad yw hyn i'w ddysgwyl, yn gymmaint a bod rhai yn ddifater am ddeall hyd yn oed yr hyn a ysgrifenant yn ei erbyn; gan fod y traethawd hwn fel traethodau ereill yn agored i wrthddadleuon a allent ymddangos yn dra phwysig i ddynion meddylgar ar yr olwg gyntaf; ac heb law hyny, gan ei fod yn fwy agored fyth i wrthddadleuon y dynion a allant farnu heb feddwl, a beio heb farnu, ni byddai yn anmhriodol nodi ac ystyried y prif wrthddadleuon a ymgynnygiant i fy meddwl i. Y maent fel y canlyn:—

Mai gorchwyl salw ydyw ceisio symmud anhawsderau mewn dadguddiad trwy ddyweyd fod yr un anhawsderau mewn crefydd naturiol; gan mai yr hyn sydd eisieu ei wneyd ydyw, symmud yr anhawsderau sydd yn perthyn iddynt yn gyffredin, ac i'r naill a'r llall: ond ei bod yn ffordd ddyeithrol i argyhoeddi dynion am rwymedigaethau crefydd, trwy ddangos iddynt fod ganddynt gan lleied o reswm dros eu hymdrafodaeth bydol; ac yn ffordd ddyeithrol i amddiffyn uniondeb a daioni Awdwr natur, a symmud y gwrthddadleuon yn erbyn y naill a'r llall, i'r rhai y mae cyfundrefn crefydd yn agored, trwy ddywedyd fod yr un gwrthddadleuon yn ymddangos hefyd yn erbyn rhagluniaeth naturiol—ffordd o ateb gwrthddadleuon yn erbyn crefydd, heb gymmaint a cheisio profi fod ei chyfundrefn, neu y neillduolion ag y dadleuir yn eu herbyn ynddi, yn rhesymol, mae yn rhaid, yn enwedigol, fel y gall rhai fod yn ddigon difeddwl i ddywedyd, fod hyn yn ddyeithrol, pan yr addefir nad yw cyfatebiaeth yn un atebiad i'r cyfryw wrthddadleuon: pan ddygir y dull yma o resymu i'w eithafion pellaf, bydd iddo, er hyny, adael y meddwl mewn ystâd betrusgar ac ammheus; a bod dychymygu y gellir llwyddo gyda dynolryw i ymadael â'u buddiannau a'u pleserau presennol, oddi ar ystyriaethau crefyddol, a hyny ar sail profion ammheus, yn arddangos graddau helaeth o anwybodaeth ar, a diffyg adnabyddiaeth o, ddynolryw.

Yn awr, er mor deg y gall y dull yma o siarad ymddangos, mae yn hawdd gweled fod yr ymddangosiad o degwch a phriodoldeb sydd ynddo i'w gyfrif i olygiadau hannerog am ran o'r pwnc, ac i iaith amhenderfynol. Trwy hyn, y mae dynion o feddyliau gweiniaid yn cael eu twyllo yn fynych gan ereill, a dynion o feddyliau gwammal, ganddynt eu hunain. A hyd yn oed, nis gall dynion difrifol a phwyllog bob amser ymryddhau yn rhwydd, a gweled ar unwaith trwy yr anhawsderau sydd yn cylchynu y pynciau eu hunain; a'r rhai a fwyheir gan annigonolrwydd geiriau, a'r camddefnydd a wneir o honynt. I'r dynion hyn, gall yr atebiad canlynol i wahanol ranau yr wrthddadl fod o wasanaeth, fel y gall hefyd dueddu i ddystewi ereill.

Yn gyntaf, y peth a geisia dynion ydyw gweled pob anhawsder wedi ei symmud.¹ Ac y mae hyn, neu gall fod, am ddim a wyddom i'r gwrthwyneb, yr un peth a gofyn, a cheisio dirnad ac amgyffred y natur ddwyfol, a holl gynllun rhagluniaeth o dragwyddoldeb i dragwyddoldeb. Ond y mae bob amser yn ganiataol rhesymu oddi wrth yr hyn a addefir at yr hyn a ddadleuir. Ac nid yw rhesymu oddi wrth grefydd naturiol at y ddadguddiedig yn llwybr isel a salw, fel y dadleuwyd, mwy nag ydyw rhesymu mewn amgylchiadau afrifed, mewn materion cyffredin ymddygiad, yr hyn yr ydym yn wastadol dan angenrheidrwydd o wneyd. Yn wir, yr wyf yn ofni y gellir cymhwyso y gair *salw* mor briodol at luaws o bethau mewn bywyd ag at y pethau a nodir yn yr wrthddadl uchod. Onid peth salw ydyw fod gan y meddyg goreu mor lleied o wybodaeth yn ngwellhad clefydau? Onid peth salw ydyw gweithredu oddi ar dybiaeth a dyfaliad, pan y mae bywyd dyn yn y cwestiwn? Diammheu ei fod felly; nid ychwaith felly mewn cymhariaeth i fod yn amddifad o bob medr yn y gelfyddyd werthfawr hono, fel ag i fod dan rwymau i weithredu yn hollol yn y tywyllwch.

Yn mhellach, gan ei fod yn beth afresymol, yn gystal a chyffredin, dwyn yn mlaen wrthddadleuon yn erbyn dadguddiad, y rhai ydynt yr un mor rymus yn erbyn crefydd naturiol, a bod y

[¹ Y mae y dymuniad hwn am ddeall yn berffaith, am i'n holl anhawsderau gael eu symmud, yn duedd naturiol, ond nid yw yn duedd ganmoladwy: y mae yn cyfodi oddi ar falchder y galon lygredig, ac y mae yn wrthwyneb i ysbryd ffydd. Hanfod ffydd ydyw mai â'r anweledig y mae a wnelo; a phe buasai holl gynghorion Duw a holl gyssylltiadau trefn gras wedi eu dwyn i lawr at amgyffrediad y deall dynol, ni buasai yn ein natur le mwyach i ffydd. Mae y dadguddiad dwyfol wedi ei roddi i ni yn y cyfryw fodd ag i wrthweithio y duedd hon. Amlygir i ddyn gymmaint o gynghor Duw ag sydd ddigonol i ddefro ei ddyddordeb ynddynt, a'i ymchwiliad iddynt; ond nid oes digon wedi ei ddadguddio fel ag i wneyd ffydd yn ddiangenrhaid. Y mae Butler yn siarad am y duedd grybwyllledig mewn geiriau tra dirmygus.]

rhai sydd yn gwneyd hyn yn ymddwyn yn annheg at ereill, os nad ydynt eu hunain mewn dyrswch, trwy beri iddynt feddwl nad ydynt ond yn dadleu yn unig yn erbyn dadguddiad, neu athrawiaethau neillduol ynddo, pan y maent mewn gwirionedd yn dadleu yn erbyn llywodraeth foesol; gan mai fel hyn y mae yr achos yn sefyll, y mae o bwys dangos fod y cyfryw wrthddadleuon yn annelu mor uniongyrchol at grefydd naturiol ag at grefydd ddadguddiedig. Ac y mae gwrthddadleuon, y rhai ydynt yr un mor briodol yn erbyn y naill a'r llall, yn cael eu hateb, trwy ddangos eu bod felly—yr un mor briodol yn erbyn y naill a'r llall—a chaniatau yr addefir gwirionedd y cyntaf, sef crefydd naturiol. Ac heb gymmeryd dan ein hystyriaeth pa mor eglur y mae hyn yn cael ei addef, y mae o bwys i ni sylwi, mai fel y mae y pethau y dadleuir yn eu herbyn mewn crefydd naturiol yn bethau o'r un natur a'r hyn y gwyddom trwy brofiad am danynt yn nghwrs rhagluniaeth, ac yn y wybodaeth a rydd Duw i ni o barth ein llesâd tymmorol dan ei lywodraeth, felly y mae y gwrthddadleuon yn erbyn cyfundrefn Cristionogaeth, a'r profion o'i phlaid, o'r un natur a'r rhai a wneir yn erbyn cyfundrefn a phroffion crefydd natur. Pa fodd bynag, gall y darlennydd, wrth fwrw golwg, weled nad yw y nifer mwyaf o'r cyfatebion a wnaed hyd yn oed yn y rhan ddiweddaf o'r traethawd hwn, mewn un modd yn gofyn am i fwy gael ei gymmeryd yn ganiataol, nag sydd yn y cyntaf—fod Awdwr yn bod i natur, neu lywodraethwr naturiol ar y byd; ac y mae Cristionogaeth yn cael ei hamddiffyn, nid oddi ar ei chyfatebiaeth i grefydd naturiol, ond yn benaf oddi ar ei chyfatebiaeth i gyfansoddiad natur, yr hwn yr ydym yn ei adnabod trwy brofiad a sylwad-aeth.

Yn ail, Y mae crefydd yn beth ymarferol, ac yn gynnwysedig yn y cyfryw ymddygiad ag a orchymynir, fel y mae yn rhesymol meddwl, gan Awdwr Natur; yr hwn ymddygiad, ar y cyfan, a fydd yn foddion dedwyddwch i ni fel deiliaid ei lywodraeth. Yn awr, os gellir argyhoeddi dynion fod ganddynt yr un rheswm dros gredu hyn ag sydd ganddynt i gredu y bydd cymmeryd gofal o'u hamgylchiadau bydol yn fantais iddynt, nis gall y cyfryw argyhoeddiad lai na bod yn ddadl dros iddynt ymarfer crefydd. Ac os oes rhyw reswm dros gredu un o'r rhai hyn, ac ymdrechu i gynnal bywyd, a sicrhau i ni ein hunain angenrheidiau a chysuron bywyd, y mae felly reswm hefyd dros gredu y llall, ac ymdrechu sicrhau y lleshad a gynnygia i ni. Ac os yw buddiannau crefydd yn anfeidrol fwy na'n holl fuddiannau tymmorol, yna, yn gyfatebol i hynny, y mae y rheswm yn gryfach

gros sicrhau y naill na sicrhau y llall. Y mae yn amlwg fod hyn yn anatebadwy, a bod ynddo duedd i ddylanwadu meddyliau diragfarn, y rhai sydd yn ystyried pa beth mewn gwirionedd ydyw ein sefyllfa, neu ar ba fath o brawf yr ydym wedi ein gosod yn naturiol i weithredu, a'r rhai sydd yn foddllawn ar y telerau ar y rhai yr ydym yn byw, ac yn sylwi ar, ac yn dilyn yr addysg ymarferol hwnw a roddir i ni, pa beth bynag ydyw.

Ond gorwedda nerth mwyaf y ddadl y cyfeiriwyd ati yn yr wrthddadl mewn lle arall. O blegid dywedir fod prawf crefydd yn cael ei gylchynu gan y fath anhawsderau anorfod ag sydd yn ei gwneyd yn ammheus ac anhenderfynol, ac nas gellir meddwl y gadawsid y prawf, pe buasai yn wir, ar dystiolaeth ammheus. Felly, heb law nerth pob anhawsder neu wrthddadl, y mae yr anhawsderau a'r gwrthddadleuon hyn gyda'u gilydd yn cael eu troi yn ddadl benderfynol yn erbyn gwirionedd crefydd, yr hon ddadl sydd yn sefyll fel hyn:—Pe buasai crefydd yn wir, ni buasai yn cael ei gadael yn ammheus ac yn agored i wrthddadleuon i'r graddau ag y mae felly. Gan hyny, y mae y ffaith ei bod wedi ei gadael fel hyn, nid yn unig yn gwneyd ei phrawf yn wan, ac yn lleihau ei rym, ond hefyd yn dangos ei bod yn dwyllodrus, neu yn rhoddi sail i gredu ei bod felly. Yn awr, y mae yr ystyriaeth y rhaid i ni, oddi ar gwrs natur, yn ein hachosion tymmorol bron yn wastad, ac mewn achosion o ganlyniadau pwysig, weithredu oddi ar brawf cyffelyb o ran natur a graddau i brawf crefydd, yn atebiad i'r ddadl hon; am fod hyn yn dangos ei fod yn unol âg ymddygiad a chymmeriad Awdwr Natur ein gosod i weithredu ar brawf cyffelyb i'r hwn ag y mae y ddadl hon yn cymmeryd yn ganiataol nad all ein gosod i weithredu arni; y mae yn anghraifft—un gyffredinol wedi ei gwneyd i fyny o luaws o rai neillduol—o rywbeth yn ei ymddygiad tuag atom, cyffelyb i'r hyn y dywedir ei fod yn anghredadwy. A chan fod nerth yr atebiad hwn yn gorwedd yn unig yn y cyfatebiaeth sydd rhwng y prawf o blaid crefydd, ac o blaid ein ymddygiad tymmorol, y mae yr atebiad yr un mor deg a phenderfynol, pa un bynag a wneir y cyfatebiaeth allan, trwy ddangos fod y prawf o blaid y cyntaf yn uwch, neu y prawf o blaid y diweddaf yn is.

Yn drydydd, Amcan y traethawd hwn ydyw, nid amddiffyn cymmeriad Duw, ond arddangos rhwymedigaethau dynion; nid cyfiawnhau ei ragluniaeth, ond dangos pa beth a ddylem ni ei wneuthur.¹ Y mae y rhai hyn yn ddau fater, ac ni ddylent gael

[¹ Yn gyffredin y mae y prawf oddi wrth gyfatebiaeth yn fwy llwyddiannus mewn dystewi gwrthddadleuon, nag mewn cadarnhau ac egluro gwirionedd.

eu rhoddi y naill yn lle y llall. Ac er y gallant yn y diwedd gyfarfod â'u gilydd, eto gellir gwneyd sylwadau a gyfeiriant yn uniongyrchol i brofi y diweddaf, ac heb fod ynddynt rhyw gysylltiad neillduol â'r cyntaf, yr hyn sydd yn perthyn llai i ni nag y mae llawer yn barod i gredu. O blegid, yn gyntaf, nid yw yn angenrheidiol i ni gyfiawnhau goruchwyliaethau rhagluniaeth yn ngwyneb gwrthddadleuon, yn mhellach na dangos y gall y pethau y gwrthddadleuir yn eu herbryn, am ddim a wyddom ni, fod yn gysson âg uniondeb a daioni. Tybier, gan hyny, fod pethau yn nhrefn y byd, a chynllun rhagluniaeth, wrth eu cymmeryd wrthynt eu hunain, a fyddent yn anghyfiawn; eto, dangoswyd tu hwnt i ddadl, pe yr edrychem arnynt yn y berthynas a ddichon fod rhyngddynt a phethau ereill presennol, mynedol, a dyfodol, â'r holl gyfundrefn, o'r hon y mae y pethau y dadleuir yn eu herbryn yn rhanau, y gallai y pethau hyn ymddangos, nid yn unig yn unol âg uniondeb, ond yn esamplau o hono. Ac yn wir, dangoswyd oddi wrth gyfatebiaeth, nid yn unig fod hyn yn bosibl, ond hefyd yn debygol a chredadwy. Ac felly, y mae gwrthddadleuon wedi eu cymmeryd oddi wrth y cyfryw bethau wedi eu hateb, a rhagluniaeth yn cael ei hamddiffyn, mor bell ag y mae crefydd yn gwneyd ei hamddiffyniad yn angenrheidiol. Felly, ymddengys, yn ail, na cheisir symmud gwrthddadleuon yn erbyn yr uniondeb a'r daioni dwyfol, trwy ddangos fod y cyffelyb wrthddadleuon a addefir yn hollol benderfynol, yn bod yn erbyn rhagluniaeth naturiol; ond wrth dybied a dangos nad yw y gwrthddadleuon hyny yn benderfynol, y mae y pethau y dadleuir yn eu herbryn yn cael eu hystyried fel ffeithiau, yn cael eu profi yn mhellach yn gredadwy, oddi ar eu cydffurfiad â chyfansoddiad natur—er anghraifft, y gwobrwyd ac y cospa yr Arglwydd ddynion am eu gweithredoedd yn y byd arall, oddi ar yr ystyriaeth ei fod yn eu gwobrwyo a'u cospi am eu gweithredoedd yma. Ac y mae hyn, mi feddyliwn, yn meddu cryn bwys. Ac yr wyf yn chwanegu, yn drydydd, y byddai pwys ynddo, hyd yn oed pe na byddai y gwrthddadleuon hyn yn cael eu hateb. O blegid, gan fod genym y prawf uchod o grefydd; a bod crefydd yn cynnwys amrywiol ffeithiau—er anghraifft, y ffaith a grybwyllwyd olaf, y gwobrwyd ac y cospa yr Arglwydd ddynion am eu gweithredoedd yn y byd a ddaw—y mae yr ystyriaeth fod ei ddull presennol o lywodraethu yn

Y mae, fel y sylwa Dr. Campbell, yn debyg i'r arfau hyny, y rhai, er nas gallant ladd y gelyn, eto a allant gadw y dyn rhag ei ymosodiadau. Dylid cadw mewn cof mai amcan mawr Butler yn y traethawd hwn ydyw dystewi gwrthddadleuon, a dangos nid y rhaid i Gristionogaeth fod yn wir, ond y gall fod yn wir, o ran dim a brawf y gwrthddadleuon i'r gwrthwyneb.]

cael ei ddwyn yn mlaen trwy wobrwyon a chospau, yn dangos nad yw y ffaith ddyfodol mewn un modd yn anghredadwy, pa wrthddadleuon bynag a ddygir yn ei herbyn fel yn anghyfiawn neu annhrugarog, yn ol syniadau y gwrthddadleuwyr am gyfiawnder a thrugaredd; neu fel yn annhebygol oddi ar eu syniadau am angenrheidrwydd—yr wyf yn dyweyd, *fel yn annhebygol*, o blegid y mae yn amlwg nas gellir dwyn yn mlaen un wrthddadl yn ei herbyn, *fel yn anghyfiawn*, oddi ar angenrheidrwydd; o blegid y mae y syniad hwn yn dinystrio anghyfiawnder a chyfiawnder fel eu gilydd. Yna, yn bedwerydd, er nas gall gwrthddadleuon yn erbyn rhesymoldeb cyfundrefn crefydd gael eu hateb heb wneuthur ymchwiliad i'w rhesymoldeb, eto gellir ateb gwrthddadleuon yn erbyn ei gwirionedd heb wneuthur hyn; o blegid gellir darostwng ei chyfundrefn dan yr hyn sydd yn wirioneddol yn bwnc o ffaith; ac y mae yn bosibl dangos gwirionedd ffeithiau heb gymmeryd eu rhesymoldeb dan ystyriaeth. Ac nid yw yn angenrheidiol, er ei fod ar lawer cyfrif ac mewn llawer o amgylchiadau yn dra buddiol a phriodol, eto nid yw yn angenrheidiol rhoddi prawf o resymoldeb pob dyledswydd a orchymynir i ni, a phob goruchwyliaeth mewn rhagluniaeth sydd yn perthyn i gyfundrefn crefydd. Ac, yn wir, po fwyaf trwyadl yr argyhoeddir dyn o dueddfryd uniawn o berffeithrwydd y natur a'r goruchwyliaethau dwyfol, pellaf oll y cynnydda rhyngddo a'r perffeithrwydd hwnw mewn crefydd ag y llefara yr apostol Ioan am dano: 1 *Ioan* iv. 18. Ond y mae rhwymedigaethau cyffredinol crefydd yn cael eu harddangos yn gyflawn trwy brofi rhesymoldeb yr ymarferiad o honynt. A gellid profi fod ymarfer crefydd yn rhesymol, pe na phrofid dim mwy nag y *dichon* ei chyfundraeth fod felly, am ddim a wyddom i'r gwrthwyneb, a hyd yn oed heb wneuthur un ystyriaeth nac ymchwiliad pendant ar hyn. Ac oddi wrth hyn, yn bummed, y mae yn hawdd gweled, er nad yw cyfatebiaeth natur yn atebiad uniongyrchol i'r gwrthddadleuon yn erbyn doethineb, uniondeb, neu ddaioni unrhyw athrawiaeth neu ddyledswydd berthynol i grefydd; eto y gall fod, fel y mae hefyd, yn atebiad uniongyrchol i'r hyn a fwriedir trwy y cyfryw wrthddadleuon, sef dangos fod yr hyn y dadleuir yn ei erbyn yn eithaf credadwy.

Yn bedwerydd, Addefir yn rhwydd nad yw y traethawd blaenorol mewn un modd yn foddhaol—y mae yn bell oddi wrth fod felly; ond felly yr ymddangosai unrhyw addysgiant ar bethau tymmorol, pe cai ei ddwyn i gyfundrefn, yn nghyd â'i brofion. A gadael crefydd allan o'r mater, y mae dynion yn rhanedig yn

eu hopiniynau, pa un a ydyw ein mwynderau yn gorbwyso ein poenau, ac a ydyw bywyd yn y byd yn beth dewisol ai nad ydyw. A phe byddai pob dadleuon fel hyn wedi eu penderfynu, y rhai, efallai, fel pynciau ymchwiliad, ydynt yn cael eu cylchynu gan anhawsderau; a phe y byddai modd penderfynu ar dir rheswm, fel y mae natur wedi penderfynu yn barod i ni, fod bywyd yn beth i'w gadw a'i ddiogelu; eto, ar yr un pryd, y mae y rheolau a roddes Duw i ni, i'r dyben o osgoi ei drueni, a chyrhaedd ei fwynhad—y rheolau i gadw iechyd, a'i adferu ar ol ei golli, nid yn unig yn ffaeledig ac ansicr, ond yn bur bell oddi wrth fod yn gywir. Ac ni hysbysir ni gan natur mewn dygwyddiadau a damweiniau dyfodol, fel ag i rododi un math o sicrwydd o Barth y llwybr goreu i drefnu ein hachosion. Pa beth a fydd canlyniad ein hymdrafaeth fyddol, sydd gwbl ammheus. A pha lwyddiant a'n dilyna, pa gysur a hapusrwydd a dderbyniwn, sydd fwy ammheus. Yn wir, nis gellir braidd ddangos natur annigonol ac anfoddhaol y prawf ar yr hwn yr ydym yn rhwym o weithredu yn materion cyffredin bywyd. Eto, nid ydyw dynion yn dibrisio bywyd, ac yn diystyru ei fuddiannau, am fod ansicrwydd yn perthyn iddo. Felly, os addefir fod prawf crefydd yn wirionedd, y mae y rhai sydd yn dadleu yn ei erbyn fel yn annigonol—hyny yw, fel heb fod yr hyn a ddymument—yn anghofio gwir sefyllfa ac ammod eu bodolaeth; o blegid nid yw boddlonrwydd yn yr ystyr yma yn perthyn i'r cyfryw creadur a dyn. A'r hyn sydd yn fwy pwysig, y maent yn anghofio natur crefydd. O blegid y mae crefydd yn rhagdybied fod yn mhawb sydd yn ei choffeidio ryw radd o ddiffuantrwydd ac uniondeb, yr hyn y bwriadwyd hi i brofi dynion a oeddynt hwy yn feddiannol arno ai peidio, ac i'w hymarfer yn y rhai sydd yn feddiannol arno, i'r dyben o'i wellhau a'i gynyddu. Y mae crefydd yn rhagdybied hyn yn gymmaint ag y mae llefaru wrth un yn rhagdybied ei fod yn deall yr iaith yr ydych yn llefaru wrtho; neu fel y mae rhybuddio dyn o berygl yn rhagdybied ei fod yn meddu y fath ofal am dano ei hun ag yr ymdrecha ei ochel. Gan hyny, y cwestiwn yw, nid a ydyw prawf crefydd yn foddhaol, ond a ydyw, yn ol rheswm, yn ddigonol i brofi a dysgyblu y rhinwedd hwnw ag y mae yn ei ragdybied. Yn awr, y mae ei phrawf yn llawn digon i gyflawnu yr holl ddybenion hyn—dybenion sefyllfa o brawf a dysgyblaeth—pa mor bell bynag y mae oddi wrth fod yn foddlonol gyda golwg ar amcanion chwilgarwch, neu ryw amcanion ereill; ac yn wir, y mae yn ateb yr amcanion blaenaf mewn llawer golygiad, na buasai yn eu hateb pe buasai mor orchfygol ag y gofynir am iddo fod. Gellir chwanegu yn

mhellach o barth i'r cwestiwn, A ydyw y cymhelliadau i, neu y prawf o blaid, unrhyw gwrs o ymddygiad yn foddhaol—gan feddwl yma wrth y gair, yr hyn sydd yn boddloni dyn fod y cyfryw gwrs yn sicr o ddybenu yn ei leshad a'i ddaioni—nid ydyw, ac ni raid i hyn fod yn gwestiwn ymarferol mewn achosion cyffredin. Ond y cwestiwn ymarferol yn yr achosion hyny ydyw, Pa un a ydyw y prawf o blaid y cyfryw gwrs o ymddygiad, a chymmeryd i mewn yr holl amgylchiadau, y fath ag a bâr i'r gallu sydd ynom, yr hwn ydyw arweinydd a barnydd ein hymddygiad, benderfynu fod y cwrs hwnw o weithredu yn ddoeth. Y mae yn wir fod boddlonrwydd yn y meddwl y bydd er ein budd a'n hapusrwydd yn ddigon i benderfynu fod gweithred yn ddoeth; ond y mae prawf annhraethol is na hwn yn ddigon i benderfynu fod gweithred felly, hyd yn oed yn ein hachosion beunyddiol.

Yn bummed, O barth i'r wrthddadl yn nghylch y dylanwad a all y ddadl hon, neu ran o honi, gael, neu fethu ei gael, ar feddyliau dynion, yr wyf yn sylwi, fel o'r blaen, gan fod crefydd wedi ei bwriadu yn sefyllfa o brawf, ac yn ddysgyblaeth ar foesoldeb cymmeriad pob dyn sydd yn ddeiliad iddi; a chan fod, fel y dangoswyd, y fath brofion o'i phlaid ag sydd ddigonol yn ngwyneb rheswm i ddylanwadu ar ddynion i'w chofleidio, nid ydyw gwrthddadleu nas gellir meddwl y cymmer dynion eu dylanwadu gan y cyfryw brawf yn gydwedol âg amcan y traethawd blaenorol. O blegid ei amcan ydyw, nid ymholi pa fath greaduriaid ydyw dynion, ond pa beth y mae y goleuni a'r wybodaeth a roddir iddynt yn gofyn iddynt fod; dangos pa fodd y dylent, yn ngwyneb rheswm, ymddwyn; ac nid pa fodd yr ymddygant yn weithredol. Dibyna hyn arnynt eu hunain, a'u hachos eu hunain ydyw—mater personol pob dyn ar ei ben ei hun. A dengys ein profiad beunyddiol pa mor lleied y maent yn gofalu yn ei gylch. Ond y mae crefydd, wrth ei hystyried fel sefyllfa prawf, yn cael ei hamcan gyda phob dyn ag y dygwyd hi ger eu bronau gyda phrawf digonol i ddylanwadu ar eu hymarferiad; o blegid trwy hyn cawsant eu gosod mewn sefyllfa prawf, pa fodd bynag yr ymddygant ynddi. Ac fel hyn, y mae nid yn unig y dadguddiad, ond rheswm hefyd yn ein haddysgu, fod bwriadau Duw yn cael eu dwyn yn mlaen trwy fod profion crefydd yn cael eu gosod ger bron dynion, nid yn unig gyda golwg ar y rhai a ymostyngant i'w dylanwad, ond hefyd gyda golwg ar y rhai a wrthodant hyny. Ond, yn ddiweddaf, y mae yr wrthddadl yma y cyfeirir ati yn caniatáu fod y pethau yr ymdrinir â hwynt yn y traethawd hwn yn meddu

rhyw bwys; ac os felly, hyderaf y caiff ryw ddylanwad. Ac os oes tebygolrwydd y caiff ryw radd, y mae yr un rheswm o ran math, ond nid o ran gradd, dros ei osod ger bron dynion, ag a fuasai pe buasai yn debyg o gael dylanwad mwy.

Ac yn mhellach, dymunaf ar fod y darllenydd yn ystyried, gyda golwg ar yr holl wrthddadleuon blaenorol, fy mod yn ymresymu oddi ar egwyddorion rhai ereill,¹ ac nid yr eiddof fy hun; ac wedi gadael heibio yr hyn a farnwyf yn wirionedd, ac o'r pwys mwyaf, am y bernid ef gan ereill yn annealladwy, neu anghywir. Fel hyn, rhesymais oddi ar egwyddorion y tyngedwyr, y rhai nid wyf yn eu credu; a gadewais heibio beth o'r pwys mwyaf ag yr wyf yn ei gredu, sef cymhwysder ac anghymhwysder moesol gweithredoedd, yn flaenorol i bob ewyllysiad, yr hyn a farnwyf sydd yn penderfynu yr ymddygiadau dwyfol mor sicr ag y mae gwirionedd a chelwydd mewn pwnc o angenrheidrwydd yn penderfynu y farn ddwyfol. Yn wir, y mae yr egwyddor o ryddid, ac eiddo cymhwysder moesol, yn gorfodi eu hunain yn gymmaint ar y meddwl, fel y mae ysgrifenwyr ar foesau, hen a diweddar, wedi ffurfio eu hiaith arni. Ac efallai yr ymddengys felly yn fy iaith innau, er fy mod wedi ymdrechu gochel hyny; ac, mewn trefn i'w ochel, wedi bod weithiau dan angenrheidrwydd i ddangos fy meddwl mewn dull ag a ymddengys yn ddyethrol i'r rhai nid ydynt yn gweled y rheswm am hyny; ond nid yw y ddadl neu yr ymresymiad cyffredinol yma mewn un modd yn tybied nac yn gorphwys ar yr egwyddorion hyn. Yn awr, wrth adael heibio y ddwy egwyddor o ryddid a chymhwysder moesol, nis gellir edrych ar grefydd mewn un golygiad ond fel mater o ffaith; ac yn y golygiad hwn y mae yn cael ei hystyried yma. Y mae yn amlwg mai hanesyddol ydyw Cristionogaeth a'i phrawf; ac nid ydyw hyd yn oed crefydd naturiol yn amgen na ffaith. O blegid, bod Llywydd cyfiawn ar y byd, sydd felly; ac y mae y gosodiad hwn yn cynnwys cyfundrefn gyffredinol crefydd natur. Ond eto, y mae amryw wirioneddau dansoddol, ac yn enwedig y ddwy egwyddor yma, yn cael eu cymmeryd i fyny yn fynych er mwyn ei phrofi; tra y mae yma yn cael ymdrin â hi yn unig fel ffaith. I eglurhau hyn: bod tair ongl tryfal yn gyfartal â dwy ongl gywir, sydd wirionedd dansoddol; ond eu bod yn ymddangos felly i'n meddwl ni, sydd bwnc o ffaith yn unig. A rhaid fod y diweddar

¹ Wrth ymresymu ar egwyddorion rhai ereill, y meddylir, nid profi unrhyw beth oddi wrth yr egwyddorion hyny, ond er eu gwaethaf. Fel hyn, y mae crefydd yn cael ei phrofi yn wirionedd, nid oddi wrth y dybiaeth o angenrheidrwydd, yr hyn sydd yn wrthun, ond er gwaethaf y dybiaeth hono, neu hyd yn oed pe caniateid fod y dybiaeth hono yn wir.

yn cael ei addef, os addefid rhywbeth, gan yr hen ammheuwyr, y rhai ni addefent y cyntaf, ond a gymmerent arnynt ammheu a oedd y fath beth a gwirionedd yn bod, neu a allem ni ddibynu yn sicr ar ein galluoedd deallawl am wybodaeth o hono mewn un amgylchiad. Felly, yr un modd, fod yn ol natur pethau safon wreiddiol o dda a drwg, yn annibynol ar bob ewyllys, ond sydd yn wastadol yn penderfynu ewyllys Duw i weinyddu y llywodraeth foesol ar y byd ag yr hysbysa crefydd am dani—y mae yr haeriad hwn yn cynnwys gwirionedd dansoddol, yn gystal a phwnc o ffaith. Ond tybier fod yn y sefyllfa bresennol bob dyn yn ddieithrad yn cael ei wobrwyo a'i gospi, yn hollol gyfartal i'w waith yn dilyn neu yn troseddu y syniad am dda a drwg a blannodd Duw yn natur pob dyn; ni byddai hyn mewn un modd yn wirionedd dansoddol, ond yn bwnc o ffaith yn unig. Ac er i'r ffaith hon gael ei haddef gan bawb, eto, gellid cyfodi yr un anhawsderau ag a gyfodir yn bresennol yn nghylch y cwestiynau dansoddol o ryddid a chymhwysder moesol: a byddai genym brawf, sef prawf sicr profiad a sylwadaeth, bod llywodraeth y byd yn berffaith foesol, heb gymmeryd y cwestiynau hyn dan ystyriaeth; ac arosai y prawf hwn, pa fodd bynag y penderfynid y cwestiynau hyn. Ac fel hyn, fod Duw wedi cynnysgaethu dynolryw â gallu moesol, gwrthddrych yr hwn ydyw gweithredoedd, a'r hwn sydd yn naturiol yn cymmeradwyo rhai gweithredoedd fel yn dda, ac o ryglyddiant, ac yn condemnio ereill fel yn ddrwg, ac o ddrwghaeddiant; y bydd iddo, yn y diwedd, ac ar y cyfan, wobrwyo y cyntaf a chospi y diweddaf—nid ydyw hyn yn haeriad o wirionedd dansoddol, ond o'r hyn sydd mor wirioneddol yn ffaith a phe byddai iddo ymddwyn felly yn bresennol. Nid wyf wedi profi y ffaith ddyfodol, mae yn wir, gyda'r nerth ag y galleid ei phrofi, oddi ar egwyddorion rhyddid a chymhwysder moesol; ond hebddynt, rhoddais brawf ymarferol eithaf penderfynol o honi, wedi ei chadarnhau i raddau helaeth gan gyfatebiaeth cyffredinol natur—prawf ag y mae yn hawdd codi gwrthddadleuon yn ei erbyn, a dangos nad yw y prawf uchaf, o blegid nid yw yn cael ei gynnyg fel y cyfryw; ond sydd anhosibl, mi feddyliwn, i'w osgoi neu i'w ateb. Ac fel hyn, y mae rhwymedigaethau crefydd yn cael eu gwneyd allan ar wahan oddi wrth y cwestiynau yn nghylch rhyddid a chymhwysder moesol, y rhai sydd wedi cael eu cylchynu gan anhawsderau a rhesymiadau dyrus, fel y gellir gwneyd â phob cwestiwn.

Bellach, gellir gweled yn eglur pa beth yw nerth y traethawd hwn. Y mae i'r dynion hyny sydd yn argyhoeddedig o wirion-

edd crefydd oddi ar y profion a gyfodant oddi ar y ddwy egwyddor a grybwyllwyd ddiweddaf, yn brawf chwanegol, ac yn gadarnhad o honi; ac i'r rhai na addefant yr egwyddorion hyny, yn ddadl wreiddiol drosti, ac yn gadarnhad ar y ddadl. Gall y rhai sydd yn credu weled yma y gyfundrefn Gristionogol yn cael ei rhyddhau oddi wrth ddadleuon, a'i phrawf yn cael ei gryfhau mewn modd arbenig; a gall y rhai sydd heb fod yn credu Cristionogaeth weled gwrthuni pob ymgais a wneir i brofi fod Cristionogaeth yn ffug, a'r tebygolrwydd eglur a diam-mbeuol sydd ynddi, a hyderaf y gwelant fwy na hyny.

Ac fel hyn, er y gallai rhai, efallai, feddwl fod gormod o bwys yn cael ei roddi ar gyfatebiaeth, fel y mae yn cael ei ddwyn yn mlaen genyf, ac y gellir arfer gwawd i osod y ddadl oddi arno mewn goleu anfanteisiol, eto, nid oes dim cwestiwn nad ydyw yn ddadl wirioneddol. O blegid, gan fod crefydd naturiol a dadguddiedig yn cynnwys amryw ffeithiau, a chan fod cyfatebiaeth yn gadarnhad ar bob ffaith ag y gellir ei gymhwyso atynt, fel y mae yr unig brawf o'r nifer mwyaf, nis gall hyn lai na chael ei addef gan bawb yn beth o gryn bwysigrwydd yn mhlaid crefydd naturiol a dadguddiedig; a dylai gael sylw neillduol gan y rhai a broffesant ddilyn natur, ac nad ydynt yn cael eu boddioni gan resymiau dansoddol.

DIWEDDGLO.

PA gyfrif bynag a ellir ei roddi am yr anystyriaeth dyeithrol mewn rhai oesoedd a gwledydd i fater o'r fath bwysigrwydd a chrefydd, byddai, yn flaenorol i brofiad, yn beth anghredadwy fod anystyriaeth a diofalwch cyffelyb yn y rhai a gawsant gyfundrefn foesol y byd wedi ei gosod ger eu bron, fel y gwneir gan Gristionogaeth; o blegid y mae y gyfundrefn foesol yma yn cario gyda hi raddau helaeth o brawf o'i gwirionedd, ar ei chynnygiad i'n sylw. Nid oes angen am resymau dyrys i ddarbwylllo meddwl diragfarn fod Duw yn bod, yr hwn a wnaeth ac sydd yn llywodraethu y byd, ac a'i barna mewn cyfiawnder; er y gallant fod yn angenrheidiol i ateb anhawsderau, pan gyfodir hwynt unwaith—pan y tybir fod ystyr y geiriau sydd yn gosod allan yn y modd mwyaf eglur athrawiaeth crefydd yn ansicr, ac y mae gwirionedd amlwg y peth yn cael ei dywyllu gan ddyrswch ymchwiliadau dansoddol. Ond i feddwl heb fod dan ddylanwad rhagfarn, nis gall deng mil o filoedd o gynlluniau eglur lai

na phrofi fod cynlluniwr. Ac y mae ynddo ei hunan yn beth eglur y dylai creaduriaid fyw dan y syniad parchusaf o'u Gwneuthurwr, ac y rhaid mai cyfiawnder a charedigrwydd ydyw ei ddeddfau, i greaduriaid a greodd yn gyfeillgar, ac a osododd mewn cymdeithas. Yn wir, nid ydyw gwirionedd crefydd ddadguddiedig yn hunan-brofedig, ond gofyna brofion allanol mewn trefn i gael ei dderbyn. Eto, y mae diffyg ystyriaeth yn ein plith ni o grefydd ddadguddiedig yn cynnwys ac yn arwyddo yr un dymmer meddwl esgeulus ac anfoesol ag anystyriaeth o grefydd naturiol; o blegid pan osodir y naill a'r llall ger ein bron, fel y gwneir mewn gwledydd Cristionogol rhydd, y mae ein rhwymedigaethau i ymchwilio i'r naill a'r llall, ac i'w cofleidio ar y dybiaeth o'u gwirionedd, yn rhwymedigaethau o'r un natur. O blegid y mae dadguddiad yn hawlio bod yn llais Duw; ac y mae yn ddiddadl fod ein rhwymedigaethau i wrandaw ar ei lais yn rhwymedigaeth foesol yn mhob amgylchiad. Ac fel yr haerir fod ei phrawf yn benderfynol, ar ystyriaeth drwyadl o hono, felly, y mae yn cynnyg ei hun i ni gan ymddangos ei bod yn feddiannol ar rywbeth mwy na dynol ynddi, ac felly gofyna yn ngwyneb pob rheswm am yr ymchwiliad mwyaf difrifol i'w hawliau. Gellir chwanegu, er fod goleuni a gwybodaeth, yn mha ddull bynag y rhoddir hwy i ni, bob amser oddi wrth Dduw; eto, y mae tuedd neillduol mewn dadguddiad gwyrthiol, ar gyfrif egwyddorion cyntaf ein natur, i ddeffro dynion, a'u llanw â pharch ac ofn; ac y mae hyn yn rhwymedigaeth neillduol i roddi sylw i'r hyn sydd yn hōni bod yn ddadguddiad gwyrthiol, a hyny gyda'r fath arwyddion o wirionedd. Y mae felly yn sicr fod ein rhwymedigaethau i chwilio yn ddifrifol i brawf Cristionogaeth—ac, ar y dybiaeth o'i gwirionedd, i'w chofleidio—yn feddiannol ar y pwys mwyaf, ac yn rhwymedigaethau moesol yn yr ystyr uchaf a mwyaf penodol. Tybier, gan hyny, fod prawf crefydd yn gyffredinol, a Christionogaeth yn neillduol, wedi cael ei chwilio gan bawb rhesymol a doeth yn ein plith; eto, yr ydym yn gweled fod llawer yn proffesu ymwrthodiad o'r naill a'r llall, oddi ar egwyddorion anffyddol. Ac nid yw pawb o honynt yn ymfoddloni ar esgeulusiad yn unig o grefydd, a mwynhad o'u rhyddid dychymyngol oddi wrth ei rhwymedigaethau. Y mae rhai yn myned lawer yn mhellach na hyn. Gwawdiant lywodraeth foesol Duw ar y byd. Chwarddant am ben Cristionogaeth, a chablant ei hawdwr, a defnyddiant bob achlysur i arddangos eu diystyrwch o ddadguddiad. Y mae hyn yr un peth a gwrthwynebiad penderfynol i grefydd—yn egwyddor bendant o anghrefydd, yr hon a feith-

rinant ynddynt eu hunain, ac a wnant yn barhaol, pa un bynag a fwriadant hyn neu beidio, fel y mae y dyn yn gwneyd gyda'r egwyddor wrthwynebol. Ac y mae ereill, heb fod yn euog o'r holl halogrwydd a'r annuwiaeth yma, eto yn wrthwynebwyr addefedig i grefydd, fel pe buasai wedi ei phrofi yn ddisail. Yn awr, ac addef, yr hyn yw y dybiaeth yr ydym yn myned arni, fod y dynion hyn yn gweithredu oddi ar yr hyn a dybiant yn egwyddorion rheswm—ac oddi eithr hyny nid ydynt yn deilwng o ymresymu â hwynt—y mae yn anmhosibl meddwl eu bod yn dychymygu eu bod yn gweled y prawf o'i phlaid yn hollol ddiwerth; ac nid ydynt yn cymmeryd arnynt eu bod felly. Yn wir, y maent yn mhell o feddu syniad cywir am ei phrawf; ond ni ddywedant fod ei phrawf yn gwbl ddiwerth, a meddyl-iant fod ei chyfundrefn, yn nghyd â'i holl amgylchiadau, yn gredadwy, fel pethau ereill mewn gwyddiant neu hanesiaeth. Felly, y mae yn rhaid fod eu holl ddull o drin crefydd yn cyfodi naill ai oddi ar y cyfryw wrthddadleuon yn erbyn pob crefydd ag a atebwyd neu a symmudwyd o'r ffordd yn y rhan gyntaf o'r traethawd hwn, neu oddi ar wrthddadleuon ac anhawsderau a dybiant yn fwy arbenig i Gristionogaeth. Fel hyn, coledant ragfarnau yn erbyn yr holl ddrychfeddwl am ddadguddiad a chyfryngiadau gwyrthiol. Gwelant bethau yn yr Ysgrythyrau, naill ai mewn rhanau neillduol, neu yn eu cyfundrefn gyffredinol, a ymddangosant iddynt yn afresymol. Cymmerant yn ganiataol pe buasai Cristionogaeth yn wir, y buasai ei goleuni yn fwy cyffredinol, a'i phroffion yn fwy boddhaol, neu yn hytrach, yn orchfygol; y buasai o angenrheidrwydd wedi ei rhoddi a'i gadael i ni mewn dull gwahanol i'r hyn ydyw. Yn awr, nid yw hyn yr un peth a thybied eu bod yn gweled y prawf yn ddiwerth a gwael; ond yn hollol yn beth arall. Ymgadarnhau yn erbyn y prawf ydyw, yr hwn a addefir i ryw raddau, trwy feddwl eu bod yn gweled cyfundrefn Cristionogaeth, neu ryw- beth a ymddengys iddynt yn angenrheidiol gyssylltiedig â hi, yn anghredadwy; y maent yn ymgadarnhau yn erbyn y prawf a fuasai, heb hyny, yn gwneyd argraff ddofn arnynt. Neu, yn olaf, os oes rhai o'r dynion hyn mewn ammheuaeth am wirion- edd Cristionogaeth, y mae eu hymddygiad i'w briodoli i'w gwaith yn cymmeryd yn ganiataol, trwy ryw anystyriaeth dygn, fod y cyfryw ammheuaeth yr un peth a sicrwydd yn ei herbyn.

I'r dynion hyn, ac i'r dull hwn o feddwl am grefydd, y mae y traethawd blaenorol wedi ei fwriadu. O blegid, ar ol sym- mud y gwrthddadleuon cyffredinol yn erbyn cyfundrefn foesol natur, dangosir nad oes un sail neillduol i ddadleu yn erbyn

Cristionogaeth, naill ai wrth ei hystyried tu hwnt i ganfyddiad rheswm, neu fel yn annhebyg i'r hyn a gafwyd allan; na dim gwerth ei grybwyll yn ei herbyn fel y mae yn wyrthiol, os oes rhywbeth—dim, o leiaf, a all dafu yr ansicrwydd lleiaf arni. Dangosir ar y dybiaeth o ddadguddiad dwyfol, fod cyfatebiaeth natur yn gwneyd yn mlaen llaw yn gredadwy, ie yn debygol, y rhaid yr ymddengys llawer o bethau ynddi yn agored i wrthddadleuon; ac y byddem yn dra annigonol i farnu am dani. Y mae y sylw hwn yn wirionedd diammheuol, ac o'r pwys mwyaf; ond y mae yn cael ei ddwyn yn mlaen gyda mawr ofal rhag darostwng ein rheswm, yr hwn yw "canwyll yr Arglwydd" ynom; er nas gall roddi goleuni i'r lle nad yw yn llewyrchu ynddo, na barnu y lle nad oes ganddo egwyddorion i farnu wrthynt. Y mae y gwrthddadleuon y lleferir yma am danynt, ar ol yn gyntaf eu hateb fel gwrthddadleuon yn erbyn Cristionogaeth fel pwnc o ffaith, yn cael eu hystyried, yn yr ail lle, fel y maent yn cael eu dwyn yn mlaen yn erbyn doethineb, uniondeb, a daioni y drefn Gristionogol. A phrofir yn eglur fod yr un atebion yn briodol iddynt yn mhob ystyr ag a roddir i wrthddadleuon cyffelyb yn erbyn trefn natur; mai fel y mae golygiadau hannerog yn peri i bethau ymddangos yn annheg, y rhai oddi ar ystyriaeth bellach, ac adnabyddiaeth o'n cyssylltiad â phethau ereill, a ganfyddir yn uniawn a daionus; felly y mae yn eithaf credadwy y gellir gwneyd y pethau a ddygir yn yn erbyn doethineb a daioni y drefn Gristionogol yn esamplau o ddoethineb a daioni, trwy eu cyssylltu â phethau ereill tu hwnt i'n golygon; o blegid fod Cristionogaeth yn gyfundrefn tu hwnt i'n dirnadaeth yn gymmaint a'r eiddo natur; ac, fel hithau, yn drefniant yn yr hon yr arferir moddion i gyrhaedd dybenion, a'r hon, fel y mae yn debygol, a ddygir yn mlaen trwy ddeddfau cyffredinol. A dylid sylwi, mai nid atebiad yw hwn wedi ei gymmeryd yn unig neu yn benaf oddi wrth ein hanwybodaeth, ond oddi wrth rywbeth pendant a ddengys ein sylwadaeth i ni. O blegid teimlir fod y cyffelyb atebiad yn briodol i'r cyffelyb wrthddadleuon mewn achosion cyffelyb. Ar ol symmud y gwrthddadleuon yn erbyn Cristionogaeth, a'r drefn y dygir hi yn mlaen, mewn dull cyffredinol, ystyrir y rhai penaf o honynt ar wahan, a dangosir fod y pethau neillduol y dadleuir yn eu herbyn yn eithaf credadwy, trwy eu cyfatebiaeth perffaith, pob un arno ei hun, i gyfansoddiad natur. Fel hyn, os ydyw dyn wedi syrthio o'i sefyllfa gyntefig, ac, mewn trefn i'w adferu, os ydyw y doethineb a'r gallu dwyfol wedi ymgymmeryd â'r gorchwyl hwnw, dywedir y buasai yn naturiol dysgwyl i

hyn gael ei ddwyn oddi amgylch ar unwaith, ac nid trwy y fath gyfres faith o oruchwyliaethau, a'r fath amrywiaeth o bersonau a phethau—un oruchwyliaeth yn rhagbarotoawl i un arall, a hon drachefn i un bellach na hithau, ac felly yn mlaen trwy lawer iawn o oesoedd, cyn y byddo i amcan y drefn gael ei gwbl gyflawnu; trefn yn cael ei dwyn rhagddi gan ddoethineb anfeidrol, a'i gweithio allan gan allu diderfyn. Ond yn awr, y mae y ffaith ein bod yn gweled i'r gwrthwyneb, fod pob peth mewn natur yn cael ei ddwyn yn mlaen fel hyn, yn dangos fod y cyfryw ddysgwyliaidau o barth i ddadguddiad yn hollol afresymol; ac y mae yn atebiad digonol iddynt pan ddygir hwy yn mlaen fel gwrthddadleuon yn erbyn y tebygolrwydd fod trefn rhagluniaeth yn adferiad y byd yn drefn o'r dysgrifiad hwn, ac i gael ei dwyn rhagddi yn unol âg ef. O barth i osodiad Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, y mae wedi ei ddangos yn feddiannol ar gyfatebiaeth amlwg i drefn gyffredin natur; hyny yw, Duw natur, mewn appwyntio ereill i fod yn gyfryngau ei drugaredd, fel yr ydym yn cael profion yn nghwrs parhaus rhagluniaeth. Y mae sefyllfa y byd, yr hon a ragdybir yn athrawiaeth y prunedigaeth trwy Grist, yn cytuno i'r fath raddau âg ymddangosiadau naturiol, fel y casglwyd yr athrawiaeth allan o'r ymddangosiadau hyn gan baganiaid a ysgrifenasant ar foeseg; casglasant fod y natur ddynol wedi colli ei huniondeb, ac mewn canlyniad, ei hapusrwydd gwreiddiol. Neu, pa fodd bynag y daeth y syniad hwn i'r byd, mae yn rhaid fod yr ymddangosiadau hyn wedi dal y traddodiad i fyny, a chadarnhau y grediniaeth ynddo. Ac fel yr oedd yn dyb gyffredin gan y rhai a fwynhaent oleuni natur yn unig, nad yw edifeirwch a diwygiad eu hunain yn ddigonol i ddileu pechod, a chyrhaedd rhyddhad llawn oddi wrth y gosp gyssylltiedig âg ef, ac fel nad yw natur y peth mewn un modd yn arwain at y fath gasgliad; felly, y mae profiad beunyddiol yn dangos i ni, nad ydyw diwygiad o un math yn ddigonol i attal yr anfanteision a'r drygau presennol a gyssylltwyd gan Awdwr natur âg afradlonedd a bywyd afreolaidd, yn nghwrs naturiol pethau. Eto, gallai fod sail i feddwl y dichon i'r cospau, y rhai, yn ol deddfau cyffredinol y llywodraeth ddwyfol, sydd yn gyssylltiedig â drygioni gael eu hattal; fod darpariaeth wedi ei gwneuthur ar y cyntaf, i'r dyben o'u rhagflaenu trwy y naill foddion neu y llall, er nas gallesid gwneuthur hyn trwy ddiwygiad ei hunan. O blegid y mae genym esamplau beunyddiol o'r *cyfryw drugaredd* yn nghyfansoddiad cyffredinol natur; tosturi wedi ei ddarparu ar gyfer trueni, meddyginiaeth ar gyfer

clefydau ac afiechyd, cyfeillion yn erbyn gelynyon. Y mae darpariaeth wedi ei gwneuthur yn nghyfansoddiad gwreiddiol y byd, fel y gellir, trwy gynnorthwy ereill, ragflaenu llawer o ganlyniadau anhapus ein ffolineb, y rhai nas gallasai y dynion eu hunain eu rhagflaenu. Mewn trefn o ddaioni sydd yn gyfatebol i hyn, pan oedd y byd yn gorwedd mewn drygioni, ac yn agored i ddinystri, “ Felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd ei uniganedig Fab ” i’w achub; ac “ wedi ei berffeithio ” trwy ddyoddefiadau, “ efe a wnaethpwyd yn awdwr iachawdwriaeth dragwyddol i’r rhai oll a ufuddhant iddo.” Yn wir, ni feddyliasem, oddi ar reswm na chyfatebiaeth, y buasai cyfryngiad Crist, yn y dull ag y cyfryngodd, yn feddiannol ar y fath effeithiolrwydd er adferiad y byd ag a ddywedir yn yr Ysgrythyr sydd ganddo; ond ni feddyliaem chwaith, oddi ar reswm na chyfatebiaeth, y buasai y fath effeithiolrwydd mewn moddion ereill, ag a ddangosir gan brofiad fod ynddynt mewn anghreiffiau afrifed. Ac am hyny, gan nad yw y pwnc dan sylw yn gorwedd o fewn terfynau ein profiad, felly nid yw fod rheswm a chyfatebiaeth heb allu dangos pa fodd y mae cyfryngod Crist yn meddu yr effeithiolrwydd hwnw, fel y dywed yr Ysgrythyr fod ganddo—nid yw hyn yn un math na gradd o brawf nad yw yn feddiannol ar yr effeithiolrwydd hwnw. Yn mhellach, y mae y gwrthddadleuon yn erbyn Cristionogaeth, oddi ar nad yw ei dadguddiad yn gyffredinol, na’i phrawf mor orchfygol ag y gallasai fod, wedi eu hateb gan gyfatebiaeth cyffredinol natur. Mae y ffaith fod Duw wedi ffurfio y fath amrywiaeth o creaduriaid yn fath o atebiad i’r gyntaf; ond y mae ei fod yn cyfranu ei roddion yn y fath amrywiaeth yn mysg creaduriaid o’r un rhywogaeth, a hyd yn oed i’r un creaduriaid ar wahanol amserau, yn atebiad mwy pendant a chyflawn iddi. Ac y mae ein cynnysgaethu â’r fath brawf gorchfygol ag a ofyna rhai gan Gristionogaeth, mor bell o fod yn drefn gan ragluniaeth mewn achosion ereill, fel, i’r gwrthwyneb, y mae y prawf ag yr ydym yn naturiol wedi ein gosod i weithredu arno mewn achosion cyffredin, mewn rhan fawr o’n bywyd, yn ammheus i raddau helaeth. Ac, a chaniatau y ffaith, na roddes Duw i rai ddim mwy na phrawf ammheus o blaid crefydd, gellir rhoddi yr un cyfrif am dano ag am anhawsderau a themtasiynau gyda golwg ar ymarferiad. Ond gan nad yw yn amhosibl, yn sicr, y gall yr ansicrwydd a’r ammheuaeth hwn orwedd fel bai wrth ddrws dynion eu hunain; dylent ystyried yn ddifrifol pa un a *ydyw* felly, ai *nid* ydyw. Pa fodd bynag, y mae ammheuaeth o beth yn dangos yn eglur fod rhyw radd o

brawf o blaid yr hyn a ammheuir; ac y mae y radd hon o brawf yn ein gosod mor wirioneddol o dan rwymedigaethau ag y mae prawf sicr a phenderfynol.

Gan hyny, y mae yr oll o grefydd yn gwbl gredadwy; a meddylwyf nad oes dim perthynol i ddadguddiad yn fwy gwahanol i gyfansoddiad adnabyddus natur, nag y mae rhai rhanau o gyfansoddiad natur i ranau ereill o hono. Ac os felly, yr unig gwestiwn sydd yn aros ydyw, Pa brawf penderfynol a ellir ei ddwyn yn mlaen o blaid gwirionedd Cristionogaeth? Y mae hyn hefyd wedi cael ei ystyried mewn modd cyffredinol, yn nghyd â'r gwrthddadleuon yn ei erbyn. Tyner, gan hyny, yr hyn sydd i'w dynu oddi wrth y prawf hwnw, ar gyfrif rhyw bwys a dybir sydd yn aros yn y gwrthddadleuon hyn, ar ol dwyn yn mlaen yr hyn a ddengys cyfatebiaeth mewn atebiad iddynt, ac yna, ystyrier pa beth ydyw y casgliad ymarferol oddi wrth hyn oll, ar sail yr egwyddorion mwyaf ammheuol y gellir ymresymu oddi arnynt (o blegid i bersonau yn coleddu yr egwyddorion hyn yr wyf yn ysgrifenu); ac oddi ar y cyfryw ystyriaeth, ymddengys yn eithaf amlwg bod anfoesoldeb yn cael ei fwyhau yn fawr mewn dynion a gydnabyddwyd â Christionogaeth, pa un bynag a ydynt yn ei chredu ai peidio, o herwydd fod cyfundrefn foesol natur, neu grefydd naturiol, yr hon a osodir ger ein bron gan Gristionogaeth, yn canmawl ei hunan yn ddiattreg wrth y meddwl rhesymol. Yn y lle nesaf, gyda golwg ar Gristionogaeth, sylwer, fod sefyllfa ganol rhwng sicrwydd llawn o'i gwirionedd, a sicrwydd o'r gwrthwyneb. Y mae y sefyllfa ganol rhwng y ddau eithafnod yma yn gynnwysedig mewn tybiaeth ddifrifol y gall fod yn wir, yn gyssylltiedig âg ammheuaeth o barth i hyny. Ac y mae hyn, mor bell ag y gallaf fi farnu, yn gam mor bell tuag at anffyddiaeth ag y gall unrhyw ammheuwyr fyned, yr hwn y cyflwynwyd gwir Gristionogaeth a'i phroffion priodol ger ei fron, ac a'u hystyriodd i raddau dyledus. Nid wyf yn cymmeryd i mewn bawb a glywsant am dani; o blegid y mae yn amlwg nad ydyw Cristionogaeth a'i phroffion, mewn llawer o wledydd a elwir yn Gristionogol, yn cael eu gosod yn deg o flaen dynion. Ac mewn lleoedd lle y maent yn cael eu gosod felly ger bron dynion, y mae rhai na roddasant nemawr sylw iddynt, ac a wrthodant Gristionogaeth gyda diystyrwch sydd yn gyfatebol i'w hesgeulusdra, ac eto heb fod yn anneallus mewn materion ereill. Yn awr, yr ydym wedi dangos fod syniad difrifol y dichon Cristionogaeth fod yn wir, yn gosod dynion dan y rhwymedigaethau cryfaf i roddi ystyriaeth ddifrifol iddi dros eu holl fywyd—ystyriaeth nid yn

gwbl yr un fath, ond bron yr un fath ar lawer cyfrif, ag a fuasai llawn argyhoeddiad o'i gwirionedd yn eu gosod dan rwymau i'w choledd. Ymddengys, yn ddiweddaf, fod coledd anystyriaeth a llefaru cableddau, gyda golwg ar Gristionogaeth, yn ymddygiad nas gellir rhoddi un esgus drosto. O blegid nid oes un demtasiwn iddo ond oddi wrth wagedd a chellwair; ac nid yw y rhai hyn, ond ystyried pwysigrwydd annhraethol y pwnc, y fath demtasiynau ag i fod yn un esgus drosto. Os ydyw hyn yn esboniad cywir ar bethau, ac os gall dynion eto fyned rhagddynt i ddarostwng a diystyru Cristionogaeth, ac ymddwyn a siarad fel pe byddai ganddynt brawf mai ffug ydyw, nis gellir meddwl y newidient eu hymddygiad i unrhyw bwrpas, hyd yn oed pe byddai prawf sicr a diammheuol o'i gwirionedd.

DIWEDD.

CYNNWYSIAD.

BYWYD YR AWDWR, &c.	iii
RHAGARWEINIAD	1

RHAN I.—AM GREFYDD NATURIOL.

PENNOD I.—Am Sefyllfa ddyfodol	10
PENNOD II.—Am Lywodraeth Duw trwy wobrwyon a chospau ; a'r diweddaf yn neillduol	26
PENNOD III.—Am Lywodraeth Foesol Duw	36
PENNOD IV.—Am Sefyllfa Prawf, fel yn cynnwys Prawf, An- hawsderau, a Pheryglon	56
PENNOD V.—Am Sefyllfa Prawf, fel wedi ei bwriadu er Dysg- yblaeth a Gwelliant Moesol	63
PENNOD VI.—Am y Syniad o Angenrheidrwydd, yn cael ei ystyried fel yn dylanwadu ar ein hymddygiad ...	83
PENNOD VII.—Am Lywodraeth Duw, yn cael ei hystyried fel Trefn, neu Gyfansoddiad, sydd yn cael ei dirnad yn amherffaith	98
Sylwadau diweddol ar y Rhan Gyntaf	107

RHAN II.—AM GREFYDD DDADGUDDIEDIG.

PENNOD I.—Am Bwysigrwydd Cristionogaeth	113
PENNOD II.—Am y Dybiaeth yn erbyn Dadguddiad, fel yn cael ei ystyried yn wyrthiol	129
PENNOD III.—Am ein anghymhwysder i farnu am yr hyn a ellid ddysgwyl mewn Dadguddiad; a'r tebygol- rwydd a gyfyd oddi wrth Gyfatebiaeth, y cynnwysa, o angenrheidrwydd, bethau yn ym- ddangos yn agored i wrthddadleuon	135
PENNOD IV.—Am Gristionogaeth yn cael ei hystyried fel cynllun neu gyfansoddiad yn cael ei deall yn amher- ffaith	148

CYNNWYSIAD.

PENNOD V.—Am Gyfundrefn Neillduol Cristionogaeth; Ap- pwyntiad Cyfryngwr, a Phrynedigaeth y Byd trwyddo ef	155
PENNOD VI.—Am y diffyg o Gyffredinolrwydd mewn Dadguddiad; a'r diffyg a dybir sydd yn y prawf o'i blaid ...	171
PENNOD VII.—Am y Prawf neillduol o blaid Cristionogaeth ...	186
PENNOD VIII.—Am y Gwrthddadleuon a ellid eu cyfodi yn erbyn ymresymu oddi wrth Gyfatebiaeth Natur at Grefydd	217
Diwedd glo	227









